

**CABINET: DYDD IAU, 19 HYDREF 2023 am 2.00 PM**

---

Bydd Cyfarfod Cabinet yn ae lei gynnl yn YB 4, Neuadd y Sir, Cyfarfod Aml-Leoliad ar am 2.00 pm

---

**A G E N D A**

- 1 Cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Medi 2023 *(Tudalennau 3 - 8)*

**Arweinydd**

- 2 Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Lleoedd mewn Ysgolion Cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd *(Tudalennau 9 - 676)*

**Newid yn yr Hinsawdd**

- 3 Contract Haplogi Cerbydau Fflyd *(Tudalennau 677 - 682)*  
4 Caffael Tanwydd Hylif *(Tudalennau 683 - 688)*

**Addysg**

- 5 Ailddatblygiad Band B Campws Cymunedol Y Tyllgoed *(Tudalennau 689 - 816)*

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

- 6 Tendr ar gyfer Polisiâu Yswiriant y Cyngor gan gynnwys Ymdrin â Hawliadau o 1 Ebrill 2024 *(Tudalennau 817 - 830)*  
7 Adroddiad Cwynion Blyneddol *(Tudalennau 831 - 862)*

**Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol**

- 8 Adroddiad Monitro Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd Blyneddol *(Tudalennau 863 - 1186)*

**PAUL ORDERS**  
Prif Weithredwr

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg**



**CARDIFF COUNCIL  
CYNGOR CAERDYDD****MINUTES**

---

**CABINET MEETING: 21 SEPTEMBER 2023**

---

**Present**

Councillor Huw Thomas (Leader)  
Councillors Peter Bradbury/ Julie Sangani (job share)  
Councillor Jen Burke  
Councillor Dan De'Ath  
Councillors Norma Mackie/ Ash Lister (job share)  
Councillor Sarah Merry  
Councillor Lynda Thorne  
Councillor Chris Weaver  
Councillor Caro Wild

**Observers:**

Councillor Adrian Robson  
Councillor Rodney Berman

**Also:**

**Officers:**

Paul Orders, Chief Executive  
Chris Lee, Section 151 Officer  
Richard Crane, Solicitor  
Sarah McGill, Corporate Director  
Claire Deguara, Cabinet Office

**Apologies:**

**130 MINUTES OF THE CABINET MEETING OF 12 JULY 2023**

The minutes of the Cabinet meeting of 12 July 2023 were approved.

**131 TO RECEIVE THE ECONOMY & CULTURE SCRUTINY COMMITTEE  
INQUIRY REPORT ENTITLED - CARDIFF MUSEUM**

***Cllr Bradbury declared a personal interest in this item.***

Councillor Wong presented the Economy & Culture Scrutiny Committee Inquiry report regarding Cardiff Museum. The Inquiry report has 48 key findings and 19 recommendations.

**RESOLVED:** that the report of the Economy & Culture Scrutiny Committee Inquiry report entitled "Cardiff Museum" be received and a response provided within two cycles.

## 132 SHARED PROSPERITY FUND UPDATE

***Cllr Wild declared a personal and prejudicial interest in this item, Cllr Wild left the meeting during consideration of this item.***

Cabinet received a report providing an update on the delivery of the Shared Prosperity fund. The report details next steps for delivery and highlights a revised delivery plan.

It was noted that the Council has successfully delivered a programme of activity for year one of the Shared Prosperity Fund. This has seen a total of £5,204,258 spent in the period up to the end of March 2023. The report also highlights the additions to the year one profile.

RESOLVED that:

1. the draft Shared Prosperity Fund Programme and Review as set out in Appendix A be approved.
2. Authority be delegated to the Director of Economic Development in consultation with the Leader of the Council, the Section 151 officer and the Monitoring Officer to make minor changes to the approved Shared Prosperity Fund Programme referred to in recommendation 1 above if required following any further discussions with the organisations referred to in paragraph 29.
3. the funding to be allocated for the delivery of the projects identified in paragraphs 30 to 31 be approved.
4. Authority be delegated to the Director of Economic Development to allocate any programme underspends to the Open Call scheme identified in paragraphs 16 to 21.
5. Authority be delegated to the Assistant Director, Housing and Communities to conclude any grant arrangements as a result of the Open Call as outlined in paragraph 21.

## 133 BUDGET MONITORING MONTH 4

The Cabinet received details of the projected 2023/24 financial monitoring position as at the end of July 2023 (Month 4) adjusted for any significant amendments since that date, against the budget approved by Council on 9th March 2023.

It was noted that the Council continues to face unprecedented challenges in terms of financial resilience which will require close monitoring and management during this year and into the medium term. Furthermore, it was reported that the overall monitoring position as at Month 4, reflects a total projected net annual Council overspend of £6.457 million. This position is detailed in Appendix 1 and includes a total directorate net overspend of £7.457 million, partly offset by an underspend against the capital financing budget of £1 million.

It was reported that there was budgetary pressures in several service areas, with the most significant pressures being faced in Children's attributed to the placement costs for the authority's children looked after. Pressures in Economic Development were attributed to income shortfalls, and within Education there are pressures within Home to School Transport, Out of County placements and Catering. It was reported that mitigating actions were being put in place to reduce and offset the impact the overspends.

RESOLVED that

the projected revenue financial outturn based on the projected position at Month 4 2023/24 be noted

the capital spend and projected position at Month 4 2023/24 be noted.

### 134 CORPORATE RISK MANAGEMENT - QUARTER 4 2022/23

The Cabinet received the updated risk management position at quarter 4 for 2022/23. The change to the corporate risk around budget monitoring was noted. It was also noted that Housing & Communities have a new escalated risk on their Directorate Risk Register that monitors the support residents of the city are receiving during the Cost-of-Living crisis which is more relevant in addressing current economic pressures. There is also an escalated risk on Temporary Accommodation which mitigates against many of the risks previously covered in the Welfare Reform risk, which has now been removed.

RESOLVED: that the content and changes proposed going forward in the Corporate Risk Register be noted.

### 135 UPDATE ON THE PROCUREMENT OF A DEVELOPER PARTNER FOR THE CHANNEL VIEW REGENERATION PROJECT.

*Appendices 2a and 2b,3 and 4 are not for publication as they contain exempt information of the description contained in paragraph 14, 16 and 21 of schedule 12a of the local government act 1972.*

***Cllr Ash Lister declared a personal and prejudicial interest in this item and left the meeting during consideration of this item.***

*During consideration of this item, Cllr Lancaster asked a question related to a confidential appendix, the public were excluded from the room and the webcast paused during this discussion.*

Cabinet received a report providing an update on the procurement process for the appointment of a developing partner for the Channel View regeneration project.

The report details the outcome of the tender evaluation exercise, identifies the preferred bidder and sets out the required next steps. It was noted that despite steps taken to encourage participation, only one bid was received.

RESOLVED: that

1. the conclusion of the tender award process for the Channel View regeneration project be approved.
2. Authority be delegated to the Corporate Director People & Communities in consultation with the Cabinet Member Housing and Communities and Cabinet Member for Finance, Modernisation and Performance and Director of Governance and Legal Services / Monitoring Officer and the Section 151 Officer, to appoint the preferred bidder, including:
  - a. Delegating all such matters arising from this report required to conclude the appointment, including matters referenced within the exempt legal advice set out at Appendix 4;
  - b. Approve the final contract wording and enter into the Umbrella Agreement for the whole programme with the preferred bidder;
  - c. Enter into a Joint Construction Tribunal (JCT) 2016 Design & Build contract for Phase 1 following all necessary post tender due diligence and confirmation that the scheme is within viability parameters; and
  - d. Entering into Pre-Contract Services Agreement's (PCSA) for future phases.

## 136 **CARDIFF MARKET**

*Appendices 1, 3, 4, 5, 6 and 7 of this report are not for publication as they contain exempt information of the description contained in paragraphs 14, 16 and 21 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972.*

Cabinet received a report providing an update on the proposals for Cardiff Market and the proposed funding strategy for delivering the proposals. The report highlights the need for significant improvements to the Grace II listed building to ensure that the market is able to continue to operate effectively. Details of thorough tenant engagement, details of the proposed phasing of the works, and the funding strategy are provided within the report

RESOLVED: that

1. the proposals for the redevelopment of Cardiff Market and the funding strategy as set out in the appendices to this report be approved.
2. Authority be delegated to the Director of Economic Development in consultation with the Cabinet Member for Investment & Development, Section 151 Officer and Director Governance and Legal Services / Monitoring Officer, to deal with all matters relating to the redevelopment proposal including the funding application, procurements, and grants in relation to Cardiff market (and any ancillary agreements) as required in relation to this matter.

## 137 LOCAL AUTHORITY SOCIAL SERVICES ANNUAL REPORT 2022/23

Cabinet received the 14<sup>th</sup> Local Authority Social Services Annual Report. The report provides an overview of progress for 2022/2023, details how priorities will be delivered as outlined in the Directorate Delivery Plans for Children's Services and Adult, Housing and Community Services for 2023/24 appended to the report.

The Social Services Annual Feedback report appended to the report summarises the compliments, complaints and representations received by Children's and Adult Services during the year. During 2022/23 there were 685 cases of feedback recorded for Social Services of which 334 were compliments and 351 were complaints. This is a similar position compared with 2021/22.

RESOLVED: that the Local Authority's Social Services Annual Report for 2022/23 be approved for consideration by Council.

## 138 INCREASING THE USE OF DIRECT PAYMENTS FOR THE DELIVERY OF CARE AND SUPPORT

*Appendix 3 to this report is exempt from publication pursuant to Paragraph 16 of Part 4 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972*

Cabinet considered a report providing an update on the work underway to improve access to direct payments for care and support, including the progress in creating a pool of "micro-enterprises" to deliver services in the community. It was noted that supporting the creation of a pool of micro-enterprises will both create additional options for meeting the growing demands for care while also expanding the choice available for service users. It is anticipated that with the creation of micro-enterprises will increase the uptake of direct payments and remove barriers which prevent service users from hiring personal assistants. The report also highlights the proposed new direct payment rate of £16.86 per hour for care and support services provided by micro-enterprises.

RESOLVED: THAT

1. the approach being taken to encourage the use of direct payments, including work to support the development of micro-enterprises to provide care and support and the review that is underway to improve support services for direct payment recipients be noted.
2. a new direct payment rate of £16.86 per hour for care and support services provided by micro-enterprises, to recognise their additional expenses and to ensure sustainability of the services provided be agreed.

## 139 LOCAL LIST OF BUILDINGS OF ARCHITECTURAL OR HISTORIC INTEREST

Cabinet considered a report seeking approval for the first phase review of the Cardiff Local List of Buildings of Architectural or Historic Interest. The report highlights the commitment in Stronger Fairer Greener to protect and celebrate local buildings. It was noted that Planning Policy Wales sets out that planning authorities may develop lists of historic assets of special local interest that do not have statutory protection, the existing Local List contains 202 entries, and was approved by Planning Committee in 1997. The report sets out the local listing selection criteria, it was noted that the results of the first phase review and consultation results will be reported back to Cabinet.

The use of Urgency Action powers to issue an Article 4 direction of the Rompney Castle in Rumney was also noted.

RESOLVED: that

1. the local listing selection criteria (as set out at paragraph 18) be approved for consultation on the first phase review of the local list, the results of which will be reported back to Cabinet for approval.
2. Authority be delegated to the Head of Planning to make, serve and confirm any future Immediate and Non-Immediate Article 4 directions in consultation with the relevant Cabinet Member, and/or Director of Legal Services, Section 151 officer if considered appropriate by the Head of Planning.
3. the use of Urgency Action powers to issue an Article 4 direction in respect of the Rompney Castle, Wentloog Road, Rumney Cardiff CF3 3EB be noted.



**CYNGOR CAERDYDD  
CARDIFF COUNCIL****CYFARFOD Y CABINET: 19 HYDREF 2023**

---

**CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: LLEOEDD MEWN  
YSGOLION CYNRADD I WASANAETHU CATHAYS A RHANNAU  
O GABALFA, Y MYNYDD BYCHAN, YSTUM TAF A  
PHLASNEWYDD****ARWEINYDD (Y CYNGHORYDD HUW THOMAS)****EITEM AGENDA: 1**

---

**Rheswm dros yr Adroddiad hwn**

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Cabinet o'r ymatebion a ddaeth i law yn dilyn yr ymgynghoriad ar gynigion i sefydlu darpariaeth gynradd newydd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd ac i ofyn am awdurdod, lle bo'n briodol, i fwrw ymlaen gyda chyhoeddi'r cynnig yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
2. Mae'r cynigion a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â darpariaeth gymunedol a gynhelir. Bydd yr ymatebion a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn cael eu hystyried gan gorff llywodraethu'r ysgol.
3. Byddai'r newidiadau sefydliadol arfaethedig yn defnyddio cyllid grant cyfalaf Llywodraeth Cymru i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn amodol ar gyllid, cyfalaf ychwanegol gan y Cyngor i gefnogi sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd.

**Cefndir**

4. Yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2023, cytunodd Cabinet y Cyngor ar argymhelliad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau i ehangu darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfuno darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fel a ganlyn:

Opsiwn 1

- Drosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.

- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.
- Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone:
  - Cau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol.
  - Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol.
  - Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda dosbarth meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

### Opsiwn 2

- Drosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.
- Cydleoli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir:
  - Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 (1.5DM) i 210 (1DM).
  - Lleihau ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol.
  - Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96.
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

### Opsiwn 3

- Drosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.

- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM).
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.
- Lleihau capasiti Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd (1.5DM) i 192 o leoedd (0.9DM).

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

5. Byddai opsiwn 2 a 3 yn galluogi rhoi mwy o ystyriaeth i gydweithredu/ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae manteision amlwg i gydweithio neu ffedereiddio ar gyfer ysgolion sydd wedi'u lleoli naill ai ar yr un safle neu yn yr un gymuned gan ei fod yn eu galluogi i gydweithio ar flaenoriaethau a rennir, cronni arbenigedd, gwneud gwell defnydd o adnoddau ac adnabod ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol.
6. Nododd y Cabinet y cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i gynnwys dosbarth meithrin â 32 o leoedd rhan amser ac i drosglwyddo'r ysgol i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan o fis Medi 2025, a rhoddodd gyfarwyddyd i swyddogion i roi pob cymorth rhesymol i Gorff Llywodraethu'r ysgol a fyddai'n ymgynghori ar y cynnig.

## **Materion**

7. Bu cyfnod ymgynghori o 03 Mai 2023 i 30 Mehefin 2023.
8. Roedd y broses ymgynghori yn cynnwys:
  - Cyhoeddi dogfen ymgynghori ddwyieithog yn amlinellu cefndir, rhesymeg a goblygiadau i rieni, darparwyr gofal lleol, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion cyfagos, holl Aelodau'r wardiau lleol a rhanddeiliaid eraill (mae copi o'r ddogfen ymgynghori i'w gweld yn Atodiad 1);
  - Cyhoeddi dogfen gryno ddwyieithog sy'n nodi prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori;
  - Cyhoeddwyd y ddogfen grynhai a'r ffurflen ymateb hefyd mewn naw iaith gymunedol a ddosbarthwyd i rieni yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor (mae hefyd yn bosibl gweld copi o'r ddogfen grynhai yn Atodiad 2);
  - Cyhoeddi Asesiad Effaith Cymunedol sydd ar gael i'w weld yn <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Y-newyddion-diweddaraf-a-sut-i-gysylltu-a-ni/Cyhoeddiadau/ysgolion-gynradd-cathays-gabalfa/Pages/default.aspx>

- Amlinellwyd ar bosteri fanylion y cynigion a'r dyddiadau cyfarfod/galw heibio yn yr ardal leol;
- Cyfarfodydd ymgynghori gyda staff a llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan. (mae modd gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 3);
- Cyfarfodydd ymgynghori gyda chynrychiolwyr disgyblion yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan. (mae modd gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 4);
- Sesiwn gweithdy gyda Dylanwadwyr Caerdydd (mae modd gweld nodiadau o'r cyfarfod yn Atodiad 5);
- Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghanolfan Gymunedol Cathays lle eglurwyd y cynigion ac atebwyd cwestiynau. Roedd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf drwy gyfrwng y Saesneg a'r ail drwy gyfrwng y Gymraeg (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 6);
- Cyfarfod ymgynghori cyhoeddus ar-lein drwy Microsoft Teams lle esboniwyd y cynigion ac atebwyd cwestiynau (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 6);
- Sesiynau galw heibio yn Llyfrgell Cathays lle bu swyddogion ar gael i ateb cwestiynau (gellir gweld nodiadau o'r sesiynau galw heibio yn Atodiad 7);
- Sesiynau galw heibio ar-lein gyda swyddogion ar gael i ateb cwestiynau (gellir gweld nodiadau o'r sesiynau galw heibio ar-lein yn Atodiad 8);
- Sesiynau galw heibio i rieni Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica neu Ysgol Mynydd Bychan (mae modd gweld nodiadau o'r sesiynau galw heibio gyda rhieni yn Atodiad 9);
- Anfonwyd llythyrau i amlinellu manylion y cynigion a sut i ddod o hyd i ragor o wybodaeth at tua 600 o rieni/gwarcheidwaid plant 0 - 3 oed sy'n byw o fewn dalgylchoedd Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan;
- Anfonwyd llythyrau i amlinellu manylion y cynigion a ble i gael mwy o wybodaeth at breswylwyr a busnesau lleol i'r safleoedd yr ysgolion perthnasol i'r newidiadau arfaethedig;
- Anfonwyd llythyrau hefyd i addoldai yn yr ardal leol i roi gwybod iddyn nhw am yr ymgynghoriad, sut y gallent fynegi eu barn a chynnig i gwrdd ag unrhyw grwpiau y maent yn eu cynnal neu sy'n defnyddio eu hadeilad a hoffai gael gwybod mwy am y newidiadau arfaethedig;
- Slip ymateb i'r ymgynghoriad i'w ddychwelyd drwy'r post neu ar e-bost, ynghlwm wrth y dogfennau ymgynghori a'r ddogfen grynhoi (yn cynnwys naw iaith gymunedol);
- Ymgyrch gyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Ffurflen ymateb ar-lein (gan gynnwys fersiynau mewn naw iaith gymunedol) yn: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Y-newyddion-diweddaraf-a-sut-i-gysylltu-a-ni/Cyhoeddiadau/ysgolion-gynradd-cathays-gabalfa/Pages/default.aspx>

9. I randdeiliaid nad oedd ganddynt fynediad at lwyfannau digidol, roedd cyfle ar gael i drafod y newidiadau arfaethedig dros y ffôn.
10. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yng nghyfarfodydd a drefnwyd gan y Cyngor, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn, ac ar bapur neu'n electronig drwy'r sianeli priodol, wedi'u cofnodi.
11. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid â diddordeb drwy gyfrwng arolwg ar-lein a fersiwn copi caled o'r arolwg o fewn y ddogfen ymgynghori a'r ddogfen grynhoi.
12. Mae'r manylion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys yr arolwg ehangach o randdeiliaid, ymatebion ffurfiol, ymatebion e-bost, safbwyntiau a fynegwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio, galwadau ffôn a chyfarfodydd ymgynghori â disgyblion.
13. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr arolygon rhanddeiliaid ehangach yn adlewyrchu'r rhai a godwyd yn yr ymatebion e-bost a gafwyd.

### **Ymatebion a dderbyniwyd am y newidiadau arfaethedig yn ystod y cyfnod ymgynghori**

14. Derbyniwyd cyfanswm o 213 o ymatebion gan gynnwys 188 trwy'r arolwg ar-lein, 18 o ymatebion ffurfiol a 2 ymateb gan gynghorau ysgol a 5 ymateb dros e-bost.
15. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:
  - Ymateb ar y cyd gan Gynghorwyr Sir Ward Gabalfa, y Cynghorwyr Rhys Taylor ac Ashley Wood
  - Y Cynghorydd Sir dros Cathays, y Cynghorydd Chris Weaver
  - Estyn
  - Julie Morgan, Aelod o'r Senedd Gogledd Caerdydd
  - Undeb Addysg Cenedlaethol (UAC)
  - Esgobaeth Llandaf
  - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank
  - Pennaeth Ysgol Gynradd Allensbank
  - Aelodau Uned UAC o Ysgol Gynradd Allensbank
  - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gladstone
  - Pennaeth Ysgol Gynradd Gladstone
  - Staff Ysgol Gynradd Gladstone
  - Pwyllgor Cyllid, Safle ac Iechyd a Diogelwch Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Pwyllgor Safonau Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Pwyllgor Gweledigaeth a Gwerthoedd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Pennaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Mynydd Bychan
  - RhAG – (Rhieni dros Addysg Gymraeg)

16. Amlinellwyd yn ymateb Estyn ei farn bod bob un o'r tri chynnig yn debygol, fan lleiaf, o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.
17. Mae copïau llawn o'r ymatebion ffurfiol yn Atodiad 10.
18. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid â diddordeb drwy gyfrwng arolwg ar-lein a fersiwn copi caled o'r arolwg o fewn y ddogfen ymgynghori.
19. O'r 188 o ymatebion i'r arolwg rhanddeiliaid ehangach, derbyniwyd 121 o ymatebion (64.4%) gan rhanddeiliaid a nododd eu bod yn rhieni/warcheidwaid presennol. Y grŵp nesaf ar ôl hynny oedd 'Aelod o Staff' (16.0) a 'Preswylydd Lleol' (10.6%). O'r 188 ymateb, roedd 56 (34.46%) yn gysylltiedig â disgyblion Ysgol Gynradd Allensbank, 41 (25.3%) gyda disgyblion Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, 32 (19.8%) gydag Ysgol Gynradd Gladstone a 9 (5.6%) gydag Ysgol Mynydd Bychan. Roedd yr ymatebion eraill yn dod gan amrywiaeth o rhanddeiliaid gan gynnwys staff, llywodraethwyr, pobl a fydd yn rhieni/warcheidwaid yn y dyfodol a phartïon eraill â diddordeb.
20. O'r 5 ymateb e-bost a dderbyniwyd, roedd 3 gan rhanddeiliaid a nododd eu bod yn rhieni. O'r rhain, roedd dau yn rhieni i ddisgyblion Ysgol Gynradd Allensbank ac un yn rhiant i ddisgyblion yn Ysgolion Cymraeg Melin Gruffydd a Mynydd Bychan
21. Mae modd gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan bob rhanddeiliad, ac arfarniad o'r safbwyntiau a fynegwyd, yn Atodiad 11.
22. Mae crynodeb ddadansoddol o'r ymatebion a dderbyniwyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 12.

## **Safbwyntiau a Fynegwyd**

### **Arolwg rhanddeiliaid ehangach**

23. Gofynnwyd am farn rhanddeiliaid ar dri opsiwn fel y'u nodir ym mharagraff 4 ac a gyflwynwyd drwy'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor a ffurflenni ymateb yr ymgynghoriad.
24. Dywedodd mwy na hanner (54.3%) yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno ag Opsiwn 1. Mae hyn yn cynyddu i ryw dri o bob pump (61.1%) pan fydd ymatebwyr 'Dim Barn' yn cael eu heithrio o'r dadansoddiad.
25. Dywedodd tua thri o bob pump (58.5%) o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno ag Opsiwn 2. Mae hyn yn cynyddu i bron tri mewn pedwar (72.8%) pan fydd ymatebwyr 'Dim Barn' yn cael eu heithrio o'r dadansoddiad.
26. Dywedodd tri o bob pump (61.2%) o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno ag Opsiwn 3. Mae hyn yn cynyddu i fwy na thri o bedwar (77.7%) pan fydd ymatebwyr 'Dim Barn' yn cael eu heithrio o'r dadansoddiad.

27. Roedd y sylwadau cadarnhaol a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- Roedd rhieni'r holl ysgolion a gynhwyswyd yn y newidiadau arfaethedig yn gefnogol o ysgol eu plant ac yn fodlon ar safon ac ansawdd yr addysg a'r cymorth a ddarperir gan bob ysgol.
- Mae pob un o'r tri opsiwn yn caniatáu ar gyfer ehangu addysg Gymraeg.
- Mae pob un o'r tri chynnig yn cadw'r adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ac y byddan nhw'n parhau i gael eu defnyddio fel ysgolion cynradd.
- Byddai Opsiwn 1 yn datrys diffygion cyllidebol Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ac yn cynnwys buddsoddi adnoddau mewn addysgu a dysgu.
- Cyfuno'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a sefydlu ysgol gynradd 2 ddsbarth mynediad newydd (Opsiwn 1) fyddai'r ateb mwyaf cost-effeithiol gan ganiatáu i fwy o adnoddau fod ar gael ar gyfer addysgu a dysgu a gwell profiad disgyblion; byddai cadw'r pedair ysgol ar agor gyda niferoedd disgyblion yn gostwng yn golygu bod adnoddau'n cael eu hymestyn dros bedwar safle yn lle tri.
- Mae Opsiwn 1 yn lleihau nifer yr ysgolion bach sy'n caniatáu i fwy o adnoddau ariannol gael eu buddsoddi yn addysg pob plentyn yn y ddinas.
- Byddai Opsiwn 1 yn gyfle cyffrous i ddwy ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg ffurfio un ysgol gynradd fwy yn ardal Cathays a fyddai'n sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion o dair oed trwy'r ysgol uwchradd.
- Byddai Opsiwn 1 yn caniatáu i staff rannu arbenigedd ac yn creu mwy o gyfleoedd cydweithredu/datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Gallai staff ychwanegol hefyd ddarparu ystod o arbenigedd a phrofiadau addysgol i ddisgyblion.
- Yn rhan o Opsiwn 1, byddai cymuned yr ysgol gyfan yn cael cyfle i gyfrannu eu syniadau a'u meddyliau i helpu i siapio ysgol eu plentyn ar gyfer y dyfodol e.e. penderfynu ar enw'r ysgol, gwisg ysgol, brandio gan roi perchnogaeth iddynt o'u hysgol yn eu cymuned eu hunain.
- Byddai cael un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg fwy (Opsiwn 1) yn creu mwy o gyfleoedd i deuluoedd ddatblygu cysylltiadau, yn galluogi'r gymuned i gydweithio i godi arian i'r ysgol a chefnogi unrhyw ddiwyddiadau/busnesau lleol.
- Byddai Opsiwn 1 yn darparu lefel o ddiogelwch i'r rhan fwyaf o Staff Allensbank
- Byddai'r newidiadau arfaethedig yn rhoi cyfle i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica dyfu a datblygu (Opsiwn 1 ac Opsiwn 2) gan roi mwy o ddarpariaeth addysg seiliedig ar ffydd i ateb y galw.
- Byddai cyfle i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica gael darpariaeth feithrin a fyddai'n caniatáu i blant ddechrau elwa ar waith da'r ysgol yn gynharach (Opsiwn 1 ac Opsiwn 2).
- Byddai agosrwydd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan yn caniatáu i'r ysgol

gynnal ei chysylltiadau presennol ag Eglwys Sant Mihangel a'r Bwrdd (Opsiw 1 ac Opsiw 2).

- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan (Opsiw 1 ac Opsiw 2) yn gosod yr ysgol mewn ardal Gweinidogaeth Plwyf newydd ac yn darparu lle i'r ysgol gynyddu i ysgol fynediad 0.9 dosbarth a gwella hyfywedd ariannol.
- Mae gan safle a rennir heriau a byddai'r opsiwn o gael safle mawr i'w hun i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn fanteisiol.
- Y cyfle i wella cyfleusterau ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, e.e. gwell llety blynyddoedd cynnar ac ardal awyr agored fwy (Opsiw 1 ac Opsiw 2).
- Byddai darpariaeth y blynyddoedd cynnar wedi ei adnewyddu yn Santes Monica yn cael ei defnyddio'n dda gan ysgol a dosbarth meithrin newydd (Opsiw 1).
- Byddai cydleoeli Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone (Opsiw 2) ar safle a rennir yn caniatáu i ddwy ysgol gymunedol ddod at ei gilydd a chynnig mwy o gyfleoedd cydweithio i staff, disgyblion, teuluoedd a llywodraethwyr. Byddai cael y ddwy ysgol ar un safle yn caniatáu i staff rannu arbenigedd a chreu mwy o gyfleoedd cydweithredu/datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Gallai staff hefyd ddarparu amrywiaeth o arbenigedd a phrofiadau addysgol i ddisgyblion yn yr ysgol. Byddai cyfle i gyfuno adnoddau y gallai'r ddwy ysgol elwa ohonynt.
- Byddai Opsiw 2 yn caniatáu i Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd Allensbank gadw eu hunaniaeth a'u hethos. Pe bai ysgolion yn ffederaleiddio byddai hwn yn gyfle cyffrous i weithio'n agos gyda holl randdeiliaid y ddwy ysgol a'u huno o dan un ymbarél.
- Byddai Opsiw 2 yn rhoi amser i deuluoedd addasu i'r ysgolion yn gweithio ar un safle a byddai'r pontio yn llyfnach pe bai'r ysgolion yn ffedereiddio yn y dyfodol.
- Ni fyddai Opsiw 2 yn cael fawr o effaith ar staffio, ac ni fyddai'n rhaid i'r rhan fwyaf o staff ailymgeisio am eu swyddi, fyddai'n cynnig mwy o sicrwydd swydd.
- Byddai cynnal Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone fel ysgolion ar wahân (Opsiw 2) yn caniatáu i'r ddwy ysgol gadw eu hunaniaeth a pharhad addysg i'w dysgwyr.
- Byddai opsiwn 3 yn lleihau'r tarfu ar staff dwy ysgol, plant a rhieni gan osgoi straen a phryder gormodol. Byddai'n caniatáu i'r pedair ysgol barhau, ysgolion i aros yn annibynnol a chadw eu hunaniaeth. Byddai hefyd yn cael goblygiadau i'r nifer lleiaf o ddisgyblion.

28. Roedd pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- Mae pob un o'r opsiynau yn arwain at symud Ysgol Gynradd Allensbank o'i hadeilad presennol ac ystyriwyd hynny yn annheg. Mae hyn yn awgrymu bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud gan y Cyngor.
- Y canfyddiad bod buddsoddiad mewn addysg Gymraeg yn digwydd ar draul addysg cyfrwng Saesneg.



- Y diffyg tystiolaeth i gefnogi ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Teimlwyd, yng nghyd-destun cwmp nifer y disgyblion a'r tebygolrwydd na fyddai teuluoedd o gefndir Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) yn dewis cyfrwng Cymraeg na fyddai digon o alw i gyfiawnhau ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ysgol dau ddsbarth mynediad.
- Siom am yr hyn a ystyriwyd fel diffyg ymgysylltu ag ysgolion i adnabod atebion cyn i'r cynigion gael eu cyflwyno.
- Dylai'r ystod o opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori fod wedi cynnwys yr opsiwn i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg gael ei lleoli ar safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
- Pryder ynghylch statws rhestredig Ysgol Gynradd Allensbank a'r potensial i'r safle gael ei addasu.
- Yr effaith ariannol bosibl ar Ysgol Mynydd Bychan o feddiannu safle mwy tra bo'r ysgol yn tyfu.
- Anghenion plant a theuluoedd agored i niwed y mae'r Saesneg yn ail iaith iddynt, yr effaith ar les disgyblion, yn enwedig plant ag anghenion dysgu ychwanegol fyddai efallai'n profi anhawster gyda newid a tharfu am gyfnod yn eu haddysg.
- Yr effaith ar staff Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone.
- Yr heriau ynghylch trefniant safle a rennir fel y'i cynigir yn Opsiwn 2.
- Effaith lleoedd meithrin ychwanegol ar y ddarpariaeth bresennol gyda mwy o ysgolion yn cystadlu i lenwi lleoedd ar adeg pan fo'r gyfradd genedigaethau yn gostwng (Opsiwn 1 ac Opsiwn 2).
- Roedd pryderon ynghylch argaeledd staff addysgu a chymorth cyfrwng Cymraeg fyddai eu hangen i gefnogi ehangu addysg Gymraeg.
- Y potensial i ehangu Ysgol Mynydd Bychan gael effaith negyddol ar Ysgol Glan Ceubal; byddai cynyddu lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan yn effeithio'n uniongyrchol ar Ysgol Glan Ceubal.
- Potensial ar gyfer mwy o draffig o amgylch safleoedd yr ysgolion.
- A fyddai cynnydd cyfatebol yn nifer y lleoedd Cymraeg uwchradd i ateb galw yn sgil carfan fwy yn trosglwyddo?
- Colli dwy ysgol sydd â hanes hir o wasanaethu'r gymuned leol. Mae sawl cenhedlaeth o deuluoedd wedi anfon eu plant i Gladstone oherwydd eu bod yn ymddiried y bydd eu plant yn cael addysg gadarnhaol a chynhwysol.
- Roedd pryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau posibl gyda chwestiynau yn codi ynghylch a oes rhaid i Gynghorwyr ddatgan gwrthdaro buddiannau.
- Mynegwyd pryder am gydlyniant cymunedol, a oedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cynrychioli barnau gwirioneddol cymuned Cathays, yn hytrach na barn cymuned bleidleisio dosbarth canol Gwyn, Cathays. Mae perygl i'r gymuned ganfod bod plant gwyn, dosbarth canol yn cael eu trin yn well na phlant eraill, a allai achosi rhaniad.

29. Gwnaed nifer o awgrymiadau gwahanol hefyd ar ddarparu lleoedd mewn ysgolion cynradd.
30. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:
- Peidio â gwneud dim byd; cadw'r ysgolion fel y maen nhw.
  - Cyfuno darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank gyda darpariaeth cyfrwng Gymraeg ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
  - Gallai Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone rannu safle presennol ysgol Allensbank gyda darpariaeth Gymraeg ar safle wedi'i rannu Gynradd Gladstone a Santes Monica.
  - Y ffordd orau o ehangu Ysgol Mynydd Bychan yw adeilad ysgol newydd sy'n darparu adnoddau, seilwaith a'r amgylchedd sydd eu hangen i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel a chyfoethog. Ymhlith y lleoliadau posib mae safle presennol Ysgol Uwchradd Cathays neu ar ofod gwag ar safle Tŷ'r Cwmnïau. Gellid gwerthu adeilad presennol yr ysgol i'w ailddatblygu i dai gyda'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr ysgol newydd.
  - O chwilio am leoliad yn Cathays neu'n nes at ganol y ddinas, ar safle ysgol wahanol ar gyfer lleoedd Cymraeg ychwanegol; mae saith ysgol cyfrwng Saesneg gwahanol yn ardaloedd y Rhath/Adamsdown/Canol Dinas y ddinas a does dim ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd hyn felly gellid ystyried un o'r rhain.
  - Newid dalgylchoedd yr Ysgolion Cymraeg Mae angen i dwf cyfrwng Cymraeg fod trwy ddewis. Ni fydd chwaith yn helpu addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yng Nghaerdydd i gael ysgolion Cymraeg yn methu oherwydd problemau cyllido. Mae creu cystadleuaeth ymhlith ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion, er mwyn bod yn hyfyw, yn mynd i niweidio addysg cyfrwng Cymraeg.
  - Cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg lle mae ei angen e.e. datblygiadau CDLI.
  - Cyfuno Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Glan Ceubal.
  - Dylid rhannu darpariaeth maes chwarae i bawb ar yr ysgol a gynhwysir yn yr ymgynghoriad; Mae'r rhain yn ysgolion dinesig mewn amgylchedd trefol, ond mae angen eu man gwyrdd eu hunain arnynt (naill ai caeau chwarae glaswellt neu gae astroturf da).
  - Cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â heriau symudedd disgyblion i helpu gyda chynllunio a darparu sefydlogrwydd ariannol.
  - Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank a chreu ysgol ddwyieithog.
  - Cynyddu'r capasiti yn Ysgol Glan Ceubal.
  - Ystyried opsiynau i greu ffederasiwn ysgolion, byddai hynny'n caniatáu i ethos a dulliau unigol o addysgu a dysgu gael eu cadw a'u rhannu, tra'n parhau i ail-ddyrannu ac ail-gydbwysu lleoedd ysgol yn y sector cyfrwng Saesneg.
  - Datblygu cyfleoedd i'r sgiliau Cymraeg i'r rhai y tu hwnt i leoliadau cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

- Ysgol newydd i'r plant ieuengaf tra'n caniatáu i ddisgyblion Ysgol Gynradd bresennol Gladstone ac Ysgol Gynradd Allensbank aros ar wahân.
- Lleoli darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar safle Ysgol Gynradd Albany.
- Gwella addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

### **Cynrychiolaeth disgyblion**

31. Cafodd swyddogion gyfarfod â disgyblion yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan i ddeall eu safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig.
32. Cafodd y sesiynau eu cynnal gan ddefnyddio rhaglen gyflwyno ryngweithiol Mentimeter a oedd yn caniatáu i ddisgyblion roi eu barn/safbwyntiau gan ddefnyddio arolygon byw, cymylau geiriau, cwestiynau ac ati. Gellir gweld nodiadau o'r sesiynau yn Atodiad 4.

### **Ysgol Gynradd Allensbank**

33. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 20 disgybl yn Ysgol Gynradd Allensbank i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.
34. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys y canlynol:
  - Opsiwn 1 - dywedodd 47% nad oedden nhw'n hoffi hwn o'i gymharu ag 16% a ddywedodd eu bod yn ei hoffi. Roedd 21% yn ei hoffi'n rhannol, nid oedd gan 16% unrhyw farn.
  - Opsiwn 2 - dywedodd 57% nad oedden nhw'n hoffi'r opsiwn hwn, dywedodd 14% eu bod yn ei hoffi, roedd 29% yn ei hoffi'n rhannol.
  - Opsiwn 3 - dywedodd 94% nad oedden nhw'n hoffi'r opsiwn hwn, dywedodd 6% eu bod yn ei hoffi.
35. Roedd y sylwadau a wnaed yn ymwneud ag Opsiwn 1 yn gymysg ac yn cynnwys y canlynol:
  - Cadarnhaol - Cyfle i gwrdd â mwy o ffrindiau, yn dda i ddisgyblion Ysgol Mynydd Bychan, yn haws i'r Cyngor reoli un ysgol fawr, yn dda am y bydd yn creu mwy o leoedd ysgol.
  - Llai cadarnhaol a phryderon - Mwy o deithio, ddim yn deg i ddisgyblion Gladstone ac Allensbank i rannu'r gofod, nid yw'n angenrheidiol am fod Saesneg yn iaith fyd-eang, yn drist na fydd myfyrwyr iau yn cael yr un profiad â disgyblion blaenorol Allensbank, gallent golli ffrindiau os yw'r dosbarthiadau'n gymysg â disgyblion Gladstone.
36. Roedd y sylwadau a wnaed yn ymwneud ag Opsiwn 2 yn negyddol ar y cyfan ac yn cynnwys y canlynol:

- Nid wyf eisiau symud.
  - Gallai llai o le i chwarae effeithio ar iechyd meddwl disgyblion Allensbank.
  - Pam symud dim ond i gael ysgol Gymraeg pan mae'r Gymraeg ond yn cael ei siarad mewn un wlad.
  - Ni fydd disgyblion iau yn cael profi'r un pethau.
37. Opsiwn 3 oedd y canlyniad lleiaf ffafriol. Roedd y sylwadau a wnaed yn ymwneud â'r opsiwn hwn yn cynnwys:
- Maint llai adeiladau a maes chwarae Ysgol Mynydd Bychan o'i gymharu â safle Allensbank.
  - Roedd hi'n annheg bod nifer llai o ddisgyblion sydd yn Ysgol Mynydd ar hyn o bryd yn mynd i etifeddu'r gofod mwy yn Allensbank.
  - Er nad oeddent yn hoffi'r opsiwn hwn, byddai'n amharu llai ar fyfyrwyr yn yr ysgolion eraill.

### Ysgol Gynradd Gladstone

38. Cyfarfu swyddogion â grwpiau blwyddyn 4, 5 a 6, cyfanswm o tua 70 disgybl yn Ysgol Gynradd Gladstone i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn. Mae'r crynodeb isod yn ymateb ar y cyd ar draws y grwpiau blwyddyn hyn.
39. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys y canlynol:
- Opsiwn 1 - dywedodd 48% eu bod yn hoffi hwn o'i gymharu â 33% a ddywedodd nad oeddent yn ei hoffi. Roedd 16% yn ei hoffi'n rhannol, nid oedd gan 3% unrhyw farn.
  - Opsiwn 2 - dywedodd 47% nad oedden nhw'n hoffi'r opsiwn hwn, dywedodd 36% eu bod yn ei hoffi, roedd 10% yn ei hoffi'n rhannol ac nid oedd gan 7% unrhyw farn.
  - Opsiwn 3 - dywedodd 57% eu bod yn hoffi'r opsiwn hwn gyda 31% yn dweud nad oeddent yn ei hoffi. Rhannwyd y 12% oedd yn weddill yn gyfartal rhwng dim barn neu ei hoffi'n rhannol.
40. Roedd y sylwadau a wnaed yn ymwneud ag Opsiwn 1 yn cynnwys adborth cadarnhaol ynghylch y cyfleoedd i wneud mwy o ffrindiau, tra bod yr adborth llai cadarnhaol yn cynnwys pryderon ynghylch newid enw neu eisiau i bethau aros yr un peth.
41. Roedd y sylwadau'n ymwneud ag Opsiwn 2 yn debyg i Opsiwn 1 ond yn cynnwys nifer o atebion cymharol fel: Mae'n well gennyf Opsiwn 1; neu rwy'n hoffi hwn yn well nag Opsiwn 1.
42. Roedd gwrthdaro ymysg y grŵp hwn o ddisgyblion ynghylch a fyddai Opsiwn 1 neu Opsiwn 2 yn well i'w hysgol.
43. Roedd sylwadau'n ymwneud ag Opsiwn 3 yn ddatganiadau o fath da neu ddrwg yn bennaf. Fodd bynnag, roedd y teimlad cyffredinol yn gymysg, gyda rhai yn teimlo na fyddai'r newidiadau yn effeithio arnynt o gwbl, tra bod eraill yn teimlo y byddai hyn yn annheg.

## **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica**

44. Cyfarfu swyddogion â grŵp o 50 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica o flwyddyn 4, 5 a 6 i drafod y cynigion a chasglu eu barn; ni wnaeth pob disgybl ateb pob cwestiwn.
45. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys y canlynol:
- Opsiwn 1 - dywedodd 62% o'r disgyblion eu bod yn hoffi'r opsiwn hwn o'i gymharu â 6% a ddywedodd nad oeddent yn ei hoffi; roedd 12% yn ei hoffi'n rhannol, nid oedd gan 20% unrhyw farn.
  - Opsiwn 2 - dywedodd 38% eu bod yn hoffi'r opsiwn hwn, dywedodd 16% nad oeddent yn ei hoffi; roedd 31% yn ei hoffi'n rhannol, nid oedd gan 15% unrhyw farn.
  - Opsiwn 3 - Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn erbyn yr opsiwn hwn, gyda 56% yn dweud nad oeddent yn ei hoffi; dim ond 12% ddywedodd eu bod yn ei hoffi, roedd 20% yn hoffi rhannau ohono, nid oedd gan 12% unrhyw farn.
46. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed am Opsiwn 1 yn gadarnhaol - rwy'n credu ei fod yn syniad da, rwy'n credu y byddai'n dda cael maes chwarae mwy, byddai mwy o ddisgyblion yn cael dod i Santes Monica, bydden ni'n cael ysgol fwy, byddai'n braf cael dosbarth meithrin, bydden ni'n cael addysg gwell.
47. Roedd yna sylwadau eraill, er eu bod yn hoffi'r syniad, y byddent yn gweld eisiau eu hysgol ac roeddent yn teimlo y gallai fod yn rhaid i rai pobl deithio ymhellach, fyddai'n annheg arnyn nhw.
48. Ar y cyfan, roedd y sylwadau am Opsiwn 2 yn llai ffafriol nag Opsiwn 1 gyda sawl ymatebydd yn nodi bod Opsiwn 1 yn well. Dywedodd llawer o sylwadau ei fod yn 'iawn' yn hytrach na da ac ymatebodd cryn dipyn nad oeddent yn siŵr. Dim ond 2 allan o 50 ateb a ddywedodd y byddai Opsiwn 2 yn well nag Opsiwn 1.
49. Nid oedd y disgyblion yn hoffi Opsiwn 3 gan eu bod yn teimlo ei fod ond yn deg i bawb gyfnewid, ac na fyddai Santes Monica yn elwa ar niferoedd uwch ar gyfer dosbarth meithrin nac ysgol a maes chwarae mwy.

## **Ysgol Mynydd Bychan**

50. Cyfarfu swyddogion â disgyblion Ysgol Mynydd Bychan i drafod y cynigion a chasglu eu barn. Cymerodd grŵp o 20 o ddisgyblion ran yn y sesiwn a gynhaliwyd trwy gyfrwng y Gymraeg.
51. Amlinellir y pwyntiau a godwyd isod:
- Opsiwn 1 - dywedodd 35% eu bod yn hoffi hwn o'i gymharu â 10% a ddywedodd nad oeddent yn hoffi'r opsiwn hwn, roedd 40% yn ei hoffi'n rhannol, nid oedd gan 15% unrhyw farn.

- Opsiwn 2 - dywedodd 35% nad oedden nhw'n hoffi'r opsiwn hwn, dywedodd 20% eu bod yn ei hoffi, roedd 40% yn ei hoffi'n rhannol, nid oedd gan 5% unrhyw farn.
  - Opsiwn 3 - dywedodd 95% nad oedden nhw'n hoffi'r opsiwn hwn, dywedodd 5% eu bod yn ei hoffi.
52. Roedd y sylwadau a wnaed yn ymwneud ag Opsiwn 1 yn gymysg ac yn cynnwys y canlynol:
- Cadarnhaol – Mae'n gyfle gwych i fwy o blant gael addysg Gymraeg os yw Ysgol Mynydd Bychan yn fwy o faint. Bydd gan bob ysgol fwy o le, fydd yn deg o ran lleoedd Cymraeg a Saesneg. Rwy'n credu y bydd hyn yn helpu i ddatblygu'r Gymraeg yn ein hardal ni am y bydd pob plentyn yn cael cyfle i fynd i ysgol Gymraeg.
  - Llai Cadarnhaol - Mwy o amser teithio, rydym yn hoffi'r adeilad hwn. Dylai Ysgol Mynydd Bychan aros yn yr un lle.
53. Roedd llawer o ddisgyblion heb fynegi barn am Opsiwn 1 a dywedasant 'does gen i ddim barn'.
54. Roedd y sylwadau a wnaed yn ymwneud ag Opsiwn 2 yn gymysg ar y cyfan, dechreuodd llawer o'r disgyblion gymharu Opsiynau 1 a 2 gan gynnwys y sylwadau canlynol:
- Mae Dewis 2 yn opsiwn da i Ysgol Mynydd Bychan ond nid i'r ysgolion eraill, os ydym am fod yn deg yna mae opsiwn 1 yn well.
  - Rwy'n hoffi'r opsiwn hwn ond efallai na fydd rhai o'r plant yn yr ysgolion eraill yn ei hoffi.
  - Rwy'n casáu'r opsiwn hwn.
  - Rwy'n hoffi'r opsiwn hwn.
  - Dwi'n hoffi'r ffaith y bydd mwy o blant yn cael cyfle i siarad Cymraeg.
  - Heb amheuaeth, nid wyf yn cytuno ag Opsiwn 2 am ei fod yn rhy gymhleth ac nid oes digon o le i bob ysgol.
  - Efallai y bydd rhieni o ysgolion Saesneg yn hoffi opsiwn 2 am y bydd yr ysgolion yn cadw'r un enw a gwisg ysgol.
55. Nid oedd gan lawer o'r disgyblion unrhyw farn am Opsiwn 2 a dywedasant 'does gen i ddim barn'.
56. Opsiwn 3 oedd y canlyniad lleiaf ffafriol. Dechreuodd llawer o'r disgyblion gymharu pob un o'r 3 opsiwn. Roedd y sylwadau a wnaed yn ymwneud â'r opsiwn hwn yn cynnwys:
- Nid yw Opsiwn 3 yn syniad da gan mai'r unig ysgol sy'n mynd i fanteisio yw ein hysgol ni, sy'n dda i ni ond nid i unrhyw ysgol arall.
  - Heb os, rhaid meddwl am opsiwn 3 ond rwy'n credu y bydd y newid hwn yn annheg i blant Allensbank gan nad oes llawer o blant yn gallu mynd i Allensbank.

- Dwi'n ddirmygus o'r opsiwn yma achos mae maes chwarae Allensbank yr un maint â maes chwarae Ysgol Mynydd Bychan ac yn fy marn i dyna'r cyfan sy'n bwysig.
- Yn fy marn i, rwy'n credu na fydd opsiwn 3 yn cael llawer o effaith.
- Yn fy marn i, dwi ddim yn meddwl ei fod yn deg i Santes Monica achos dydyn nhw ddim yn gallu cael dosbarth meithrin
- Yn fy marn i fe ddylen ni gael adeilad newydd sbon gydag iard fawr a mwy o bobl i siarad Cymraeg, a neuadd fawr.

57. Roedd bron pob disgybl yn teimlo nad oedd Opsiwn 3 yn deg i naill ai Ysgol Gynradd Allensbank neu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

### **Ymatebion y Cyngor Ysgol**

58. Yn ogystal â'r sesiynau ymgysylltu â disgyblion, derbyniwyd dau ymateb gan y Cyngor Ysgol, un o Ysgol Gynradd Allensbank a'r llall o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

59. Teimlai Cyngor Ysgol Gynradd Allensbank ei bod yn annheg nad oedd opsiwn i'r ysgol aros ar ei safle presennol ac awgrymodd fod Ysgol Gynradd Gladstone yn ymuno â nhw gan fod digon o le i ysgol gynradd dwy ddsbarth mynediad.

60. Roedd Cyngor Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn cefnogi Opsiwn 1 gan y byddai hyn yn caniatáu i'r ysgol gael darpariaeth feithrin gyda'r manteision cysylltiedig ac i'r ysgol dyfu. Roedden nhw hefyd yn teimlo y byddai safle Ysgol Mynydd Bychan yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau gwell.

61. Mae copïau o'r ymateb llawn yn Atodiad 4.

### **Dylanwadwyr Caerdydd**

62. Mae Dylanwadwyr Caerdydd yn grŵp o ddysgwyr ysgolion uwchradd Caerdydd sy'n rhoi mewnbwn yn ystod penderfyniadau ar gynllunio trefniadaeth ysgolion.

63. Cyfarfu deuddeg aelod o'r grŵp ar 01 Mehefin 2023 i drafod y newidiadau arfaethedig yn narpariaeth ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

64. Roedd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniad o'r opsiynau arfaethedig, taith gerdded yn y gymuned (gan ddechrau ar safle Ysgol Mynydd Bychan, cerdded i safle Ysgol Gynradd Allensbank a cherdded oddi yno i safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica cyn dychwelyd i Neuadd y Ddinas).

65. Dilynyd hyn gan drafodaeth ar bwy fyddai'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt, a manteision ac anfanteision pob opsiwn. Yna

gweithiodd y Dylanwadwyr mewn grwpiau i baratoi datganiadau yn nodi eu barn ar y newidiadau arfaethedig.

### **Adborth Dylanwadwyr Caerdydd ar y newidiadau arfaethedig**

66. Mae'r wybodaeth isod yn grynodedb o adborth y grŵp. Mae copïau o ddatganiadau adborth Dylanwadwyr Caerdydd wedi'u cynnwys ar ddiwedd y crynodeb.
67. Roedd naw o'r deuddeg Dylanwadwr yn ffafrio Opsiwn 1.
68. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys:
- *Byddai gan bob ysgol ddarpariaeth feithrin sy'n fuddiol i'r gymuned.*
  - *Gall sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica gynyddu'r tebygolrwydd y bydd rhieni'n anfon eu plant i'r ysgol.*
  - *Byddai'n mynd i'r afael â'r diffyg yng nghyllideb y ddwy ysgol gynradd cyfrwng Saesneg (Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone).*
  - *Byddai Ysgol Mynydd Bychan yn tyfu i fod yn ysgol dau ddosbarth mynediad gan ganiatáu i fwy o blant gael mynediad at addysg Gymraeg.*
  - *Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn cefnogi amcanion Cymraeg 2050.*
  - *Gwerthfawrogwyd bod cysylltiad emosiynol ag Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone, ond byddai uno'r ddwy ysgol yn caniatáu darpariaeth gynaliadwy o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal a chyfle i gyfuno diwylliannau'r ddwy ysgol, gan gryfhau cysylltiadau o fewn y gymuned leol.*
  - *Gall ysgolion mwy o faint ddenu penaethiaid profiadol o safon ond deallir y gallai'r penaethiaid presennol gael eu diswyddo.*
  - *Gall ysgol fwy o faint gynnig mwy o arbenigedd gan fod mwy o staff ac ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol ar gael.*
  - *Byddai ysgolion mwy o faint yn rhoi mwy o werth am arian, gellir gwario arian ar offer effeithiol, athrawon ac ati.*
  - *O gau Ysgol Gynradd Allensbank a Gladstone a dileu swyddi staff, byddai'r ysgolion yn colli eu profiad a'u gallu addysgol, ond mae'r Cyngor yn cynnig adleoli staff drwy roi cyfweliadau iddynt yn yr ysgol cyfrwng Saesneg newydd ei ffurfio neu ar gyfer swydd arall sydd ar gael yn y ddinas.*
  - *Mae cau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn rhoi'r Penaethiaid mewn perygl o gael eu diswyddo.*
  - *Efallai y bydd diffyg parhad i rai o'r plant gan y byddai ysgol newydd yn trefnu staff yn wahanol a allai fod yn brofiad ansefydlog iddynt.*
69. Ni chefnogwyd Opsiwn 2 gan unrhyw un o'r Dylanwadwyr, ac roeddent yn credu nad oedd llawer o fanteision i gynnal y gost o redeg dwy ysgol



ar un safle; Yn ogystal, byddai sefyllfa diffyg Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn parhau heb unrhyw ffordd glir o wella.

70. Cefnogwyd Opsiwn 3 gan dri o'r deuddeg Dylanwadwr.

71. Roedd y sylwadau a wnaed am Opsiwn 3 yn cynnwys:

Manteision:

- *Mae'n caniatáu i Ysgol Gynradd Allensbank ddod yn ysgol un dosbarth mynediad (dau ddosbarth mynediad ar hyn o bryd gyda mwy o gyflenwad na'r galw) a pheidio â cholli arian mwyach. Mae ysgol gynradd Allensbank yn colli arian oherwydd ei bod yn talu am gyfleusterau ar gyfer 2 ddosbarth mynediad, a dim ond yn derbyn digon o fyfyrwyr i 1 dosbarth mynediad bob blwyddyn.*
- *Mae opsiwn tri yn achosi llai o darfu nag opsiwn un tra'n dal i gynnig manteision i'r ddwy ysgol gan gynnwys:*
  - *Ni fyddai unrhyw athrawon yn colli eu swydd.*
  - *Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan yw'r agosaf at ei gilydd o'r pedair ysgol. (Heddiw fe gerddon ni o Allensbank i Ysgol Mynydd Bychan mewn dau funud).*
  - *Ni fyddai unrhyw newidiadau negyddol mewn cyflogau i unrhyw staff a byddai'r pennaeth yn Ysgol Mynydd Bychan yn ennill cynnydd sylweddol mewn cyflog. Ar ben hynny, byddai cyfleoedd gwaith newydd â gofyniad i siarad Cymraeg yn sgil yr opsiwn hwn.*
  - *Yn olaf, efallai na fydd rhai rhieni, myfyrwyr ac aelodau'r gymuned o amgylch y pedair ysgol eisiau iddynt gau a chreu ysgol newydd. Gall yr ysgolion hyn olygu llawer iawn i aelodau'r gymuned a gallent frwydro yn erbyn cau'r ysgolion fel y cynigir yn opsiwn un.*

Anfanteision:

- *Bydd dyled Ysgol Gynradd Allensbank yn parhau. Fodd bynnag, bydd yr adeilad llai yn caniatáu i hynny wella yn y pen draw, er efallai bydd angen peth amser.*
  - *Yn ogystal, bydd Ysgol Mynydd Bychan yn wynebu rhai anawsterau ar y dechrau oherwydd y nifer is o fyfyrwyr o gymharu â'r lle sydd ar gael. Ond oherwydd y galw am leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan byddai'r diffyg dysgwyr yn llenwi.*
72. Nod y newidiadau arfaethedig yw cynyddu nifer y lleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal. Mae'r newidiadau hefyd yn adlewyrchu'r heriau cyllidebol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Er y gallai fod heriau i Ysgol Mynydd Bychan yn y tymor byr o orfod cynnal adeilad mwy o faint tra bod y nifer yn tyfu, mae'r ysgol mewn sefyllfa ariannol dda.

## Ymateb i sylwadau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad

73. Mae'r Cyngor yn croesawu'r farn gadarnhaol a gyflwynir gan rieni, disgyblion, ysgolion a rhanddeiliaid ehangach mewn perthynas â phob un o'r ysgolion sy'n destun newidiadau arfaethedig.
74. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi cymorth i ddysgwyr mwyaf bregus Caerdydd, gan gynnwys plant mewn gofal, y rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol a phlant o'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf a bod pob plentyn yn cael addysg wych drwy eu dewis cyfrwng iaith.
75. Mae sicrhau bod cyllid ar gyfer addysg yn cael ei dargedu tuag at brofiadau a chyfleoedd dysgu ochr yn ochr â chymorth i deuluoedd yn hollbwysig. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn ysgolion a rhaid iddo hefyd gefnogi pob ysgol i barhau i wella addysg eu holl ddysgwyr.
76. I gyflawni hyn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cydbwysedd priodol yn y nifer a mathau o leoedd ysgol sy'n gwasanaethu pob ardal, gyda lefel ddigonol o leoedd dros ben. Rhaid i bob darpariaeth ysgol a gynigir ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rhaid i'r Cyngor wneud y mwyaf o botensial ei staff addysgu a dysgu er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'u talent, a thrwy hynny sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfleoedd a deilliannau dysgwyr ar gyfer pawb.
77. Cydnabyddir bod pryderon ynghylch pob un o'r opsiynau. Fodd bynnag, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i bob dysgwr. Nid yw cadw'r patrwm presennol o ddarpariaeth ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal leol yn darparu'r patrwm mwyaf priodol o ddarpariaeth mewn ardal ddaearyddol fechan.
78. Cyrhaeddodd y niferoedd derbyn i'r dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion cynradd ledled y ddinas ei anterth ar tua 4,370 o ddisgyblion yn 2015/16 a 2016/17. Mae hyn yn cyfateb i frig y cyfraddau geni a gofnodwyd bum mlynedd ynghynt. Ar yr adeg pan oedd y niferoedd ar eu huchaf, cadwodd Caerdydd tua 8% o leoedd gwag.
79. Ers 2017/18, mae gostyngiad parhaus wedi bod yn y gyfradd enedigaethau, a newidiadau i batrymau mudo yn y ddinas. Felly mae niferoedd derbyn cynradd ledled y ddinas wedi disgyn yn sylweddol a byddan nhw'n parhaui fod yn isel tan o leiaf Medi 2025. Fodd bynnag, nid yw newidiadau poblogaeth yr un peth ym mhob rhan o'r ddinas.
80. Gan fod rhieni'n gallu nodi eu hysgolion o ddewis, byddai rhai ysgolion yn parhau i gael niferoedd newydd uchel. I ysgolion eraill fe fydd yr effaith ar niferoedd disgyblion yn llawer mwy nag ar gyfartaledd ledled y ddinas.
81. Mae ysgolion yn derbyn y rhan fwyaf o'u hincwm ar sail niferoedd y disgyblion ar y gofrestr. Bydd gostyngiad yn nifer y disgyblion yn cael effaith fawr ar gyllidebau rhai ysgolion. Mae hynny'n effeithio ar y cyfleoedd addysgu a dysgu y gall yr ysgolion hynny eu cynnig.

82. Mae'r fformiwla ariannu ysgolion yn seiliedig ar gyllid fesul disgybl a nifer o gyfandaliadau fesul ysgol. Mae cyllid fesul disgybl yn gyffredinol uwch mewn ysgolion llai oherwydd costau'r pennaeth a chostau sefydlog eraill yn sgil nifer is o ddisgyblion.
83. Byddai gostyngiad yn nifer yr ysgolion yng Nghaerdydd felly yn caniatáu lleihau dyraniadau o gyfandaliadau i ysgolion, a byddai'r arian hyn yn cael ei ail-ddosbarthu i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido.
84. Yn gyffredinol, gall ysgolion mwy o faint hefyd sicrhau gwell gwerth am arian drwy arbedion maint mewn nifer o feysydd gan gynnwys rheoli contractau ac o bosibl yn eu strwythur staffio. Gellir gwireddu rhai o fanteision un ysgol fwy drwy ffederasiwn ffurfiol o gyrrff llywodraethu neu gytundebau cydweithio rhwng ysgolion, gyda strwythurau staffio mwy effeithlon.
85. 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg' yw strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n amlinellu'r dull hirdymor o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
86. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. O fewn eu cynllun, mae'n rhaid iddyn nhw osod targed deng mlynedd ar gyfer y cynnydd disgwylidig ym mhiant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y targed a osodwyd i Gaerdydd gan Lywodraeth Cymru yw bod rhwng 25 a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031. Ar hyn o bryd, oddeutu 18% y mae'r ffigur hwn.
87. Mae'r Cyngor wedi diystyru'r posibilrwydd o beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg gan na fyddai hynny'n gwireddu'r buddion addysg na'r buddion ariannol i'r ysgolion perthnasol, ac ni fyddai'n caniatáu datrysiad lleol i ordanysgrifiad Ysgol Mynydd Bychan.
88. Mae'r nifer presennol o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgolion Albany, Allansbank a Gladstone yn ddigon i ddarparu ar gyfer y galw am leoedd a ragamcennir yn yr ysgolion hyn ac yn cadw lefel uchel o leoedd gwag i ymateb i unrhyw amrywiad posibl neu gynnydd hirhoedlog yn y galw, a'r lefelau uchel o symudedd disgyblion yn yr ardal. Ni fyddai nifer y lleoedd sydd ar gael i fynnychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn newid o dan Opsiwn 1 nac Opsiwn 2.
89. Rhaid i'r cynigion a gyflwynir sicrhau bod twf ysgolion yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid lleihau'r effaith negyddol bosibl ar ysgolion eraill.
90. Mae pryderon wedi eu mynegi ynghylch yr effaith bosib ar Ysgol Glan Ceubal yn sgil cynlluniau arfaethedig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan.
91. Byddai cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan ar gyfer plant o fewn ei dalgylch yn golygu y byddai nifer y plant

yn yr ardal sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lleol yn lleihau. Byddai cynnydd yn y nifer fyddai'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o'r tu allan i'w dalgylch yn golygu y byddai'r nifer fyddai'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill, mewn rhannau eraill o'r ddinas, yn debygol o leihau.

92. Gallai newidiadau i ddalgylchoedd roi cydbwysedd rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael, a'r galw a ragwelir am leoedd, a byddai'n caniatáu cynnydd cyfyngedig yn y nifer sy'n derbyn y cynnig.
93. Fodd bynnag, ni fyddai'r lefel a ragwelir o leoedd gwag yn ddigonol i gynyddu'r nifer a ymgwymerir i addysg Gymraeg yn sylweddol yn y tymor hwy, er mwyn bodloni twf wedi'i dargedu Caerdydd fel y'i nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) sydd wedi'i gymeradwyo yng Nghaerdydd.
94. Nid oes digon o le ar safle presennol Ysgol Mynydd Bychan i ganiatáu ar gyfer ehangiad ar y safle. Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau eraill o ran safle a allai fod ar gael ac sydd wedi'i lleoli'n ganolog yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan, ac nid oes safle addas ar gael yn yr ardal leol i'r ysgol a allai ddarparu ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan.
95. Mae digon o gapasiti yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr Allensbank ac wedi rhannu safleoedd Gladstone/Santes Monica yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai ad-drefnu darpariaeth yn ffordd briodol o gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal, a byddai'n ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau. Byddai hyn hefyd yn cadw hyblygrwydd yn yr ystâd ysgolion er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol sy'n effeithio ar yr ardal.
96. Bu'r Cyngor yn ymgynghori yn flaenorol ar gynnig i ddarparu balans priodol o leoedd ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.
97. Fe wnaeth y Cyngor hefyd ofyn am farn ar newidiadau hirdymor i'r ddarpariaeth ysgolion er mwyn cynnig balans priodol o leoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal. Er bod cefnogaeth gyffredinol i ehangu addysg Gymraeg, dangosodd yr ymgynghoriad nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys Prifathrawon a Chyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan, yn cefnogi cynllun i ehangu Ysgol Mynydd Bychan dros dro fel y'i cynigiwyd.
98. Aeth y cynigion diwygiedig a oedd yn destun ymgynghoriad i'r afael â'r problemau a sbardunodd y cynigion cynharach, gan roi ystyriaeth i'r problemau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cynharach.
99. Mae ad-drefnu darpariaeth yn ffordd briodol o gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal,

a byddai'n ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau. Byddai ad-drefnu hefyd yn cadw hyblygrwydd yn yr Ystâd Ysgolion er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth sy'n effeithio ar yr ardal yn y dyfodol.

100. Byddai aildrefnu darpariaeth cyfrwng Saesneg ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn beth da o ran parhau i ddatblygu addysg o ansawdd uchel i bob disgybl drwy:
- Gynnig mwy o gyfleoedd o fewn ysgolion mwy o faint/ysgolion ffederal i staff rannu llwyth gwaith ac arbenigedd.
  - Mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. athrawon newydd gymhwyso all arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog
  - Cyfleoedd i staff addysgu yn ôl eu cryfderau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiad addysg gorau posib.
  - Nifer uwch o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a Chymhwysedd Digidol.
  - Mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol/cyfoethogi.
  - Helpu i godi safonau trwy rannu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm, arweinyddiaeth ysgolion a rhoi camau ar waith ar y cyd i fynd i'r afael â materion allweddol fel cynhwysiant.
  - Galluogi arferion da, deunyddiau paratoi ac adnoddau.
  - Gwella cyfleoedd gweithgareddau i ddisgyblion gan arwain at wella ansawdd dysgu staff a disgyblion.
  - Mwy o gyfleoedd i Gyngor yr Ysgol a chyfleoedd datblygu disgyblion (yn academaidd ac yn gymdeithasol).
  - Caniatáu trefniadau traws gyfnod.
  - Symleiddio polisïau a strwythurau.
  - Cefnogi gwelliant ysgolion drwy alluogi ysgolion i alw ar adnoddau ysgolion eraill i fynd i'r afael â phroblemau, rhannu arbenigedd, codi disgwyliadau a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.
  - Rhoi cyfle i fanteisio ar arbedion maint a rhannu gwasanaethau ar draws yr ysgolion.
  - Posibilrwydd o recriwtio llywodraethwyr yn haws gyda llai o swyddi gwag i lywodraethwyr.
101. Mae'r Cyngor wedi ystyried lleoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica a darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Allensbank ond mae wedi diystyried yr opsiwn hwn.
102. Mae lleoli darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, yn ffordd fwy priodol o ledaenu lleoedd cyfrwng Saesneg o mewn rowndiau derbyn nawr ac yn y dyfodol.
103. Mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion yn gwasanaethu ystod amrywiol o ddisgyblion ac anghenion.

Cyflwynwyd y cynigion er mwyn darparu cydbwysedd mwy priodol o leoedd ac i sicrhau bod modd buddsoddi lefel uwch o gyllid mewn addysgu a dysgu. Mae safon yr addysg ym mhob ysgol sy'n destun y newidiadau arfaethedig yn dda. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, disgyblion sy'n derbyn cymorth oherwydd bod ganddynt Saesneg fel iaith ychwanegol, disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol na disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae manteision clir yn gysylltiedig â phob opsiwn a fyddai'n gwella cyfleoedd dysgu i bob dysgwr.

104. Mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar Ysgol Mynydd Bychan o feddiannu safle mwy o faint tra bod yr ysgol yn tyfu a'r cyfleusterau sydd ar gael ar safle Ysgol Gynradd Allensbank.
105. Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan ar safle Allensbank yn cael ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2025, drwy gynyddu'r nifer derbyn ar gyfer y grwpiau blwyddyn meithrin a Derbyn yn unig yn y lle cyntaf. Felly nid oes angen i'r ysgol ddefnyddio'i holl le yn 2025/2026 a gallai ganiatáu i rannau o'r ddau adeilad gael eu cau i'r staff a disgyblion i leihau'r effaith ar gyllideb yr ysgol a/neu tra bod gwaith yn cael ei wneud.
106. Byddai ehangu'r ysgol yn peri costau staffio ac arwain ychwanegol i'r ysgol fyddai'n cael eu talu o gyllideb yr ysgol. Byddai'r gyllideb yn cynyddu yn unol â'r nifer uwch o ddisgyblion sydd ar y gofrestr. Mae'r ysgol hefyd yn derbyn mwy o ddyraniadau o fewn ei chyllideb yn ymwneud â gweithredu'r safle a'r adeiladau mwy, fel y mae Ysgol Gynradd Allensbank yn ei wneud ar hyn o bryd.
107. Gallai'r bwriad i ehangu olygu bod yr ysgol yn gweithredu rhai dosbarthiadau llai, neu rai dosbarthiadau oedran cymysg, wrth i'r ysgol dyfu. Mae data dewisiadau derbyn ysgolion yn dangos y byddai nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol yn cynyddu, ond byddai gan yr ysgol lefel uchel o leoedd gwag am nifer o flynyddoedd. Er y byddai cyllideb yr ysgol yn cynyddu wrth i nifer y disgyblion gynyddu, byddai'r gost fesul disgybl yn debygol o fod yn uwch am gyfnod estynedig tra bo'r ysgol yn tyfu. Wrth i dwf, a buddsoddiad, gael eu cyflwyno'n raddol, byddai effaith ariannol newidiadau yn cael ei lleihau lle bynnag y bo modd.
108. Pe bai Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Allensbank, byddai unrhyw newidiadau i'r adeiladau a'r ardaloedd allanol sy'n defnyddio grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried ar gam dylunio diweddarach. Mae'r cyllid cyfalaf a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i neilltuo i alluogi ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r Cyngor yn nodi ac yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y buddsoddiad mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan.
109. Er y byddai'r tri opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt yn darparu ystod o fanteision, byddai nifer y manteision a wireddwyd ar gyfer dysgwyr mewn addysg gymunedol cyfrwng Saesneg o dan Opsiwn 2 neu Opsiwn 3 yn llai o'u cymharu ag Opsiwn 1 gan y byddai defnydd llai effeithlon o

gyllidebau'r ysgolion. Ni fyddai swm wedi'i neilltuo i ddarparu cymorth am gyfnod a byddai angen cyfran uwch o gyllidebau'r ysgolion ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth.

110. Er y byddai'r newidiadau arfaethedig i drefniadaeth y ddarpariaeth yn gofyn am newidiadau i staffio ym mhob ysgol, byddai newidiadau hefyd yn angenrheidiol pe na bai cynigion yn cael eu datblygu er mwyn i'r ysgolion cyfrwng Saesneg perthnasol gyflawni cyllidebau cytbwys yn y blynyddoedd i ddod.
111. Byddai sefydlu ysgol gynradd Saesneg â dau ddsbarth mynediad, ac ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddsbarth mynediad, yn dda i ddysgu ac addysgu drwy alluogi:
- mwy o ysgolion dau ddsbarth mynediad i'r ardal. O'i chymharu ag ysgolion llai, mae maint ysgol gynradd â dau ddsbarth mynediad yn cynnig mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion oherwydd adnoddau ariannol ehangach, gwell, â mwy o sicrwydd
  - gall ysgol â dau ddsbarth mynediad roi mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth, gan gynnwys cynnal nifer llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol.
  - byddai'r gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a chymorth yn galluogi'r ysgolion â dau ddsbarth mynediad i gynnig ystod ehangach o arbenigedd cwricwlaidd
  - mwy o athrawon i rannu llwyth gwaith ac arbenigedd.
  - mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. athrawon newydd gymhwyso all arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog
  - cyfleoedd i staff addysgu yn ôl eu cryfderau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiad addysg gorau posib
  - mwy o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a Chymhwysedd Digidol
  - creu mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol
  - mwy o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig
112. Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica yn:
- sicrhau parhad darpariaeth sy'n adlewyrchu ethos a diwylliant yr ysgol
  - cefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol rhieni â'r ysgol o'r cyfle cyntaf posibl

- hwyluso'r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (lle mae'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus)
  - galluogi adnabod grwpiau sy'n agored i niwed yn gynnar. Byddai hyn yn golygu y gellir nodi anghenion plant mor gynnar â phosibl
  - rhoi cyfle i blant fynd i'r ysgol feithrin ar yr un safle â'u brodyr a'u chwiorydd hŷn. Dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau ymarferol posibl wrth chwilio am ddarpariaeth gofal plant arall
  - sicrhau parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol.
113. Mae'r Cyngor wedi ystyried ac arfarnu ymatebion i'r ymgynghoriad yn llawn ac mae'n cynnig symud ymlaen ag Opsiwn 1.
114. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r effaith ar staff Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone o ddatblygu Opsiwn 1. Mae Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wedi ymrwymo i barhau i weithio'n uniongyrchol gyda'r ysgolion yr effeithir arnynt, a chydag undebau llafur, i sicrhau bod staff yn cael cymorth drwy'r broses newid.
115. Mae nifer y rolau addysgu a dysgu sydd eu hangen mewn ysgol gynradd mynediad dau ddosbarth mynediad yn debyg i'r swm sydd ei angen ar gyfer dwy ysgol gynradd ag un dosbarth mynediad. Fodd bynnag, byddai'r math a'r nifer o rolau sydd eu hangen yn ddibynnol ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ac ar sefyllfa cyllideb yr ysgol.
116. Lle mae rolau'n cael eu dyblygu e.e., swyddi Pennaeth a Dirprwy Bennaeth, staff gweinyddol ac ystadau, disgwylir y byddai gostyngiad yn nifer y rolau sydd eu hangen yn gyffredinol.
117. Byddai sefydlu ysgol newydd yn golygu bod angen sefydlu Corff Llywodraethu dros dro i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu strwythur staffio priodol a phroses benodi. Byddai penodiad rolau'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaethiaid yn destun hysbyseb genedlaethol yn unol â gofynion cyfreithiol. Byddai'r Cyngor yn argymhell bod y Corff Llywodraethu dros dro newydd yn gweithredu proses recriwtio wedi'i chlustnodi i staff presennol yn Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone.
118. Mae'r wybodaeth sy'n weddill yn yr adroddiad hwn yn benodol am Opsiwn 1 yn unig.

### **Trefniadau Llywodraethu**

119. Os bydd Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, byddai cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cael eu diddymu, a



threfniadau llywodraethu newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg dau ddosbarth mynediad newydd.

### Diddymu Cyrff Llywodraethu a sefydlu Corff Llywodraethu newydd

120. Byddai cynnig i gau dwy ysgol, ac i sefydlu ysgol newydd, yn golygu bod angen sefydlu Corff Llywodraethu dros dro cyn agor yr ysgol newydd fwy o faint.
121. Y prif reswm dros ystyried cyfuno dwy ysgol bresennol, trwy sefydlu ysgol newydd a chau dwy ysgol bresennol, yw'r buddion a ddaw yn sgil hyn i blant a phobl ifanc yn yr ysgolion presennol trwy wella darpariaeth addysgol.
122. Mae llawer o fanteision gweithredol clir i ysgolion mwy, o gymharu ag ysgolion llai. Y prif agweddau llywodraethu ar sefydlu un ysgol yn lle'r ddwy ysgol bresennol yw:
- Yn dilyn penderfyniad i sefydlu ysgol newydd a chau'r ysgolion presennol, byddai corff llywodraethu dros dro newydd yn cael ei sefydlu. Byddai'r corff llywodraethu newydd, maes o law, yn disodli'r cyrff llywodraethu unigol a byddai ganddo gyfrifoldeb am oruchwyliaeth strategol a chynllunio'r ysgol newydd.
  - Byddai cyrff llywodraethu presennol pob ysgol yn parhau i weithredu, ac yn cadw eu cyfrifoldebau presennol, hyd nes y bydd yr ysgolion presennol yn cau'n ffurfiol.
  - Byddai'r Corff Llywodraethu newydd yn ystyried enw ac yn gyfrifol am gyllideb a staff yr ysgol newydd, a thrwy sylfaen ariannol fwy byddai ganddynt fwy o sefydlogrwydd yn y gyllideb.
123. Ar y cyfan, mae gan ysgol fwy gyllideb fwy a mwy sefydlog, ac felly mae'n gallu gweithredu arweinyddiaeth a strwythur staffio mwy effeithlon ac effeithiol a manteisio ar arbedion maint. Gall ysgol fwy wneud mwy i gryfhau addysg gyffredinol disgyblion yn y cymunedau cyfunol a wasanaethir ar hyn o bryd gan y ddwy ysgol lai. Mae ysgol fwy hefyd yn caniatáu:
- Mwy o gyfleoedd i staff rannu llwyth gwaith ac arbenigedd.
  - Mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. athrawon newydd gymhwyso all arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog
  - Nifer uwch o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chymhwysedd Digidol.
  - Galluogi arferion da, deunyddiau paratoi ac adnoddau.

### **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

124. Mae yna ddosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r Cyngor yn derbyn hyd at 8 plentyn Cyfnod Sylfaen i'r ddarpariaeth hon ledled y ddinas nad oeddent yn gwneud cynnydd digonol, ond sydd â digon o botensial i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd leol.

125. Mae'r lleoliadau yn para rhwng un a thair blynedd, gan ddibynnu ar eu cynnydd. Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn cael cefnogaeth i ddychwelyd ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf un diwrnod yr wythnos, er mwyn cadw cyswllt â ffrindiau lleol a pharatoi at ddychwelyd yno'n llawn amser.
126. Mae'r Cyngor yn bwriadu parhau i weithredu ledled y ddinas dosbarth ymyrraeth gynnar lleferydd ac iaith yn 2025/26 pan fyddai'r newidiadau arfaethedig yn dod i rym. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu'r dosbarth lleferydd ac iaith i'r ddinas yn yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg dau ddsbarth mynediad newydd arfaethedig ar y safle a rennir ar hyn o bryd gan Gladstone a Santes Monica, mewn ymgynghoriad â'r corff llywodraethu newydd. Os penderfynir peidio â lleoli'r dosbarth yn yr ysgol newydd, byddai hyn yn cael ei sefydlu ar safle arall.
127. Mae lefel anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg wedi bod yn is yn hanesyddol nag yn y sector Saesneg. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn newid dros y 5 mlynedd diwethaf, gydag ysgolion yn adrodd am fwy o achosion o anghenion dysgu ychwanegol, ym mhob maes angen.
128. Mae Caerdydd wedi buddsoddi mewn darpariaeth arbenigol yn y sector, gan gynnwys rhywfaint o allu i ymateb i'r galw cynyddol a meithrin mwy o hyder yn y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn y sector.
129. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda'i bartneriaid ar Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd i ddatblygu'r CSCA deng mlynedd newydd ar gyfer y ddinas sy'n cynnwys cynigion ar gyfer datblygu a darparu nifer uwch o leoedd arbenigol cynradd mewn canolfannau adnoddau arbenigol mewn o leiaf tair ysgol gynradd sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd perthnasol.
130. Wrth i'r sector Cymraeg barhau i dyfu bydd yn bwysig datblygu darpariaeth ychwanegol gan ragweld yr angen, er mwyn sicrhau bod addysg cyfrwng Gymraeg yn ddewis gwirioneddol i ddysgwyr sydd ag ADY cymhleth.
131. Byddai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddsbarth mynediad, a throsglwyddo i safle Ysgol Gynradd Allensbank yn cadw digon o hyblygrwydd yn yr adeiladau er mwyn caniatáu sefydlu canolfan adnoddau arbenigol. Byddai cynigion ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer y ddarpariaeth hon.

### **Darpariaeth Feithrin**

132. Mae gan blant Caerdydd yr hawl i le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed a rhaid iddynt ei fynychu am bum hanner diwrnod o leiaf. Nid yw lleoedd meithrin yn cael eu dyrannu ar sail dalgylch. Lle bynnag y bo modd, cynigir lleoedd mewn ysgol gymunedol leol neu ddsbarth meithrin o fewn dwy filltir o breswylfa plentyn. Os nad oes lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin gymunedol

lleol neu ddosbarthiadau meithrin, gall rhieni wneud cais am gyllid ar gyfer lleoedd addysg feithrin gyda darparwr cymeradwy y mae'n rhaid iddo ddangos ei fod yn gallu bodloni'r ansawdd perthnasol.

133. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ariannu 112 o leoedd meithrin cymunedol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r nifer sy'n cael ei ariannu yn lleihau i 96 o leoedd y flwyddyn nesaf, er mwyn adlewyrchu'r galw. Y bwriad yw cadw digon o le i ddarparu hyd at 96 o leoedd meithrin cymunedol cyfrwng Saesneg yn yr ysgol newydd.
134. Pe bai'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei ddwyn ymlaen, cynigir y dylid darparu 32 o leoedd meithrin rhan amser. Byddai hyn yn datblygu dilyniant a pharhad yn nysg plant o 3 oed yn yr ysgol.
135. Byddai nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei gynyddu o 64 i 96 i gefnogi ei thwf i ysgol dau ddsbarth mynediad.
136. Yn gyffredinol, byddai lle i ddarparu mwy o leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael ei gadw. Byddai nifer y llefydd sy'n cael eu hariannu yn adlewyrchu'r galw am lefydd yn yr ardal leol, fel ar hyn o bryd.

### **Ariannu cynigion**

137. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gyflwyno ceisiadau am arian grant i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.
138. Llwyddodd Cyngor Caerdydd i sicrhau arian o'r Cynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg hwn gan gynnwys £1.86m i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yng nghanol Caerdydd ac ehangu lleoedd cyfrwng Cymraeg gan 1 Dosbarth Mynediad (210 o leoedd). Diben y Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg yw cefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.
139. Mae'r rhaglen cyllid grant wedi'i hanelu'n benodol at brosiectau cyfalaf a fydd yn cyfrannu'n amlwg at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r arian a ddyrannwyd i Gyngor Caerdydd wedi'i glustnodi i gefnogi ehangu ar y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a byddai'n caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgol i gefnogi nifer uwch o ddysgwyr.
140. Nid oes arian refeniw ychwanegol nac arian wedi'i glustnodi i gefnogi'r broses o newid trefniadaethol.
141. Ceisir cael cyllid cyfalaf yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu hwyluso'r newidiadau i drefn y ddarpariaeth Saesneg. Mae'r Cyngor yn cydnabod, pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt i gael eu gweithredu, y byddai angen blaenoriaethu buddsoddiad yn yr ysgol newydd a sefydlir ar y safle a rennir ar hyn o bryd rhwng Gladstone/Santes Monica yn y Rhaglen

Trefniadaeth Ysgolion. Byddai'r buddsoddiad hwn yn cefnogi'r ysgol newydd i gynnal a gwella ymhellach ar ansawdd uchel y ddarpariaeth a gynnigir gan yr ysgolion presennol, i ymestyn cyfleoedd dysgu cynhwysol, ac i sicrhau bod y safonau addysg uchel ar gyfer pob disgybl yn y gymuned yn cael eu cadw.

### Arfarniad ariannol o'r cynigion

142. Mae'r fformiwla ariannu ysgolion yn seiliedig ar gyllid fesul disgybl a nifer o gyfandaliadau fesul ysgol. Mae cyllid fesul disgybl yn gyffredinol uwch mewn ysgolion llai oherwydd costau'r pennaeth a chostau sefydlog eraill yn sgil nifer is o ddisgyblion.
143. Byddai gostyngiad yn nifer yr ysgolion yng Nghaerdydd felly yn caniatáu lleihau dyraniadau o gyfandaliadau i ysgolion, a byddai'r arian hyn yn cael ei ail-ddosbarthu i ysgolion drwy'r fformiwla cyllido.
144. Yn gyffredinol, gall ysgolion mwy o faint hefyd sicrhau gwell gwerth am arian drwy arbedion maint mewn nifer o feysydd gan gynnwys rheoli contractau ac o bosibl yn eu strwythur staffio. Gellir gwireddu rhai o fanteision un ysgol fwy drwy ffederasiwn ffurfiol o gyrrff llywodraethu neu gytundebau cydweithio rhwng ysgolion, gyda strwythurau staffio mwy effeithlon.
145. Roedd swm y cyllid fesul disgybl yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan yn uwch na'r cyllid cyfartalog fesul disgybl ar draws 98 ysgol gynradd Caerdydd, sef £3,891.
146. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa gyllidebol yr ysgolion uchod.

Ysgol	Balans a ddygwyd ymlaen Ebrill 2022	Cyllideb Gymeradwy'r Llywodraethwyr 2022/23	Balans a ddygwyd ymlaen Ebrill 2023	Cyllideb Gymeradwy'r Llywodraethwyr 2023/24
	£	£	£	£
Allensbank	23,757	-132,301	-50,628	-274,788
Gladstone	84,651	0	-39,428	-164,920
Y Santes Monica	41,804	0	34,320	-66,726
Ysgol Mynydd Bychan	170,220	86,286	118,001	17,057

147. Nid yw cynllun Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer ailstrwythuro strwythurau staffio ysgolion yr effeithir arnynt gan ad-drefnu'r ddarpariaeth. Byddai'r costau hyn yn cael eu talu o gronfeydd ariannol y gwasanaeth Addysg (gan gynnwys cyllidebau a ddirprwywyd i ysgolion neu gyllid CTY).

148. Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn arwain at gostau staffio ac arwain ychwanegol i'r ysgol fyddai'n cael eu talu o gyllideb yr ysgol. Bydd y gyllideb yn cynyddu oherwydd bod mwy o ddisgyblion ar y gofrestr ond bydd y cynnydd cymharol yn y dyraniad cyllideb yn amodol ar newidiadau i gofrestrau disgyblion ym mhob ysgol gynradd. Nodir rhagor o fanylion am gyfyngiadau posibl twf yn yr ysgol hon yn y tymor byr / tymor canolig ym mharagraff 147.
149. Gallai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan olygu bod yr ysgol yn gweithredu rhai dosbarthiadau llai, neu rai dosbarthiadau oedran cymysg, wrth i'r ysgol dyfu. Mae data dewisiadau derbyn ysgolion yn dangos y byddai nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol yn cynyddu, ond byddai gan yr ysgol lefel uchel o leoedd gwag am nifer o flynyddoedd.
150. Er y byddai cyllideb yr ysgol yn cynyddu wrth i nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr gynyddu, byddai'r gost fesul disgybl yn debygol o fod yn uwch am gyfnod estynedig tra bo'r ysgol yn tyfu. Gan y byddai twf, a buddsoddiad, yn digwydd yn raddol, byddai effaith ariannol newidiadau yn cael ei lleihau lle bynnag y bo modd drwy gyfathrebu effeithiol rhwng y gyfarwyddiaeth Addysg a Chorff Llywodraethu'r Ysgol.
151. Mewn cyfnod lle mae'r niferoedd derbyn yn disgyn ledled y ddinas, mae'r nifer cynyddol disgwylidig fyddai'n cael ei dderbyn i Ysgol Mynydd Bychan yn debygol o leihau'r niferoedd derbyn mewn ysgolion eraill yn yr ardal leol neu mewn ardaloedd cyfagos am nifer o flynyddoedd.
152. Mae bron pob disgybl sydd wedi methu â chael ei dderbyn i Ysgol Mynydd Bychan yn y blynyddoedd diwethaf wedi derbyn lle mewn ysgol gynradd Gymraeg arall. Mae'n bosibl y bydd nifer y disgyblion sy'n cael lleoedd yn yr ysgolion hyn yn lleihau o ganlyniad i'r cynigion; fodd bynnag, rhaid i'r Cyngor gynyddu'r nifer sy'n cael eu derbyn i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas a byddai effaith anuniongyrchol y nifer cynyddol sy'n cael eu derbyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn arwain at lai o ddisgyblion mewn ysgolion Saesneg ledled y ddinas.
153. Pe bai cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle a rennir Ysgol Gynradd Gladstone / Santes Monica yn mynd rhagddo, gyda'r Dosbarth Ymyrraeth Iaith a Lleferydd yn cael ei adleoli, byddai'r gyllideb ddirprwyedig ar gyfer y dosbarth hwn yn cael ei drosglwyddo i ysgol arall a fyddai'n cynnal y dosbarth.
154. Dylid nodi bod nifer y disgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyd-ddigwydd â niferoedd llai yn mynychu addysg gynradd ledled y ddinas, lefelau a ragamcennir i aros yn isel tan o leiaf 2025/2026. Yn y cyd-destun hwn, mae'n debygol y byddai nifer y staff sy'n cael eu cyflogi gan ysgolion yn lleihau, p'un a fydd unrhyw gynigion i ad-drefnu darpariaeth yn mynd rhagddynt ai peidio.
155. Yr arbediad fformiwla cyllideb ysgol o gyfuno Ysgol

Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone, trwy gau'r ddwy ysgol a chreu un ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad fel y'i nodir yn Opsiwn 1 fyddai tua £98k y flwyddyn yn seiliedig ar ddileu lwfansau cyfandaliadau a ddarperir i ysgolion. Fodd bynnag, mae rhai o'r cyfandaliadau hyn ar gyfer ysgolion sydd â niferoedd o dan 150 ar y gofrestr.

156. Byddai'r opsiwn hwn i gyfuno Ysgolion Allensbank a Gladstone a chyfuno eu cyllidebau'n galluogi aiddosbarthu adnoddau ariannol i ysgolion trwy leihau nifer y cyfandaliadau'n sy'n cael eu dyrannu i ysgolion.
157. Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, cynigir y darperir cyfandaliad cyfunol o £60,000 i'r ysgol cyfrwng Saesneg dau ddosbarth newydd i'w sefydlu. Mae'r mecanwaith ariannol hwn ar gael ar hyn o bryd yn y fformiwla ariannu ysgolion a bydd yn cael ei leihau £15,000 fesul cam dros bedair blynedd nes iddo ostwng i sero. Bydd yr ysgol Saesneg dau ddosbarth mynediad hefyd yn derbyn y cyfandaliad o £60,000 a roddir i bob ysgol gynradd. Bydd unrhyw gyfandaliadau eraill a ddarperir i'r ysgolion sy'n cau yn cael eu hailddyrannu yn ôl i'r dosbarthiad fformiwla ysgolion cynradd cyffredinol.
158. Byddai opsiwn 1 yn arwain at ddadleoli Pennaeth presennol ac ailstrwythuro'r arweinyddiaeth. Gallai'r arbedion disgwylidig yng nghyllideb yr ysgol, o'u cymharu â'r ddwy gyllideb bresennol gyda'i gilydd, ddod i tua £100,000 i £114,000 y flwyddyn yn ogystal ag argostau, ar sail canolbwynt ystodau cyflog y tîm arwain presennol a gweithredu strwythur arweinyddiaeth newydd ag un Pennaeth a dau Ddirfwr Bennaeth.
159. Pe bai Dewis 1 yn cael ei ddatblygu, ni fyddai'r Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn newid o 20 lle oni bai bod y Corff Llywodraethu yn dymuno diwygio'r rhif hwn yn ddiweddarach.
160. Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica wedi gosod cyllideb ddiffyg ar gyfer 2023/24 ac mae disgwyl y bydd mewn sefyllfa o ddiffyg cyllidebol yn y blynyddoedd i ddod os bydd lefelau cyllido a staffio yn aros ar lefel debyg. Er y byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Santes Monica, a'r potensial i gynyddu nifer y disgyblion mewn grwpiau blwyddyn eraill, yn cael effaith gadarnhaol ar ei chyllideb o fis Medi 2025, mae'r heriau i ysgolion llai eu maint fantoli eu cyllidebau yn parhau.
161. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu ag Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru a'r Archesgobaeth Gatholig i archwilio opsiynau ar gyfer trefnu darpariaeth fwy effeithlon gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffedereiddio ysgolion.

### **Trefniadau Derbyn**

162. Mae'r newidiadau perthnasol i bolisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad uniongyrchol i'r cynigion hyn yn ymwneud â'r newidiadau

arfaethedig yn Nifer Derbyn Cyhoeddedig Ysgol Mynydd Bychan, o 30 i 60, a'r posibilrwydd o sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â dau ddsbarth mynediad sydd â Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 60.

163. Cynhelir ymgynghoriad ar drefniadau derbyn 2025/26 ar gyfer ysgolion cymunedol rhwng Hydref 2023 - Gwanwyn 2024 yn unol â gofynion y Cod Derbyn. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig.
164. Byddai adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion cynradd cymunedol yn cael ei gynnal i ystyried y cydbwysedd rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael a'r galw am leoedd a ragwelir a chynnydd yn erbyn targedau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i ddalgylchoedd ysgolion yn destun ymgynghoriad ar yr adeg briodol.
165. Byddai unrhyw newid i drefniadau derbyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica sy'n deillio o sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn destun ymgynghoriad gan Gorff Llywodraethu'r ysgol ar yr adeg briodol.
166. Mae gwybodaeth fanwl am drefniadau mynediad yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

### **Trefniadau Teithio i Ddysgwyr**

167. Nid oes cynlluniau i newid polisi trafndiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol.
168. Bydd unrhyw ddisgyblion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnyn nhw'n cael yr un cymorth â thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd.
169. Nid oes unrhyw ddisgyblion sydd wedi cofrestru yn yr ysgolion sydd wedi'u henwi yn yr adroddiad hwn yn derbyn trafndiaeth ysgol am ddim o'r cartref i'r ysgol. Nid oes disgwyl y bydd gweithredu'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan ac adleoli darpariaeth cyfrwng Saesneg yn newid hyn.
170. Pe na bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r newidiadau a gynigir, a bod cynnydd yn y nifer sy'n derbyn lleoedd Cymraeg yn unol â thargedau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael ei gyflawni, efallai na fydd y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer pob plentyn yn nalgylch y pedair ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn dwy filltir i'w cyfeiriad cartref oni bai bod newidiadau i ddalgylchoedd a/ neu ddarpariaeth ychwanegol amgen i wasanaethu'r ardaloedd hyn yn cael eu datblygu.
171. Gellir gweld polisi trafndiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor [www.caerdydd.gov.uk/trafnidiaethiysgolion](http://www.caerdydd.gov.uk/trafnidiaethiysgolion)

### **Effaith ad-drefnu ar drefniadau teithio disgyblion presennol**

172. Y pellter mwyaf rhwng y safleoedd ysgol uchod yw tua 0.5 milltir. Felly, pe bai unrhyw un o'r ysgolion yn cael eu hadleoli ar safle arall, y cynnydd mwyaf yn y pellter teithio rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion presennol fyddai 0.5 milltir.
173. Fodd bynnag, mae'r cynnydd cyfartalog mewn pellter rhwng y cartref a'r ysgol, pe bai cynigion yn mynd yn eu blaen, yn sylweddol is na 0.5 milltir.
174. Byddai effaith trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle Allensbank yn arwain at ostyngiad ymylol yn ypellter y mae'r disgyblion presennol yn teithio.
175. Byddai effaith trosglwyddo Allensbank i safle Gladstone/ Santes Monica a rennir yn arwain at gynnydd o 0.08 milltir i'r disgyblion presennol.
176. Byddai effaith trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle Ysgol Mynydd Bychan yn cynyddu'r pellter teithio gan 0.2 milltir ar gyfartaledd.
177. Felly disgwylir i'r effaith logistaidd ar deuluoedd presennol, o ran yr hyd a'r amser a gymerir i deithio rhwng y cartref a'r ysgol, fod yn fach iawn.
178. Mae teuluoedd sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg yn ne dalgylch Ysgol Mynydd Bychan yn aml yn methu â chael eu derbyn i'r ysgol ac mae'r lleoedd amgen agosaf yn bell i ffwrdd. Rhagwelir felly y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith fach iawn ar ymgeiswyr y dyfodol o ran cael eu derbyn i ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg neu ysgolion cynradd yr Eglwys yng Nghymru, ond effaith fwy cadarnhaol ar y rhai hynny o fewn dalgylch Ysgol Mynydd Bychan sy'n ceisio cael addysg yn Gymraeg.

### **Goblygiadau ar gyfer darpariaeth ysgolion uwchradd**

179. Cafodd cynnig i ehangu ac ailddatblygu Ysgol Uwchradd Cathays i ateb y galw o fewn ei dalgylch a'r ardal ehangach ei gytuno gan y Cabinet ym mis Hydref 2021 yn amodol ar benderfyniadau pellach gan gynnwys caniatâd y Comisiwn Elusennau mewn perthynas â safle'r Maendy sy'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth elusennol.
180. Mae Ysgol Uwchradd Cathays ar hyn o bryd yn gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys dalgylchoedd ysgolion cynradd Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r dalgylch hwn yn llai poblog na dalgylchoedd ysgolion eraill yng Nghaerdydd, gyda rhai ohonynt yn ymestyn dros ardal ddaearyddol fwy o lawer ac mae ganddynt boblogaethau o ddisgyblion sy'n uwch na'u capasiti presennol neu arfaethedig.
181. Felly byddai angen ymgynghori ar newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd cymunedol cyfrwng Saesneg ar yr adeg briodol er mwyn darparu cydbwysedd addas a chynaliadwy yn y cyflenwad o leoedd a'r nifer sy'n manteisio arnynt.



182. Mae'r galw cyfunol am leoedd ar draws dalgylchoedd y tair ysgol uwchradd Gymraeg ar lefel uchel a gellir ateb y galw o fewn capasiti presennol yr ysgolion.
183. Bydd cynigion i ymateb i newidiadau yn y galw yn cael eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau bod digon o leoedd i ateb y galw am leoedd cyfrwng Gymraeg.

### **Ymgynghori ag Aelodau Lleol**

184. Ymgynghorwyd ag Aelodau Lleol fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Gellir gweld sylwadau a dderbynwyd gan Aelodau yn Atodiad 10.

### **Rhesymau dros yr Argymhellion**

185. Cydbwysu'r ddarpariaeth ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Gymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

### **Effaith y cynigion ar y Gymraeg**

186. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Gymraeg Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'. Ei nod yn y tymor hir yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
187. Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Gymraeg fel y 'prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd' (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud 21). Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.
188. Y targed cenedlaethol yw:
  - *Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.*
189. Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd y dull yn amrywio ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru yn dibynnu ar nodweddion eu poblogaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn clustnodi ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canran is o siaradwyr Cymraeg fel ardaloedd sydd â photensial penodol ar gyfer twf.
190. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i 'Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog' gan gynnwys tyfu'r sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r hyder a'r awydd i ddefnyddio eu holl ieithoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

191. Yn sail i'r weledigaeth hon mae'r egwyddorion canlynol:
- Cymhwyso egwyddorion y 'cymdogaethau 15-munud' i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.
  - Gall pob plentyn yn y ddinas ddewis derbyn eu haddysg yn Gymraeg neu Saesneg gyda manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i bob rhiant o eni'r plentyn.
  - Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.
192. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:
- Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynys Addysg (Cymru) 2018.
193. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn nodi cyfres o ymrwymadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Mae'r CSCA yn ymrwmo'r Cyngor i sicrhau capasiti ledled y ddinas yn y sector cyfrwng Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir ar oedran Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio. Mae hyn yn cynnwys darparu capasiti cyfrwng Cymraeg newydd ar lefel gynradd erbyn 2025 - 2026. Rhagwelir y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn.
194. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ceisio bod yn gyson â Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog ac yn cefnogi'n gryf strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy gyfrannu at gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050.
195. Mae'r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i'r deilliannau canlynol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg:
- Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

196. Gall y cynigion hefyd sicrhau cyfle i ddarparu cyfleusterau sy'n ymateb i Ddeiliant 6 - Cynnydd yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
197. Mae ysgolion yn gwasanaethu ystod amrywiol o gymunedau ac yn adlewyrchu eu poblogaeth leol i raddau helaeth; fodd bynnag, cydnabyddir bod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn llai amrywiol nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae targedau a ffrydiau gwaith o fewn Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg mabwysiedig Caerdydd yn ceisio mynd i'r afael â hyn.
198. Byddai'r cynigion yn cael mwy o effaith ar y boblogaeth sy'n agosach at yr ysgol nag ar y ddinas yn ei chyfanrwydd.
199. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae'r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
200. Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwmo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd, ac i gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.
201. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau genedigaethau, y boblogaeth sy'n debygol o ddeillio o dai newydd a'r patrymau o ran nifer y plant sy'n mynd i ba ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.
202. Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor ehangu'r ddarpariaeth ysgolion mewn modd strategol ac amserol nad yw'n amharu ar y ddarpariaeth bresennol. Mae'n anochel y byddai darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n ehangu'n sylweddol neu'n gyflym yn cael effaith ar y nifer sy'n manteisio ar lleoedd mewn ysgolion eraill ac, yn ei thro, ar allu ysgolion i gydbwysu cyllidebau ac i ddenu neu gadw staff.
203. Mae dyheadau'r Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn cynnig newid sylweddol. Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau cenedlaethol i addysgu 40% o ddysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, a 30% arall o ddysgwyr mewn ysgolion Saesneg lle deuent yn rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tua 17% o blant Caerdydd sy'n dechrau addysg gynradd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion neu ddosbarthiadau Cymraeg.
204. Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal, ac yn ceisio gweithredu'r newid yn y fath fodd fel

y cyfyngir ar y potensial i gael effaith negyddol ar ysgolion sy'n bodoli eisoes.

205. Mae perygl y gall darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg atal y twf mewn ysgolion lleol eraill; fodd bynnag, mae CSCA Caerdydd yn nodi ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu gwaith hyrwyddo wedi'i dargedu ar y cyd â Chaerdydd Ddwieithog i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar lleoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle mae galw isel.

### **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

206. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol, ynghyd ag annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio. Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.
207. Yng ngoleuni'r pandemig a chyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gallai symudiadau myfyrwyr leihau ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

### **Goblygiadau Ariannol**

208. Wrth gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau fod yn gyfforddus bod yr opsiwn a gyflwynir yn fforddiadwy o safbwynt gweithredu cyfalaf ond hefyd bod mecanweithiau clir ar waith o ran cau ysgolion yn ffurfiol sy'n rhoi cap ar atebolrwydd ariannol. Yn ogystal, mae angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau fod yn sicr bod y cynigion wrth symud ymlaen yn galluogi pob ysgol a fydd yn parhau i gael y cyfle gorau posibl i fod yn hyfyw yn ariannol. Nodir isod wybodaeth ychwanegol.
209. Mae paragraffau 155 i 157 yn awgrymu ymyrraeth yn y fformiwla ysgolion ddirprwyedig. Mae'r newidiadau a awgrymir a'r gefnogaeth i'r 2 ysgol gynradd 2 DM Saesneg newydd yn cydymffurfio ag egwyddorion a'r broses ar gyfer fformiwla cyllideb ysgol ddirprwyedig y cytunwyd arnynt.
210. Egwyddorion cywir y fformiwla ariannu ysgolion yw bod pob cyllideb ysgolion unigol wedi'u pennu'n bennaf ar sail niferoedd disgyblion a bod symiau sefydlog yn cael eu rhoi i ysgolion ar sail gyson. Mae hyn yn cynnwys gostyngiadau posibl yn y fformiwla o ran cyfandaliad pe bai ysgolion yn cael eu cyfuno, ochr yn ochr ag arbedion staffio, yn enwedig o ran rolau arwain. Byddai'r arbedion hyn yn aros o fewn cyllid ysgolion ddirprwyedig a dylid (yn ddiodyn) eu hailddyrrannu er budd pob Ysgol Gynradd. Mae darpariaeth hefyd o fewn y fformiwla ar gyfer cyllid pontio

ar gyfer ysgolion newydd ac mae manylion hyn wedi ei gynnwys ym mharagraff 157.

211. Mae paragraff 148 yn nodi y bydd cynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Mynydd Bychan yn cynyddu'r gyllideb er mwyn caniatáu talu am yr holl gostau ychwanegol. Fel y nodwyd ym mharagraff 148, mae'n wir bod ysgol sydd â niferoedd uwch yn debygol o gael cynnydd o'r fformiwla ond bydd yn gymharol i nifer y disgyblion o ran y newidiadau ym mhob ysgol gynradd yng Nghaerdydd yn hytrach nag edrych ar y cynnydd yn Ysgol Mynydd Bychan ar ei phen ei hun. Yn ogystal, bydd cynnydd unigol yng nghyllidebau ysgolion yn amodol ar lefel y cynnydd yn y cyllidebau ysgolion dirprwyedig cyffredinol na all ar hyn o bryd warantu y bydd cyllidebau cyffredinol ysgolion yn cynyddu ar gyfradd sy'n cwmpasu'r holl gostau chwyddiant / pwysau sy'n galw.
212. Fel y'i nodwyd yn flaenorol, mae'r fformiwla wedi'i phennu'n bennaf ar ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn hytrach na'r niferoedd sydd ar gael. Wrth gymeradwyo'r argymhellion, mae angen sicrwydd ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau y bydd nifer y lleoedd disgyblion ym mhob un o'r ysgolion hyn yn cael eu llenwi er mwyn rhoi sicrwydd ar gynaliadwyedd ariannol wrth symud ymlaen.
213. Nodir bod ysgol Santes Monica yn cael ei hargymell i barhau ar nifer derbyn o 20 disgybl fesul grŵp oedran. Heb weithio agos iawn gyda'r Corff Llywodraethu, mae'r cynnig mewn perygl o ddarparu ysgol ariannol nad yw'n hyfyw yn y dyfodol. Mae angen ystyried y camau sydd eu hangen i sicrhau y bydd yr argymhelliad os caiff ei roi ar waith yn darparu ysgol sy'n hyfyw yn ariannol.
214. Mae angen i falansau diffyg unrhyw ysgolion sy'n digwydd oherwydd cau fod â pharmedrau clir iawn ar waith a mesurau lliniaru sy'n sicrhau bod modd mynd i'r afael ag atebolrwydd ariannol a'i fod yn rhagweladwy. Eifen allweddol yn lefel y diffyg fydd y dull o ran dileu swyddi. Bydd angen rheoli'r rhain mewn ffordd sy'n colli staff cyn lleied â phosibl, lle mae hyn yn anochel yn unig. Bydd angen ariannu'r lefel diffyg hon (gan gynnwys cost dileu swyddi) o gronfeydd wrth gefn neu falansau y bydd angen eu nodi o fewn Addysg (Rhaglen Cynllun Trefniadaeth Ysgolion).
215. Bydd angen nodi a blaenoriaethu unrhyw gostau cyfalaf sy'n codi drwy'r opsiynau hyn yn rhan briodol y Rhaglen Gyfalaf neu unrhyw grantiau sydd ar gael. Dylid nodi hefyd bod rhaid trin unrhyw waith cynnal a chadw neu waith atgyweirio i adeiladau y disgwylir iddynt weithredu am lai na blwyddyn fel gwariant refeniw a bydd angen ei ariannu trwy Gronfa Refeniw Wrth Gefn CTY.
216. Dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau fod yn sicr o fforddiadwyedd cyffredinol unrhyw brosiectau neu gynlluniau a wneir a dylent hefyd ystyried yr effaith ar gynaliadwyedd ysgolion eraill o fewn yr ardal leol a nodwyd, gan gynnwys niferoedd disgyblion a risgiau ariannol.

217. Bydd angen gofyn am gyngor TAW penodol mewn perthynas â chyfnod tir a gwaith mewn perthynas â'r esgobaeth/tir a feddiannir gan ymddiriedolaeth.

### **Goblygiadau Cyfreithiol**

218. O dan Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd statudol gyffredinol ar y Cyngor i hyrwyddo safonau addysg uchel ac i gynnig digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol.
219. Mae gan rieni hawl i fynegi'r ysgol y maen nhw'n dymuno i'w plentyn ei mynychu dan Adran 86 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Nid yw hyn yn rhoi hawl i fynychu ysgol benodol, gan y gellir gwrthod ceisiadau am fynediad o hyd pe bai derbyn y plentyn yn niweidio darpariaeth addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau.
220. Gall awdurdod lleol wneud cynigion trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys addasiadau a reoleiddir i ysgol a gynhelir gan gynnwys ysgol arbennig gymunedol, o dan adrannau 42-44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
221. Rhaid ystyried bod y cynigion yn rhoi sylw i ddarpariaethau Deddf 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, sy'n nodi ffactorau i'w hystyried ynghlwm â gwahanol gynigion, y gweithdrefnau statudol, y gofynion a'r canllawiau cyfreithiol.
222. Cyn cyhoeddi ei gynigion, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad ar ei gynigion yn unol ag adran 48 y ddeddf honno a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi a dosbarthu adroddiad ymgynghori i bob parti sydd â diddordeb (a restrir yn y Cod):
- (i) crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion;
  - (ii) ymateb i'r rhain drwy eglurhad, drwy ddiwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau ategol;
  - (iii) nodi ymatebiad Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; a
  - (iv) ymateb i ymatebiad Estyn drwy eglurhad, drwy ddiwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau ategol.
223. Mae'r cynigion yn cyfrif fel newidiadau rheoleiddiedig y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion Rhan 3 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer ymgynghori a chyhoeddi hysbysiadau statudol. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
224. Mae'r argymhelliad yn yr Adroddiad hwn i gyhoeddi hysbysiad statudol yn dilyn cyfnod o ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 3 Mai i 30 Mehefin 2023. Mae'r Adroddiad hwn (ynghyd â'r atodiadau iddo) yn cynrychioli'r adroddiad ymgynghori y mae'n ofynnol ei gyhoeddi yn ôl y Cod. Rhaid i'r Cabinet roi sylw dyledus i'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyn iddo wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cyhoeddi hysbysiad statudol.

225. Mae'r argymhellion yn nodi bod angen penderfyniad i fwrw ymlaen hefyd gan Gorff Llywodraethu Santes Monica cyn y gellir cyhoeddi unrhyw hysbysiad statudol. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi o fewn 26 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi estyniad i'r amser.
226. Yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, byddai cyfnod ar gyfer gwrthwynebiadau o 28 diwrnod o leiaf ac wedi hynny byddai angen cyflwyno Adroddiad pellach i'r Cabinet (Adroddiad Gwrthwynebu) yn crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol a rhoi ymatebion i'r gwrthwynebiadau hynny. Pan fo gwrthwynebiadau a gyhoeddir gan Santes Monica i unrhyw hysbysiad statudol, dylid cyfeirio'r rhain hefyd at y Cyngor fel Adroddiad Gwrthwynebu i benderfynu arnynt o dan adran 51 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Yna, mater i'r Cabinet fydd adolygu'r gwrthwynebiadau hynny a phenderfynu a ddylid gweithredu'r cynigion.

### **Goblygiadau o ran AD**

#### Cau Ysgolion

227. Yn y cyfnod cyn cau'r ysgolion yn unol â'r hyn a gynigir, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r Penaethiaid a'r Cyrff Llywodraethu i sicrhau bod staff yn parhau i dderbyn cymorth ac anogaeth yn ystod sefyllfa a allai fod yn anodd. Byddai angen dechrau'r ymgynghoriad llawn gyda staff ac undebau llafur yn syth ar ôl canlyniad yr adroddiad hwn. Mae cau ysgol yn cyflwyno risg bosibl i staff y caiff eu swyddi eu dileu, a byddai angen rheoli hyn yn unol â Pholisi Adleoli a Dileu Swyddi'r ysgol.

#### Ysgol Newydd

228. Mae creu ysgol newydd sydd wedi'i sefydlu o ganlyniad i'r cynigion y cytunwyd arnynt yn cynnig cyfleoedd ar gyfer recriwtio ac adleoli. O dan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, Corff Llywodraethu Dros Dro yr ysgol newydd sy'n gyfrifol am benodi staff. Bydd y Cyngor yn argymhell bod y corff llywodraethu dros dro newydd yn gweithredu proses recriwtio wedi'i chlustnodi i'r staff hynny y mae cau'r ysgolion wedi effeithio arnynt.
229. Y mater cyntaf y mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu Dros Dro ei ystyried yw trefniadau arweinyddiaeth yr ysgol newydd a strwythur y staff o fewn yr ysgol. Mae creu'r Corff Llywodraethu Dros Dro mewn da bryd yn hanfodol i hyn. Mae Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, fel y'u diwygiwyd, yn caniatáu proses recriwtio wedi'i chlustnodi i swyddi Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid mewn sefyllfaoedd ad-drefnu ysgolion. Er mai mater i'r Corff Llywodraethu Dros Dro yw hwn, fel sy'n arferol o dan yr amgylchiadau hyn, byddai'r Cyngor yn cynghori'r Corff Llywodraethu Dros Dro i hysbysebu'n genedlaethol ar gyfer swyddi Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid a rhoi proses recriwtio gadarn ar waith i benodi tîm arwain o ansawdd uchel. Byddai Gwasanaethau Pobl

AD yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu Dros Dro i gefnogi'r broses recriwtio. Yn yr achos hwn, os bydd opsiwn 1 yn cael ei roi ar waith a bydd yr ysgol newydd yn agor ym mis Medi 2025, argymhellir bod proses recriwtio yn cael ei datblygu mor gynnar â mis Chwefror 2024.

### Adleoli

230. Un o ddyheadau allweddol y Cyngor yw lleihau nifer y staff drwy adleoli cynifer ag y bo modd yn hytrach nag ymddiswyddo gwirfoddol neu orfodol. Felly, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosib i staff ysgolion i sicrhau cyflogaeth mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd trwy adleoli i swyddi gwag mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.
231. Byddai cymorth llawn yn cael ei gynnig i staff yr ysgol a'r cyrff llywodraethu gan Wasanaethau Pobl AD trwy gydol y broses ad-drefnu. Byddai hyn yn golygu mynychu cyfarfodydd ymgynghori, cyfarfodydd â staff yr ysgol lle bo hynny'n briodol a dosbarthu dogfen Cwestiynau Cyffredin.

### Goblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth

232. Ymrwymodd y Cyngor i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynlluniau o'r fath yn nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol. Mae swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu'r rhain ac mae'r pedair ysgol wedi rhoi Cynllun Teithio Llesol ar waith ar gyfer eu safle presennol.
233. Bydd gofyn bod gan bob ysgol (yn cynnwys y rhai sydd wedi eu haildrefnu) gynllun o'r dechrau.
234. Bydd swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol yn parhau i weithio gyda'r ysgolion wrth adolygu a datblygu ymhellach eu Cynlluniau Teithio Llesol presennol fel y bo'n briodol i gyd-fynd ag unrhyw newid mewn amgylchiadau. Gallant helpu i ymgysylltu ar y Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o'r gwaith o greu mwy o leoedd ac unrhyw newidiadau mewn lleoliad carfannau ysgol i safleoedd eraill.
235. Ar ôl ad-drefnu'r ysgolion, bydd y Cyngor yn monitro'r amodau y tu allan i'r ysgolion ar eu newydd gwedd er mwyn gweld a oes angen unrhyw fesurau pellach megis cyfyngiadau parcio. Bydd y cwmpas ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau parcio yn cael ei ymchwilio a'i roi ar waith lle bo'n briodol fel mesur cost isel i helpu i annog pobl i beidio â defnyddio'r car i deithio pellter byr, gwneud yr amgylchedd y tu allan i bob ysgol yn fwy diogel ac yn fwy ffafriol i gerdded, sgwtera a beicio a gwneud y mwyaf o deithio llesol i'r ysgol.
236. Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio



ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol.

237. Bydd adeiladu'r llwybr Beicio 1.2 newydd ar hyd Teras Cathays, Heol yr Eglwys Newydd a Heol Allensbank yn darparu cyfleuster beicio newydd sy'n cysylltu'n uniongyrchol â safleoedd presennol Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
238. Lle nodir y bydd rhai disgyblion yn gymwys i gael trafndiaeth ysgol oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol (e.e. ar gyfer disgyblion CAA), bydd y cyfleusterau ar gyfer gollwng a chasglu disgyblion yn cael eu hadolygu er mwyn nodi unrhyw welliannau angenrheidiol.

### **Goblygiadau o ran Eiddo**

Troglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank, cynyddu o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), gyda nifer y llefydd meithrin yn codi o 64 i 96.

239. Mae Ysgol Gynradd Allensbank yn Gabalfa yn adeilad rhestredig sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn ymestyn dros 1.35 erw. Mae statws rhestredig yr adeilad yn golygu y bydd rhai cyfyngiadau os bwriedir ailfodelu neu ymestyn yr adeilad ar unrhyw adeg, fodd bynnag, nid oes angen prynu tir ychwanegol ac nid yw Ystadau Strategol yn rhagweld unrhyw oblygiadau eraill o ran eiddo gyda throsglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank ac ehangu Ysgol Mynydd Bychan.

Cau Yshol Allensbank ac Ysgol Gladstone yn ffurfiol a sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica

240. Mae Ysgol Gynradd Gladstone yn Cathays yn adeilad rhestredig sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn ymestyn dros tua 1.08 erw.
241. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica hefyd wedi'i rhestru, yn ymestyn dros 0.38 erw ac yn eiddo i Esgobaeth Llandaf. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith, byddai angen prisio safle ysgol presennol yr Esgobaeth gan brisiwr annibynnol allanol cyn iddo gael ei drosglwyddo i'r Cyngor. Wrth drosglwyddo o'r safle presennol, byddai gwerth net y safle yn cael ei ystyried yn eiddo i'r Esgobaeth, a dyma fyddai ei gyfraniad cyfalaf tuag at adeiladau Ysgol Mynydd Bychan.
242. Mae statws rhestredig yr adeiladau yn golygu y bydd rhai cyfyngiadau os ydynt am gael eu hailfodelu neu eu hymestyn ar unrhyw adeg, fodd bynnag, nid yw Ystadau Strategol yn rhagweld unrhyw oblygiadau eraill o ran eiddo gyda chau Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone a sefydlu Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2FE) gyda'r

meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru a rennir.

Sylwch ar ystyriaeth Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol

243. Mae'r Cyngor yn berchen ar Ysgol Mynydd Bychan yn Gabalfa, ac mae'n ymestyn dros tua 0.50 erw.
244. Pe bai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo, byddai angen prisiad o safle presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica gan brisiwr annibynnol allanol. Wrth drosglwyddo i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan, byddai gwerth net safle presennol Santes Monica cael ei ystyried yn eiddo i'r Esgobaeth, a dyma fyddai ei gyfraniad cyfalaf tuag at adeiladau Ysgol Mynydd Bychan.

### **Asesiadau o Effaith**

245. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Unigol cychwynnol cyn ymgynghori. Roedd hwn yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Mae'r asesiad wedi'i ddiweddarau fel rhan o'r dadansoddiad ôl-ymgyngori ac mae ynghlwm yn Atodiad 13.

### **ARGYMHELLION**

Argymhellir i'r Cabinet wneud y canlynol:

1. Sylwch ar ystyriaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru gan Gorff Llywodraethol Santes Monica yr Eglwys yng Nghymru o'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol, o fis Medi 2025.
2. Yn amodol ar gytundeb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i fwrw ymlaen i gyhoeddi'r cynigion, awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen i gyhoeddi cynigion yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar gynigion i:
  - Drosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
  - Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.
  - Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone:
    - Cau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol.

- Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol.
- Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda dosbarth meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

3. Noder, cyn gweithredu'r cynigion, bod yn rhaid adnabod adnoddau ariannol i hwyluso'r broses o newid sefydliadol o sefydlu'r ysgol gynradd newydd dau ddsbarth mynediad a throsglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
4. Dylid nodi cyn rhoi'r cynigion ar waith bod adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Cabinet yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiad a dderbyniwyd, yr ymatebion arfaethedig i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhellion i roi'r cynllun ar waith neu fel arall o'r cynigion, a ffynonellau ariannu ar gyfer y set lawn o gynigion.

<b>UWCH S WYDDOG CYFRIFOL</b>	Melanie Godfrey <b>Cyfarwyddwr, Addysg a Dysgu Gydol Oes</b>
	13 Hydref 2023

*Mae'r atodiadau canlynol ynghlwm:*

- Atodiad 1 – Dogfen ymgynghori
- Atodiad 2 – Dogfen Grynhoi
- Atodiad 3 – Nodiadau o gyfarfodydd â staff a llywodraethwyr
- Atodiad 4 – Nodiadau o gyfarfodydd ymgynghori gyda chynrychiolwyr disgyblion
- Atodiad 5 – Nodiadau o sesiwn gweithdy Dylanwadwyr Caerdydd
- Atodiad 6 – Nodiadau o gyfarfodydd cyhoeddus (mewn person ac ar-lein)
- Atodiad 7 – Nodiadau o sesiynau galw heibio yn Llyfrgell Cathays
- Atodiad 8 – Nodiadau o gyfarfodydd galw heibio ar-lein
- Atodiad 9 – Nodiadau o gyfarfodydd galw heibio gyda rhieni
- Atodiad 10 – Ymatebion Ffurfiol
- Atodiad 11 – Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac arfarniad o'r farn a fynegwyd
- Atodiad 12 – Dadansoddiad cryno o'r ymatebion a dderbyniwyd
- Atodiad 13 – Asesiad Effaith Unigol

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

YSGOLION YR 21AIN GANRIF

# Lleoedd Ysgol Gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Mychan, Ystum Taf a Phlasnewydd

DOGFEN YMGYNGHORI 2023

Y CYFNOD YMGYNGHORI:  
3 MAI 2023 – 30 MEHEFIN 2023



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.  
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)  
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.  
Cysylltwch â ni mewn e-bost i [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) neu ar 029 2087 2720 i drefnu hyn

Tudalen 53



# Tabl Cynnwys

## Cyflwyniad

**Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?**

**Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?**

**Tabl Crynodeb Opsiwn**

## Ymgynghoriad

Barn plant ar y cynigion arfaethedig

Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

**Mae eich barn yn bwysig i ni**

**Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon**

**Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?**

Ymrwymadau 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' Caerdydd i ddysgwyr

Sut mae newidiadau i boblogaeth yn y ddinas yn effeithio ar ysgolion?

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd

Darparu digon o lefydd cyfrwng Saesneg a Chymraeg

**Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd**

Cyfrwng Saesneg

Cyfrwng Cymraeg

Darpariaeth arall

**Faint o lleoedd ysgol gynradd sydd eu hangen?**

**Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg**

Nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd Saesneg lleol

Cyfanswm y plant sy'n mynychu ysgolion cynradd Saesneg yn yr ardal

Ble mae'r plant hyn yn byw?

Y galw am lefydd ysgol cynradd cymunedol Saesneg yn y dyfodol

**Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg**

Nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd Cymraeg lleol

Cyfanswm y plant sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg yn yr ardal

Ble mae'r plant hyn yn byw?

Y galw yn y dyfodol am lefydd mewn ysgolion cynradd cymunedol Cymraeg

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg – twf wedi'i dargedu

Data Derbyn Ysgolion – Ebrill 2023

## Map ardal

### Safleoedd Ysgol

Safle Ysgol Gynradd Allensbank

Safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica

Safle Ysgol Mynydd Bychan

### Ansawdd a Safonau Ar Hyn o Bryd

Ysgol Gynradd Allensbank

# Tabl Cynnwys

Ysgol Gynradd Gladstone

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica

Ysgol Mynydd Bychan

## **Newidiadau arfaethedig i leoedd ysgol Cymraeg a Saesneg**

Opsiwn 1

Opsiwn 2

Opsiwn 3

## **Gwybodaeth sy'n berthnasol i bob opsiwn**

Amrywiaeth cymunedau ysgol

Beth fyddai'r effaith ar symudedd disgyblion?

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Leiafrifol?

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?

## **Trefniadau Llywodraethu**

Diddymu Cyrff Llywodraethu a sefydlu Corff Llywodraethu newydd

Ffederasiwn

Cydweithio

## **Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?**

Safonau

Profiadau dysgu ac addysgu

Gofal, cymorth ac arweiniad

Arwain a Rheoli

## **Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth ysgol uwchradd?**

## **Sut byddai newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?**

## **Opsiynau eraill a ystyriwyd**

## **Trefniadau Derbyn i Ysgolion**

## **Trefniadau Teithio i Ddysgwyr**

## **Ariannu'r newidiadau arfaethedig**

Cyllid cyfalaf

Cyllid refeniw

## **Effaith y cynigion ar y Gymraeg**

## **Cydraddoldeb**

## **Effaith Gymunedol**

## **Tarfu Posibl i Ddisgyblion**

## **Y camau nesaf, sut i roi gwybod eich barn a ffurflen adborth**

Dyddiadau Allweddol

Cyfnod ymgynghori

Hysbysiad Statudol

Penderfynu ar y cynigion

Hysbysu'r penderfyniad

## **Mae eich barn yn bwysig i ni**





## Cyflwyniad

### Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd.

Mae'n nodi'r newidiadau arfaethedig diwygiedig i'r ddarpariaeth gynradd sy'n gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant sy'n mynychu, neu'n disgwyl mynychu, Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

Rydym am i bawb ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig, fel y gallwch ddweud wrthym beth yw eich barn am y newidiadau.

### Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Mae'r Cyngor yn ceisio barn y gymuned ar gynigion i:

- wneud newidiadau i'r modd y mae ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn cael eu trefnu, gan gadw nifer cyfatebol o leoedd neu gael gostyngiad bach mewn lleoedd o gymharu â'r trefniadau presennol, ac
- ehangu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Mynydd Bychan

Cynigir y bydd y newidiadau arfaethedig yn:

- cynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr
- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn gallu eu gwasanaethu yn y dyfodol
- cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog
- cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr
- cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gan un Dosbarth Mynediad (210 disgybl oedran cynradd)
- cadarnhau lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o lefydd gwag.

Mae'r Cyngor wedi nodi tri opsiwn i ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion yn yr ardal. Mae tabl 1 ar dudalen 6 a7 yn crynhoi'r newidiadau a gynigir. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am sut y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu, a beth fyddent yn eu golygu i bob ysgol, ar dudalennau 39 -63.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Mae'r Cyngor yn awgrymu tri opsiwn I ad-drefnu ysgolion yn yr ardal

Mae Tabl 1 yn dangos y newidiadau arfaethedig. Byddai'r newidiadau hyn yn dod i rym o fis Medi 2025.

Tabl Opsiynau		
Opsiwn	Ysgolion	Cynnig
Opsiwn 1	Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone	<ul style="list-style-type: none"> <li>o Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone, drwy</li> <li>o Gau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol</li> <li>o Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol.</li> <li>o Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoadd gyda meithrinfa ar y safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica.</li> </ul>
	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	<p>Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.</p> <p>Sefydlu meithrinfa yn yr ysgol</p>
	Ysgol Mynydd Bychan	<p>Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank</p> <p>Cynyddu nifer y lleoadd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoadd i 420.</p> <p>Cynyddu nifer y lleoadd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96</p>

Opsiwn	Ysgolion	Cynnig
Opsiwn 2	Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone	<ul style="list-style-type: none"> <li>o Cydleoeli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir, drwy:</li> <li>o Drosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i'r safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica.</li> <li>o Lleihau nifer y lleoadd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoadd i 210.</li> <li>o Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol.</li> <li>o Cynyddu nifer y lleoadd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96.</li> </ul>
	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	<p>Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.</p> <p>Sefydlu meithrinfa yn yr ysgol</p>
	Ysgol Mynydd Bychan	<p>Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank</p> <p>Cynyddu nifer y lleoadd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoadd i 420.</p> <p>Cynyddu nifer y lleoadd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96</p>

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Opsiwn	Ysgolion	Cynnig
Opsiwn 3	Ysgol Gynradd Allensbank	Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan  Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd i 192 o leoedd.
	Ysgol Mynydd Bychan	Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank  Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420.  Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96

Byddai opsiwn 2 a 3 yn galluogi rhoi mwy o ystyriaeth i gydweithredu/ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone.

Mae ysgolion sy'n cydweithio, neu'n ffederaleiddio o dan un Corff Llywodraethu, yn cydweithio ar rannu blaenoriaethau ac arbenigedd. Mae hyn yn cefnogi ysgolion ar wahân i wneud gwell defnydd o adnoddau, ac archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol.

Pe bai'r ysgolion yn ystyried cyflwyno cydweithrediad neu ffederasiwn ffurfiol, byddai hyn yn cael ei arwain gan Gyrrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ac yn cael cefnogaeth gan y Cyngor. Byddai unrhyw gynniig i ffederaleiddio yn destun ymgynghoriad ar wahân gan y Cyrff Llywodraethu hyn.



# Ymgynghoriad

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Mae Cyngor Caerdydd yn ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig i Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan.

Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn ei ymgynghoriad ar newidiadau posib i'r ysgol.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn gofyn barn pobl ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl roi eu barn i ni.

## Mae Tabl 2 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:

Tabl 2: Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw	
Plant a phobl ifanc	Gweinidogion Cymru
Rhieni/gofalwyr	Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Staff ysgol	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD)
Cyrff Llywodraethu Ysgolion	Comisiynydd y Gymraeg
Preswylwyr lleol	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS)/Aelodau Seneddol (ASau)	Undebau Llafur
Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol	Darparwyr gofal plant
Awdurdodau Cynddogol	Mudiad Meithrin
Pob Ysgol yng Nghaerdydd	Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru
Estyn	Clybiau Plant Cymru
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Cynghorau Cymuned	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Y Comisiynydd Plant	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Sefydliadau y Sector Wirfoddol	Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Dewi Sant	Fforwm Addysg Gymraeg (WEF)

## Barn plant ar y cynigion arfaethedig

Mae Caerdydd wedi ymrwmo i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant lle gall plant lywio penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar eu bywydau a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Mae'n bwysig wrth ddatblygu cynigion, fod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion lleol a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol a gaiff ei ystyrid gan y Cyngor.

Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica hefyd yn ystyried barn ei disgyblion yn ei hadroddiad ymgynghori.

## Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Cyngor Caerdydd yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

Os na allwch weld y ddogfen ar-lein, bydd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) neu drwy ffonio **029 2087 2720**.

- Byddwn hefyd yn cynghori teuluoedd â phlant yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan, a'r rhai sydd â phlant o oedran cyn-ysgol yn yr ardal leol sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.
- Byddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio i unrhyw un fynychu lle bydd y newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Os hoffech fynychu sesiwn ar-lein / cyfarfod cyhoeddus ar-lein, cysylltwch â ni trwy e-bost: [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) gan gadarnhau pa gyfarfod yr hoffech ei mynychu ac fe anfonwn ddolen atoch a chyfarwyddiadau ar sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod.
- Bydd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â Chyrff Llywodraethu a staff yr ysgolion a gaiff eu heffeithio.
- Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i roi eich barn.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori wedi eu nodi isod: :

Tabl 3: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori		
Natur yr Ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Sesiwn galw i mewn	Dydd Llun 15 Mai 2023 2:30pm – 4:30pm	Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays
Sesiwn galw i mewn	Dydd Iau 25 Mai 2023 9am – 11am	Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays
Sesiwn galw i mewn	Dydd Mercher 07 Mehefin 2023 5pm – 7pm	Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays
Sesiwn galw i mewn ar-lein	Dydd Mawrth 09 Mai 2023 9.00am – hanner dydd	Microsoft Teams
Sesiwn galw i mewn ar-lein	Dydd Mercher 17 Mai 2023 9.00am – hanner dydd	Microsoft Teams
Sesiwn galw i mewn ar-lein	Dydd Llun 05 Mehefin 2023 1.30pm – 4pm	Microsoft Teams
Sesiwn galw i mewn ar-lein	Dydd Iau 08 Mehefin 2023 1:30pm – 4pm	Microsoft Teams
Cyfarfod cyhoeddus (yn Saesneg)	Dydd Iau 18 Mai 2023 6:15pm – 7:40pm	Canolfan Gymunedol Cathays
Cyfarfod cyhoeddus (yn Gymraeg)	Dydd Iau 25 Mai 2023 6:15pm – 7:40pm	Canolfan Gymunedol Cathays
Cyfarfod cyhoeddus ar-lein	Dydd Iau 08 Mehefin 2023 6pm – 7:30pm	Microsoft Teams

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- fynychu cyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio. Os hoffech fynychu sesiwn ar-lein / cyfarfod cyhoeddus ar-lein, cysylltwch â ni trwy e-bost: [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) gan gadarnhau pa sesiwn yr hoffech ei mynychu ac fe anfonwn ddolen atoch a chyfarwyddiadau am sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod.
- cwblhau'r ffurflen ymateb electronig sydd i'w chael yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)
- argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, y gallwch ddod o hyd iddi yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa), a dychwelyd y ffurflen drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW
- ysgrifennu at y tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bost [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Nodwch fod rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw Dydd Gwener 30 Mehefin 2023.**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.



## Esboniad o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

**Nifer Derbyn** – mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion o leiaf hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC). Y Nifer Derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

**Cyfuno** - lle bydd dwy ysgol bresennol neu fwy yn dod yn un ysgol, trwy gau'r ysgolion presennol a sefydlu ysgol newydd.

**ADY** – Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gallai hyn fod oherwydd anawsterau dysgu, anabledau corfforol neu broblemau ymddygiadol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

**Cyllid cyfalaf i ysgolion** – arian a ddefnyddir i godi adeiladau ysgol newydd neu wella cyfleusterau sy'n bod eisoes.

**Ystafell ddosbarth** – ystafell o fewn ysgol o faint digonol ar gyfer addysgu.

**Lleoliad dosbarth** – ystafell ddosbarth mewn ysgol a ddefnyddir ar gyfer addysgu a lle mae grŵp o blant wedi'u lleoli fel arfer.

**Cydweithio** - Pan fo dau neu fwy o gyrff llywodraethu ysgolion yn cytuno i gydweithio ar flaenoriaethau a rennir, ac yn gallu rhannu arbenigedd ac adnoddau.

**Ysgol Gymunedol** – ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor sydd yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

**Dalgylch** – ardal y byddai ysgol gymunedol fel rheol yn ei gwasanaethu. Yng Nghaerdydd, mae mwy o flaenoriaeth gan blant o fewn yr ardal hon i gael eu derbyn i'r ysgol na phlant y tu allan i'r ardal.

**Ffederasiwn** - Cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae nifer o ysgolion yn rhannu trefniadau llywodraethu a chael un corff llywodraethu.

**Dosbarth Mynediad (DM)** - mae Dosbarth Mynediad (DM) yn cyfeirio at ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn. Felly, mae ysgol 2DM yn ddau ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn. Mae ysgolion sydd â Dosbarthiadau Mynediad nad ydynt yn rifau cyfan fel arfer yn gweithredu dosbarthiadau oedran cymysg.

**Awdurdod Lleol** - sefydliad sydd yn swyddogol gyfrifol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol.

**Data Nifer ar y Gofrestr** – nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

**CYBLD** – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

**Llefydd dros ben** – llefydd gweigion/heb eu llenwi mewn ysgol.

**Hysbysiad Statudol** – hysbysiad statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Gwneir hyn dim ond os bydd Cabinet y Cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn dilyn y broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

**Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr** – ysgol gynradd neu uwchradd sydd fel arfer o natur grefyddol sydd â'i llywodraethiant dan fwyafrif eglwysig a lle mai Corff Llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn.

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)** - Cynllun statudol y mae'n rhaid i bob Cyngor ei baratoi, gan ddatgan sut y bydd yn gwella cynllunio addysg Gymraeg a gwella safonau mewn addysg Gymraeg, gyda thargedau wedi'u gosod a'u cytuno gan Weinidogion Cymru.

# Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?

## Cefndir

### Ymrwymadau 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' Caerdydd i ddysgwyr

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd y Cyngor ei ddogfen 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach', sy'n nodi'r themâu a'r ymrwymadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Cyngor yn credu mai addysg dda yw'r llwybr mwyaf sicr allan o dlodi ac, yn ei dro, fod ffyniant hirdymor y ddinas yn dibynnu ar gefnogaeth gadarn i'n plant a'n pobl ifanc wireddu eu potensial.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr mwyaf bregus Caerdydd, gan gynnwys plant mewn gofal, y rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol a phlant o'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf. Mae'r Cyngor yn datblygu rhaglen Ysgolion â Ffocws Cymunedol ac yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, gan ehangu'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg yn unol â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae sicrhau bod cyllid ar gyfer addysg yn cael ei dargedu tuag at brofiadau a chyfleoedd dysgu ochr yn ochr â chymorth i deuluoedd yn hollbwysig. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn ysgolion a rhaid iddo hefyd gefnogi pob ysgol i barhau i wella addysg eu holl ddysgwyr.

I gyflawni hyn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cydbwysedd priodol yn y nifer a mathau o leoedd ysgol sy'n gwasanaethu pob ardal, gyda lefel ddigonol o leoedd dros ben. Rhaid i bob darpariaeth ysgol a gynigir ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rhaid i'r Cyngor wneud y mwyaf o botensial ei staff addysgu a dysgu er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'u talent, a thrwy hynny sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfleoedd a deilliannau dysgwyr ar gyfer pawb.

### Sut mae newidiadau i boblogaeth ledled y ddinas yn effeithio ar ysgolion?

Cyrhaeddodd y niferoedd derbyn i'r dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion cynradd ledled y ddinas ei anterth ar tua 4,370 o ddisgyblion yn 2015/16 a 2016/17. Mae hyn yn cyfateb i frig y cyfraddau geni a gofnodwyd bum mlynedd ynghynt. Ar yr adeg pan oedd y niferoedd ar eu huchaf, cadwodd Caerdydd tua 8% o lefydd gwag.

Ers 2017/18, mae gostyngiad parhaus wedi bod yn y gyfradd enedigaethau, a newidiadau i batrymau mudo yn y ddinas. Mae hyn yn golygu yr amcanestynnir y bydd y nifer sy'n mynd i addysg gynradd ledled y ddinas yn lleihau'n sylweddol tan o leiaf Medi 2025. Fodd bynnag, nid yw newidiadau poblogaeth yn gyson ym mhob rhan o'r ddinas.

Gostyngodd y niferoedd yn y dosbarthiadau Derbyn yn 2021/22 i tua 3,860 o ddisgyblion. Amcanestynnir y bydd y niferoedd Derbyn yn gostwng ymhellach i tua 3,500 erbyn 2025/2026, gostyngiad cyffredinol o 18% ers 2016/17. O gymharu'r niferoedd a amcanestynnir i nifer y lleoedd sydd ar gael, byddai canran y lleoedd gwag yng Nghaerdydd yn cynyddu i tua 25% ledled y ddinas. Mae hyn yn cyfateb i 18 ysgol gynradd wag â dau ddsbarth mynediad.

Gan fod rhieni'n gallu datgan ffafriaeth dros ddewis ysgol, byddai rhai ysgolion yn parhau i gael niferoedd uchel, a byddai'r cwmp yn y boblogaeth yn cael fawr ddim effaith ar yr ysgolion hynny. I ysgolion eraill fe fydd yr effaith ar niferoedd disgyblion yn llawer mwy na chyfartaledd y gostyngiad o 18% ar draws y ddinas.



Mae mwyafrif yr arian y bydd ysgolion yn ei dderbyn wedi ei seilio ar niferoedd y disgyblion ar y gofrestr. Bydd gostyngiad mewn niferoedd a mwy o lefydd gwag ledled y ddinas yn effeithio'n fawr ar gyllidebau rhai ysgolion. Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar y cyfleoedd addysgu a dysgu y gall yr ysgolion hynny eu cynnig.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn rhoi canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch faint o lefydd gwag y dylid eu cadw. Mae'r Cod yn dweud, lle mae mwy na 10% o lefydd gwag mewn ardal yn gyffredinol, y dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth. Dylai'r adolygiad hwn ystyried a ddylid gwneud cynigion i leihau lleoedd gwag os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Yng Nghaerdydd, rhaid cadw cyfran resymol o lefydd gweigion mewn ysgolion cynradd yn uwch na'r lefel canllaw o 10% er mwyn ymateb i newidiadau i'r gyfradd enedigaethau, ac i niferoedd derbyn i ysgolion, dros y tymor hir.

Mae nifer y llefydd cynradd sydd ar gael mewn cymunedau presennol yng Nghaerdydd yn ddigon i ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion, ond amcanestynnir y bydd lefel y llefydd gwag yn cynyddu.

Byddai cynigion i gydbwyso capasiti ysgolion yn well yn erbyn y rhagolygon o ran y lleoedd sydd eu hangen yn cynnig defnydd mwy effeithiol o adnoddau ariannol yr ysgolion. Byddai hyn yn caniatáu i ysgolion ddefnyddio cyfran uwch o'u cyllideb ar gyfer addysgu a dysgu.

## **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd**

Yn 2017 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. Dyma strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n nodi'r ymagwedd hirdymor o gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gosod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid i bob awdurdod lleol bennu ei darged yn unol â'r ystod a roddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol cyffredinol. Y targed y mae Llywodraeth Cymru wedi'i bennu ar gyfer Caerdydd yw sicrhau twf rhwng 25% a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 i gael addysg Gymraeg erbyn diwedd y cyfnod o ddeng mlynedd.

Yn 2020/2021, nifer y disgyblion Derbyn Cymraeg oedd 749, sef 18% o gyfanswm y niferoedd disgyblion. Felly, er mwyn cyrraedd y targed ystod is, byddai angen cynnydd canrannol o tua 7%. Er mwyn cyrraedd y targed ystod uwch, byddai angen cynnydd canrannol o tua 11%.

Ar hyn o bryd, mae tua 18% o'r lleoedd oedran Derbyn sydd ar gael mewn ysgolion cynradd hefyd yn rhai cyfrwng Cymraeg, un ai mewn ysgolion Cymraeg neu ysgolion dwy ffrwd. Gan yr amcanestynnir y bydd y niferoedd derbyn i ysgolion yn gostwng, byddai'r Cyngor yn gallu darparu ar gyfer canran uwch o blant mewn ysgolion Cymraeg. Byddai gofyn o hyd i nifer y llefydd sydd ar gael mewn ysgolion Cymraeg gynyddu er mwyn i Gaerdydd gyrraedd ei thargedau.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd yn nodi cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau:

- y gall pob plentyn yn y ddinas dderbyn addysg yn y Gymraeg, os mai dyma eu dewis
- bydd y nifer sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion Cymraeg yn cynyddu, a
- bydd pob plentyn mewn ysgolion Saesneg yn cael cyfle i ddod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.

## Darparu digon o leoedd ysgol Saesneg a Chymraeg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yng Nghaerdydd yn cael addysg wych trwy gyfrwng yr iaith o'u dewis nhw.

Bu'r Cyngor yn ymgynghori yn 2021 ar gynnig i ddarparu balans priodol o leoedd ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Fe wnaeth y Cyngor hefyd ofyn am farn ar newidiadau hirdymor i'r ddarpariaeth ysgolion er mwyn cynnig balans priodol o lefydd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal gydag unrhyw ateb yn ceisio:

- Lleihau nifer y lleoedd gwag cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu dalgylchoedd cyfun Allensbank, Albany a Gladstone
- Ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n gwasanaethu dalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan i 2 ddsbarth mynediad
- Rhoi mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth, rheoli, staff addysgu a staff cymorth, i gefnogi ffocws parhaus ar safonau addysgu a deilliannau gwell i ddisgyblion
- Galluogi buddsoddi mewn adeiladau ysgol i wella'r amgylchedd dysgu.

Dangosodd canlyniad yr ymgynghoriad bod yna gefnogaeth ar y cyfan i ehangu addysg Gymraeg. Er bod cefnogaeth gyffredinol i ehangu Ysgol Mynydd Bychan, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan yn cefnogi ehangu Ysgol Mynydd Bychan dros dro fel y cynigiwyd.

Mae'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon yn mynd i'r afael â'r materion a lywiodd y cynigion cynharach ac yn ystyried y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cynharach.

Mae digon o gapasiti yn yr ysgolion presennol sy'n gwasanaethu'r ardaloedd hynny i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol.

Byddai'r cynigion yn cadw pob un o'r safleoedd ysgol presennol, ac felly'n cadw hyblygrwydd yn yr ystâd ysgolion i allu ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol sy'n effeithio ar yr ardal.

Mae'r opsiynau a gaiff eu cyflwyno yn cefnogi defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

Mae'r cynigion hefyd yn ceisio cynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau'r anghydraddoldebau o ran cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a rhai difreintiedig.


# Ysgolion sydd yn gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Gwasanaethir ardaloedd Cathays, Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd gan nifer o ysgolion cynradd Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

## Cyfrwng Saesneg

Gyda'i gilydd mae dalgylchoedd cyfunol Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Albany ac Ysgol Gynradd Gladstone, yn ffurfio dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays. Mae'r dalgylch hwn yn gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.


Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yng Ngabalfa ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr ym Mhlasnewydd hefyd yn gwasanaethu'r cymunedau hyn.



## Cyfrwng Cymraeg

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn gwasanaethu dalgyloch sy'n cynnwys cymuned Cathays a rhannau o gymunedau Gabalfa, y Mynydd Bychan a Phlasnewydd.

Mae dalgylochoedd Ysgol y Wern, Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol Melin Gruffydd yn ffinio â dalgyloch Ysgol Mynydd Bychan.



## Darpariaeth arall

Mae cymuned addysg ehangach Caerdydd yn cynnwys nifer o ysgolion annibynnol. Mae Ysgol Gynradd Fwslimaidd Caerdydd a Kings Monkton yng nghymunedau Cathays a Phlasnewydd yn y drefn honno.

## Faint o leoedd ysgol gynradd sydd eu hangen?

Wrth ystyried sawl lle ysgol sydd eu hangen, mae'r ffactorau canlynol yn bwysig:

- Nifer y lleoedd ym mhob ysgol
- Cyfanswm nifer y plant yn yr ardal
- Ble mae'r plant hyn yn byw
- Faint o blant fydd angen lle yn y dyfodol?



# Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg

## Nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd Saesneg lleol

Capasiti ysgol gynradd yw nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob grŵp oedran o'r Dosbarth Derbyn i Blwyddyn 6, ar gyfer plant rhwng pedair ac un ar ddeg oed.

Nifer Derbyn ysgol yw nifer y disgyblion y gellir eu derbyn ym mhob blwyddyn yn yr ysgol. Mae capasiti a nifer derbyn ysgol wedi eu seilio ar sut y caiff ystafelloedd dosbarth a gofodau eraill yn yr ysgol eu defnyddio ar gyfer addysgu a dysgu.

Tabl 4: Lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion cynradd Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal 2023/2024

Ysgol	Capasiti cyhoeddedig presennol (4 - 11 oed)	Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4 - 11 oed)	Lleoedd Meithrin	Cyfrwng iaith	Categori	Ystod oedran
Byddai trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle Ysgol Gynradd Allensbank yn arwain at gynnydd o 0.04 milltir yn y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion presennol Ysgol Mynydd Bychan.

# Gwybodaeth sy'n Berthnasol i bob Opsiwn

## Amrywiaeth cymunedau ysgol

Mae dadansoddiad o ddata'r cyfrifiad ysgol (CYBLD) yn cadarnhau, ar hyn o bryd, fod gwahaniaethau sylweddol yn y data demograffig rhwng rhai o ysgolion yr ardal.

Mae'n nodedig fod cyfeiriadau cartref disgyblion sydd wedi cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan wedi'u clystyru o amgylch safleoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank. Mae mwyafrif disgyblion Ysgol Gynradd Allensbank yn byw yn yr un ardal, gyda chyfeiriadau cartref hefyd wedi'u clystyru o amgylch safleoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank. Ond mae data demograffig ar gyfer y disgyblion hynny ac ar gyfer yr ysgol yn gyffredinol yn wahanol iawn i ddata Ysgol Mynydd Bychan.

Mae data demograffig hefyd yn gwahaniaethu'n fawr rhwng Ysgol Mynydd Bychan ac ysgolion Saesneg eraill sy'n gwasanaethu'r ardal. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys:

- Symudedd disgyblion (faint o blant sy'n symud i mewn ac allan o ysgol)
- Disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
- Iaith y cartref
- Lefel cymhwysedd a gyflawnir yn y Gymraeg neu Saesneg, ac
- Ethnigrwydd

Rhaid i gynigion ystyried gwahaniaeth mewn data demograffig ond rhaid iddynt hefyd ystyried gallu'r ymgeiswyr hynny sy'n symud i'r ardal i allu cyrchu lleoedd ysgol yn gydradd yn y naill gyfrwng iaith.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu. Rhaid i'r Cyngor felly sicrhau, wrth gyflwyno cynigion ac ar ôl gweithredu cynigion, fod pob un o'r ysgolion yn cael cefnogaeth i ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Rhaid i'r cynigion gefnogi pob ysgol i allu hyrwyddo cyfle cyfartal i holl deuluoedd yr ardal.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 y Cyngor yn gosod targedau penodol ac yn nodi ffyrddau gwaith blaenoriaeth i'r Cyngor a phartneriaid fel ysgolion. Mae hyn yn cynnwys menter beilot ymchwil gyda Caerdydd Ddwylieithog, arolygon rhieni, a grwpiau ffocws er mwyn deall yn well y rhesymau dros y niferoedd isel sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg o fewn grwpiau a chymunedau penodol a dangynrychiolir (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ochr yn ochr â hyrwyddiadau pwrpasol. Mae'r gwaith yma ar y gweill.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ceisio darparu cydbwysedd priodol lle mae pob math o ysgol ar gael i bob grŵp a lle cefnogir pob ysgol i fod yn hygyrch, ac i gael eu gweld yn hygyrch, i bob grŵp.

Bydd y gwaith sydd ar y gweill i ddeall dewisiadau rhieni a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd ym mhob cymuned yn well, ochr yn ochr â gwella gwelededd cyfrwng iaith a chyfleoedd trochi sydd ar gael, yn targedu'n uniongyrchol yr ymgais i leihau'r anghyfartaledd rhwng data demograffig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

## Sut byddai symudedd disgyblion yn cael ei effeithio?

Mae symudedd disgyblion yn cyfeirio at ganran y plant sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n symud i mewn neu allan o'r ysgol mewn cyfnod diffiniedig. Mae gan rai ysgolion drosiant llawer mwy o ddisgyblion nag ysgolion eraill am amryw resymau.

Mae data symudedd disgyblion Ysgol Mynydd Bychan yn isel iawn (1.3% y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y tair blynedd diwethaf), sydd yn rhannol yn adlewyrchu gordanysgrifiad yr ysgol o ran mynediad i'r dosbarth Derbyn. Mae pob un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn gweld symudedd disgyblion o 10% neu fwy bob blwyddyn ac adroddodd Ysgol Gynradd Allensbank "Lefelau symudedd disgyblion o hyd at 40% ar draws un flwyddyn academaidd" yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol ar gynigion.

Tabl 17: Data demograffig - Symudedd disgyblion ysgol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6	
Ysgol	Disgyblion ddim yn symud i'r grŵp blwyddyn nesaf yn yr ysgol (cyfartaledd 3 blynedd)
Ysgol Gynradd Allensbank	15.2%
Ysgol Gynradd Gladstone	21.9%
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	21.1%
Ysgol Mynydd Bychan	1.3%

Ar hyn o bryd, nid yw teuluoedd sy'n symud i'r ardal wedi'r dyddiad cau ar gyfer mynediad i'r dosbarth Derbyn fel arfer yn gallu cael mynediad i Ysgol Mynydd Bychan a gallai ysgol cyfrwng Cymraeg amgen fod cryn bellter o gyfeiriad cartref y teuluoedd hynny.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn gwella gallu'r ymgeiswyr hynny sy'n symud i'r ardal i gael mynediad teg i leoedd ysgol yn y naill gyfrwng iaith. Mae'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth a nodir yn CSCA y Cyngor hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn data demograffig rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Disgwylir i'r newidiadau hyn leihau'r gwahaniaeth yn y data symudedd disgyblion rhwng Ysgol Mynydd Bychan a'i hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg cyfagos.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae tabl 17 isod yn crynhoi canran y disgyblion, o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 gan gynnwys y blynyddoedd hynny, sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ym mhob ysgol. Cofnodir hyn o fewn data'r cyfrifiad ysgol (CYBLD) fel cymhwysedd am brydau ysgol am ddim (cPYADd).

Tabl 18: Data demograffig - Disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim Ffynhonnell: CYBLD 2022	
Ysgol	Cymhwysedd PYADd (disgyblion fel %)
Ysgol Gynradd Allensbank	37.8%
Ysgol Gynradd Gladstone	29.5%
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	42.8%
Ysgol Mynydd Bychan	5.4%
Allensbank a Gladstone wedi'u cyfuno	33.9%

Mae'r safonau yn y pedair ysgol lle cynigir newidiadau yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Mae gan bob un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg lle cynigir newidiadau gyfran uwch o ddisgyblion nad Saesneg yw iaith y cartref, o gymharu â chyfartaledd o 26.2% ar gyfer y ddinas gyfan.

Mae gan Ysgol Mynydd Bychan gyfran is o lawer o ddisgyblion nad Saesneg yw iaith y cartref na'r cyfartaledd ledled y ddinas.

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth gan fod y Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Mae Tabl 19 isod yn manylu ar boblogaethau demograffig ysgolion o ran yr iaith a siaredir gartref, a chymhwysedd y disgyblion mewn Saesneg llafar lle ystyrir Saesneg yn iaith ychwanegol (SIY). Mae'r canrannau'n cael eu meintoli o ran disgyblion sy'n cael eu categoreiddio fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol (newydd i'r Saesneg i ddatblygu cymhwysedd, categorïau A i C), tra bod gweddill y plant sydd yng nghategoriâu D ac E yn cael eu categoreiddio fel 'cymwys' a 'rhugl' yn y drefn honno.

**Tabl 19: Data demograffig - Iaith cartref disgyblion ysgol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6**  
Ffynhonnell: CYBLD 2022

Ysgol	Nifer ar y gofrestr	Iaith y cartref Gymraeg neu Saesneg	Iaith y cartref heb ei chofnodi	Nid Cymraeg na Saesneg yw iaith y cartref	Niferoedd yr ieithoedd cartref	SIY: A-C ('Newydd i'r Saesneg' i 'datblygu cymhwysedd')
Ysgol Gynradd Allensbank	193	78	10	105 (54%)	31	97 (50%)
Ysgol Gynradd Gladstone	173	66	3	104 (60%)	31	82 (47%)
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	138	42	0	95 (69%)	33	90 (65%)
Ysgol Mynydd Bychan	203	201	0	2 (1%)	3	0 (0%)

Mae'r safonau yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai pob ysgol yng Nghaerdydd yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Mae'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth a nodir yn CSCA y Cyngor hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn data demograffig rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Disgwylir i'r newidiadau hyn leihau'r gwahaniaeth mewn iaith y cartref rhwng dysgwyr sy'n cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan a'i hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg cyfagos.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Leiafrifol?

Mae Tabl 20 isod yn crynhoi'r data ethnigwydd a gofnodwyd yn nata'r cyfrifiad ysgol (CYBLD). Mae'r data hwn yn amrywio rhwng ysgolion ac mae wedi'i grynhoi i 'Gwyn Prydeinig' a 'Nid Gwyn Prydeinig', ynghyd â nifer y cefndiroedd ethnig, i'w cynrychioli'n gliriach. Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng poblogaethau Ysgol Mynydd Bychan ac ysgolion Saesneg lleol.

Tabl 20: Data demograffig - Ethnigwydd disgyblion ysgol Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 Ffynhonnell: CYBLD 2022				
Ysgol	Nifer y disgyblion ar y gofrestr	Gwyn Prydeinig	Nid Gwyn Prydeinig	Nifer y cefndiroedd ethnig
Ysgol Gynradd Albany	378	17.2 %	82.8 %	53
Ysgol Gynradd Allensbank	193	21.2 %	78.8 %	45
Ysgol Gynradd Gladstone	173	20.8 %	79.2 %	37
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	138	18.8 %	81.2 %	28
Ysgol Mynydd Bychan	203	91.1 %	8.9 %	11

Mae'r safonau yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Mae'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth a nodir yn CSCA y Cyngor hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn data demograffig rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Disgwylir i'r newidiadau hyn leihau'r gwahaniaeth mewn data ethnigwydd rhwng dysgwyr sy'n cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan a'i hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg cyfagos.

## Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Mae gan blentyn anghenion addysgol arbennig os oes ganddo anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn ei chael hi'n llawer anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd sy'n gofyn am wahanol gyfleusterau addysgol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant yn gyffredinol.

Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (Cod ADY) a'r rheoliadau i rym ar 1 Medi 2021 i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at gymorth ychwanegol sydd wedi'i gynllunio a'i warchod yn briodol i fodloni eu hanghenion, gyda dysgwyr wrth wraidd y broses.

Mae plant yn symud o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn grwpiau dros gyfnod o 3 blynedd o fis Medi 2021, i sicrhau digon o amser i ysgolion ac awdurdodau lleol drafod y cymorth sydd ei angen ac i baratoi cynlluniau.

Mae tabl 21 isod yn dangos canran y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob un o'r ysgolion lle cynigir newidiadau yn 2022 (CYBLD 2022)

Tabl 21				
Ysgol	% y Disgyblion ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol	% y Disgyblion ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	% y Disgyblion â datganiad ADY	% y disgyblion â CDU
Ysgol Gynradd Allensbank	4.1 %	5.2 %	2.6 %	1.6 %
Ysgol Gynradd Gladstone	1.7 %	0.0 %	1.2 %	3.5 %
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	0.7 %	5.1 %	0.7 %	0.0 %
Ysgol Mynydd Bychan	0.0 %	0.0 %	1.0 %	0.0 %

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Does dim gostyngiad arfaethedig i'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae yna ddsbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r Cyngor yn derbyn hyd at 8 plentyn Cyfnod Sylfaen i'r ddarpariaeth hon ledled y ddinas nad oeddent yn gwneud cynnydd digonol, ond sydd â digon o botensial i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd leol.

Mae'r lleoliadau yn para rhwng 1-3 blynedd, gan ddibynnu ar eu cynnydd. Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn cael cefnogaeth i ddychwelyd i'r ysgol honno ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf un diwrnod yr wythnos, er mwyn cadw cyswllt â ffrindiau lleol a pharatoi at ddychwelyd yno'n llawn amser.

Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i leoliad y dosbarth Lleferydd ac Iaith dinas-gyfan yn y dyfodol, a allai naill ai gael ei leoli yn y safle a rennir gan Gladstone a St Monica neu mewn ysgol arall.

Gallai'r cynnig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddsbarth mynediad, a throsglwyddo i safle Ysgol Gynradd Allensbank, roi'r cyfle i ystyried sefydlu canolfan adnoddau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai angen datblygu cynigion ar wahân ar gyfer y ddarpariaeth hon.



## Trefniadau Llywodraethu

Os bydd Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, byddai cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cael eu diddymu, a threfniadau llywodraethu newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg dau ddsbarth mynediad newydd.

O dan Opsiynau 2 a 3, mae disgwyl y byddai'r ddwy ysgol yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i holl ddisgyblion yr ysgolion. Gellid cyflawni hyn drwy gydweithio anffurfiol neu ffurfiol, neu drwy ffederasiwn ffurfiol. Byddai'r Cyngor a Chonsortium Canolbarth y De yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i bob Corff Llywodraethu i hwyluso hyn.

Mae Cyrff Llywodraethu nifer o ysgolion Caerdydd eisoes wedi ffederaleiddio'n ffurfiol neu wedi cytuno i gydweithio'n ffurfiol.

### Diddymu Cyrff Llywodraethu a sefydlu Corff Llywodraethu newydd

Byddai cynnig i gau dwy ysgol, ac i sefydlu ysgol newydd, yn golygu bod angen sefydlu Corff Llywodraethu dros dro cyn agor yr ysgol newydd fwy o faint.

Y prif reswm dros ystyried cyfuno dwy ysgol bresennol, trwy sefydlu ysgol newydd a chau dwy ysgol bresennol, yw'r buddion a ddaw yn sgil hyn i blant a phobl ifanc yn yr ysgolion presennol trwy wella darpariaeth addysgol.

Mae llawer o fanteision gweithredol clir i ysgolion mwy, o gymharu ag ysgolion llai. Y prif agweddau llywodraethu ar sefydlu un ysgol i gymryd lle dwy ysgol bresennol yw:

- Yn dilyn penderfyniad i sefydlu ysgol newydd a chau'r ysgolion presennol, byddai corff llywodraethu dros dro newydd yn cael ei sefydlu. Byddai'r corff llywodraethu newydd, maes o law, yn disodli'r cyrff llywodraethu unigol a byddai ganddo gyfrifoldeb am oruchwyliaeth strategol a chynllunio'r ysgol newydd.
- Byddai cyrff llywodraethu presennol pob ysgol yn parhau i weithredu, ac yn cadw eu cyfrifoldebau presennol, hyd nes y bydd yr ysgolion presennol yn cau'n ffurfiol.
- Byddai'r corff llywodraethu newydd yn ystyried enw ac yn gyfrifol am gyllideb a staff yr ysgol newydd, a thrwy sylfaen ariannol fwy byddai ganddynt fwy o sefydlogrwydd yn y gyllideb.

Ar y cyfan, mae gan ysgol fwy gyllideb fwy a mwy sefydlog, ac felly mae'n gallu gweithredu arweinyddiaeth a strwythur staffio mwy effeithlon ac effeithiol a manteisio ar arbedion maint. Gall ysgol fwy wneud mwy i gryfhau addysg gyffredinol disgyblion yn y cymunedau cyfunol a wasanaethir ar hyn o bryd gan y ddwy ysgol lai.

Mae ysgol fwy hefyd yn caniatáu:

- Mwy o gyfleoedd i staff rannu llwyth gwaith ac arbenigedd.
- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. ANGau a all arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog.
- Mwy o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Rhyw a Chydberthynas a Chymhwysedd Digidol.
- Galluogi arferion da, deunyddiau paratoi ac adnoddau.

## Ffederasiwn

Mae ffederasiwn yn gytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae nifer o ysgolion (rhwng dwy a chwech) yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn meddu ar un corff llywodraethu gan ddefnyddio'r broses a nodir yn Rheoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014. Gall ffederasiwnau gynnwys cymysgedd o ysgolion cymunedol a gynhelir ac ysgolion cymunedol arbennig sydd naill ai'n ysgolion meithrin, cynradd neu uwchradd.

O dan Opsiwn 2, lle mae'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn rhannu safle, gallai ffederasiwn gael ei gyflwyno gan y cyrff llywodraethu presennol. Gall y Cyrff Llywodraethu hefyd ystyried ffederasiwn dros safleoedd ar wahân, o dan Opsiwn 3.

I fod yn llwyddiannus, mae angen i ffederasiwn fod yn seiliedig ar ymrwymiad i weithio gyda'i gilydd a pharodrwydd i wneud pethau'n wahanol er budd ychwanegol yr holl ddisgyblion, eu lles a'u cyflawniadau. Mae profiad ysgolion sydd wedi ffedereiddio yn dangos bod datblygu'r holl ysgolion a'u cymunedau o fewn y ffederasiwn a rhannu arferion gorau yn helpu i wella safonau a gwella perfformiad.

Mae sawl rheswm dros ffedereiddio. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn defnyddio ffederasiwn i adeiladu ar bartneriaethau anffurfiol sydd eisoes ar waith ac i gryfhau addysg gyffredinol disgyblion yn eu cymunedau. Fodd bynnag, mae'r ALL wedi cysylltu ag eraill i helpu ysgol sy'n ei chael hi'n anodd ac ysgolion bach sydd mewn perygl o gau neu'n methu recriwtio staff o ansawdd uchel a'u ffedereiddio i sicrhau eu dyfodol. Rhaid mai'r rheswm pwysicaf dros ystyried ffederasiwn yw'r manteision a ddaw yn ei sgil i blant a phobl ifanc yn yr ysgolion ffederal drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Un o fanteision ffederasiwn yw bod ysgolion sy'n ffedereiddio yn cadw eu hunaniaeth unigol. Fodd bynnag, bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu diddymu a'u disodli gan un corff llywodraethu newydd a fydd yn goruchwylio ac â chyfrifoldeb cyfartal dros bob ysgol yn y ffederasiwn.

Mae manteision amlwg i ffedereiddio ar gyfer ysgolion sydd wedi'u lleoli naill ai ar yr un safle neu yn yr un gymuned gan ei fod yn eu galluogi i gydweithio ar flaenoriaethau a rennir, cronni arbenigedd, gwneud gwell defnydd o adnoddau ac archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol. Mae ffedereiddio ysgolion yn ffordd ffurfiol o weithredu cydweithio a hyrwyddo perthnasoedd gwaith agosach.

Prif agweddau ffederasiwn yw:

- Caiff cyrff llywodraethu presennol y ddwy ysgol eu diddymu, os aiff y cynnig i sefydlu ffederasiwn yn ei flaen yn dilyn ymgynghoriad. Byddai un corff llywodraethu newydd yn disodli'r cyrff llywodraethu unigol a byddai ganddo gyfrifoldeb am oruchwyliaeth strategol yr holl ysgolion yn y ffederasiwn.
- Bydd pob ysgol yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb a'i staff. Wrth symud ymlaen, byddai'r ddwy ysgol yn gallu mynd ati i archwilio manteision rhannu adnoddau.
- Byddai pob ysgol yn parhau i gael arolwg Estyn ei hun, er y gallai'r rhain gael eu cydlynu.

Fodd bynnag, mae yna anfanteision o gadw dwy ysgol ar wahân, mewn ffederasiwn, o gymharu ag un ysgol, gan gynnwys strwythur arwain a staffio llai effeithlon ac effeithiol o gymharu ag un ysgol fwy. Gan nad oes gan ysgolion ffederal gymaint o allu i fanteisio ar arbedion maint o gymharu ag un ysgol fwy, mae llai o'i hadnoddau ar gael i addysgu a dysgu. Mae mwy o ddyblygu rolau a gwasanaethau mewn dwy ysgol nag mewn un. Er bod gan gorff llywodraethu ffederal gyfrifoldeb am ddwy gyllideb ysgol ar wahân, nid yw'n gallu crynhoi'r gyllideb hon.

Gall proses ffedereiddio gael ei harwain gan Awdurdod Lleol neu gan Gyrff Llywodraethu'r ysgolion. Gan fod angen gwaith sylweddol cyn i'r broses ymgynghori ddechrau, mae rhwng naw a deuddeg mis yn amserlen realistig ar gyfer y broses ffedereiddio.

## Cydweithio

Cydweithio yw pan fo dau gorff llywodraethu neu fwy yn trefnu bod rhai o'u swyddogaethau yn cael eu cyflawni ar y cyd o dan Reoliadau Cydweithio Rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008. Mae manteision amlwg i'r trefniant hwn ar gyfer ysgolion sydd wedi'u lleoli naill ai ar yr un safle neu yn yr un gymuned gan ei fod yn eu galluogi i gydweithio ar flaenoriaethau a rennir, cronni arbenigedd, gwneud gwell defnydd o adnoddau ac archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol.

Fodd bynnag, mae yna anfanteision o gadw dwy ysgol ar wahân, mewn ffederasiwn, o gymharu ag un ysgol, gan gynnwys strwythur arwain a staffio llai effeithlon ac effeithiol o gymharu ag un ysgol fwy. Ni all ysgolion o'r fath fanteisio cymaint ar arbedion maint, o gymharu ag un ysgol fwy, neu ysgolion ffederal, ac mae llai o'u hadnoddau ar gael i addysgu a dysgu. Mae mwy o ddyblygu rolau a gwasanaethau mewn dwy ysgol nag mewn un ysgol neu ysgolion ffederal.

Mae ysgolion eisoes yn cydweithio'n anffurfiol gydag ysgolion eraill ar feysydd allweddol fel y Cwricwlwm i Gymru, gweithdrefnau asesu a threfniadau pontio. Fodd bynnag, mae cydweithio ffurfiol dan y rheoliadau yn arwain at benderfyniadau symlach a fydd o fudd i ysgolion ac yn ei gwneud hi'n fwy deniadol cydweithio gan ei fod yn eu galluogi i rannu, meincnodi a datblygu arferion da y gallai ysgolion unigol eu cael yn anodd eu cynnal.

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o faterion y gallai cyrff llywodraethu gydweithio arnynt:

- Codi safonau trwy rannu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm, arwain yr ysgol a chymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â materion allweddol fel cynhwysiant.
- Cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.
- Cyngor Ysgol a chyfleoedd datblygu disgyblion.
- Trefniadau traws-gyfnod.
- Manteisio ar arbedion maint a rhannu gwasanaethau ar draws yr ysgolion.

Nid oes amserlenni ynghlwm wrth ffurfio cydweithrediad. Gall ysgolion a chyrff llywodraethu sy'n penderfynu ffurfio cydweithrediad wneud hynny drwy gytundeb yn eu cyfarfodydd cyrff llywodraethu. Rhaid i'r cyrff llywodraethu sy'n cydweithio ffurfio cydbwyllgor i oruchwylio'r gwaith ar y cyd. Bydd y cyrff llywodraethu sy'n cydweithio hefyd yn cytuno ar gyfansoddiad, aelodaeth a chylch gorchwyl y cydbwyllgor yn flynyddol, ynghyd ag unrhyw bwerau dirprwyedig.

# Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

## Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen nac unrhyw gyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn Ysgol Gynradd Allensbank.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynnig hwn gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg nac ar y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 eu haddysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod addas o bolisiau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae ysgolion wedi ymrwymo i feithrin cymuned ysgol lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda thîm arwain pob ysgol i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn deall eu cyfrifoldeb am helpu i wella a chynnal gofal, cymorth ac arweiniad.

## Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gyda thîm arwain pob un o'r ysgolion i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinwyr ysgol a llywodraethiant, a allai gael effaith negyddol ar ganlyniadau addysgol.

## Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth ysgol uwchradd?

Cafodd cynnig i ehangu ac ailddatblygu Ysgol Uwchradd Cathays i ateb y galw o fewn ei dalgylch a'r ardal ehangach ei gytuno gan y Cabinet ym mis Hydref 2021 yn amodol ar benderfyniadau pellach gan gynnwys caniatâd y Comisiwn Elusennau mewn perthynas â safle'r Maendy sy'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth elusenol.

Mae Ysgol Uwchradd Cathays ar hyn o bryd yn gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys dalgylchoedd ysgolion cynradd Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r dalgylch hwn yn llai poblog na dalgylchoedd ysgolion eraill yng Nghaerdydd, gyda rhai ohonynt yn ymestyn dros ardal ddaearyddol fwy o lawer, gyda phoblogaethau o ddisgyblion sy'n uwch na'u capasiti presennol neu arfaethedig.

Felly byddai angen ymgynghori ar newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd cymunedol cyfrwng Saesneg ar yr adeg briodol er mwyn darparu cydbwysedd addas a chynaliadwy yn y cyflenwad o leoedd a'r nifer sy'n manteisio arnynt.

Mae'r galw cyfunol am leoedd ar draws dalgylchoedd y tair ysgol uwchradd Gymraeg ar lefel uchel a gellir ateb y galw o fewn capasiti presennol yr ysgolion.

Bydd cynigion i ymateb i newidiadau yn y galw yn cael eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau bod digon o leoedd i ateb y galw am leoedd cyfrwng Gymraeg.



## Sut byddai newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Rhaid i'r cynigion a gyflwynir sicrhau bod twf ysgolion yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid lleihau'r effaith negyddol bosibl ar ysgolion eraill.

Byddai disgwyl i'r gwaith o ehangu Ysgol Mynydd Bychan i 2DM alluogi cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn yr ysgol.

Gan y disgwylir i'r boblogaeth gyffredinol o ddisgyblion cynradd ostwng yn y blynyddoedd i ddod, byddai disgwyl i gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan gyd-ddigwydd â llai o bobl yn manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae Tablau 22 a 23 isod yn nodi sut y gall y newidiadau arfaethedig effeithio ar nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru mewn ysgolion lleol.

Tabl 22: Nifer y disgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgolion lleol pe bai'r cynigion **yn cael eu gweithredu o fis Medi 2025**

Y ffigyrau ar gyfer 2017/18 i 2021/22 yw'r nifer ddiweddar o ddisgyblion sydd wedi cofrestru. Y ffigyrau ar gyfer 2022/23 i 2026/27 yw'r nifer amcangyfrifedig o ddisgyblion a fydd yn cofrestru.

Tabl 22: Nifer y disgyblion a ymrestrir mewn ysgolion lleol pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu o fis Medi September 2023										
Ysgol	Nifer diweddar y disgyblion a ymrestrir					Nifer y disgyblion a ragwelir y cânt eu hymrestru				
	2017/ 2018	2018/ 2019	2019/ 2020	2020/ 2021	2021/ 2022	2022/ 2023	2023/ 2024	2024/ 2025	2025/ 2026	2026/ 2027
Ysgol Gynradd Albany	371	365	393	383	378	373	366	359	354	348
Ysgol Gynradd Allensbank	202	204	185	190	193	195	205	204	200	198
Ysgol Gynradd Gladstone	178	167	178	171	173	180	180	187	193	197
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	129	138	141	126	138	134	139	138	138	141
Ysgol Glan Ceubal	108	136	135	149	151	153	159	167	168	183
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd	413	415	396	402	403	408	408	408	402	415
Ysgol Mynydd Bychan	204	198	202	203	203	203	208	206	204	204
Ysgol Y Wern	522	546	570	575	591	593	592	581	573	566

Pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu, disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion ychwanegol a gofrestrir yn Ysgol Mynydd Bychan yn dod o fewn ei dalgylch, a gallai rhai fod o ardaloedd eraill o'r ddinas. Mae hyn yn ystyried patrymau dewis ysgol diweddar, a'r gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth a fydd yn mynd i addysg gynradd yn y tair rownd dderbyn nesaf.

Byddai cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan ar gyfer plant o fewn ei dalgylch yn golygu y byddai nifer y plant yn yr ardal sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lleol yn lleihau. Byddai cynnydd yn y nifer fyddai'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o'r tu allan i'w dalgylch yn golygu y byddai'r nifer fyddai'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill, mewn rhannau eraill o'r ddinas, yn debygol o leihau.

Tabl 23: Nifer y disgyblion a gofrestrir mewn ysgolion lleol **pe na bai'r cynigion yn cael eu gweithredu.**

Y ffigyrau ar gyfer 2017/18 i 2021/22 yw'r nifer ddiweddar o ddisgyblion sydd wedi cofrestru. Y ffigyrau ar gyfer 2022/23 i 2026/27 yw'r nifer amcangyfrifedig o ddisgyblion a fydd yn cofrestru.

<b>Tabl 23: Nifer y disgyblion a ymrestrir mewn ysgolion lleol pe na bai'r cynigion yn cael eu gweithredu</b>										
<b>Ysgol</b>	<b>Nifer diweddar y disgyblion a ymrestrir</b>					<b>Nifer y disgyblion a ragwelir y cânt eu hymrestru</b>				
	<b>2017/ 2018</b>	<b>2018/ 2019</b>	<b>2019/ 2020</b>	<b>2020/ 2021</b>	<b>2021/ 2022</b>	<b>2022/ 2023</b>	<b>2023/ 2024</b>	<b>2024/ 2025</b>	<b>2025/ 2026</b>	<b>2026/ 2027</b>
Ysgol Gynradd Albany	371	365	393	383	378	373	366	359	354	348
Ysgol Gynradd Allensbank	202	204	185	190	193	195	205	204	198	190
Ysgol Gynradd Gladstone	178	167	178	171	173	180	180	187	192	190
New Primary School	N/a	N/a	N/a	N/a	N/a	N/a	N/a	N/a	398	380
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	129	138	141	126	138	134	139	138	138	141
Ysgol Glan Ceubal	108	136	135	149	151	153	159	167	166	179
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd	413	415	396	402	403	408	408	408	402	415
Ysgol Mynydd Bychan	204	198	202	203	203	203	208	206	218	225
Ysgol Y Wern	522	546	570	575	591	593	592	581	573	566

## Opsionau eraill a ystyriwyd

Mae'r nifer presennol o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgolion Albany, Allansbank a Gladstone yn ddigon i ddarparu ar gyfer y galw a ragwelir am leoedd yn yr ysgolion hyn ac yn cadw lefel uchel o leoedd gwag i ymateb i unrhyw amrywiad posibl neu gynnydd parhaus yn y galw, a'r lefelau uchel o symudedd disgyblion yn yr ardal.

Nid oes digon o le ar safle presennol Ysgol Mynydd Bychan i ganiatáu ar gyfer ehangiad ar y safle.

Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau safle amgen a allai fod ar gael ac sydd mewn lleoliadau canolog yn nalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan. Nid oes safle gwag addas ar gael yn agos at yr ysgol a allai ddarparu ar gyfer ehangu Ysgol Mynydd Bychan.

Mae'r Cyngor wedi diystyru'r posibilrwydd o beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg gan na fyddai hynny'n gwireddu'r buddion addysg na'r buddion ariannol i'r ysgolion perthnasol, ac ni fyddai'n caniatáu datrysiad lleol i ordanysgrifiad Ysgol Mynydd Bychan.

Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd o'r lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Allensbank i letya Swyddogion Cymorth Addysg eraill. Mae'r Cyngor wedi ystyried a fyddai modd defnyddio rhan o safle Allensbank unwaith eto ar gyfer gwasanaethau neu ddarpariaeth arall. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn gwireddu'r manteision addysgol nac ariannol i Ysgol Gynradd Allensbank nac i'r ysgolion eraill. Ni fyddai'n gwrthbwysu'n fawr y costau o gynnal y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg bresennol. Ni fyddai'n caniatáu ateb lleol i ordanysgrifiad Ysgol Mynydd Bychan. Mae'r dewis hwn felly wedi'i ddiystyru.

Mae'r Cyngor wedi ystyried lleoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica a darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Allensbank ond mae wedi diystyried yr opsiwn hwn.

Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd yn y ddarpariaeth Saesneg, ar hyn o bryd, wedi'i lledaenu'n eang drwy'r ardal, a cheir llawer o ysgolion Saesneg yn yr ardaloedd ehangach. Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd wedi'i ganolbwyntio ar ran ogleddol y dalgylch, yn agos at safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a safle Allensbank. Ar hyn o bryd, mae'r pellteroedd teithio i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg amgen yn sylweddol. Mae yna alw mawr hefyd am leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfagos i'r gogledd o'i dalgylch, gydag ychydig o lefydd gwag ar y cyfan.

Mae lleoli darpariaeth cyfrwng Saesneg ar y safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safle Allensbank yn golygu y caiff lleoedd eu dosbarthu'n fwy priodol ar gyfer rowndiau derbyn cyfredol a'r dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi diystyru ad-drefnu'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Gynradd Albany. Mae Ysgol Gynradd Albany yn bellach o gyfeiriadau cartref disgyblion sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd yn Ysgol Mynydd Bychan, mae ganddi lefel gymharol isel o leoedd gwag yn gyffredinol, sef tua 10%, a defnyddir pob un o'i hystafelloedd dosbarth fel canolfan ddosbarth.

Ar y cyfan, mae digon o gapasiti yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Mae ad-drefnu darpariaeth yn ffordd briodol o gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal, a byddai'n ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau. Byddai ad-drefnu hefyd yn cadw hyblygrwydd yn yr Ystâd Ysgolion er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth sy'n effeithio ar yr ardal yn y dyfodol.

## Trefniadau derbyn

Cynhelir ymgynghoriad ar drefniadau derbyn 2025/2026 ar gyfer ysgolion cymunedol rhwng Hydref 2023 - Gwanwyn 2024 yn unol â gofynion y Cod Derbyn. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn y Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig yn cynnwys:

- Cynnydd yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol Mynydd Bychan, o 30 lle i 60 lle (opsiynau 1, 2 a 3).
- Sefydliad posib ysgol gynradd cyfrwng Saesneg dau ddosbarth mynediad newydd gyda Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 60 (opsiwn 1 yn unig).
- Gostyngiad posibl yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Allensbank, o 30 lle i 27 lle (opsiwn 3 yn unig).

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen ag Opsiwn 1, byddai pob disgybl yn y Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 5 ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ar ddiwedd blwyddyn ysgol 2024/2025 yn cael cyfle i drosglwyddo i gofrestr yr ysgol newydd arfaethedig.

Byddai adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion cynradd cymunedol yn cael ei gynnal i ystyried y cydbwysedd rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael a'r galw am leoedd a ragwelir a chynnydd yn erbyn targedau'r CSCA. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i ddalgylchoedd ysgolion yn destun ymgynghoriad ar yr adeg briodol.

Byddai unrhyw newid i drefniadau derbyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica sy'n deillio o sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn destun ymgynghoriad gan Gorff Llywodraethu'r ysgol ar yr adeg briodol.

Mae gwybodaeth fanwl am drefniadau mynediad yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor a gyhoeddir ar [wefan y Cyngor](#).



## Trefniadau Teithio i Ddysgwyr

Nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i'r ysgol ac oddi yno. Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael cynnig yr un cymorth trafndiaeth ag a gaiff pawb ledled Caerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd.

Gellir gweld polisi trafndiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor ([www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk)).

Os bydd y cynnig yn cael ei symud ymlaen i'w weithredu, byddai hawl pob disgybl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ailasesu o'r lleoliad newydd.

Mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion sydd â datganiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn dibynnu ar y pellter cerdded byrraf sydd ar gael o'u cyfeiriad cartref i gât briodol agosaf yr ysgol/lleoliad y ganolfan.

Y meini prawf pellter a ddefnyddir yw bod angen i ddisgyblion o oedran cynradd fyw dwy filltir neu fwy, a disgyblion oedran uwchradd dair milltir neu fwy, o'r ysgol drwy'r pellter cerdded byrraf sydd ar gael i'r gât briodol agosaf.

Ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mae'r Cyngor hefyd yn ystyried eu:

- hoedran gwybyddol, ac yna'n cymhwyso'r meini prawf pellter perthnasol ar gyfer yr oedran gwybyddol
- unrhyw anabledau a fydd yn effeithio ar eu gallu i gerdded y pellteroedd hyn.

Cynhelir pob asesiad pellter o ran yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar y sail bod rhywun yn mynd gyda'r plentyn ar y llwybr i'r ysgol fel y bo'n briodol. Cyfrifoldeb rhieni neu warcheidwaid plentyn yw trefnu i rywun hebrwng eu plentyn ar hyd y llwybr cerdded i'r ysgol.

## Ariannu'r newidiadau arfaethedig

### Cyllid cyfalaf

Gwahoddodd Llywodraeth Cymru yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gyflwyno ceisiadau am arian grant i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.

Llwyddodd y CYngor i sicrhau arian o'r Cynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg gan gynnwys £1.86m i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yng nghanol Caerdydd ac ehangu lleoedd cyfrwng Cymraeg gan 1 dosbarth mynediad (210 o leoedd). Diben y Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg yw cefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r rhaglen cyllid grant wedi'i hanelu'n benodol at brosiectau cyfalaf a fydd yn cyfrannu'n amlwg at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r arian a ddyrannwyd i'r Cyngor wedi'i glustnodi i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a byddai'n caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgol i gefnogi nifer uwch o ddysgwyr.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi dyrannu cyllid cyfalaf i fynd i'r afael â gwaith cyflwr ac addaswydd â blaenoriaeth ar y safle a rennir gan Gladstone a St Monica, ac ar safle Allensbank. Byddai rhagor o arian cyfalaf yn cael ei nodi o adnoddau ariannol y Cyngor i gefnogi adleoli'r ddarpariaeth Saesneg. Byddai hyn yn gwella addaswydd cyfleusterau i ddarparu ar gyfer y newidiadau i'r ddarpariaeth ac i ddod â budd i ddysgwyr. Byddai'r cyllid gofynnol yn dibynnu ar yr opsiwn sy'n cael ei ddewis.

## Cyllid refeniw

Mae'r fformiwla ariannu ysgolion yn seiliedig ar gyllid fesul disgybl a nifer o gyfandaliadau fesul ysgol. Mae cyllid fesul disgybl yn gyffredinol uwch mewn ysgolion llai oherwydd costau'r pennaeth a chostau sefydlog eraill sy'n cael eu hamsugno gan nifer is o ddisgyblion.

Byddai gostyngiad yn nifer yr ysgolion yng Nghaerdydd felly yn caniatáu ar gyfer lleihau dyraniadau o gyfandaliadau i ysgolion. Byddai'r arian hyn yn cael ei ailddosbarthu i ysgolion drwy'r fformiwla ariannu.

Yn gyffredinol, gall ysgolion mwy o faint hefyd sicrhau gwell gwerth am arian drwy arbedion maint mewn nifer o feysydd gan gynnwys rheoli contractau ac o bosibl yn eu strwythur staffio.

Mae swm y cyllid fesul disgybl yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan yn uwch na'r cyllid cyfartalog fesul disgybl ar draws 98 ysgol gynradd Caerdydd, sef £3,891 yn 2022/2023.

Mae tabl 24 isod yn nodi sefyllfa gyllidebol yr ysgolion lle cynigir newidiadau.

Ysgol	Balans a ddygwyd ymlaen Ebrill 2022	Cyllideb Gymeradwy'r Llywodraethwyr 2022/23	Rhagamcan cyllideb Ionawr 2023
Ysgol Gynradd Allensbank	£23,757	-£132,301	-£93,000
Ysgol Gynradd Gladstone	£84,651	0	-£60,000
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	£41,804	0	-£2,000
Ysgol Mynydd Bychan	£170,220	£86,286	£100,000

Mae Cyrrff Llywodraethol ar hyn o bryd yn gosod cyllidebau ar gyfer 2023/24.

Nid yw cynllun Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer ailstrwythuro strwythurau staffio ysgolion yr effeithir arnynt gan ad-drefnu'r ddarpariaeth. Y Cyngor fyddai'n talu'r costau hyn.

Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn arwain at gostau staffio ac arwain ychwanegol i'r ysgol fyddai'n cael eu talu o gyllideb yr ysgol. Byddai'r gyllideb yn cynyddu yn unol â'r nifer uwch o ddisgyblion sydd ar y gofrestr.

Gallai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan olygu bod yr ysgol yn gweithredu rhai dosbarthiadau llai, neu rai dosbarthiadau oedran cymysg, wrth i'r ysgol dyfu. Mae data dewisiadau derbyn ysgolion yn dangos y byddai nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol yn cynyddu, ond byddai gan yr ysgol lefel uchel o leoedd gwag am nifer o flynyddoedd. Er y byddai cyllideb yr ysgol yn cynyddu wrth i nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr gynyddu, byddai'r gost fesul disgybl yn debygol o fod yn uwch am gyfnod estynedig tra bo'r ysgol yn tyfu. Wrth i dwf, a buddsoddiad, gael eu cyflwyno'n raddol, byddai effaith ariannol newidiadau yn cael ei lleihau lle bynnag y bo modd.

Pe datblygir cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i'r safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica, neu i safle Ysgol Mynydd Bychan, gallai'r Dosbarth Ymyrraeth Lleferydd ac Iaith gael ei adleoli. Byddai'r gyllideb ddirprwyedig ar gyfer y dosbarth hwn yn cael ei throsglwyddo i ysgol letyol arall.

Dylid nodi bod nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyd-fynd â'r niferoedd is sy'n cael eu derbyn i addysg gynradd ledled y ddinas, y rhagwelir iddo barhau tan o leiaf 2025/2026. Yn y cyd-destun hwn, gall nifer y staff sy'n cael eu cyflogi gan ysgolion leihau, p'un a gaiff unrhyw gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth eu datblygu ai peidio.

Gellir gweld gwybodaeth ariannol sy'n benodol i bob opsiwn yn adran opsiynau'r ddogfen hon.

## Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Byddai effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ar gyfer yr oedran cynradd.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor yn nodi cyfres o ymrwymadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Mae'r CSCA yn ymrwymo'r Cyngor i sicrhau capasiti ledled y ddinas yn y sector cyfrwng Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamceni'r oedran Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio. Mae hyn yn cynnwys darparu capasiti cyfrwng Cymraeg newydd ar y lefel gynradd erbyn 2025/2026.

Mae'r cynigion yn ceisio bod yn gyson â Strategaeth Caerdydd Ddwieithog ac yn cefnogi'n gryf strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy gyfrannu at gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050.

Mae'r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i'r Deilliannau CSCA canlynol:

- Deiliant 1 - Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deiliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ysgolion yn gwasanaethu ystod amrywiol o gymunedau ac yn adlewyrchu eu poblogaeth leol i raddau helaeth, ond cydnabyddir bod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn llai amrywiol nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae targedau a ffrydiau gwaith o fewn CSCA mabwysiedig Caerdydd yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Byddai'r cynigion yn cael mwy o effaith ar y boblogaeth sy'n agosach at yr ysgol nag ar y ddinas yn ei chyfanrwydd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd, a fabwysiadwyd ym mis Medi 2022, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd y gellir ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant o bob cefndir sy'n mynychu.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae'r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwymo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni'r targedau yn CSCA Caerdydd, ac i gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau genedigaethau, y boblogaeth sy'n debygol o ddeillio o dai newydd a'r patrymau o ran nifer y plant sy'n mynd i ba ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.

Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor ehangu'r ddarpariaeth ysgolion mewn modd strategol ac amserol nad yw'n amharu ar y ddarpariaeth bresennol. Mae'n anochel y byddai darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n ehangu'n sylweddol neu'n gyflym yn cael effaith ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion eraill ac, yn ei thro, ar allu ysgolion i gydbwysu cyllidebau ac i ddenu neu gadw staff.

Mae dyheadau'r Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn cynnig newid sylweddol. Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau cenedlaethol i addysgu 40% o ddysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, a 30% arall o ddysgwyr mewn ysgolion Saesneg lle deuent yn rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tua 17% o blant Caerdydd sy'n dechrau addysg gynradd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion neu ddsbarthiadau Cymraeg.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal, ac yn ceisio gweithredu'r newid yn y fath fodd fel y cyfyngir ar y potensial i gael effaith negyddol ar ysgolion sy'n bodoli eisoes.

Mae perygl y gall darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg atal y twf mewn ysgolion lleol eraill; fodd bynnag, mae CSCA Caerdydd yn nodi ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu gwaith hyrwyddo wedi'i dargedu ar y cyd â Chaerdydd Ddwieithog i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle mae galw isel.

## Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EAG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud ac mae ar gael i'w weld yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddarau ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynigion yn eu blaen.

## Effaith Gymunedol

Mae'r rhan hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Wrth ystyried y potensial ar gyfer effaith ar y gymuned ehangach yn sgil y cynnig, ystyrir y canlynol: Man Agored Cyhoeddus, tir parc, y modd y defnyddir cyfleusterau'r ysgol ar hyn o bryd gan y gymuned, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol i wneud yn siŵr bod y cynnig yn osgoi effaith negyddol os yw hynny'n bosibl.

Mae'r ysgolion y gallai'r cynigion effeithio arnynt yn ysgolion sy'n bodoli eisoes. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar ôl ysgol ac mae gan rai sefydliadau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau o'r ysgol. Ni chredir y byddai effaith negyddol ar unrhyw un o'r gweithgareddau hyn o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned cychwynnol wedi'i wneud ac mae ar gael i'w weld yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddarau ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynigion yn eu blaen.

## Tarfu Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu ac adnewyddu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion a feddiannir o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol a rhaglen adnewyddu asedau fawr.

Os symudir ymlaen â'r newidiadau arfaethedig, byddai swyddog arweiniol prosiect yn cael ei neilltuo i weithio gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu rhaglen fuddsoddi fanwl. Byddai'r rhaglen hon yn cynnwys y gwaith arfaethedig, trefniadau pontio, iechyd a lles disgyblion a staff ac amserlenni'r ffrydiau gwaith hyn.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddai gwaith adeiladu ac adnewyddu a allai achosi mwy o darfu yn digwydd yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn lleihau unrhyw effaith bosibl ar addysgu a dysgu.

Byddai'r gwaith o ehangu Ysgol Mynydd Bychan ar safle Allensbank yn cael ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2025. Byddai hyn yn golygu nad oes angen i'r ysgol ddefnyddio ei holl lety yn 2025/2026 a gallai ganiatáu i rannau o'r ddau adeilad gael eu cau i'r staff tra bod gwaith yn cael ei wneud.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ceisir barn disgyblion yr ysgolion a bydd unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn llywio unrhyw gynlluniau gwaith yn y dyfodol.

# Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor ac i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica. Bydd yr adroddiadau ar yr ymgynghori ar gael i unrhyw un eu gweld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor / yr ysgol. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 25 isod:

### Tabl 25: Camau pellach

(Gallai'r amserlen hon newid)

Proses Statudol	Amserlen
Cyfnod Ymgynghori	03 Mai 2023 - 30 Mehefin 2023
Cabinet y Cyngor / Corff Llywodraethu yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor / ysgol	Gorffennaf/Medi 2023
Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu, ar ôl cyflwyno'r hysbysiad statudol (pan ellir gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol)	Medi/Hydref 2023
Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben	Hydref/Tachwedd 2023
Y penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor / Corff Llywodraethu	Rhagfyr 2023/Ionawr 2024
Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet	Rhagfyr 2023/Ionawr 2024

## Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 03 Mai 2023 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2023.

Gweler tudalen 10/83 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar eu gwefannau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

### Gallwch ofyn hefyd am gopi caled o'r adroddiad.

Bydd yr adroddiad yn mynd dros y materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor, ac ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan.

Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i'w hysgol.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau i Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

Os yw Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn penderfynu parhau, rhaid iddyn nhw hefyd gyhoeddi 'rhybudd statudol'.

## Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor / Corff Llywodraethu gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet / Corff Llywodraethu. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad(au) statudol hwn ar ei wefan. Byddai'r Corff Llywodraethol yn cyhoeddi'r hysbysiad ar wefannau'r ysgol a Chyngor Caerdydd. Byddai copïau o'r hysbysiad hefyd yn cael eu rhoi ar neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt.

Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor / Corff Llywodraethu o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

## Penderfynu ar y cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Os nad oes gwrthwynebiad i'r cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, y Corff Llywodraethol fyddai'n penderfynu'r cynnig. Gallai'r Corff Llywodraethu benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynigion gydag addasiadau.

Pe bai gwrthwynebiadau i'r cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, byddai'r cynigion yn cael eu cyfeirio at yr Awdurdod Lleol (Cyngor Caerdydd) i'w penderfynu o fewn 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae gan yr Awdurdod Lleol 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu i benderfynu ar y cynigion.

## Hysbysiad o'r Penderfyniad

Ar ôl penderfynu ar y cynigion, byddai partion â diddordeb yn cael gwybod am y penderfyniad. Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor a'r ysgol.

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- fynychu cyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio. Os hoffech fynychu sesiwn ar-lein / cyfarfod cyhoeddus ar-lein, cysylltwch â ni trwy e-bost: [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) gan gadarnhau pa sesiwn yr hoffech ei mynychu ac fe anfonwn ddolen atoch a chyfarwyddiadau am sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod.
- cwblhau'r ffurflen ymateb electronig sydd i'w chael yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)
- argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, y gallwch ddod o hyd iddi yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa) a dychwelyd y ffurflen drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW
- ysgrifennu at y tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bost [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Nodwch fod rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw Dydd Gwener 30 Mehefin 2023.**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



YSGOLION YR 21AIN GANRIF

# Lleoedd ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd

DOGFEN GRYNHOI 2023

Y CYFNOD YMGYNGHORI:  
3 MAI 2023 – 30 MEHEFIN 2023



Gellir darparu'r crynodeb hwn mewn Braille  
Nid y ddogfen ymgynghori yw hon

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yn:

[www.caerdydd.gov.uk/YsgolionCynraddCathaysaGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionCynraddCathaysaGabalfa)

Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 er mwyn trefnu hyn.

Tudalen 137





### Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig newidiadau i ddarpariaeth yr ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Fersiwn gryno o'r ddogfen ymgynghori ar y newidiadau hyn yw'r llyfryn hwn. Gallwch weld y ddogfen ymgynghori lawn yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

Yr ysgolion y gallai'r newidiadau effeithio arnynt yw Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan

Rydym yn cynnig newidiadau i'r ffordd mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn cael eu trefnu. Mae gan ysgolion lleol cyfrwng Saesneg nifer uchel o leoedd gwag yn gyffredinol. Byddai nifer y lleoedd ar gyfer ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn aros yr un fath neu'n gostwng ychydig. Byddai digon o leoedd o hyd yn gwasanaethu'r ardal i blant sydd ar hyn o bryd yn mynychu neu am fynychu'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn y dyfodol.

Rydyn ni hefyd am gynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal drwy ehangu Ysgol Mynydd Bychan. Mae'r ysgol yn llawn ar hyn o bryd.

Byddai'r Cyngor yn cadw'r holl adeiladau a safleoedd presennol. Byddai hyn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol, pe bai poblogaethau'n cynyddu.

Rydym am i bawb ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnis, fel y gallwch ddweud wrthym beth yw eich barn am y newidiadau.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Mae'r Cyngor yn awgrymu tri opsiwn i ad-drefnu ysgolion yn yr ardal.

Mae'r tabl Opsiynau yn dangos y newidiadau a gynigir. Byddai'r newidiadau'n cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

Opsiwn	Ysgolion	Cynnig
Opsiwn 1	Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone	<ul style="list-style-type: none"> <li>o Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone, drwy               <ul style="list-style-type: none"> <li>o Gau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol</li> <li>o Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol.</li> </ul> </li> <li>o Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd gyda meithrinfa ar y safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica.</li> </ul>
	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	<ul style="list-style-type: none"> <li>o Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.</li> <li>o Sefydlu meithrinfa yn yr ysgol</li> </ul>
	Ysgol Mynydd Bychan	<ul style="list-style-type: none"> <li>o Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank</li> <li>o Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420 o leoedd.</li> <li>o Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96</li> </ul>

Opsiwn	Ysgolion	Cynnig
Opsiwn 2	Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone	<ul style="list-style-type: none"> <li>o Cydleoli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir, drwy:               <ul style="list-style-type: none"> <li>o Drosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i'r safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica.</li> <li>o Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd i 210.</li> <li>o Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol.</li> <li>o Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96.</li> </ul> </li> </ul>
	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	<ul style="list-style-type: none"> <li>o Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.</li> <li>o Sefydlu meithrinfa yn yr ysgol</li> </ul>
	Ysgol Mynydd Bychan	<ul style="list-style-type: none"> <li>o Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank</li> <li>o Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420.</li> <li>o Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96</li> </ul>

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Opsiwn	Ysgolion	Cynnig
Opsiwn 3	Ysgol Gynradd Allensbank	Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan  Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd i 192 o leoedd.
	Ysgol Mynydd Bychan	Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank  Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420.  Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96



## Sut gallaf ddysgu mwy?

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r newidiadau rydym yn eu hawgrymu. Mae'n esbonio'r rhesymau dros y cynnig a beth fyddai'n digwydd pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i gau.

Mae'r manylion llawn i'w gweld yn y Ddogfen Ymgynghori yma:

[www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

Rydym wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus a sesiynau galw heibio y gallwch fynd iddynt os hoffech chi i ni esbonio'r newidiadau awgrymedig i chi ac i chi ofyn cwestiynau. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori		
Natur yr Ymgynghoriad	Dyddiad / Amser	Lleoliad
Sesiwn galw i mewn	Dydd Llun 15 Mai 2023 2:30pm – 4:30pm	Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays
Sesiwn galw i mewn	Dydd Iau 25 Mai 2023 9am – 11am	Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays
Sesiwn galw i mewn	Dydd Mercher 07 Mehefin 2023 5pm – 7pm	Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays
Sesiwn galw i mewn ar-lein	Dydd Mawrth 09 Mai 2023 9.00am – hanner dydd	Microsoft Teams
Sesiwn galw i mewn ar-lein	Dydd Mercher 17 Mai 2023 9.00am – hanner dydd	Microsoft Teams
Sesiwn galw i mewn ar-lein	Dydd Llun 05 Mehefin 2023 1.30pm – 4pm	Microsoft Teams
Sesiwn galw i mewn ar-lein	Dydd Iau 08 Mehefin 2023 1:30pm – 4pm	Microsoft Teams
Cyfarfod cyhoeddus (yn Saesneg)	Dydd Iau 18 Mai 2023 6:15pm – 7:40pm	Canolfan Gymunedol Cathays
Cyfarfod cyhoeddus (yn Gymraeg)	Dydd Iau 25 Mai 2023 6:15pm – 7:40pm	Canolfan Gymunedol Cathays
Cyfarfod cyhoeddus ar-lein	Dydd Iau 08 Mehefin 2023 6pm – 7:30pm	Microsoft Teams

Bydd y Cyngor hefyd yn cwrdd â staff a Chyrff Llywodraethu pob un o'r ysgolion dan sylw.

## Sut gallaf roi fy marn?

Gallwch gyflwyno eich barn drwy

- fynychu cyfarfod cyhoeddus neu sesiwn galw heibio. Os hoffech fynychu sesiwn ar-lein / cyfarfod cyhoeddus ar-lein, cysylltwch â ni trwy e-bost: [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) gan gadarnhau pa sesiwn yr hoffech ei mynychu ac fe anfonwn ddolen atoch a chyfarwyddiadau am sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod.
- cwblhau'r ffurflen ymateb electronig sydd i'w chael yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)
- argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, y gallwch ddod o hyd iddo yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)
- a dychwelyd y ffurflen drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW
- ysgrifennu at y tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bost [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk) neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Nodwch fod rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yw **Dydd Gwener 30 Mehefin 2023**.

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.



# Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?

## Ymrwymadau 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' Caerdydd i ddysgwyr

Mae dogfen 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Cyngor yn ymrwmo'r Cyngor i gefnogi dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys plant mewn gofal, y rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a phlant o'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r Cyngor yn datblygu rhaglen Ysgolion â Ffocws Cymunedol ac yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd. Mae'r rhaglen yn ceisio ehangu'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg yn unol â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

- Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cydbwysedd priodol yn y nifer a mathau o leoedd ysgol sy'n gwasanaethu pob ardal.
- Rhaid hefyd bod lefel gynaliadwy o leoedd gwag.
- Rhaid i bob darpariaeth ysgol sy'n cael ei chynnig ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- Rhaid i'r Cyngor hefyd wneud y mwyaf o botensial ei staff addysgu a dysgu er mwyn sicrhau bod eu doniau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau, a thrwy hynny sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfleoedd dysgwyr a deilliannau pawb.

## Newidiadau yn y boblogaeth ledled y ddinas

Ers 2017/18, mae gostyngiad parhaus wedi bod yn y gyfradd genedigaethau, a newidiadau i batrymau mudo yn y ddinas. Mae hyn yn golygu bod rhagamcan y bydd y nifer sy'n mynd i addysg gynradd ledled y ddinas yn lleihau'n sylweddol tan o leiaf Medi 2025. Fodd bynnag, nid yw newidiadau poblogaeth yr un peth ym mhob rhan o'r ddinas.

Gan fod rhieni'n gallu nodi eu hysgolion o ddewis, byddai rhai ysgolion yn parhau i gael niferoedd newydd uchel. I ysgolion eraill bydd yr effaith ar niferoedd disgyblion yn llawer mwy na'r cyfartaledd ledled y ddinas.

Mae ysgolion yn derbyn y rhan fwyaf o'u hincwm ar sail niferoedd y disgyblion ar y gofrestr. Bydd gostyngiad yn nifer y disgyblion yn effeithio'n fawr ar gyllidebau rhai ysgolion. Mae hyn yn effeithio ar y cyfleoedd addysgu a dysgu y gall yr ysgolion hynny eu cynnig.

Mae'r Cyngor yn cynnig cydbwysu nifer y disgyblion mae ysgolion yn gallu eu derbyn yn well yng nghydestun y rhagamcanion o ran niferoedd. Byddai hyn felly yn cefnogi defnydd mwy effeithiol o gyllidebau'r ysgolion. Byddai hyn yn caniatáu i ysgolion ddefnyddio cyfran uwch o'u cyllideb ar gyfer addysgu a dysgu.

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd

'Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg' yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu defnydd y Gymraeg. Mae'n nodi dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. O fewn eu cynllun, mae'n rhaid iddyn nhw osod targed deng mlynedd ar gyfer y cynnydd disgwylidig ym mhylant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y targed a osodwyd i Gaerdydd gan Lywodraeth Cymru yw bod rhwng 25 a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031. Ar hyn o bryd, tua 18% yw'r ffigur hwn.



## Darparu digon o leoedd cyfrwng Saesneg a cyfrwng Cymraeg

Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad ar newidiadau i ddarpariaeth ysgolion er mwyn darparu cydbwysedd priodol o leoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn yr ardal.

Dangosodd canlyniad yr ymgynghoriad bod cefnogaeth ar y cyfan i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, er i faterion eraill gael eu codi.


Mae'r cynigion presennol yn mynd i'r afael â'r materion a lywiodd y cynigion cynharach. Mae'r cynigion yn ystyried y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cynharach. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gael yn y Ddogfen Ymgynghori yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

### Pa ysgolion sy'n cael eu cynnwys yn y cynigion?

Dyma'r ysgolion sydd wedi eu cynnwys yn y cynigion:

- Ysgol Gynradd Allensbank
- Ysgol Gynradd Gladstone
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
- Ysgol Mynydd Bychan

Does dim newidiadau ar y gweill i ysgolion eraill yn y cynigion hyn.



Mae gwybodaeth fanylach am safleoedd ysgolion, llwybrau cerdded a phellteroedd yn y ddogfen ymgynghori lawn yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

## Sut olwg sydd ar addysg gynradd yn yr ardal nawr?

### Cyfrwng Saesneg

Gyda'i gilydd mae dalgylchoedd cyfunol Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Albany ac Ysgol Gynradd Gladstone, yn ffurfio dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays. Mae'r dalgylch hwn yn gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yng Ngabalfa ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr ym Mhlasnewydd hefyd yn gwasanaethu'r cymunedau hyn.

Mae'r capasiti cyfunol presennol rhwng Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone wedi darparu digon o leoedd i ateb y galw am addysg cyfrwng Saesneg o fewn y tair dalgylch dros y blynyddoedd diwethaf, pan oedd y nifer oedd yn cael eu derbyn i ysgolion ar lefelau uchel ledled y ddinas.

### Cyfrwng Cymraeg

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys cymuned Cathays a rhannau o gymunedau Gabalfa, y Mynydd Bychan a Phlasnewydd.

Mae dalgylchoedd Ysgol y Wern, Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol Melin Gruffydd i'w cael yn ffinio â dalgylch Ysgol Mynydd Bychan.

Mae Ysgol Mynydd Bychan wedi tanysgrifio'n llwyr ar gyfer derbyn i'r Dosbarth Derbyn ym mhob un o'r pum cylch derbyn diwethaf. Bob blwyddyn, roedd digon o leoedd mewn ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos i'r disgyblion nad oedd yn gallu cael eu derbyn i Ysgol Mynydd Bychan. Fodd bynnag, i blant o fewn dalgylch Ysgol Mynydd Bychan, roedd lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg eraill yn aml yn sylweddol bellach o'u cyfeiriad cartref.

Ni fyddai'r lefel a ragwelir o leoedd gwag rhwng y pedair ysgol yn ddigon i gynyddu nifer y bobl sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol yn y tymor hirach. Gallai newidiadau i ddalgylchoedd wella cydbwysedd lleoedd, ond ni fyddai hyn yn cefnogi twf hirdymor. Ni fyddai hyn yn gyfraniad digonol tuag at gyrraedd y targed twf sydd wedi'i osod yn CSCA Caerdydd.

Mae rhagor o wybodaeth am gefnogi twf hirdymor mewn addysg cyfrwng Cymraeg i'w gweld yn y Ddogfen Ymgynghori yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

### Darpariaeth arall

Mae cymuned addysg ehangach Caerdydd yn cynnwys nifer o ysgolion annibynnol. Lleolir Ysgol Gynradd Fwslimaidd Caerdydd a Kings Monkton yng nghymunedau Cathays a Phlasnewydd yn y drefn honno.

## A gafodd opsiynau eraill eu hystyried?

Mae gan Ysgolion Cynradd Albany, Allensbank a Gladstone ddigon o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg rhyngddynt i ateb y galw a ragwelir. Mae nifer uchel o leoedd gwag yn gyffredinol.

Nid oes digon o le ar safle presennol Ysgol Mynydd Bychan i ganiatáu i'r ysgol ehangu. Nid oes safle gwag addas ar gael yn agos at yr ysgol a allai ddarparu ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan fwy o faint. Mae'r Cyngor wedi ystyried opsiynau gwahanol o ran safle o fewn dalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan.

Does dim newidiadau yn cael eu cynnig ar safle Ysgol Gynradd Albany. Mae'r safle hwn yn fwy o bell o gyfeiriadau cartref disgyblion sy'n mynd i Ysgol Mynydd Bychan ar hyn o bryd. Mae gan yr ysgol hefyd lefel gymharol isel o leoedd gwag yn gyffredinol ac nid oes ganddi ystafelloedd dosbarth dros ben.

Ni chynigir symud Ysgol Mynydd Bychan i'r safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac ni chynigir darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Allensbank. Byddai'r newidiadau hyn yn cael mwy o effaith ar deuluoedd sy'n mynychu ysgolion lleol ar hyn o bryd ac o bosib ar dderbyniadau yn y dyfodol.

Mae rhagor o fanylion am yr opsiynau a nodwyd a pham na chafodd opsiynau eraill eu hystyried i'w gweld yn y Ddogfen Ymgynghori yn [www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

## Sut fyddai'r newidiadau yn effeithio ar gyllidebau ysgolion a staff?

Mae cyllidebau ysgolion yn seiliedig i raddau helaeth ar nifer y plant sydd ar gofrestr pob ysgol. Mae ysgolion hefyd yn derbyn nifer o grantiau fel rhan o'u cyllideb. Mae ysgolion llai â lleoedd gwag yn cael mwy o anhawster cydbwysu eu cyllideb nag y mae ysgolion mwy o faint.

Wrth i nifer y plant sy'n dechrau addysg gynradd ostwng, mae nifer y staff sydd eu hangen yn ysgolion Caerdydd yn debygol o leihau, hyd yn oed pe na wnaed newidiadau i ysgolion.

Corff Llywodraethol pob ysgol sy'n penderfynu sut orau i ddefnyddio ei chyllideb i gefnogi addysgu a dysgu yn yr ysgol. Byddai unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud o ran staffio yn fater i Gorff Llywodraethu pob ysgol.

Mae nifer y staff addysgu a dysgu sydd eu hangen ar gyfer ysgol gynradd mynediad dau ddsbarth mynediad (Opsion 1) yn debyg i'r nifer sydd eu hangen ar gyfer dwy ysgol gynradd ag un dosbarth mynediad. Fodd bynnag, byddai'r math a'r nifer o rolau sydd eu hangen yn ddibynnol ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ac ar sefyllfa cyllideb yr ysgol.

Pe bai Opsion 1 yn cael ei ddatblygu, mae disgwyl y byddai gostyngiad yn nifer y staff y byddai eu hangen mewn rhai rolau e.e., un Pennaeth a Dirprwy Bennaeth yn llai.

Byddai cau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ac agor ysgol gynradd dau ddsbarth mynediad yn rhoi staff ysgolion cynradd mewn perygl posibl o gael eu diswyddo. Byddai angen rheoli hyn yn unol â'r Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau defnyddio cyfleoedd staff ysgolion yn y ffordd orau bosibl i sicrhau cyflogaeth mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd trwy adleoli i swyddi gwag mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.

Byddai'r trefniadau hyn hefyd yn cael eu hystyried pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i adleoli'r dosbarth Lleferydd ac Iaith o Ysgol Gynradd Allensbank i ysgol arall.

## Sut byddai'r newidiadau'n cael eu hariannu?

Mae'r cynigion hyn yn caniatáu i'r Cyngor fuddsoddi yn yr adeiladau ysgol sy'n gwasanaethu'r ardal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu arian grant i gefnogi newidiadau i Ysgol Mynydd Bychan. Pe na bai newidiadau'n cael eu gwneud, ni fyddai'r Cyngor yn gallu cael mynediad i'r cyllid hwn. Byddai arian i gefnogi newidiadau eraill i adeiladau ysgolion ar gael gan y Cyngor.

Ni fyddai unrhyw arbedion i'r Cyngor o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig. Ni fyddai'r newidiadau'n arwain at ostyngiad yng nghyllidebau ysgolion. Byddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd o gostau arweinyddiaeth llai a chostau eraill yn caniatáu i gyllid gael ei ddyrannu'n fwy effeithiol yng nghyllideb pob ysgol. Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, byddai'r newidiadau i fformiwla cyllideb ysgolion tua £98,000 y flwyddyn. Byddai hyn yn cael ei glustnodi i'r ysgol newydd am gyfnod o dair blynedd ac yn cael ei ddsbarthu rhwng cyllidebau pob ysgol yn y blynyddoedd wedi hynny.

## Pa effaith fyddai ar y disgyblion sy'n mynd i'r ysgolion?

Os bydd Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cau ac ysgol cyfrwng Saesneg newydd yn cael ei hagor (Opsiwn 1), byddai pob disgybl sy'n mynd i Allensbank neu Gladstone yn cael cynnig cyfle i drosglwyddo i gofrestri'r ysgol gynradd newydd oni bai eu bod yn dymuno trosglwyddo i ysgol arall.

Os bydd Ysgol Gynradd Allensbank yn symud safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica (Opsiwn 2), byddai disgyblion sy'n mynd i Allensbank yn dal i fynd i'r ysgol yn ei safle newydd, oni bai eu bod eisiau symud i ysgol arall.

Os bydd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn symud i safle Ysgol Mynydd Bychan, byddai disgyblion sy'n mynd i Santes Monica yn dal i fynd i'r ysgol yn ei safle newydd, oni bai eu bod eisiau symud i ysgol arall.

Os bydd Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Ysgol Gynradd Allensbank, byddai disgyblion sy'n mynd i Ysgol Mynydd Bychan yn dal i fynd i'r ysgol yn ei safle newydd, oni bai eu bod eisiau symud i ysgol arall.

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu ar safleoedd ysgolion presennol.

Os oes unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig yn mynd yn eu blaen, byddai swyddog prosiect arweiniol yn cydweithio â'r cyrff llywodraethu perthnasol ym mhob ysgol. Byddent yn goruchwyllo datblygiad rhaglen fuddsoddi fanwl. Byddai'r rhaglen hon yn cynnwys y gwaith arfaethedig, trefniadau pontio, iechyd a lles disgyblion a staff ac amserlenni. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddai gwaith yn digwydd yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn lleihau unrhyw effaith bosib ar addysgu a dysgu.

Fel rhan o'r ymgynghoriad bydd y Cyngor yn holi barn disgyblion yr ysgolion a bydd unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn llywio unrhyw gynlluniau gwaith yn y dyfodol.

## Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae yna ddsbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Gynradd Allensbank. Mae hwn yn ddsbarth sy'n gwasanaethu'r ddinas gyfan o ran dysgwyr fyddai fel arfer yn mynychu ysgolion eraill ond sydd angen cymorth ychwanegol.

Pe bai Ysgol Gynradd Allensbank yn cau, ac ysgol newydd yn agor (Opsw'n 1) byddai angen i Gyngor a Chorff Llywodraethu'r ysgol ystyried a ddylid cynnwys y dosbarth Lleferydd ac Iaith yn yr ysgol newydd neu ei leoli mewn ysgol arall.

Pe bai Ysgol Gynradd Allensbank yn symud i rannu safle Ysgol Gladstone (Opsw'n 1) byddai angen i'r Cyngor a Chorff Llywodraethu'r ysgol ystyried a ddylid cadw'r dosbarth Lleferydd ac Iaith yn yr ysgol neu ei leoli mewn ysgol arall.

Pe bai Ysgol Gynradd Allensbank yn symud i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan, byddai'r Cyngor yn lleoli'r dosbarth Lleferydd ac Iaith mewn ysgol arall.

Pe bai Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Ysgol Gynradd Allensbank, gallai'r Cyngor ystyried agor canolfan adnoddau arbenigol cyfrwng Cymraeg. Byddai angen cynigion ar wahân ar gyfer hyn, yn ddiweddarach.

## Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf.

Mae'r safonau yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Mae agor ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd dau ddsbarth mynediad, y cynnig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddsbarth mynediad ac agor darpariaeth feithrin yn Santes Monica yn rhoi cyfle i fanteision addysgol. Gallai'r ysgolion adeiladu ar y cynnydd presennol, gan sicrhau effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg disgyblion y presennol a'r dyfodol.

Ni fyddai cael Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ddwy ysgol ar wahân mewn safle a rennir yn caniatáu gwireddu manteision ysgol â dau ddsbarth mynediad. Fodd bynnag, gellid sicrhau rhai o'r manteision addysgol yn Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone pe bai'r ysgolion yn cytuno i gydweithio neu ffederaleiddio'n ffurfiol.

## Beth yw manteision y cynnig?

Mae manteision y cynigion yn dibynnu ar yr opsiwn sy'n cael ei ddatblygu.

### Yn gyffredinol, byddai'r newidiadau a gynigir yn:

- cynnal nifer presennol y lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal leol, neu yn eu lleihau ychydig bach iawn.
- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn bodloni anghenion amrywiol y gymuned leol
- arwain at lai o blant yn cael eu gwrthod gan ysgol leol
- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn gallu eu gwasanaethu yn y dyfodol
- fel isafswm, yn cynnal y safonau addysg presennol a galluogi pob ysgol i barhau i wella addysg i'w holl ddysgwyr
- caniatáu i bob un o'r safleoedd ysgol aros yn safleoedd ysgol fel bod digon o le ar gyfer newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol.
- cefnogi cynnydd tuag at dargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a Chymraeg 2050
- cefnogi Ysgol Mynydd Bychan i gynnal a pharhau i adeiladu ar ei safonau rhagorol
- caniatáu i fwy o blant elwa o'r addysg sydd ar gael yn Ysgol Mynydd Bychan
- cefnogi ysgolion i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol, gan wneud gwell defnydd o'u hadnoddau

### Byddai agor ysgol gynradd cyfrwng Saesneg dau ddsbarth mynediad newydd a chynyddu Ysgol Mynydd Bychan i fod yn ysgol dau ddsbarth mynediad yn gwneud y canlynol:

- creu patrwm mwy economaidd gynaliadwy o ddarpariaeth ysgol yn yr hirdymor
- cefnogi ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol mewn patrwm gwell o ddarpariaeth
- cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr
- mae ysgolion dau ddsbarth mynediad yn caniatáu mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion nag y mae ysgolion llai
- gall ysgol dau ddsbarth mynediad gynnig mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth
- gallai'r ysgol gyflogi mwy o staff addysgu a chymorth gydag ystod ehangach o wybodaeth ac arbenigedd
- byddai mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e., athrawon newydd gymhwyso a all arsylwi'r athrawon eraill yn y grŵp blwyddyn.
- rhoi cyfleoedd i staff addysgu i'w cryfderau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiad addysg gorau posib
- golygu mwy o athrawon yn arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Rhyw a Chydberthynas a Chymhwysedd Digidol
- creu mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol
- creu mwy o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig

## Byddai symud Ysgol Gynradd Allensbank i'r safle presennol a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone/ sgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn gwneud y canlynol:

- cefnogi ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol drwy gydweithredu/ffederasiwn

## Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn:

- sicrhau parhad darpariaeth sy'n adlewyrchu ethos a diwylliant yr ysgol
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol rhieni â'r ysgol o'r cyfle cyntaf posibl
- hwyluso'r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (lle mae'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus)
- galluogi adnabod grwpiau sy'n agored i niwed yn gynnar. Byddai hyn yn golygu y gellir nodi anghenion plant cyn mor gynnar â phosibl
- rhoi cyfle i blant fynd i'r ysgol feithrin ar yr un safle â'u brodyr a'u chworydd hŷn. Dylai hyn fod yn gadarnhaol i rieni a lleihau'r anawsterau o anfon brodyr a chworydd at ddarparwyr gofal plant gwahanol.
- sicrhau parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol



## Beth yw anfanteision posib y cynigion??

- mae potensial am fwy o dagfeydd traffig o amgylch safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank a'r safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl
- byddai'r cynnig yn Opsiwn 1 i gau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn arwain at golli dau sefydliad hanesyddol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan eu cymunedau.
- byddai'r cynnig yn Opsiwn 3 i leihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank yn arwain at ostyngiad bach iawn yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg.

## Beth yw risgiau'r cynigion?

- mae perygl y gallai'r galw am leoedd cyfrwng Saesneg gynyddu yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn monitro'r galw dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod digon o leoedd i'r rhai sy'n dymuno addysg cyfrwng Saesneg. Gan fod y cynigion yn cadw'r holl safleoedd presennol ac am nad ydynt yn lleihau'r lle sydd ar gael mewn adeiladau ysgol, mae hyblygrwydd ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol.
- mae perygl na fydd cynnydd yn nifer y disgyblion sydd am gael lleoedd Cymraeg. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei amcanestyniadau a byddai'n ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath yn y galw os bydd angen.
- mae effaith bosibl ar ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos. Fodd bynnag, disgwylir i hyn fod yn fyrdymor wrth i nifer y disgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn tyfu fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).
- mae perygl y bydd tarfu posib ar ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu ar safleoedd ysgolion presennol. Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau addysg uchel a safonau diogelwch yn cael eu cynnal.
- os caiff Opsiwn 2 ei ddatblygu, gallai Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone benderfynu peidio â bwrw ymlaen â gwaith cydweithredol neu ffederasiwn.



## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor ac i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Os yw'r Cabinet a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ill dau'n penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid i'r ddau gyhoeddi 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n nodi sut bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu cyflwyno o fewn y dyddiadau a nodir yn yr hysbysiad.

Gallai'r Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan, neu gallent gymeradwyo'r cynnig gyda rhai newidiadau (addasiadau). Byddai'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Pe na bai gwrthwynebiad i'r cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, y Corff Llywodraethol fyddai'n penderfynu ar y cynnig.

Pe bai gwrthwynebiadau i'r cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, y Corff Llywodraethol fyddai'n penderfynu ar y cynnig.

## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae'r manylion llawn i'w gweld yn y Ddogfen Ymgynghori  
[www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa](http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa)

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfodydd â Staff a Llywodraethwyr**

- Cyfarfod Staff Ysgol Gynradd Allensbank (10 Mai 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank (10 Mai 2023)
- Cyfarfod Staff Ysgol Gynradd Gladstone (11 Mai 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gladstone (11 Mai 2023)
- Cyfarfod Staff Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica (17 Mai 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica (17 Mai 2023)
- Cyfarfod Staff Ysgol Mynydd Bychan (18 Mai 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan (18 Mai 2023)



**Schools Programme  
Cofnod y Cyfarfod Staff  
Ysgol Gynradd Allensbank  
10 Mai 2023, 3:35pm – 5:25pm**



**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Zoe Spencer-Biggs (AD), Ceri Tanti (CTY), Staff Ysgol Gynradd Allensbank

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Roedd y cyfarfod yn rhan o'r cam cyntaf o'r ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau a gynhigiwyd i leoedd ysgol gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd. Mae'r cynigion yn cynnwys newidiadau i Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan o Fedi 2025. Mae dau ymgynghoriad yn cael eu cynnal ar yr un pryd; mae'r Cyngor yn cynnal yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r ysgolion cymunedol, a hefyd yn cefnogi'r ail ymgynghoriad ar ran Ysgol Santes Monica.

Dywedodd RP fod y cyfarfod yn gyfle i staff rannu eu barn, ond y byddai cyfleoedd eraill; caiff staff siarad â staff CTY (Cynllun Trefniadaeth Ysgolion) yn unigol, os yw'n well ganddynt, llenwi'r ffurflen ar-lein, neu roi adborth fel grŵp os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yn ogystal, mae nifer o sesiynau galw heibio ar-lein ac wyneb yn wyneb a chyfarfodydd cyhoeddus.

Roedd nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

### **Beth sy'n cael ei gynnig?**

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) yn nodi manylion y cynnig:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Pam cynigir y newidiadau
- Pwy sy'n ymgynghori
- Cyd-destun penodol i'r ardal
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol
- Lleoedd cyfrwng Saesneg
- Lleoedd cyfrwng Cymraeg
- Data dyraniadau derbyn diweddar - Ysgolion Cymunedol Lleol
- Derbyn i ysgolion: Dyraniad Dosbarth Derbyn Medi 2023 (Ysgolion Cymunedol a Ffydd Lleol)
- Data Demograffig
- Ansawdd a Safonau Ysgolion
- Opsiynau a gynigir 1, 2 a 3
- Ffederasiwn a Chydweithio

- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Manteision Addysgol
- Effaith Ariannol y Cynigion
- Ystyriaethau Eraill
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Nodwyd bod rhai o'r niferoedd yn y cyflwyniad yn anodd eu gweld ar y sgrin a chytunwyd y gallai'r pennaeth Jenny Drogan (JD) ddsbarthu'r cyflwyniad i staff drwy e-bost.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y ddogfen ymgynghori lawn sydd ar gael ar-lein.

Rhoddodd Zoe Spencer-Biggs (ZSB) gyflwyniad yn nodi gwahanol oblygiadau Adnoddau Dynol y tri opsiwn a gynigir. Dywedodd ZSB wrth y staff y byddai Adnoddau Dynol, pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu, yn rhoi cymorth iddynt drwy'r proses.

Cynigiodd ZSB gael cyfarfod AD ar wahân gyda'r ysgol pe byddai'n ddefnyddiol iddynt. Cytunodd JD y byddai hyn yn ddefnyddiol, ac y byddai'n trefnu hyn gyda ZSB.

### **Holi ac Ateb**

Gwahoddodd RP gwestiynau gan staff.

Nodir y pwyntiau a godwyd mewn *print italaidd* isod ac maent wedi'u grwpio yn ôl y pwyntiau a godwyd lle bo hynny'n briodol.

Gellir gweld ymateb y swyddog oddi tanynt.

### **Ariannu**

- *Ydy disgyblion yn cael eu hariannu'n well y pen mewn ysgolion Cymraeg? A oes unrhyw grantiau ychwanegol?*
- *Mae nifer o ysgolion yn dangos diffyg, ond mae'r ffigyrau yn y cyflwyniad yn dangos bod gan Ysgol Mynydd Bychan warged mawr. Sut maen nhw mewn sefyllfa cymaint gwell?*
- *Yn gyffredinol, mae'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Mynydd Bychan yn dod o deuluoedd mwy cefnog na disgyblion Allensbank. A yw hyn wedi cael effaith ar y cyllid y mae'r ysgol wedi ei dderbyn, o ran arian a godwyd gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ac ati?*
- *Pam nad oes opsiwn i ddileu diffyg gyllidebol yr ysgol?*

Caiff disgyblion eu hariannu ar yr un lefel, waeth beth fo'r cyfrwng dysgu.

Nodwyd na fyddai cronfeydd yn cael eu cynnwys yn y ffigurau ariannol a ddangosir, fodd bynnag, mae'n bosibl bod y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn Ysgol Mynydd Bychan wedi ariannu pethau ar gyfer yr ysgol a byddai hynny wedi arbed yr ysgol rhag gwario.

Nid yw'n bosibl dileu diffyg cyllidebol Allensbank oni bai bod yr ysgol yn cael ei chau.

### **Dolen i Ddogfennau'r Ymgynghoriad**

- *Mae rhieni Allensbank yn siarad amrywiaeth o ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg/Saesneg. Ym mha ieithoedd y bydd y ddogfen ymgynghori ar gael?*
- *A fydd fersiwn sain ar gael i'r rhai y mae eu lefel llythrennedd yn isel?*
- *Beth os nad oes gan rieni fynediad at y rhyngwrwyd?*

Cyn yr ymgynghoriad gofynnwyd i ysgolion am yr ieithoedd a fyddai'n fwyaf defnyddiol i'w rhieni. Awgrymodd Allensbank saith iaith. Bydd dogfen â throsolwg o'r ymgynghoriad yn cael ei chyfieithu i naw iaith. Mae hyn yn y broses o ddigwydd a bydd y cyfieithiadau yn cael eu hanfon ymlaen i'r ysgolion sy'n ymwneud â'r cynigion cyn gynted â phosibl. Mae'r dyddiad ymgynghori wedi'i ymestyn i sicrhau y bydd rhieni'n cael cyfle i ddarllen y trosolwg wedi'u cyfieithu a chael digon o amser i ymateb.

Yn ogystal, darparwyd testun i'r ysgolion er mwyn iddynt gyfathrebu â'u rhieni gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu arferol yr ysgolion sy'n caniatáu cyfieithu, fel Dosbarth Dojo a Schoop.

Nid oes fersiwn sain ar gael, fodd bynnag, ond os oes galw amdano, gellid ystyried hyn. Mae amrywiaeth o gyfleoedd ymgynghori i rieni, ar-lein ac wyneb yn wyneb, sy'n golygu nad oes angen mynediad at y rhyngwrwyd er mwyn i bobl ymateb. Mae'r rhain yn amrywio o gyfarfodydd cyhoeddus i sesiynau ar-lein un-wrth-un neu sesiynau galw heibio yn y llyfrgell leol. Mae swyddogion hefyd yn gwneud ymholiadau er mwyn cael mynediad at grwpiau lleol.

## **Estyn**

- *Holwyd a yw ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu harolygu gan Estyn yn llai aml, gan fod dyddiad ymweliad Estyn diwethaf Ysgol Mynydd Bychan yn 2015.*

Nid yw ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu harolygu'n llai aml. Ond, 2015 oedd dyddiad arolwg diwethaf Ysgol Mynydd Bychan.

## **Cydraddoldeb**

- *Mynegwyd pryder ynglŷn â chyfansoddiad ethnig Cabinet y Cyngor, bod diffyg amrywiaeth ethnig.*
- *Mynegwyd pryder ynghylch annog yr adborth gan unigolion o leiafrifoedd ethnig, gan eu bod yn aml yn teimlo nad ydynt yn gallu ymgysylltu.*

Rhodddwyd sicrwydd bod amrywiaeth ethnig yn y Cabinet. Mae manylion y cynghorwyr sy'n rhan o'r Cabinet ar gael ar wefan y Cyngor.

O ran annog adborth gan staff a rhieni o leiafrifoedd ethnig, cynigiwyd sesiynau AD ychwanegol a chymerwyd mesurau i helpu i annog adborth gan rieni ac aelodau o'r gymuned o leiafrifoedd ethnig eisoes wedi'u hamlinellu.

## **Lles Disgyblion**

- *Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i les staff a disgyblion? Mae'r ysgol wedi dioddef blynyddoedd o aflonyddwch sylweddol yn sgil gwaith adeiladu, yn ogystal â'r*

*cynnwrf yn sgil Covid. Roedd yn ymddangos bod y cynnwrf yn dod i ben o'r diwedd, ac wedyn dyna'r cynigion hyn yn cael eu cyflwyno.*

- *A fyddai'n rhaid i'r plant fynd trwy gynnwrf gwaith adeiladu pellach, yn ogystal â'r cynnwrf o symud ysgol?*
- *Teimlo ei bod yn annheg disgwyl i'r plant symud i adeilad newydd, a allai gael ei staffio gyda dieithriaid gan nad oes sicrwydd y bydd staff yn llwyddo i gael rôl. Bydd disgyblion a'u teuluoedd yn gweld hyn yn frawychus.*

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r cynnwrf y mae'r ysgol wedi'i wynebu. Mae'r broses ymgynghori yn hir a bydd hynny'n caniatáu pontio. Cynigiwyd cyfarfodydd AD ychwanegol ar gyfer yr ysgol a gellir trafod cymorth posibl yn y cyfarfodydd hyn.

Byddai rhywfaint o waith adeiladu pellach, ond y bwriad yw cwblhau'r gwaith presennol cyn y dyddiad arfaethedig y byddai'r ysgolion adleoli. Pe bai disgyblion Allensbank yn symud i adeilad gwahanol does dim disgwyl y byddai gwaith adeiladu sylweddol yn digwydd yno.

### **Pryderon cysylltiedig â Phrosesau AD**

- *Byddai opsiwn un yn golygu bod yn rhaid i staff ailymgeisio am eu swyddi. Mae hynny'n teimlo'n anfoesegol ac yn hynod chwithig, gan y byddai'r ysgol ond yn symud i safle newydd?*
- *Os bydd Opsiwn un yn mynd yn ei flaen gyda chorff llywodraethu newydd, mae'n debygol y bydd cadeirydd y corff llywodraethu yn un o'r cadeiryddion presennol. A yw hyn yn golygu y bydd staff a ddaeth o'r ysgol honno yn wreiddiol o fantais?*
- *Beth yw amserlen y broses Adnoddau Dynol? Oherwydd, pe bai Opsiwn un yn digwydd, a fyddai angen recriwtio tra bo'r ysgolion presennol yn dal ar agor?*
- *Byddai diswyddiadau o dan bob Opsiwn.*
- *A fydd proses recriwtio lawn yn cael ei chynnal?*

Dan Opsiwn Un byddai rhaid i staff ailymgeisio am eu swyddi gan nad symud i safle newydd yn unig y maen nhw. Byddai Allensbank a Gladstone yn cau'n ffurfiol a byddai ysgol newydd yn agor yn eu lle. Mae'n ofynnol i Gorff Llywodraethu ysgol recriwtio'r staff felly byddai angen i'r holl staff ymgeisio. O dan Opsiwn dau, ni fyddai angen i unrhyw staff ailymgeisio am swyddi oni bai bod ffederasiwn yn cael ei ystyried - yn yr achos hwnnw, byddai angen i'r uwch arweinyddiaeth bresennol (h.y., penaethiaid a dirprwyon) ailymgeisio am eu swyddi. O dan opsiwn tri, ni fyddai angen i unrhyw staff ailymgeisio am swyddi, fodd bynnag, byddai maint Allensbank yn lleihau, felly efallai y bydd angen newidiadau i'r strwythur staffio.

Os bydd Opsiwn un yn digwydd, byddai corff llywodraethu yn cael ei sefydlu ar gyfer yr ysgol newydd. Gall Cadeirydd y Llywodraethwyr fod yn llywodraethwr o un o'r ysgolion presennol, ond nid yw hynny i ddweud mai'r unigolyn hwnnw fyddai'r cadeirydd presennol, nac yn wir llywodraethwr sydd â chysylltiad personol â'r ysgol. Er enghraifft, gallai'r cadeirydd fod yn llwyodraethwr Awdurdod Lleol neu'n Llywodraethwr Cymunedol.

Pe bai opsiwn un yn mynd yn ei flaen, byddai'r corff llywodraethu yn cael ei sefydlu yng Ngwanwyn 2024. Cytunwyd y byddai ZSB yn darparu llinell amser ar gyfer y digwyddiadau AD i bob opsiwn gyda'r pennaeth wedyn yn ei throsglwyddo i'r staff.

O dan opsiwn un byddai'n rhaid i staff ymgeisio am swyddi yn yr ysgol newydd. Gall rhai staff ddewis ystyried diswyddo gwirfoddol neu ofyn am gael eu rhoi ar y rhestr adleoli neu gallant wneud hynny os nad ydynt yn llwyddo i sicrhau swydd yn yr ysgol newydd. O dan yr opsiynau eraill byddai angen ystyried strwythurau staffio pob ysgol.

Os bydd opsiwn un yn mynd yn ei flaen ac mae angen i staff ymgeisio, byddai angen cwblhau ceisiadau er mwyn i'r broses fod yn deg a thryloyw.

### **Dewisiadau Eraill**

- *Gofynnodd staff a fyddai modd cyflwyno opsiynau ychwanegol?*
- *Pam nad oes opsiwn i'r ysgol cyfrwng Saesneg/dau ddosbarth gael ei lleoli yn Allensbank? Mae llawer o fanteision i'r safle hwn dros safle Gladstone/St Monica, megis argaeledd parcio. Hyd yn oed os yw'r safle ychydig ymhellach i ddisgyblion gerdded mae'r cynnydd yn fach iawn, dim mwy nag ychydig funudau o bellter cerdded ychwanegol.*
- *Mae staff yn ymwybodol o faterion eraill gydag adeilad presennol Santes Monica ar wahân i'r gwaith maen parhaus, megis problemau gyda'r carthffosydd a'r llygod mawr.*
- *Teimlo bod gan blant a staff Allensbank hawliau cyfartal i'r rhai yn Gladstone a dylai cynnal ysgol newydd yn Allensbank fod wedi cael ei ystyried fel opsiwn.*
- *A fyddai'n bosibl cyflwyno deiseb?*
- *Yn realistig, faint y mae'r cynigion yn cael eu dylanwadu gan adborth?*

Er na ellir ymgynghori ar opsiynau eraill o fewn y cyfnod ymgynghori hwn, byddai'n bosibl awgrymu model arall fel rhan o ymateb i'r ymgynghoriad. Argymhellir rhoi cymaint o adborth â phosibl, yn enwedig gan gasglu barn teuluoedd disgyblion.

Roedd Allensbank fel y safle ar gyfer cyfrwng Saesneg yn opsiwn a ystyriwyd cyn lleihau nifer yr opsiynau a aeth allan i ymgynghoriad cyhoeddus. Diystyriwyd hwn oherwydd demograffeg poblogaethau'r ysgolion, gan fod mwy o'r disgyblion presennol yn byw yn rhan ddeheuol y dalgylchoedd cyfun, ac felly byddai ganddynt bellter cerdded hirach i Allensbank na Gladstone.

Byddai'n bosibl cyflwyno deiseb. Byddai deiseb yn cael ei nodi ar wahân. Nodir llythyrau proforma fel x o enghreifftiau o lythyr proforma yn hytrach na sawl llythyr gwahanol sy'n codi'r un mater.

Ystyrir adborth o ymgynghoriadau pan fydd y Cabinet yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion. Mae nifer yr ymatebion yn llai pwysig na'r ansawdd; Os codir rhesymau da sy'n herio p'un a ddylid mynd ymlaen gyda'r cynnig, byddai gan hyn fwy o bwysau na nifer fawr o ymatebion sy'n nodi rhesymau llai cryf.

### **Darpariaeth Feithrin**

- *Oes gan Gladstone ddosbarth meithrin?*

Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd Gladstone ddosbarth meithrin. O dan opsiwn dau, cynigir bod nifer y lleoedd yn nosbarth meithrin Gladstone yn cynyddu, oherwydd trwy symud i'r safle a rennir ni fyddai lle i ddau ddosbarth meithrin.



## Cwestiynau eraill ynglŷn â'r broses ymgynghori

- *A allai Santes Monica atal yr opsiynau hyn rhag symud ymlaen, gan eu bod yn berchen ar eu safle eu hunain?*
- *Pam y rhoddwyd opsiwn un yn gyntaf? Ai dyma'r opsiwn a ffefrir gan y cyngor?*

Gallai. Gallai Santes Monica gytuno i beidio â bwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau i'w hysgol. Fodd bynnag, maent wedi cytuno i fod yn rhan o'r ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig. Gallai Santes Monica fod wedi dewis cynnal eu hymgyngoriad eu hunain ond yn hytrach mae wedi cytuno i'r Cyngor ei wneud ar eu rhan.

Nac ydy, nid oes gan y Cyngor opsiwn a ffefrir.

## Cwestiynau eraill

- *Faint y mae'r holl sgaffaldiau o amgylch yr adeilad wedi'i gostio?*

Nid yw'r ffigur wrth law, ond mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi'u cyflwyno yn gofyn am y ffigurau. Roedd angen y sgaffaldiau i sicrhau nad oedd y gwaith maen yn disgyn o'r adeilad ac yn achosi anaf difrifol.

## Camau Gweithredu a Gytunwyd

- **Pennaeth JD i gysylltu â ZSB (AD) i drefnu cyfarfod ychwanegol ar gyfer staff.**
- **JD i anfon y cyflwyniad i staff er mwyn iddynt allu gweld manylion y tablau a ddangosir ar y sgrin yn y cyfarfod.**
- **Bydd fersiynau wedi'u cyfieithu o'r dogfennau ymgynghori yn cael eu hanfon i'r ysgolion cyn gynted ag y byddant ar gael er mwyn iddynt gael eu darparu i rieni.**
- **ZSB i ddarparu llinell amser i'r pennaeth ei throsglwyddo i'r staff gyda goblygiadau yr opsiynau o ran Adnoddau Dynol.**
- **RP i ddarparu manylion am gost y sgaffaldiau sydd wedi bod yn Ysgol Gynradd Allensbank**

Diolchodd RP i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.



**Schools Programme**  
**Cofnod Cyfarfod y Llywodraethwyr**  
**Ysgol Gynradd Allensbank**  
**10 Mai 2023, 5:30pm – 7:20pm**



**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Zoe Spencer-Biggs (AD), Ceri Tanti (CTY), Staff Ysgol Gynradd Allensbank

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr.

Roedd y cyfarfod yn rhan o gam un o ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau a gynigir i leoedd ysgol gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd. Mae'r cynigion yn cynnwys newidiadau i Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan o Fedi 2025. Mae dau ymgynghoriad yn cael eu cynnal ar yr un pryd; mae'r Cyngor yn cynnal yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r ysgolion cymunedol, a hefyd yn cefnogi'r ail ymgynghoriad ar ran Ysgol Santes Monica.

Roedd y cyfarfod yn gyfle i lywodraethwyr rannu eu barn, ond byddai cyfleoedd eraill hefyd; gall llywodraethwyr siarad â staff CTY (Cynllun Trefniadaeth Ysgolion) yn unigol, os yw'n well ganddynt, llenwi'r ffurflen ar-lein, ac mae disgwyl y bydd y corff llywodraethu yn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad. Yn ogystal, mae nifer o sesiynau galw heibio ar-lein ac wyneb yn wyneb a chyfarfodydd cyhoeddus.

Roedd nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad. Gofynnodd un o'r llywodraethwyr am gopi o nodiadau'r cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r rhain yn cael eu darparu ond y byddant hefyd yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn, yn yr un modd ag y maent ym mhob ymgynghoriad CTY. Mae'r nodiadau a gymerwyd yn nodiadau ar y pryd, felly nid ydynt yn air am air, ond dylent gynnwys y sylwadau a godwyd yn ystod y cyfarfod.

Gofynnodd y llywodraethwr am ddolen i'r nodiadau o gyfarfod y llywodraethwr a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar gynigion blaenorol, a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei ddarparu.

### **Beth sy'n cael ei gynnig?**

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) yn nodi manylion y cynnig:

- Beth sy'n cael ei gynnig?
- Pam cynigir y newidiadau
- Pwy sy'n ymgynghori
- Cyd-destun penodol i'r ardal
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol
- Lleoedd cyfrwng Saesneg

- Lleoedd cyfrwng Cymraeg
- Data dyraniadau derbyn diweddar - Ysgolion Cymunedol Lleol
- Derbyn i ysgolion: Dyraniad Dosbarth Derbyn Medi 2023 (Ysgolion Cymunedol a Ffydd Lleol)
- Data Demograffig
- Ansawdd a Safonau Ysgolion
- Opsiynau a gynigir 1, 2 a 3
- Ffederasiwn a Chydweithio
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Manteision Addysgol
- Effaith Ariannol y Cynigion
- Ystyriaethau Eraill
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Nodwyd yr oedd rhai o'r niferoedd yn y cyflwyniad yn anodd i staff eu gweld ar y sgrin yn y cyfarfod cynharach. Byddai'r Pennaeth Jenny Drogan (JD) yn anfon y cyflwyniad i staff a gallai hefyd anfon y cyflwyniad i lywodraethwyr drwy e-bost pe bai gofyn am hynny.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y ddogfen ymgynghori lawn sydd ar gael ar-lein.

Rhoddodd Zoe Spencer-Biggs (ZSB) gyflwyniad yn nodi gwahanol oblygiadau Adnoddau Dynol y tri opsiwn a gynigir. Dywedodd ZSB wrth y llywodraethwyr y byddai Adnoddau Dynol, pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu, yn rhoi cymorth i staff drwy'r proses.

Dywedodd ZSB ei bod wedi cytuno yn ystod y cyfarfod staff i gynnal cyfarfod AD ar wahân gyda nhw. Dywedodd JD fod staff wedi bod yn bryderus iawn am y cynigion, ac efallai y bydd gan rai bryderon preifat yr hoffent eu codi gydag AD.

## Holi ac Ateb

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y llywodraethwyr.

Nodir y pwyntiau a godwyd mewn *print italaidd* isod ac maent wedi'u grwpio yn ôl y pwyntiau a godwyd lle bo hynny'n briodol.

Gellir gweld ymateb y swyddog oddi tanynt.

## Lleoedd Ysgolion

- *Mae'r cyflwyniad yn dangos y dewisiadau cyntaf a fynegwyd ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan, rhai ohonynt heb gael lleoedd. A fyddai'r ail ddewis yn lle cyfrwng Cymraeg neu'r cyfrwng Saesneg agosaf?*
- *Oes rhaid i blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan ac sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg deithio allan o ddalgylch?*
- *Yn y blynyddoedd cynt roedd gan Ysgol Mynydd Bychan 15 plentyn yn y dalgylch a fu'n aflwyddiannus gyda'u cais am le, ond y llynedd dim ond 2 fu'n aflwyddiannus. O le bydd y plant ychwanegol yn dod o i lenwi dosbarth mynediad ychwanegol?*
- *Oes 'na risg y bydd ehangu YMB yn peryglu ysgolion Cymraeg eraill?*

- *O le y bydd y plant yn dod? Bydd unrhyw blant ychwanegol sy'n mynychu cyfrwng Cymraeg yn dod o naill ai ysgolion Saesneg neu'n gadael ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill?*
- *Ydy hi'n bwysicach cael y manau ychwanegol yn Gymraeg, neu i'w llenwi? Os yw'r gyfradd genedigaethau yn gostwng, mae'n ymddangos yn anghyfiawnadwy llenwi dosbarth mynediad arall.*
- *Mae'n anffodus bod yr ysgol dan sgaffaldiau cyhyd, gan fod hyn wedi gwneud yr ysgol yn llai apelgar i rieni. Nid yw Allensbank wedi cael y cyfle i niferoedd ar y gofrestr adfer.*

Mae'r ail ddewis yn dibynnu ar ddewis rhieni. Yn y gorffennol fe wnaeth rhai rhieni yn y dalgylch a fethodd â chael lle yn Ysgol Mynydd Bychan ddewis llefydd cyfrwng Cymraeg ymhellach oddi cartref, ac yna cawson nhw drafferth gydag anfon brawd neu chwaer iau i'r un ysgol. Does gan Ysgol Mynydd Bychan ddim llefydd sbâr yn y grwpiau oedran hŷn felly os gall brawd neu chwaer iau gael lle yn yr ysgol fel arfer does dim lle i'r un hŷn symud, sy'n golygu y gall teuluoedd fod mewn sefyllfa lle nad ydyn nhw'n gallu dod o hyd i le i'w holl blant mewn un ysgol Gymraeg.

Yn yr ardal ehangach, dim ond 11 lle gwag sydd ar hyn o bryd yn Nosbarthiadau Derbyn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2023. Nid oes digon o leoedd ar gyfer y galw yng Ngogledd / Canol Caerdydd. Pe bai ffiniau dalgylch yn cael eu symud byddai yna lefydd ychwanegol ond dim digon i ateb y galw neu i dyfu cyfrwng Cymraeg fel y targedir.

Mae perygl y gallai cynyddu lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan arwain at lai o blant yn mynychu ysgolion Cymraeg eraill. Felly, byddai angen i ni weithio i gynyddu cyfran y plant sy'n mynychu cyfrwng Cymraeg, drwy wella gwelededd a chofrestriadau. Mewn rhai ardaloedd, gallai fod twf yn y boblogaeth o deuluoedd sy'n symud i mewn, megis mewn ardaloedd lle mae datblygiad tai newydd.

Yn y gorffennol ni fyddai Ysgol Mynydd Bychan wedi gallu mynd ati i hyrwyddo eu hysgol, gan eu bod mewn sefyllfa o orfod gwrthod plant o'r dalgylch. Gwnaed ymchwil mewn rhan arall o'r ddinas, a chanfuwyd bod credoau anwir ymhlith rhieni, gyda rhai yn meddwl mai addysg breifat oedd cyfrwng Cymraeg, neu fod yn rhaid i deuluoedd siarad Cymraeg gartref er mwyn i'w plant fynychu. Gwnaed gwaith yn y maes hwn a chynyddodd y nifer sy'n manteisio ar gyfrwng y Gymraeg yn fawr oherwydd ymdrechion gweithredol i recriwtio.

Gallai cynyddu cyfrwng Cymraeg llai na 1 dosbarth mynediad fod yn opsiwn a gyflwynwyd mewn ymateb, efallai mewn sawl cam, gyda 1.5 dosbarth mynediad yn y lle cyntaf. Dros amser, byddem yn disgwyl i'r gyfradd genedigaethau gynyddu eto.

### **Dewisiadau Eraill**

- *A oes darpariaeth Gymraeg ychwanegol yn un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg wedi cael eu hystyried?*
- *Pam y mae gan bob opsiwn Ysgol Mynydd Bychan yn symud i Allensbank; pam nad oes opsiwn lle bydden nhw'n symud i safle Gladstone?*
- *A oes mwy o fanylion am y wybodaeth ddemograffig a nodir fel y rheswm dros y ffaith nad oes opsiwn i gynnal cyfrwng Saesneg yn Allensbank?*

- *A yw Ysgol Gynradd Gladstone yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan?*
- *A allai Ysgol Mynydd Bychan symud i safle Ysgol Gymraeg 1 dosbarth mynediad arall gan gynyddu'r maint y ffordd honno?*

Cafodd cynnig i gynyddu lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan drwy addysgu rhai plant yn Allensbank ei ystyried yn flaenorol ac fe'i gwrthodwyd gan gyrff llywodraethu'r ddwy ysgol, felly ni fyddai wedi ffurfio un o'r opsiynau i'w ystyried yn y cynigion hyn.

Roedd Allensbank fel y safle ar gyfer cyfrwng Saesneg yn opsiwn a ystyriwyd cyn lleihau nifer yr opsiynau a aeth allan i ymgynghoriad cyhoeddus. Diystyriwyd hwn oherwydd demograffeg poblogaethau'r ysgolion, gan fod mwy yn byw yn rhan ddeheuol y dalgylchoedd cyfun, ac felly byddai ganddynt bellter cerdded hirach i Allensbank na Gladstone.

Yn rhan o'r gwaith paratoadol, nodwyd cyfeiriadau disgyblion ar fap ac roedd hynny'n dangos bod cyfran uwch yn agosach at Gladstone, ond gan y defnyddiwyd cyfeiriadau cartref, ni fu modd i ni rannu hyn.

Ydy, mae Ysgol Gynradd Gladstone yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan.

Roedd staff wedi dweud yn y cyfarfod staff eu bod yn ystyried ymateb gyda phedwerydd opsiwn, sef i addysg cyfrwng Saesneg fynd i safle Allensbank.

Mae dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg yn fwy, felly byddai symud Ysgol Mynydd Bychan i ddalgylch arall yn golygu taith hirach i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg, ac yn ei gwneud hi'n anoddach o ran teithio llesol ac ati.

### **Pryderon cysylltiedig â Phrosesau AD**

- *Pa mor fuan ar ôl gwneud penderfyniad y gall y broses ddechrau? Pryderu y gallai staff da chwilio am waith mewn manau eraill oherwydd ansicrwydd ynghylch eu swyddi.*
- *Pam fod y newidiadau'n cael eu cynnig? Mae yna opsiynau eraill a fyddai'n cyflawni'r un peth heb fygythiad dileu swyddi. Teimlo bod hyn yn hynod o drafferthus ac yn frawychus i'r staff. Poeni y bydd staff yn gadael.*
- *A yw'r cynnig o gymorth AD ar agor drwy gydol y broses gyfan?*

Pe bai opsiwn un yn mynd yn ei flaen, lle byddai angen i staff ymgeisio am swyddi, byddem yn edrych i gael y pennaeth yn ei swydd o 12 mis cyn i'r ysgol newydd agor. Fodd bynnag, os yn dilyn sefydlu corff llywodraethu, mae'n dymuno cyflymu'r broses, gallent geisio recriwtio ynghynt, ar y sail na fyddai'r rôl yn dod i rym tan gyfnod diweddarach. Unwaith y bydd pennaeth yn cael ei recriwtio, gallai recriwtio staff eraill, sy'n golygu y gallai staff gael cadarnhad a fydd ganddynt swydd ym mis Medi 2025 cyn gynted â phosibl.

Mae'r cynnig o gymorth AD ar agor drwy gydol y broses gyfan.

### **Cyllid/Cyllideb**

- *Ymholiad ynglŷn â'r ffigurau ar y cyflwyniad – dyw'r cyllideb gymeradwy 0 gan lywodraethwyr ar gyfer Santes Monica ddim Gladstone yn gwneud synnwyr.*
- *Sut mae gan Ysgol Mynydd Bychan warged mor fawr?*

- *Os yw Ysgol Mynydd Bychan hefyd yn 1 dosbarth mynediad, pam nad yw cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu ysgolion llai yn effeithio arnynt?*
- *Faint o ysgolion cyfrwng Cymraeg fydd yn gosod cyllideb â diffyg ar gyfer 2023/24? Mae'n destun pryder os yw ysgolion Cymraeg y ddinas yn well eu byd yn ariannol na rhai cyfrwng Saesneg.*

Ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf y mae'r niferoedd ac maen nhw wedi cael eu darparu gan yr Adran Gyllid. Does gan CTY ddim gwybodaeth am y rhesymau dros y gyllideb dros ben yn Ysgol Mynydd Bychan. Eleni rydym yn gweld bod nifer cynyddol o ysgolion llai yn gorfod gosod cyllideb â diffyg.

Mae Ysgol Mynydd Bychan wedi bod yn llawn ers amser maith ac mae'n bosib bod plant wedi cael eu derbyn ar apêl yn ychwanegol at y 30 o blant ar gyfer grŵp blwyddyn. Mae'r adeilad yn llai felly mae'n debygol y gallai costau fod wedi bod yn is am ynni a chynnal yr ysgol. Yn y cyfarfod staff roedd awgrym y gallai'r CRhA neu gyfraniadau rhieni ariannu pethau, a fyddai wedi arbed arian i'r ysgol. Wrth i'r ymgynghoriad gael ei gynnal ynghylch newidiadau i Ysgol Mynydd Bychan ddwy flynedd yn ôl, mae'n bosib bod yr ysgol wedi osgoi gwariant mawr rhag ofn y byddai cynigion pellach yn cael eu gwneud i'r ysgol symud. Ni ellir cadw gwarged mawr flwyddyn ar ôl blwyddyn, byddai'n rhaid ei gyfiawnhau i swyddogion Cyllid.

Y dyddiad cau i ysgolion gadarnhau cyllideb â diffyg yw 12 Mai, felly ni fydd pob ysgol sy'n bwriadu gosod cyllideb â diffyg wedi hysbysu'r ALL o hyn eto. Ni fyddem yn gallu dweud pa ysgolion unigol sy'n gosod cyllideb â diffyg ond byddem yn gallu nodi nifer cyffredinol ar ôl 12 Mai.

Nid yw'n wir ar draws y bwrdd bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn well eu byd nag ysgolion cyfrwng Saesneg.

### **Manteision Addysgol / Lles Disgyblion**

- *Mae'n ymddangos mai manteision ariannol sydd i'r cynigion i raddau helaeth. Beth yw manteision addysgegol y cynnig?*
- *Un peth y mae Allensbank yn ei wneud yn eithriadol o dda yw dod i adnabod y plant ac adeiladu perthynas gyda'r teuluoedd. Efallai y byddai'n well yn ariannol cael ysgolion mwy ond nid dyna'r gorau o ran lles disgyblion ac ethos ysgol bob amser.*
- *Oes ffigwr ar faint yn well y mae ysgolion mwy yn ei wneud yn arolygiadau Estyn?*
- *A oes unrhyw wybodaeth gymharol am ysgolion mwy o faint o'i gymharu â llai, e.e. faint sy'n ardderchog ac ati?*
- *Pa wahaniaethau ydych chi'n disgwyl y bydd yn lleol o ran effaith?*

Mae mwy o fanylion yn y ddogfen ymgynghori, fodd bynnag, mae manteision i ysgolion mwy o ran y cwricwlwm. Yn ogystal, mewn ysgolion llai mae llai o gyfle i ledaenu llwyth gwaith a rolau a all fod yn fater lles i uwch dimau arweinyddiaeth. Efallai bod gan ysgolion llai deimlad mwy teuluol ond gellir ail-greu hyn mewn ysgolion mwy. Mae CTY yn gweithio gyda'r Consortiwm, Uwch Athrawon ac yn ystyried canfyddiadau fel papur Estyn ar faint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol.

Nid oes awgrym bod unrhyw un o'r ysgolion sy'n ymwneud â'r cynigion yn tanberfformio, mae'r holl ysgolion yn darparu addysg o ansawdd da i ddisgyblion. Does dim disgwyl y bydd unrhyw ostyngiad o ran ansawdd yr addysg.

Mae ysgolion mwy o faint yn fwy tebygol o allu gwneud arbedion oherwydd graddfa'r prynu, cynilo ar staff cymorth ac ati, sy'n golygu y gellir defnyddio cyfran uwch o'u cyllideb i gefnogi addysgu a dysgu.

Bydd MDF yn gwirio a oes unrhyw wybodaeth sy'n cymharu arolygiadau Estyn yr ysgolion mwy o faint â'r rhai sy'n llai.

O dan ganllawiau Llywodraeth Cymru mae gwybodaeth gymharol wedi'i dileu, megis codio lliw a dyfarniadau ynghylch a yw ysgol yn dda/ardderchog ac ati. Mae adroddiadau Estyn yn llawer mwy naratif erbyn hyn, ac mae'n anoddach dweud ar gipolwg sut mae ysgol yn gwneud.

### **Y Broses Ymgynghori**

- *Sut mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal?*
- *Os oes cefnogaeth gref i un opsiwn, a fydd yr opsiwn hwnnw'n mynd yn ei flaen?*
- *Mynegwyd pryder ynghylch pa mor hir mae'r broses yn ei gymryd, gan ei fod yn arwain at ansicrwydd i staff a theuluoedd.*
- *Pa rôl mae Santes Monica yn ei chwarae yn hyn?*
- *Os oes gwrthwynebiad cryf i'r opsiynau a fydd y cynnig yn mynd yn ei flaen?*
- *Beth yw barn cynghorwyr lleol ar y cynigion?*
- *A fyddai'n rhaid i gynghorwyr ddatgan gwrthdaro buddiannau? Ydyn nhw'n cael hyrwyddo barn ar gyfryngau cymdeithasol?*
- *A fydd Craffu a chyfarfodydd y Cabinet yn ystyried y pwnc hwn ar gael ar-lein?*
- *Os oes gan gynghorydd blentyn a allai elwa o'r cynigion hyn (mannau ychwanegol yn Ysgol Mynydd Bychan) a oes gwrthdaro buddiannau?*
- *Mynegwyd pryder am y rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n cynrychioli barn cymuned wirioneddol Cathays, yn hytrach na barn cymuned bleidleisio dosbarth canol Gwyn, Cathays.*
- *Nodir a gwerthfawrogir bod ymdrechion wedi'u gwneud i wneud y dogfennau ymgynghori yn fwy hygyrch, trwy eu darparu mewn ieithoedd ychwanegol, fodd bynnag, bydd angen iddynt fod ar gael yn fuan fel nad yw'r aelodau hyn o'r gymuned dan anfantais.*
- *Nid yw cyfieithu ar ei ben ei hun yn arwain at ymgysylltu.*
- *Ydych chi'n cyhoeddi demograffeg o ymatebion i'r ymgynghoriad?*

Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda staff a llywodraethwyr ym mhob ysgol sy'n ymwneud â chynigion. Mae'r ysgolion wedi gwneud rhieni yn ymwybodol o'r cynigion. Mae'r dogfennau ymgynghori ar-lein. Yn ogystal, mae dau gyfarfod cyhoeddus wedi'u trefnu i gael eu cynnal yng Nghanolfan Gymunedol Cathays. Mae cyfarfod cyhoeddus ar-lein hefyd. Mae sesiynau galw heibio personol wedi'u trefnu, ynghyd â'r cynnig o sesiynau galw heibio ar-lein neu alwadau ffôn. Yn ogystal, ymgynghorir â'r disgyblion ym mhob un o'r pedair ysgol.

Nid refferendwm yw'r ymgynghoriad. Os yw un opsiwn yn gyffredinol yn fwy poblogaidd, ond mae mater yn er erbyn yn dod i'r amlwg, gallai'r mater hwnnw fod â

mwy o bwysau. Os na ellir datrys unrhyw bryder yn ddigonol, gallai hyn atal opsiwn rhag mynd yn ei flaen.

Mae'r broses wedi'i hamlinellu yn y Cod CTY. Rhaid i hyd yn oed newid syml heb wrthwynebiad fynd drwy'r broses, ac fel arfer bydd yn para o leiaf naw mis.

Mae Santes Monica wedi cytuno i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ac mae'r Cyngor yn cynnal eu hymgyngoriad ar ran yr ysgol. Os yw Santes Monica yn dewis peidio â bwrw ymlaen, yna ni allai unrhyw opsiynau sy'n ymwneud â nhw fynd ymlaen. Ar adeg yr ymgynghoriad blaenorol gwahoddwyd cyrff llywodraethu i gyflwyno awgrymiadau eraill, rhywbeth a wnaeth Corff Llywodraethu Santes Monica.

Mae'n bosibl, os oes gwrthwynebiad cryf i'r cynigion y gallai cynnig barhau i fynd rhagddo, fodd bynnag, bydd pob ymateb yn cael ei ystyried gan y Cabinet wrth benderfynu a ddylid symud ymlaen i'r cam nesaf.

Mae cynghorwyr lleol i gyd wedi cael gwybod am y cynigion ac yn cael cyfle i ymateb.

Byddai'n rhaid i aelodau Cabinet sydd â gwrthdaro buddiannau beidio â chymryd rhan pan fydd eitemau o'r fath yn cael eu hystyried. Byddai aelodau lleol yn gallu hyrwyddo'r ymgynghoriad ar gyfryngau cymdeithasol, ond ni ddylai aelodau cabinet wneud hynny.

Bydd - bydd cyfarfodydd sy'n ystyried yr adroddiadau ar y cynigion hyn ar gael ar-lein.

Os oes gan aelod o'r cabinet wrthdaro buddiannau, dylai beidio â chymryd rhan. Byddai cynghorwyr eraill yn gwneud y penderfyniad ar y cynigion hyn fel nad oes gwrthdaro. Os oes pryder penodol am wrthdaro buddiannau, rhowch wybod i ni.

Nid yw pob cynghorydd yn ddosbarth gwyn a chanol, ac nid yw pob un o'r Cabinet chwaith. Rydym yn chwilio am amrywiaeth mor eang â phosibl o safbwyntiau ac yn ceisio targedu grwpiau anoddach eu cyrraedd. Mae'r ddogfen ymgynghori gwyno ar gael mewn naw iaith ychwanegol; Maen nhw'n cael eu cyfieithu ar hyn o bryd ond mae'r cyfnod ymgynghori wedi'i ymestyn i ganiatáu ar gyfer yr oedi hwn. Gwnaed ymdrechion i wneud yr ymgynghoriad yn fwy hygyrch o'i gymharu â'r ymgynghoriad blaenorol.

Rydym yn cytuno nad yw darparu'r dogfennau mewn ieithoedd ychwanegol o reidrwydd yn arwain at ymgysylltu pellach. Mae swyddogion yn chwilio am ffyrdd o gael mynediad at grwpiau cymunedol er mwyn cyrraedd mwy o bobl.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad sy'n darparu gwybodaeth ddemograffig yn ddewisol, fodd bynnag, os yw pobl yn darparu gwybodaeth ddemograffig gellir adrodd am hyn yn ôl hefyd. Bydd y Cabinet hefyd yn gofyn pa fesurau sydd wedi'u cymryd er mwyn ceisio barnau eang.

### **Cwestiynau / Sylwadau Eraill**

- *Teimlo bod Allensbank wedi mynd trwy boen blynyddoedd o waith adeiladu a sgaffaldiau a nawr mae'n dod i ben bydd ysgol Gymraeg yn elwa. Mae'n anodd*



*peidio â theimlo bod cyfrwng Cymraeg yn cael ei drin yn well, ac nid yw cyfrwng Saesneg yn cael ei werthfawrogi cymaint.*

- *Mae perygl i'r gymuned ganfod bod plant gwyn, dosbarth canol yn cael eu trin yn well na phlant eraill, a allai achosi rhaniad.*
- *Mae Allensbank wedi gwneud gwelliannau enfawr yn dilyn yr arolygiad diwethaf ond un gan Estyn. Teimlo fel bod yr ysgol wedi mynd trwy adfyd ac mae bellach yn ffynnu, a'r wobwr am yr holl waith caled hwn yw cael ei bygwth â gorfod cau.*
- *Mae plant sy'n dod i mewn o dramor eisoes yn gorfod dysgu Saesneg, mae mynd i'r ysgol Gymraeg yn golygu bod ganddyn nhw ddwy iaith i'w dysgu yn hytrach nag un.*
- *Byddai'n ddiddorol gweld os bydd canlyniadau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn newid os oes newid demograffeg.*
- *Mae'r ysgol wedi cael gwybod bod YMB yn dweud wrth rieni/darpar rieni bod y symud yn bendant yn digwydd.*

Mae'n rhaid i ni weithio i osgoi rhaniad, ond hefyd am i'r neges gael ei chyfleu i deuluoedd bod addysg cyfrwng Cymraeg yn agored i bawb yn y gymuned.

Bu achosion o deuluoedd sy'n ceisio lloches yn mynd ati i ddewis rhoi eu plant yn Gymraeg fel iaith Cymru.

Ni ddylid dweud wrth rieni fod unrhyw un o'r cynigion yn bendant yn mynd yn eu blaen, gan nad yw'r ffordd ymlaen wedi'i phenderfynu eto.

### **Camau Gweithredu a Gytunwyd**

- **Bydd copi o nodiadau'r cyfarfod yn cael eu darparu i'r corff llywodraethu.**
- **Caiff dolen at nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r llywodraethwyr ynghylch y cynigion blaenorol ei hanfon at y corff llywodraethu.**
- **Cytunwyd i ddweud wrth y Corff Llywodraethu pa gyfran o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n gosod cyllideb â diffyg pan fydd y wybodaeth hon yn hysbys.**
- **Bydd swyddogion CTY yn gweld a oes gwybodaeth ar gael gan Estyn am ysgolion mwy sy'n cael gwell canlyniadau mewn arolygon.**

Diolchodd RP i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



**Schools Programme  
Cofnod y Cyfarfod Staff  
Ysgol Gynradd Gladstone  
11 Mai 2023 3.45pm**



**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Rosalie Phillips (CTY), Zoe Spencer-Biggs (AD), Louise Flynn (AD), staff Ysgol Gynradd Gladstone, cynrychiolwyr undebau llafur

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Roedd y cyfarfod yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth gynradd yn gwasanaethu'r ardal.

Roedd nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

### **Beth sy'n cael ei gynnig?**

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) i amlinellu manylion y cynnig:

- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?
- Pam fod y newidiadau'n cael eu cynnig?
- Pwy sy'n ymgynghori?
- Cefndir
- Cyd-destun penodol i'r ardal
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol
- Map o'r ddarpariaeth Saesneg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Saesneg
- Map o'r ddarpariaeth Gymraeg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Cymraeg
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Albany, Allensbank a Gladstone
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Ysgol Mynydd Bychan
- Derbyn i ysgolion: Niferoedd Derbyn Dyraniadau mis Medi (Diwrnod cynnig, 17 Ebrill 2023) CYBLD (cyfrifiad ysgol)
- Ansawdd a Safonau'r ysgolion
- Trefniadaeth safle opsiwn 1
- Trefniadaeth safle opsiwn 2
- Ffederasiwn a chydweithio
- Trefniadaeth safle opsiwn 3
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Manteision Addysgol
- Effaith ariannol y cynnigion – cyllidebau ysgolion

- Ystyriaethau eraill
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Amlinellodd Zoe Spencer-Biggs (ZSB) fanylion y goblygiadau AD sy'n benodol i bob opsiwn.

Byddai Opsiwn 1 yn gofyn am ffurfio corff llywodraethu newydd a fyddai'n gyfrifol am benodiadau i'r ysgol newydd. Byddai AD yn argymhell bod swyddi wedi'u neilltuo yn y lle cyntaf ac eithrio'r swyddi Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth a fyddai'n destun hysbyseb genedlaethol. Yn achos staff a benodir i swydd gradd is, byddai cyflogau yn cael eu diogelu am hyd at dair blynedd. Byddai cymorth AD ar gael i unrhyw staff nad oeddent yn llwyddiannus.

O dan Opsiwn 2, pe bai ffederasiwn gydag Ysgol Gynradd Allensbank yn cael ei ddatblygu, byddai corff llywodraethu ar y cyd yn cael ei sefydlu a fyddai'n goruchwylio'r gwaith o benodi swyddi'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth; byddai'r broses yn cael ei chyfyngu i benaethiaid presennol yn y lle cyntaf.

O dan Opsiwn 3 ni fyddai unrhyw effaith ar Ysgol Gynradd Gladstone.

Dywedodd RP fod ymrwymiad i ddarparu llinell amser i bob opsiwn.

Dywedodd ZSB y byddai AD yn cynnal cymhorthfa yn yr ysgol a hefyd yn hapus i gwrdd fel grŵp.

## Holi ac Ateb

Gwahoddodd RP gwestiynau gan staff.

Nodir y pwyntiau a godwyd mewn *print italaidd* isod ac maent wedi'u grwpio yn ôl y pwyntiau a godwyd lle bo hynny'n briodol.

Gellir gweld ymateb y swyddog oddi tanynt.

## Cynigion

- *pam nad aeth y cynnig blaenorol yn ei flaen?*
- *faint o leoedd meithrin fyddai o dan Opsiwn 1?*
- *mae'r cynigion yn teimlo fel cosb am beidio â bod yn gyfrwng Cymraeg gyda £1.8m am fuddsoddi yn y Gymraeg. A fydd hyn yn digwydd ar draws sectorau eraill?*
- *Ai oherwydd poblogaeth uchel o fyfyrwyr yn yr ardal y mae hyn?*

Cynigiwyd ehangu Ysgol Mynydd Bychan i 1.5FE ar ddau safle fel mesur dros dro yn flaenorol, fodd bynnag, nid oedd yr adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cefnogi hyn; Fodd bynnag, mynegwyd safbwyntiau ar ddatrysiadau byrdymor posibl.

Mae Opsiwn 1 yn cynnig cael un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 2AB gyda hyd at 96 o leoedd meithrin. Mae'r cynigion wrthi'n mynd drwy'r cam ymgynghori ac mae

cyfleoedd i fynegi barn a fydd yn cael ei hystyried. Anogir staff i ymateb fel grŵp ond gallant hefyd fod yn rhiant neu'n llywodraethwr. Bydd yr holl safbwyntiau a fynegir yn cael eu crynhoi a'u hateb yn yr adroddiad i'r Cabinet ar ôl ymgynghori. Gallai unrhyw un o'r tri opsiwn gael eu symud ymlaen fodd bynnag nid yw hyn yn fait accompli; os bydd un o'r opsiynau'n cael eu cyflwyno, y cam nesaf fyddai cyhoeddi hysbysiad statudol a fyddai'n caniatáu cyfnod o hyd at 28 dyddiad ar gyfer gwrthwynebiadau; mae cynigion blaenorol sydd wedi derbyn nifer fawr o wrthwynebiadau, dros 5000, wedi symud ymlaen ac mae yna rai eraill heb fawr ddim nad ydynt wedi gwneud hynny; y rhesymau a fynegir yw'r hyn sy'n effeithio ar p'un a yw cynnig yn cael ei ddatblygu. Y dyddiad penderfynu disgwyliedig yw Ionawr 2024 gyda chynigion yn dod i rym ym mis Medi 2025.

Mae'n ofynnol cyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg 2050 a'r Gymraeg mewn Addysg (CSGA); dydyn ni ddim yn lleihau nifer y llefydd Saesneg yma ond yn cynnig ad-drefnu; cynyddu nifer y llefydd Cymraeg mewn ardal lle bu galw.

Mae nifer y disgyblion wedi amrywio dros amser gyda phlant yn mynychu ysgolion heb fod yn y dalgylch; rydym yn disgwyl i'r boblogaeth godi eto yn y dyfodol ond mae goblygiadau yn y tymor byr o gofrestrïadau yn gostwng.

### **Staffio**

- *a fyddai'n rhaid i staff ymgeisio am swyddi yn yr ysgol newydd.*
- *pa mor fuan y byddai trefniadau staffio yn hysbys?*
- *a fyddai trefniadau gweithio hyblyg yn cael eu hadlewyrchu yn y canlyniad terfynol?*
- *sefyllfa anodd i staff sydd angen ystyried eu sefyllfa o ran cyflogaeth, a bydd hynny yn dylanwadu ar benderfyniadau.*

Yn seiliedig ar ddeddfwriaeth statudol, byddai'n ofynnol i'r holl staff wneud cais am swyddi yn yr ysgol newydd. Roedd y broses benodi gyfyngedig wedi'i haddasu gyda'r mwyaf o staff yn sicrhau swyddi mewn achosion ad-drefnu blaenorol.

Caiff amserlenni i bob opsiwn eu darparu.

Byddai'r holl drefniadau gweithio yn cael eu hystyried.

Derbynnir bod y sefyllfa i staff yn anodd. Mae nifer y plant oed cynradd yn gostwng, a bydd nifer y staff yn gostwng waeth beth fydd y cynigion a fydd yn cael effaith.

Nid oes unrhyw bryderon ynghylch safonau yn yr ysgolion, y nod yw ceisio cadw a gwella o fewn cyfyngiadau a gwneud y gorau dros ddisgyblion. Mae staff wedi dangos ymrwymiad a gallu, ond maent yn cydnabod bod risgiau, e.e. o dan Opsiwn 1, staff uwch arwain, gweinyddwyr a goruchwylwyr canol dydd sy'n wynebu'r risg fwyaf.

### **Materion Iaith**

- *cael trafferth credu bod galw am Gymraeg gan y gymuned Saesneg fel iaith Ychwanegol; mae Cathays yn ardal amrywiol ac yn anodd dychmygu'r galw.*

*Problemau gyda rhieni nad ydynt yn gallu cael gafael ar wybodaeth oherwydd rhwystrau ieithyddol ac sydd angen dod â phobl sy'n gallu siarad â rhieni yn eu mamiaith, problemau o ran lefelau dealltwriaeth.*

- *mae rhieni'n ymddiried mewn staff: newydd i'r wlad/iaith a phroblemau gyda lefelau llythrennedd a bydd rhai teuluoedd yn colli allan; leithoedd a lefelau unigryw iawn yn yr ysgol.*
- *Pryd fydd cyfieithiadau iaith ar gael?*
- *A fyddai'n bosibl cael crynodeb mewn fformat sain?*

Byddwn yn edrych ar yr holl opsiynau sy'n ymwneud ag ymgysylltu; rydym wedi mynychu dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr leithoedd Eraill o'r blaen ac wedi amlinellu'r cynigion a oedd yn ddefnyddiol. Hefyd, opsiwn fyddai i'r ysgol ddefnyddio Schoop; mae gwybodaeth gryno eisoes yn cael ei chyfieithu i naw iaith gymunedol.

Mae tri chyfieithiad wedi'u derbyn a byddant yn cael eu darparu. Bydd y lleill ar gael cyn gynted ag y down nhw i law.

Byddwn yn ymchwilio i weld a yw'n bosibl cael crynodeb mewn fformat sain.

### **Corff Llywodraethu**

- *Pwy fyddai'n penderfynu ar gyfansoddiad unrhyw gorff llywodraethu dros dro?*

Mae cyrff llywodraethu dros dro fel arfer yn cynnwys llywodraethwyr o ysgolion presennol a phenodiadau ychwanegol. Byddai Gwasanaethau Llywodraethwyr yn helpu gyda'r broses hon, gydag AD yn helpu gyda materion staffio.

Mae'r ymgynghoriad yn parhau tan 30 Mehefin gyda sesiynau galw heibio a chyfarfodydd cyhoeddus a rydym hefyd yn hapus i gwrdd eto os oes angen.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd RP i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.



**Schools Programme**  
**Cofnod Cyfarfod y Llywodraethwyr**  
**Ysgol Gynradd Gladstone**  
**11 Mai 2023 5pm**



**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Rosalie Phillips (CTY), Zoe Spencer-Biggs (AD), Louise Flynn (AD), staff Ysgol Gynradd Gladstone, cynrychiolwyr undebau llafur

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr.

Roedd y cyfarfod yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth gynradd yn gwasanaethu'r ardal.

Roedd nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

### **Beth sy'n cael ei gynnig?**

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) i amlinellu manylion y cynnig:

- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?
- Pam fod y newidiadau'n cael eu cynnig?
- Pwy sy'n ymgynghori?
- Cefndir
- Cyd-destun penodol i'r ardal
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol
- Map o'r ddarpariaeth Saesneg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Saesneg
- Map o'r ddarpariaeth Gymraeg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Cymraeg
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Albany, Allensbank a Gladstone
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Ysgol Mynydd Bychan
- Derbyn i ysgolion: Niferoedd Derbyn Dyraniadau mis Medi (Diwrnod cynnig, 17 Ebrill 2023) Data demograffeg: CYBLD (cyfrifiad ysgol)
- Ansawdd a Safonau'r ysgolion
- Trefniadaeth safle opsiwn 1
- Trefniadaeth safle opsiwn 2
- Ffederasiwn a chydweithio
- Trefniadaeth safle opsiwn 3
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Manteision Addysgol
- Effaith ariannol y cynigion – cyllidebau ysgolion
- Ystyriaethau eraill
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Amlinellodd Zoe Spencer-Biggs (ZSB) fanylion y goblygiadau AD sy'n benodol i bob opsiwn.

Byddai Opsiwn 1 yn gofyn am ffurfio corff llywodraethu newydd a fyddai'n gyfrifol am benodiadau i'r ysgol newydd. Byddai AD yn argymhell bod swyddi wedi'u neilltuo yn y lle cyntaf ac eithrio'r swyddi Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth a fyddai'n destun hysbyseb genedlaethol. Yn achos staff a benodir i swydd gradd is, byddai cyflogau yn cael eu diogelu am hyd at dair blynedd. Byddai cymorth AD ar gael i unrhyw staff nad oeddent yn llwyddiannus.

O dan Opsiwn 2, pe bai ffederasiwn gydag Ysgol Gynradd Allensbank yn cael ei ddatblygu, byddai corff llywodraethu ar y cyd yn cael ei sefydlu a fyddai'n goruchwyllo'r gwaith o benodi swyddi'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth; byddai'r broses yn cael ei chyfyngu i benaethiaid presennol yn y lle cyntaf.

O dan Opsiwn 3 ni fyddai unrhyw effaith ar Ysgol Gynradd Gladstone.

### **Holi ac Ateb**

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y llywodraethwyr.

Nodir y pwyntiau a godwyd mewn *print italaidd* isod ac maent wedi'u grwpio yn ôl y pwyntiau a godwyd lle bo hynny'n briodol.

Gellir gweld ymateb y swyddog oddi tanynt.

### **Cyllid**

- *cyfeiriodd y sleid Effaith Ariannol at y gyllideb a ragwelir ar gyfer mis Hydref 2022 sy'n anghywir ac a allai fod yn ddryslyd.*

Roedd eisiau newid y sleid effaith ariannol; roedd y wybodaeth yn gywir adeg ei derbyn.

Byddai'r diffyg yn cael ei ddileu o dan Opsiwn 1; o dan Opsiwn 2 byddai'n rhaid i'r cyrff llywodraethu fynd i'r afael â'r diffyg. Yfory (12 Mai) yw'r dyddiad cau ar gyfer gosod cyllideb diffyg ac ni allwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf cyn hyn.

### **Staffio**

- *a ddiogelir cyflogau staff cymorth?*
- *beth oedd yr adborth gan y staff?*

Roedd angen cadarnhad o ran y sefyllfa gyda diogelu cyflogau i staff cymorth.

Roedd staff yn poeni, yn enwedig gydag Opsiwn 1. Bydd AD yn cefnogi mewn unrhyw ffordd bosibl gydag addasu proses ymgeisio yn achos recriwtio cyfyngedig a chydag adleoli. Dywedodd ZSB y byddai AD yn cynnal cymhorthfa yn yr ysgol ac yr oedd hefyd yn hapus i gwrdd fel grŵp.

Gallai niferoedd staffio dwy ysgol ag un dosbarth mynediad fod yn debyg i ysgol â dau ddosbarth mynediad, ond dydy hynny ddim yn bendant. Byddai mwy o risg i rai staff a

byddem yn annog staff i ofyn am gymorth gan AD. Bydd poblogaethau is hefyd yn cael effaith ar staffio wrth symud ymlaen, p'un a fydd newidiadau'n mynd rhagddynt ai peidio. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu llinellau amser i bob opsiwn.

### **Adeiladau**

- *nid yw adeilad Santes Monica yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank, sut y byddai hyn yn gweithio?*

O dan Opsiwn 2, byddai'n rhaid i'r ddwy ysgol rannu'r safle cyfan.

### **Manteision addysgol**

- *mae manteision addysgol wedi'u hamlinellu ond a fu asesiad o anfanteision; Mae'r safle yn gyfyngedig ac mae angen cyfleusterau digonol gan gynnwys gofod awyr agored.*

Mae sawl safle cyfyng yng Nghaerdydd ac mae'r newidiadau arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion y safle; byddem yn gallu ystyried amseroedd egwyl i grwpiau llai; does dim gofyniad i gael neuadd a all ddarparu ar gyfer pob plentyn ar yr un pryd; rydym yn hyderus bod y lle sy'n ofynnol ar gael, ond yn gallu ystyried opsiynau o ran sut y defnyddir y gofod.

Byddai dichonoldeb manwl yn cael ei wneud pe bai'n cael ei ddatblygu a byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion.

Mae cyngor gan staff profiadol yn y Gyfarwyddiaeth Addysg, Consortiwm Canolbarth y De a mewnbwn penaethiaid wedi llywio'r manteision e.e. mwy o gyfleoedd mewn ysgol â dau ddsbarth mynediad, cyfleoedd i staff, arbedion maint a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol/ar ôl ysgol. Mae arweinyddiaeth a staff cryf yn yr holl ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion ac rydym yn derbyn bod yn well gan rai pobl ysgolion llai o faint.

### **Amserlenni**

- *Beth yw'r llinellau amser?*

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 30 Mehefin 2023. Yn dilyn hyn bydd adroddiad i'r Cabinet a fydd yn cynnwys argymhelliad; Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, byddai hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi yn caniatáu 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau ffurfiol gyda dyddiad penderfynu disgwylidig yn Ionawr 2024.

### **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica**

- *A yw Santes Monica yn dilyn yr un llinell amser?*
- *Beth fyddai'n digwydd pe bai Santes Monica yn penderfynu peidio â symud ymlaen?*

Mae Ysgol Gynradd Santes Monica yn dilyn yr un llinell amser. Gofynnwyd am farn ynghylch y patrwm darpariaeth ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal leol yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol, a gwnaeth Santes Monica awgrymu y gallent adleoli ac agor dosbarth meithrin. Cytunodd y Corff Llywodraethu yn ffurfiol i fod yn rhan o'r



ymgyngoriad a bydd yn rhaid iddo ystyried y canlyniad i'r ysgol; byddai'n rhaid ystyried pwysau unrhyw wrthwynebiadau.

### **Ffederasiwn**

- *A fyddai ffederasiwn yn fater i'r cyrff llywodraethu ei ystyried?*

Os bydd Opsiwn 2 neu Opsiwn 3 yn cael ei ddatblygu, argymhellir yn gryf sefydlu ffederasiwn.

### **Cyllid Cyfalaf**

- *Mae gwahaniaeth demograffig sylweddol rhwng yr ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ac mae cau'r bwlch cyrhaeddiad yn rhan o Gaerdydd 2020. Mae arian ar gyfer gwaith cyfrwng Cymraeg wedi ei sicrhau ond beth yw'r ymrwymiad ar gyfer cyfrwng Saesneg?*

Yr ymrwymiad gan yr ALI yw bod y buddsoddiad yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewisir; mae angen i ni sicrhau bod cyfleusterau'n addas. Mae cyllid sydd wedi'i sicrhau drwy grant cyfalaf yn gyfyngedig i gyfrwng Cymraeg yn unig ond rydym wedi ymrwymo i sicrhau tegwch o ran cyfleusterau.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd RP i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.



**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Michele Duddridge Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Rhian Carbis (CTY), Shirley Karseras (CTY), Louise Flynn (AD), Staff Ysgol Gynradd Santes Monica

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Roedd y cyfarfod yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth gynradd yn gwasanaethu'r ardal.

Roedd nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

### **Beth sy'n cael ei gynnig?**

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) i amlinellu manylion y cynnig:

- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?
- Pam fod y newidiadau'n cael eu cynnig?
- Pwy sy'n ymgynghori?
- Cefndir
- Cyd-destun penodol i'r ardal
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol
- Map o'r ddarpariaeth Saesneg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Saesneg
- Map o'r ddarpariaeth Gymraeg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Cymraeg
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Albany, Allensbank a Gladstone
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Ysgol Mynydd Bychan
- Derbyn i ysgolion: Niferoedd Derbyn Dyraniadau mis Medi (Diwrnod cynnig, 17 Ebrill 2023)
- Data demograffig: CYBLD (cyfrifiad ysgol)
- Ansawdd a Safonau'r ysgolion
- Trefniadaeth safle opsiwn 1
- Trefniadaeth safle opsiwn 2
- Ffederasiwn a chydweithio
- Trefniadaeth safle opsiwn 3
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Manteision Addysgol
- Effaith ariannol y cynigion – cyllidebau ysgolion
- Ystyriaethau eraill
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Amlinellodd Louise (AD) fanylion y goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n benodol i bob opsiwn. Dywedodd wrth y staff, pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu, y byddai AD yn darparu cymorth ac yn cysylltu â gweithwyr ac Undebau Llafur lle y bo angen. Byddai ymgynghoriad llawn ar unrhyw newidiadau.

### **Holi ac Ateb**

Gwahoddodd RP gwestiynau gan staff.

Nodir y pwyntiau a godwyd mewn *print italaidd* isod ac maent wedi'u grwpio yn ôl y pwyntiau a godwyd lle bo hynny'n briodol.

Gellir gweld ymateb y swyddog oddi tanynt.

### **Rhagamcanion niferoedd disgyblion**

- *Gwnaed sylw wrth ystyried data rhagamcanion disgyblion yn ymwneud â chyfraddau geni, y dylid bod yn ymwybyddol o'r ffaith efallai na fydd rhai disgyblion wedi cael eu geni yn y DU.*

Eglurodd BA sut mae ffigurau cofrestru meddygon teulu'r GIG yn cael eu defnyddio bob dwy flynedd i lywio rhagamcanion yn ogystal ag ystod o ddata eraill fel CYBLD a data o ran dewisiadau.

Eglurodd MDF fod symudedd disgyblion yn cael ei fonitro'n agos a thros gyfnod hir.

### **Nifer Derbyn**

- *Os symudodd Santes Monica i safle Ysgol Mynydd Bychan, pam y mae gwahaniaeth yn y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd o'i gymharu â phetai Allensbank yn symud i Ysgol Mynydd Bychan?*

Eglurodd BA y byddai nifer derbyn yr ysgol yn cael ei benderfynu gan Gorff Llywodraethu Santes Monica, cyn belled â bod y nifer hwnnw'n dderbyniol yn nhermau capasiti adeilad yr ysgol.

Nodwyd y byddai'n rhaid i bolisi derbyn yr ysgol newid pe bai'r symud yn cael ei gymeradwyo gan fod safle Ysgol Mynydd Bychan mewn Plwyf gwahanol i'r Rhath presennol / Plwyf Cathays.

- *A allwch chi egluro a yw hyn yr un fath â'r ddarpariaeth feithrin gan fod nifer wedi ei nodi?*

Eglurodd MDF fod nifer derbyn y dosbarth meithrin fel arfer yn cael ei osod ychydig yn is er mwyn peidio â chael effaith niweidiol ar ddarparwyr meithrin a gynhelir eraill yn yr ardal. Os ymhen amser, mae tystiolaeth i awgrymu bod angen mwy o leoedd yna byddai hynny'n cael ei ystyried.

### **Opsiynau**

- *Oes angen i ni ddewis un opsiwn dros y llall?*

Eglurodd MDF y byddai disgwyl ymateb ffurfiol gan y Staff a'r Corff Llywodraethu, ond y gallai pobl ymateb yn unigol hefyd. Mater iddyn nhw oedd esbonio'r hyn roedden nhw'n ei hoffi / ddim yn ei hoffi am bob opsiwn neu roi sylwadau ar unrhyw beth yr oedden nhw'n meddwl oedd yn berthnasol. Mae'n rhaid iddyn nhw feddwl, beth sy'n iawn i'n hysgol ni.

Dywedodd BA pe na bai Santes Monica am symud ymlaen gydag adleoli i safle Ysgol Mynydd Bychan, yna opsiwn 3 fyddai'r unig un a ystyrir ac y byddai'n rhaid iddo gael ei benderfynu gan y Cabinet.

Roedd Tim Adams o NASUWT yn bresennol a chynigiwyd cymorth os oedd angen cymorth ar staff. Ymddiheuriadau am Angela Jardine.

Diolchodd RP i'r staff am eu hamser a'u mewnbwn a daeth y cyfarfod i ben.



**Yn bresennol:** Richard Portas (RP) CTY, Michele Duddridge Friedl (MDF) CTY, Brett Andrewartha (BA) CTY, Rhian Carbis (RC) CTY, Shirley Karseras (SK) CTY, Louise Flynn (LF) AD, Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Santes Monica

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y staff.

Roedd y cyfarfod yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth gynradd yn gwasanaethu'r ardal.

Roedd nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

### **Beth sy'n cael ei gynnig?**

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) i amlinellu manylion y cynnig:

- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?
- Pam fod y newidiadau'n cael eu cynnig?
- Pwy sy'n ymgynghori?
- Cefndir
- Cyd-destun penodol i'r ardal
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol
- Map o'r ddarpariaeth Saesneg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Saesneg
- Map o'r ddarpariaeth Gymraeg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Cymraeg
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Albany, Allensbank a Gladstone
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Ysgol Mynydd Bychan
- Derbyn i ysgolion: Niferoedd Derbyn Dyraniadau mis Medi (Diwrnod cynnig, 17 Ebrill 2023)
- Data demograffig: CYBLD (cyfrifiad ysgol)
- Ansawdd a Safonau'r ysgolion
- Trefniadaeth safle opsiwn 1
- Trefniadaeth safle opsiwn 2
- Ffederasiwn a chydweithio
- Trefniadaeth safle opsiwn 3
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Manteision Addysgol
- Effaith ariannol y cynigion – cyllidebau ysgolion
- Ystyriaethau eraill

- Beth sy'n digwydd nesaf?

Amlinellodd Louise (AD) fanylion y goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n benodol i bob opsiwn. Dywedodd wrth y staff, pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu, y byddai AD yn darparu cymorth ac yn cysylltu â gweithwyr ac Undebau Llafur lle y bo angen. Byddai ymgynghoriad llawn ar unrhyw newidiadau.

### **Holi ac Ateb**

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y llywodraethwyr.

Nodir y pwyntiau a godwyd mewn print *italaidd* isod ac maent wedi'u grwpio yn ôl y pwyntiau a godwyd lle bo hynny'n briodol.

Gellir gweld ymateb y swyddog oddi tanynt.

### **Nifer Derbyn**

- *Pryder ynghylch y nifer derbyn. Pe bai Santes Monica yn symud i safle Ysgol Mynydd Bychan, dim ond 20 disgybl fyddai ganddyn nhw ond fe fydden nhw mewn ysgol fwy gyda chostau cynnal uwch.*

Dywedodd BA nad yw'r awdurdod yn cynnig ehangu Santes Monica ond bod Corff Llywodraethu ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yn gosod eu nifer derbyn eu hunain.

- *Dywedwyd wrth Santes Monica yn y cynnig blaenorol y gallent ond derbyn 27.*

Dywedodd MDF fod nifer derbyn o 30 yn Ysgol Mynydd Bychan wedi cytuno gyda'r ysgol. Y nifer derbyn ar gyfer yr ysgol fyddai 27 fel arfer.

Eglurodd BA fod capasiti'r ysgol yn 192 a'i bod yn seiliedig ar ystafelloedd dosbarth o wahanol feintiau. Yna trefnir y nifer derbyn cyhoeddedig yn gyfartal dros y grwpiau saith mlynedd ond fel arfer mae hyblygrwydd i bob ysgol benderfynu ar sut maen nhw'n defnyddio'r gofod hwnnw yn seiliedig ar anghenion eu dysgwyr.

- *A oes hyblygrwydd gyda nifer derbyn y meithrin arfaethedig o 32?*

Dywedodd MDF na fyddai hyn yn newid gan fod angen dull cytbwys er mwyn peidio â pheryglu hyfywedd darparwyr meithrin eraill yn yr ardal. Mae mecanwaith ariannu'r ddarpariaeth feithrin yn wahanol i'r drefn ar gyfer disgyblion oed cynradd ac nid oes modd adfachu cyllid.

### **Adeiladau**

- *Pa waith sydd ei angen ar safle Ysgol Mynydd Bychan? Mae Santes Monica wedi cael sawl blwyddyn o waith adnewyddu.*

Eglurodd RP fod yr adeiladau mewn cyflwr da ac nad oedd angen gwneud unrhyw waith.

- *Oes gan Ysgol Mynydd Bychan ddosbarth meithrin sefydledig a'r cyfleusterau perthnasol yn barod?*

Dyweddod MDF oes, ond gan fod hon yn ddarpariaeth newydd ar gyfer Santes Monica, byddai rhywfaint o gymorth i helpu i brynu eitemau perthnasol megis dodrefn dosbarth meithrin.

- *Sut mae'r broses o symud ysgol yn ymarferol yn gweithio? A fydd yn rhaid iddynt ddefnyddio diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd ar gyfer hyn?*

Eglurodd RC ei bod wedi bod drwy'r broses a chynhigiodd gwybodaeth am sut mae'n gweithio. Rhoddodd sicrwydd i staff fod Rheoli Cyfleusterau yn gwneud yr elfen symudol, byddai'n rhaid i'r ysgol wneud y pacio yn unig, ond byddai'r amser hwnnw'n cael ei ddyrannu ar gyfer hynny.

### **Y Broses Ymgynghori**

- *Beth yw'r broses i rieni roi adborth? A oes sesiynau galw heibio wedi'u trefnu?*

Eglurodd BA y broses ymgynghori a rhoddodd fanylion am ba sesiynau sydd wedi'u trefnu ac eglurodd sut i gael mynediad atynt.

- *Beth sydd ar gael ar gyfer sefydliadau eraill? Beth os ydyn nhw'n gwrthwynebu'r cynigion?*

Dyweddod BA pe na bai Santes Monica am symud ymlaen gydag adleoli i safle Ysgol Mynydd Bychan, yna opsiwn 3 fyddai'r unig un a ystyrir ac y byddai'n rhaid iddo gael ei benderfynu gan y Cabinet.

Roedd hi'n deall y gallai ysgolion deimlo'n gymysg ynglŷn â'r cynigion. Dywedodd wrthyn nhw am ymateb fel Corff Llywodraethu yn seiliedig ar yr hyn maen nhw'n teimlo yw'r penderfyniad cywir ar gyfer eu hysgol.

### **Diwedd**

Gofynnodd y Cynghorydd Ahmed am amlinelliad syml o'r cynnig er mwyn iddo allu ei rannu gyda'r gymuned.

Diolchodd y Pennaeth i CTY am y cyflwyniad a dywedodd ei fod wedi helpu gydag eglurder o'r cynnig a'r broses ymgynghori.

Diolchodd RP i'r Llywodraethwyr am eu hamser a'u mewnbwn a daeth y cyfarfod i ben.



**Schools Programme  
Cofnod y Cyfarfod Staff  
Ysgol Mynydd Bychan  
18 Mai 2023**



**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Rhian Carbis (CTY), Louise Flynn (AD), Sian Evans (Pennaeth YMB), Cai Maxwell (CTY) a staff YMB.

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Roedd y cyfarfod yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth gynradd yn gwasanaethu'r ardal.

Agorodd Sian Evans (SE) y cyfarfod a chroesawodd staff a chydweithwyr yn yr ALLau.

### **Beth sy'n cael ei gynnig?**

Cafwyd cyflwyniad gan RhC yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig:

- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?
- Pam fod y newidiadau'n cael eu cynnig?
- Pwy sy'n ymgynghori?
- Cefndir
- Cyd-destun penodol i'r ardal
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol
- Map o'r ddarpariaeth Saesneg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Saesneg
- Map o'r ddarpariaeth Gymraeg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Cymraeg
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Albany, Allensbank a Gladstone
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Ysgol Mynydd Bychan
- Derbyn i ysgolion: Niferoedd Derbyn Dyraniadau mis Medi (Diwrnod cynnig, 17 Ebrill 2023) Data demograffeg: CYBLD (cyfrifiad ysgol)
- Ansawdd a Safonau'r ysgolion
- Trefniadaeth safle opsiwn 1
- Trefniadaeth safle opsiwn 2
- Ffederasiwn a chydweithio
- Trefniadaeth safle opsiwn 3
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Manteision Addysgol
- Effaith ariannol y cynigion – cyllidebau ysgolion
- Ystyriaethau eraill
- Beth sy'n digwydd nesaf?



Amlinellodd Louise (AD) fanylion y goblygiadau Adnoddau Dynol sy'n benodol i bob opsiwn. Byddai pob un o'r opsiynau yn effeithio ar YMB mewn ffordd debyg ac y byddai AD yn cynorthwyo'r staff a'r llywodraethwyr i ehangu staff yr ysgol.

### **Holi ac Ateb**

Gwahoddodd RP gwestiynau gan staff.

Nodir y pwyntiau a godwyd mewn *print italaidd* isod ac maent wedi'u grwpio yn ôl y pwyntiau a godwyd lle bo hynny'n briodol.

Gellir gweld ymateb y swyddog oddi tanynt.

### **Opsiynau**

- *Mae wedi bod yn 'anodd iawn' cael ymateb cryf gan ein rhieni yn YMB gan fod y tri opsiwn yn golygu'r un peth yn y bôn, sef symud safle'r ysgol. Rydym wedi ei chael hi'n anodd cael ymateb brwdfrydig.*

Cyflwynodd Tîm Trefniadaeth a Chynllunio Ysgolion gynnis ysgolion Cynradd Cathays a Gabalfa i'r Dylanwadwyr. Gofynnwyd iddynt ystyried y cynigion ar gyfer yr ysgolion hyn wrth gerdded o amgylch yr ardal. Mae'r ysgolion, fel Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone, yn cael eu hystyried mewn perthynas â newidiadau fydd yn effeithio'n fawr ar y gymuned ac a fydd o bosibl, yn achosi llawer o ddadlau o fewn cymdeithas.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r Dylanwadwyr (9 o'r 12 presennol) yn credu'n gryf y dylem ddewis Opsiwn 1 oherwydd ei fod yn ddewis mwy cadarn gan ei fod yn fwy addas a phriodol i'r gymuned ac i ardal Cathays a Gabalfa nag Opsiynau 2 a 3.



**Rhaglen Ysgolion**  
**Cofnod o Ymgysylltu â Dylanwadwyr Caerdydd**  
**Neuadd y Ddinas**  
**01 Mehefin 2023**



Yn gyntaf, byddai gan bob ysgol ddarpariaeth feithrin, sy'n fuddiol i'r gymuned. Yn ail, trwy wthio'r ysgolion cynradd mwyaf bregus yn ariannol at ei gilydd byddai'n datrys yr holl brif broblemau gan y byddai'n dileu eu diffyg. Mae'r Dylanwadwyr yn cynnig cyfuno ysgolion cynradd Allensbank a Gladstone yn ysgol gyhoeddus fwy o faint. Gan fod eu refeniw presennol yn eithaf isel, byddem yn talu'r holl ddyledion sydd gan yr ysgolion yn sgil Covid a chwyddiant.

Fel rhan o'r opsiwn hwn, byddai Ysgol Santes Monica'n adleoli i safle Ysgol Mynydd Bychan a byddai Ysgol Mynydd Bychan yn adleoli i safle Allensbank. Drwy wneud hyn, byddai Ysgol Mynydd Bychan yn dod yn ysgol dau ddsbarth mynediad a gobeithio y bydd yn denu mwy o fyfyrwyr i ysgol Gymraeg. Bydd hyn yn atal rhieni rhag cael gwrthod lle yn eu hysgol dewis cyntaf ac yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 y Llywodraeth sy'n anelu at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r Dylanwadwyr yn deall bod yr opsiwn hwn braidd yn amhoblogaidd, gan ei fod yn dileu hunaniaethau Gladstone ac Allensbank. Mae gan lawer o bobl yn y gymuned ymlyniad emosiynol â'r ysgolion hyn ond dyma sy'n angenrheidiol i sicrhau bod gan yr ysgolion sy'n cael eu hystyried i'w cyfuno ryw fath o etifeddiaeth a fydd yn goroesi yn lle gorfod delio'n gyson â'r pwysau o fod â dros £30,000 o ddyled a gorfod ei dalu'n ôl. Rhywbeth a fydd yn sicr yn cymryd dros ddegawd i'w gyflawni.

Yn ogystal â hyn, bydd ysgolion mwy o faint yn denu penaethiaid profiadol o safon oherwydd y byddant yn talu cyflog mwy iddynt. Mae hyn yn golygu bod mwy o arian yn cael ei dalu i'r ysgol i atal gorddrafft. Byddai'r corff llywodraethu yn gefnogol gan y bydd y Cyngor yn buddsoddi mwy o arian i'r ysgol a fydd o fudd yn y tymor hir. Rwy'n deall y bydd effeithiau negyddol gan y byddai penaethiaid y ddwy ysgol yn cael eu diswyddo, ond byddai pennaeth mwy profiadol yn arbed ac yn cefnogi'r ddwy yn y pen draw.

I gloi, mae'r Dylanwadwyr yn gobeithio y bydd eu barn yn cyfrannu at eich penderfyniad terfynol.

## **Grŵp 2**

### **Cynnig ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd Cathays a Gabalfa**

Roedd deuddeg o Ddylanwadwyr Caerdydd yn ystyried Cynigion Ysgolion Cynradd Cathays a Gabalfa.

O'r rhain roedd 9 yn ffafrio Opsiwn 1.

Mae'n werth nodi na chefnogwyd Opsiwn 2 gan unrhyw un o'r Dylanwadwyr Ifanc. Cytunwyd nad oedd llawer o fuddion gan fod costau rhedeg dwy ysgol ar un safle. Yn ogystal, byddai dyled [diffyg] Allensbank a Gladstone yn parhau heb unrhyw ffordd glir o adfer.



**Rhaglen Ysgolion**  
**Cofnod o Ymgysylltu â Dylanwadwyr Caerdydd**  
**Neuadd y Ddinas**  
**01 Mehefin 2023**



Ar ôl archwilio'n ofalus, roedd ein grŵp (3 allan o 12 Dylanwadwyr Caerdydd yn bresennol) yn ffafrio Opsiwn 3 o Gynigion Ysgolion Cynradd Cathays a Gabalfa yn lle'r ddau opsiwn arall.

Opsiwn tri oedd symud Ysgol Gynradd Allensbank i safle Ysgol Mynydd Bychan a symud Ysgol Mynydd Bychan i safle Ysgol Gynradd Allensbank. Yn yr opsiwn hwn, byddai gan Ysgol Gynradd Allensbank adeilad sy'n addas ar gyfer y galw a byddai Ysgol Mynydd Bychan yn gallu cyrraedd nifer bosibl o ddisgyblion trwy symud i adeilad ysgol a all gynnig dau ddsbarth mynediad. Ni fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i Ysgol Gynradd Santes Monica nac Ysgol Gynradd Gladstone.

Manteision Opsiwn 3:

- Mae'n caniatáu i Ysgol Gynradd Allensbank ddod yn ysgol un dosbarth mynediad (dau ddsbarth mynediad ar hyn o bryd gyda mwy o gyflenwad na'r galw) sy'n golygu na fydd yn colli arian mwyach. Y prif rheswm pam y mae Ysgol Gynradd Allensbank yn colli arian yw oherwydd ei bod yn talu am gyfleusterau adeilad 2 ddsbarth mynediad, a dim ond yn derbyn digon o fyfyrwyr am 1 dosbarth mynediad bob blwyddyn.
- Mae opsiwn tri yn achosi llai o darfu nag opsiwn un tra'n dal i gynnig manteision di-ri i'r ddwy ysgol gan gynnwys:
  - Ni fydd unrhyw athrawon yn colli eu swydd.
  - Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan yw'r agosaf at ei gilydd rhwng y pedair ysgol. (Heddiw fe gerddon ni o Allensbank i Ysgol Mynydd Bychan ac fe gymerodd hi ddau funud i ni).
  - Ni fyddai unrhyw newidiadau negyddol mewn cyflogau i unrhyw staff a byddai'r pennaeth yn Ysgol Mynydd Bychan yn ennill cynnydd sylweddol mewn cyflog. Ar ben hynny, byddai cyfleoedd gwaith newydd gyda'r opsiwn hwn sydd hefyd yn gofyn am Gymraeg.
  - Yn olaf, efallai na fydd rhai rhieni, myfyrwyr ac aelodau'r gymuned o amgylch y pedair ysgol eisiau iddynt gau a chreu ysgol newydd. Mae'n syndod efallai, ond gallai'r ysgolion hyn olygu llawer iawn i aelodau'r gymuned a byddent yn brwydro yn erbyn cau'r ysgolion fel yr hyn a gynnigir yn opsiwn un.

Anfanteision:

- Bydd dyled Allensbank yn parhau. Fodd bynnag, bydd yr adeilad llai yn caniatáu iddynt wella yn y pen draw, er y gallai hyn gymryd peth amser.



**Rhaglen Ysgolion**  
**Cofnod o Ymgysylltu â Dylanwadwyr Caerdydd**  
**Neuadd y Ddinas**  
**01 Mehefin 2023**



- Yn ogystal, bydd Ysgol Mynydd Bychan yn wynebu rhai anawsterau ar y dechrau oherwydd y nifer is o fyfyrwyr o gymharu â'r lle. Fodd bynnag, oherwydd y galw am leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan, byddai'r diffyg myfyrwyr yn llenwi.

O ystyried yr holl opsiynau, gellir nodi'r manteision a'r anfanteision. Mae'r holl opsiynau yn dymuno dod â blaenoriaeth i'r dysgwyr drwy gynyddu'r lle yn Ysgol Mynydd Bychan a'u newid o fod yn ysgol un dosbarth mynediad i ysgol dau ddosbarth mynediad, gan gynyddu cyfanswm y lleoedd yn yr ysgol.

Gobaith y cynnig hwn yw cynyddu'r cyflenwad gan fod y galw am ysgol Gymraeg yn yr ardal hon yn uchel ac mae llawer o rieni sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol yn cael gwrthod lle. Gall hyn hefyd gael effaith gryfach gan greu ysgolion cyfrwng Cymraeg niferus yng Nghaerdydd. Mae hyn hefyd yn helpu nod cenedlaethol Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, sef Cymraeg 2050. Cynyddu capasiti'r ysgol fyddai'r cam cyntaf yn y cyfeiriad cywir.

Mae'r holl opsiynau hefyd yn cydnabod na all Ysgol Gynradd Allensbank barhau i redeg fel y mae ar hyn o bryd. Rhaid iddi naill ai gau, neu newid er mwyn parhau i redeg a chlirio ei dyled bresennol. Bydd unrhyw un o opsiynau'r cynnig yn helpu'r ysgol hon i gau a chlirio'r ddyled neu symud yr ysgol i adeilad a all hwyluso ei galw.

Gellir dweud yr un peth ar gyfer Ysgol Gynradd Gladstone gan ei bod mewn gorddrafft ym mis Mehefin 2023. Nid yw aros fel y status quo yn opsiwn hyfyw yn ein barn ni.

Fodd bynnag, rydym wedi sylwi y gallai'r risg o gynyddu'r cyflenwad ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan a chael llai o fyfyrwyr na lleoedd am gyfnod byr fod yn anfantais bosibl. Fodd bynnag, ni ddylai hyn beri pryder gan mai Ysgol Mynydd Bychan yw'r ysgol fwyaf parod gan fod ganddi lawer o arian [balans dros ben wedi ei gadw].

### **Grŵp 3**

#### **Cynnig ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd Cathays a Gabalfa**

Roedd mwyafrif aelodau rhaglen Dylanwadwyr Ifanc Caerdydd a oedd yn bresennol (9 allan o'r 12 dylanwadwr) o blaid Opsiwn 1.

Roedd hyn yn golygu cau ysgolion cynradd Allensbank a Gladstone a chreu ysgol newydd yn ei lle, tra hefyd yn ailgyfeirio myfyrwyr Santes Monica i safle Mynydd Bychan ac i'r gwrthwyneb.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynyddu dosbarth mynediad i ysgol cyfrwng Cymraeg (Ysgol Mynydd Bychan) yn ogystal â rhoi darpariaeth feithrin i Santes Monica. Bydd y feithrin yn creu cwlwm rhwng y gymuned a'r ysgol, gan gynyddu'r



**Rhaglen Ysgolion**  
**Cofnod o Ymgysylltu â Dylanwadwyr Caerdydd**  
**Neuadd y Ddinas**  
**01 Mehefin 2023**



tebygolrwydd y bydd rhieni'n dewis anfon eu plant i Santes Monica ar gyfer addysg gynradd.

Yn amlwg mae Mynydd Bychan yn ysgol boblogaidd. Oherwydd ei henw da hirsefydlog, mae'n wynebu galw sy'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael. Bydd symud yr ysgol i safle Allensbank (sydd â thir mwy o faint) yn caniatáu i Fynydd Bychan ehangu. Byddai ehangu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cyd-fynd â'r genhadaeth genedlaethol a gyhoeddwyd gan weinidog addysg Cymru, Jeremy Miles; mae'n anelu at hybu'r Gymraeg yn ein gwlad, gan nodi bod 'Cymraeg yn perthyn i bob un ohonom'.

Ar ben hynny, byddai cau Allensbank a Gladstone er mwyn ffurfio ysgol newydd yn clirio'r holl ddyledion [diffygion] blaenorol sydd ynghlwm wrth y sefydliadau. Gallai arian hefyd gael ei ddefnyddio'n synhwyrol ac yn fwy effiethlon gan bob ysgol sy'n ymwneud â'r symud. Ar hyn o bryd mae gan ardal Cathays a Gabalfa bedair ysgol gynradd gydag un dosbarth mynediad neu lai. Trwy weithredu Opsiwn 1 byddai tair ysgol yn cael eu ffurfio, a byddai dwy ohonynt yn ysgolion dau ddosbarth mynediad. Bydd mwy o arbenigeddau yn yr ysgol gan fod mwy o staff ar gael a bydd ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol ar gael.

Byddem yn disgwyl iddynt ddarparu gwell gwerth am arian, a gellir gwario arian ar offer effeithiol, athrawon ac ati.

Byddai gan yr ysgolion y capasiti ar gyfer 60 o fyfyrwyr yn hytrach na'r 30 presennol.

Byddai cau Allensbank a Gladstone yn anfantais i'r rhai sydd â rolau addysgu fel staff. Byddent yn cael eu diswyddo ac o bosibl yn colli eu profiad a'u gallu addysgu. Fodd bynnag, bydd y cyfleoedd adleoli a gynigir gan y Cyngor yn rhoi cyfweiliadau i athrawon ar gyfer yr ysgol cyfrwng Saesneg newydd ei ffurfio neu ar gyfer swyddi eraill sydd ar gael yn y ddinas.

Yn y bôn, gallai opsiwn un ddileu'r cymunedau a hanes y ddwy ysgol hyn. Bydd amser i alaru'r golled hon, fodd bynnag, mae agor yr ysgol newydd yn gyfle i gyfuno diwylliannau'r ddwy ysgol, gan gryfhau'r cysylltiad o fewn y gymuned leol.

## **Grŵp 4**

### **Cynnig ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd Cathays**

Ystyriodd Dylanwadwyr Caerdydd y cynigion ar gyfer darparu lleoedd ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa.

Cafodd tri opsiwn eu cynnig a'u nodi yn y ddogfen ymgynghori. O'r 12 Dylanwadwr a gyfarfu i ystyried y cynigion hyn, roedd y mwyafrif (9) yn ffafrio Opsiwn 1.



**Rhaglen Ysgolion**  
**Cofnod o Ymgysylltu â Dylanwadwyr Caerdydd**  
**Neuadd y Ddinas**  
**01 Mehefin 2023**



Y rheswm am hyn yw ei fod yn bodloni mwy o'r amcanion ac ar ôl mynd am dro o amgylch yr ardal ac ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, roeddem yn teimlo mai dyma'r un gorau i'r plant a'r teuluoedd ar draws yr ardal. Mae ein safbwyntiau wedi'u nodi'n fanylach isod.

Mae Allensbank a Gladstone ill dau mewn [diffyg] ac mae ganddyn nhw lawer o ddyled sy'n ei gwneud hi'n anodd gwneud penderfyniadau gwario. Pe bai'r ddwy ysgol yn cael eu cau ac ysgol dau ddsbarth fynediad newydd yn agor yn eu lle byddai'r ysgol cyfrwng Saesneg yn cael ei rhyddhau o ddyled ac felly yn y dyfodol, gallant ddechrau eto a gwario arian ar addysg a staff o safon heb boeni am sut i dalu'r arian a fenthycwyd yn ôl.

Ar ben hynny, byddai ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Ysgol Mynydd Bychan yn trosglwyddo i safle Allensbank a fyddai'n caniatáu i Fynydd Bychan ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg dau ddsbarth mynediad er mwyn caniatáu i fwy o blant lleol fynd i'w hysgol leol.

Yn ogystal, mae gan ysgolion dau ddsbarth mynediad fwy o athrawon a all arwain at fwy o gyfleoedd i athrawon ddysgu oddi wrth ei gilydd a gallant helpu athrawon newydd wrth iddynt ddechrau.

Yn olaf, byddai gan Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica fwy o le pe byddent yn trosglwyddo i safle Ysgol Mynydd Bychan a byddai hyn yn golygu y byddent yn gallu agor dosbarth meithrin.

Fodd bynnag, roedd rhai anfanteision o hyd i opsiwn 1. Er enghraifft, bydd dau bennaeth Allensbank a Gladstone yn colli eu swydd gan y bydd y ddwy ysgol yn cau a dim ond lle i un pennaeth fydd.

Hefyd, efallai y bydd diffyg parhad i rai o'r plant gan y byddai'r ysgol yn trefnu staff yn wahanol a allai fod yn brofiad ansefydlog iddynt.

Yn ogystal, bydd Allensbank a Gladstone yn colli eu hunaniaeth fel ysgolion, a gallai gymryd amser i feithrin cysylltiadau rhwng staff newydd a rhieni/disgyblion.

Ar y cyfan, mae manteision ac anfanteision i opsiwn 1, ond mae'r rhan fwyaf o Ddylanwadwyr Caerdydd [sy'n bresennol heddiw] yn credu bod y manteision yn trechu'r anfanteision ar y cyfan.

Am y rheswm hwn, dewisodd y rhan fwyaf o'r Dylanwadwyr Opsiwn 1.

**Cofnodion Cyfarfodydd Cyhoeddus (yn bersonol ac ar-lein)**

- Canolfan Gymunedol Cathays (18 Mai 2023)
- Canolfan Gymunedol Cathays (25 Mai 2023)
- Cyfarfod Rhithwir drwy Microsoft Teams (08 Mehefin 2023)



**Rhaglen Ysgolion**  
**Cofnod o Gyfarfod Cyhoeddus**  
**Canolfan Gymunedol Cathays - 18 Mai 2023**  
**6pm – 7.40pm**



**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Michele Duddridge-Friedl (CTY), Rhian Carbis (CTY), Rosalie Phillips (CTY), Jo Phillips (CTY), Aelodau'r cyhoedd

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawu'r mynychwyr a chyflwyno'r swyddogion.

Roedd nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

Cafwyd cyflwyniad gan Brett Andrewartha (BA) yn nodi manylion y cynnig:

- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?
- Pam fod y newidiadau'n cael eu cynnig?
- Pwy sy'n ymgynghori?
- Cefndir
- Cyd-destun penodol i'r ardal
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol
- Dyraniad derbyniadau diweddar
- Derbyniadau: Dyraniadau Derbyn
- Data demograffig
- Ansawdd a Safonau'r ysgolion
- Trefniadaeth safle opsiwn 1
- Trefniadaeth safle opsiwn 2
- Ffederasiwn a chydweithio
- Trefniadaeth safle opsiwn 3
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Manteision Addysgol
- Effaith ariannol y cynigion
- Ystyriaethau eraill
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn ystod y cyflwyniad, gofynnodd un aelod o'r cyhoedd a oedd gwybodaeth wedi'i dosbarthu mewn ieithoedd eraill cyn yr ymgynghoriad. Atebwyd bod llythyrau wedi eu dosbarthu mewn ieithoedd amrywiol drwy ddefnyddio rhaglenni fel Class Dojo. Cafwyd gwrthwynebiad i'r ymadrodd 'y bobl hynny' yn cael ei ddefnyddio yn yr esboniad. Nodwyd y pryder, a rhoddwyd esboniad ynghylch cyd-destun, h.y. defnyddiwyd yr ymadrodd fel cyfngiad o 'y bobl hynny sydd angen cymorth i gael mynediad', nid oedd yn ddifriol.

### **Holi ac Ateb**



Gwahoddodd RP gwestiynau gan y cyhoedd.

Nodir y cwestiynau a gyflwynwyd gan y rhai a fynychodd y cyfarfodydd mewn *llythrennau italig* isod gydag ymateb y swyddog yn syth oddi tano.

***C - Pryd fyddai'r newidiadau yn dod i rym?***

RP - O fis Medi 2025.

***C - Gyda'r swm enfawr o gyllid ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg gan Lywodraeth Cymru pam na all y cyngor adeiladu ysgol newydd neu ymestyn Ysgol Mynydd Bychan?***

RP - Does dim tir ar gael yn yr ardal i godi ysgol newydd a does dim lle o amgylch Ysgol Mynydd Bychan i gynyddu maint yr adeilad.

***C - Nid oes unrhyw ddata i gefnogi'r newid sy'n cael ei wneud. Pam mai Allensbank yw'r unig ysgol nad oes ganddi opsiynau? Pam na ellir rhoi arian ac ymdrech i dyfu Ysgol Gynradd Allensbank? Soniodd cydweithwyr yn y sesiwn galw heibio am gynyddu'r dalgylch drwy dynnu rhannau o ddalgylchoedd eraill.***

MDF - Gallai cynyddu maint dalgylch Allensbank fod wedi bod yn opsiwn i'w ystyried, ond ni chafodd ei ddewis oherwydd bod llawer o blant sydd eisoes yn byw yn y dalgylch presennol yn dewis peidio â mynychu'r ysgol. Rhaid i'r cynigion sicrhau bod safon yr addysg yn cael ei chynnal a bod adnoddau'n cael eu rhannu'n deg. Mae ysgolion 1DM yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd. Nid cau ysgolion yw'r cynnig hwn ond dod o hyd i ffordd well o reoli cyllidebau. Mae dau opsiwn i gadw Allensbank.

***C - Pam mae cyllideb Ysgol Mynydd Bychan yn well?***

Mae ysgolion yn derbyn yr un swm o gyllid y pen a hefyd gwahanol gyllidebau dyrannu llawr yn dibynnu ar faint adeilad yr ysgol. Mae gan Mynydd Bychan fwy o blant mewn adeilad llai ac mae nifer yr athrawon yn cyfateb i nifer y plant sydd ar y gofrestr. Mae gan Ysgol Gynradd Allensbank adeilad llawer mwy a llai o blant.

***C - A fyddai Ysgol Mynydd Bychan yn wynebu'r un problemau gyda'i chyllideb ysgol pe bai'n symud i adeilad Allensbank?***

MDF - Gallen nhw, ond mae cyfleoedd i ddefnyddio'r lle ychwanegol ar gyfer incwm, er enghraifft cynnal grwpiau cyn-ysgol. Bydd yn her i ddechrau, ond os yw ysgolion yn cyflwyno syniadau i'r cyngor ar sut i ddefnyddio lle ychwanegol, bydd y cyngor yn gwneud ei orau i gefnogi hynny.

***C - Pam fyddai angen i Ysgol Gynradd Allensbank symud i safle Ysgol Gynradd Gladstone?***

MDF – Cafodd yr opsiwn i symud Ysgol Gynradd Gladstone i safle arall ei ystyried, ond roedd rhesymau pam na chafodd hyn ei ddewis. Byddai'r cynigion yn effeithio ar y ddwy ysgol ni waeth pa safle maen nhw arno. Os yw dwy ysgol yn cau, diddymir y cyrff llywodraethu hefyd. Ni fyddai angen yr un nifer o staff. Fodd bynnag, mae

swyddi i'r rhan fwyaf o staff wedi'u clustnodi felly does dim angen penodi unrhyw un o'r tu allan i'r rhai a glustnodwyd.

***C - Mae safleoedd ysgol eraill y tu allan i'r ardal y gellid eu defnyddio ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan. Byddai'n fuddiol bod ag amrywiaeth ddiwylliannol ar draws yr holl ysgolion yn ardal y Mynydd Bychan.***

RC - Byddai cael Ysgol Mynydd Bychan ar safle mwy yn yr un ardal leol yn cefnogi'r ysgol i agor ei drysau i bawb yn y gymuned leol a chynyddu amrywiaeth ddiwylliannol yr ysgol. Pan agorodd Ysgol Hamadryad yn Butetown aeth yr ysgol allan i'r gymuned leol yn hytrach nag aros i'r gymuned ddod i'r ysgol.

***C - Mae'n destun pryder bod y cynigion yn ceisio uno dwy ysgol â lefelau uchel tebyg o SIY, PYDd ac ati. Mae llawer o ysgolion dosbarth canol yn agos ger ardal Cathays. Sut gallwn ni fridio amrywiaeth ddiwylliannol? Nid yw rhoi ysgol yn Butetown fel cymhariaeth yn helpu gan fod Butetown yn ardal wahanol.***

MDF - Nid yw yr un ardal ond mae'n dal i fod yn gymhariaeth ddefnyddiol gan ei bod yn ein helpu i ddeall pam mae pobl yn dewis ysgolion penodol. Mae angen i ni ddeall pam mae pobl yn gwneud y dewisiadau maen nhw'n eu gwneud. Nid yw'r un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn adlewyrchu'r gymuned leol yn gymesur ar hyn o bryd.

***C - Dydy disgyblion Ysgol Mynydd Bychan ddim yn byw yn lleol. Lle bydd rhieni'n parcio pan fyddan nhw'n gollwng eu plant yn yr ysgol? Fel preswlydd ardal C4, rwy'n gweld bod parcio'n gynnar yn y bore i gyd yn llawn cyn amser gollwng plant yn yr ysgol. Mae'r ffordd yn llawn bob bore gyda cheir rhieni Ysgol Mynydd Bychan.***

RP - Mae gwahanol fesurau teithio y tu allan i wahanol ysgolion. Gellid cynyddu parcio i drigolion. Y disgwyl yw y bydd gan Ysgol Mynydd Bychan fwy o blant yn mynychu o'r ardal leol.

***C - Ni fydd llawer o bobl nad ydynt yn siarad Saesneg eisiau i'w plant gael eu haddysgu yn Gymraeg. Mae'r cynnig yn anfanteisiol i rai pobl.***

***C - Bydd llai o leoedd dros ben os bydd llawer o bobl yn symud i'r ardal. Nid yw ysgolion ffydd yn opsiwn i rai pobl felly ni ddylai lleoedd dros ben yn yr ysgolion hynny gyfrif.***

MDF - Nid yw'r cynnig yn lleihau nifer y lleoedd cymunedol cyfrwng Saesneg. Mae Ysgol Gynradd Allensbank eisoes yn llawn gydag 1DM, gan fod yr ysgol wedi methu â denu mwy nag 1DM yn gyson. Mae Ysgol Gynradd Gladstone yn yr un sefyllfa. Nid yw lleoedd yn cael eu lleihau; rydym yn ailystyried sut mae'r ysgolion yn cael eu trefnu. Ni fydd nifer y lleoedd a'r cyfle i gael gafael arnynt yn newid. Efallai na fydd gan Ysgol Gynradd Allensbank feithrinfa mwyach, ond gallai plant barhau i fynychu'r feithrinfa ar yr un safle.

***C - Mae'n destun pryder bod pawb sy'n mynychu'r cyfarfod cyhoeddus yn wyn ac yn methu siarad dros aelodau eraill o'r gymuned.***

***C - Dim ond wynebaw gwyn sy'n cynrychioli'r cyngor.***

MDF - Efallai y bydd gan rai pobl broblemau gydag iaith, mynd allan gyda'r nos neu gymorth teuluol. Efallai y bydd rhai pobl yn teimlo'n llai hyderus yn cwestiynu awdurdod. Rydym wedi bod yn cynnig llawer o gyfleoedd i bobl gysylltu â ni ac wedi bod yn gofyn i'r ysgolion helpu i gyrraedd pobl. Rydym wedi trefnu sesiynau galw heibio yn yr ysgolion. Mae problemau gydag iaith, er enghraifft efallai y bydd rhai pobl yn siarad iaith ond yn methu ei darllen. Rydym wedi defnyddio Class Dojo, gan fod yr ysgolion yn ei ddefnyddio i gyfathrebu â'u teuluoedd. Rydym eisoes wedi cysylltu â mosgiau ac yn edrych ar leoedd eraill i gyrraedd pobl fel dosbarthiadau iaith. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd gwell o ddarganfod barn pobl a byddem yn hapus i wrando ar awgrymiadau.

**C - Mae gan y rhan fwyaf o grwpiau ffonau clyfar felly efallai y gallai fod cod QR i'w anfon sy'n mynd â phobl i wefan sy'n cyfieithu. Mae gan C2C lawer o ieithoedd ar gael ar y llinell gymorth, efallai y gallai gweithwyr C2C helpu i greu fideos i'w hanfon allan. Nid yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn rhan o'r gymuned.**

RP - Y Cabinet yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac mae gan lawer o aelodau'r Cabinet gysylltiadau â'r gymuned.

**C - Does dim galw am gyfrwng y Gymraeg ac mae'r cynigion wedi eu gyrru gan bolisi. Pam nad yw'r ymdrech i dyfu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu rhoi i dyfu ysgolion cyfrwng Saesneg? Mae Ysgol Gynradd Marlborough wedi cael problemau gordanysgrifio ers amser maith, ond nid yw'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn cael ei chynyddu.**

MDF - Adeiladwyd Ysgol Gynradd Howardian oherwydd y broblem gordanysgrifio ym Marlborough. Fodd bynnag, nid oedd y penderfyniad i gynyddu darpariaeth cyfrwng Saesneg wedi'i seilio ar yr un ysgol honno yn unig, ond hefyd ar ysgolion cyfagos. Pan nad yw ysgol ac ysgolion yn yr ardal gyfagos yn darparu digon o gapasiti, mae hynny'n cyfiawnhau adeiladu ysgol newydd.

**C - A wnewch chi edrych ar les y plant os bydd y newidiadau'n parhau? Nid oes dim CAHMS na gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol. A fydd arian yn cael ei wario ar les?**

MDF - Gallai arian sydd wedi'i neilltuo o'r ysgolion sy'n cau gael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth.

**C - Pam nad yw'r nod i wella addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg?**

MDF - Dyma ran o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae'r model 'Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg' yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion newydd a adeiladwyd o dan y Cynllun Datblygu Lleol.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach a diolchodd RP i bawb am fynychu a mynegi eu barn.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:40



**Rhaglen Ysgolion  
Cofnod o Gyfarfod Cyhoeddus  
Canolfan Gymunedol Cathays  
25 Mai 2023 am 6:15pm**



**Yn bresennol:** Michele Duddridge-Friedl (CTY), Rhian Carbis (CTY), Rosalie Phillips (CTY), Cai Maxwell (CTY), James Eul (Cyfieithydd Cymraeg),

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Doedd dim mynychwyr a daeth y cyfarfod i ben am 6.45pm**



**Rhaglen Ysgolion**  
**Cofnod o Gyfarfod Cyhoeddus rhithwir**  
**Teams**  
**08 Mehefin 2023 am 6pm**



**Yn bresennol:** Michele Duddridge-Friedl (CTY), Rhian Carbis (CTY), Rosalie Phillips (CTY), Cai Maxwell (CTY), James Eul (Cyfieithydd Cymraeg), y Cynghorydd Taylor, y Cynghorydd Wood a phedwar aelod o'r cyhoedd

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Michele Duddridge Friedl (MDF) y cyfarfod a chroesawu'r staff.

Roedd y cyfarfod yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth gynradd yn gwasanaethu'r ardal. Roedd y cyfarfod yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg ond croesawyd cwestiynau yn Gymraeg a Saesneg gan fod cyfleusterau cyfieithu ar gael.

Roedd nodiadau'n cael eu cymryd ar y pryd a byddent yn ffurfio rhan o adborth yr ymgynghoriad.

### **Beth sy'n cael ei gynnig?**

Cafwyd cyflwyniad gan MDF yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig:

- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?
- Pam fod y newidiadau'n cael eu cynnig?
- Pwy sy'n ymgynghori?
- Cefndir
- Cyd-destun penodol i'r ardal
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol
- Map o'r ddarpariaeth Saesneg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Saesneg
- Map o'r ddarpariaeth Gymraeg
- Niferoedd diweddar ac yn y dyfodol mewn ysgolion cymunedol Cymraeg
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Albany, Allensbank a Gladstone
- Data dyrannu derbyniadau diweddar (Dosbarth Derbyn): Ysgol Mynydd Bychan
- Derbyniadau: Niferoedd Derbyn Dyraniadau mis Medi (Diwrnod cynnig, 17 Ebrill 2023) CYBLD (cyfrifiad ysgol)
- Ansawdd a Safonau'r ysgolion
- Trefniadaeth safle opsiwn 1
- Trefniadaeth safle opsiwn 2
- Ffederasiwn a chydweithio
- Trefniadaeth safle opsiwn 3
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Manteision Addysgol

- Effaith ariannol y cynigion – cyllidebau ysgolion
- Ystyriaethau eraill
- Beth sy'n digwydd nesaf?

## Holi ac Ateb

Gwahoddodd MDF gwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol.

Nodir y pwyntiau a godwyd mewn *print italaidd* isod ac maent wedi'u grwpio yn ôl y pwyntiau a godwyd lle bo hynny'n briodol.

Gellir gweld ymateb y swyddog oddi tanynt.

## Maint yr ysgol

- *Beth os yw Ysgol Mynydd Bychan yn yr un sefyllfa ag Allensbank, h.y. meddiannu adeilad mwy na'r angen.*

Mae rheoli niferoedd is mewn adeilad mawr wedi bod yn her i Allensbank. Mae dau brif gyfrannwr i gyllideb ysgol, arwynebedd llawr ac arian fesul disgybl ac mae risg os nad yw'r ysgol yn gallu denu mwy o ddisgyblion. Mae patrwm galw'r dalgylch wedi bod yn fwy na'r cyflenwad; fodd bynnag, nid oes disgwyl i'r ysgol dyfu i 60 ar draws pob oedran yn y lle cyntaf. Y disgwyl yw y byddai lefel o hybu i ysgogi twf heb effeithio ar ysgolion Cymraeg lleol eraill yn unol â thargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo budd dwyieithrwydd ac mae'n ofynnol hefyd i'r ALI sicrhau gwelededd o ran opsiynau iaith; byddai angen i'r ysgol hefyd fod yn weladwy i'r gymuned leol.

## Dewisiadau amgen

- *Pam nad ystyriwyd lleoli ysgol cyfrwng Cymraeg ar safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.*

Ystyriwyd ystod o opsiynau posibl, fodd bynnag, penderfynwyd yn seiliedig ar ble roedd teuluoedd yn teithio i Ysgol Mynydd Bychan ohoni, mai Ysgol Gynradd Allensbank oedd y safle a ffeirir.

Ni ellir cynnwys yr opsiwn yn y gyfres bresennol o gynigion a byddai angen ymgynghoriad pellach yn nodi manteision clir.

## Darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg

- *A yw'r Cyngor wedi ystyried effaith Ysgol Mynydd Bychan 2DM ar ddarpariaeth uwchradd Ysgol Glantaf, yn benodol a fydd hyn yn newid dalgylch Ysgol Glantaf i gyfrif am y cynnydd yn y niferoedd?*

Mae'r galw am leoedd yn cael ei fonitro'n barhaus; gall plant fod o fewn dalgylch a chael mynediad i ddarpariaeth gynradd mewn mannau eraill a byddent yn cael eu hystyried o fewn dalgylch Ysgol Glantaf. Bydd niferoedd disgyblion yn cael eu hadolygu'n barhaus a'r potensial ar gyfer newid dalgylchoedd; gellir hefyd edrych ar sut i gynyddu maint ysgolion.

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica

- *Wrth gydnabod bod gan Santes Monica fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru drefniadau llywodraethu a dalgylch ychydig yn wahanol ar draws plwyfi eglwys ehangach, pa ystyriaethau a roddwyd i'r twf posibl yn y galw yn yr ardal am nifer fwy o leoedd i'r rhieni hynny sy'n dymuno addysgu mewn ysgol ffydd; ychydig iawn o leoedd sydd gan Santes Monica yn y flwyddyn.*

Byddai'r ysgol yn symud i adeilad mwy gan ganiatáu i ddarpariaeth feithrin gael ei sefydlu o dan opsiynau 1 a 2. Corff Llywodraethu yr ysgol sy'n rheoli derbyniadau a gallai edrych ar gynyddu'r nifer derbyn yn y dosbarth Derbyn; gallai hefyd ystyried derbyn niferoedd uwch yn ystod y flwyddyn yn amodol ar reoliadau Maint Dosbarth Babanod.

- *O dan opsiwn 3, gallai fod galw am leoedd yn Santes Monica na ellid ei fodloni.*

Rhaid i'r ALL allu cynnig lleoedd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ond nid oes rhaid iddo gynnig lleoedd ffydd. Mae gan yr ysgol feini prawf gordanysgrifio ar waith a gallent drafod unrhyw estyniad gyda'r Esgobaeth. Mae trosglwyddo'r ysgol i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad yn opsiwn 1 ac opsiwn 2.

Ni chafwyd cwestiynau pellach. Hysbysodd MDF am y ffyrdd y gellid ymateb a daeth y cyfarfod i ben.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



**Cofnodion o sesiynau galw heibio yn Llyfrgell Cathays**

- 15 Mai 2023
- 25 Mai 2023
- 07 Mehefin 2023



**Yn bresennol:** Rosalie Phillips (RP), Shirley Karseras (SK), Cai Maxwell (CM)

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

Daeth chwe aelod o'r cyhoedd i'r sesiwn galw heibio yn Llyfrgell Cangen Cathays ynghylch y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal. Amlinellir y pwyntiau a godwyd, isod.

Roedd gan ddau riant, y ddau â phlant yn Ysgol Gynradd Allensbank sy'n byw yn lleol bryderon ynghylch y cynigion a'r broses ymgynghori:

- Nid oes data caled ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg i 420 o leoedd. Credu bod hyn ar draul Allensbank sy'n cynnig lleoedd sy'n berthnasol i'r gymuned a sawl ffydd.
- Pryder y byddai'r nifer cynyddol yn Ysgol Mynydd Bychan yn annog disgyblion o ardal ehangach, y tu allan i'r dalgylch, gan gynyddu traffig. Byddai hyn yn niweidiol i amgylchedd yr ardal leol a byddai'n peryglu diogelwch plant gan fod yr ardal eisoes yn llawn tagfeydd gyda chyfyngiadau parcio.
- Credu bod y cynnig yn dangos hiliaeth achlysurol ac nad oedd unrhyw wynebau nad oeddent yn wyn yn cael eu defnyddio yn y dogfennau ymgynghori.
- Beirniadu amserlennu'r sesiwn galw heibio.
- Nid oedd gwybodaeth wedi'i chynhyrchu mewn ieithoedd lleiafrifol gan alluogi aelodau o'r gymuned y mae'r Saesneg yn ail iaith iddynt gyfrannu at yr ymgynghoriad; angen blaenoriaethu Arabeg.
- Credu y bydd y cynigion yn creu system a fydd yn gorfodi pobl i ddewis addysg Gymraeg.
- Cydnabuwyd Cymraeg 2050 ond gofynnwyd pam na allai Allensbank weithio tuag at fodel cyfrwng Cymraeg.
- Ysgol Noddfa yw Allensbank ac mae angen i ddisgyblion ddysgu Saesneg. Ddim yn credu y byddai pobl sy'n cyrraedd yr ardal yn dymuno dewis addysg Gymraeg.
- Gofynnwyd a oedd unrhyw gynlluniau gan y Cyngor i gyfyngu ar nifer y Tai Amlfeddiannaeth yn yr ardal gan fod mwyfwy o fyfyrwyr yn byw yn yr ardal a llai a llai o deuluoedd y byddai angen lleoedd mewn ysgolion arnynt.

Cododd rhiant disgybl ar fin dechrau yn Ysgol Mynydd Bychan y canlynol:

- Rhyddhad o weld bod ehangu YMB ar fin ddigwydd o'r diwedd; roedd y cynnig diwethaf ar gyfer trefniadau dros dro yn ofnadwy. Roedd wedi symud i'r ardal er mwyn i'r plentyn hwnnw allu mynychu Ysgol Mynydd Bychan ac roedd yn bryderus iawn na fyddai'n cael ei dderbyn oherwydd bod yr ysgol wedi'i gordansgrifio mewn blynyddoedd blaenorol.
- Hoffai weld capasiti'r Cylch Meithrin yn cynyddu i ddarparu sesiwn brynhawn ond nid oedd y Cylch wedi gallu dod o hyd i lety addas; gallai safle Allensbank gefnogi hyn o bosibl os cytunir ar y cynnig.

- Holwyd beth fyddai'n digwydd i Allensbank a meddwl bod uno ag Ysgol Gynradd Gladstone a symud Santes Monica yn syniad da iawn.
- Er yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg, nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg gerllaw felly nid oedd modd ei defnyddio.
- Hefyd yn ystyried dechrau Ti a Fi ar gyfer yr ardal.

Cododd rhiant i blentyn yn Ysgol Gynradd Allensbank y canlynol:

- Mae Saesneg yn ail iaith i'r teulu ac nid yw'n teimlo mai dyma'r penderfyniad iawn ar gyfer prifddinas Cymru.
- Pam mae ysgolion Cymraeg yn cael mwy o arian nag ysgolion cyfrwng Saesneg?
- A fydd digon o staff ar gael i ateb y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg - materion ar lefel gynradd ac uwchradd.
- Pryder na fydd digon o leoedd cyfrwng Saesneg ar gael wrth symud ymlaen i blant o deuluoedd sydd â'r Saesneg fel iaith ychwanegol nad ydynt eisiau'r Gymraeg.
- Pryderon y bydd effaith ar addysg.
- Dylai rhieni ddysgu mwy o Gymraeg.

Cododd dau riant i blant yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica y canlynol:

- Dim problem gyda'r ysgol yn symud ond yn pryderu y byddai statws Gwirfoddol a Gynorthwyr yr ysgol yn newid. Dywedodd swyddogion nad oedd cynnig i newid statws yr ysgol fel rhan o'r newidiadau arfaethedig.



Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion  
Cofnod Sesiwn Galw Heibio  
Llyfrgell Cathays  
25 Mai 2023



**Yn bresennol:** Rosalie Phillips (RP), Ceri Tanti (CT), Cai Maxwell (CM)

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

Daeth pedwar aelod o'r cyhoedd i'r sesiwn galw heibio yn Llyfrgell Cangen Cathays ynghylch y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Llai o ddewis ysgol i rieni os yw'r ysgolion yn uno. Mae gan bob ysgol ei ffordd ei hun o wneud pethau, awyrgylch ac ati, ac ar hyn o bryd gall rhieni gael dewis o'r tair ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer yr un sy'n gweddu orau iddyn nhw.
- Poeni am golli hanes yr ysgolion. Mae cenedlaethau o'r teulu wedi mynychu.
- Dim eisiau colli teulu'r ysgol yn Gladstone, gan fod yr ysgol yn gefnogol iawn.
- Mae rhiant i blentyn ag awtistiaeth sy'n mynychu Gladstone sydd angen cynefindra a threfn gadarn, yn teimlo bod hyn yn aflonyddgar iawn.
- O blaid cynyddu lleoedd cyfrwng Cymraeg, ond nid ar draul y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Pryder ynghylch sut y bydd rhieni nad ydynt yn siarad Saesneg yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, yn gofyn sut maen nhw'n cael eu hannog; *hysbyswyd bod crynodebau ymgynghori yn cael eu cyfieithu i ieithoedd cymunedol, a bod sesiynau'n cael eu cynnal yn y pedair ysgol i siarad â rhieni.*
- A fyddai'r Cyngor yn ystyried symud Ysgol Mynydd Bychan i safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica? Gan y byddai hyn yn gwasanaethu rhan ddeheuol y dalgylch yn well sy'n rhedeg heibio canol y ddinas; os bydd nifer y lleoedd yn yn cynyddu i 420 bydd angen mwy o ddisgyblion o'r pen deheuol.



**Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion  
Cofnod Sesiwn Galw Heibio  
Llyfrgell Cathays  
07 Mehefin 2023**



**Yn bresennol:** Rosalie Phillips (RP), Ceri Tanti (CT), Cai Maxwell (CM)

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

Daeth pedwar aelod o'r cyhoedd (tri ohonynt yn rhieni i blant oedd yn mynychu Ysgol Mynydd Bychan, ac un â phlentyn yn mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica) i'r sesiwn galw heibio yn Llyfrgell Cangen Cathays ynghylch y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd rhiant Ysgol Mynydd Bychan fod teimladau cymysg am yr ysgol yn ehangu - gan fod yr ysgol yn fach mae llawer o bobl yn adnabod ei gilydd, ac mae'n gymuned glos, a allai gael ei cholli pe bai'r ysgol yn fwy. Fodd bynnag, mae'n gwerthfawrogi bod pobl wedi cael trafferth cael lle, ac mewn rhai achosion wedi cael trafferth cael eu teulu yn yr un ysgol gan fod rhai wedi gorfod cael lle mewn ysgol cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r dalgylch ac yna'n methu â chael lle i frodyr a chworydd iau yn yr un ysgol.
- Eisiau sicrwydd y byddai digon o leoedd yn yr ysgol uwchradd Gymraeg pe bai'r ehangu yn dod â mwy o blant i addysg Gymraeg.
- Pryder bod Allensbank yn adeilad rhestredig, gan deimlo y gallai'r ysgol fod wedi'i chyfyngu o ran y newidiadau y gellir eu gwneud ac y gallai unrhyw newidiadau fod yn ddrytach oherwydd statws yr adeilad. Ymwybodol bod arian grant ar gael i'w wario ar yr ysgol cyfrwng Cymraeg ond efallai na fydd yn cael llawer am yr arian gan y gallai fod yn fwy costus i wneud gwaith.
- Deall bod plant ym Mlynnyddoedd 1, 2, 3 yn cael mynediad i'r awyr agored yn Ysgol Mynydd Bychan, rhywbeth maen nhw wedi gweithio'n galed i'w adeiladu, mae plant yn cael mynediad am ddim i'r tu allan o'u hystafelloedd dosbarth. Ansicr a yw'r trefniant hwn ar waith neu'n bosibl yn Allensbank neu a fyddai'n gyfyngedig oherwydd ei statws rhestredig.
- Pryder bod y lle awyr agored sydd ar gael yn Allensbank yn llai fesul disgybl nag Ysgol Mynydd Bychan, os oedd yr ysgol yn llawn.
- Ar hyn o bryd, mae Ysgol Mynydd Bychan yn mynd â phlant i wneud chwaraeon awyr agored ym Mharc Maendy ac yn poeni am gollu hyn fel lle i'r plant wneud chwaraeon.
- Mae safle Allensbank yn apelio gan nad yw mor agos i'r brif ffordd.
- O ran opsiynau, teimlo y gallai ysgolion cyfrwng Saesneg deimlo'n ddig gan ei bod yn ymddangos fel pe bai ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael holl fanteision y cynigion.
- Dylai opsiwn o leoli Ysgol Mynydd Bychan ar safle Gladstone/Santes Monica fod wedi ei gynnwys yn yr ymgynghoriad; er ei bod yn agos i gyffordd brysur, byddai'n fwy canolog yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan felly byddai'n fynediad haws i bobl i'r de o'r dalgylch.

- Byddai cymysgedd mwy amrywiol o gefndiroedd o fudd i ysgolion Cymraeg; sut mae'r Cyngor yn mynd i hyrwyddo'r Gymraeg i'r gymuned ehangach?
- Beth fyddai'r effaith ar ysgolion Cymraeg eraill?
- Byddai mwy o le o fudd i blant sy'n mynychu'r ysgol ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, i ganiatáu ar gyfer manau tynnu allan, ac ati.
- Yn cefnogi'r angen am ddarpariaeth Gymraeg ychwanegol yn yr ardal.
- Mae agosrwydd safle Allensbank i safle presennol yr ysgol yn gadarnhaol, gan fod llawer o deuluoedd yn byw'n agos iawn i'r ysgol.
- Croesawu'r cyfle i symud i Ysgol Mynydd Bychan, a fyddai'n rhoi cyfle i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica gael meithrinfa, gan fod yr ysgol yn colli rhai plant i ysgolion eraill sydd â meithrinfa ar hyn o bryd.
- Teimlwyd y byddai Santes Monica yn elwa ar fwy o le awyr agored ar safle Ysgol Mynydd Bychan pe bai'r symud yn mynd yn ei flaen.

**Cofnodion o sesiynau galw heibio ar-lein**

Hysbysebwyd y sesiynau galw heibio ar-lein ar gyfer y dyddiadau canlynol:

- 09 Mai 2023
- 17 Mai 2023
- 05 Mehefin 2023
- 08 Mehefin 2023

Roedd hefyd opsiwn i ymgynghoreion gyfarfod â swyddogion y Cyngor ar-lein y tu allan i'r dyddiadau hyn.



*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfodydd a wnaed ar y pryd.*

Amlinellir y pwyntiau a godwyd yn y sesiynau, isod.

### **Ysgol Gynradd Allensbank**

*Codwyd y pwyntiau canlynol:*

- *Rhiant i blentyn ag awtistiaeth. Poeni am newid i'r holl blant ond yn enwedig ei blentyn gan fod newid yn anodd i'r plentyn.*
- *Magwyd yn mynd i ysgol mewn sir arall oedd yn hen ac mewn cyflwr gwael. Ar y pryd, roedd yr ysgol cyfrwng Cymraeg yn newydd ac yn cael yr holl arian. Mae'n ymddangos bod hanes yn ailadrodd ei hun.*
- *Heb fod yn rhan o gynlluniau blaenorol yr ymgynghorwyd arnynt. Teimlo bod yn annheg - nid yw llawer o rieni yr ysgol yn siarad Saesneg. Byddai llawer o'r rhieni yn yr ysgol Gymraeg mewn sefyllfa well i roi eu barn.*
- *Ansicr o'r hyn sy'n cael ei gynrig ac yn pryderu y byddai Allensbank yn dod yn ysgol Gymraeg.*
- *Gall y daith i gerdded i safle Gladstone fod yn rhy bell i'w plant ifanc .*
- *Holwyd am dynnu plant allan o'r ysgol a cholli eu lleoedd yn yr ysgol. Roedd yr ysgol wedi dweud y byddan nhw'n cael eu tynnu oddi ar y gofrestr os oedden nhw i ffwrdd am dros bedair wythnos.*

O dan y tri opsiwn a gynigir, byddai newidiadau sylweddol. Rhoddodd swyddogion sicrwydd y byddai'r newidiadau'n cael eu rheoli mewn modd sensitif. Nid oes disgwyl penderfyniad tan fis Ionawr 2024, ac ni fyddai unrhyw symud yn cael ei gynllunio tan fis Medi 2025 felly byddai amser i greu cynllun manwl.

Mae swyddogion yn trefnu dod i'r ysgol i siarad â rhieni ar ôl hanner tymor er mwyn annog eu mewnbwn, ac i geisio'u barn a'i chofnodi'n llawn.

O ran yr hyn sy'n digwydd nesaf, mae'r safbwyntiau sy'n cael eu mynegi yn cael eu casglu. Bydd cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan Gymunedol, rhagor o sesiynau galw heibio, cyfarfodydd â llywodraethwyr a staff. Bydd yr holl safbwyntiau a gesglir yn cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Eglurodd y swyddogion y tri opsiwn.

Yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig ond nid yw hyn yn golygu y bydd y rhain yn cael eu datblygu. Bydd yr holl safbwyntiau a fynegir yn cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor ac ni fyddai unrhyw newidiadau yn digwydd tan fis Medi 2025. Anogir rhieni'n gryf i fynegi eu barn.



Dywedwyd nad oes sicrwydd y bydd lleoedd ar gael pan fyddan nhw'n dychwelyd. Rhaid ailymgeisio o leiaf bedair wythnos cyn y bydd angen iddynt fod yn ôl yn yr ysgol a sicrhau eich bod yn nodi'r dyddiad y bydd angen y lleoedd.

### **Ysgol Glan Ceubal**

*Mynegwyd pryderon ynghylch effaith bosibl y cynnydd arfaethedig i'r ddarpariaeth yn Ysgol Mynydd Bychan ar Ysgol Glan Ceubal.*

*Fel ysgol un dosbarth mynediad, byddai gostyngiad yn nifer y disgyblion yn cael effaith sylweddol ar gyllideb yr ysgol a allai effeithio ar sefyllfa ariannol yr ysgol nes i unrhyw grŵp blwyddyn llai adael yr ysgol.*

*Gellid ystyried cynyddu dalgylch Ysgol Glan Ceubal gan ei bod yn edrych yn fwy ar bapur nag ydyw gan fod y dalgylch presennol yn cynnwys ardaloedd mawr o barcdir heb gartrefi.*

Byddai unrhyw newidiadau i drefniadau dalgylch presennol yn destun ymgynghoriad ar wahân. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys targedau i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg; yn yr ardal ehangach nid oedd digon o leoedd gwag cyfrwng Cymraeg i ganiatáu ar gyfer twf cyfrwng Cymraeg ac ni fyddai newidiadau i ddalgylchoedd yn cefnogi ehangu.

Y disgwyl oedd y byddai ysgolion yn ceisio cynhyrchu galw ychwanegol am addysg cyfrwng Cymraeg o'u dalgylchoedd eu hunain.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Cofnodion o sesiynau galw heibio i rieni**

- Ysgol Gynradd Allensbank (15 Mehefin 2023)
- Ysgol Gynradd Gladstone (14 Mehefin 2023)
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica (13 Mehefin 2023)
- Ysgol Mynydd Bychan (09 Mehefin 2023)



**Rhaglen Ysgolion  
Cofnod Sesiwn Galw Heibio i Rieni  
Ysgol Gynradd Allensbank  
15 Mehefin 2023 am 2pm**



**Yn bresennol:** Brett Andrewartha (CTY), Rosalie Phillips (CTY), Ceri Tanti (CTY), Ian Warburton (CTY), Jo Phillips (CTY), rhieni Allensbank

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

### **Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Brett Andrewartha y sesiwn a chroesawu'r rhieni. Yma fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal.

Dywedodd fod tri safle ysgol, pum adeilad a llawer o opsiynau posibl i'w had-drefnu, ac y bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu ar y tri opsiwn yr ymgynghorir arnynt gyda'r rhesymau dros hyn wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori.

Mae lleoli darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, yn darparu dosbarthiad mwy priodol o leoedd cyfrwng Saesneg ar gyfer rowndiau derbyn cyfredol a'r dyfodol ar y cyfan.

Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i ganoli yn rhan ogleddol Ysgol Mynydd Bychan, yn agos i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan ac Allensbank gyda phellteroedd teithio sylweddol i ysgolion Cymraeg amgen; mae galw mawr am leoedd mewn ysgolion Cymraeg yn y gogledd hefyd.

Gofynnodd BA a oedd y rhieni a oedd yn bresennol wedi darllen y ddogfen ymgynghori a chrynhoi'r newidiadau arfaethedig.

### **Holi ac Ateb**

Gwahoddodd BA gwestiynau gan y rhieni.

Nodir y cwestiynau a ofynnwyd/sylwadau a wnaed gan y rhai a fynychodd y cyfarfodydd mewn *llythrennau italig* isod gydag ymateb y swyddog yn syth oddi tanynt.

### **A oes opsiwn a ffefrir?**

Gofynnodd y Cabinet i'r ymgynghoriad gynnwys y tri opsiwn a byddai'n barod i weithredu unrhyw un o'r tri hyn neu efallai mai'r penderfyniad fydd peidio â symud ymlaen ag unrhyw un o'r opsiynau.

### **Pa mor debygol yw gweithredu un o'r opsiynau?**

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori o'r blaen ar gynnig na chafodd ei ddatblygu. Gallai'r Cabinet benderfynu peidio â symud ymlaen ag unrhyw un o'r opsiynau presennol, gan ofyn am gymaint o adborth â phosibl.

### ***Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Opsiwn 1 ac Opsiwn 2?***

#### ***Sut mae'r cynigion o fudd i addysg?***

Esboniwyd yr opsiynau.

Yn gyffredinol, mae cyllid ar gyfer ysgolion mwy yn fwy cynaliadwy, gall rheoli a datblygu staff fod yn well. Mae llai o ddyblygu rolau, e.e. pennaeth a dirprwy a rhai staff eraill, a chyfran is o'r gyllideb yn cael ei gwario ar gostau sefydlog, sy'n golygu bod modd neilltuo mwy o adnoddau'r ysgol i'r disgyblion ac addysg.

#### ***Sut byddai Opsiwn 1 yn effeithio ar staff?***

Corff llywodraethu'r ysgol newydd fyddai'n gyfrifol am ddatblygu'r strwythur staffio a phenodi'r uwch dîm arwain a staff. Byddai rolau'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth yn destun hysbyseb genedlaethol a byddai'r holl swyddi eraill wedi'u neilltuo i staff presennol yn gyntaf; mae niferoedd disgyblion yn gostwng, ac nid yw rhai contractau dros dro yn cael eu hadnewyddu; efallai y bydd staff yn penderfynu gadael hefyd. Yn gwerthfawrogi bod y sefyllfa yn peri straen.

#### ***A yw pob aelod o staff yn cael eu cynrychioli, e.e. cynrychiolaeth undeb?***

Ydyn, ymgynghorwyd ag undebau fel rhan o'r broses ac maent wedi mynychu cyfarfodydd gyda staff; mae Adnoddau Dynol yn darparu cymorth ac yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion. Mae'r sefyllfa ar gyfer ysgolion sydd â llai na 210 o ddisgyblion yn heriol gyda chyfran lai o'r gyllideb yn cael ei gwario ar addysgu a dysgu, fodd bynnag, nid yw sefyllfa diffyg yn y gyllideb yn unigryw i ysgolion bach. Mae Opsiwn 1 yn caniatáu sefydliad mwy effeithlon gydag arweinyddiaeth symlach, cyfran is o gostau sefydlog a mwy o adnoddau ar gael ar gyfer addysgu a dysgu.

#### ***Bydd dalgylch Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei ehangu i gynyddu nifer y disgyblion; pam na ellid gwneud hyn i Allensbank er mwyn cynyddu hyfywedd?***

Nid yw newidiadau i ddalgylchoedd yn rhan o'r ymgynghoriad ond nid ydym yn dweud na fydd newidiadau yn y dyfodol. Mae gan Allensbank fwy na 30 o ddisgyblion y flwyddyn yn ei ddalgylch ond does dim digon yn mynychu'r ysgol. Mae rhai plant yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill, e.e. mae ysgol arall yn agosach. Mae dalgylchoedd cyfrwng Cymraeg yn fwy oherwydd bod llai o ysgolion. Dalgylch Ysgol Mynydd Bychan yn ymestyn o Gabalfa i Heol Casnewydd. Ychydig iawn o blant o ran dde'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol gyda'r mwyafrif helaeth sy'n datgan ffafiaeth i'r ysgol yn byw yn ardal ogleddol y dalgylch; sefyllfa lle nad oedd modd derbyn plant i Ysgol Mynydd Bychan ond nad oeddent yn gallu cael lle yn un o'r ysgolion Cymraeg eraill yn y gogledd. Mae poblogaeth y dysgwyr yn gostwng ar hyn o bryd ac efallai y bydd angen ail-gydbwyso dalgylchoedd gydag Ysgol Glan Ceubal yn gofyn am ddalgylch mwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau i gynghorau gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg.

***Pryder bod sail resymegol y cynigion yn seiliedig ar ddarparu lleoedd ac nid ar eu llenwi. Mae'r ysgol yn adlewyrchu'r gymuned leol amrywiol a byddai'n drist i hyn fod yn ddiwedd Allensbank; amlddiwylliannol gan gynnwys y Gymraeg.***

***Dau o blant yn Allensbank a thrydydd plentyn rhywle arall, sy'n sefyllfa anodd; plant yn addasu i amgylchedd gwahanol ac wedi setlo nawr.***

Mae Allensbank yn cynrychioli'r gymuned leol amrywiol fel y mae Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica; er nad yw Ysgol Mynydd Bychan mor amrywiol, bu opsiwn i deuluoedd symud i mewn ac allan o ysgolion cyfrwng Saesneg ond ni fu hyn yn wir yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg.

***All plant drosglwyddo i gyfrwng y Gymraeg mewn grwpiau blwyddyn hŷn? Doeddwn i ddim yn meddwl y gallen nhw.***

Gall plant drosglwyddo i'r Gymraeg mewn grwpiau blwyddyn hŷn ac amlinellwyd y broses drochi ar gyfer gwneud hynny.

***Sut byddai Ysgol Mynydd Bychan yn dyblu o ran maint os nad oes digon o staff?***

Nid yw hyn yn broblem ar lefel gynradd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae materion yn ymwneud â chymorth Cynorthwydd Addysgu ac arbenigwyr pwnc yn yr uwchradd. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod system ar waith ar gyfer cynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg.

***Pam mae pwyslais ar y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru? Ddim yn meddwl bod y mater wedi ei ystyried gan mai polisi cenedlaethol ydyw ac yna mae'r Cyngor yn neidio; fydd neb yn poeni yn Allensbank, y targed yw lleoedd nid disgyblion.***

***Mae arian ychwanegol ar gael ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Methu cael lle mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn yr Eglwys Newydd ac angen mwy o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ardal honno nid cyfrwng Cymraeg.***

***Roedd gordanysgrifio o 6 yn Ysgol Mynydd Bychan y llynedd a'r cynnig yw cynnydd o 210 o leoedd.***

Targed Llywodraeth Cymru i gynyddu o 18% i 25-29% yng Nghaerdydd erbyn 2031. Nid oes gan Gaerdydd ddigon o leoedd i gyrraedd y targed hwnnw heb ehangu'r ddarpariaeth. Mae Ysgol Melin Gruffydd, yn yr Eglwys Newydd, ac Ysgol Glan Ceubal ill dau wedi'u tanysgrifio'n llawn yn y Meithrin a'r Derbyn ym mis Medi 2023.

***Cynllun i orfodi pobl i addysg cyfrwng Cymraeg.***

Edrych ar y cynnydd canran, nid o reidrwydd niferoedd y disgyblion. Ymgynghorwyd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ac edrych ar dargedau

Meithrin/Derbyn, cadw plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, staffio a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.

***Mae hwn yn gynnig sy'n cael ei ysgogi gan bolisi yn hytrach na data.***

Mae agwedd polisi ar y newidiadau arfaethedig ond mae angen i ni allu ateb y galw lleol i blant Ysgol Mynydd Bychan na allant gael eu derbyn. Mae'r ysgol wedi'i gordanysgrifio ers nifer o flynyddoedd.

***Nid yw ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi'u gordanysgrifio. Mae lleoedd cyfrwng Saesneg yn cael eu lleihau.***

Ni fyddai nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg yn cael eu lleihau o dan Opsiwn 1 nac Opsiwn 2 gyda gostyngiad bach yn unig o dan Opsiwn 3.

***A fydd dangosydd perfformiad allweddol i Ysgol Mynydd Bychan gyrraedd targedau?***

13. We also continue to be of the opinion that any expansion of YMB must be delivered on a whole-school basis, rather than on a year-by-year or progress step-by-progress step basis. We are grateful to the Council for listening to the concerns we expressed at the previous consultation in 2021.

14. If the Council's preferred solution is to utilise its existing educational building stock in the form of a site swap between YMB and another existing school site within the local area, then our priority will be that the necessary investment is put in place to deliver a scheme of improvement works which ensures that YMB's new site offers the same, if not a better, level of facilities as its current site.
15. This is essential to enable YMB to continue being able to offer the level of education and opportunities to its pupils as at present, as well as to achieve the 'buy in' from YMB's parents and wider community, which will be an important factor in ensuring that YMB's sense of community continues to flourish.
16. In any case, YMB will continue proactively to seek and foster a positive relationship and a sense of community with the other schools in our area, including regular interactions between pupils to mark, for example, the Urdd's Day of Goodwill and the Eisteddfod.
17. We are also mindful of our place in the wider community and will, regardless of the outcome of this consultation, continue to engage with local businesses and groups, including by making our site accessible to the community, in line with the Sustainable Communities for Learning Programme.
18. We acknowledge that there are significant demographic differences between YMB and the other schools involved in this consultation. While this reflects a general trend across Wales, we will continue to work with the Council, the Welsh Government, and any other appropriate bodies to increase the diversity of our school population. We recognise our own responsibility and, in line with the Welsh in Education Strategic Plan, believe strongly that this must be a shared endeavour.

### **Questions and concerns**

19. We are aware that all the other existing school sites within the locality are Listed Buildings and, as such, could prove difficult to alter and adapt to meet our requirements in line with the Curriculum for Wales and the 21st Century Schools and Education Programme.
20. Officers have advised the Governing Body that they have been unable to make a substantive approach to CADW in respect of any proposed building fabric amendments at any of the sites in this consultation.
21. We are also concerned about the ongoing maintenance requirements of the other existing school sites within the locality given that all three schools have been covered in scaffolding for at least the past three years, with very little progress on any remedial works being undertaken. We would not want to see the school burdened by long-term outstanding maintenance works.

22. We are extremely concerned that, without further enquiry and guarantee, YMB may be relocated to a site, at which it could prove difficult or impossible to deliver a scheme of improvement works which ensures that we are able to offer the same, if not a better, level of facilities as our current site.
23. As such, we ask the Council to make appropriate further enquiries regarding the issues raised above, and to make this information available.
24. We are concerned about the energy efficiency of the school buildings under consideration. We have requested information from the Council on this matter but unfortunately this has not been forthcoming. We were told that this information was available to Council Officers but have not received anything to date.
26. We are also concerned that any move to a larger school building could cause the school major financial challenges if not properly addressed by the Council. In the future, school will be operating in a larger building with only a marginal increase in pupil numbers for a few years. School budgets are becoming increasingly challenging and there will be substantial pressure over the next few years. We would look for the Council to work with the Governing Body to alleviate the budgetary implications of a rapid expansion.

## **Conclusion**

27. Given that all three options would deliver the same outcome for YMB, and given the questions and concerns we have outlined above, we are not minded to indicate a preferred choice between the three options.
28. However, we believe that achieving expansion of Welsh-medium primary education in the north of Cardiff, as in the city more generally, which we support strongly, requires a permanent solution which enables YMB to continue to provide rich learning experiences to our pupils. All three options under consultation could provide such a solution.
29. We are grateful to the Council for listening to the concerns we expressed at the previous consultation in 2021.

## Ymateb Rhieni Dros Addysg Gymraeg i ymgynghoriad Cyngor Caerdydd

### ar y cynnig

### Lleoedd Ysgol Gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd

#### Mehefin 2023

1. Dymuna RhAG ddiolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Caerdydd ar y **Cynnig Lleoedd Ysgol Gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.**

Y mae cyfundrefn gynllunio addysg Gymraeg trwy'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg yn gorfod bod yn rhan graidd o gynllunio darpariaeth addysg pob Awdurdod Lleol. Ers Medi 2022, mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn gweithredu cynllun newydd a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr fedru caffael y Gymraeg fel eu bod yn medru ei defnyddio'n rhwydd yw sail uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr ac y mae dogfen gynllunio addysg Gymraeg y Llywodraeth ei hun yn nodi


*“Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd.”*

(Tudalen3:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluni-au-strategol-cymraeg-addysg.pdf>)

2. Sylweddolwn faint y gwaith a ddaw wrth aildrefnu ysgolion yn yr G21ain. Y mae RhAG wedi cydweithio'n gadarnhaol ers nifer o flynyddoedd gyda swyddogion y sir ac wedi bod yn cyfrannu syniadau a strategaethau er mwyn sicrhau tegwch i ddarpariaeth Addysg Gymraeg ac i'r teuluoedd ar draws y sir sydd yn parhau heb sylweddoli bod y cynnig ar gael iddynt hwythau hefyd. Gyda gweithredu'r cynlluniau 10 mlynedd y mae cyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth i hygyrchedd Addysg Gymraeg o fewn Sir Caerdydd.
3. Mae ond angen i ni edrych ar y ffigur isod i weld cyn lleied o gyfleoedd sydd yn bodoli o hyd yn y sir i ddisgyblion fedru dewis addysg Gymraeg yn hawdd ac yn hwylus gydag ond 20 ysgol Gymraeg a 96 ysgol cyfrwng Saesneg.

## Siart 1: Nifer yr ysgolion a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol a chyfrwng, 2022 (a)



Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion

(a) Ysgolion cynradd, canol ac uwchradd (ac eithrio ysgolion meithrin ac arbennig).

### Cyfrifiad Ysgolion 2022

- Y mae addewid wedi bod ac arian wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gynyddu capasiti addysg Gymraeg yr ardal hon o'r ddinas ers 2018 gyda gwasgfa yn yr ardal ers yn bell cyn hyn. Mae RhAG wedi cyfathrebu gyda'r sir yn gyson ers hynny yn nodi'r heriau sydd wedi codi i rieni yn sgil methiant cynyddu'r ddarpariaeth yn yr ardal hon.
- Y mae diffyg cynyddu darpariaeth addysg Gymraeg yn yr ardal hon o'r ddinas wedi ac yn mynd i barhau i achosi heriau a sgil effeithiau negyddol eraill ar draws y sir tan i ddatrysiaid gael ei ganfod. Mae teuluoedd yn yr ardal hon o'r ddinas wedi gorfod derbyn lleoedd mewn ysgolion sydd ddim o fewn eu dalgyrch, ac wrth i frodyr a chwiorydd ieuengach chwilio am leoedd mewn ysgolion lleol, y mae wedi eu gorfodi i wneud cais am ysgol sydd ddim o fewn y dalgyrch ac felly'n gorfod teithio ymhellach na'r arfer ac yn newid taith ar droed i fod yn daith mewn car ac mewn achosion cynyddol y mae plant o'r un teulu wedi gorfod mynd i ysgolion gwahanol.
- Cytunwn wrth gwrs gyda'r egwyddor o gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg sydd yn rhan allweddol o'r ymgynghoriad hwn ond rhaid i'r ddarpariaeth newydd fod yn addas i addysg yr G21ain ac nid ydym wedi ein

hargyhoeddi'n llawn y bydd yr adeilad hwn yn cyflawni'r angen yma o'r wybodaeth a ddarparwyd. Y mae'r ymgynghoriad yn nodi fel a ganlyn:

"Mae'r ysgol mewn dau adeilad rhestredig Gradd 2 a gafodd eu hasesu fel Categori Cyflwr C+ (Gwael gyda namau mawr) a Chategori Addasrwydd B (Boddhaol). Mae adeiladau'r ysgol mewn cyflwr cyffredinol foddhaol ond mae gwaith ar waliau allanol, ffenestri a'r to yn mynd rhagddo drwy raglen Asedau Cyfalaf y Cyngor. Mae rhai ardaloedd mewnol yn dioddef o bydredd sych, a bydd triniaeth yn parhau nes i'r pydredd sych gael ei waredu. Mae ar y ddarpariaeth glanweithiol angen rhywfaint o ailwampio ac mae gan y safle rhywfaint o broblemau gyda draenio i'w datrys. Mae disgwyl i'r gwaith parhaus yn yr ysgol gael ei gwblhau yn Hydref 2023."

Nid yw'n glir o'r ymgynghoriad beth yw manylion ac effaith y gwaith darpariaeth glanweithiol a draenio na phwy fydd yn gyfrifol am gyllido'r agweddau hyn pan fydd yr aildrefnu'n digwydd ac felly beth fydd cyfrifoldeb Ysgol Mynydd Bychan yn gyllidol yn y sefyllfa hon.

7. Bydd cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan i 420 yn golygu newid arwyddocaol yn yr ardal o ran y cynnig addysg Gymraeg. Ni welwn unrhyw sôn am y camau hyrwyddo a chyfathrebu cyhoeddus fydd ei angen ar gyfer y newid hwn. Byddai modd i RhAG gynorthwyo gyda'r agwedd hon wrth gwrs.
8. Gobeithiwn yn fawr y bydd cyfathrebu pellach a pharhaus yn digwydd gydag Ysgol Mynydd Bychan i ddatblygu'r cynigion hyn ymhellach, er budd cymuned yr ysgol. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at ddarpariaeth addysg Gymraeg sy'n addas i'r G21ain ac sydd o'r diwedd yn cynyddu'r cyfleodd i deuluoedd ardal hon Sir Caerdydd gael cyfle gwirioneddol i'w plant gaffael y Gymraeg o oedran cynnar iawn. Edrychwn ymlaen ar barhau i gydweithio gyda chi i wireddu'r cynlluniau cyffrous hyn.

Yn ddiffuant,

**Elin Maher**  
**Cyfarwyddwr Cenedlaethol**  
**Rhieni Dros Addysg Gymraeg**  
**07970 304219**  
**elin@rhag.cymru**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



**Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd a gwerthusiad o'r farn a fynegwyd**

1. Mae'r farn a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad wedi ei nodi mewn *print italaidd* isod ac wedi ei grwpio yn unol â'r pwyntiau a godwyd pan fo hynny'n briodol.
2. Gweler ymateb y Cyngor i bob pwynt isod, o dan y pennawd "Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd".
3. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:
  - Ymateb ar y cyd gan Gynghorwyr Sir Ward Gabalfa, y Cynghorwyr Rhys Taylor ac Ashley Wood
  - Y Cynghorydd Sir dros Cathays, y Cynghorydd Chris Weaver
  - Estyn
  - Julie Morgan, Aelod o'r Senedd Gogledd Caerdydd
  - Undeb Addysg Cenedlaethol (UAC)
  - Esgobaeth Llandaf
  - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank
  - Pennaeth Ysgol Gynradd Allensbank
  - Aelodau Undeb UAC o Ysgol Gynradd Allensbank
  - Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gladstone
  - Pennaeth Ysgol Gynradd Gladstone
  - Staff Ysgol Gynradd Gladstone
  - Pwyllgor Cyllid, Safle ac Iechyd a Diogelwch Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Pwyllgor Safonau Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Pwyllgor Gweledigaeth a Gwerthoedd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Pennaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Mynydd Bychan
  - RhAG – (Rhieni dros Addysg Gymraeg)

**Ymateb Aelodau Lleol – Gabalfa**

4. Cyflwynodd y Cynghorwyr Rhys Taylor ac Ashley Wood ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (mae copi o'r ymateb llawn i'w weld yn Atodiad 10)
  - *Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned i ateb y galw heb ei ddiwallu a sicrhau bod pob teulu a phlentyn yn gallu cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg pe baent yn dewis.*
  - *Rydym hefyd yn cydnabod yr angen brys i fynd i'r afael â nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar gyllidebau ysgolion, a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi addysgu a dysgu. Rydym yn cydnabod bod y pwysau ariannu hyn oherwydd y fformiwla cyllid*

ysgolion, a phwysau parhaus ar gyllid y sector cyhoeddus. Credwn yn gryf fod yn rhaid gwneud y broses hon o ail-gydbwysu lleoedd mewn ffordd gynaliadwy sy'n diogelu lleoedd ysgolion at y dyfodol ac yn gwella'r ddarpariaeth y mae ysgolion yn ei darparu i'w disgyblion.

- *Er ein bod yn cydnabod canlyniad ymgynghoriad 2019 a'r adborth a'r atebion a gyflwynwyd gan y gymuned, rydym yn dal yn siomedig bod y cyngor wedi dewis defnyddio proses ymgynghori statudol yn unig, yn hytrach nag ymgysylltu'n anffurfiol ag ysgolion a'u cymunedau yn gynharach i nodi atebion. Mae hyn wedi achosi pryderon sylweddol ymhlith rhieni mewn ysgolion lleol ac unwaith eto mae wedi gadael llawer, yn enwedig o fewn cymuned Allensbank, yn teimlo nad yw eu hysgol yn cael ei gwerthfawrogi.*

### **Sylwadau ar yr Opsiynau**

- *Nid ydym yn cefnogi cau unrhyw ysgol yn ffurfiol. Mae'r ysgolion a gynigiwyd i gael eu cau yn ysgolion sefydledig ac uchel eu parch sy'n darparu addysg neilltuoel i'w disgyblion, yn enwedig o'n gwybodaeth, yn achos Ysgol Gynradd Allensbank.*
- *Ein dewis fyddai archwilio ffederasiwn ysgolion, gan ganiatáu i ethos a dulliau unigol o addysgu a dysgu gael eu cadw a'u rhannu, wrth barhau i ail-ddyrannu ac ail-gydbwysu lleoedd ysgol yn y sector cyfrwng Saesneg.*
- *O ran Ysgol Mynydd Bychan, rydym yn rhannu pryderon am effaith gyllidebol trosglwyddo i adeilad llawer mwy. Er ein bod yn cydnabod data mewn perthynas â gormod o alw am leoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bod data mewn perthynas â chofrestru disgyblion o'i gymharu â'u dalgylch (Tabl 10) yn awgrymu cynnydd uniongyrchol yn nifer y disgyblion ar y gofrestr, bydd cyfnod o dwf i'r ysgol wrth gyrraedd 2DM. Bydd gan hyn oblygiadau staffio ac felly goblygiadau adnoddau mewn amgylchedd ariannol heriol i ysgolion yn barod. Mae'n hanfodol bod y cyngor yn cefnogi Ysgol Mynydd Bychan i gynyddu'r niferoedd sydd ar y gofrestr i leihau, i'r graddau y bo modd, oblygiadau o ran adnoddau adleoli'r ysgol, fel rhan o'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.*
- *Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu unrhyw fuddsoddiad cyfalaf y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud i wneuthuriad yr adeiladau ysgol yr effeithir arnynt. Mae hyn yn cyflwyno cwestiynau yn enwedig mewn perthynas ag adeilad presennol Ysgol Gynradd Allensbank a chyfyngiadau'r adeilad fel adeilad rhestredig Gradd 2. Mae angen mwy o sicrwydd ynghylch yr addasiadau fyddai'n bosibl, ond hefyd sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i bob ased fel nad oes unrhyw ysgol yn etifeddu eiddo fydd yn arwain at gostau cynnal a chadw sylweddol parhaus. Mae hefyd yn hanfodol bod gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar bob disgybl, ond yn enwedig y rhai yn Allensbank a Gladstone sydd wedi wynebu gwaith cynnal a chadw hir dros y blynyddoedd diwethaf.*

- *Rydym yn cefnogi'r bwriad o gynyddu lleoedd meithrin a darparu dilyniant i ddisgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel rhan o ail-gydbwysu lleoedd ysgol yn yr ardal.*
- *Rydym yn rhannu'r rhwystredigaeth a deimlir yn y gymuned bod y cyngor wedi diystyru, neu wedi methu ag archwilio'n llawn, yr opsiwn o adeilad newydd wrth greu ateb cynaliadwy a hyblyg ar gyfer twf yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi siomi nad oes unrhyw fuddsoddiad cyfalaf wedi'i nodi fel rhan o'r rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif i ddarparu rhagoriaeth yn adeiladau ein hysgolion.*
- *Mae rhai preswylwyr wedi eiriol dros adleoli Mynydd Bychan ar safle Gladstone ac adleoli Ysgol Gynradd Gladstone ar safle Allensbank. Maen nhw'n teimlo y byddai hyn yn caniatáu twf sylweddol i Fynydd Bychan heb yr un goblygiadau o ran adnoddau â throsglwyddo i safle Allensbank. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai hyn yn cyfyngu ar dwf addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, pe bai cyfluniad presennol adeilad presennol Gladstone yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, mae'n rhwystredig nad yw'r rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn yn cael eu hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori.*
- *Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar asedau adeiledig, ond nid yw'n ymddangos ei fod yn ymgysylltu ag unrhyw frys â'r cwestiwn ehangach a rôl dalgylchoedd ysgolion wrth ail-gydbwysu lleoedd cyn ail-ddyrannu lleoedd.*
- *Mae tudalen 80 o'r ddogfen ymgynghori yn awgrymu ehangu'n raddol, a byddem yn croesawu eglurder sy'n golygu ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn raddol fel unig ddefnyddiwr safle presennol Ysgol Allensbank, ac nid y bydd ysgolion yn cael eu rhannu ar draws safleoedd fel y'i cyflwynwyd yn ymgynghoriad 2021. Fel yn achos ymgynghoriad 2019, nid ydym yn teimlo bod gweithredu ysgolion ar draws sawl safle yn fuddiol i unrhyw ysgol.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

5. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth Aelodau Lleol i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chydabod yr angen i fynd i'r afael â nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar gyllidebau ysgolion, a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi addysgu a dysgu.
6. Bu'r Cyngor yn ymgynghori yn 2021 ar gynigion i ddarparu cydbwysedd priodol o leoedd ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd, ond ni chawsant eu dwyn ymlaen.
7. Ar yr un pryd, gofynnodd y Cyngor hefyd am farn ar newidiadau hirdymor i'r ddarpariaeth ysgolion er mwyn cynnig cydbwysedd priodol o leoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal gydag unrhyw ateb yn ceisio:
  - Lleihau nifer y lleoedd gwag cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu dalgylchoedd cyfunol Allensbank, Albany a Gladstone

- Ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n gwasanaethu dalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan i 2 ddosbarth mynediad
  - Rhoi mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth, rheoli, staff addysgu a staff cymorth, i gefnogi ffocws parhaus ar safonau addysgu a deilliannau gwell i ddisgyblion
  - Galluogi buddsoddi mewn adeiladau ysgol i wella'r amgylchedd dysgu.
8. Mae'r cynigion diweddar yn mynd i'r afael â'r problemau a sbardunodd y cynigion cynharach ac yn ystyried y materion a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu hon.
  9. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi pob ysgol gan nodi mai un o agweddau cadarnhaol yr ymgynghoriad yw mynegiant y gefnogaeth gan y rhieni ar gyfer yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig a'u gwerthfawrogiad o safon ac ansawdd yr addysg a'r cymorth a ddarperir gan bob ysgol.
  10. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi cymorth i ddysgwyr mwyaf bregus Caerdydd, gan gynnwys plant mewn gofal, y rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol a phlant o'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf a bod pob plentyn yn cael addysg wych drwy eu dewis cyfrwng iaith.
  11. Mae sicrhau bod cyllid ar gyfer addysg yn cael ei dargedu tuag at brofiadau a chyfleoedd dysgu ochr yn ochr â chymorth i deuluoedd yn hollbwysig. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn ysgolion a rhaid iddo hefyd gefnogi pob ysgol i barhau i wella addysg eu holl ddysgwyr.
  12. I gyflawni hyn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cydbwysedd priodol yn y nifer a mathau o leoedd ysgol sy'n gwasanaethu pob ardal, gyda lefel ddigonol o leoedd dros ben. Rhaid i bob darpariaeth ysgol a gynigir ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rhaid i'r Cyngor wneud y mwyaf o botensial ei staff addysgu a dysgu er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'u talent, a thrwy hynny sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfleoedd a deilliannau dysgwyr ar gyfer pawb.
  13. Cyrhaeddodd y niferoedd derbyn i'r dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion cynradd ledled y ddinas ei anterth ar tua 4,370 o ddisgyblion yn 2015/16 a 2016/17. Mae hyn yn cyfateb i frig y cyfraddau geni a gofnodwyd bum mlynedd ynghynt. Ar yr adeg pan oedd y niferoedd ar eu huchaf, cadwodd Caerdydd tua 8% o leoedd gwag.
  14. Ers 2017/18, mae gostyngiad parhaus wedi bod yn y gyfradd enedigaethau, a newidiadau i batrymau mudo yn y ddinas. Mae hyn yn golygu yr amcanestynnir y bydd y nifer sy'n mynd i addysg gynradd ledled y ddinas yn lleihau'n sylweddol tan o leiaf Medi 2025. Fodd bynnag, nid yw newidiadau poblogaeth yr un peth ym mhob rhan o'r ddinas.

15. Gan fod rhieni'n gallu nodi eu hysgolion o ddewis, byddai rhai ysgolion yn parhau i gael niferoedd newydd uchel. I ysgolion eraill fe fydd yr effaith ar niferoedd disgyblion yn llawer mwy nag ar gyfartaledd ledled y ddinas.
16. Mae ysgolion yn derbyn y rhan fwyaf o'u hincwm ar sail niferoedd y disgyblion ar y gofrestr. Bydd gostyngiad yn nifer y disgyblion yn cael effaith fawr ar gyllidebau rhai ysgolion. Mae hynny'n effeithio ar y cyfleoedd addysgu a dysgu y gall yr ysgolion hynny eu cynnig.
17. Mae nifer y lleoedd cynradd sydd ar gael mewn cymunedau presennol yng Nghaerdydd yn ddigon i ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion, ond amcanestynnir y bydd lefel y lleoedd gwag yn cynyddu.
18. Byddai cynigion i gydbwyso capasiti ysgolion yn well yn erbyn y rhagolygon o ran y lleoedd sydd eu hangen yn cynnig defnydd mwy effeithiol o adnoddau ariannol yr ysgolion. Byddai hyn yn caniatáu i ysgolion ddefnyddio cyfran uwch o'u cyllideb ar gyfer addysgu a dysgu.
19. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae nifer sylweddol o leoedd gwag yn gyffredinol yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg, a rhagwelir y byddant yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.
20. Mae'r nifer presennol o leoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgolion Cynradd Albany, Allensbank a Gladstone yn ddigonol i ddarparu ar gyfer y galw a ragwelir am leoedd ysgol. Mae hefyd yn caniatáu nifer uchel o leoedd gwag i ymateb i unrhyw amrywiad posibl neu gynnydd parhaus yn y galw, a'r lefelau uchel o symudedd disgyblion yn yr ardal.
21. Byddai'r opsiynau a nodwyd yn caniatáu:
  - cyfuno darpariaeth ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg ar lefel gyfatebol, neu ostyngiad bach i'r trefniadau presennol.
  - ehangu Ysgol Mynydd Bychan.
  - dim newid yn nifer y lleoedd i ddisgyblion ysgol gynradd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
22. Nid oes digon o le ar safle presennol Ysgol Mynydd Bychan i ganiatáu ar gyfer yr ehangu. Nid oes safle gwag addas ar gael yn agos at yr ysgol a allai ddarparu ar gyfer ehangu Ysgol Mynydd Bychan.
23. Mae digon o gapasiti hefyd yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Byddai ad-drefnu darpariaeth yn ffordd briodol o gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai hefyd yn caniatáu defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau. Byddai hyn yn cadw hyblygrwydd yn yr ystâd ysgolion er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol sy'n effeithio ar yr ardal.

24. Mae'r opsiynau a gaiff eu cyflwyno yn cefnogi defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau.
25. Mae'r cynigion hefyd yn ceisio cynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau'r anghydraddoldebau o ran cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a rhai difreintiedig.
26. Byddai unrhyw gynigion i gynyddu nifer y lleoedd yn y ddarpariaeth Gymraeg, tra bod y nifer derbyn i ysgolion yn disgyn, yn golygu y byddai'r niferoedd sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn disgyn ymhellach.
27. Byddai Opsiwn 1 yn darparu patrymau mwy cynaliadwy yn economaidd o ddarpariaeth ysgolion dros y tymor hir ac yn cefnogi ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol mewn patrwm gwell o ddarpariaeth drwy uno. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i ysgolion ddyrannu cyfran uwch o'r gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr, darparu gwell cydbwysedd rhwng y lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a Chymraeg sydd ar gael a chynnal y nifer presennol o leoedd ysgol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal.
28. O'u cymharu ag ysgolion llai, byddai ysgol dau ddsbarth mynediad yn cefnogi addysgu a dysgu drwy ganiatáu:
- mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion oherwydd sylfaen adnoddau ariannol estynedig, gwell a mwy diogel.
  - mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth, yn cynnwys cynnal ategiad llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol.
  - y gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a chymorth yn galluogi'r ysgol dau ddsbarth mynediad i gynnig ystod ehangach o arbenigedd cwricwlaidd.
  - mwy o athrawon i rannu llwyth gwaith ac arbenigedd.
  - mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. athrawon newydd gymhwyso all arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog
  - cyfleoedd i staff addysgu i'w cryfderau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiad addysg gorau posib
  - mwy o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a Chymhwysedd Digidol
  - creu mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol
  - mwy o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig
29. Byddai'r arbedion fformiwla cyllideb ysgolion o gyfuno Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone, trwy gau'r ddwy ysgol a chreu un ysgol gynradd dau ddsbarth mynediad fel y nodir yn Opsiwn 1, tua £98,000 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar ddileu un o'r lwfansau cyfandal a ddarperir i ysgolion ledled y ddinas.
30. Byddai cyfuno ysgolion cynradd Allensbank a Gladstone a chyfuno eu cyllidebau'n galluogi aiddosbarthu adnoddau ariannol i'r ysgolion ledled y ddinas trwy leihau nifer y cyfandaliadau'n sy'n cael eu dyrannu i'r ysgolion unigol.

31. Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, cynigir y byddai'r swm cyfatebol yn cael ei glustnodi ar gyfer yr ysgol dau ddosbarth mynediad cyfrwng Saesneg newydd am dair blynedd. Byddai hyn yn helpu'r ysgol i ddatblygu darpariaeth ymhellach a/neu fuddsoddi mewn adnoddau er budd ei disgyblion. Y tu hwnt i'r cyfnod hwn, byddai'r swm hwn ar gael i'w ailddosbarthu i ysgolion cynradd ledled y ddinas.
32. Byddai Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 yn darparu'r cyfleoedd i'r ysgolion weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl naill ai drwy gydweithrediad neu ffederasiwn.
33. Byddai unrhyw gydweithrediad neu ffederasiwn ffurfiol yn cael ei arwain gan y Cyrff Llywodraethu ac yn cael ei gefnogi gan y Cyngor.
34. Os caiff ei ddatblygu, gallai cydweithrediad neu ffederasiwn ffurfiol:
  - helpu i godi safonau trwy rannu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm, arweinyddiaeth ysgolion a chymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â phroblemau allweddol fel cynhwysiant
  - galluogi rhannu arfer da, deunyddiau paratoi ac adnoddau
  - gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau i ddisgyblion gan arwain at wella ansawdd dysgu i staff a disgyblion
  - gwella cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff
  - cynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygu rheolaeth haen ganol
  - rhoi cyfleoedd datblygu i ddisgyblion a Chyngor yr Ysgol
  - gwella cyfleoedd cymdeithasol i'r disgyblion
  - galluogi trefniadau traws gyfnodau
  - galluogi symleiddio polisiâu a strwythurau
  - cefnogi gwelliant ysgolion drwy alluogi ysgolion i alw ar adnoddau ysgolion eraill i fynd i'r afael â phroblemau, rhannu arbenigedd, codi disgwyliadau a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.
  - rhoi cyfle i fanteisio ar arbedion maint a rhannu gwasanaethau ar draws yr ysgolion
  - caniatáu hwyluso'r broses o recriwtio llywodraethwyr o bosib, gyda llai o rolau llywodraethwyr gwag
  - caniatáu ar gyfer rhannu arbenigedd ac adnoddau
  - hwyluso'r gwaith o drefnu datblygiad proffesiynol
  - hwyluso trefnu gweithgareddau disgyblion ar y cyd
35. Fodd bynnag, o'i gymharu ag Opsiwn 1, gellid lleihau nifer y manteision a wireddir ar gyfer disgyblion mewn addysg gymunedol cyfrwng Saesneg drwy Opsiwn 2 neu Opsiwn 3 gan y byddai defnydd llai effeithlon o gyllidebau'r ysgolion. Ni fyddai unrhyw arian cyfandol yn cael ei neilltuo i roi cymorth am gyfnod. Byddai angen cyfran uwch o gyllidebau'r ddwy ysgol ar gyfer arwain a rheoli, nag mewn un ysgol â dau ddosbarth mynediad.
36. Mae perygl na fydd cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dymuno lleoedd Cymraeg.

37. 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg' yw strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n amlinellu'r dull hirdymor o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
38. Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. O fewn eu cynllun, mae'n rhaid iddyn nhw osod targed deng mlynedd ar gyfer y cynnydd disgwylidig ym mhlant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Y targed a osodwyd i Gaerdydd gan Lywodraeth Cymru yw bod rhwng 25 a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031. Ar hyn o bryd, oddeutu 18% y mae'r ffigur hwn.
39. Mae Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau graddfa o dwf yn unol â'r targed 25-29% fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhaid i'r targed lleol gydbwyso uchelgais gyda dealltwriaeth o'r tueddiadau sy'n bodoli, sy'n cynnwys gostyngiad yn y cyfraddau geni ac ansicrwydd cynyddol yn ymwneud â dewisiadau derbyn i ysgolion oherwydd y pandemig.
40. Ni fyddai'r nifer o leoedd sydd ar gael ar hyn o bryd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigonol i gefnogi cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar hynny i'r graddau fyddai'n cyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
41. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd yn nodi cyfres o ymrwymadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau bod pob plentyn yn y ddinas yn gallu derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y nifer sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, a thrwy'r defnydd sylweddol ar y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg bydd pob plentyn yn cael cyfle i fod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.
42. Mae'r CSCA a gymeradwywyd yn ymrwymo i sicrhau capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir ar oed Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio. Mae hyn yn cynnwys darparu capasiti cyfrwng Cymraeg newydd ar lefel gynradd erbyn 2025 - 2026 trwy fwrw ymlaen â chynigion i gynyddu'r ddarpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu Llwynbedw, Gabalfa, y Mynydd Bychan a Phlasnewydd yn ardal ganolog y ddinas.
43. Mae Ysgol Mynydd Bychan wedi tanysgrifio'n llawn ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. Ym mhedair o'r pum mlynedd hyn, mae nifer o blant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol wedi cael gwrthod lle yn yr ysgol.
44. Mae'r galw rhagamcanol am leoedd ar gyfer pob dalgylch yn y dyfodol, sy'n ystyried data diweddaraf y cyfrifiad ysgolion (CYBLD) a gyhoeddwyd yn 2022, a data cofrestru meddygon teulu GIG diweddaraf a ddarparwyd ym mis Awst 2022, yn nodi y disgwylir y bydd nifer y plant yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael.
45. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys ystod o gamau i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg. Nid yw amrywiaeth



ethnig Ysgol Mynydd Bychan yn adlewyrchu ei chymuned leol ac nid yw'r ysgol i raddau helaeth yn gallu darparu ar gyfer plant sy'n symud i'r ardal ar ôl y dyddiad cau ar gyfer mynediad i'r dosbarth Derbyn.

46. Mae data CYBLD yn dangos bod cyfran uwch o blant sy'n trosglwyddo o fewn y cyfnod oedran addysg gynradd yn yr ardal yn dod o ethnigrwydd nad yw'n Wyn-Prydeinig. Ar hyn o bryd mae'r plant hyn yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg lleol ond yn llai abl i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
47. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd, a fabwysiadwyd ym mis Medi 2022, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd y gellir ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant o bob cefndir sy'n mynychu.
48. Mae'r cynllun yn gosod targedau penodol ac yn nodi llifoedd gwaith blaenoriaethol i'r Cyngor a phartneriaid fel ysgolion, gan gynnwys menter beilot ymchwil gyda Caerdydd Ddwyeithog, arolygon rhieni a grwpiau ffocws, er mwyn deall yn well y rhesymau dros ymgymriad isel lleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn grwpiau a chymunedau penodol a dangynrychiolir (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ochr yn ochr â hyrwyddiadau pwrpasol. Mae'r gwaith yma ar y gweill.
49. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gyflwyno ceisiadau am arian grant i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.
50. Llwyddodd y Cyngor i sicrhau arian o'r Cynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg gan gynnwys £1.86m i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yng nghanol Caerdydd ac ehangu lleoedd cyfrwng Cymraeg gan 1 dosbarth mynediad (210 o leoedd). Diben y Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg yw cefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.
51. Mae'r rhaglen cyllid grant wedi'i hanelu'n benodol at brosiectau cyfalaf a fydd yn cyfrannu'n amlwg at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r arian a ddyrannwyd i'r Cyngor wedi'i glustnodi i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a byddai'n caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgol i gefnogi nifer uwch o ddysgwyr.
52. Pe bai Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Allensbank, byddai unrhyw newidiadau i'r adeiladau sy'n defnyddio grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried ar gam dylunio diweddarach. Byddai'r Cyngor yn nodi ac yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y buddsoddiad mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan.
53. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi dyrannu cyllid cyfalaf i fynd i'r afael â gwaith cyflwr ac addasrwydd â blaenoriaeth ar y safle a rennir gan Gladstone a Santes Monica, ac ar safle Allensbank. Byddai rhagor o arian cyfalaf yn cael ei nodi o adnoddau ariannol y Cyngor i gefnogi adleoli'r ddarpariaeth Saesneg. Byddai

hyn yn gwella addasrwydd cyfleusterau i ddarparu ar gyfer y newidiadau i'r ddarpariaeth ac i ddod â budd i ddysgwyr. Byddai'r cyllid gofynnol yn dibynnu ar yr opsiwn sy'n cael ei ddewis.

54. Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan ar safle Allensbank yn cael ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2025, drwy gynyddu'r nifer derbyn ar gyfer y grwpiau blwyddyn meithrin a Derbyn yn unig yn y lle cyntaf. Felly nid oes angen i'r ysgol ddefnyddio ei holl adeiladau yn 2025/2026 a gallai ganiatáu i rannau o'r ddau adeilad gael eu cau i'r staff a disgyblion i leihau'r effaith ar gyllideb yr ysgol tra bod gwaith yn cael ei wneud.
55. Os symudir ymlaen â'r newidiadau arfaethedig, byddai swyddog arweiniol prosiect yn cael ei neilltuo i weithio gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu rhaglen fuddsoddi fanwl. Byddai'r rhaglen hon yn cynnwys y gwaith arfaethedig, trefniadau pontio, iechyd a lles disgyblion a staff ac amserlenni'r ffrydiau gwaith hyn.
56. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddai gwaith adeiladu ac adnewyddu a allai achosi mwy o darfu yn digwydd yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn lleihau unrhyw effaith bosib ar addysgu a dysgu.
57. Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau safle amgen a allai fod ar gael ac sydd mewn lleoliadau canolog yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan. Nid oes safle gwag addas ar gael yn lleol i'r ysgol a allai ddarparu ar gyfer ehangu Ysgol Mynydd Bychan. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gadw darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac i gynyddu gwasgariad y ddarpariaeth sydd ar gael i rieni ym mhob cymuned.
58. Mae digon o gapasiti hefyd yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Byddai ad-drefnu darpariaeth yn ffordd briodol o gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai hefyd yn caniatáu defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau. Byddai hyn yn cadw hyblygrwydd yn yr ystâd ysgolion er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol sy'n effeithio ar yr ardal.
59. Mae'r Cyngor wedi ystyried adleoli Ysgol Mynydd Bychan i'r safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica a darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Allensbank ond mae wedi diystyried yr opsiwn hwn. Cafodd gwybodaeth am hyn ei chynnwys yn y ddogfen ymgynghori ar dudalen 76. Ni fyddai adleoli Ysgol Mynydd Bychan i safle Gladstone yn unig yn darparu digon o gapasiti i gefnogi'r twf na'r ysgol.
60. Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd yn y ddarpariaeth Saesneg, ar hyn o bryd, wedi'i lledaenu'n eang drwy'r ardal, a cheir llawer o ysgolion Saesneg yn yr ardaloedd ehangach. Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd wedi'i ganolbwyntio ar ran ogleddol y dalgylch, yn agos at safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a safle Allensbank. Ar hyn o bryd, mae'r pellteroedd teithio i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg amgen yn sylweddol. Mae

yna alw mawr hefyd am leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfagos i'r gogledd o'i dalgylch, gydag ychydig o leoedd gwag ar y cyfan.

61. Mae lleoli darpariaeth cyfrwng Saesneg ar y safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safle Allensbank yn golygu y caiff lleoedd eu dosbarthu'n fwy priodol ar gyfer rowndiau derbyn cyfredol a'r dyfodol.
62. Mae gan adeilad Ysgol Gynradd Gladstone gapasiti asesedig o hyd at 270 a allai ganiatáu ar gyfer Nifer Derbyn Cyhoeddedig o hyd at 38 o leoedd fesul grŵp blwyddyn. Ni fyddai hyn yn ddigon i gefnogi ehangu Ysgol Mynydd Bychan ac ni fyddai'n darparu trefniadaeth effeithlon o leoedd ysgol. Byddai'r cynnig hwn hefyd yn gadael safle presennol Ysgol Mynydd Bychan yn wag, gan ddileu llawer o leoedd mewn ysgolion cynradd a lleihau hyblygrwydd ar gyfer darpariaeth ysgolion pe bai'r boblogaeth yn cynyddu eto yn y dyfodol.
63. Gallai newidiadau i ddalgylchoedd roi cydbwysedd rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael, a'r galw a ragwelir am leoedd, a byddai'n caniatáu cynnydd cyfyngedig yn y nifer sy'n derbyn y cynnig.
64. Fodd bynnag, ni fyddai'r lefel a ragwelir o leoedd gwag yn ddigonol i gynyddu'r nifer a ymgwymerir i addysg Gymraeg yn sylweddol yn y tymor hwy, er mwyn bodloni twf wedi'i dargedu Caerdydd fel y'i nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) sydd wedi'i gymeradwyo yng Nghaerdydd.
65. Er y gallai newidiadau i'r dalgylchoedd wella cydbwysedd lleoedd, mae'n bosibl na fyddai'r newidiadau hyn yn unig yn cefnogi twf yn y hirdymor ac ni fyddai'n cynrychioli cyfraniad digonol tuag at gyrraedd y targed twf sydd wedi'i nodi yn CSCA Caerdydd.
66. Mae'r cyfeiriad at '*ehangu graddol*' ar dudalen 80 o'r ddogfen ymgynghori yn ymwneud ag ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn raddol fel unig ddefnyddiwr safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank, ac nid rhannu ysgolion ar draws safleoedd fel y cyflwynwyd yn ymgynghoriad 2021. Pe bai ehangu arfaethedig Ysgol Mynydd Bychan yn bwrw ymlaen, byddai'r cynnydd yn y nifer derbyn yn berthnasol i'r grŵp Derbyn yn y lle cyntaf.

### **Ymateb Aelod Lleol – Cathays**

67. Cyflwynodd y Cynghorydd Weaver ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)
  - *Nid wyf wedi dewis opsiwn penodol fel y'i cefnogir neu nas cefnogir, mae gan bob un fanteision a chyfleoedd yn ogystal â risgiau. Mae yna ychydig o bwyntiau yr hoffwn iddynt gael eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, yn seiliedig ar y trafodaethau a gawsom gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r CLI yn gwybod bod llawer o rieni wir yn gwerthfawrogi diwylliant ac ethos yr ysgol a gwaith caled a rhagoriaeth y staff, ac yn ddealladwy mae'r cynigion hyn wedi creu rhywfaint o bryder y gellid tarfu ar hyn.*

- *Rydym yn deall yr angen i drefniadaeth ysgolion ddarparu niferoedd priodol o leoedd cyfrwng Cymraeg a Saesneg i deuluoedd lleol, ond mae hwn yn amlwg yn gyfnod sensitif a heriol i staff, rhieni a chymuned gyfan yr ysgol.*
- *Hoffwn bwysleisio, wrth ystyried yr opsiwn gorau, y dylai'r Cyngor gyfeirio at nodau 'Caerdydd 2030', yn enwedig wrth gau'r bwlch cyrhaeddiad.*
- *Mae ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal hon yn rhannu nodweddion demograffig tebyg, gyda lefelau uchel o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gyda Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae nifer o wahanol ieithoedd cyntaf yn cael eu siarad gan deuluoedd yr ysgolion, ac mae gan bob garfan o ddisgyblion symudol a thros dro.*
- *Rwy'n credu y dylid ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar yr opsiwn gorau, a dylai canlyniad clir y broses hon fod i wella hyd yn oed ymhellach y cynnig addysg i'r disgyblion hynny. Dyma'r garfan union o ddisgyblion y mae angen i ni fod yn buddsoddi ynddynt i gau'r bwlch cyrhaeddiad hwnnw, a dylai hyn fod yn ffactor hanfodol wrth benderfynu pa opsiwn sydd orau - a dylid sicrhau bod adnoddau angenrheidiol ar gael i sicrhau gwelliant i'r disgyblion hyn.*
- *Gallaf weld y gallai lleoli naill ai un ysgol AALI neu ddwy ysgol AALI ffederal ar safle Gladstone ddod â rhai cyfleoedd arbedion maint ac effeithlonrwydd wrth ddyrannu adnoddau a allai gefnogi rhywfaint o'r gwelliant hwn.*
- *Hoffwn bwysleisio hefyd bod y broses hon yn peri gofid a phryder i staff mewn ysgolion a allai fod yn ffederaleiddio neu'n cyfuno, a rhaid gwneud popeth posibl i gefnogi lles staff yn ystod y broses hon. Hoffwn weld y broses fwyaf syml a chdir bosibl pe bai ysgolion yn ffederaleiddio neu'n cyfuno, er mwyn rhoi'r sicrwydd mwyaf a chyflymaf posibl i staff am eu sefyllfa.*
- *Mae Gladstone yn ysgol ardderchog, fel y gwelir yn yr ymweliad diweddaraf gan Estyn, gyda diwylliant cynhwysol a chroesawgar. Mae rhieni plant yr ysgol wedi mynegi eu cefnogaeth gref i ddiwylliant ac ethos yr ysgol. Os dewisir ffederasiwn neu uno fel yr opsiwn a ffefrir, rwy'n gobeithio y gellir adlewyrchu hanes ac ethos Gladstone ac Allensbank yn yr ysgol/ysgolion yn y dyfodol, a'u cydnabod mewn rhyw ffordd, i adlewyrchu eu presenoldeb hirsefydlog a phwysig ym mywydau cymaint o deuluoedd yn yr ardal hon, ac i dawelu meddyliau rhieni disgyblion sydd yn yr ysgolion ar hyn o bryd y bydd diwylliannau ac arferion cadarnhaol, croesawgar, llwyddiannus iawn yr ysgolion yn parhau.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

68. Mae'r Cyngor yn cydnabod barn y Cyngorydd Weaver ar rinweddau cyffredinol y newidiadau arfaethedig.

69. Roedd cefnogaeth rhieni i'r holl ysgolion a gynhwyswyd yn y newidiadau arfaethedig yn nodwedd nodedig o'r ymgynghoriad.
70. Fel y nodir ym mharagraff 11 a pharagraff 12, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd ac mae sicrhau bod cyllid ar gyfer addysg yn cael ei dargedu tuag at brofiadau a chyfleoedd dysgu ochr yn ochr â chefnogaeth i deuluoedd yn hanfodol.
71. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cydbwysedd priodol yn y nifer a mathau o leoedd ysgol sy'n gwasanaethu pob ardal, gyda lefel ddigonol o leoedd dros ben. Rhaid i bob darpariaeth ysgol a gynigir ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rhaid i'r Cyngor wneud y mwyaf o botensial ei staff addysgu a dysgu er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'u talent, a thrwy hynny sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfleoedd a deilliannau dysgwyr ar gyfer pawb.
72. Mae nifer y lleoedd cynradd sydd ar gael mewn cymunedau presennol yng Nghaerdydd yn ddigon i ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion, ond amcanestynnir y bydd lefel y lleoedd gwag yn cynyddu.
73. Byddai cynigion i gydbwyso capasiti ysgolion yn well yn erbyn y rhagolygon o ran y lleoedd sydd eu hangen yn cynnig defnydd mwy effeithiol o adnoddau ariannol yr ysgolion. Byddai hyn yn caniatáu i ysgolion ddefnyddio cyfran uwch o'u cyllideb ar gyfer addysgu a dysgu.
74. Mae'r opsiynau a gyflwynwyd yn cefnogi defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac hefyd yn ceisio cynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau'r anghydraddoldebau o ran cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a rhai difreintiedig.
75. Fel y nodir ym mharagraff 27 a pharagraff 28, byddai Opsiwn 1 yn darparu patrwm mwy cynaliadwy yn economaidd o ddarpariaeth ysgolion dros y tymor hir ac yn cefnogi ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol mewn patrwm gwell o ddarpariaeth drwy uno. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i ysgolion ddyrannu cyfran uwch o'r gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr, darparu gwell cydbwysedd rhwng y lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a Chymraeg sydd ar gael a chynnal y nifer presennol o leoedd ysgol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal.
76. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r effaith ar staff yn yr ysgolion dan sylw ac mae Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wedi ymrwymo i barhau i weithio'n uniongyrchol gyda'r ysgolion dan sylw, a gydag undebau llafur, i sicrhau bod staff yn cael cymorth drwy'r broses newid. Mae Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wedi cynnig cyfarfodydd â staff yr ysgolion ac mae'r cynnig wedi'i dderbyn gan y rhai yn Ysgol Gynradd Gladstone.

## **Estyn**

77. Cyflwynodd Estyn ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb yn Atodiad 10)

- *Barn Estyn yw bod bob un o'r tri chynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.*
- *Mae'r cyngor wedi rhoi rhesymeg resymol dros awgrymu'r newidiadau a nodir yn y tri opsiwn. Mae hyn yn bennaf er mwyn darparu cydbwysedd priodol o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Dangosodd ymgynghoriad blaenorol bod yna gefnogaeth ar y cyfan i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, er bod materion eraill wedi cael eu codi. Mae'r opsiynau presennol yn mynd i'r afael â'r materion a lywiodd yr ymgynghoriad cynharach.*
- *Mae'r cyngor wedi rhoi disgrifiadau manwl addas o'r opsiynau, gan dynnu sylw at y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng pob un. Mae hefyd wedi darparu dyddiadau allweddol yn briodol ar gyfer y gweithdrefnau statudol sy'n ymwneud â'r cynnig ac wedi nodi y byddai'r newidiadau arfaethedig yn dod i rym o fis Medi 2025. Mae'r cyngor yn cyfeirio'n gywir at y ffaith y byddai'r opsiwn i gau dwy ysgol, a sefydlu ysgol newydd, yn golygu bod angen sefydlu corff llywodraethu dros dro cyn agor yr ysgol newydd fwy o faint.*
- *Mae'r cyngor wedi nodi'n glir y buddion i rannau gwahanol o bob opsiwn. Mae hefyd wedi darparu'r anfanteision cyffredin sy'n gysylltiedig â phob agwedd ar opsiwn un ac opsiwn dau ac ar wahân wedi darparu anfanteision posibl opsiwn tri.*
- *Mae'r cyngor wedi nodi'n briodol y prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau. Mae'n ymddangos bod gan y cyngor brosesau lliniaru addas ar waith i reoli'r risgiau hyn.*
- *Mae'r cyngor wedi ystyried rhai opsiynau gwahanol. Mae wedi darparu esboniadau rhesymol pam na chafodd yr opsiynau hyn eu hystyried.*
- *Mae'r cyngor wedi cyflwyno gwybodaeth addas am effaith yr opsiynau ar drefniadau teithio i ddysgwyr.*
- *Mae'r cyngor wedi rhoi dadansoddiad manwl o ddata sy'n cynnwys nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ym mhob un o'r ysgolion yr effeithir arnynt a hefyd niferoedd a rhagolygon hanesyddol ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae'r data hwn yn dangos bod nifer sylweddol o leoedd gwag yn gyffredinol yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg y rhagwelir y byddant yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.*
- *Mae'r cyngor yn datgan yn gywir y byddai'r opsiynau'n cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ar gyfer yr oedran cynradd.*
- *Mae'r cyngor wedi ystyried costau ariannol pob opsiwn ac unrhyw arbedion posibl.*
- *Mae'r cyngor wedi ystyried effaith yr opsiynau ar ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol, disgyblion lleiafrifoedd ethnig a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae wedi cyflwyno data sy'n dangos niferoedd y disgyblion hyn ym mhob un o'r*

ysgolion. Ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn o ddisgyblion, mae'n dod i'r casgliad yn rhesymol nad oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r opsiynau yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth. Mae hefyd wedi darparu un asesiad effaith, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar y gymuned sydd i gyd yn ymddangos yn berthnasol ac yn ddilys.

- Mae'r cyngor wedi ystyried y tarfu posibl ar ddisgyblion wrth weithredu'r newidiadau arfaethedig. Byddai swyddog arweiniol y prosiect yn gweithio gyda chyrff llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu rhaglen fuddsoddi fyddai'n cynnwys trefniadau pontio a chefnogi lles disgyblion a staff. Byddai mwy o waith sy'n tarfu'n cael ei wneud yn ystod gwyliau'r ysgol lle bynnag y bo modd. Byddai ehangu arfaethedig Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei gyflwyno'n raddol a gallai rhannau o'r ddau adeilad fod ar gau i'r staff wrth i'r gwaith gael ei wneud.

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

78. Mae'r Cyngor yn cydnabod casgliadau Estyn ar rinweddau cyffredinol y cynigion.
79. Er na wnaeth Estyn roi barn ar opsiwn a ffeirir, nodir bod y safbwyntiau a fynegwyd yn cydnabod cyflwyniad llawn a manwl o bob agwedd ar y newidiadau arfaethedig.

### **Ymateb Aelod o'r Senedd**

80. Cyflwynodd Julie Morgan AoS ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)
- *Mae'n amlwg bod cynnydd wedi bod yn y galw am addysg Gymraeg a pholisi Llywodraeth Cymru yw ceisio ateb y galw hwnnw a cheisio cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n ddealladwy felly bod cynlluniau'n cael eu hystyried i ganiatáu cynnydd yn nifer y plant sy'n gallu mynychu Ysgol Mynydd Bychan. Mae'n anffodus iawn nad oes modd ehangu'r ysgol ar y safle presennol ond mae'n ymddangos yn glir nad oes digon o le i ddarparu ar gyfer dosbarthiadau ychwanegol yno.*
  - *Mae i'w groesawu y gallai Ysgol Mynydd Bychan ehangu i'r maint hwnnw ond mae pryder y byddent yn symud i adeilad hŷn sydd wedi'i restru ac felly mae'n bosibl y byddant yn cael eu hatal rhag cyflawni'r gwelliannau y byddent yn dymuno eu gweld. Rwy'n ymwybodol na roddwyd caniatâd yn y gorffennol ar gyfer drysau sy'n agor i'r ardal allanol ac rwy'n deall na fydd CADW nawr yn ystyried cynlluniau penodol tan ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Mae pryder hefyd na fydd y gofod awyr agored yn ddigonol ar gyfer maint cynyddol Ysgol Mynydd Bychan.*
  - *Mae Opsiwn 1 yn cynnwys uno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone i sefydlu Ysgol Gynradd Saesneg newydd â 420 o leoedd gyda darpariaeth feithrin ar y safle presennol a rennir gan Ysgol gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd Santes Monica Mae'n ymddangos mai dyma'r opsiwn a ffeirir gan Ysgol Allensbank, os oes rhaid iddynt symud. Mae adeilad Allensbank wedi*

*cael ei orchuddio â sgaffaldau ac mae cryn dipyn o waith atgyweirio wedi bod yn digwydd dros y pedair blynedd diwethaf. Yn aml, bu'n rhaid symud plant i safle gwahanol o fewn yr adeilad wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Yn naturiol mae hyn wedi bod yn anodd i'r staff a'r plant ond roedden nhw wedi gobeithio yn y pen draw y bydden nhw o leiaf wedi elwa ar y gwelliannau. Byddan nhw bellach yn colli'r budd hwnnw, pan fyddan nhw'n symud allan.*

- *Byddai Opsiwn 2 yn golygu bod plant Allensbank yn symud i'r safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Santes Monica, ond mae pryderon na fyddai'r gofod yn ddigon mawr i holl blant Allensbank felly efallai y bydd yn rhaid i rai fynd i ysgol Gladstone ac nid yw hyn yn ymddangos yn ddymunol.*
- *Rwy'n ymwybodol bod rhai rhieni yn teimlo, trwy gynnig y tri opsiwn, bod yr iaith Gymraeg yn cael ei ffafrio dros y Saesneg. Rwy'n cefnogi hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n amlwg bod galw mawr amdani. Fodd bynnag, yn ysgol Allensbank, maent wedi llwyddo i wella eu sgôr dros y blynyddoedd ac wedi gweithio'n dda iawn gyda llawer o blant o wahanol gymunedau ethnig a rhyngddynt, mae'r plant yn siarad dros 30 o ieithoedd gwahanol. Mae'n bwysig nad yw llwyddiant yr ysgol yn cael ei wanhau gan y symudiadau arfaethedig hyn.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

81. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth yr Aelod o'r Senedd i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
82. Mae materion yn ymwneud â gwelliannau i safle Ysgol Gynradd Allensbank yn cael sylw ym mharagraffau 49 – 56.
83. Mae digon o le awyr agored ar gael ar safle Ysgol Gynradd Allensbank i ddarparu ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan fwy. Mae gan safle presennol Ysgol Mynydd Bychan ddarpariaeth awyr agored o tua 1100m<sup>2</sup>; mae gan safle Ysgol Gynradd Allensbank ddarpariaeth awyr agored o tua 2000m<sup>2</sup> gyda'r opsiwn am fwy o le awyr agored os caiff unrhyw ran o'r ddarpariaeth maes parcio bresennol o tua 600m<sup>2</sup> ei hail-bwrpasu.
84. Cydnabyddir bod y gwaith i gynnal adeiladwaith adeilad yr ysgol wedi effeithio ar rediad Ysgol Gynradd Allensbank o ddydd i ddydd, ond mae'r gwaith hwn wedi'i wneud fel gwaith cyflwr ac addasrwydd â blaenoriaeth i sicrhau iechyd a diogelwch adeiladau'r ysgol. Mae gwaith tebyg yn cael ei wneud ar safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, ac os bydd Opsiwn 1 neu Opsiwn 2 yn cael ei ddatblygu, byddai'r plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Allensbank ar hyn o bryd yn elwa ar hyn.
85. Mae safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn gyffredinol yn gallu darparu lle ar gyfer hyd at 420 o ddisgyblion gyda dosbarth meithrin. Fodd bynnag, gan na allai adeilad Santes Monica ddarparu ar gyfer 210 o ddisgyblion ar ei phen ei hun, byddai'n rhaid i Gyrrff Llywodraethu Allensbank a Gladstone (neu'r Corff Llywodraethu unigol, pe



bai'n cael ei ffedereiddio) ystyried a chytuno ar y ffordd orau o ddefnyddio'r llety sydd ar gael i fodloni gofynion gweithredol pob ysgol. Ni fyddai Opsiwn 2 yn adleoli Allensbank i safle presennol Santes Monica yn unig.

86. Cydnabyddir gwaith Ysgol Gynradd Allensbank ac ysgolion eraill yr ardal i gefnogi plant o wahanol gymunedau ethnig ag ystod eang o ieithoedd cartref yn llwyddiannus ac mae'r Cyngor yn ei nodi'n gryfder yr ysgolion hyn. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi'u cyflwyno i ddarparu ffordd briodol o gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal, a byddai'n ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau.

### **Undeb Addysg Cenedlaethol (UAC)**

87. Cyflwynodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol (UAC) ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

- *Rydym yn falch o weld bod y safon dda o addysg ym mhob ysgol dan ystyriaeth wedi cael ei chydnabod.*
- *Er ein bod yn gwerthfawrogi bod llawer o'r cynigion yn cynnig cyfleoedd gwell ar gyfer cydweithredu a datblygiad proffesiynol i staff ac o bosibl ehangu cyfleoedd dysgu i blant, nodwyd gan ein haelodau bod y cynigion hyn ar gyfer newid yn dod ar adeg pan mae'r holl ysgolion newydd ddod allan o bandemig COVID, a'i oblygiadau ar gyfer lleihau gwytnwch staff a'r cynnydd yn anghenion disgyblion a theuluoedd yn parhau.*
- *Dywedwyd hefyd bod staff mewn rhai lleoliadau wedi bod ar daith uwch a chyflym i wella ysgolion trwy gydol y cyfnod, gan arwain at adroddiadau cadarnhaol iawn gan ESTYN, yn y gobaith y byddai hyn yn arwain at ddyfodol diogel a sefydlog i bawb. Erbyn hyn mae'r staff hyn yn dweud eu bod yn teimlo'n agored iawn i niwed a bod y gwaith y maen nhw'n ei wneud yn cael ei danbriso.*
- *Byddem yn disgwyl i'r rhai sy'n cynnig newid fod yn ystyriol o'r cyd-destun y mae'r newid yn cael ei awgrymu ynddo, ac i sicrhau bod cymorth priodol i staff yn cael ei roi ar waith yn ystod bob cam, pe bai cynlluniau'n cael eu datblygu.*
- *Rydym yn falch bod gan ALI Caerdydd ymrwymiad sydd wedi'i gyhoeddi'n dda i beidio â diswyddo'n orfodol lle bynnag y bo modd, ond nodwn hefyd nad oes posibilrwydd datganedig o drosglwyddo staff yn uniongyrchol pe bai unrhyw un o'r ysgolion yn cau, gan adael cyflogaeth barhaus staff mewn perygl. ... Byddem yn disgwyl i'r cyflogwr/cyflogwyr sicrhau bod swyddi a bywoliaeth staff presennol sy'n dymuno cael eu cyflogi mewn unrhyw ffurf newydd o ddarpariaeth yn cael eu diogelu a bod staff yn cael eu diogelu cyn belled ag y bo modd rhag niwed yn ystod unrhyw broses ailstrwythuro.*
- *mae'r safleoedd ysgol hyn wedi bod yn destun gwaith atgyweirio sylweddol a pharhaus dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae staff wedi mynegi siom na fyddant efallai'n cael mwynhau'r adeiladau gwell yn dilyn y blynyddoedd o weithio o dan amodau swnllyd ac o darfu.*

- *Mae pryder hefyd, pe bai cynlluniau'n cael eu datblygu, y byddai hyn yn golygu cyfnodau pellach o amharu estynedig tra bod adeiladau'r ysgolion yn cael eu haddasu ymhellach i gyd-fynd ag anghenion unrhyw un o'r patrymau arfaethedig. Mae potensial hefyd i waith o'r fath rwystro datblygiad addysgol pellach yr ysgolion yn y tymor byr.*
- *dangoswyd yn y gorffennol bod effaith dechrau ymgynghoriad ar ddiwygio darpariaeth addysgol yn y gorffennol yn meddu ar y potensial i darfu ar daith wella'r ysgolion dan sylw, oherwydd creu ansicrwydd. Gall ansicrwydd o'r fath achosi i rieni ddewis anfon eu plant i ysgolion eraill lle mae'r dyfodol yn hysbys ac na fydd yn destun yr un ansicrwydd/tarfu. Gallai hyn effeithio ar y niferoedd sy'n dechrau yn y dosbarth derbyn, ond hefyd ar ddisgyblion sy'n mynychu ar hyn o bryd, yn enwedig ysgolion Allensbank a Gladstone, lle mae'r cynigion yn cynnwys symud safle a newidiadau i strwythurau staffio ac arweinyddiaeth yr ysgolion.*
- *Mae yna ofnau y byddai hyn yn sbarduno ymateb negyddol i'r gadwyn o ostyngiad yn nifer y disgyblion gan arwain at waethygu'r heriau ariannol yn y tymor byr, gan arwain at ddyfodol llai cynaliadwy ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg yn gyffredinol. Os yw teuluoedd yn gadael y dalgylch, byddai hyn yn arwain at gyfnod o ansefydlogrwydd ariannol p'un a oes unrhyw newid neu ffederasiwn neu uno. Pa amddiffyniadau allai'r ALI eu rhoi ar waith yn ystod unrhyw gyfnod pontio i wrthsefyll effaith anawsterau posibl o'r fath?*
- *Mae'n rhaid cynllunio trefniadau ar gyfer unrhyw gyfnod o newid/pontio yn dda a'u cefnogi'n briodol i sicrhau na chollir y gwelliannau addysgol presennol, neu fod rhagolygon yr holl ysgolion yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn llai cadarnhaol yng ngolwg rhanddeiliaid allanol fel Consortiwm Canolbarth y De neu Estyn. Byddai hyn yn anodd i'r holl staff sydd wedi gwneud cymaint o ymdrech i gyflawni eu sgorau da presennol.*
- *Rydym yn falch bod y cynigion yn cadw'r holl adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ac y bydd eu defnydd yn y dyfodol fel ysgolion cynradd. Mae'r adeiladau hyn yn allweddol nid yn unig i addysg y plant y maent yn eu gwasanaethu, ond hefyd i'w teuluoedd a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Mewn ardaloedd lle mae llawer iawn o amrywiaeth ieithyddol ac ethnig fel hyn, ni ddylid amcangyfrif yn rhy isel pwysigrwydd croesawu yn y gymuned i ysgolion wrth ddathlu amrywiaeth a datblygu ymdeimlad o gydlyniant cymunedol. Mae gan ysgolion fel Santes Monica, Allensbank a Gladstone genedlaethau o brofiad o wneud hyn, a rhaid i unrhyw gynig am newid ystyried sut y gellir effeithio ar hyn naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol.*
- *Rydym yn gwerthfawrogi na fydd modd hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach yn yr ardal hon nes y bydd safle addas yn cael ei nodi, ac rydym yn gwerthfawrogi mai dim ond o ganlyniad i bolisi Cenedlaethol y mae ALI Caerdydd wedi ymrwymo iddo y bydd cyllid ychwanegol ar gael ac yn cael ei wario ar ehangu addysg cyfrwng Cymraeg.*

- *Mae'r ddau faes y bydd angen eu hystyried ymhellach yn ymwneud â'r gostyngiad presennol yng nghyfraddau genedigaethau a nodwyd sy'n effeithio ar niferoedd mynediad i'r dosbarth derbyn, gan gynnwys y rhai yn Ysgol Mynydd Bychan y mae gan eu dosbarth derbyn leoedd gwag ar hyn o bryd, a'r ymgyrch tuag at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.*
- *gellir ond cyflawni'r cynlluniau i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 os ydym yn cefnogi dysgu'r Gymraeg i bawb yn y gweithlu addysg. Byddem yn annog y cynigion i gynnwys ystyried datblygu unrhyw gyfleoedd ar gyfer sgiliau Cymraeg y rhai y tu hwnt i leoliad cyfrwng Cymraeg ym maes defnyddio'r Gymraeg mewn addysg, gan ein bod yn gweld y cyfleoedd ar gyfer hyfforddi'r gweithlu yn hanfodol i ysgolion Caerdydd chwarae eu rhan wrth helpu'r ALI i gyflawni eu targedau yn y maes hwn.*
- *ystyried yn ofalus ai ysgol cyfrwng Cymraeg dwy ffrwd yn hytrach nag 1.5 yw'r gorau yn y tymor canolig i sicrhau nad oes gormod o leoedd gwag yn cael eu creu, gan arwain at brofi pwysau ariannol, yn enwedig yng ngoleuni tueddiadau genedigaethau. Yn wir, gall fod yn bosibl ym mlynedd cyntaf unrhyw ehangu, lle nad yw'r niferoedd ar gyflenwad llawn, i ddefnyddio unrhyw leoedd gwag ar gyfer datblygu sgiliau'r Gymraeg ar gyfer y gweithlu addysg ehangach yng Nghymru, a'r gymuned leol.*
- *Rydym yn croesawu'r potensial i wella proffil amrywiaeth ethnig Ysgol Mynydd Bychan, ond oherwydd tebygrwydd cyfeiriadau'r rhai sy'n mynychu'r ysgol honno a'r rhai sy'n mynychu Allensbank a nodwyd yn yr ymgyngoriad, rydym yn disgwyl na fydd hyn yn cael ei newid trwy adleoli'r ysgolion yn unig. Bydd gwaith pellach, fel yr hyn sy'n cael ei wneud gyda grwpiau Lleiarioedd Ethnig fel yr amlinellir yn y CSCA yn allweddol i unrhyw welliannau.*
- *Roeddem yn falch bod lefelau symudedd disgyblion wedi'u cynnwys yng nghefnidir y cynigion. Byddem yn disgwyl y bydd digon o leoedd i ddisgyblion yn cael eu darparu, yn enwedig yn achos Santes Monica, i ddarparu'r hyblygrwydd angenrheidiol sydd ei angen.*
- *Er bod arbedion posibl wedi'u nodi yn yr opsiwn ffederasiwn/cydweithio agosach rhwng Gladstone ac Allensbank, byddai angen rhoi sicrwydd pellach na fydd y cynnig hwn yn golygu 'man canol' ar hyd y llwybr tuag at y posibilrwydd o gau un neu'r ddwy ysgol sy'n rhan o gynnydd yn y dyfodol. Os rhoddir y sicrwydd hwn, gall wneud yr opsiwn hwn yn fwy deniadol i ymgyngoreion gan ei fod yn cadw dwy ysgol adnabyddus yng Nghaerdydd, wedi'u trwytho yn hanes a datblygiad cymuned Cathays, ac yn caniatáu i'r ddwy hunaniaeth unigryw barhau.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

88. Cydnabyddir ymrwymiad a gwaith staff ym mhob ysgol yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 ac yna yn y cyfnod adfer. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi'u cyflwyno o fewn cyd-destun cwmparhaus yn y gyfradd genedigaethau a newidiadau i batrymau mudo yn y ddinas, yr angen i gydbwyso capasiti ysgolion yn well gyda'r rhagolygon manteisio ar leoedd i ganiatáu defnydd mwy

effeithiol o adnoddau ariannol yr ysgolion gyda chyfran fwy o gyllidebau ysgolion ar gael ar gyfer addysgu a dysgu ac ymrwymadau polisi cenedlaethol.

89. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r effaith ar staff yn yr ysgolion dan sylw ac mae Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wedi ymrwymo i barhau i weithio'n uniongyrchol gyda'r ysgolion dan sylw, a gydag undebau llafur, i sicrhau bod staff yn cael cymorth drwy'r broses newid.
90. Mae strwythur staffio ysgolion yn cysylltu'n uniongyrchol â nifer y disgyblion ar y gofrestr ac mae unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch staffio yn fater i'r Corff Llywodraethu perthnasol gan ystyried yr adnoddau ariannol sydd ar gael.
91. Lle mae nifer uwch na'r angen o leoedd mewn ysgol, mae'n rhaid defnyddio rhai adnoddau mewn modd aneffeithlon a gellid eu defnyddio'n well i wella ansawdd addysg pob dysgwr. Ynghyd â hyn mae'r anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu ysgol gynradd sydd â chyfran uchel o'i lleoedd heb eu llenwi. Mae ysgolion llai, a'r rhai sydd â chyfran uwch o leoedd heb eu llenwi, yn fwyaf tebygol o wynebu anawsterau ariannol.
92. Mae Tabl 1 isod yn nodi sefyllfa gyllidebol yr ysgolion lle cynigir newidiadau.

Ysgol	Balans a ddygwyd ymlaen Ebrill 2022	Cyllideb Gymeradwy'r Llywodraethwyr 2022/23	Balans a ddygwyd ymlaen Ebrill 2023	Cyllideb Gymeradwy'r Llywodraethwyr 2023/24
	£	£	£	£
Allensbank	23,757	-132,301	-50,628	-274,788
Gladstone	84,651	0	-39,428	-164,920
Y Santes Monica	41,804	0	34,320	-66,726
Ysgol Mynydd Bychan	170,220	86,286	118,001	17,057

93. Mae nifer cyfunol y disgyblion sy'n cofrestru yn Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyd-fynd â'r niferoedd is sy'n cael eu derbyn i addysg gynradd ledled y ddinas, a rhagwelir y bydd hyn yn parhau tan o leiaf 2025/2026.
94. Mae'r rhan fwyaf o gyllideb ysgol yn cael ei dyrannu i staffio. Mewn cyfnod o leihau nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i ysgolion cynradd, a phan fo angen i ysgolion nodi arbedion o fewn eu cyllidebau unigol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb, gall nifer y staff a gyflogir leihau p'un a yw cynigion i ad-drefnu yn cael eu datblygu ai peidio.
95. Un o ddyheadau allweddol y Cyngor yw sicrhau cyn lleied â phosibl o ostyngiadau yn nifer y staff drwy adleoli cynifer â phosibl yn hytrach nag ymddiswyddo gwirfoddol neu orfodol. Felly, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i staff ysgolion i sicrhau cyflogaeth mewn

ysgolion eraill yng Nghaerdydd trwy adleoli i swyddi gwag mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.

96. Mae'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol a sefydlu ysgol gynradd dau ddsbarth mynediad newydd (Opsiw 1) yn rhoi staff mewn perygl o ddiswyddiadau a byddai angen rheoli hyn yn unol â'r Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion.
97. Mae nifer y rolau addysgu a dysgu sydd eu hangen mewn ysgol gynradd mynediad dau ddsbarth mynediad yn debyg i'r swm sydd ei angen ar gyfer dwy ysgol gynradd ag un dosbarth mynediad. Fodd bynnag, byddai'r math a'r nifer o rolau sydd eu hangen yn ddibynnol ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ac ar sefyllfa cyllideb yr ysgol.
98. Lle mae rolau'n cael eu dyblygu, e.e. swyddi Pennaeth a Dirprwy Bennaeth, staff gweinyddol ac ystadau, disgwylir y byddai gostyngiad yn nifer y rolau sydd eu hangen yn gyffredinol.
99. Byddai sefydlu ysgol newydd yn golygu bod angen sefydlu Corff Llywodraethu dros dro i oruchwyllo'r gwaith o ddatblygu strwythur staffio priodol a phenodiadau i hwn. Byddai penodiadau i'r ysgol newydd, ac eithrio rôl y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth, a fyddai'n destun hysbyseb genedlaethol yn unol â gofynion cyfreithiol, yn cael eu neilltuo yn y lle cyntaf i staff presennol Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn amodol ar gytundeb y Corff Llywodraethu dros dro.
100. Byddai Opsiw 2 ac Opsiw 3 yn caniatáu i Gyrrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ystyried gweithio ar y cyd neu sefydlu ffederasiwn ffurfiol.
101. Gallai ffederasiwn arwain at ostyngiad yn nifer y rolau arwain yn gyffredinol ar draws y ddwy ysgol gan ddibynnu ar y model a gymerir ymlaen.
102. Byddai'r trefniadau adleoli hefyd yn cael eu hystyried pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i adleoli'r dosbarth Lleferydd ac Iaith o Ysgol Gynradd Allensbank i gylch gwaith Corff Llywodraethu ysgol arall.
103. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â gwaith adeiladu ym mharagraffau 52 - 56.
104. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf.
105. Mae'r safonau addysg yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.
106. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen nac unrhyw gyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn Ysgol Gynradd Allensbank.

107. Cydnabyddir y potensial i newidiadau arfaethedig effeithio ar ddewis rhieni, ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda'r pedair ysgol i sicrhau bod ansawdd a safonau'n cael eu cynnal gan ganiatáu tawelu unrhyw ofnau y gallai fod gan rieni.
108. Os bwrir ymlaen â'r newidiadau arfaethedig, byddai swyddog arweiniol prosiect yn cael ei neilltuo i weithio gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu rhaglen fuddsoddi fanwl. Byddai'r rhaglen hon yn cynnwys y gwaith arfaethedig, trefniadau pontio, iechyd a lles disgyblion a staff ac amserlen y gwaith hwn.
109. Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau i'r llety, cyfleusterau na gwasanaethau sydd ar gael. Nodir ystod o fuddion sy'n benodol i bob opsiwn yn y ddogfen ymgynghori a disgwylir y byddai ysgolion yn parhau i ddiwallu anghenion amrywiol y gymuned leol.
110. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â niferoedd gostyngol ar gofrestr ysgolion a pholisi cenedlaethol ym mharagraffau 13 – 26 a pharagraffau 37 – 42.
111. Mae twf sylweddol yn y gweithlu sy'n gallu dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig er mwyn i Gaerdydd lwyddo i sicrhau twf siaradwyr Cymraeg drwy gyfrwng addysg yn ein hysgolion a chyfleoedd dysgu ehangach.
112. Bydd y disgwyliadau uwch i addysgu a dysgu gan ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn ysgolion Saesneg hefyd yn golygu bod angen gwella sgiliau ar draws llawer o'r gweithlu addysgu a dysgu.
113. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghonsortium Canolbarth y De (CCD) i gynllunio a chefnogi staff ysgolion ar draws pob sector i wella eu sgiliau Cymraeg ymhellach ynghyd â darparwyr hyfforddiant y gweithlu Addysg Hyfforddiant Gychwynnol a'r gweithlu Gofal Plant cyfrwng Cymraeg i gefnogi cynnydd mewn Athrawon Newydd Gymhwyso, staff cymorth dysgu ac ymarferwyr gofal plant er mwyn helpu i leihau'r prinder gweithlu a ragamcenerir yn y dyfodol a sicrhau y gellir gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol ar y cyd yn effeithiol yn y dyfodol.
114. Amlinellir manylion sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu nifer y staff addysgu/cymorth sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) mabwysiedig (Deilliant 7).
115. Gellir gweld copi o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn [www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk).
116. Ymgynghorwyd ar gynnig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i 1.5 dosbarth mynediad yn flaenorol ond ni chafodd ei ddatblygu.
117. Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y poblogaethau yn Ysgol Mynydd Bychan ac ysgolion cyfrwng Saesneg lleol. Mae'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth a nodir yng

Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn data demograffig rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Disgwylir i'r newidiadau hyn leihau'r gwahaniaeth mewn data ethnigrwydd rhwng dysgwyr sy'n cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan a'i hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg cyfagos.

118. Mae symudedd disgyblion yn cyfeirio at ganran y plant sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n symud i mewn neu allan o'r ysgol mewn cyfnod diffiniedig. Mae gan rai ysgolion drosiant llawer mwy o ddisgyblion nag ysgolion eraill am amryw resymau.
119. Mae data symudedd disgyblion Ysgol Mynydd Bychan yn isel iawn (1.3% y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y tair blynedd diwethaf), sydd yn rhannol yn adlewyrchu gordanysgriadiad yr ysgol o ran mynediad i'r dosbarth Derbyn. Mae pob un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn gweld symudedd disgyblion o 10% neu fwy bob blwyddyn ac adroddodd Ysgol Gynradd Allensbank "*Lefelau symudedd disgyblion o hyd at 40% ar draws un flwyddyn academaidd*" yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol ar gynigion.
120. Ar hyn o bryd, nid yw teuluoedd sy'n symud i'r ardal wedi'r dyddiad cau ar gyfer mynediad i'r dosbarth Derbyn fel arfer yn gallu cael mynediad i Ysgol Mynydd Bychan a gallai ysgol cyfrwng Cymraeg amgen fod cryn bellter o gyfeiriad cartref y teuluoedd hynny.
121. Mae'r newidiadau arfaethedig yn gwella gallu'r ymgeiswyr hynny sy'n symud i'r ardal i gael mynediad teg i leoedd ysgol yn y naill gyfrwng iaith. Mae'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth a nodir yn CSCA y Cyngor hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn data demograffig rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Disgwylir i'r newidiadau hyn leihau'r gwahaniaeth yn y data symudedd disgyblion rhwng Ysgol Mynydd Bychan a'i hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg cyfagos.
122. O dan Opsiwn 2, lle mae'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn rhannu safle, gallai ffederasiwn gael ei gyflwyno gan y cyrff llywodraethu presennol. Gall y Cyrff Llywodraethu hefyd ystyried ffederasiwn dros safleoedd ar wahân, o dan Opsiwn 3.
123. I fod yn llwyddiannus, mae angen i ffederasiwn fod yn seiliedig ar ymrwymiad i weithio gyda'i gilydd a pharodrwydd i wneud pethau'n wahanol er budd ychwanegol yr holl ddisgyblion, eu lles a'u cyflawniadau. Mae profiad ysgolion sydd wedi ffedereiddio yn dangos bod datblygu'r holl ysgolion a'u cymunedau o fewn y ffederasiwn a rhannu arferion gorau yn helpu i wella safonau a gwella perfformiad.
124. Byddai unrhyw ffederasiwn/cydweithrediad agosach rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cael ei gyflwyno er budd dysgwyr presennol a dysgwyr y dyfodol.

## **Esgobaeth Llandaf**

125. Cyflwynodd Esgobaeth Llandaf ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

- *Mynegodd yr Esgobaeth gefnogaeth i Opsiwn 1 gan nodi'r pwyntiau canlynol:*
  - *Mae ethos ffydd Gristnogol yr ysgol yn profi'n ddeniadol iawn i Gristnogion a rhai o grefyddau eraill. Mae gormod o alw am leoedd yn llawer o'r grwpiau blwyddyn presennol yn Santes Monica.*
  - *Dylid trin dewis rhieni yn deg ac felly mae cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgol ffydd yn gam cadarnhaol i fynd i'r afael â galw am leoedd sydd yn amlwg yn uchel.*
  - *Byddai darpariaeth y blynyddoedd cynnar wedi ei adnewyddu yn Santes Monica yn cael ei defnyddio'n dda gan ysgol a dosbarth meithrin newydd.*
  - *Mae ardaloedd awyr agored presennol yn gwbl annigonol ar gyfer maint yr ysgol bresennol.*
  - *Ni fyddai'r adeiladau presennol yn gallu darparu ar gyfer symud i brydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd gan fod cyfleusterau'r gegin bresennol yn gwbl annigonol.*
- *Nid oedd yr Esgobaeth yn cefnogi Opsiwn 2 gan nodi'r pwyntiau canlynol:*
  - *Mae'r safle presennol yn cyflwyno gormod o gyfyngiadau fel safle a rennir. Mae maint anghymesur presennol yr ardal awyr agored yn cyfyngu'r ddarpariaeth sydd ar gael i blant ar gyfer chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn Santes Monica, sydd ddim yn deg i blant.*
- *Nid oedd yr Esgobaeth yn cefnogi Opsiwn 3 gan nodi'r pwyntiau canlynol:*
  - *Mae safle presennol Santes Monica wedi'i gyfyngu gan argaeledd gofod awyr agored a chyfleusterau annigonol ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd.*
  - *Mae galw uchel amlwg am leoedd yn arwydd o'r angen i ehangu darpariaeth lleoedd i rieni sy'n dymuno dewis opsiwn ffydd ar gyfer addysg eu plentyn. Dylid trin hyn mewn ffordd deg a chyfartal ac ehangu'r ddarpariaeth ffydd fel cynnig i rieni.*
  - *Nododd yr Esgobaeth y dylid ond symud Santes Monica ar yr amod bod yr adeilad newydd yn cael ei adolygu o ran ei gyflwr addurnol, y dodrefn a'r cyfleusterau heb unrhyw gost i'r ysgol. Byddai hyn yn cynnwys sefydlu man addoli addas yn yr ysgol ac adleoli'r cerflun o Santes Monica o'r lleoliad presennol i'r safle newydd.*

**Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**



126. Nodir cefnogaeth yr Esgobaeth i Opsiwn 1.
127. Mae'r newidiadau a gynigir o dan Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 yn ceisio sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica a'r manteision sy'n gysylltiedig â hyn. Byddai'r potensial i'r ysgol gynyddu nifer y lleoedd oedran statudol i ddysgwyr 4 – 11 oed i gapasiti cyfatebol Ysgol Mynydd Bychan yn fater i Gorff Llywodraethu yr ysgol ei ystyried a gall fod yn destun ymgynghoriad a phrosesau statudol ar wahân.
128. Nodir y pwyntiau a godwyd ynglŷn â'r trefniant rhannu safle presennol. Byddai'r newidiadau a gynigir o dan Opsiwn 1 yn rhoi'r gorau i'r trefniadau rhannu safle. O dan Opsiwn 2 byddai'r trefniadau yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrrff Llywodraethu'r ysgolion (neu'r Corff Llywodraethu ffederal) benderfynu ar y ffordd orau o rannu adeiladau a gofod awyr agored.
129. Byddai'r Cyngor yn gwneud trefniadau priodol gyda phob un o'r Cyrrff Llywodraethu i fwrw ymlaen ag ad-drefnu darpariaeth a throsglwyddo dodrefn ac adnoddau i safleoedd eraill.

### **Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank**

130. Cyflwynodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)
- *Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni nodi'r pryder y mae'r cynigion hyn wedi'i achosi ac yn dal i'w achosi i aelodau staff Allensbank sydd wedi gweithio'n ddiflino ers blynyddoedd lawer i wella profiad disgyblion yn yr ysgol, gan barhau i weithio gyda'u hymroddiad arferol drwy'r straen diweddar o Covid a gwaith adeiladu helaeth.*
  - *Ar ôl dioddef anghyfleustra enfawr y newidiadau a'r gwaith adeiladu parhaus, mae cael gwybod nawr mai pobl eraill fydd ar eu hennill yn teimlo fel brad llwyr.*
  - *Nid yw hon yn ysgol sy'n methu fel y gwelir yn adroddiad diweddaraf Estyn:*  
  
*'Mae holl staff Ysgol Gynradd Allensbank yn gweithio'n ddiwyd i greu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol. Mae'r berthynas gadarnhaol a chefnogol rhwng disgyblion a phob oedolyn yn gryfder i'r ysgol. Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n fedrus i greu darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar gyflawniad disgyblion a'u hymdeimlad o les. Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir ochr yn ochr â thîm ymroddedig o staff sy'n dangos ymrwymiad cryf tuag at gefnogi eu holl ddisgyblion i gyflawni a ffynnu.'*
  - *Mae'r ymgynghoriad cyfan yn ddiffygiol am y rhesymau canlynol:*
    - *Ni chafwyd unrhyw drafodaeth o gwbl gyda'r partion dan sylw, h.y. Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Gynradd Gladstone*

ac Ysgol Gynradd Santes Monica i archwilio opsiynau cyn cyhoeddi'r ddogfen. Byddai hon wedi bod yn broses ragarweiniol synhwyrol i drafod safbwyntiau a barn.

- *Nid yw'r opsiynau a awgrymir yn cynnwys yr holl opsiynau posibl, dim ond y rhai sy'n arwain at adleoli Ysgol Mynydd Bychan i safle Allensbank gyda'r holl waith adnewyddu wedi'i gwblhau. Yr opsiwn mwyaf amlwg ac nid annhebyg sydd wedi cael ei adael allan yw symud Ysgol Gynradd Gladstone i safle Allensbank sydd newydd gael ei adnewyddu. Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr yn Gladstone yn llai na'r nifer sydd ar y gofrestr yn Allensbank, felly byddai hyn yn amharu ar lai o ddisgyblion. Yna byddai'r adeilad yn agos at ei gapasiti, (ond pe bai Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Allensbank byddent i ddechrau, ac am y dyfodol rhagweladwy, yn gorfod delio â phroblemau adeilad sy'n rhy fawr). Byddai hyn wedyn yn caniatáu i Ysgol Mynydd Bychan symud i safle Gladstone sydd mewn gwirionedd yn fwy canolog o fewn ei dalgylch*
- *Ar hyn o bryd mae 203 o ddisgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Mynydd Bychan gyda 181 o'r rhain o fewn y dalgylch. Mae gan Gladstone 210 o leoedd ond digon o le ar gyfer hyd at 270 o leoedd, pe byddai ystafelloedd adnoddau yn cael eu neilltuo fel ystafelloedd dosbarth. Byddai hyn felly yn caniatáu ehangu Ysgol Mynydd Bychan gan hyd at 90 o ddisgyblion o'r dalgylch heb unrhyw broblemau o ran adeilad sy'n rhy fawr.*
- *Os, ac o ystyried y dirywiad mewn siaradwyr Cymraeg dros y 10 mlynedd diwethaf mae hyn yn parhau i fod yn ansicrwydd mawr, byddai angen ehangu pellach, byddai posibilrwydd o ehangu i safle Santes Monica ac i Santes Monica gael ei hadleoli rhywle arall. Byddai gan yr opsiwn hwn hefyd y fantais o ryddhau safle presennol Ysgol Mynydd Bychan i'w ddatblygu, o bosibl fel ysgol Gymraeg bwrpasol neu o bosibl i leddfu'r prinder llety presennol yng Nghaerdydd.*
- *Fel arall, gallai Santes Monica, fel y cynigir, gael ei symud i safle Ysgol Mynydd Bychan gan adael safle presennol Santes Monica'n wag ar gyfer ehangu posibl Ysgol Mynydd Bychan yn y dyfodol. Unwaith eto byddai hyn yn osgoi'r anhawster i Ysgol Mynydd Bychan o adeilad sydd yn rhy fawr yn y dyfodol uniongyrchol.*
- *O ran yr opsiynau fel y nodir yn y cynigion hyn, (nid oes croeso i unrhyw un ohonynt): Rydym o'r farn bod dewisiadau 2 a 3 yn gwbl annerbyniol tra bod opsiwn 1 yn annymunol ac wedi ei greu'n wael.*
- *Yn olaf, er ein bod yn gwerthfawrogi nodau strategaeth Gymraeg y llywodraeth ac yn ymwybodol o'r angen am gapasiti ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd, rydym yn bryderus ac yn siomedig y byddai'r cynigion hyn pe baent yn cael eu gweithredu yn niweidiol i rai o'r plant tlotach, mwy agored i niwed a mwy difreintiedig yn ein cymuned.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

131. Cydnabyddir effaith y newidiadau arfaethedig ar staff ac mae Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r holl ysgolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol.
132. Byddai cymorth llawn yn cael ei gynnig i gyflogeion a'r Cyrff Llywodraethu gan Wasanaethau Pobl AD drwy gydol y broses ad-drefnu. Byddai hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd ymgynghori, cyfarfodydd â staff yr ysgol, gan gynnwys trafodaethau ag unigolion lle bo hynny'n briodol a dosbarthu dogfen Cwestiynau Cyffredin.
133. Mae Academi'r Cyngor yn darparu cyrsiau y gall cyflogeion eu cyrchu ar sgiliau ymgeisio am swyddi a chyfweliadau, cynllunio ar gyfer cyn ymddeol yn y dyfodol, Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a sgiliau digidol, sy'n cynnwys Excel, Word a PowerPoint.
134. Fel rhan o gymorth iechyd a lles y cyngor, mae gan weithwyr fynediad at Care First, sef y rhaglen cymorth cyflogeion. Cynlluniwyd Care First i helpu cyflogeion gydag ystod eang o faterion gwaith, teuluol a phersonol. Mae'r gwasanaeth ar gael am ddim 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn a hynny dros y ffôn neu ar-lein.
135. Yn ogystal â Care First, mae gan y cyngor ei wasanaeth cwnsela cyflogeion mewnol ei hun sydd ar gael i gyflogeion. Cyflwynir sesiynau mewn grwpiau o 4 – 8 ac maent yn wirfoddol ac yn gyfrinachol.
136. Cydnabuwyd ansawdd a safonau addysg Ysgol Gynradd Allensbank a phob ysgol sy'n destun y cynigion yn y ddogfen ymgynghori.
137. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi'u cyflwyno o fewn cyd-destun cwmparhaus yn y gyfradd genedigaethau a newidiadau i batrymau mudo yn y ddinas, yr angen i gydbwysu capasiti ysgolion yn well gyda'r rhagolygon manteisio ar leoedd i ganiatáu defnydd mwy effeithiol o adnoddau ariannol yr ysgolion gyda chyfran fwy o gyllidebau ysgolion ar gael ar gyfer addysgu a dysgu ac ymrwymadau polisi cenedlaethol.
138. Trafodir materion sy'n ymwneud ag ymgysylltu â phob un o'r ysgolion cyn yr ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion ym mharagraffau 6 – 8.
139. Gofynnodd y Cyngor am farn rhanddeiliaid gan gynnwys Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ar newidiadau hirdymor i ddarpariaeth ysgolion er mwyn cynnig cydbwysedd priodol o leoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal. Mae'r cynigion arfaethedig yn mynd i'r afael â'r problemau a sbardunodd y cynigion cynharach ac yn ystyried y materion a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu hon.
140. Ymdrinnir â materion yn ymwneud â'r opsiwn amgen i leoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safle Ysgol Gynradd Gladstone ym mharagraffau 59 – 62.
141. Nodir bod y Corff Llywodraethu yn gwrthod y tri opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt.

142. Nid yw'r Cyngor yn derbyn y sylw pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu y byddai'n niweidiol i rai o'r plant tlotach, mwy agored i niwed a mwy difreintiedig. Cyflwynwyd y cynigion er mwyn darparu cydbwysedd mwy priodol o leoedd ac i sicrhau bod modd buddsoddi lefel uwch o gyllid mewn addysgu a dysgu. Mae safon yr addysg ym mhob ysgol sy'n destun y newidiadau arfaethedig yn dda. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, disgyblion sy'n derbyn cymorth oherwydd bod ganddynt Saesneg fel iaith ychwanegol, disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol na disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae manteision clir yn gysylltiedig â phob opsiwn a fyddai'n gwella cyfleoedd dysgu i bob dysgwr. Fel yr amlinellwyd yn ymateb Estyn, mae pob un o'r tri opsiwn yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

### **Pennaeth Ysgol Gynradd Allensbank**

143. Cyflwynodd Pennaeth Ysgol Gynradd Allensbank ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

- *Nid oes unrhyw un o'r cynigion yn ddymunol ar gyfer Allensbank. Opsiwn un, fodd bynnag, yw'r unig gynnis a gyflwynwyd sy'n darparu lefel o ddiogelwch i'r mwyafrif o staff Allensbank.*
- *Mae Opsiwn Un wedi achosi llawer o ofid i staff ymroddedig a llwyddiannus iawn sydd wedi gweithio'n ddiflino i wella'r ysgol. Gyda chau Allensbank a Gladstone a sefydlu ysgol newydd daw'r potensial am golli swyddi ac felly ni ddylid amcangyfrif yn rhy isel yr effaith ar les staff pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei ddwyn ymlaen.*
- *Y prif wrthwynebiad i'r cynnig hwn yw na fu unrhyw fath o drafodaeth gydag ysgolion ar unrhyw adeg ynghylch ble byddai'n well lleoli'r ysgol fwy hon.*
- *Mae'r pellter rhwng safleoedd presennol Gladstone ac Allensbank yn fach iawn. Yn sicr wedyn, dylid bod wedi ystyried pa safle fyddai fwyaf addas at y diben hwn. (Cyfeiriaf at hyn ymhellach yn fy awgrymiadau ar gyfer cynigion amgen).*
- *Rwy'n credu bod Opsiwn 2 yn annerbyniol.*
- *Gydag Allensbank o bosibl yn cael ei lleihau i gapasiti o 210 o ddisgyblion, mae'n amlwg y byddai angen i'r ysgol rannu adeiladau/gofod awyr agored ag Ysgol Gynradd Gladstone. Er bod Allensbank bob amser wedi cael perthynas gadarnhaol iawn ag Ysgol Gynradd Gladstone ac y byddai'n amlwg yn ceisio cynnal hyn, byddai pryderon ynghylch cydleoli. Byddai'r baich o rannu cyfleusterau ar safle sydd eisoes â nifer cyfyngedig o fannau dysgu awyr agored yn ei gwneud yn anodd rheoli iechyd a diogelwch a threfniadau diogelu disgyblion.*
- *Byddai'r gostyngiad yn nifer y disgyblion a chael gwared ar ddarpariaeth Feithrin hefyd yn cael effaith drychinebus ar Ysgol Gynradd Allensbank o ran*

*cyllid a'r gallu i ddenu derbyniadau newydd o fewn dosbarthiadau Derbyn bob blwyddyn.*

- *Rwy'n credu bod Opsiwn 3 yn annerbyniol.*
- *Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ostyngiad mawr yn nifer y disgyblion ac felly'n lleihau'n sylweddol yr arian a dderbynnir gan Ysgol Gynradd Allensbank.*
- *Ar hyn o bryd nid yw'r cyllid ar gyfer ysgol un dosbarth mynediad yn ddigonol i wneud ysgolion bach yn hyfyw yn ariannol. Canlyniad y cynnig hwn fyddai y byddai Allensbank yn cynnal colled ariannol enfawr o ran incwm. Byddai hyn felly yn y pen draw yn golygu diffyg sicrwydd swyddi i holl staff presennol Allensbank.*
- *Mae'r tri chynnig yn seiliedig ar y dybiaeth y dylai Ysgol Gynradd Allensbank symud o'i hadeilad presennol.*
- *Dewis amgen clir i'r cynnig hwn fyddai cau Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd Allensbank wrth letya ysgol cyfrwng Saesneg newydd ar safle Allensbank.*
- *Mae adeilad Allensbank yn gallu darparu ar gyfer Ysgol Gynradd 2 ddosbarth mynediad yn gyfforddus tra hefyd yn caniatáu darpariaeth ar gyfer parcio staff.*
- *Mae llai o ddisgyblion ar y gofrestr yn Gladstone ac felly byddai'n tarfu ar lai o ddisgyblion o ran eu hadleoli.*
- *Byddai adeilad Gladstone yn gartref cyfforddus i Ysgol Mynydd Bychan gyda'r opsiwn i ehangu ymhellach i safle Santes Monica pe bai angen. Byddai hefyd yn gosod Ysgol Mynydd Bychan yn fwy canolog o fewn ei dalgylch.*
- *Byddai lleoli Ysgolion Cynradd Gladstone ac Allensbank ar safle presennol Allensbank yn golygu tarfu ar addysg llai o ddisgyblion.*
- *Byddai lleoli Ysgol Mynydd Bychan ar safle Gladstone yn caniatáu mynediad haws i rieni, yn enwedig o ran fwy ddeheuol y dalgylch.*
- *Mae'r opsiwn hwn hefyd yn rhoi'r gallu i Ysgol Mynydd Bychan dyfu dros amser. Mae'n lleihau maint y gofod nad yw'n cael ei ddefnyddio yn yr ardal nes bod ei angen, am y gallai adeilad Santes Monica sydd ar wahân gael ei ddefnyddio gan y gymuned ehangach. Rhai enghreifftiau o ddefnydd dros dro posibl fyddai ar gyfer dosbarthiadau Saesneg fel Iaith Ychwanegol i rieni yn y gymuned amrywiol hon, Hyb cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd angen cymorth neu le i grwpiau cymunedol gwrdd a thrwy hynny darparu incwm i'r Awdurdod Lleol.*

- *Fel pennaeth Ysgol Gynradd Allensbank ers 2013, rwy'n falch o fod wedi arwain tîm ymroddedig o staff i sicrhau bod yr ysgol yn diwallu anghenion disgyblion o'r gymuned hynod amrywiol hon.*
- *Mae'r cynigion yn cael eu gorfodi arnom fel ysgol a chymuned nad yw eisiau newid. Yn hytrach, byddai'n well gennym gael ein hariannu a chael adnoddau priodol er mwyn parhau i ddiwallu anghenion ein dysgwyr.*
- *Mae'r ysgol wedi wynebu heriau enfawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd effaith Covid-19 ond hefyd y gwaith adeiladu sylweddol sydd wedi effeithio ar fywyd bob dydd ein hysgol dros y 4 blynedd diwethaf. Mae'r staff wedi dioddef yr holl bwysau hyn wrth barhau i ganolbwyntio'n gadarn ar ddisgyblion ac ethos unigryw yr ysgol. Maen nhw nawr yn wynebu blynyddoedd pellach o darfu yn yr adeilad gan wybod na fyddan nhw o bosibl yn elwa mewn unrhyw ffordd ar y gwelliannau i'r adeilad. Mae'r gwariant o amgylch y gwaith adeiladu yma wedi bod yn arbennig o anodd ei dderbyn o ystyried y ffaith fod Allensbank wedi bod yn gweithio o dan gyfyngiadau ariannol difrifol yn ystod y cyfnod hwn. Mae costau sgaffaldau ar gyfer yr adeilad (o gofio bod sgaffaldau wedi bod yno am flynyddoedd cyn i'r gwaith ddechrau) ymhell dros £300,000. Gall Allensbank ond dychmygu beth ellid bod wedi'i gyflawni fel ysgol pe bai'r arian ychwanegol hwn gan y Cyngor wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â thanariannu ar gyfer yr ysgol.*
- *Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng ar draws y ddinas ac felly mae ysgolion yn cael eu gadael yn brwydro i ddenu disgyblion. Mae gwneud Allensbank yn ddeniadol ac yn apelgar i rieni yn heriol iawn o ystyried bod sgaffaldau wedi bod ar yr adeiladau allanol a bod y gofod awyr agored yn gyfyngedig iawn.*
- *Er bod nifer y disgyblion wedi gostwng yn unol â llawer ar draws y Ddinas, nid yw niferoedd ein disgyblion ar unrhyw adeg yn adlewyrchu'r lefelau symudedd uchel a niferoedd y disgyblion o bob cwr o'r byd sy'n cael eu derbyn i Allensbank, eu profiad cyntaf o system Addysg Prydain yn aml iawn. Cawsom ein cydnabod gan Estyn yn 2020 fel ysgol sy'n "dathlu amrywiaeth diwylliant ac iaith disgyblion a'u teuluoedd ar bob cyfle ac yn defnyddio strategaethau hynod effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen datblygu eu sgiliau Saesneg." Teimlwn yn gryf y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn dathlu'r llwyddiannau hyn yn yr ysgol yn hytrach na'n gwneud yn destun newid gorfodol.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

144. Mae'r Cyngor yn cydnabod barn Pennaeth Ysgol Gynradd Allensbank ar y newidiadau arfaethedig. Nodir gwrthodiad y Pennaeth i Opsiwn 2 ac Opsiwn 3.
145. Cydnabyddir effaith y newidiadau arfaethedig ar staff. Mae nifer y rolau addysgu a dysgu sydd eu hangen mewn ysgol gynradd mynediad dau ddosbarth mynediad yn debyg i'r swm sydd ei angen ar gyfer dwy ysgol gynradd ag un dosbarth mynediad. Fodd bynnag, byddai'r math a'r nifer o rolau sydd eu hangen yn ddibynol ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ac ar sefyllfa cyllideb yr ysgol.

146. Lle mae rolau'n cael eu dyblygu, e.e. swyddi Pennaeth a Dirprwy Bennaeth, staff gweinyddol ac ystadau, disgwylir y byddai gostyngiad yn nifer y rolau sydd eu hangen yn gyffredinol.
147. Mae'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol a sefydlu ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad newydd yn rhoi staff mewn perygl o ddiswyddiadau a byddai angen rheoli hyn yn unol â'r Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion.
148. Un o ddyheadau allweddol y Cyngor yw lleihau nifer y staff drwy adleoli cynifer ag y bo modd yn hytrach nag ymddiswyddo gwirfoddol neu orfodol. Felly, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosib i staff ysgolion i sicrhau cyflogaeth mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd trwy adleoli i swyddi gwag mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.
149. Byddai sefydlu ysgol newydd yn golygu bod angen sefydlu Corff Llywodraethu dros dro i oruchwyllo'r gwaith o ddatblygu strwythur staffio priodol a phenodiadau i hwn.
150. Byddai unrhyw benderfyniad a wneir o ran staffio yn fater i'r Corff Llywodraethu perthnasol.
151. Byddai cymorth llawn yn cael ei gynnig i gyflogeion a'r Cyrff Llywodraethu gan Wasanaethau Pobl AD drwy gydol y broses ad-drefnu. Byddai hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd ymgynghori, cyfarfodydd â staff yr ysgol, gan gynnwys trafodaethau ag unigolion lle bo hynny'n briodol a dosbarthu dogfen Cwestiynau Cyffredin.
152. Mae Academi'r Cyngor yn darparu cyrsiau y gall cyflogeion eu cyrchu ar sgiliau ymgeisio am swyddi a chyfweliadau, cynllunio ar gyfer cyn ymddeol yn y dyfodol, Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a sgiliau digidol, sy'n cynnwys Excel, Word a PowerPoint.
153. Fel rhan o gymorth iechyd a lles y Cyngor, mae gan weithwyr fynediad at Care First, sef y rhaglen cymorth cyflogeion. Cynlluniwyd Care First i helpu cyflogeion gydag ystod eang o faterion gwaith, teuluol a phersonol. Mae'r gwasanaeth ar gael am ddim 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn a hynny dros y ffôn neu ar-lein.
154. Yn ogystal â Care First, mae gan y cyngor ei wasanaeth cwnsela cyflogeion mewnol ei hun sydd ar gael i gyflogeion. Cyflwynir sesiynau mewn grwpiau o 4 – 8 ac maent yn wirfoddol ac yn gyfrinachol.
155. Gofynnodd y Cyngor am farn rhanddeiliaid gan gynnwys Cyrff Llywodraethu ysgolion lleol ar newidiadau hirdymor i ddarpariaeth ysgolion i'w darparu i wasanaethu'r ardal yn ystod yr ymgynghoriad cynharach a defnyddiwyd y safbwyntiau a fynegwyd i lywio'r cynigion diwygiedig. Ystyriwyd nifer o opsiynau eraill ond fe'u diystyriwyd fel y nodir yn yr wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod darparu lleoedd mewn ysgolion

cynradd yn sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer buddsoddi mewn addysgu a dysgu ac mae'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn cyd-fynd â hyn.

156. Nodir y pryderon ynghylch trefniant rhannu safle fel y nodir yn Opsiwn 2. Yn gyffredinol, mae safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn gallu darparu lle ar gyfer hyd at 420 o ddisgyblion gyda dosbarth meithrin. Fodd bynnag, gan na allai pob adeilad ysgol ddarparu ar gyfer 210 o ddisgyblion yr un, byddai'r trefniadau yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrrff Llywodraethu'r ysgolion (neu'r Corff Llywodraethu ffederal) benderfynu ar y ffordd orau o rannu adeiladau a gofod awyr agored i fodloni gofynion gweithredol pob ysgol.
157. Byddai gostyngiad bach yn Nifer Derbyn Ysgol Gynradd Allensbank o 30 i 27 pe bai'r ysgol yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan. Cafodd y nifer derbyn cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Allensbank ei leihau o 45 o leoedd i 30 o leoedd o fis Medi 2022 er mwyn adlewyrchu'r galw am leoedd yn well. Ym mis Ionawr 2023 roedd gan y Cyfnod Sylfaen 27 o blant wedi cofrestru yn y Dosbarth Derbyn, 21 ym MI.1 a 24 ym MI.2. Ar 13 Medi 2023, roedd 14 o blant wedi'u dyrannu i'w derbyn i'r flwyddyn Derbyn yn Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y lefel uchel o symudedd disgyblion yn yr ardal yn golygu bod nifer y plant sydd wedi cofrestru mewn ysgolion yn amrywio'n sylweddol.
158. Ystyriwyd lleoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y safle a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica; fodd bynnag, diystyriwyd hyn am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 59 - 62. Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan ar safle Allensbank yn cael ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2025, drwy gynyddu'r nifer derbyn ar gyfer y grwpiau blwyddyn meithrin a Derbyn yn unig yn y lle cyntaf. Felly nid oes angen i'r ysgol ddefnyddio'i holl le yn 2025/2026 a gallai ganiatáu i rannau o'r ddau adeilad gael eu cau i'r staff a disgyblion i leihau'r effaith ar gyllideb yr ysgol a/neu tra bod gwaith yn cael ei wneud.
159. Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn canmol gwaith yr ysgol wrth ddiwallu anghenion disgyblion o gymuned hynod amrywiol. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymateb i'r angen i ddarparu cydbwysedd priodol yn nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael i wasanaethu'r ardal leol ac i ganiatáu i gyfran uwch o gyllid ysgolion gael ei ddyrannu i addysgu a dysgu.
160. Mae'r gwaith i gynnal adeiladwaith adeilad yr ysgol wedi effeithio ar rediad yr ysgol o ddydd i ddydd, ond mae'r gwaith hwn wedi'i wneud fel gwaith cyflwr ac addasrwydd â blaenoriaeth i sicrhau iechyd a diogelwch adeiladau'r ysgol. Roedd angen y sgaffaldau sydd wedi'u gosod ar unwaith pan nodwyd problemau cyflwr ac roedd eu hangen er mwyn i'r gwaith gael ei wneud. Ni fyddai'r cyllid sydd ar gael ar gyfer hyn wedi bod ar gael fel rhan o gyllideb ysgol Allensbank. Mae'r cyllid y mae ysgolion yn ei dderbyn wedi'i seilio i raddau helaeth ar sail niferoedd y disgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae'r cyllid a ddyrannwyd i Ysgol Gynradd Allensbank yn cyd-fynd â hyn.



161. Ers 2017/18, bu gostyngiad parhaus yn y gyfradd genedigaethau, a newidiadau i batrymau mudo yn y ddinas. Felly rhagwelir y bydd y niferoedd derbyn i addysg gynradd ledled y ddinas yn disgyn yn sylweddol a pharhau i fod yn isel tan o leiaf Medi 2025. Fodd bynnag, nid yw newidiadau poblogaeth yn gyson ym mhob rhan o'r ddinas. Gan fod rhieni'n gallu datgan ffafriaeth dros ddewis ysgol, byddai rhai ysgolion yn parhau i fod â niferoedd derbyn uchel, a byddai'r gwmp ym y boblogaeth yn cael fawr ddim effaith ar yr ysgolion hynny. I ysgolion eraill, bydd yr effaith ar niferoedd disgyblion yn llawer mwy na'r gostyngiad cyfartalog o 18% ledled y ddinas.
162. Bu'r galw am leoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o'i dalgylch yn gyson is na nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol. Cafodd y nifer derbyn cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Allensbank ei leihau o 45 o leoedd i 30 o leoedd o fis Medi 2022 er mwyn adlewyrchu'r galw am leoedd yn well. Mae'r newidiadau arfaethedig yn caniatáu i batrwm cynaliadwy o ddarpariaeth ysgolion cynradd wasanaethu'r ardal.
163. Mae gan bob un o'r ysgolion Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal lefel uchel o 'symudedd disgyblion', hynny yw bod nifer y plant sydd ar y gofrestr ym mhob blwyddyn yn newid yn aml, o fis i fis. Cydnabyddir gwaith Ysgol Gynradd Allensbank wrth groesawu teuluoedd a chefnogi disgyblion sydd angen datblygu eu sgiliau iaith Saesneg. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi plant o bob cefndir ac wedi cyflwyno'r newidiadau arfaethedig er mwyn gallu cynnal darpariaeth addysg o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion amrywiol yr ardal leol.

### **Staff Allensbank – Aelodau Undeb UAC**

164. Cyflwynodd Staff Ysgol Gynradd Allensbank sy'n Aelodau Undeb UAC ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

#### **Opsiwn 1**

- *Rydym yn cydnabod manteision uno ysgolion Allensbank a Gladstone a dod yn 2DM. Fodd bynnag, hoffem godi'r sylwadau canlynol:*
- *Ni fydd Gladstone a Santes Monica yn addas at y diben fel ysgol 2DM erbyn mis Medi 2025 os bydd yr opsiwn hwn yn mynd yn ei flaen. Teimlwn y bydd ein hysgol yn barod ar gyfer bod yn ysgol 2DM er mwyn pontio llyfnach i uno ac yn cael llai o effaith ar les disgyblion a staff.*
- *Ni fydd gan Ysgol Mynydd Bychan, er ei bod yn llawn ar hyn o bryd, 2DM ym mis Medi 2025 os ystyrir y ffigurau gordanysgrifio presennol a'r gostyngiad o 20% yn y gyfradd genedigaethau. Felly, teimlwn y byddai Ysgol Mynydd Bychan yn fwy addas ar safle Gladstone gan roi digon o le iddynt ac ystafell bosibl i dyfu.*
- *Rydym yn teimlo y byddai'r opsiwn hwn yn achosi tagfeydd mewn ardal sydd eisoes yn brysur gyda nifer sylweddol o staff, disgyblion a rhieni angen gallu*

*parcio. Sut byddai'r cyngor yn goresgyn y mater hwn mewn ardal sydd eisoes yn wael o ran argaeledd parcio?*

- *Gyda'r argyfwng costau byw presennol, rydym yn pryderu y byddai uno ysgolion yn golygu cost sylweddol i deuluoedd sy'n ailddefnyddio gwisgoedd ysgol yn flynyddol ac yn trosglwyddo o un plentyn i'r llall. Sut byddai'r cyngor yn goresgyn ac yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer ein teuluoedd?*
- *Cafwyd effaith enfawr ar les, iechyd meddwl a chorfforol yr holl staff o ran y posibilrwydd o'r opsiwn hwn gan fod ansicrwydd enfawr o ran ein dyfodol a'n sicrwydd ariannol, oherwydd er y byddai nifer y staff sydd eu hangen yr un fath a bod dwy ysgol yn cael eu gwrthio gyda'i gilydd, nid ydym yn sicr o'n rôl er bod y rolau yno yn yr ysgol newydd. Hoffem hefyd godi'r pryder bod disgyblion wedi cael gwybod drwy'r cyngor bod 'disgwyl i bob un neu fwyafrif yr athrawon yn yr ysgol newydd fod o Allensbank a Gladstone.' Hoffem gael eglurder ar yr anghysondeb rhwng y ddau safbwynt gwahanol iawn hyn sydd wedi cael eu rhoi gan y cyngor.*
- *Mae gennym rai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed yn yr AALI, sy'n dibynnu ar fod yn gyfarwydd â staff a'u hamgylchedd i ymdopi ac i allu eu rheoleiddio o ddydd i ddydd a bydd newid lleoliad yn effeithio ar y disgyblion hyn yn y pen draw.*

## **Opsiwn 2**

- *Rydym yn teimlo'n gryf nad yw Allensbank sy'n cael ei rhoi ar safle presennol Santes Monica wrth ymyl ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg Gladstone a gynhelir gan yr AALI, yn gwneud unrhyw synnwyr ac ni fydd o fudd i gymuned Allensbank yn gyffredinol. Bydd y gostyngiad mewn niferoedd wrth gau ein meithrinfa bresennol yn cael effaith niweidiol ar niferoedd y disgyblion yn y dyfodol. Sut gall Allensbank lai gystadlu â Gladstone sy'n darparu ar gyfer plant 3-11 oed ac sydd â digonedd o le i wneud hyn a theimlwn y bydd hyn yn arwain at gau Allensbank yn llawn yn y pen draw.*
- *Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn golygu ansicrwydd i'r holl staff a'u rolau oherwydd cau'r feithrinfa, gan gael effaith niweidiol ar les staff a disgyblion.*
- *Mae gennym rai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed yn yr AALI, sy'n dibynnu ar fod yn gyfarwydd â staff a'u hamgylchedd i ymdopi ac i allu eu rheoleiddio o ddydd i ddydd a bydd newid lleoliad yn effeithio ar y disgyblion hyn yn y pen draw.*

## **Opsiwn 3**

- *Tra ar bapur, mae'r opsiwn hwn yn ymddangos fel yr opsiwn mwyaf syml i bob parti dan sylw, teimlwn fod hwn yn opsiwn arall i sefydlu Allensbank i fethu ac yn y pen draw cau neu uno â Gladstone. Unwaith eto, byddai'r gostyngiad yn y niferoedd i 0.9DM yn effeithio ar y disgyblion presennol sydd ar y gofrestr yn ein hysgol yn ogystal â'n gallu i ddenu disgyblion posibl. Bydd*

*hyn wedyn yn arwain at ganlyniadau ariannol i'n hysgol a fyddai'n drychinebus gan ystyried ein sefyllfa ariannol bresennol fel ysgol ac na fyddai'n gynaliadwy yn y tymor hwy.*

- *Mae gennym rai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed yn yr AALI, sy'n dibynnu ar fod yn gyfarwydd â staff a'u hamgylchedd i ymdopi ac i allu eu rheoleiddio o ddydd i ddydd a bydd newid lleoliad yn effeithio ar y disgyblion hyn yn y pen draw.*
- *Hoffem gynnig pedwerydd opsiwn i chi, lle mae Allensbank yn aros ar safle'r ysgol ac yn uno â Gladstone i ffurfio ysgol newydd, gan ein bod yn gweld manteision uno'r ddwy ysgol a byddai'n cyfyngu ar rai o'n pryderon a restrir uchod, ynghyd â lleddfu rhai pryderon i'n disgyblion mwyaf agored i niwed.*
- *I gloi, nid ydym yn deall pam nad yw disgyblion, staff a lles ein cymuned wedi dylanwadu ar opsiwn i Allensbank aros ar eu safle presennol. Mae'r holl opsiynau o blaid yr ysgolion eraill yn y cynnig ac rydym yn teimlo bod ein hawliau i gynnig teg wedi cael eu colli, yn enwedig gan fod gennym rai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed yn yr AALI, sy'n dibynnu ar fod yn gyfarwydd â'r staff a'u hamgylchedd i ymdopi ac i allu eu rheoleiddio o ddydd i ddydd.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

165. Nodir barn Staff Allensbank (Aelodau UAC) ar Opsiwn 1. Ymdrinnir â materion yn ymwneud â'r opsiwn amgen i leoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safle Ysgol Gynradd Gladstone ym mharagraffau 59 – 62.
166. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol. Mae cynlluniau o'r fath yn nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol i staff a disgyblion ac yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar y safle ac oddi arno sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol. Mae swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu'r rhain ac mae'r pedair ysgol eisoes wedi rhoi Cynllun Teithio Llesol ar waith ar gyfer eu safle presennol.
167. Rhaid bod gan bob ysgol newydd (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u had-drefnu) gynllun o'r dechrau.
168. Bydd swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol yn parhau i weithio gyda'r ysgolion wrth adolygu a datblygu ymhellach eu Cynlluniau Teithio Llesol presennol fel y bo'n briodol i gyd-fynd ag unrhyw newid mewn amgylchiadau. Gallant helpu i ymgysylltu ar y Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o'r gwaith o greu mwy o leoedd ac unrhyw newidiadau mewn lleoliad carfannau ysgol i safleoedd eraill.
169. Ar ôl ad-drefnu'r ysgolion, bydd y Cyngor yn monitro'r amodau y tu allan i'r ysgolion ar eu newydd gwedd er mwyn gweld a oes angen unrhyw fesurau pellach, megis cyfyngiadau parcio. Bydd y cwmpas ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau parcio yn cael ei ymchwilio a'i roi ar waith lle bo'n briodol fel mesur cost isel i helpu i annog pobl i beidio â defnyddio'r car i deithio pellter byr, gwneud

yr amgylchedd y tu allan i bob ysgol yn fwy diogel ac yn fwy ffafriol i gerdded, sgwtera a beicio a gwneud y mwyaf o deithio llesol i'r ysgol.

170. Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol.
171. Mater i gyrff llywodraethu unigol yw gwisg ysgol; fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i leihau effaith unrhyw newidiadau.
172. Cydnabyddir bod y newidiadau arfaethedig wedi cael effaith ar staff. Byddai Opsiwn 1 yn gofyn am ffurfio corff llywodraethu newydd a fyddai'n gyfrifol am benodiadau i'r ysgol newydd. Byddai Gwasanaethau Pobl AD yn argymhell bod swyddi wedi'u neilltuo yn y lle cyntaf i staff presennol ac eithrio swyddi'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth a fyddai'n destun hysbyseb genedlaethol. Yn achos staff a benodir i swydd gradd is, byddai cyflogau yn cael eu diogelu am hyd at dair blynedd.
173. Byddai Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Cyrff Llywodraethu ar gyfer y broses o gynllunio gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.
174. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd. Byddai'r newidiadau arfaethedig pe baent yn cael eu gweithredu yn dod i rym o fis Medi 2025 a byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion i sicrhau bod cynllun pontio manwl yn cael ei roi ar waith gan ystyried anghenion pob dysgwr.
175. O dan Opsiwn 2, cynigir bod Ysgol Gynradd Allensbank yn trosglwyddo i safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica. Er na fyddai adeilad Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn gallu cynnal Ysgol Gynradd Allensbank un dosbarth mynediad, mae'r safle yn gyffredinol yn gallu darparu ar gyfer hyd at 420 o ddisgyblion gyda meithrinfa. Fodd bynnag, gan na allai pob adeilad ysgol ddarparu ar gyfer 210 o ddisgyblion yr un, byddai'r trefniadau yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraethu'r ysgolion (neu'r Corff Llywodraethu ffederal) benderfynu ar y ffordd orau o rannu adeiladau a gofod awyr agored i ganiatáu i'r ddwy ysgol weithredu'n briodol.
176. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â phlant agored i niwed ym mharagraff 10 a pharagraff 142.
177. Cafodd y nifer derbyn cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Allensbank ei leihau o 45 o leoedd i 30 o leoedd o fis Medi 2022 er mwyn adlewyrchu'r galw am leoedd yn yr ysgol yn well. O dan Opsiwn 3 cynigir gostyngiad pellach i 0.9DM, fodd bynnag mae'r safle yn gweithredu ar un math o fynediad ar hyn o bryd a gallai hyn fod yn bosiblwydd (yn amodol ar gytundeb y Corff Llywodraethu) pe bai mwy o alw am leoedd Ysgol Gynradd Allensbank.

178. Nodir awgrym Staff Allensbank (Aelodau UAC) o bedwerydd opsiwn. Ymdrinnir â materion yn ymwneud â lleoli darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Ysgol Gynradd Allensbank ym mharagraffau 59 – 62.
179. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi'u cyflwyno er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol o leoedd i wasanaethu'r ardal a chaniatáu i adnoddau gael eu buddsoddi mewn addysgu a dysgu gan arwain at well canlyniadau i bob dysgwr. Mae ystod o ffactorau wedi llywio'r cynigion fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori ac wedi eu cydnabod gan Estyn yn eu hymateb gyda phob ysgol sy'n cael eu trin yn deg.

### **Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gladstone**

180. Cyflwynodd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gladstone ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

#### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Nac ydyn***

- *Gallaf weld y pethau cadarnhaol i ddatrys cyllideb ddiffygiol Gladstone trwy gyfuno adnoddau gydag ysgol arall. Gall grŵp ehangach o staff hefyd gynnig cyfleoedd ehangach i staff a mwy o glybiau ar ôl ysgol. Efallai y byddwn hefyd yn gallu cynnal uned iaith a lleferydd. Fodd bynnag, mae sawl mater fyddai'n bygwth gallu'r ysgol i gynnig yr addysg a'r cymorth y mae'n ei gynnig ar hyn o bryd.*

*1. Effaith ar staff a dysgwyr. Mae llawer o staff eisoes yn poeni am golli eu swyddi. Gyda'r ansicrwydd hwn yn para tan fis Medi 2025, gallai hyn effeithio ar y profiad addysgu a dysgu i blant. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn peryglu rôl y pennaeth gan y byddai'n rhaid iddi hithau hefyd wneud cais. Mae'r pennaeth wedi bod yn arweinydd rhagorol, mae niferoedd y disgyblion wedi tyfu bob blwyddyn ers iddi gyrraedd ac roedd ein harolygiad ESTYN yn llwyddiant. Mae'r opsiwn hwn yn peryglu colli'r adnoddau mwyaf hanfodol sy'n gwneud Gladstone yn gymaint o lwyddiant.*

*2. Colli hunaniaeth. Mae gan Gladstone le arbennig yn y gymuned ac mae'n hanfodol yn cefnogi llawer o deuluoedd bregus. Mae 36% o'n plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim gan eu bod yn byw mewn tloidi cymharol. Mae 65% o'n disgyblion dros 5 oed yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, 48% ohonynt islaw cymwys yn y Saesneg (A-C). Roedd ein harolygiad ESTYN yn cydnabod ein gallu i helpu llawer o deuluoedd agored i niwed i fyw bywydau hapus a diogel. Mae'r ysgol yn eu cefnogi'n anffurfiol trwy gyfieithu a dehongli ac oherwydd bod yr ysgol yn fach, gall staff feithrin perthynas ac ymddiriedaeth gyda theuluoedd. Mae hyn yn bwysig i rieni nad ydynt wedi cael yr hyder ieithyddol na chymdeithasol i ymgysylltu fel arall, ac mae'n arbennig o wir ar gyfer y rhai y mae gan eu plant anghenion dysgu ychwanegol. Mae gennym sawl cenhedlaeth o deuluoedd sy'n anfon eu plant i Gladstone oherwydd eu bod yn ymddiried y bydd eu plant yn cael addysg gadarnhaol a chynhwysol. Byddai colli Gladstone fel endid yn dileu'r rôl honno o ymddiriedaeth sydd gan yr ysgol yn lleol.*

*3. Pryder am ddiffyg lle i ddarparu prydau ysgol am ddim ar gyfer ysgol dau ddsbarth mynediad. Rydym yn cael ein cyfyngu gan faint y neuadd a*

*chapasiti'r gegin; byddai angen buddsoddiad sylweddol i'w gwneud yn hyfyw, yn ogystal â mwy o oruchwylwyr canol dydd i sicrhau bod y system yn gweithredu. Rwyf hefyd yn poeni y byddai hyn yn cymryd amser hir i'w reoli bob dydd ac y gallai beryglu amser addysgu a dysgu yn y pen draw.*

*4. Pryder am ddiffyg lle yn yr awyr agored i fwy o ddysgwyr. Mae gan lawer o'n plant fynediad cyfyngedig i fannau awyr agored diogel yn y gymuned. Byddai dyblu nifer y plant yn rhoi pwysau ar y gofod sydd ar gael ac yn cyfyngu ar y gallu i gynnig mwy o glybiau gweithgareddau awyr agored ar ôl ysgol. Cafodd y maes chwarae ei ddisgrifio fel un "digonol" ar gyfer ysgol fwy gan staff yr awdurdod lleol, ond rwy'n teimlo'n gryf y dylai anghenion plant sydd eisoes dan anfantais fod yn flaenoriaeth, gan gael mynediad at le awyr agored gwell na "digonol" i gyfoethogi eu profiad dysgu a helpu i ail-gydbwysu eu cyfleoedd mewn bywyd.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydyn**

- *Gallai cydleoli'r ddwy ysgol ar un safle ddod â chymhlethdod i weithrediadau ymarferol. Pe bai'r ysgolion yn ffedereiddio, nid yw'n glir beth fyddai goblygiadau'r gyllideb i'r ysgolion ac yn y pen draw fe allai arwain at uno oherwydd pwysau ariannol, a fyddai i bob pwrpas yn opsiwn un.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Ydyn**

- *Efallai mai'r trydydd opsiwn yw'r mwyaf ymarferol o safbwynt Gladstone mewn sawl ffordd. Hwn fyddai'r opsiwn fyddai'n tarfu lleiaf ar y staff a'r plant ac felly'n cyfyngu ar effaith cyfnod ansicr o newid neu ad-drefnu ar addysgu a dysgu a lleihau'r risg o gollu staff profiadol, gwybodus.*
- *Fodd bynnag, o safbwynt cyllidebol, rwy'n cydnabod efallai na fydd yr opsiwn hwn o fudd i Gladstone ac efallai na fydd yn cynnig ffordd uniongyrchol i ni o bennu cyllideb gynaliadwy yn y tymor byr. Fodd bynnag, rwy'n credu y gallai'r opsiwn hwn alluogi ail-ddyrannu disgyblion o Allensbank i Gladstone, a allai ein galluogi i gynyddu nifer ein disgyblion i ddod â niferoedd Gladstone i fyny i gapasiti. Gallai hyn ein galluogi i gael cyllideb gynaliadwy yn yr hirdymor gyda charfan lawn ym mhob dosbarth (mae gennym gapasiti ar gyfer ryw 30 yn fwy o ddisgyblion ar hyn o bryd).*
- *Fel corff llywodraethu, rydym yn dymuno i'r gwaith da y mae ysgol gynradd Gladstone yn ei wneud yn y gymuned ac i'w dysgwyr barhau, ac efallai y bydd yr opsiwn hwn yn caniatáu i ni gadw ethos ac ysbryd yr ysgol heb gyfaddawdu oherwydd pwysau cyllidebol. Yn naturiol, mae'r opsiwn hwn hefyd yn sicrhau bod Ysgol Mynydd Bychan yn gallu gweithredu yn y gofod sydd ei angen arni ac mae'r gymuned yn cadw ei hysgolion ac yn amharu cyn lleied â phosibl ar bawb.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

181. Cydnabyddir gwaith Pennaeth Gladstone a staff wrth ddiwallu anghenion amrywiol plant sy'n mynychu'r ysgol. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi'u

cyflwyno yng nghyd-destun niferoedd disgyblion sy'n gostwng ar y gofrestr a'r angen i ddarparu patrwm mwy cynaliadwy o ddarpariaeth ysgol gynradd er mwyn caniatáu defnydd mwy effeithiol o adnoddau ariannol yr ysgolion sydd â chyfran uwch o gyllidebau ysgolion ar gael ar gyfer addysgu a dysgu a phrofiadau dysgu ochr yn ochr â chymorth i deuluoedd.

182. Mae effaith Opsiwn 1 ar staff yn cael ei gydnabod. Byddai cau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol yn rhoi staff mewn perygl o gael eu diswyddo ac ymdrinnir â materion staffio sy'n gysylltiedig â hyn ym mharagraffau 89 - 91.
183. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â'r effaith ar ddysgwyr sy'n agored i niwed ym mharagraff 10 a pharagraff 142.
184. Gallai adeiladau cyfun ysgolion Gladstone a Santes Monica ddarparu ar gyfer ysgol gynradd 2 Ddosbarth Mynediad (hyd at 420 o ddisgyblion) gyda meithrinfa. Gallai adeilad y Tŷ Cychod, a ddefnyddir ar hyn o bryd fel storfa, ddarparu canolfan adnoddau ychwanegol ond byddai angen buddsoddi i wneud hynny.
185. Mae'r ysgol mewn dau adeilad rhestredig Gradd 2 a gafodd eu hasesu fel Categori Cyflwr C+ (Gwael gyda namau mawr) a Chategori Addasrwydd B (Boddhaol). Aseswyd bod adeiladau'r ysgol yn gyffredinol mewn cyflwr boddhaol, ac eithrio'r adeilad a arferai gael ei ddefnyddio ar gyfer gofal plant (Santes Monica) a'r Tŷ Cychod (Gladstone) a oedd angen gwaith sylweddol i'r to er mwyn trwsio dŵr a thamprwydd sy'n treiddio i mewn i'r adeilad. Cynlluniwyd gwaith i waliau allanol, ffenestri a thoeau drwy raglen Asedau Cyfalaf y Cyngor ac mae'n mynd rhagddo, a chwblhawyd llawer o agweddau yn 2022/2023. Mae waliau ffiniau hefyd yn dangos arwyddion o ddirywiad oherwydd oedran ac maent wedi cael eu hadolygu gan beiriannydd strwythurol yn ddiweddar i benderfynu pa mor frys yw'r gwaith sydd ei angen. Mae'n debygol y bydd y gwaith yn cael ei gynnwys o fewn y prif gontract ar gyfer y gwaith adeiladu.
186. Disgwylir i'r gwaith sy'n mynd rhagddo gael ei gwblhau ym mlwyddyn ysgol 2023/24 ac mae wedi'i gynnal yn briodol fesul cam er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysgu a dysgwyr.
187. Nodir y pryderon ynghylch cydleoli Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ar safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
188. Nodir cefnogaeth Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gladstone i Opsiwn 3.
189. Byddai Opsiwn 3 yn caniatáu cadw'r holl ysgolion presennol ond ni fyddai'n caniatáu sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica a'r manteision cysylltiedig. Ni fyddai cadw Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ddwy ysgol ar wahân yn caniatáu gwireddu manteision ysgol â dau ddsbarth mynediad. Ni fyddai chwaith yn caniatáu cyllid yn y fformiwla a fyddai'n cael ei ryddhau yn Opsiwn 1 i fod ar gael ar gyfer clustnodi i'r ysgolion, na chwaith i'w dosbarthu i ysgolion ledled y ddinas drwy'r fformiwla cyllid. O'i gymharu ag Opsiwn 1, byddai llai o adnoddau ariannol

i gefnogi'r ysgol i ddatblygu darpariaeth a/neu fuddsoddi mewn adnoddau ymhellach er budd ei disgyblion, ac i gynnal a gwella safonau.

190. Gan fod gan y ddwy ysgol leoedd gwag yng ngrwpiau blwyddyn y Cyfnod Sylfaen, ac mae gan lawer o ysgolion cyfagos leoedd gwag hefyd, nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith gadarnhaol ar niferoedd derbyn a sefyllfa gyllidebol Ysgol Gynradd Gladstone yn y dyfodol.
191. Pe bai Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cytuno i weithredu trefniadau cydweithredol/ffederasiwn ffurfiol, gellid gwireddu nifer o'r manteision addysgol a nodwyd.

### **Pennaeth Ysgol Gynradd Gladstone**

192. Cyflwynodd Pennaeth Ysgol Gynradd Gladstone ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

#### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Nid yw'r farn yn cael ei nodi**

- *Byddai hwn yn gyfle cyffrous i ddwy ysgol gymunedol uno a ffurfio un Ysgol Gynradd fwy yn ardal Cathays. Byddai cael un Ysgol Gynradd fwy yn yr ardal yn sicrhau pontio esmwyth i ddisgyblion o 3 oed hyd at 16 oed yn yr Ysgol Uwchradd. Byddai ysgol fwy yn caniatáu i staff rannu arbenigedd a chreu mwy o gyfleoedd cydweithio/DPP. Gallai staff ychwanegol hefyd ddarparu ystod o arbenigedd a phrofiadau addysgol i ddisgyblion yn yr ysgol. Byddai ysgol wedi'i huno yn gwrthbwysu unrhyw gyllidebau diffygiol sydd gan ysgolion ar hyn o bryd ac yn darparu dyfodol mwy cynaliadwy i'r teuluoedd a'r staff. Byddai cynnydd yn nifer y disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar gyllideb yr ysgol ac yn darparu adnoddau a chyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion. Byddai cymuned yr ysgol gyfan yn cael cyfle i gyfrannu eu syniadau a'u meddyliau i helpu i lunio ysgol eu plentyn ar gyfer y dyfodol, e.e. penderfynu ar enw'r ysgol, gwisg ysgol, brandio gan roi perchnogaeth iddynt o'u hysgol yn eu cymuned eu hunain.*
- *Bydd y gwaith adeiladu yr ysgol yn cael ei gwblhau a gobeithio y bydd yn rhoi adeilad strwythurol gadarn i ddisgyblion fod yn falch ohono. Cyn hynny roedd un ysgol ar y safle cyfan gyda'r adeilad babanod wedi'i leoli yn Santes Monica a'r ysgol lau yn Gladstone. Gallai hyn fod yn bosibilrwydd ar gyfer ysgol wedi'i huno newydd gyda lle hefyd ar gyfer Clwb ar ôl Ysgol a/neu Uned Lleferydd ac Iaith, Canolfan Adnoddau Arbennig neu gyfleuster Meithrin. Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd Gladstone gyrsiau dysgu fel teulu ar gyfer rhieni/gofalwyr a allai barhau.*
- *Bydd cael un Ysgol Gynradd hefyd yn creu mwy o gyfleoedd i deuluoedd rwydweithio a chefnogi ei gilydd yn y gymuned. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r gymuned gydweithio i helpu i godi arian i'r ysgol a chefnogi unrhyw ddigwyddiadau/busnesau lleol. Gallai ysgol fwy o faint alluogi'r ysgol i estyn allan at fwy o bobl yn y gymuned a chodi ymwybyddiaeth o adeilad y Boathouse fel man posibl y gallai teuluoedd/busnesau ei ddefnyddio.*



- *Rwy'n gwerthfawrogi y byddai'r opsiwn hwn yn peri pryder i'r holl staff, gan gynnwys fy hun, am y byddai'n rhaid i bob un ohonom ailymgeisio am ein swyddi gyda swyddi'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth yn mynd yn genedlaethol a allai olygu dileu swyddi posibl.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nid yw'r farn yn cael ei nodi**

- *Byddai cydleoli Ysgol Gynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir yn caniatáu i ddwy ysgol gymunedol ddod at ei gilydd a darparu mwy o gyfleoedd cydweithio i staff, disgyblion, teuluoedd a llywodraethwyr. Byddai cael y ddwy ysgol ar un safle yn caniatáu i staff rannu arbenigedd a chreu mwy o gyfleoedd cydweithio/DPP. Gallai staff hefyd ddarparu amrywiaeth o arbenigedd a phrofiadau addysgol i ddisgyblion yn yr ysgol. Byddai cyfle i gyfuno adnoddau y gallai'r ddwy ysgol elwa ohonynt. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod Gladstone ac Allensbank yn cadw eu hunaniaeth a'u hethos. Pe bai ysgolion yn ffedereiddio byddai hwn yn gyfle cyffrous i weithio'n agos gyda holl randdeiliaid y ddwy ysgol a'u huno o dan un ymbarél.*
- *Byddai hyn yn rhoi amser i deuluoedd addasu i'r ysgolion yn gweithio ar un safle a byddai'r pontio yn llyfnach pe bai'r ysgolion yn ffedereiddio yn y dyfodol.*
- *Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael fawr o effaith ar staffio gyda bron pob aelod o staff yn gorfod ailymgeisio am eu swyddi gan gynnig mwy o sicrwydd swydd.*
- *Byddai angen ystyried sut byddai Allensbank a Gladstone yn rhannu'r safle am y byddai angen rheoli hyn yn briodol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn glir ar strwythurau'r ysgol ac ati*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Ydw**

- *Byddai'r opsiwn hwn yn ein galluogi i gadw ein hunaniaeth, ein hanes a'n hethos, sydd yn bwysig i gymuned ein hysgol. Byddai'r opsiwn hwn yn tarfu ac yn cael yr effaith leiaf ar ein hysgol.*
- *Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar ddisgyblion Gladstone, fyddai'n rhoi parhad a sefydlogrwydd ar gyfer eu dyfodol. Rydym yn falch o adroddiad Arolwg diweddar Estyn a hoffem adeiladu ar yr arfer sydd eisoes yn dda a gydnabyddir gan arolygwyr. Mae teuluoedd wedi mynegi pa mor groesawgar a meithringar yw'r ysgol a'u bod yn hoffi'r ffaith ein bod ni'n ysgol gymunedol fach gan ei bod yn caniatáu i ni gefnogi pawb, gan gynnwys ein teuluoedd sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Rydym yn ysgol aml-genhedlaeth a byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i deuluoedd barhau i ddychwelyd i Ysgol Gladstone.*
- *Mae nifer y disgyblion wedi bod ar gynnydd ers 2018 ac yn parhau i gynyddu, fydd, gobeithio, yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyllideb a dyfodol Ysgol Gladstone. Byddai Opsiwn 3 yn ein galluogi i gynnal a thyfu niferoedd presennol ein dosbarth meithrin.*

- *Pe bai ysgolion yn ffedereiddio byddai hwn yn gyfle cyffrous i weithio'n agos gyda holl randdeiliaid y ddwy ysgol a'u huno o dan un ymbarél. Gyda ffederasiwn gallai fod ailstrwythuro staff a allai greu arbedion yn yr hirdymor i'r gyllideb. Byddai cyfle i Allensbank a Gladstone gydweithio a rhannu arbenigedd a gwybodaeth. Byddai hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr am y gellid gwella eu profiadau addysgol. Byddai cyfle i gyfuno adnoddau y gallai'r ddwy ysgol elwa ohonynt. Bydd cael un Ysgol wedi'i Ffedereiddio yn creu mwy o gyfleoedd i deuluoedd rwydweithio a chefnogi ei gilydd yn y gymuned. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r gymuned gydweithio i helpu i godi arian i'r ysgol a chefnogi unrhyw ddigwyddiadau/busnesau lleol. Gallai ysgol wedi'i ffedereiddio alluogi'r ysgol i estyn allan at fwy o bobl yn y gymuned a chodi ymwybyddiaeth o adeilad y Boathouse fel man posibl y gallai teuluoedd/busnesau ei ddefnyddio.*
- *Mae lle yn Ysgol Gladstone i fod yn gartref i Uned Lleferydd ac Iaith.*
- *Byddai hwn yn opsiwn cyflymach a haws i'w reoli gan effeithio yn ffisegol ar 2 ysgol yn unig. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn golygu na fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r staff ailymgeisio am eu swyddi, fydd yn sicrhau bod lles staff yn cael ei gynnal.*
- *Mae'r Awdurdod Lleol wedi buddsoddi'n helaeth yn y gwaith o adfer Ysgol Gladstone gyda gwaith adeiladu helaeth yn cael ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf - byddai opsiwn 3 yn caniatáu i'r staff a'r disgyblion/teuluoedd fwynhau a gwerthfawrogi eu hadeilad newydd wedi'i adnewyddu.*

**A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r opsiynau a gynigir?**

- *Byddai cyllid ychwanegol i gefnogi ffactor enfawr symudedd disgyblion yn cefnogi ysgolion yn yr ardal hon ac yn gwneud cynllunio cyllideb ar gyfer y dyfodol yn llai heriol.*

**A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill?**

- *Rydym wedi wynebu nifer o heriau dros y blynyddoedd diwethaf (ynghyd ag ysgolion eraill) sydd wedi cynnwys Covid, Gwaith Adeiladu, Cyllidebau, Estyn a nawr yr ymgynghoriad ysgolion yn yr ardal. Rwy'n gwerthfawrogi bod manteision ac anfanteision i bob ysgol sydd yn gysylltiedig yn ymwneud â phob opsiwn ond hyderaf y bydd y Cyngor yn gwneud y penderfyniad cywir ar gyfer dyfodol dysgwyr a theuluoedd yn ardal Cathays. Er mai Opsiwn 3 yw'r opsiwn yr wyf i'n ei ffafrio, rwyf wedi cynnig fy marn ar Opsiwn 1 a 2 gan fy mod yn teimlo bod hyn yn bwysig. Byddwn yn cefnogi beth bynnag fydd y canlyniad ac yn helpu i reoli'r newid yn effeithiol i'r holl bartïon dan sylw.*

**Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

193. Nodir sylwadau Pennaeth Ysgol Gynradd Gladstone ar bob un o'r opsiynau, a'r gefnogaeth i Opsiwn 3.

194. Nodir galluoedd ysgol fwy fel y cynigir yn Opsiwn 1 ac ysgolion o fewn ffederasiynau i ganiatáu i staff rannu arbenigedd a chreu mwy o gyfleoedd cydweithio/DPP; ymdrinnir â manteision y trefniadau hyn ym mharagraffau 27 – 28 a pharagraff 34.
195. Os bydd Opsiwn 1 yn cael ei bwrw ymlaen, byddai effaith ar staff ac ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â hyn ym mharagraffau 90 - 94.
196. Trafodir y materion ariannol sy'n gysylltiedig â chyllideb pob un ysgol, a sefydlu ysgol newydd yn Opsiwn 1 ym mharagraff 90 a pharagraffau 29 – 31. Mae fformiwla cyllid ysgolion cynradd yn cynnwys dyraniad penodol o fewn cyllideb ysgol sy'n ymwneud â symudedd disgyblion, ac mae'r fformiwla ar gyfer ariannu cyllidebau ysgolion yn cael ei hadolygu'n flynyddol.
197. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r llety hunangynhwysol ar y safle a rennir rhwng Gladstone a Santes Monica ddarparu lle i Glwb Ar Ôl Ysgol a/neu Uned Lleferydd ac Iaith, CAA neu Gyfleuster Anogaeth yn amodol ar fuddsoddiad yn y cyfleusterau hyn.
198. Yn gyffredinol, mae safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn gallu darparu lle ar gyfer hyd at 420 o ddisgyblion gyda dosbarth meithrin. Fodd bynnag, gan nad oes modd i bob adeilad ysgol gynnwys 210 o ddisgyblion yr un, byddai'n rhaid i'r ysgolion gydweithio i gytuno ar y ffordd orau o ddefnyddio'r lle sydd ar gael i fodloni gofynion gweithredol y ddwy ysgol.
199. Fel y nodwyd yn flaenorol, er y byddai Opsiwn 3 yn caniatáu cadw'r holl ysgolion presennol, ni fyddai'n caniatáu'r ystod o fanteision y gellid eu cyflawni o dan Opsiwn 1 fel y nodir ym mharagraffau 27 – 31.

### **Staff Ysgol Gynradd Gladstone**

200. Cyflwynodd Staff Ysgol Gynradd Gladstone ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

#### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Nac ydyn***

- *Bydd y ddwy ysgol gynradd hynaf yn ardal Cathays yn colli eu hunaniaeth a'u hanes.*
- *Byddai ethos ysgol agos dwy ysgol gynradd lai yn cael ei golli. Gyda'r teuluoedd newydd, y teuluoedd sydd angen y gefnogaeth honno, a'r teuluoedd heb fawr ddim Saesneg, mae cael y gefnogaeth o fewn lleoliad llai wedi bod yn hanfodol bob amser i gynnal perthynas gadarnhaol, a helpu'r rhai mewn angen.*
- *Mae'n rhaid i staff ailymgeisio am eu swyddi.*
- *Bydd yn rhaid i uwch staff, h.y. Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid, ailymgeisio am eu swyddi; byddai hyn yn cael ei hysbysebu'n genedlaethol, nid rhwng yr ysgolion yn unig.*
- *Dileu swyddi.*
- *Gallai dosbarth meithrin newydd leihau niferoedd yn Gladstone.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydyn**

- *Gallai fod yn ddryslyd i rieni/teuluoedd os yw'r ysgolion yn gorfod rhannu'r ddau adeilad?*
- *Gallai fod yn heriol o ran logisteg i ysgolion.*
- *Gallai ffederasiwn olygu bod Uwch Arweinwyr mewn perygl o golli eu swyddi o'r ddwy ysgol*
- *Dileu swyddi posibl*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Ydyn**

- *Byddai'r opsiwn hwn yn ein galluogi i gadw ein hunaniaeth, ein hanes a'n hethos, sydd yn bwysig i gymuned ein hysgol. Byddai'r opsiwn hwn yn tarfu ac yn cael yr effaith leiaf ar ein hysgol.*
- *Mae rhieni/gofalwyr wedi mynegi faint maen nhw'n gwerthfawrogi'r staff yn yr ysgol ac maen nhw'n poeni am effaith y broses ymgynghori ar les staff. Maen nhw hefyd yn poeni y gallai hyn effeithio ar safonau oherwydd yr ansicrwydd sydd i ddod i staff a disgyblion. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael fawr o effaith ar staffio gyda bron pob aelod o staff yn gorfod ailymgeisio am eu swyddi gan gynnig mwy o sicrwydd swydd.*
- *Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar ddisgyblion Gladstone, fyddai'n rhoi parhad a sefydlogrwydd ar gyfer eu dyfodol. Rydym yn falch o adroddiad Arolwg diweddar Estyn a hoffem adeiladu ar yr arfer sydd eisoes yn dda a gydnabyddir gan arolygwyr. Mae teuluoedd wedi mynegi pa mor groesawgar a meithringar yw'r ysgol a'u bod yn hoffi'r ffaith ein bod ni'n ysgol gymunedol fach gan ei bod yn caniatáu i ni gefnogi pawb, gan gynnwys ein teuluoedd sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Rydym yn ysgol aml-genhedlaeth a byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i deuluoedd barhau i ddychwelyd i Ysgol Gladstone.*
- *Mae nifer y disgyblion wedi bod ar gynnydd ers 2018 ac yn parhau i gynyddu, fydd, gobeithio, yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyllideb a dyfodol Ysgol Gladstone. Byddai Opsiwn 3 yn ein galluogi i gynnal a thyfu niferoedd presennol ein dosbarth meithrin.*
- *Pe bai ysgolion yn ffedereiddio byddai hwn yn gyfle cyffrous i weithio'n agos gyda holl randdeiliaid y ddwy ysgol a'u huno o dan un ymbarél. Gyda ffederasiwn gallai fod ailstrwythuro staff a allai greu arbedion yn yr hirdymor i'r gyllideb. Byddai cyfle i Allensbank a Gladstone gydweithio a rhannu arbenigedd a gwybodaeth. Byddai hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr am y gellid gwella eu profiadau addysgol. Byddai cyfle i gyfuno adnoddau y gallai'r ddwy ysgol elwa ohonynt. Bydd cael un Ysgol wedi'i Ffedereiddio yn creu mwy o gyfleoedd i deuluoedd rwydweithio a chefnogi ei gilydd yn y gymuned. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r gymuned gydweithio i helpu i godi arian i'r ysgol a chefnogi unrhyw ddigwyddiadau/busnesau lleol. Gallai ysgol wedi'i ffedereiddio alluogi'r ysgol i estyn allan at fwy o bobl yn y*

gymuned a chodi ymwybyddiaeth o adeilad y Boathouse fel man posibl y gallai teuluoedd/busnesau ei ddefnyddio.

- *Mae lle yn Ysgol Gladstone i fod yn gartref i Uned Lleferydd ac Iaith.*
- *Byddai hwn yn opsiwn cyflymach a haws i'w reoli gan effeithio yn ffisegol ar 2 ysgol yn unig. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn golygu na fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r staff ailymgeisio am eu swyddi, fydd yn sicrhau bod lles staff yn cael ei gynnal.*
- *Mae'r Awdurdod Lleol wedi buddsoddi'n helaeth yn y gwaith o adfer Ysgol Gladstone gyda gwaith adeiladu helaeth yn cael ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf - byddai opsiwn 3 yn caniatáu i'r staff a'r disgyblion/teuluoedd fwynhau a gwerthfawrogi eu hadeilad newydd wedi'i adnewyddu.*

#### **A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r opsiynau a gynigir?**

- *Byddai cyllid ychwanegol i gefnogi ffactor enfawr symudedd disgyblion yn cefnogi ysgolion yn yr ardal hon ac yn gwneud cynllunio cyllideb ar gyfer y dyfodol yn llai heriol.*

#### **A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill?**

- *3 yw'r opsiwn a ffeirir gennym ond byddwn yn cefnogi beth bynnag fydd y canlyniad ac yn helpu i reoli'r newid yn effeithiol ar gyfer yr holl bartïon dan sylw.*

#### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

201. Nodir cefnogaeth staff Ysgol Gynradd Gladstone i Opsiwn 3.

202. Cydnabyddir gwaith pob ysgol yn cefnogi disgyblion a theuluoedd o amrywiaeth o gefndiroedd. Cyflwynwyd y cynigion er mwyn darparu cydbwysedd mwy priodol o leoedd ac i sicrhau bod modd buddsoddi lefel uwch o gyllid mewn addysgu a dysgu. Cyflwynwyd y cynigion er mwyn darparu cydbwysedd mwy priodol o leoedd ac i sicrhau bod modd buddsoddi lefel uwch o gyllid mewn addysgu a dysgu, gan gyfoethogi'r cyfleoedd i'r holl ddisgyblion.

203. Byddai gweithredu Opsiwn 1 yn arwain at oblygiadau i staff ac ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â hyn ym mharagraffau 90 – 94.

204. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ariannu 112 o leoedd meithrin cymunedol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r nifer sy'n cael ei ariannu yn lleihau i 96 o leoedd y flwyddyn nesaf, er mwyn adlewyrchu'r galw. Cynigir caniatáu 96 o leoedd meithrin cymunedol cyfrwng Saesneg o dan bob un o'r tri opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt.

205. Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn caniatáu ystod o fanteision i ddysgwyr sy'n mynychu'r ysgol drwy gefnogi'r pontio o'r Meithrin i'r Dosbarth Derbyn.
206. Er bod safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn gallu darparu ar gyfer dwy ysgol gynradd un dosbarth mynediad, cydnabyddir bod heriau yn gysylltiedig â hyn. Fodd bynnag, disgwylir y gallai dwy ysgol gydeoli heb ddryswch i rieni/teuluoedd os yw'r ysgolion yn gorfod rhannu'r ddau adeilad.
207. Byddai Opsiwn 2 neu Opsiwn 3 yn caniatáu i Gyrrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ystyried gweithio ar y cyd neu sefydlu ffederasiwn ffurfiol. Gallai ffederasiwn arwain at ostyngiad yn nifer y rolau arwain yn gyffredinol ar draws y ddwy ysgol gan ddibynnu ar y model a gymerir ymlaen. Byddai unrhyw benderfyniad a wneir o ran staffio yn fater i'r Corff Llywodraethu perthnasol.
208. Cydnabyddir y byddai Opsiwn 3 yn effeithio'n uniongyrchol ar y nifer lleiaf o ysgolion, ond byddai hefyd yn cyflawni llai o fuddion nag Opsiwn 1 neu Opsiwn 2. Ni fyddai cynnal pedwar sefydliad ysgol ar wahân yn caniatáu'r arbedion a fyddai'n cael eu cyflawni ac ar gael i'w hail-fuddsoddi mewn addysg yn Opsiwn 1 na sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica a'r manteision cysylltiedig yn Opsiwn 1 ac Opsiwn 2.
209. Gellid darparu amrywiaeth o fanteision drwy ffederasiwn ac os bydd Opsiwn 2 neu Opsiwn 3 yn cael ei ddatblygu, byddai ffederasiwn yn opsiwn i'r cyrrff llywodraethu perthnasol ei ystyried. Byddai unrhyw gynnig i ffedereiddio yn destun ymgynghoriad ar wahân.
210. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i adleoli'r dosbarth Lleferydd ac Iaith ledled y ddinas a gynhelir gan Ysgol Gynradd Allensbank pe bai Opsiwn 3 yn cael ei symud ymlaen.
211. Mae strwythur staffio ysgolion yn cysylltu'n uniongyrchol â nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr.
212. Mae'r rhan fwyaf o gyllideb ysgol yn cael ei dyrannu i staffio. Mewn cyfnod o leihau nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i ysgolion cynradd, a phan fo angen i ysgolion nodi arbedion o fewn eu cyllidebau unigol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb, gall nifer y staff a gyflogir leihau p'un a yw cynigion i ad-drefnu yn cael eu datblygu ai peidio.
213. Mae Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 yn caniatáu i staff a disgyblion/teuluoedd fwynhau a gwerthfawrogi'r adeilad sydd wedi'i adnewyddu.

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica – Pwyllgor Cyllid, Safle ac Iechyd a Diogelwch y Corff Llywodraethu**

214. Cyflwynodd Pwyllgor Cyllid, Eiddo ac Iechyd a Diogelwch Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Ydyn**

- *Fel pwyllgor, rydym yn credu bod opsiwn 1 er budd gorau ein hysgol a'r ysgolion eraill dan sylw. Credwn y byddai adleoli Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan o fudd i ni am sawl rheswm:*
- *Mae gormod o alw am leoedd yn ein hysgol ni ar hyn o bryd, mae gennym restrau aros ar gyfer pob grŵp blwyddyn (ac eithrio'r dosbarth derbyn). Nid yw ein safle presennol yn addas at y diben ar gyfer cynyddu'r galw am leoedd mewn ysgol eglwysig. Byddai symud safle yn ein galluogi i ymgorffori dosbarth meithrin. Gobeithiwn y bydd lle i ni gynyddu i ysgol â 0.9 dosbarth mynediad. Byddai hyn yn gwneud ein hysgol yn fwy hyfyw yn ariannol.*
- *Byddai symud safle yn gosod Santes Monica yn ardal Gweinidogaeth Plwyf newydd. Caniatáu plant yn nalgylch yr ardal honno am y tro cyntaf - ehangu'r dewis ar gyfer ysgolion eglwysig.*
- *Mae ein hadeilad presennol wedi'i restru ac mae wedi cael gwaith atgyweirio sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Her ariannol oherwydd ein bod yn ysgol eglwysig ac yn dibynnu ar gyllid CRAMP (Rhaglen Cyfalaf Cynnal a Chadw ac Atgyweirio).*
- *Er mwyn cael adeilad mwy modern ac economaidd, gallem ddefnyddio cyllid CRAMP yn well er mwyn gwella'r ysgol. Lleddfu pwysau ariannol.*
- *Ar gyfer pob ysgol dan sylw, teimlwn mai hwn fyddai'r defnydd gorau o arian trethdalwyr a'r dosbarthiad cyllid mwyaf effeithlon i reoli ysgolion.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

215. Nodir cefnogaeth Pwyllgor Cyllid, Eiddo ac Iechyd a Diogelwch Corff Llywodraethu – Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i Opsiwn 1.

216. Mae'r newidiadau a gynigir o dan Opsiwn 1 yn ceisio sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica a'r manteision sy'n gysylltiedig â hyn. Byddai'r potensial i'r ysgol gynyddu nifer y lleoedd oedran statudol i ddysgwyr 4 – 11 oed yn fater i Gorff Llywodraethu yr ysgol ei ystyried a gall fod yn destun ymgynghoriad ar wahân a phrosesau statudol.

217. Mae materion sy'n ymwneud ag ardaloedd Gweinidogaeth Plwyf y tu allan i gwmpas Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion.

### **Pwyllgor Safonau Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica**

218. Cyflwynodd Pwyllgor Safonau Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Ydyn**

- *Mae'r pwyllgor yn credu y byddai darpariaeth feithrin Santes Monica yn cefnogi'r pontio o'r dosbarth meithrin i'r dosbarth derbyn (er y byddai'n rhaid i rieni wneud cais am leoedd yn y dosbarth Derbyn) gan fod y cyfnod pontio yn gallu bod yn anodd yn enwedig os oes Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'u nodi ar gyfer plant unigol. Felly, pe bai gennym ein dosbarth meithrin ein hunain, byddem eisoes yn adnabod y plant yn dda a byddai pontio'n haws.*
- *Y manteision i safonau yw bod gan holl ystafelloedd dosbarth y cyfnod sylfaen fynediad uniongyrchol i ardaloedd awyr agored a fyddai'n gwella'r cwricwlwm yr oeddem yn gallu ei ddarparu. Mae'r adeilad hefyd mewn cyflwr gwell, felly byddai mwy o arian ar gael ar gyfer adnoddau. Hefyd, byddai cael mwy o staff yn caniatáu rhannu cyfrifoldebau, a thrwy hynny yn lleihau'r llwyth gwaith ar gyfer yr UDA a'r Pennaeth a'u galluogi i ganolbwyntio ar wella addysgu ar draws yr ysgol.*
- *Os penderfynir ar opsiwn 3, bydd 3 ysgol fach iawn o hyd a llai o arian yn y system i gefnogi dysgu ac addysgu. Ar hyn o bryd mae 4 ysgol fach. Mae Opsiwn 1 yn golygu mai dim ond un ysgol fach fydd yna - Santes Monica. Byddai'r model ariannu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer lleoedd Meithrin yn golygu y byddai Santes Monica yn fwy sefydlog yn ariannol, gan ganiatáu i ganran uwch o'r gyllideb gael ei gwario ar ddysgu ac addysgu - gan godi safonau ymhellach.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydyn**

- *Mae'r opsiwn hwn i bob pwrpas yr un fath ag Opsiwn 1 ar gyfer Santes Monica, fodd bynnag, byddai llai o arian yn y system pe bai 3 ysgol fach yn ardal Cathays/Y Mynydd Bychan o hyd.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Nac ydyn**

- *Mae Ysgol Gynradd Santes Monica yn ysgol gynradd gyda gormod o alw am leoedd, sydd yn anhyfyw yn ariannol. Yr unig opsiwn ar gyfer cynaliadwyedd yw caniatáu i'r ysgol dyfu - ac mae ganddi'r gallu i wneud hyn gan fod rhestrau aros ym mhob grŵp blwyddyn bron.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

219. Nodir cefnogaeth Pwyllgor Safonau Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i Opsiwn 1.
220. Nodir y safbwyntiau a fynegir ynghylch Opsiwn 2 ac Opsiwn 3. Byddai Opsiwn 1 yn darparu patrymau mwy cynaliadwy yn economaidd o ddarpariaeth ysgolion dros y tymor hir ac yn cefnogi ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol mewn



patrwm gwell o ddarpariaeth drwy uno. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i ysgolion ddyrannu cyfran uwch o'r gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr, darparu gwell cydbwysedd rhwng y lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a Chymraeg sydd ar gael a chynnal y nifer presennol o leoedd ysgol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal.

221. Byddai'r newidiadau a gynigiwyd o dan Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 yn golygu bod Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn cael ei throsglwyddo i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan gyda'i gapasiti presennol a Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn cael ei gadw ar 20 o leoedd. Byddai unrhyw gynnydd i gapasiti'r ysgol, yn fater i'r Corff Llywodraethu ei ystyried.

### **Pwyllgor Gweledigaeth a Gwerthoedd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica**

222. Cyflwynodd Pwyllgor Gweledigaeth a Gwerthoedd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

#### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Ydyn***

- *Byddem yn argymhell Opsiwn 1. O ystyried yr effaith y byddai Opsiwn 2 yn ei chael ar gymunedau'r ysgolion dan sylw, o'n profiad ni, rydym yn gwybod bod rhannu safle yn cyflwyno llawer o heriau.*
- *Ar ben hynny, byddai Opsiwn 1 yn galluogi unrhyw blant yn y dyfodol sy'n mynychu Santes Monica i fwynhau cyfleuster dosbarth meithrin sydd ynghlwm wrth yr ysgol ar safle Mynydd Bychan, fel eu bod yn gallu bod gydag unrhyw frodyr a chwiorydd hŷn ac elwa ar brofiad meithrin ffydd (Anglicanaidd) nad yw ar gael ar hyn o bryd yn yr ardal hon.*
- *Byddai'r gallu i symud safle hefyd yn cynyddu'r dalgylch i'r ysgol gynnwys Plwyf Sant Marc yn Gabalfa. Nid oes gan Sant Marc ysgol gynradd eglwysig ynghlwm wrthi, a byddai'r newid hwn yn cynyddu mynediad rhieni i addysg seiliedig ar ffydd ymhellach - sef eu hawl nhw. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â gweledigaeth yr Esgobaeth i 'dyfu Teyrnas Dduw'.*
- *Byddai'r cyfle i gael adeilad mwy yn ein galluogi i ddatblygu arlwy ein cwricwlwm ymhellach, gan gynnwys manau tawelach ar gyfer gweddio a myfyrio. Byddai angen ystyried sut y gallai Santes Monica sicrhau bod yr amgylchedd dysgu cyfan yn addas ar gyfer addysg ffydd - mae hyn yn cynnwys meysydd ar gyfer gweddi/addoli a myfyrio y tu mewn a'r tu allan i safle Mynydd Bychan.*
- *Rydym yn gymuned ysgol ffyniannus, gyda gormod o alw am leoedd, ac yn gorfod troi llawer o blant i ffwrdd ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o deuluoedd yn gallu arfer eu hawl i ddewis addysg sy'n seiliedig ar ffydd ac mae llawer yn dod i'n hysgol sydd eisoes wedi wynebu trawsnewid, newidiadau a heriau sylweddol mewn bywyd cyn iddynt gyrraedd Caerdydd.*

*Mae troi teuluoedd i ffwrdd o'n cymuned yn anghyfforddus iawn i ni fel Corff Llywodraethu.*

- *Mae agosrwydd y safle newydd arfaethedig yn golygu y gall ein cysylltiadau presennol ag Eglwys Sant Mihangel a The Table barhau. Dim ond ychydig bach y byddai hyn yn effeithio ar amser teithio i deuluoedd. Byddai rheoli traffig ar safle Mynydd Bychan yn haws gan mai dim ond cymuned un ysgol fydd yn cyrraedd ac yn gadael ar unrhyw un adeg.*
- *Am yr holl resymau a amlinellir uchod, teimlwn y byddai'r symud posibl yn cyd-fynd â'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ethos Cristnogol yr ydym wedi gweithio mor galed i'w datblygu a'u cynnal yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydyn**

- *Gweler sylwadau ar gyfer Opsiwn 1.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Nac ydyn**

- *Gweler sylwadau ar gyfer Opsiwn 1.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

223. Nodir cefnogaeth Pwyllgor Gweledigaeth a Gwerthoedd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i Opsiwn 1.

### **Pennaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica**

224. Cyflwynodd Pennaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Ydyn**

- *Rwy'n cefnogi Opsiwn 1 gan fy mod yn ymwybodol o'r anawsterau enfawr sydd gan bob ysgol yng Nghaerdydd ar hyn o bryd wrth geisio mantoli cyllidebau. Rwy'n eistedd ar y Fforwm Cyllideb Ysgolion ac yn cynrychioli ysgolion bach ac ysgolion ffydd. Mae fformiwla'r gyllideb yn cael effaith negyddol anghymesur ar ysgolion bach gan eu bod yn llai economaidd i'w rhedeg. Dim ond Opsiwn 1 sy'n lleihau nifer yr ysgolion bach yn sylweddol. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod mwy o arian ar gael yn y system ar gyfer addysg pob plentyn yn y ddinas. Yna mae'r arian hwn ar gael i'w wario ar ddysgu ac addysgu, yn hytrach na chynnal a chadw nifer o adeiladau gan ysgolion bach unigol, defnyddir gofod/lleoedd ysgol yn fwy effeithlon hefyd fel bod gwresogi ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n well.*
- *Mae tri adeilad ysgol wedi'u rhestru, o dan Opsiwn 1 byddai Santes Monica yn symud i adeilad heb ei restru, gan alluogi defnydd gwell o gronfa CRAMP (cronfa Rhaglan Cyfalaf Atgyweirio a Chynnal a Chadw gan Lywodraeth*

*Cymru i gynnal a chadw ysgolion ffydd) felly dylai'r ysgol allu atgyweirio a chynnal a chadw'r adeilad yn well. Mae dyluniad adeilad Mynydd Bychan hefyd yn cyfateb yn well i ddiwallu anghenion disgyblion o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Mae gan bob ystafell ddosbarth i lawr y grisiau fynediad uniongyrchol i'r awyr agored, fyddai'n hwyluso dysgu yn yr awyr agored, goruchwylio ac arddulliau dysgu amgen - gan ddiwallu anghenion dysgwyr Santes Monica yn well.*

- *Byddai symud safle ysgol hefyd yn golygu na fyddai angen i ni rannu safle gydag ysgol arall. Ni fyddai'r sŵn (sy'n ddealladwy) o ysgol arall yn tarfu ar yr amser a dreuliwn yn gwneud gweithgareddau addoli, byddai gofod chwarae yn llawer gwell na'r ardal yr ydym yn gallu ei defnyddio ar hyn o bryd a byddai rheoli traffig yn haws gan na fyddai angen i ni amrywio amseroedd dechrau a gorffen i gyd-fynd ag ysgol arall.*
- *Byddai'n haws pontio o'r Meithrin i'r Derbyn gan y byddai plant (unwaith y byddant wedi gwneud cais am le yn y dosbarth Derbyn) yn hysbys i ni, byddai unrhyw brosesau ADY eisoes wedi'u dechrau ac yna'n parhau yn yr un lleoliad ac ni fyddai angen ystyried unrhyw gyfnodau setlo i mewn cyn i ni ofyn am gymorth ychwanegol gan y byddai hynny eisoes wedi digwydd yn y dosbarth Meithrin.*
- *Byddai angen cyflogi athro ychwanegol a fyddai'n lleihau'r baich ar bob athro yn yr ysgol ymhellach gan fod nifer o rolau gan athrawon sydd yn cael eu rhannu ymhlith llawer mewn ysgolion mwy.*
- *Byddai'r newid yn yr Ardal Weinidogaeth yn golygu bod y Corff Llywodraethu yn debygol o ymgynghori i ehangu'r dalgylch a nodir ar hyn o bryd yn ein polisi derbyn i gynnwys Plwyf Sant Marc, Gabalfa. Nid oes unrhyw ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer yr Ardal Weinidogaeth honno ar hyn o bryd, felly byddai hyn hefyd yn cefnogi cenhadaeth yr Esgobaeth i 'Dyfu Teyrnas Dduw'.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydyn**

- *Mae llai o fudd ariannol neu addysgol i adleoli 3 ysgol yn yr opsiwn hwn.*

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Nac ydyn**

- *Mae Santes Monica yn ysgol gynradd ffyniannus gyda gormod o alw am leoedd. Nid yw Opsiwn 3 yn rhoi lle i dyfu ac nid yw'n galluogi'r ysgol i fod yn hyfyw yn ariannol. Fel ysgolion llai, mae Gladstone ac Allensbank hefyd yn llawer llai tebygol o fod yn hyfyw yn ariannol o dan y model hwn.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

225. Nodir cefnogaeth a sylwadau Pennaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i Opsiwn 1.

226. Mae'r fformiwla cyllid ysgolion yn seiliedig ar gyllid fesul disgybl a nifer o gyfandaliadau fesul ysgol. Byddai gostyngiad yn nifer yr ysgolion yn caniatáu ar gyfer lleihau dyraniadau o gyfandaliadau i ysgolion. Byddai'r arbedion fformiwla cyllideb ysgolion o gyfuno Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone, trwy gau'r ddwy ysgol a chreu un ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad fel y nodir yn Opsiwn 1, tua £98,000 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar ddileu un o'r lwfansau cyfandal a ddarperir i ysgolion ledled y ddinas.
227. Byddai Opsiwn 1 felly'n galluogi aiddosbarthu adnoddau ariannol i'r ysgolion ledled y ddinas trwy leihau nifer y cyfandaliadau'n sy'n cael eu dyrannu i'r ysgolion unigol.

### **Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Mynydd Bychan**

228. Cyflwynodd Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Mynydd Bychan ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10)
- *Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau staff yn gwbl gefnogol o nodau cenedlaethol a lleol i gynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac yn barod i chwarae eu rhan, ochr yn ochr â'r Cyngor a Llywodraeth Cymru.*
  - *O ystyried y gordanystrifio cyson o ran lleoedd yn YMB dros sawl blwyddyn, a'r realiti bod dalgylch yr ysgol yn un o sawl ardal yn ninas Caerdydd lle mae lle i gynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rydym yn falch bod y Cyngor wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio, a llwyddo i gael cyllid grant i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn YMB.*
  - *Er ein bod yn cydnabod y rhagwelir y bydd y nifer sy'n manteisio ar y lleoedd yn sefydlogi dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, oherwydd gostyngiad yng nghyfraddau genedigaethau, rydym yn ymwybodol bod cynnydd yn cael ei ragweld tua diwedd y degawd hwn a dechrau'r nesaf, sy'n gofyn i ni feddwl yn greadigol nawr i sicrhau datrysiad cynaliadwy ac i fodloni'r galw a ddisgwylir gennym yn y blynyddoedd i ddod.*
  - *Mae'r Corff Llywodraethu ac aelodau staff o'r farn mai'r ffordd orau o ehangu Ysgol Mynydd Bychan yw adeilad a safle ysgol newydd sy'n archwilio ymhellach y posibilrwydd o ddefnyddio safle presennol Ysgol Uwchradd Cathays yn werth chweil, pe bai adleoli Ysgol Uwchradd Cathays yn mynd yn ei flaen, neu'r gwagle ar safle Tŷ'r Cwmnïau.*
  - *Er y gwerthfawrogir goblygiadau ariannol adeilad a safle newydd ar gyfer YMB, a'r angen i ddefnyddio asedau presennol y Cyngor lle bo hynny'n bosibl, rydym yn tybio y byddai'n bosibl cael gwared ar safle ysgol presennol i'w ailddatblygu pe bai'n mynd yn segur.*

- *Gallai'r tri opsiwn gynnig ateb parhaol i ddarparu ar gyfer y galw am addysg Gymraeg a chyflawni'r nod o ehangu addysg Gymraeg yn yr ardal.*
- *Rhaid i unrhyw ehangu Ysgol Mynydd Bychan gael ei gyflwyno ar sail ysgol gyfan, yn hytrach na blwyddyn ar flwyddyn neu gynnydd fesul cam. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi Ysgol Mynydd Bychan i barhau i allu cynnig y lefel bresennol o addysg a chyfluoedd i'w disgyblion, yn ogystal ag ennyn 'ymrwymiad' rhieni a chymuned ehangach Ysgol Mynydd Bychan.*
- *Bydd Ysgol Mynydd Bychan yn parhau i geisio meithrin perthynas gadarnhaol ac ymdeimlad o gymuned â'r ysgolion eraill yn ein hardal, gan gynnwys rhyngweithio rheolaidd rhwng disgyblion i nodi, er enghraifft, Diwrnod Ewyllys Da yr Urdd a'r Eisteddfod.*
- *Mae'r holl safleoedd ysgol eraill sydd yn yr ardal yn Adeiladau Rhestredig ac, o'r herwydd, gallent fod yn anodd eu newid a'u haddasu i fodloni ein gofynion yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif.*
- *Rydym hefyd yn poeni am ofynion cynnal a chadw parhaus safleoedd presennol eraill yr ysgolion yn yr ardal o gofio bod bob un o'r tair ysgol wedi cael eu gorchuddio mewn sgaffaldau am y tair blynedd diwethaf o leiaf, heb lawer o gynnydd yn cael ei wneud ar unrhyw waith adfer. Ni fyddem am weld yr ysgol yn derbyn baich y gwaith cynnal a chadw hirdymor sy'n weddill.*
- *Gellid adleoli Ysgol Mynydd Bychan i safle lle gallai fod yn anodd neu'n amhosibl cyflawni cynllun o waith gwella sy'n sicrhau ein bod yn gallu cynnig yr un lefel o gyfleusterau â'n safle presennol, os nad gwell.*
- *Gofynnwn i'r Cyngor wneud ymholiadau pellach priodol ynghylch y materion a godwyd uchod, a sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael.*
- *Rydym yn poeni am effeithlonrwydd ynni yr adeiladau ysgol sy'n cael eu hystyried. Rydym wedi gofyn am wybodaeth gan y Cyngor ar y mater hwn ond yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd. Dywedwyd wrthym fod yr wybodaeth hon ar gael i Swyddogion y Cyngor ond nid ydym wedi derbyn unrhyw beth hyd yma.*
- *Rydym hefyd yn bryderus y gallai symud i adeilad ysgol mwy achosi heriau ariannol mawr i'r ysgol os na fydd y Cyngor yn mynd i'r afael â nhw'n briodol. Yn y dyfodol, bydd yr ysgol yn gweithredu mewn adeilad mwy gyda dim ond gynnydd ymylol yn nifer y disgyblion am ychydig flynyddoedd. Mae cyllidebau ysgolion yn mynd yn fwyfwy heriol a bydd pwysau sylweddol dros y blynnyddoedd nesaf. Byddem eisiau i'r Cyngor weithio gyda'r Corff Llywodraethu i liniaru goblygiadau cyllidebol ehangu cyflym.*

- *O ystyried y byddai'r tri opsiwn yn sicrhau'r un canlyniad i YMB, ac o ystyried y cwestiynau a'r pryderon yr ydym wedi'u hamlinellu uchod, nid ydym yn bwriadu nodi dewis a ffeirir rhwng y tri opsiwn.*
- *Fodd bynnag, credwn fod sicrhau ehangu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd Caerdydd, fel yn y ddinas yn fwy cyffredinol, yr ydym yn ei gefnogi'n gryf, yn gofyn am ateb parhaol sy'n galluogi YMB i barhau i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog i'n disgyblion. Gallai pob un o'r tri opsiwn yn yr ymgynghoriad gynnig ateb o'r fath.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

229. Mae'r Cyngor yn croesawu cefnogaeth Corff Llywodraethu ac aelodau staff Ysgol Mynydd Bychan i'r bwriad i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
230. Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau safle amgen a allai fod ar gael ac sydd mewn lleoliadau canolog yn nalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan. Nid oes safle gwag addas ar gael yn agos at yr ysgol a allai ddarparu ar gyfer ehangu Ysgol Mynydd Bychan.
231. Mae digon o gapasiti hefyd yn yr ysgolion presennol sy'n gwasanaethu'r ardal i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Byddai ad-drefnu darpariaeth yn ffordd briodol o gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai hefyd yn caniatáu defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau. Byddai hyn yn cadw hyblygrwydd yn yr ystâd ysgolion er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol sy'n effeithio ar yr ardal.
232. Rhaid i'r cynigion a gyflwynir sicrhau bod twf ysgolion yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid lleihau'r effaith negyddol bosibl ar ysgolion eraill.
233. Byddai disgwyl i'r gwaith o ehangu Ysgol Mynydd Bychan i 2DM alluogi cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn yr ysgol. Pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu, disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion ychwanegol a gofrestrir yn Ysgol Mynydd Bychan yn dod o fewn ei dalgylch, a gallai rhai fod o ardaloedd eraill o'r ddinas. Mae hyn yn ystyried patrymau dewis ysgol diweddar, a'r gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth a fydd yn mynd i addysg gynradd yn y tair rownd derbyn nesaf.
234. Byddai cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan ar gyfer plant o fewn ei dalgylch yn golygu y byddai nifer y plant yn yr ardal sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lleol yn lleihau. Byddai cynnydd yn y nifer fyddai'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o'r tu allan i'w dalgylch yn golygu y byddai'r nifer fyddai'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill, mewn rhannau eraill o'r ddinas, yn debygol o leihau.
235. Mae'r gwaith i gynnal adeiladwaith adeiladau'r ysgol wedi'i wneud fel gwaith cyflwr ac addasrwydd â blaenoriaeth i sicrhau iechyd a diogelwch adeiladau'r ysgol. Roedd angen y sgaffaldau sydd wedi'u gosod ar unwaith pan nodwyd

problemau cyflwr ac roedd eu hangen er mwyn i'r gwaith gael ei wneud ac mae disgwyl eu tynnu i lawr yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24.

236. Pe bai Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Allensbank, byddai unrhyw newidiadau i'r adeiladau a'r ardaloedd allanol, byddai defnyddio grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael ei hystyried ar gam dylunio diweddarach. Mae'r cyllid cyfalaf wedi'i neilltuo i alluogi ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r Cyngor yn nodi ac yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y buddsoddiad mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan.
237. Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan ar safle Allensbank yn cael ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2025, drwy gynyddu'r nifer derbyn ar gyfer y grwpiau blwyddyn meithrin a Derbyn yn unig yn y lle cyntaf. Felly nid oes angen i'r ysgol ddefnyddio'i holl le yn 2025/2026 a gallai ganiatáu i rannau o'r ddau adeilad gael eu cau i'r staff a disgyblion i gyfyngu'r effaith ar gyllideb yr ysgol a/neu tra bod gwaith yn cael ei wneud.
238. Mae pob ysgol yn derbyn cyllid ar gyfer defnydd ynni o fewn ei chyllideb ddirprwyedig. Mae'r dyraniad yn seiliedig ar ddefnydd gwirioneddol o'r flwyddyn flaenorol wedi'i leihau gan gyfran effeithlonrwydd ynni tybiannol. Sgôr weithredol perfformiad ynni cyffredinol Allensbank yw 'C', gyda sgôr o 75. Sgôr weithredol perfformiad ynni cyffredinol Ysgol Mynydd Bychan yw 'C', gyda sgôr o 65. Y sgôr nodweddiadol ar gyfer adeilad cyhoeddus yw 100. Mae'r sgôr nodweddiadol hon yn rhoi sgôr weithredol o D. Cyhoeddir gwybodaeth ar dystio a sgorau perfformiad ynni ar-lein yn [Dod o hyd i dystysgrif ynni - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk).
239. Byddai ehangu'r ysgol yn peri costau staffio ac arwain ychwanegol i'r ysgol fyddai'n cael eu talu o gyllideb yr ysgol. Byddai'r gyllideb yn cynyddu yn unol â'r nifer uwch o ddisgyblion sydd ar y gofrestr. Byddai'r Cyngor yn cefnogi'r ysgol i gynllunio a blaenoriaethu gwariant gyda swyddog rheoli ariannol lleol pwrpasol yn darparu cyngor.
240. Gallai'r bwriad i ehangu olygu bod yr ysgol yn gweithredu rhai dosbarthiadau llai, neu rai dosbarthiadau oedran cymysg, wrth i'r ysgol dyfu. Mae data dewisiadau derbyn ysgolion yn dangos y byddai nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol yn cynyddu, ond byddai gan yr ysgol lefel uchel o leoedd gwag am nifer o flynyddoedd. Er y byddai cyllideb yr ysgol yn cynyddu wrth i nifer y disgyblion gynyddu, byddai'r gost fesul disgybl yn debygol o fod yn uwch am gyfnod estynedig tra bo'r ysgol yn tyfu. Wrth i dwf, a buddsoddiad, gael eu cyflwyno'n raddol, byddai effaith ariannol newidiadau yn cael ei lleihau lle bynnag y bo modd.

## **RhAG – (Rhieni dros Addysg Gymraeg)**

241. Cyflwynodd y RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) ymateb a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol: (gellir gweld copi o'r ymateb llawn yn Atodiad 10).
  - *cyn lleied o gyfleoedd sy'n bodoli o hyd yn y sir i ddisgyblion allu dewis addysg Gymraeg yn hawdd ac yn gyfleus gyda dim ond 20 o ysgolion cyfrwng Cymraeg tra bod 96 o ysgolion cyfrwng Saesneg.*

- *Gwnaed addewid a derbyniwyd arian gan Lywodraeth Cymru i gynyddu capasiti addysg Gymraeg yr ardal hon o'r ddinas ers 2018 gyda phwysau'n cael eu teimlo yn yr ardal hon ers ymhell cyn hynny.*
- *Mae'r diffyg cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg yn yr ardal hon o'r ddinas yn parhau i achosi heriau a sgil-ffeithiau negyddol eraill ledled y sir hyd nes y ceir datrysiad. Mae teuluoedd yn yr ardal hon o'r ddinas sydd wedi gorfod derbyn lleoedd mewn ysgolion nad ydynt o fewn eu dalgylch, ac wrth i frodyr a chwiorydd iau wneud cais am leoedd mewn ysgolion lleol, wedi cael eu gorfodi i wneud cais i ysgol nad yw o fewn y dalgylch ac felly wedi gorfod teithio ymhellach na'r arfer, gan newid taith a wnaed ar droed i daith mewn car a chynyddu'r achosion cynyddol o blant o'r un teulu sy'n gorfod mynd i ysgolion gwahanol.*
- *rhaid i'r ddarpariaeth newydd fod yn addas ar gyfer addysg yn C21ain ac nid ydym yn gwbl argyhoeddedig y bydd yr adeilad hwn yn diwallu'r angen hwn o'r wybodaeth a ddarparwyd.*
- *Nid yw'n glir o'r ymgynghoriad fanylion ac effaith y gwaith glanweithiol a draenio na phwy fydd yn gyfrifol am ariannu'r agweddau hyn pan fydd yr ad-drefnu yn digwydd ac felly beth fydd cyfrifoldeb cyllidebol Ysgol Mynydd Bychan yn y sefyllfa hon.*
- *Bydd cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan i 420 yn golygu newid sylweddol yn yr ardal o ran y cynnig o addysg Gymraeg. Ni welwn unrhyw sôn am y camau hyrwyddo a chyfathrebu cyhoeddus y bydd eu hangen ar gyfer y newid hwn. Wrth gwrs, byddai RhAG yn gallu cynorthwyo gyda'r agwedd hon.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

242. Mae Caerdydd wedi buddsoddi'n sylweddol yn nhwf addysg Gymraeg drwy ddarparu lleoedd ychwanegol wrth fynd i addysg gynradd ac wrth drosglwyddo i addysg uwchradd. Mae sefydlu'r ddarpariaeth drochi hynod lwyddiannus hefyd wedi chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi a chynyddu nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn.
243. Ers 2010, mae Caerdydd wedi cynyddu'r capasiti Cymraeg sydd ar gael ar fynd i'r sector cynradd oddeutu chwe dosbarth mynediad (DM) ac mae nifer y disgyblion derbyn wedi cynyddu tua 0.25% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng Medi 2015 a Medi 2020.
244. Yn yr un cyfnod, yn y sector uwchradd, sefydlodd y Cyngor trydedd ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd ynghyd ag ychwanegu capasiti yn un o'r ysgolion a oedd yma'n barod gan arwain at gynydd cyffredinol o 7 dosbarth mynediad.
245. Mae Caerdydd hefyd wedi sefydlu ei ddarpariaeth Drochi Gymraeg hynod lwyddiannus. Wedi'i sefydlu i ddechrau yn y sector cynradd i gefnogi rhieni i drosglwyddo eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r ddarpariaeth wedi tyfu i groesawu disgyblion yn CA3 a CA4. Mae hyn wedi golygu y gall disgyblion o Gaerdydd ac awdurdodau cyfagos bontio'n effeithiol o ysgolion Saesneg i



ysgolion Cymraeg, gan ddod yn fyfyrwyr cwbl ddwyieithog a phrofi llwyddiant wrth gyrraedd pob carreg filltir allweddol.

246. Fel y nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a fydd yn arwain at gynnydd cyfatebol yn y plant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
247. Bu'r galw am leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ymgynghorodd y Cyngor yn flaenorol ar newidiadau arfaethedig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal, ond ni chafodd y cynigion hyn eu datblygu. Mae'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn yr ymgynghoriad diweddaraf yn adlewyrchu'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol.
248. Yn y tri opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt, byddai Ysgol Mynydd Bychan yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank. Pe bai Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Allensbank, byddai unrhyw newidiadau i'r adeiladau sy'n defnyddio grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried ar gam dylunio diweddarach. Byddai'r Cyngor yn nodi ac yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y buddsoddiad mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan.
249. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd, a fabwysiadwyd ym mis Medi 2022, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd y gellir ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant o bob cefndir sy'n mynychu.
250. Mae'r cynllun yn gosod targedau penodol ac yn nodi llifoedd gwaith blaenoriaethol i'r Cyngor a phartneriaid fel ysgolion, gan gynnwys menter beilot ymchwil gyda Caerdydd Ddwyeithog, arolygon rhieni a grwpiau ffocws, er mwyn deall yn well y rhesymau dros ymgymeriad isel lleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn grwpiau a chymunedau penodol a dangynrychiolir (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ochr yn ochr â hyrwyddiadau pwrpasol. Mae'r gwaith yma ar y gweill.
251. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ceisio darparu cydbwysedd priodol lle mae pob math o ysgol ar gael i bob grŵp a lle cefnogir pob ysgol i fod yn hygyrch, ac i gael eu gweld yn hygyrch, i bob grŵp. Bydd y gwaith sydd ar y gweill i ddeall dewisiadau rhieni a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd ym mhob cymuned yn well, ochr yn ochr â gwella gwelededd cyfrwng iaith a chyfleoedd trochi sydd ar gael, yn targedu'n uniongyrchol yr ymgais i leihau'r anghyfartaledd rhwng data demograffig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

## **Ymatebion Eraill a Gafwyd**

### **Ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg**

- *Nid oes digon o alw am leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan i gyfiawnhau ehangu i 2 ddosbarth mynediad (Opsiwn 1, Opsiwn 2 ac Opsiwn 3). Rhesymeg yn seiliedig*

*ar leoedd a ddarperir nid y rhai y manteisir arnynt; beth fydd yn digwydd pan na fydd niferoedd disgyblion Ysgol Mynydd Bychan yn cynyddu?*

- *Dim ond o 6 yr oedd gormod o alw yn Ysgol Mynydd Bychan y llynedd ac mae'r nifer hwnnw'n gostwng o un flwyddyn i'r llall. Felly oni bai mai bwriad y Cyngor yw gorfodi pobl i mewn i addysg Gymraeg, does dim angen iddyn nhw symud i ysgol fwy.*
- *Mae'n annheg symud ysgol Allensbank dim ond i ddarparu ar gyfer ysgol Gymraeg sy'n cael ei gordanysgrifio gan 2 berson, ar ben hynny mae ysgol Gymraeg yn Gabalfa wedi'i thandanystrifio.*
- *Nid yw'r potensial i alw am addysg Saesneg fod yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael wedi'i ystyried.*
- *Bydd ehangu darpariaeth Gymraeg yn cyfyngu ar ddewis rhieni; ni fydd gan blant yr opsiwn o ddewis darpariaeth cyfrwng Saesneg.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

252. Mae Ysgol Mynydd Bychan wedi tanysgrifio'n llawn ym mhob cylch derbyn ym mlyneddau ysgol 2018/19 i 2022/23. Bob blwyddyn, roedd digon o leoedd mewn ysgolion oedd yn gwasanaethu dalgylchoedd cyfagos ar gyfer y disgyblion hynny nad oedd yn gallu cael eu derbyn. Fodd bynnag, i blant o fewn dalgylch Ysgol Mynydd Bychan, roedd lleoedd mewn ysgolion amgen yn aml yn sylweddol bellach o'u cyfeiriad cartref.

253. Mae tabl 2, isod, yn crynhoi'r data dyrannu derbyniadau ar y diwrnod cynnig ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan yn y cylchoedd derbyn diweddaraf.

<b>Tabl 2: Crynodeb o ddyraniad lleoedd Derbyn yn Ysgol Mynydd Bychan ar y diwrnod cynnig (Ebrill) yn y pum mlynedd derbyn blaenorol.</b>						
	<b>Blwyddyn Derbyn</b>					
	<b>2018/19</b>	<b>2019/20</b>	<b>2020/21</b>	<b>2021/22</b>	<b>2022/23</b>	<b>2023/24</b>
Lleoedd ar gael	30	30	30	30	30	30
Lleoedd ddyrannwyd a	30	30	30	30	30	26
Cyfanswm dewisiadau wrthodwyd y a	11	4	22	7	6	0
Y dewisiadau o fewn dalgylch wrthodwyd a	7	0	15	3	2	0

Pellter plentyn dderbyniwyd	pellaf a	0.592	1.19	0.584	0.788	0.937	Dd/b
-----------------------------	----------	-------	------	-------	-------	-------	------

254. Mewn pedwar o'r chwe chylch derbyn diwethaf, nid yw'r ysgol wedi gallu derbyn pob plentyn o fewn ei dalgylch a oedd am gael lle yn ei dosbarth Derbyn. Mae'r nifer sy'n dewis derbyn lleoedd o blith blant yn ne'r dalgylch, mewn rhannau o Cathays a'r Rhath, yn isel ac ni fyddai ymgeiswyr yn yr ardal hon wedi gallu cael eu derbyn. Nid yw llawer o ymgeiswyr sy'n byw yn y dalgylch i'r gogledd o Rodfa'r Dwyrain, yn gallu cael mynediad chwaith.
255. I'r rhai sy'n ymgeisio yn ne dalgylch Ysgol Mynydd Bychan, mae'r ysgolion agosaf yn sylweddol pellach. Yr ysgolion agosaf nesaf yw Ysgol Glan Ceubal (Ystum Taf), Ysgol Glan Morfa (Sblot) ac Ysgol Y Berllan Deg (Llanedern). I ymgeiswyr sydd â chyfeiriad cartref i'r gogledd o Rodfa'r Dwyrain, yr ysgolion agosaf nesaf yw Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Glan Ceubal neu Ysgol Y Wern. Mae pob un o'r rhain yn bellach i ffwrdd, ac mae Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ac Ysgol Y Wern wedi tanysgrifio'n llwyr mewn llawer o'u hymgymeriadau diweddar.
256. Yn y cylch derbyn i addysg gynradd yn 2023/24, cafodd pob ymgeisydd am fynediad i Ysgol Mynydd Bychan gynnig lle ar y diwrnod cynnig cenedlaethol. Fodd bynnag, mae lefel y lleoedd gwag adeg mynediad i'r Derbyn yng ngogledd/canol Caerdydd ar lefel isel.
257. Gan ystyried y niferoedd derbyn is i ysgolion cynradd a ragwelir tan o leiaf 2025/2026, byddai digon o ddarpariaeth ar gael ar draws yr ardal ehangach i ddarparu ar gyfer twf mewn cyfrwng Cymraeg yn y byrdymor pe na bai twf canrannol, neu dwf isel, yn y galw. Gallai newidiadau i ddalgylchoedd roi cydbwysedd rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael, a'r galw a ragwelir am leoedd, a byddai'n caniatáu cynnydd cyfyngedig yn y nifer sy'n derbyn y cynnig.
258. Fodd bynnag, ni fyddai'r lefel a ragwelir o leoedd gwag yn ddigonol i gynyddu'r nifer a ymgymerir i addysg Gymraeg yn sylweddol yn y tymor hwy, er mwyn bodloni twf wedi'i dargedu Caerdydd fel y'i nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) sydd wedi'i gymeradwyo yng Nghaerdydd.
259. Er y gallai newidiadau i'r dalgylchoedd wella cydbwysedd lleoedd, mae'n bosibl na fyddai'r newidiadau hyn yn unig yn cefnogi twf yn y hirdymor ac ni fyddai'n cynrychioli cyfraniad digonol tuag at gyrraedd y targed twf sydd wedi'i nodi yn CSCA Caerdydd.
260. Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, cafodd y galw cynyddol am leoedd cyfrwng Cymraeg ei fodloni a'i ysgogi/gefnogi drwy ehangu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol. Efallai y bydd angen mwy o ddarpariaeth er mwyn ateb galw cynyddol pellach mewn rhai rhannau o Gaerdydd. Byddai nifer y plant sy'n dewis derbyn lleoedd cyfrwng Cymraeg yn cynyddu ymhellach drwy agor neu ehangu mwy o ysgolion Cymraeg.

261. Bu twf cyfartalog o chwarter pwynt canran bob blwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg y dewisir eu derbyn.
262. Os bydd canran y disgyblion sy'n mynd i ddosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg yn cynyddu ar yr un gyfradd rhwng 2021 a 2030, byddai 20% o ddisgyblion yn dechrau mewn dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg ym Medi 2030. Y targed y mae Llywodraeth Cymru wedi'i bennu ar gyfer Caerdydd yw sicrhau twf rhwng 25% a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 i gael addysg Gymraeg erbyn diwedd y cyfnod o ddeng mlynedd.
263. Byddai capasiti presennol ysgolion a dosbarthiadau cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn ddigonol i ddarparu ar gyfer hyd at 21.8% o'r boblogaeth ddisgyblion, y disgwylir iddynt gofrestru ym mlwyddyn ysgol 2024/2025. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r lefel twf darged, byddai angen twf blynyddol o rhwng 0.75% ac 1.15% ledled y ddinas.
264. Mae tabl 3, isod, yn gynrychioliad dangosol o dwf o 1% neu 2% y flwyddyn i gynyddu'r nifer sy'n dewis derbyn lleoedd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan, gan ystyried poblogaeth newidiol y dalgylch.

**Tabl 3: Rhagamcan a rhagolwg o'r galw a dargedir am leoedd mewn Dosbarthiadau Derbyn Cymraeg, o blith plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan, 2022 i 2026**

Blwyddyn Ysgol	Ymgymeriad presennol	Ymgymeriad rhagamcanol – gan ragdybio dim cynnydd %	Cynnydd pwynt +1%	+1% o'r boblogaeth yn y dalgylch	Cynnydd pwynt +2%	+2% o'r boblogaeth yn y dalgylch
2022/23	16.2%	37				
2023/24	16.2%	37	17.2%	39	18.2%	41
2024/25	16.2%	35	18.2%	41	20.2%	46
2025/26	16.2%	31	19.2%	42	22.2%	49
2026/27	16.2%	34	20.2%	39	24.2%	46

265. Gellid darparu ar gyfer y cynnydd uchod yn y nifer sy'n dewis derbyn lleoedd mewn ysgolion eraill pe na bai twf yn y nifer sy'n dewis derbyn lleoedd mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gynyddu'r nifer sy'n dewis lleoedd ledled y ddinas i gyrraedd y targedau a osodwyd. Ni all y Cyngor, felly, ddibynnu ar leoedd ar gyfer y twf targed mewn galw mewn ysgolion sy'n gwasanaethu dalgylchoedd cyfagos.
266. Byddai unrhyw dwf yng nghanran y plant sy'n cymryd lleoedd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn arwain at lai o leoedd yn y ddarpariaeth Saesneg, allai effeithio ar ysgolion lleol a/neu ysgolion pellach.
267. Er y byddai angen lefel resymol o leoedd gwag yn y sector Cymraeg i gefnogi twf yn y dyfodol, rhaid ystyried yr effaith ar y ddarpariaeth ysgolion bresennol o gario lefel uchel o leoedd gwag yn y sector Saesneg.

268. Ar y diwrnod cynnig cenedlaethol (dydd Llun 17 Ebrill 2023), dyrannodd y Cyngor y lleoedd ysgol cymunedol canlynol yn unol â dewisiadau rhieni:

Tabl 4: Crynodeb o'r dyraniad lleoedd mewn ysgolion cynradd cymunedol, ar 17 Ebrill 2023		
Ysgol	Nifer Derbyn	Lleoedd a ddyrannwyd
Ysgol Gynradd Albany	60	28
Ysgol Gynradd Allensbank	30	17
Ysgol Gynradd Gladstone	30	23
Ysgol Glan Ceubal	30	30
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd	60	60
Ysgol Mynydd Bychan	30	26
Ysgol y Wern	90	83

269. Dyrannodd Cyrff Llywodraethu'r ysgolion canlynol y lleoedd canlynol hefyd yn unol â dewisiadau rhieni.

Tabl 5: Crynodeb o ddyraniad lleoedd mewn ysgolion cynradd ffydd, ar 17 Ebrill 2023		
Ysgol	Nifer Derbyn	Lleoedd a ddyrannwyd
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	30	15
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica	20	10
Ysgol Gynradd Gatholig San Pedr	60	36

270. Mae crynodeb llawn o'r nifer o leoedd a ddyrannwyd ar y diwrnod cynnig ar wefan y Cyngor yn [www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion](http://www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion)

271. Y lefel gyfunol o leoedd gwag yn y flwyddyn Derbyn yn Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ar y diwrnod cynnig oedd 43%. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r nifer cyfunol a ddyrannwyd gyrraedd tua 90 o ddisgyblion yn hydref 2023. Mae hyn yn rhannol oherwydd na wnaeth rhai plant mewn dosbarthiadau meithrin wneud cais erbyn y dyddiad cau, a hefyd yn sgil teuluoedd yn symud i'r ardal yn ddiweddarach.

272. Y lefel gyfunol o leoedd gwag ym mlwyddyn Derbyn Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol y Wern ar y diwrnod cynnig oedd 5%. Ym mis Gorffennaf 2023, cafodd 207 o blant eu dyrannu i'r 210 o leoedd oedd ar gael rhwng Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ac Ysgol y Wern, gan gadw llai na 2% o leoedd gwag cyfunol.

273. Ni fyddai gostyngiad yn nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg sydd o dan Opsiwn 1 nac Opsiwn 2. Byddai gostyngiad bychan yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg dan opsiwn 3, ond byddai digon o leoedd o hyd i ateb y galw gyda lefel briodol o leoedd gwag i ganiatáu amrywiadau ym mhoblogaeth y disgyblion.

## Effaith ar Ysgol Gynradd Allensbank

- *Mae pob un o'r opsiynau yn arwain at symud Ysgol Gynradd Allensbank o'i hadeilad presennol (Opsiw 1, Opsiw 2 ac Opsiw 3) ac ystyriwyd bod hynny'n annheg. Mae hyn yn awgrymu bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud gan y Cyngor.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

274. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i sicrhau bod pob plentyn yng Nghaerdydd yn cael addysg wych trwy gyfrwng yr iaith o'u dewis nhw.
275. Bu'r Cyngor yn ymgynghori yn flaenorol ar gynnig i ddarparu cydbwysedd priodol o leoedd ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.
276. Fe wnaeth y Cyngor hefyd ofyn am farn ar newidiadau hirdymor i'r ddarpariaeth ysgolion er mwyn cynnig cydbwysedd priodol o leoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal. Er bod cefnogaeth gyffredinol i ehangu addysg Gymraeg, dangosodd yr ymgynghoriad nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan, yn cefnogi cynllun i ehangu Ysgol Mynydd Bychan dros dro fel y'i cynigiwyd.
277. Aeth y cynigion diwygiedig a oedd yn destun ymgynghoriad i'r afael â'r problemau a sbardunodd y cynigion cynharach, gan roi ystyriaeth i'r problemau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cynharach.
278. Mae digon o gapasiti yn yr ysgolion presennol sy'n gwasanaethu'r ardaloedd hyn i gefnogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol a chefnogi defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau.
279. Nodwyd y rhesymau dros gynnig lleoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safle Allensbank wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori ac ymdrinnir â nhw ym mharagraffau 59 - 62.
280. Ymgynghorodd y Cyngor yn ddiwyll a rhoddir ystyriaeth lawn i'r pwyntiau a godwyd. Does dim penderfyniad wedi'i wneud.

### **Dewisiadau Eraill**

- *Dylai'r opsiwn o gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y safle a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica a darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Allensbank fod wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad.*
- *Pam achosi cymaint o darfu ar blant Allensbank, mae cymaint o opsiynau eraill nad ydynt wedi'u hystyried. Pam nad yw Ysgol Mynydd Bychan yn symud i Gladstone? Pam ydym ni fel ysgol amlddiwylliannol yr ardal, yn cael ein symud allan o'r ardal?*
- *Pam dylai 2 neu 3 ysgol ddioddef tarfu er mwyn darparu ar gyfer y cam hwn pan allent symud yn hawdd i'r ysgol yn Gabalfa? Ar ben hynny, pam nad yw cyfnewid*

*uniongyrchol rhwng Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan wedi'i gynnig fel opsiwn? Credaf yn nogfen y cyngor a gyhoeddwyd ei bod yn sôn ei bod hi'n rhy bell i Ysgol Mynydd Bychan deithio, ac eto mae'r un pellter (neu'n debyg) ag Allensbank, felly does dim sail y gallaf weld i hynny fod yn rheswm.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

281. Ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â lleoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ym mharagraffau 59 - 62.
282. Mae'r pellter rhwng safle Ysgol Gynradd Allensbank a safle Ysgol Gynradd Gladstone oddeutu 0.5 milltir. Mae pob un o'r ysgolion sy'n destun cynigion o fewn 0.5 milltir i'r ysgolion eraill. Mae disgyblion sy'n mynychu pob un o'r ysgolion wedi'u gwasgaru ar draws dalgylchoedd yr ysgolion.
283. Mae Ysgol Glan Ceubal yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg dau Ddosbarth Mynediad sydd wedi'i lleoli yn Gabalfa. Mae'r ysgol yn rhannu safle ac adeilad dau ddosbarth mynediad pwrpasol ag Ysgol Gynradd Gabalfa. Mae Ysgol Glan Ceubal yn llawn yn y grwpiau blwyddyn isaf ac mae ehangu'r ysgol drwy ymestyn yr adeilad yn ddiangen pan fo digon o leoedd gwag yn adeiladau'r ysgol yn yr ardal sy'n lleol i Ysgol Mynydd Bychan.

### **Heriau ynghylch trefniant rhannu safle**

- *Byddai angen ystyried sut byddai Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn rhannu safle (Opsiw 2); byddai angen rheoli hyn yn briodol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn glir ynglŷn â strwythurau'r ysgol ac ati Gallai'r opsiwn hwn fod yn ddryslyd i rieni/gofalwyr/disgyblion ac arwain at anawsterau gweithredol, e.e. amserlennu amseroedd chwarae/cinio, byddai angen i o leiaf un dosbarth rannu adeiladau ysgol Gladstone.*
- *Byddai'r baich o rannu cyfleusterau (Opsiw 2) ar safle sydd â manau dysgu awyr agored cyfyngedig yn ei gwneud yn anodd rheoli iechyd a diogelwch a threfniadau diogelu disgyblion.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

284. Cydnabyddir y gall fod mwy o heriau i ysgolion sy'n rhannu safle na gweithredu fel un ysgol. Mae'r safle a rennir yn Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer dwy ysgol gynradd un dosbarth mynediad, ond byddai angen i'r cyrff llywodraethu ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r lle sydd ar gael pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei weithredu.

### **Anghenion disgyblion sy'n agored i niwed**

- *Nid yw anghenion teuluoedd agored i niwed a theuluoedd y mae Saesneg yn ail iaith wedi eu hystyried (Opsiw 1 ac Opsiw 2)*

- *Byddai ethos ysgol agos dwy ysgol gynradd lai yn cael ei golli. O ran teuluoedd newydd, teuluoedd sydd angen y gefnogaeth honno, a theuluoedd heb fawr ddim Saesneg, mae cael y gefnogaeth o fewn lleoliad llai wedi bod yn hanfodol bob amser i gynnal perthynas gadarnhaol, a helpu'r rhai mewn angen (Opsiw 1).*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

285. Mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion yn gwasanaethu ystod amrywiol o ddisgyblion ac anghenion. Cyflwynwyd y cynigion er mwyn darparu cydbwysedd mwy priodol o leoedd ac i sicrhau bod modd buddsoddi lefel uwch o gyllid mewn addysgu a dysgu. Mae safon yr addysg ym mhob ysgol sy'n destun y newidiadau arfaethedig yn dda. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, disgyblion sy'n derbyn cymorth oherwydd bod ganddynt Saesneg fel iaith ychwanegol, disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol na disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae manteision clir yn gysylltiedig â phob opsiwn fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori a fyddai'n gwella cyfleoedd dysgu i bob dysgwr. Mae darparu cefnogaeth i *deuluoedd, gan gynnwys y rhai heb fawr ddim Saesneg, yn gyffredin mewn ysgolion o feintiau amrywiol mewn cymunedau ledled Caerdydd.*

### **Tarfu parhaus ar ysgolion/disgyblion**

- *Dwi ddim yn meddwl ei fod yn deg i'r plant yn Allensbank, bydd yn tarfu'n sylweddol, maen nhw wedi bod trwy lawer gyda'r pandemig, y sgaffaldau sydd wedi'u codi ers blynyddoedd, rydyn ni bron â dod i ben gyda'r ysgol bron â'i gorffen gyda'r sgaffaldau ac rydyn ni am drosglwyddo'r ysgol i ysgol arall, ddim yn deg o gwbl.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

286. Fel y nodir ym mharagraff 84, cydnabyddir bod y gwaith i gynnal adeiladwaith adeilad yr ysgol wedi effeithio ar rediad Ysgol Gynradd Allensbank o ddydd i ddydd, ond mae'r gwaith hwn wedi'i wneud fel gwaith cyflwr ac addasrwydd â blaenoriaeth i sicrhau iechyd a diogelwch adeiladau'r ysgol. Mae gwaith tebyg yn cael ei wneud ar safle Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

287. Os bydd Opsiw 1 neu Opsiw 2 yn cael ei ddatblygu, byddai'r plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Allensbank ar hyn o bryd yn elwa ar y buddsoddiad ar y safle a rennir ar hyn o bryd gan Gladstone a Santes Monica. Pe bai Ysgol Gynradd Allensbank yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan, byddai'r ysgol yn symud i safle cyfagos gyda chapasiti mwy na'r niferoedd derbyn diweddar i Allensbank.

### **Effaith ariannol**

- *Yr effaith ariannol bosibl ar Ysgol Mynydd Bychan drwy feddiannu safle mwy wrth i'r ysgol dyfu.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**



288. Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn digwydd fesul cam ac ymdrinnir â'r materion ariannol sy'n gysylltiedig â hyn ym mharagraff 228 a pharagraffau 236 – 237.

### **Effaith ar Ysgol Glan Ceubal**

- *Ni fu ystyriaeth i'r effaith ar Ysgol Glan Ceubal o'r cynnydd mewn lleoedd cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgol eisoes yn cael trafferth mewn dalgylch sy'n cynnwys Parc Bute lle nad oes cartrefi. Nid yw'r dalgylch yn cynnwys Ystum Taf i gyd hyd yn oed ac yn lle hynny mae'n rhannu'r gymuned yn ddwy ar Heol yr Orsaf. Mae'r ysgol yn dioddef oherwydd dalgylch sydd yn rhy fach, sy'n golygu bod nifer y disgyblion yn isel mewn llawer o flynyddoedd, sy'n cael effaith ddinistriol ar gyllid yr ysgol.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

289. Mae Ysgol Glan Ceubal wedi'i thanysgrifio'n llawn adeg mynediad i'r Derbynn ym mis Medi 2023 ac mae pob lle meithrin ar gyfer cylch derbyn 2023/24 wedi'u dyrannu hefyd. Mae gan yr ysgol ddalgylch mawr lle mae tua 15% o ddysgwyr yn cael mynediad i leoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Ym mis Gorffennaf 2023, cafodd 207 o blant eu dyrannu i'r 210 o leoedd oedd ar gael rhwng Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ac Ysgol y Wern, gan gadw llai na 2% o leoedd gwag cyfunol.
290. Mae Ysgol Glan Ceubal yn meddiannu adeilad newydd, mae'r safonau yn yr ysgol yn dda ac mae nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Glan Ceubal wedi tyfu'n gyson. Y gobaith yw y bydd hyn yn parhau.
291. Rhaid i'r cynigion a gyflwynir sicrhau bod twf ysgolion yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid lleihau'r effaith negyddol bosibl ar ysgolion eraill.
292. Byddai disgwyl i'r gwaith o ehangu Ysgol Mynydd Bychan i 2DM alluogi cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn yr ysgol.
293. Gan y disgwylir i'r boblogaeth gyffredinol o ddisgyblion cynradd ostwng yn y blynyddoedd nesaf, byddai disgwyl i gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan gyd-ddigwydd â llai o bobl yn manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
294. Pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu, disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion ychwanegol a gofrestrir yn Ysgol Mynydd Bychan yn dod o fewn ei dalgylch, a gallai rhai fod o ardaloedd eraill o'r ddinas. Mae hyn yn ystyried patrymau dewis ysgol diweddar, a'r gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth a fydd yn mynd i addysg gynradd yn y tair rownd derbyn nesaf.
295. Byddai cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan ar gyfer plant o fewn ei dalgylch yn golygu y byddai nifer y plant yn yr ardal sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lleol yn lleihau. Byddai cynnydd yn y nifer fyddai'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o'r tu allan i'w dalgylch yn golygu y byddai'r nifer fyddai'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill, mewn rhannau eraill o'r ddinas, yn debygol o leihau.

## **Darpariaeth ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg**

- *A fydd digon o leoedd ar gael ar lefel uwchradd i ganiatáu ar gyfer y nifer cynyddol o ddisgyblion ysgolion cynradd.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

296. Mae'r galw cyfunol am leoedd ar draws dalgylchoedd y tair ysgol uwchradd Gymraeg ar lefel uchel a gellir ateb y galw o fewn capasiti presennol yr ysgolion.
297. Byddai cynigion i ymateb i newidiadau yn y galw yn cael eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau bod digon o leoedd i ateb y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg.

### **Trefniadau llywodraethu**

- *Sut byddai trefniadau llywodraethu'n gweithio pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu datblygu?*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

298. Os bydd Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, byddai cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cael eu diddymu, a byddai trefniadau llywodraethu newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad newydd.
299. O dan Opsiynau 2 a 3, byddai'r cyrff llywodraethu presennol yn parhau, ond mae disgwyl y byddai Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i holl ddisgyblion yr ysgolion. Gellid cyflawni hyn drwy gydweithio anffurfiol neu ffurfiol, neu drwy ffederasiwn ffurfiol.
300. Pe bai'r ysgolion yn ystyried cyflwyno cydweithrediad neu ffederasiwn ffurfiol, byddai hyn yn cael ei arwain gan Gyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone a'i gefnogi gan y Cyngor. Byddai unrhyw gynnig i ffedereiddio yn destun ymgynghoriad ar wahân gan y Cyrff Llywodraethu hyn.

### **Y Broses Ymgynghori**

- *Mae'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwasanaethu poblogaeth amrywiol ac ni fydd pob rhiant yn gallu cael gfael ar yr wybodaeth am y newidiadau arfaethedig.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

301. Cydnabu'r Cyngor yr angen i'r holl randdeiliaid allu cael gfael ar wybodaeth am y newidiadau arfaethedig a gweithiodd gyda'r ysgolion i sicrhau bod hyn yn wir cyn ac yn ystod y broses ymgynghori.
302. Cyn yr ymgynghoriad, cytunodd ysgolion i ddefnyddio'u platfformau cyfathrebu perthnasol, e.e. Class Dojo a Schoop i rannu gwybodaeth â rhieni mewn nifer o ieithoedd. Roedd y ddogfen gryno hefyd ar gael mewn naw iaith gymunedol, wedi'i dosbarthu i rieni drwy'r ysgolion. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio i rieni ym mhob ysgol ar adegau a gytunwyd gyda'r ysgolion.

303. Hefyd, anfonwyd llythyrau hefyd i addoldai yn yr ardal leol i'w gwneud yn ymwybodol o'r ymgynghoriad, sut y gallent fynegi eu barn a chynnig i gwrdd ag unrhyw grwpiau y maent yn eu cynnal neu sy'n defnyddio eu hadeilad a hoffai gael gwybod mwy am y newidiadau arfaethedig.

### **Darpariaeth feithrin**

- *Effaith lleoedd ychwanegol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ar ddarpariaeth feithrin bresennol*

### **Gwerthusiad o'r safbwynt a fynegwyd**

304. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ariannu 112 o leoedd meithrin cymunedol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r nifer sy'n cael ei ariannu yn lleihau i 96 o leoedd y flwyddyn nesaf, er mwyn adlewyrchu'r galw. Cynigir caniatáu 96 o leoedd meithrin cymunedol cyfrwng Saesneg o dan bob un o'r tri opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt.

305. Pe bai'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei ddwyn ymlaen (Opsiw 1 ac Opsiw 2) cynigir y dylid darparu 32 o leoedd meithrin rhan amser. Byddai hyn yn datblygu parhad a dilyniant yn addysg plant yn yr ysgol o dair oed gan wella'r cyfle i fynd i'r afael ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol yn briodol, a byddai'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol yr ysgol.

306. Byddai nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei gynyddu o 64 i 96 i gefnogi ei thwf i ysgol dau ddsbarth mynediad.

### **Gweithlu cyfrwng Cymraeg**

- *A fydd digon o staff cyfrwng Cymraeg ar gael i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth?*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

307. Cydnabyddir y bydd ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gofyn am dwf sylweddol yn y gweithlu sy'n gallu dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

308. Fel y nodir ym mharagraff 113, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghonsortiw Canolbarth y De (CCD) i gynllunio a chefnogi staff ysgolion ar draws pob sector i wella eu sgiliau Cymraeg ymhellach ynghyd â darparwyr hyfforddiant y gweithlu Addysg Hyfforddiant Gychwynnol a'r gweithlu Gofal Plant cyfrwng Cymraeg i gefnogi cynnydd mewn Athrawon Newydd Gymhwysu, staff cymorth dysgu ac ymarferwyr gofal plant er mwyn helpu i leihau'r prinder gweithlu a ragamcenir yn y dyfodol a sicrhau y gellir gweithredu CSCAau lleol ar y cyd yn effeithiol yn y dyfodol.

309. Amlinellir manylion sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu nifer y staff addysgu/cymorth sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) mabwysiedig (Deilliant 7).

## **Safle Ysgol Gynradd Allensbank**

- *Mae'r gofod awyr agored sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Allensbank yn gyfyngedig ac nid yw'n ddigonol i ganiatáu ehangu Ysgol Mynydd Bychan.*
- *Bydd statws rhestredig adeiladau Ysgol Gynradd Allensbank yn cyfyngu ar y gwelliannau y gellir eu gwneud; yn ogystal, mae cost unrhyw waith yn debygol o fod yn fwy.*

## **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

310. Fel y nodir ym mharagraff 83, mae digon o le awyr agored ar gael ar safle Ysgol Gynradd Allensbank i ddarparu ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan fwy. Mae gan safle presennol Ysgol Mynydd Bychan ddarpariaeth awyr agored o tua 1100m<sup>2</sup>; mae gan safle Ysgol Gynradd Allensbank ddarpariaeth awyr agored o tua 2000m<sup>2</sup> gyda'r opsiwn am fwy o le awyr agored os caiff unrhyw ran o'r ddarpariaeth maes parcio bresennol o tua 600m<sup>2</sup> ei hailbwrpasu.
311. Llwyddodd y Cyngor i sicrhau arian o'r Cynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg gan gynnwys £1.86m i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yng nghanol Caerdydd ac ehangu lleoedd cyfrwng Cymraeg gan 1 dosbarth mynediad (210 o leoedd).
312. Yn y tri opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt, byddai Ysgol Mynydd Bychan yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank. Pe bai Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Allensbank, byddai unrhyw newidiadau i'r adeiladau sy'n defnyddio grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried ar gam dylunio diweddarach. Byddai'r Cyngor yn nodi ac yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y buddsoddiad mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan.

## **Pryderon traffig**

- *Bydd safle presennol Gladstone hefyd yn achosi aflonyddwch enfawr o ran parcio.*
- *Effaith mwy o draffig o amgylch safle Ysgol Gynradd Allensbank.*

## **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

313. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol. Mae cynlluniau o'r fath yn nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol. Mae swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu'r rhain ac mae'r pedair ysgol eisoes wedi rhoi Cynllun Teithio Llesol ar waith ar gyfer eu safle presennol.
314. Bydd swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol yn parhau i weithio gyda'r ysgolion wrth adolygu a datblygu eu Cynlluniau Teithio Llesol presennol ymhellach fel y bo'n briodol i gyd-fynd ag unrhyw newid mewn amgylchiadau. Gallant helpu i

ymgysylltu ar y Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o'r gwaith o greu mwy o leoedd ac unrhyw newidiadau mewn lleoliad carfannau ysgol i safleoedd eraill.

315. Bydd y gwaith diweddar o adeiladu'r beicffordd ar hyd Teras Cathays, Heol yr Eglwys Newydd a Heol Allensbank yn darparu cyfleuster beicio newydd sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, a bydd yn cael ei defnyddio yn y Cynlluniau Teithio Llesol hyn.
316. Ar hyn o bryd, mae safle Santes Monica/Gladstone yn elwa ar weithredu strydoedd ysgol o fewn y cyffiniau. Mae Stryd Pentyrch a Stryd Cwmdâr ar gau i draffig o 08.30am - 09.30am ac o 3pm – 4pm. Mae cynlluniau eisoes yn cael eu datblygu i ehangu hyn drwy greu Stryd Ysgol ar Heol Seland Newydd. Mae potensial hefyd i wneud hyn ar ran o Stryd Llanisien. Fodd bynnag, bydd y ddau gynnig yn gofyn am ymgynghori â thrigolion a busnesau lleol.
317. Y pellter mwyaf rhwng safleoedd yr ysgolion uchod yw tua 0.5 milltir. Felly, pe bai unrhyw un o'r ysgolion yn cael eu hadleoli ar safle arall, y cynnydd mwyaf yn y pellter teithio rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion presennol fyddai 0.5 milltir.

### **Cyfansoddiad hiliol ysgolion**

- *Dylid canmol a chefnogi amrywiaeth Allensbank a'i chyflawniadau heb ei hariannu'n ddigonol, nid ei chosbi.*
- *Dylai addysg fod yn gydraddol ei natur, gyda chyfle cyfartal i bawb, ond yn yr achos hwn mae'n teimlo'n wirioneddol fel bod disgyblion a staff Ysgol Allensbank yn cael eu gwrthio i'r cyrion er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i'r disgyblion yn Ysgol Mynydd Bychan. O ystyried nifer y disgyblion a'r teuluoedd yn Allensbank o grwpiau lleiafrifol hiliol, mae'r opsiynau arfaethedig hyn hyd yn oed yn fwy brawychus, dylai'r Cyngor fod yn cefnogi'r gymuned ysgol hon a pheidio â cheisio tarfu ar eu profiad addysgol a'u potensial yn y dyfodol.*
- *Does dim angen tarfu ar y plant, a chi'n dal i wthio'r Gymraeg yn gyntaf a phopeth arall yn ail. Onid hiliaeth yw hynny?*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

318. Mae dadansoddiad o ddata'r cyfrifiad ysgol (CYBLD) yn cadarnhau, ar hyn o bryd, fod gwahaniaethau sylweddol yn y data demograffig rhwng rhai o ysgolion yr ardal.
319. Mae'n nodedig fod cyfeiriadau cartref disgyblion sydd wedi cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan wedi'u clystyru o amgylch safleoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank. Mae mwyafrif disgyblion Ysgol Gynradd Allensbank yn byw yn yr un ardal, gyda chyfeiriadau cartref hefyd wedi'u clystyru o amgylch safleoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank. Ond mae data demograffig ar gyfer y disgyblion hynny ac ar gyfer yr ysgol yn gyffredinol yn wahanol iawn i ddata Ysgol Mynydd Bychan.

320. Mae data demograffig hefyd yn gwahaniaethu'n fawr rhwng Ysgol Mynydd Bychan ac ysgolion Saesneg eraill sy'n gwasanaethu'r ardal. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys:
- Symudedd disgyblion (faint o blant sy'n symud i mewn ac allan o ysgol)
  - Disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
  - Iaith y cartref
  - Lefel cymhwysedd a gyflawnir yn y Gymraeg neu Saesneg, ac
  - Ethnigrwydd
321. Rhaid i gynigion ystyried gwahaniaeth mewn data demograffig ond rhaid iddynt hefyd ystyried gallu'r ymgeiswyr hynny sy'n symud i'r ardal i allu cyrchu lleoedd ysgol yn gydradd yn y naill gyfrwng iaith.
322. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu. Rhaid i'r Cyngor felly sicrhau, wrth gyflwyno cynigion ac ar ôl gweithredu cynigion, fod pob un o'r ysgolion yn cael cefnogaeth i ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Rhaid i'r cynigion gefnogi pob ysgol i allu hyrwyddo cyfle cyfartal i holl deuluoedd yr ardal.
323. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 y Cyngor yn gosod targedau penodol ac yn nodi ffrydiau gwaith blaenoriaeth i'r Cyngor a phartneriaid fel ysgolion. Mae hyn yn cynnwys menter beilot ymchwil gyda Caerdydd Ddwyeithog, arolygon rhieni, a grwpiau ffocws er mwyn deall yn well y rhesymau dros y niferoedd isel sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg o fewn grwpiau a chymunedau penodol a dangynrychiolir (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ochr yn ochr â hyrwyddiadau pwrpasol. Mae'r gwaith yma ar y gweill.
324. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ceisio darparu cydbwysedd priodol lle mae pob math o ysgol ar gael i bob grŵp a lle cefnogir pob ysgol i fod yn hygyrch, ac i gael eu gweld yn hygyrch, i bob grŵp.
325. Bydd y gwaith sydd ar y gweill i ddeall dewisiadau rhieni a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd ym mhob cymuned yn well, ochr yn ochr â gwella gwelededd cyfrwng iaith a chyfleoedd trochi sydd ar gael, yn targedu'n uniongyrchol yr ymgais i leihau'r anghyfartaledd rhwng data demograffig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

### **Blaenoriaethu cyfrwng Cymraeg dros gyfrwng Saesneg**

- *Dylid trin cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn gyfartal a'u hariannu'n gyfartal ni waeth a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Mae Caerdydd yn ddinas amlddiwylliannol, dylen ni fod yn gwthio'r agenda ar y ddwy ran. Mae angen cymaint o leoedd cyfrwng Saesneg â chyfrwng Cymraeg.*
- *Dylai fod cyllid cyfartal ar gyfer ysgolion Saesneg a Chymraeg ac ni ddylai fod unrhyw duedd o blaid ysgolion Cymraeg eu hiaith. Mae'n ymddangos bod y*

*llywodraeth hon yn dangos tuedd mawr tuag at addysg Gymraeg pan fo gan bob plentyn yr hawl i addysg/cyllid cyfartal.*

- *Mae'n anfoesegol nad yw'r cyllid ar gyfer yr ysgolion Cymraeg eu hiaith ac ysgolion Saesneg eu hiaith yn gyfartal. Mae'n ymddangos i mi fod y llywodraeth hon yn dangos tuedd mawr tuag at addysg Gymraeg pan fo gan bob plentyn yr hawl i addysg/cyllid cyfartal.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

326. Mae'r Cyngor yn credu bod ffyniant hirdymor y ddinas yn dibynnu ar gefnogaeth gadarn i'n plant a'n pobl ifanc wireddu eu potensial.

327. Mae'r newidiadau arfaethedig wedi'u cyflwyno o fewn cyd-destun:

- cynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr
- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y gymuned leol
- cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog
- cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o'u cyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny, cadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr
- cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg o un dosbarth mynediad (210 o ddisgyblion oed cynradd)
- atgyfnerthu lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o leoedd gwag

328. Byddai cynnydd yn nifer y lleoedd cynradd sydd ar gael i wasanaethu'r ardal yn gyffredinol. Ni fyddai gostyngiad yn nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg sydd o dan Opsiwn 1 nac Opsiwn 2. Byddai gostyngiad bychan yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg dan opsiwn 3, ond byddai digon o leoedd o hyd i ateb y galw gyda lefel briodol o leoedd gwag i ganiatáu amrywiadau ym mhoblogaeth y disgyblion.

329. Yn gyffredinol, byddai lle i ddarparu mwy o leoedd meithrin cyfrwng Saesneg a Chymraeg yn cael ei gadw, a byddai nifer y lleoedd sy'n cael eu hariannu yn adlewyrchu'r galw am leoedd yn yr ardal leol.

330. Byddai mân newid ym mhatrwm dosbarthu lleoedd fodd bynnag o ystyried agoswydd safleoedd yr ysgol ni fyddai hyn yn cael fawr o effaith neu ddim effaith.

### **Gwrthdaro Buddiannau**

- *A oes rhaid i gynghorwyr ddatgan gwrthdaro buddiannau?*
- *A oedd y rhai a oedd yn gwneud penderfyniadau yn cynrychioli barn wirioneddol cymuned Cathays, yn hytrach na barn cymuned bleidleisio dosbarth canol gwyn Cathays. Mae perygl i'r gymuned ganfod bod plant gwyn, dosbarth canol yn cael eu trin yn well na phlant eraill, a allai achosi rhaniad.*

### **Gwerthusiad o'r safbwyntiau a fynegwyd**

331. Mae pob Cyngorydd wedi'i rwymo gan y Cod Ymddygiad Aelodau statudol (sydd i'w weld o fewn Rhan 5 o Gyfansoddiad y Cyngor), sy'n cynnwys rheolau ar fuddiannau personol a phryd a sut y mae'n rhaid eu datgelu.
332. Os oes gan Gyngorydd fuddiannau sy'n gwrthdaro mewn mater (y cyfeirir ato yn y Cod fel 'buddiant personol a rhagfarnol'), rhaid iddo beidio â chymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Cyngor ynghylch y mater hwnnw.
333. Roedd yr adroddiad cyn ymgynghori a ystyriwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2023 yn cynnwys adran benodol ar 'Amrywiaeth cymunedau ysgol', sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cynigion ysgolion yn diwallu anghenion eu cymunedau amrywiol:
334. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu. Rhaid i'r Cyngor felly sicrhau, wrth gyflwyno cynigion ac ar ôl gweithredu cynigion, bod pob un o'r ysgolion yn cael cefnogaeth i ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt a bod pob un yn gallu datblygu cyfle cyfartal i holl deuluoedd yr ardal.'
335. Nodir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau cydraddoldeb statudol yn adran gynghori goblygiadau cyfreithiol yr adroddiad Cabinet (paragraff 270); ac mae Asesiad Effaith, sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, wedi'i atodi fel Atodiad 10 i'r adroddiad.
336. Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ei wneud yn hygyrch i bob rhan o'r gymuned gyda gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi mewn gwahanol ieithoedd cymunedol. Mae'r Asesiadau Effaith yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r adborth i'r ymgynghoriad, er mwyn sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yr holl wybodaeth berthnasol i ystyried yr holl oblygiadau cydraddoldeb yn briodol cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen ag unrhyw un o'r cynigion.
337. Mae gan y Cyngor broses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gadarn i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn iawn ag anghenion ei gymunedau amrywiol.



Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

## Cynnwys

Cefndir .....	3
Cynigion .....	3
Methodoleg .....	5
Ymatebion.....	6
Canlyniadau .....	7
Nodwch a ydych yn ymateb fel: .....	7
A fydddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) yr ydych yn gysylltiedig â hi/nhw: .....	7
Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? .....	8
Esboniwch pam:.....	9
Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? .....	16
Esboniwch pam:.....	17
Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? .....	25
Esboniwch pam:.....	26
A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r opsiynau a gynigir? Os felly, sut byddai'r newidiadau hyn o fwy o fudd i blant a phobl ifanc yn y cymunedau hyn, nag Opsiynau 1, 2 neu 3? .....	33
A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill? .....	48
Amdanoch Chi.....	54
Rhowch eich cod post llawn isod (e.e. CF10 4UW) fel y gallwn fod yn sicr ein bod yn clywed barn preswylwyr lleol: .....	54
Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?.....	54
A ydych chi'n... ..	55
Ydych chi'n ystyried eich hun yn Drawsrywedol?.....	55
A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?.....	55
Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi: .....	56
Beth yw eich grŵp ethnig? <b><i>Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un o'r pedair o wledydd Prydain, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.</i></b> .....	56
ATODIAD A - Ymatebion Ffurfiol.....	57
Ymateb ar y cyd gan Gynghorwyr Sir Ward Gabalfa, y Cynghorwyr Rhys Taylor ac Ashley Wood.....	58
Estyn - Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru .....	61
Julie Morgan, Aelod o'r Senedd ar gyfer Gogledd Caerdydd.....	66
Ymateb NEU i'r ymgynghoriad ar ddarparu lleoedd ysgol gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd .....	68
Esgobaeth Llandaf.....	72

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Ysgol Gynradd Allensbank - Corff Llywodraethu .....	74
Ysgol Gynradd Allensbank - Pennaeth.....	76
Staff Allensbank – Aelodau Undeb NEU .....	79
Ysgol Gynradd Gladstone - Corff Llywodraethu .....	81
Ysgol Gynradd Gladstone - Pennaeth.....	83
Ysgol Gynradd Gladstone - Staff.....	86
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica – Pwyllgor Cyllid, Safle ac Iechyd a Diogelwch y Corff Llywodraethu.....	88
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica – Pwyllgor Safonau y Corff Llywodraethu.....	89
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica – Pwyllgor Gweledigaeth a Gwerthoedd y Corff Llywodraethu .....	90
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica - Pennaeth.....	92
Ysgol Mynydd Bychan – Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff .....	94
RhAG – (Rhieni dros Addysg Gymraeg) .....	98
Ysgol Gynradd Allensbank – Cyngor Ysgol .....	101
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica - Cyngor Ysgol .....	103
ATODIAD B - Negeseuon E-bost a Dderbyniwyd .....	104
Ebost 1 .....	105
Ebost 2 .....	109
Ebost 3 .....	113
Ebost 4 .....	115
Ebost 5 .....	117

## Cefndir

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yng Nghaerdydd yn cael addysg wych trwy gyfrwng yr iaith o'u dewis nhw.

Bu'r Cyngor yn ymgynghori yn 2021 ar gynnig i ddarparu cydbwysedd priodol o leoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd a gofyn am farn ar newidiadau hirdymor i ddarpariaeth ysgolion.

Yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2021, derbyniodd y Cabinet adroddiad yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad. Ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd, penderfynodd y Cabinet beidio â symud ymlaen â'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan o 2022.

Yn dilyn hynny, mae'r Cyngor wedi nodi tri opsiwn fyddai'n gwella'r cydbwysedd o ran argaeledd lleoedd ysgol sy'n gwasanaethu'r ardal. Byddai dau o'r opsiynau yn rhoi cyfle i'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg gydweithio'n ffurfiol, megis drwy ffederasiwn, neu gydweithio'n anffurfiol.

## Cynigion

Mae'r opsiynau i ehangu darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac atgyfnerthu darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fel a ganlyn:

### **Opsiwn 1**

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.
- Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone:
  - Cau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol.
  - Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol.
  - Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda meithrin ar y safle presennol a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

### **Opsiwn 2**

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.
- Cydleoli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir:
  - Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
  - Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 (1.5DM) i 210 (1DM).
  - Lleihau ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol.
  - Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96.
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

### **Opsiwn 3**

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM).
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.
- Lleihau capasiti Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd (1.5DM) i 192 o leoedd (0.9DM).

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

Byddai opsiwn 2 a 3 yn galluogi rhoi mwy o ystyriaeth i gydweithredu neu ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae manteision amlwg i gydweithio neu ffedereiddio ar gyfer ysgolion sydd wedi'u lleoli naill ai ar yr un safle neu yn yr un gymuned gan ei fod yn eu galluogi i gydweithio ar flaenoriaethau a rennir, cyfuno arbenigedd, gwneud defnydd gwell o adnoddau ac archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol.

## Methodoleg

- Roedd y cyfnod ymgynghori o 03 Mai 2023 i 30 Mehefin 2023.
- Cyhoeddi dogfen ymgynghori ddwyieithog yn amlinellu cefndir, rhesymeg a gobygiadau i rieni, darparwyr gofal plant lleol, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion cyfagos, holl Aelodau wardiau lleol a rhanddeiliaid eraill.
- Cyhoeddi dogfen gryno ddwyieithog sy'n nodi prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori.
- Cyhoeddwyd y ddogfen gryno a'r ffurflen ymateb hefyd mewn naw iaith gymunedol a ddosbarthwyd i rieni yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Rhoddwyd posteri yn amlinellu manylion y cynigion a dyddiadau cyfarfodydd/galw heibio yn yr ardal leol.
- Cyfarfodydd ymgynghori gyda staff a llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan.
- Cyfarfodydd ymgynghori gyda chynrychiolwyr disgyblion Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan.
- Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghanolfan Gymunedol Cathays lle eglurwyd y cynigion ac ateb cwestiynau. Roedd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf trwy gyfrwng y Saesneg a'r ail drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyfarfodydd cyhoeddus ar-lein lle eglurwyd y cynigion ac ateb cwestiynau.
- Sesiynau galw heibio yn Llyfrgell Cathays lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau.
- Sesiynau galw heibio yn Llyfrgell Cathays lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau.
- Sesiynau galw heibio i rieni Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica neu Ysgol Mynydd Bychan.

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

- Anfonwyd llythyrau yn nodi manylion y cynigion a ble y gellid cael mwy o wybodaeth at breswylwyr a busnesau lleol yr ardal o amgylch safleoedd yr ysgolion yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig.
- Anfonwyd llythyrau hefyd i addoldai yn yr ardal leol i'w gwneud yn ymwybodol o'r ymgynghoriad, sut y gallent fynegi eu barn a chynnig i gwrdd ag unrhyw grwpiau y maent yn eu cynnal neu sy'n defnyddio eu hadeilad a hoffai gael gwybod mwy am y newidiadau arfaethedig.
- Slip ymateb i'r ymgynghoriad i'w ddychwelyd drwy'r post neu ar e-bost, ynghlwm wrth y dogfennau ymgynghori a'r ddogfen gryno (yn cynnwys naw iaith gymunedol).
- Ymgyrch gyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Ymateb ar-lein oddi wrth: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Y-newyddion-diweddaraf-a-sut-i-gysylltu-a-ni/Cyhoeddiadau/ysgolion-gynradd-cathays-gabalfa/Pages/default.aspx>
- I randdeiliaid nad oedd ganddynt fynediad i lwyfannau digidol, roedd cyfle ar gael i drafod y newidiadau arfaethedig dros y ffôn.

## Ymatebion

- Cafwyd 188 ymateb i'r ymgynghoriad.
- Derbyniwyd nifer o ymatebion ffurfiol, gellir gweld y rhain yn [Atodiad A](#).
- Derbyniwyd 5 neges e-bost mewn perthynas â'r ymgynghoriad, gellir gweld y rhain yn [Atodiad B](#).

## Canlyniadau

Nodwch a ydych yn ymateb fel:

**'Rhiant neu Warcheidwad Presennol'** (64.4%) yn rhoi cyfrif am brif garfan yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn dilyn hyn roedd **'Aelod o Staff'** (16.0%) a **'Preswylydd Lleol'** (10.6%).

	Nifer	%
Rhiant neu Warcheidwad Presennol	121	64.0
Aelod o Staff	30	16.0
Preswylydd Lleol	20	10.6
Llywodraethwr	12	6.4
Rhiant neu Warcheidwad yn y Dyfodol	8	4.3
Disgybl	6	3.2
Arall	17	9.0
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>188</b>	<b>-</b>

*D.S: Mae'r canrannau yn rhoi cyfanswm o fwy na 100% am y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.*

A fyddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) yr ydych yn gysylltiedig â hi/nhw:

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa ysgol y maent yn gysylltiedig â hi, gellir gweld canlyniadau hyn isod:

	Nifer	%
Ysgol Gynradd Allensbank	56	34.6
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica	41	25.3
Ysgol Gynradd Gladstone	32	19.8
Ysgol Mynydd Bychan	9	5.6
Arall	24	14.8
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>163</b>	<b>100.0</b>


## Opsion 1

### **Uno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone, trwy**

- Gau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol.
- Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol.
- Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd gyda meithrinfa ar safle a rennir presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan, a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.
- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420 o leoedd, a chynyddu nifer y lleoedd meithrin o 64 i 96.

### Ydych chi'n cefnogi Opsion 1?

Dywedodd dros hanner (54.3%) o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r opsiwn hwn. Mae hyn yn cynyddu i ryw dri o bob pump (61.1%) pan fydd ymatebwyr 'Dim Barn' yn cael eu heithrio o'r dadansoddiad.





Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

**Esboniwch pam:**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi mwy o wybodaeth i esbonio pam eu bod wedi ateb ie neu na.

Yna cafodd y sylwadau hyn eu grwpio'n themâu; gellir gweld y themâu hyn ynghyd a sylwadau enghreifftiol isod / drosodd:

Opsion 1 - Ie			
Thema	Nifer	%	Sylwadau Enghreifftiol
Elwa ar ddarpariaeth feithrin newydd a gwell	26	51.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n gyfle gwych i'n hysgol dyfu a chael dosbarth meithrin ar gyfer yr holl frodyr a chwiorydd.</li> <li>Gallai dosbarth meithrin ar gyfer Santes Monica fod yn fuddiol i rieni presennol a rhai'r dyfodol.</li> <li>Bydd mwy o le ar gyfer brodyr a chwiorydd iau gyda dosbarth meithrin, rwyf wrth fy modd gyda'r syniad o faes chwarae mwy lle gall y plant archwilio a chwarae'n greadigol.</li> <li>Byddwn wrth fy modd i Santes Monica's gael darpariaeth dosbarth meithrin.</li> </ul>
Ysgolion yn elwa ar le gwell	23	45.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd lle gwell ar gyfer Mynydd Bychan, rhoi dosbarth meithrin i Santes Monica, ac uno'r ddwy ysgol Saesneg yn rhoi darpariaeth well i blant o'r ysgolion hynny.</li> <li>Mae angen darpariaeth briodol ar Santes Monica ar gyfer ysgol sydd wedi gordanysgrifio, gan gynnwys maes chwarae priodol.</li> <li>Mae angen dosbarth meithrin a maes chwarae mawr ar Ysgol Gynradd Santes Monica.</li> </ul>
O fudd i'r ysgolion/staff/rhieni/plant	16	31.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn fwy addas ar gyfer anghenion y plant.</li> <li>Bydd o fudd i mi a theuluoedd eraill sydd â brodyr a chwiorydd iau.</li> <li>Yr opsiwn gorau i ddiwallu anghenion plant.</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Cyfuno ysgolion cynradd yw'r opsiwn gorau	11	21.6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gostyngiad yn y niferoedd ar y gofrestr wedi bod yn bryder yn y ddwy ysgol ers blynyddoedd ac wedi cael effaith negyddol ar gyllidebau.</li> <li>• Felly gall y plant gael mwy o le ar gyfer dysgu a chymdeithasu yn yr awyr agored. Fel rhiant, hoffwn i'm plant gael popeth sydd ei angen arnynt yn enwedig gofod awyr agored ar gyfer eu grymuso'n gymdeithasol ac yn addysgol. Ac mae rhoi Gladstone ac Allensbank gyda'i gilydd yn golygu mwy o le i'r plant hefyd.</li> </ul>
O fudd i ysgolion ffydd	7	13.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strwythur gwell. Mae cynyddu lleoedd a chyfle i gynyddu lleoedd meithrin yn yr ysgol ffydd yn golygu bod galw am ein hysgol. Rydym wedi gordanysgrifio ac yn cystadlu o ran niferoedd gydag ysgolion mewn adeiladau mwy.</li> <li>• Bydd hyn yn dda ar gyfer dysgu mewn ffordd fwy effeithiol. Bydd gan y plant fwy o le i ddysgu a gallu mynegi eu hunain. Bydd hyn hefyd yn annog addysg yn seiliedig ar ffydd ac yn ehangu hyn i gynnwys mwy o ddiwylliannau a chrefyddau. Bydd hyn yn dda i'r plant, y rhai sy'n ymgartrefu yma yng Nghaerdydd o dramor ac i'r gymdeithas yn y dyfodol. Mae hwn yn gyfle gwych i Santes Monica (Opsiwn 1/2).</li> </ul>
Galw am lefydd Cymraeg	6	11.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd yn caniatáu i ysgol Santes Monica gael dosbarth meithrin a chaniatáu i ysgolion cyfrwng Cymraeg dyfu ac ehangu.</li> <li>• Mae gan Ysgol Mynydd Bychan lawer rhy ychydig o lefydd ar hyn o bryd, mae mwy a mwy o bobl yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae'n ymddangos y bydd hyn yn mynd yn fwy</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			poblogaidd, felly mae angen mwy o leoedd ar gyfer pobl sy'n byw gerllaw. Rydym yn byw o fewn y dalgylch, ond rydym dros filltir i ffwrdd, ar hyn o bryd mae'n ymddangos na fyddem yn cael lle os mai'r disgybl pellaf o fis Medi yw 0.9 milltir i ffwrdd, sy'n peri pryder mawr fel darpar riant sydd am ddefnyddio teithio llesol i fynd â fy mhlentyn i'r ysgol.
Yr opsiwn mwyaf cost- effeithiol	5	9.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n ymddangos fel yr opsiwn mwyaf cost-ffeithiol. Bydd cadw pob un o'r 4 ysgol ar agor pan nad oes gennych nifer y disgyblion cyfrwng Saesneg yn golygu y bydd adnoddau'n cael eu hymestyn dros 4 safle yn hytrach na 3.</li> </ul>
Angen ysgolion ar wahân	2	3.9	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw dwy ysgol ar yr un safle yn ddelfrydol felly mae'n gwneud mwy o synnwyr i gael ysgolion ar wahân.</li> </ul>
Rheswm Arall	7	13.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>BRYS. Angen ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Anglicanaidd wrth i'r galw gynyddu.</li> </ul>
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>51</b>	<b>-</b>	

*D.S: Mae'r canrannau'n creu cyfanswm o fwy na 100% am y gallai sylwadau'r ymatebwyr fod yn berthnasol i fwy nag un thema.*

Opsiw 1 - Na			
Thema	Nifer	%	Sylwadau Enghreifftiol
Effaith negyddol ar blant / rhieni / staff	33	41.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae fy mhlentyn wedi setlo yn ei ysgol. Mae'n awtistig ac nid yw'n delio'n dda â newid. Mae'r ysgol wedi bod wrthi'n cael ei hadnewyddu ers peth amser, mae'n ymddangos yn annheg y bydd hynny'n cael ei gymryd oddi wrthyn nhw.</li> <li>Rwy'n credu bod hyn yn achosi gormod o ofid i ormod o rieni. Rwy'n credu y dylai Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan newid safleoedd a dylid gadael Gladstone a Santes Monica lle maen nhw. Dyma'r dewis sy'n achosi'r aflonyddwch lleiaf. Mae'n</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			<p>ydddangos mai dim ond Ysgol Gynradd Allensbank sydd â gormod o le ar gyfer y niferoedd presennol ar y gofrestr.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r tarfu ar staff a disgyblion Allensbank yn annheg iawn pan maent wedi cael eu hamharu ddigon yn barod dros y blynyddoedd gyda gwaith adeiladu, dim ond i fod o fudd i rywun arall.</li> </ul>
Addysg Gymraeg	22	27.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gormod o lefydd cyfrwng Cymraeg heb ddigon o blant i'w llenwi, bydd YGC o dan anfantais.</li> <li>• Mae Allensbank wedi wynebu llawer o darfu ac mae rhoi'r adeilad sydd wedi ei adnewyddu wedyn i ysgol newydd yn anghywir. Mae'n ymddangos bod mwy o fuddsoddiad mewn ysgolion cefnog cyfrwng Cymraeg na'r cymheiriaid Saesneg eu hiaith gyda dalgylch mwy amrywiol.</li> <li>• Ddim yn cytuno ag ehangu darpariaeth Gymraeg a chyfyngu ar ddewis rhieni.</li> </ul>
Ni ddylai Allensbank gael ei symud	19	24.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Allensbank a Gladstone yn haeddu aros fel y maent! Adeiladu ac agor ysgol Gymraeg newydd.</li> <li>• Mae ysgol Allensbank yn gweithio'n dda fel y mae, ar ôl proses ailadeiladu hir nid yw'n deg ei symud.</li> <li>• Nid ydym eisiau cau ysgol gynradd allensbank.</li> </ul>
Effaith ar Ysgol Glan Ceubal	14	17.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan yn cael effaith niweidiol ar Ysgol Glan Ceubal.</li> <li>• Nid ydych wedi ystyried Glan Ceubal.</li> </ul>
Cydraddoldeb i bob iaith a diwylliant	13	16.5	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pam achosi cymaint o darfu ar blant Allensbank, mae cymaint o opsiynau eraill sydd heb eu hystyried. Pam nad yw YMB yn symud i Gladstone? Pam ein bod ni fel ysgol amlddiwylliannol yr ardal, yn cael ein symud allan o'r ardal?</li> <li>• Rwy'n mynd i siarad heddiw am y rheswm pam y dylem gadw Allensbank yma. Mae ein hysgol wedi bod yn yma ers 117 o</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			<p>flynyddoedd. Rwy'n siŵr nad oes yr un ohonom eisiau i'n hysgol fynd. Roedd fy nhad a'i frodyr a'i gefndryd yn dod yma. Roedd fy modrybedd ac ewythrod yn dod yma hefyd. Fy nghymydog hefyd. Mae Allensbank yn gymuned amrywiol o blant o wahanol gefndiroedd a chrefydd, ac mae hyn yn adlewyrchiad o'r cymunedau rydym yn byw ynddynt, mae'n bwysig gallu dangos i blant waeth beth yw eich hil neu gefndir bod Allensbank yn hafan i bob plentyn.</p>
Mae Allensbank yn ysgol ardderchog	10	12.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae fy wyrion wedi cael addysg wych yn Ysgol Gynradd Allensbank.</li> <li>• Mae Allensbank yn ysgol wych, amrywiol, hapus a chynrychiadol o gymdeithas yn gyffredinol. Gyda phwyslais ar bob addysg, nid Cymraeg yn unig.</li> </ul>
Ddim eisiau ysgol fwy o faint	10	12.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar hyn o bryd mae'n well gen i'r dosbarthiadau llai a'r ysgol yn Allensbank am fod fy mhentyn yn gallu canolbwyntio'n hawdd a chael mwy o gefnogaeth gyda'i ddysgu. Bydd safle presennol Gladstone hefyd yn achosi aflonyddwch enfawr gyda pharcio a thraffig ac mae'n gryn bellter o fy nghartref.</li> <li>• Mae fy mab yn awtistig a byddai'n anodd iawn symud i'r ysgol fwy honno.</li> </ul>
Materion dalgylch	9	11.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen i ni sicrhau na fydd unrhyw amhariad yn y dalgylch / niferoedd sy'n mynychu ysgolion eraill, fel Glan Ceubal lle mae'r niferoedd sy'n cael eu derbyn yn isel o hyd.</li> <li>• Bydd cynyddu lleoedd ym Mynydd Bychan mor ddramatig yn effeithio'n negyddol yn uniongyrchol ar nifer y disgyblion sy'n cael eu denu i Ysgol Glan Ceubal, sydd bob amser wedi bod â llefydd dros ben oherwydd y dalgylch afresymegol. Nid yw'r cynnig hwn yn cynrychioli llefydd gwag cynaliadwy ar gyfer Ysgol Glan Ceubal.</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Cadwch Gladstone fel y mae	8	10.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Na, nid wyf yn credu bod hwn yn ateb priodol. Rwyf yn erbyn cau Ysgol Gynradd Gladstone.</li> <li>• Nid wyf am i Ysgol Gynradd Gladstone gael ei chau'n ffurfiol, mae fy mhlentyn yn mynychu'r Ysgol honno ar hyn o bryd ac fe wnes i, y rhiant, fynychu'r un ysgol ac mae llawer o aelodau agos eraill o'r teulu wedi mynychu'r un Ysgol dros y 30 mlynedd diwethaf.</li> </ul>
Ystyried opsiwn arall	8	10.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae adeilad Allensbank yn fawr - does dim ffordd y bydd YMB yn ei lenwi. Mae hyn yn wastraff adnoddau. Byddai'n llawer gwell uno Allensbank a Gladstone ar safle Allensbank oherwydd yna byddai'r adeilad mwyaf yn llawn yn syth.</li> <li>• Dylai Ysgol Glan Ceubal fod wedi cael ei hystyried ynghyd ag ysgolion eraill fel ysgol bosibl ar gyfer ehangu yn y cynigion hyn.</li> </ul>
Peidiwch ag uno ysgolion Allensbank a Gladstone	7	8.9	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid wyf yn credu mai uno dwy ysgol gynradd fydd y sefyllfa orau i'r plant. Bydd yn cynyddu maint dosbarthiadau; yr ystod o anghenion disgyblion ym mhob dosbarth a bydd angen addasiad enfawr ar gyfer disgyblion a staff. Mae hefyd yn golygu anesmwythyd mawr i'r gymuned leol.</li> </ul>
Mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud y penderfyniad	3	3.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae bob un o'r tri "opsiwn" yn cynnwys yr un mater o symud Ysgol Gynradd Allensbank... Os yw'r tri opsiwn yr un fath, mae hynny'n golygu nad oes unrhyw opsiynau! Mae'n amlwg bod y penderfyniad hwn eisoes wedi'i wneud gan Gyngor Caerdydd heb unrhyw ymgynghori â staff, rhieni, disgyblion na phreswylwyr lleol. Pam ydych chi'n gofyn am adborth pan nad oes unrhyw ddewis?</li> </ul>
Arall	12	15.2	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid wyf yn cefnogi unrhyw ddiswyddiadau.</li> <li>• Ddim o blaid 2 ddsbarth mynediad.</li> </ul>
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>79</b>	<b>-</b>	

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

*D.S: Mae'r canrannau'n creu cyfanswm o fwy na 100% am y gallai sylwadau'r ymatebwyr  
fod yn berthnasol i fwy nag un thema.*

Mae rhestr lawn o sylwadau wedi cael ei throsglwyddo i dîm y prosiect.


## Opsiw 2

### ***Cytleoli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir, trwy:***

- Drosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle a rennir presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
- Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd i 210.
- Lleihau ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol.
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96.
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan, a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.
- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420 o leoedd, a chynyddu nifer y lleoedd meithrin o 64 i 96.

### Ydych chi'n cefnogi Opsiw 2?

Dyweddodd tua thri o bob pump (58.5%) o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r opsiwn hwn. Mae hyn yn cynyddu i bron tri mewn pedwar (72.8%) pan fydd ymatebwyr 'Dim Barn' yn cael eu heithrio o'r dadansoddiad.





Esboniwch pam:

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi mwy o wybodaeth i esbonio pam eu bod wedi ateb ie neu na.

Yna cafodd y sylwadau hyn eu grwpio'n themâu; gellir gweld y themâu hyn ynghyd a sylwadau enghreifftiol isod / drosodd:

Opsiw 2 - Ie			
Thema	Nifer	%	Sylwadau Enghreifftiol
Bydd mwy o le o fudd i ysgolion	10	35.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen darpariaeth briodol ar Santes Monica ar gyfer ysgol sydd wedi gordanysgrifio, gan gynnwys maes chwarae priodol.</li> <li>Rwy'n rhiant yn Santes Monica, ac rwy'n ysu i ni symud i'r safle newydd. Rwy'n credu y byddai'n rhoi dyfodol mwy cynaliadwy i Santes Monica o ran cyllid a lles meddyliol. Rydym yn rhy fawr i'n safle presennol ac mae'r heriau y mae hyn yn eu hachosi yn golygu bod cymaint o amser ac egni'n cael eu defnyddio yn datrys problemau. Rydym bob amser yn ceisio darganfod sut i gael gweledigaeth wych (fel ein drymathon) neu rywbeth syml (fel gêm o bêl-droed amser cinio,) pan nad oes digon o le. Mae hyn yn ein blino ac yn annheg ar ein staff a'n plant. Felly mae unrhyw opsiwn lle rydyn ni'n cael symud i le sy'n addas at y diben yn teimlo fel rhyddhad mawr! Fodd bynnag, tybed pa mor deg fyddai hi yn y tymor hwy i Allensbank wynebu'r un amgylchiadau. Gobeithio y bydden nhw'n tyfu fel ysgol, ond bydden nhw hefyd yn wynebu'r rhwystredigaeth o faes chwarae bach ac mae hynny'n teimlo'n anghyfiawn.</li> <li>Mae'r opsiwn hwn hefyd yn gwneud synnwyr oherwydd unwaith eto mae'n gosod ysgolion ar y safle cywir iddyn nhw o ystyried niferoedd presennol a disgwylidig yn y dyfodol. Yn bersonol, rwy'n credu bod Opsiw 1 yn well oherwydd y cyfle i "ddechrau o'r newydd" y mae'n ei gynnig gydag ysgol newydd sbon a all adeiladu ar y gorau o Allensbank a Gladstone. Mae Opsiw 2 yn opsiwn da ar gyfer Santes Monica, sy'n ysgol ffyniannus sydd angen mwy o le (yn enwedig gofod allanol) i barhau â'i gwaith gwych.</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Mwy o ddarpariaeth feithrin	10	35.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu dosbarth meithrin ar gyfer Santes Monica.</li> <li>• Mae darparu dosbarth meithrin ar gyfer Santes Monica yn amhrisiadwy.</li> <li>• Oherwydd bydd gan ysgol gynradd Santes Monica ddosbarth meithrin a gall ysgolion Cymraeg ehangu.</li> </ul>
Bydd Santes Monica yn elwa o symud	5	17.9	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Santes Monica yn ysgol ffyniannus, wych - rwy'n cefnogi'r cynnig hwn am y byddai'n rhoi cyfle i ehangu'r ddarpariaeth addysgol yn Santes Monica drwy greu agoriad gyda dosbarth meithrin gan ddarparu llwybr drwodd i blant o ddechrau eu haddysg i fynd i'r Ysgol Uwchradd. Drwy roi ei safle ei hun i'r ysgol, bydd yn golygu mwy o le a chyfle i'r plant gael ymdeimlad o hunaniaeth o fod yn eu hadeilad eu hunain, yn hytrach na rhannu gyda Gladstone. O ystyried y gwaith adeiladu parhaus sydd wedi digwydd yn Santes Monica, bydd yn dda i'r ysgol fod mewn adeilad nad oes angen ei atgyweirio'n barhaus - a'r tarfu cysylltiedig ar blant a dysgu. Er fy mod yn cefnogi'r opsiwn hwn, nid wyf yn credu ei fod yn dda fel opsiwn 2 o ystyried na fydd yn caniatáu i'r Cyngor fuddsoddi mwy o arian mewn darpariaeth addysgol am y bydd yn rhaid iddo barhau i ariannu costau rhedeg dwy ysgol cyfrwng Saesneg bach.</li> <li>• Mae hyn yn ychwanegu mwy o le i Santes Monica ddatblygu darpariaeth feithrin. Fodd bynnag, mae'n opsiwn ychydig yn wannach nag 1 am nad yw'n gwneud y defnydd gorau o safle presennol Gladstone/Santes Monica.</li> </ul>
Mae'r opsiwn hwn o fudd i bob ysgol	4	14.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rwy'n cefnogi'r opsiwn hwn hefyd am ei fod yn rhoi'r un buddion i Ysgol Mynydd Bychan ac ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, a byddai'n caniatáu i Gladstone ac Allensbank gadw eu hunaniaeth eu hunain a pharhad addysg i'w dysgwyr.</li> <li>• Oherwydd ei fod o fudd i deuluoedd a hefyd yn gwneud i'r plant ffynnu mewn adeilad newydd.</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg	3	10.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan Ysgol Mynydd Bychan lawer rhy ychydig o leoedd ar hyn o bryd, mae mwy a mwy o bobl yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae'n ymddangos y bydd hyn yn mynd yn fwy poblogaidd, felly mae angen mwy o leoedd ar gyfer pobl sy'n byw gerllaw. Rydym yn byw o fewn y dalgylch, ond rydym dros filltir i ffwrdd, ar hyn o bryd mae'n ymddangos na fyddem yn cael lle os mai'r disgybl pellaf o fis Medi yw 0.9 milltir i ffwrdd, sy'n peri pryder mawr fel darpar riant sydd am ddefnyddio teithio llesol i fynd â fy mhentyn i'r ysgol.</li> </ul>
Rheswm Arall	12	42.9	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os nad oes digon o alw am leoedd mewn ysgol, mae'n gwneud synnwyr i leihau'r niferoedd.</li> <li>Mae'n llanast llwyr i rieni o ran opsiynau.</li> <li>Mae'n well na chau'r ysgol yn gyfan gwbl.</li> </ul>
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>28</b>	<b>-</b>	

*D.S: Mae'r canrannau'n creu cyfanswm o fwy na 100% am y gallai sylwadau'r ymatebwyr fod yn berthnasol i fwy nag un thema.*

Opsiw 2 - Na			
Thema	Nifer	%	Sylwadau Enghreifftiol
Effaith negyddol ar blant / rhieni / staff	22	28.9	<ul style="list-style-type: none"> <li>Peidiwch â lleihau'r capacity na'r ystod oedran yn Allensbank. Bydd hyn yn achosi llawer o darfu ar blant y dyfodol a all fynychu'r ysgol.</li> <li>Mae'n anodd cyrraedd yno a bydd yn creu llawer mwy o draffig.</li> <li>Nid yw hyn er lles unrhyw un sy'n gysylltiedig.</li> </ul>
Ni ddylai Allensbank adleoli	19	25.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gymuned sydd wedi'i sefydlu yn Allensbank yn rhagorol, ac rydych mewn perygl o'i cholli trwy'r cam hwn.</li> <li>Mae ysgol Allensbank yn gweithio'n dda fel y mae, ar ôl proses ailadeiladu hir nid yw'n deg ei symud.</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			<ul style="list-style-type: none"> <li>Rwy'n hoff iawn o Ysgol Gynradd Allensbank. Mae gen i lawer o ffrindiau da ac athrawon gwych. Aeth fy nhad i'r ysgol hon a fy modrybedd ac ewythrod. Dechreuais y dosbarth meithrin yn Allensbank a chyn bo hir byddaf ym mlwyddyn 3. Os bydd yr ysgol yn cau ym Mlwyddyn 4 byddai'n rhaid i mi fynd i ysgol newydd. Bydd hyn yn gwneud pawb yn drist. Cadwch hi ar agor os gwelwch yn dda!</li> </ul>
Effaith ar Ysgol Glan Ceubal	14	18.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Ysgol Glan Ceubal yn ysgol ffyniannus a dylai fod wedi cael ei hystyried fel rhan o'r cynigion hyn ar gyfer ehangu.</li> <li>Bydd cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan yn cael effaith niweidiol ar Ysgol Glan Ceubal.</li> </ul>
Materion cyllideb ysgolion / ariannu	12	15.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae costau rhedeg dwy ysgol yn fwy nag un a gallai arbedion cost arwain un ysgol arwain at wariant ar brofiadau disgyblion.</li> <li>Nid yw gorbenion dwy ysgol ar yr un safle yn ddefnydd da o arian.</li> </ul>
Peidiwch ag uno ysgolion Allensbank a Gladstone	12	15.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid wyf eisiau'r uno.</li> <li>Bydd hyn yn cynyddu'r pwysau ar athrawon wrth i feintiau dosbarthiadau gynyddu ac o bosib bydd ansawdd addysg yn lleihau. Hefyd bydd yn prysuro'r ardal lle mae Gladstone gan ei bod eisoes yn ardal myfyrwyr felly mae parcio yn hunllef ac yna bydd hyd yn oed yn waeth wrth gyrraedd i ollwng a chasglu plant.</li> </ul>
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg	11	14.5	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim yn cytuno â chynyddu darpariaeth Gymraeg ac felly cyfyngu ar ddewis rhieni.</li> <li>Gormod o leoedd cyfrwng Cymraeg heb ddigon o blant i'w llenwi, bydd YGC o dan anfantais.</li> </ul>
Darpariaeth Feithrin	9	11.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>A dweud y gwir, mae'r cynnig hwn yn chwerthinllyd ac nid yw mewn unrhyw</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			<p>ffordd yn ystyried yr aflonyddwch y byddai hyn yn ei achosi i'r holl ddisgyblion a staff yn y pedair ysgol. Ni fyddai chwaith ddosbarth Meithrin yn Allensbank fyddai'n arwain at ddiswyddiadau staff i Allensbank. Dros amser mae'n teimlo fel byddai Allensbank yn cael ei uno â Gladstone beth bynnag ac yn peidio â bodoli. Mae'n teimlo fel marwolaeth araf Allensbank.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai'r opsiwn hwn fod yn ddryslyd i rieni/gofalwyr/disgyblion gyda dwy ysgol yn gorfod rhannu safle. Yn rhesymegol, sut byddai hyn yn gweithio gan fod gan Santes Monica faes chwarae bach iawn ar hyn o bryd - goblygiadau cost i aildrefnu ffensys/rhwystrau. Gallai amserlen amseroedd chwarae/cinio fod yn her. Byddai angen i o leiaf un dosbarth rannu adeiladau ysgol Gladstone - ni fyddai hyn yn braf i'r disgyblion/athrawon hynny a byddai'n ddryslyd. Pe byddai gan Santes Monica ddosbarth meithrin a bod lleoedd meithrin yn cynyddu yn Ysgol Mynydd Bychan, bydd hyn yn achosi mwy o oblygiadau ariannol a her i ysgolion am y byddai mwy o leoedd yn golygu mwy o ysgolion yn cystadlu am leoedd meithrin - os yw cyfraddau genedigaethau yn gostwng, pam ydym yn agor mwy o ddosbarthiadau meithrin yn yr un ardal - bydd hyn yn rhoi mwy o ddiffyg cyllidebol i ysgolion?</li> </ul>
Materion dalgylch	8	10.5	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid ydych wedi ystyried yr effaith ar Ysgol Glan Ceubal o'r cynnydd mewn lleoedd cyfrwng Cymraeg. Rydym eisoes yn cael trafferth mewn dalgylch sydd yn cynnwys Parc Bute lle nad oes cartrefi. Nid yw'r dalgylch yn cynnwys Ystum Taf i gyd hyd yn oed ac yn lle hynny mae'n rhannu'r gymuned yn ddau ar Heol yr Orsaf. Mae ein hysgol yn dioddef oherwydd dalgylch sydd yn rhy fach, sy'n golygu bod nifer y</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			<p>disgyblion yn isel mewn llawer o flynyddoedd, sy'n cael effaith ddinistriol ar gyllid yr ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cynyddu lleoedd ym Mynydd Bychan mor ddramatig yn effeithio'n negyddol ar nifer y disgyblion sy'n cael eu denu i Ysgol Glan Ceubal, sydd bob amser wedi cael problem gyda lleoedd gwag oherwydd y dalgylch afresymegol. Nid yw'r cynnig hwn yn cynrychioli lleoedd gwag cynaliadwy ar gyfer Ysgol Glan Ceubal a bydd yn gwaethygu'r broblem.</li> </ul>
Cydraddoldeb i bob iaith a diwylliant	7	9.2	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r naill ysgol cyfrwng Saesneg na'r llall yn elwa o'r opsiwn hwn.</li> </ul>
Ystyried opsiynau eraill	5	6.6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rwy'n credu na allai'r opsiwn hwn "ail-greu" Allensbank. Gallai arwain at wrthdaro rhwng yr ysgolion fel yr un a welwyd yn dilyn symud Santes Monica i Fabanod Gladstone. Gallai fod cryn dipyn o ddrwgdeimlad gan rieni/staff Allensbank, ond byddai ysgol "newydd" yn opsiwn tecach ac yn ddefnydd mwy cynhyrchiol o'r safle a gallai fod yn llwyddiant mawr, gan edrych ymlaen at ddyfodol gwell!</li> </ul>
Dim digon o wybodaeth	5	6.6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae pryderon ynghylch sut byddai hyn yn cael ei sefydlu ac nid oes unrhyw un ohonynt wedi cael eu rhannu gyda ni felly oherwydd hyn, nid yw'n ymddangos yn ymarferol gan nad oes gennym ddigon o wybodaeth.</li> </ul>
Goblygiadau diogelu	4	5.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan yr adeilad 'newydd' ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio am nad ydynt yn addas at y diben. Ddim yn deg pan mae fy mab eisoes wedi gorfod cael ei ddysgu ar safle adeiladu. Gofynnodd ei ffrind i mi, 'Pam na all hyn fod i ni?' Nid wyf yn gwybod beth i'w ddweud wrtho. Mae fy</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			mab yn haeddu adeilad hyfryd i gael ei ddysgu ynddo :{.
Mae'n well gen i ysgol/ddosbarthiadau llai	2	2.6	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Unwaith eto, mae adeiladau a buddsoddiad gwell o ran adnoddau yn cael eu rhoi i addysg Gymraeg ar draul y Saesneg. Nid yw ysgolion mwy o reidrwydd yn golygu addysg well. O brofiad uniongyrchol mewn addysg, mae plant yn aml yn ffynnu'n addysgol mewn dosbarthiadau llai, yn enwedig os ydynt o gefndir mwy difreintiedig.</li> </ul>
Arall	9	11.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n fan canol anfoddhaol fyddai'n annog trefniant gweithio nhw a ni.</li> <li>• Nid y defnydd gorau o adnoddau.</li> </ul>
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>76</b>	<b>-</b>	

*D.S: Mae'r canrannau'n creu cyfanswm o fwy na 100% am y gallai sylwadau'r ymatebwyr fod yn berthnasol i fwy nag un thema.*

Mae rhestr lawn o sylwadau wedi cael ei throsglwyddo i dîm y prosiect.


Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

### Opsiwn 3

- Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.
- Lleihau capasiti Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd i 192 o leoedd.
- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420 o leoedd.
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.

#### Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3?

Dywedodd tri o bob pump (61.2%) o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r opsiwn hwn. Mae hyn yn cynyddu i bron tri mewn pedwar (77.7%) pan fydd ymatebwyr 'Dim Barn' yn cael eu heithrio o'r dadansoddiad.





Esboniwch pam:

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi mwy o wybodaeth i esbonio pam eu bod wedi ateb ie neu na.

Yna cafodd y sylwadau hyn eu grwpio'n themâu; gellir gweld y themâu hyn ynghyd a sylwadau enghreifftiol isod / drosodd:

Opsiw 3 - Ie			
Thema	Nifer	%	Sylwadau Enghreifftiol
Y tarfu lleiaf ar ysgolion	15	60.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae hyn yn fwy rhesymegol gan ei fod yn lleihau'r tarfu ar staff, plant a rhieni dwy ysgol. Byddai'n osgoi straen a phryder gormodol i bawb.</li> <li>Yr opsiwn hwn sy'n ymddangos fwyaf syml ac mae ganddo oblygiadau i'r nifer lleiaf o fyfyrwyr.</li> <li>Dyma'r opsiwn gorau gan ei fod yn achosi'r tarfu lleiaf ar blant, teuluoedd a staff.</li> <li>Dyma'r unig ddwy ysgol sy'n cael eu heffeithio gan newid niferoedd felly dim ond amharu ar y ddwy ysgol hyn.</li> </ul>
Diogelwch swyddi i staff	6	24.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rwy'n teimlo mai hwn fyddai'n tarfu lleiaf ar bob ysgol dan sylw. Yr unig ysgol sydd ddim yn elwa ar hyn yw Allensbank a byddai'n drist iddyn nhw symud o'r adeilad lle maen nhw wedi bod ers blynnyddoedd lawer. Mae'r logisteg yn haws i bawb i gyfnewid rhyngddynt eu hunain yn hytrach nag opsiynau 2 o symud tair ysgol i adeiladau gwahanol, fydd yn dod ag elfen cost uwch. Ni fyddai hyn yn effeithio ar staffio na'r disgyblion heblaw am symud safleoedd. Byddai'r rhieni yn dal yn agos ac ni fyddai'n rhaid iddynt deithio na cherdded ymhellach i safle Gladstone/Santes Monica. Ni fyddai staff yn cael eu heffeithio yn Gladstone ac ni fyddem yn colli Pennaeth gwych ac uwch staff arweinyddiaeth sy'n gweithio mor galed er budd ein disgyblion a'r staff.</li> <li>Mae'n ymddangos mai'r opsiwn hwn yw'r mwyaf rhesymol allan o'r tri gan ei fod yn golygu amharu ar ddwy ysgol yn unig, sy'n golygu y gall Ysgol Mynydd Bychan gynyddu ei niferoedd a chwrdd â'r galw am addysg Gymraeg. Byddai'r pedair ysgol yn dal i fodoli gan mai ychydig iawn o newidiadau sydd i staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned leol. Byddwn i a fy nghydweithwyr yn cadw ein swyddi a byddai ein</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			disgyblion yn gallu parhau i ffynnu yn ein hamgylchedd ysgol llai.
Bydd ysgol Gladstone yn elwa	6	24.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyma'r dewis sy'n tarfu lleiaf ar Gladstone.</li> <li>• Yr opsiwn cyflymaf a hawsaf sydd yn tarfu lleiaf ar ddisgyblion a staff, mae lles staff yn llawer gwell gyda'r opsiwn hwn, parhad y ddarpariaeth lwyddiannus yr ydym yn ei rhoi fel sydd wedi ei gydnabod yn ein harolygiad Estyn. Gall teulu Gladstone barhau i gefnogi ein gilydd, gallwn barhau i dyfu, datblygu'r dysgwyr cryf a hyderus a wnawn heddiw. Creu cyfleoedd dysgu bywiog ac ystyrlon y mae ein teuluoedd yn eu gwerthfawrogi, i fod yno i'n teuluoedd trwy'r amseroedd caled yn ogystal â'r amseroedd da, i wasanaethu'r gymuned fel y maent wedi ein cefnogi ni. Mae'r staff wedi gweithio yn Gladstone ers blynnyddoedd lawer, rhai dros ddeng mlynedd ar hugain, does neb yn adnabod ein cymuned fel ni a'n dymuniad a'n hangerdd yw parhau i weithio gyda'n teuluoedd gwych wrth iddyn nhw symud ar hyd eu llwybrau bywyd.</li> </ul>
Mae ysgolion yn parhau i fod yn annibynnol ac yn cadw eu hunaniaeth	5	20.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae hyn yn teimlo fel yr opsiwn mwyaf rhesymol a byddai'n cynnal y gwerthoedd a'r gofal a roddir yn Allensbank.</li> <li>• Mae'r ysgol yn parhau i fod ar safle annibynnol, hawdd ei gyrraedd a gall plentyn dderbyn y gefnogaeth a'r dysgu hwnnw o hyd.</li> </ul>
Mwy o leoedd	5	20.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu lleoedd ym Mynedd Bychan.</li> <li>• Y tarfu lleiaf o'r ddau opsiwn. Mae hefyd yn cadw darpariaeth feithrin Allensbank i fwydo'r ysgol ac yn caniatáu i Ysgol Mynydd Bychan ehangu sef yr hyn y mae'r cyngor eisiau ei gyflawni.</li> </ul>
Gwell defnydd o le ar gyfer Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan	2	8.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Synhwyrol. Yn caniatáu cynnydd mewn niferoedd ym Mynydd Bychan a llai o alw yn Allensbank heb darfu ar a newid ysgolion eraill. Mae Gladstone a Santes Monicas yn gweithio'n dda iawn ar y safle y maen</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			nhw arni ac ar y meintiau presennol. Os nad yw wedi torri, peidiwch â'i drwsio!
Arall	7	28.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn anfoddog.</li> <li>• Rwy'n credu mai dyma'r opsiwn gorau.</li> </ul>
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>25</b>	<b>-</b>	

*D.S: Mae'r canrannau'n creu cyfanswm o fwy na 100% am y gallai sylwadau'r ymatebwyr fod yn berthnasol i fwy nag un thema.*

Opsiw 3 - Na			
Thema	Nifer	%	Sylwadau Enghreifftiol
Effaith negyddol ar blant / rhieni / staff	20	26.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Am y gallai myfyrwyr a rhieni ei chael hi'n anodd gyrru o'u tŷ presennol i rywle pellach erbyn 9:00am o Allensbank i Ysgol Mynydd Bychan.</li> <li>• Nid yw hyn er lles unrhyw un.</li> <li>• Roedd gormod o alw am leoedd o 2 yn YMB, dim digon i esgusodi dyblu'r ddarpariaeth a symud y ddarpariaeth gynradd gyfan yn yr ardal. Ar hyn o bryd mae traffig ar Stryd Llanisien yn ofnadwy gydag ysgol Allensbank. Ychwanegu 100 o leoedd ychwanegol... ble bydd rhieni'n parcio?</li> </ul>
Nid y dewis gorau	19	25.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae un a dau yn fwy addas ar gyfer yr anghenion.</li> <li>• Nid yw'r opsiwn hwn o fudd i anghenion y plant.</li> <li>• Nid yw unrhyw opsiwn pan fydd gennych 400 a mwy o fyfyrwyr mewn un cyfleuster heb unrhyw sôn am gynnydd mewn cefnogaeth byth yn opsiwn.</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Ni ddylai Allensbank adleoli	18	24.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gadewch Allensbank lle mae a pheidiwch â lleihau'r capasiti.</li> <li>Er mai hwn sy'n tarfu lleiaf ar ysgolion eraill, mae'n gorfodi gostyngiad yn niferoedd Allensbank nad yw'n ymddangos yn deg ac ni fydd yn ein helpu i ffynnu.</li> <li>Mae ysgol Allensbank yn gweithio'n dda fel y mae, ar ôl proses ailadeiladu hir nid yw'n deg ei symud.</li> </ul>
Dim budd i Stantes Monica / Gladstone	14	18.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>Oherwydd bydd aros yn yr adeilad presennol ond yn rhwystro'r plant a'r gymuned yn gyffredinol. Rhaid i Stantes Monica symud, er mwyn galluogi newidiadau cadarnhaol.</li> <li>Nid yw hyn o unrhyw fudd i ysgolion Stantes Monica na Gladstone ac addysg cyfrwng Saesneg Cathays, ac nid yw'n manteisio ar y cyfle i ail-lunio darpariaeth ysgolion yn yr ardal. Nid yw ychwaith yn defnyddio'r gorau o'r arweinyddiaeth bresennol yn yr ysgolion hyn.</li> </ul>
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg	13	17.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim ond o 6 yr oedd gormod o alw yn YMB y llynedd ac mae'r nifer hwnnw'n gostwng o un flwyddyn i'r llall. Felly oni bai mai eich bwriad yw gorfodi pobl i mewn i addysg Gymraeg, does dim angen iddyn nhw symud i ysgol fwy.</li> <li>Does dim digon o athrawon Cymraeg i gefnogi unrhyw un o'r opsiynau.</li> </ul>
Materion cyllideb ysgolion / ariannu	11	14.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r opsiwn hwn yn golygu bod y baich ariannol ar yr awdurdod lleol ac ar ysgolion unigol yn parhau, gan ei fod yn cadw statws presennol tair ysgol fach (Stantes Monica, Gladstone ac Allensbank). Ni fyddai'n caniatáu i ni leihau ein problemau symudedd disgyblion a byddai'r 3 ysgol lai yn parhau i gael trafferth gyda'u cyllidebau.</li> <li>Byddai hyn yn farwolaeth araf i Ysgol Gynradd Allensbank am y bydd y Cyngor yn cau'r ysgol yn y pen draw oherwydd "cyllid". Bydd</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			athrawon a staff cymorth yn colli eu swyddi heb unrhyw sicrwydd o adleoli.
Effaith ar Ysgol Glan Ceubal	10	13.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan yn cael effaith niweidiol ar Ysgol Glan Ceubal.</li> <li>Gall cynnydd o'r fath arwyddocâd i Fynydd Bychan effeithio'n negyddol ar Glan Ceubal.</li> </ul>
Materion dalgylch	7	9.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd cynyddu lleoedd ym Mynydd Bychan yn cael effaith negyddol uniongyrchol ar ddisgyblion sy'n cael eu denu i Ysgol Glan Ceubal sydd bob amser wedi cael problem gyda lleoedd gwag oherwydd y dalgylch afresymegol. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynrychioli lleoedd gwag cynaliadwy ar gyfer Ysgol Glan Ceubal a bydd yn gwaethygu'r sefyllfa.</li> </ul>
Darpariaeth Feithrin	4	5.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rwy'n credu nad yw safle presennol Santes Monica yn addas at y diben oherwydd lle awyr agored cyfyngedig iawn ac anallu i ddarparu lleoedd meithrin.</li> </ul>
Cydraddoldeb i bob iaith a diwylliant	4	5.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n ymddangos bod pob opsiwn o fudd i addysg Gymraeg ar draul cymunedau sefydledig.</li> </ul>
Effaith ar Ysgol Mynydd Bychan	2	2.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tarfu ar Ysgol Gynradd Allensbank: Gall trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i leoliad newydd ac addasu ei chapasiti darfu ar fyfyrwyr, rhieni a staff. Efallai y bydd angen addasiadau i gymuned yr ysgol a chyfnod o addasu i amgylchedd newydd. Effaith gymunedol: Gall unrhyw newidiadau i ysgolion effeithio ar y gymuned leol. Gall trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle gwahanol effeithio ar gysylltiad y gymuned â'r ysgol ac o bosibl amharu ar berthnasoedd cymunedol sefydledig. Ystyriaethau capasiti: Er y gall cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan ddarparu ar gyfer mwy o</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			<p>fyfyrwyr, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r boblogaeth gynyddol o fyfyrwyr yn peryglu ansawdd addysg nac yn rhoi gormod o straen ar adnoddau. Wrth werthuso Opsiwn 3, mae'n hanfodol ystyried anghenion, dewisiadau a gwerthoedd penodol y cymunedau, y myfyrwyr a'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt. Gall cymryd rhan mewn trafodaethau a chasglu adborth gan addysgwyr, rhieni, myfyrwyr ac aelodau o'r gymuned leol helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Yn ogystal, mae asesu'r buddion posibl, yr anfanteision a'r goblygiadau i'r profiad addysgol, cydlyniant cymunedol, a dyrannu adnoddau, yn bwysig er mwyn gwneud dewis gwybodus.</p>
Arall	16	21.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw dwy ysgol yn fwy agos yn gwneud fawr o synnwyr.</li> <li>• Nid wyf yn siŵr fy mod yn deall pam fod YMB yn symud i safle Allensbank yn hytrach na safle Gladstone/Santes Monica, sy'n edrych fel ei fod yn gwneud mwy o synnwyr.</li> <li>• Dyw e ddim yn deg.</li> </ul>
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>75</b>	<b>-</b>	

*D.S: Mae'r canrannau'n creu cyfanswm o fwy na 100% am y gallai sylwadau'r ymatebwyr fod yn berthnasol i fwy nag un thema.*

Mae rhestr lawn o sylwadau wedi cael ei throsglwyddo i dîm y prosiect.

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r opsiynau a gynnigir? Os felly, sut byddai'r newidiadau hyn o fwy o fudd i blant a phobl ifanc yn y cymunedau hyn, nag Opsiynau 1, 2 neu 3?

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr awgrymu unrhyw newidiadau/dewisiadau amgen oedd ganddynt i'r opsiynau arfaethedig ac i egluro sut roeddent yn teimlo y byddai'r newidiadau hyn o fudd i'r plant/ bobl ifanc yn y cymunedau.

Gellir gweld rhestr o'r newidiadau / dewisiadau amgen a awgrymwyd ynghyd â'r buddion isod / drosodd:

Newid / Dewis Amgen	Budd
Cynnwys y goblygiadau i Ysgol Gynradd Glan Ceubal	Adolygu'r effaith ar y cynnydd enfawr hwn i ysgolion cyfrwng Cymraeg
Ni all Opsiwn 3 fod yn opsiwn er lles y plant a'r myfyrwyr.	Yn agosach at eu tai/llai o deithio/mwy o opsiynau i blant a rhieni.
Ie, edrychwch ar y dalgylch presennol. Rydym yn byw o fewn 0.5 milltir i Fynydd Bychan ac ni chafodd fy mhlant le yno. Yn hytrach, rydym yn teithio i ysgol ragorol Glan Ceubal sydd â lleoedd gwag. Drwy edrych ar hyn, efallai y gellir dysgu mwy o fyfyrwyr yn y system bresennol heb ad-drefnu'r 4 ysgol.	Gwella dyrannu arian o fewn ysgolion sefydledig presennol heb wario ar ailstrwythuro mawr neu gau ysgolion. Byddai myfyrwyr yn mynd i'r opsiynau agosaf i'r rhieni/myfyrwyr.
Cynyddwch nifer y lleoedd Cymraeg lle mae'r galw a'r angen am hynny, lle mae'r datblygiadau newydd enfawr yn llys-faen, Radur, Pont Elái ac ati	Cefnogwch Allensbank ac annog mwy o bobl i'w dewis. Mae Cymru i fod yn genedl noddfa felly pam nad ydych chi'n cefnogi ysgol noddfa a'r disgyblion yno?
Dylid trin ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn gyfartal a'u hariannu'n gyfartal p'un a'u bod yn siarad Cymraeg ai peidio. Rydym yn ddinas amlddiwylliannol, dylem fod yn gwthio'r agenda ar y ddwy ochr. Mae angen cymaint o leoedd cyfrwng Saesneg arnom â chyfrwng Cymraeg. Pam ddylai Allensbank, ysgol gymunedol weithgar, gytbwys, wych gael ei gwthio allan? Dewisais yr ysgol honno am reswm. Pam ddylai addysg a diogelwch fy mhleintyn nawr gael ei roi mewn perygl am fod gormod o alw o 2 ddisgybl yn YMB. Mae'n annheg ac nid yw'n iawn.	DIM UN ohonyn nhw. Gadewch bethau fel y maent neu gyfnewid Gladstone ac YMB. Pam nad yw hynny wedi'i drafod nac yn opsiwn. Rydym yn byw mewn ardal amlddiwylliannol lle nad oes llawer o siaradwyr Cymraeg ac nid yw'n gwneud synnwyr.

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

<p>Uno Gladstone ac Allensbank ar Safle Allensbank</p>	<p>Llai o darfu ar ddisgyblion sydd eisoes wedi dioddef blynyddoedd o darfu oherwydd y gwaith adeiladu presennol sy'n mynd rhagddo. Mae llawer o'n disgyblion wedi dod i'n hysgol ar ôl gadael eu cartrefi oherwydd rhyfel a gwrthdaro. Maent wedi setlo ac yn hapus yma ac mae eu symud i safle arall yn achosi hyd yn oed mwy o ofid iddynt. Ni fydd Ysgol Mynydd Bychan yn llenwi safle presennol Allensbank yn syth felly pam amharu ar fywydau plant diniwed sydd eisoes wedi bod trwy ddigon, yn enwedig gan y bydd sawl ystafell ddsbarth wag am gyfnod.</p>
<p>Gadewch Allensbank i fod - mae'n ysgol wych. Mae eich bwriadau yn dda... ond mae cryfhau un peth trwy ddinistrio rhywbeth arall yn dangos ffafriaeth glir ac agenda.</p>	<p>Bydd Allensbank yn cael ei newid yn ddi-droi'n-ôl a'i gwanhau</p>
<p>Gadewch i bethau fod.</p>	<p>Does dim angen tarfu ar y plant, a chi'n dal i wthio'r Gymraeg yn gyntaf a phob un arall yn ail. Onid hiliaeth yw hynny?</p>
<p>Pe bai angen i'r newidiadau ddigwydd, a gellid dadlau nad oes gormod o alw am Ysgol Mynydd Bychan i'r pwynt bod angen safle mor fawr, opsiwn arall fyddai uno Gladstone ac Allensbank ar safle Allensbank, lle bydd y gwaith adeiladu wedi cael ei gwblhau o leiaf. Mae'n siom fawr nad oedd unrhyw un o gynigion y Cyngor yn rhoi Allensbank yn gyntaf, byddwn wedi meddwl y byddai'r Cyngor yn falch o amrywiaeth a chynhwysiant yr ysgol hon, yn hytrach na chreu amrywiaeth o opsiynau sydd i gyd yn uniongyrchol niweidiol iddi.</p>	<p>Byddai'n fuddiol i ddisgyblion Allensbank a Gladstone gan y byddai ganddynt safle ysgol lle byddai'r gwaith o atgyweirio'r adeilad wedi'i gwblhau, sy'n golygu na fyddai angen iddynt bellach fynychu ysgol wedi'i orchuddio â sgaffaldau. Byddai o fudd i Ysgol Mynydd Bychan am y byddai ganddynt fwy o le ar safle Gladstone a byddai'n ganolog i ddisgyblion o ogledd a de y dalgylch.</p>
<p>Gadewch yr ysgolion fel ag y maen nhw ac uno Ysgol Mynydd Bychan gyda'r ysgol Gymraeg yn Gabalfa sydd â lleoedd gwag.</p>	<p>Oherwydd ni fyddai'n rhaid i'r plant yn Allensbank a Gladstone ddioddef unrhyw darfu.</p>
<p>Peidio cau Allensbank, mae wedi bod yma ers blynyddoedd, mae'n gyfeillgar iawn gyda'r gymuned ac mae'r staff, y disgyblion a'r rhieni wrth eu bodd gyda'r ysgol</p>	<p>Nid wyf yn credu bydd y newidiadau hyn o fudd i'r plant</p>
<p>Crëwch safle newydd, mwy ar gyfer darpariaeth Gymraeg.</p>	<p>Mae hyn yn gadael i'r ysgolion presennol aros fel y maen nhw - cymunedau hardd lle mae plant yn</p>



Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

	ffynnu, maen nhw wedi cael digon o newid drwy gydol y pandemig. Mae creu ysgol Gymraeg fwy o faint yn caniatáu ehangu lleoedd Cymraeg (fel y dylid gwneud) ond mae'n sicrhau nad yw'r plant yn cael eu tarfu ac yn gorfod symud.
cadwch yr ysgolion fel ag y maen nhw	does dim angen ysgol gynradd Gymraeg fwy gan mai dim ond galw am lle i 2 ddisgybl oedd yna y llynedd
Rhowch yr YMB newydd, fwy ar safle Gladstone/Santes Monica	Mae hyn yn lleihau'r tarfu ar y plant a'r rhieni ac yn gwneud yr ysgol Gymraeg yn ganolog i'w dalgylch
Fel y nodwyd eisoes.	Yr unig fuddion fydd i YMB a dim i Allensbank
Rwy'n deall yr angen i gynyddu addysg Gymraeg ac nid wyf yn erbyn hyn fodd bynnag, mae cynyddu lleoedd ym Mynydd Bychan yn cael ei wneud ar draul yr ysgolion eraill ac am y rheswm hwnnw nid wyf yn cytuno ag unrhyw un o'r opsiynau hyn. Rwy'n ei chael hi'n anodd deall unrhyw fudd i Allensbank mewn unrhyw opsiwn ac rwy'n teimlo bod yr ysgol yn cynrychioli'r gymuned amrywiol yn gryf - am y rheswm hwn byddwn yn awgrymu nad oes unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud	Mae cadw'r trefniant presennol yn golygu bod Allensbank yn parhau i gynrychioli ac addysgu'r gymuned amrywiol y mae wedi ei lleoli ynddi. Nid yw ein plant yn cael eu heffeithio ac mae ein hathrawon yn cadw eu swyddi. Fel preswlydd lleol, gallaf eich sicrhau na all yr ardal lle mae Allensbank wedi'i lleoli gymryd 420 o rieni yn gollwng eu plant - nid oes unrhyw le i barcio, mae'r strydoedd yn gul ac yn brysur ac nid oes trafndiaeth gyhoeddus yn gwasanaethu'r ardal hon. Nid oes angen ysgol Gymraeg ar blant a phobl ifanc y gymuned hon, maent eisoes yn siarad sawl iaith gartref a byddent yn dewis i'w plant gael eu haddysgu yn Saesneg
Ymgynghorwch â phob rhiant, nid dim ond y rhai sy'n siarad Cymraeg. Mae gorfodaeth wleidyddol y Gymraeg yn cyfyngu'r mwyafrif sy'n dewis addysg cyfrwng Saesneg.	Dewis y rhieni
Un awgrym yr hoffwn ei wneud yw bod darpariaeth ar gyfer caeau chwarae a rennir rhwng yr holl ysgolion dan sylw. Mae'r rhain yn ysgolion dinesig mewn amgylchedd trefol ond mae angen eu man gwyrdd eu hunain arnynt (naill ai caeau chwarae glaswellt neu gae astroturf boddhaol).	Byddai'n fudd ychwanegol a byddai'n ffordd dda i'r holl ysgolion hyn uno. Tra bod newid a gweledigaeth yn yr arfaeth, beth am fynd i'r afael â'r angen sydd gan yr holl ysgolion hyn am rywle boddhaol i wneud chwaraeon.
Ie - Gladstone ac Allensbank yn uno ar safle presennol Allensbank. Bydden nhw'n llenwi'r adeilad yn syth fyddai'n ddefnydd da o adnoddau, a byddai Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Gladstone. Symud Santes Monica i Ysgol Mynydd Bychan.	Byddai o fudd i'r ysgolion yn y ffyrdd canlynol: Byddai Gladstone ac Allensbank, sydd â rhai o'r plant mwyaf difreintiedig, yn osgoi mwy o darfu sylweddol trwy gael adeilad wedi'i adnewyddu'n ddiweddar (dylai gwaith adeiladu presennol yn Allensbank fod wedi gorffen), byddent yn gallu ffynnu a defnyddio adnoddau'n dda trwy lenwi a defnyddio'r adeilad

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

	<p>cyfan ar unwaith. Byddai Ysgol Mynydd Bychan yn elwa ar gael y lle ychwanegol yn Gladstone/Santes Monica ac mae ganddo hefyd y fantais o fod yn agosach at ran ddeheuol o dalgylch YMB sydd yn draddodiadol wedi bod ag ymgymeriad is o ran lleoedd yn yr ysgol. Os yw'r ysgol am dyfu yna mae'n ymddangos yn ddoeth symud ymhellach i'r De oherwydd gallai hynny helpu i ddenu mwy o ddisgyblion o'r ardal honno. Mae aros i'r Gogledd yn golygu bydd yr ysgol bron yn sicr yn tyfu o ran niferoedd disgyblion gwyn dosbarth canol a byddwn yn synnu os mai dyna'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol Gymraeg newydd, fwy hon.</p>
<p>Yr opsiwn gorau os ydyn nhw wir eisiau ychwanegu mwy o leoedd ar gyfer yr ysgol Gymraeg yw chwilio am safle mwy os nad yw'n bosib adeiladu mwy ar y safle presennol mae unrhyw opsiwn arall yn wirion o ystyried maint y tarfu.</p>	<p>Byddai'r budd i'r ysgol Gymraeg gan gynyddu ei chapasiti. Byddai gweddill yr ysgolion yr un fath. Os ydych yn dewis opsiwn 1, 2 a 3, yr unig ysgol sy'n elwa yw'r ysgol Gymraeg. Mae pob un o'r lleill yn colli allan ar ofod, tarfu, lleihau nifer y disgyblion</p>
<p>Ie, newid ysgol i Gladstone</p>	<p>Ni fyddai Allensbank yn symud a byddai mwy o leoedd yn cael eu cyflawni ar gyfer ysgol</p>
<p>Dim newid neu rywbeth na fyddai o fudd i un o'r ysgolion yn unig.</p>	<p>Ar hyn o bryd mae'r cynlluniau ond o fudd i'r ysgol Gymraeg</p>
<p>Mynydd Bychan yn symud i safle presennol Santes Monica/Gladstone, Gladstone yn cyfuno ag Allensbank ar ei safle presennol, symud Santes Monica i safle presennol YMB.</p>	<p>Ni fyddai'r rhai yn ein cymuned sydd eisoes â chyn lleied yn cael mwy wedi ei gymryd oddi wrthyn nhw;</p>
<p>Symud YMB i safle Gladstone a Santes Monica i safle presennol YMB</p>	<p>Caniatáu i blant o dalgylch mwy amrywiol i elwa ar addysg Gymraeg, tra'n sicrhau bod nifer yr ysgolion Saesneg yn cael eu rhannu'n gyfartal.</p>
<p>Ie - Pedwerydd opsiwn synhwyrol fyddai uno disgyblion o Gladstone i adeilad presennol Allensbank.</p>	<p>Pe bai'r pedwerydd cynnig hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai mwy o le i addysg cyfrwng Saesneg dyfu yn yr ardal. Er fy mod yn derbyn bod y ffigurau a ragwelir yn dangos y bydd gostyngiad yn nifer y lleoedd ysgol sydd eu hangen yn yr ardal (ac yn wir ar draws Caerdydd), yr hyn nad yw'r cynigion yn ei ystyried nac yn ei werthfawrogi yw bod cyfran uchel o ddisgyblion Allensbank mewn gwirionedd wedi symud i'r ysgol o wledydd eraill. Byddai darpariaeth cyfrwng Gymraeg hefyd yn cael lle i dyfu ond ar raddfa arafach, ac mae hynny, o ystyried y ffaith nad oes gormod o alw am ysgolion Gymraeg yn</p>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

	yr ardal, yn ymddangos yn opsiwn llawer mwy synhwyrol. Fel arall, siawns na fyddai Mynydd Bychan mewn perygl o gael ysgol fawr nad ydynt yn gallu ei llenwi, sef un o'r rhesymau a roddir ynghylch pam mae angen i Allensbank symud.
Cyllid i gefnogi'r ffactor symudedd ar gyfer ysgolion yn y dalgylch penodol hwn - mae'n anodd iawn i ysgolion un dosbarth mynediad reoli cyllidebau a chynllunio ar gyfer y dyfodol oherwydd natur anrhagweladwy niferoedd y disgyblion o un mis i'r llall - rydym o dan anfantais o gymharu ag ysgolion eraill yn yr ardal, sydd yn llawn ac sydd â disgyblion sy'n dechrau yn y dosbarth Meithrin ac yn parhau i Flwyddyn 6.	Byddai cyllid ychwanegol i gefnogi ysgolion un dosbarth mynediad yn sicrhau bod staffio'n gyson ac nad yw'r arlwy addysgol i'n disgyblion mewn perygl o gael ei dorri bob blwyddyn.
Byddai cyllid ychwanegol i gefnogi her symudedd disgyblion yn helpu'r ysgol i gynllunio'n fwy effeithiol a darparu sefydlogrwydd ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol.	Byddai cyllid ychwanegol yn sicrhau bod cyfleoedd addysgol yn fwy cynaliadwy.
Aros yr un fath	Dim manteision
Yr ateb delfrydol fyddai adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan sy'n adlewyrchu nodau Ysgolion y 21ain Ganrif. Mae lle yn amlwg yn broblem mewn ardal mor boblog ac adeiledig ond mae safle Tŷ'r Cwmnïau yn enfawr ac yn hanner gwag. Mae cynlluniau hefyd i ad-drefnu Ysgol Uwchradd Cathays. Byddai'n dda clywed bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i ddefnyddio'r safleoedd hyn fel opsiwn arall.	Byddai ysgol newydd sbon yn cynnig gwell cyfleusterau nag ysgol Fictorianaidd sy'n galw am lawer o waith cynnal a chadw ac sy'n annhebygol o fod yn ddigon o faint i 420 o ddisgyblion yn y pen draw. Mae sgaffaldau wedi bod i fyny ar Ysgol Allensbank ers amser maith ac er ei bod yn fwy nag Ysgol Mynydd Bychan, os mai'r nod yw creu ysgol i 420 o ddisgyblion, mae'n anodd credu y bydd Ysgol Allensbank yn cynnig digon o le y tu mewn a'r tu allan i greu profiadau dysgu a chwarae da a diogel i'n plant.
Rwy'n cefnogi'r dewisiadau amgen a awgrymwyd gan Ysgol Mynydd Bychan yn eu hymateb i'r ymgynghoriad, sef y gallai Ysgol Mynydd Bychan gael ei lleoli mewn adeilad newydd wedi ei sefydlu ar safle presennol Ysgol Uwchradd Cathays (pe bai cynlluniau'n mynd yn eu blaen i adleoli Ysgol Uwchradd Cathays) neu ar ofod gwag ar safle Tŷ'r Cwmnïau.	Gallai'r opsiwn yr wyf wedi'i awgrymu ddarparu moderneiddio ac ehangu gwerthfawr i'r ysgol newydd a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer denu disgyblion newydd i YMB a'u rhieni. Yn ddiweddar, ymwelais ag Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd (heb fod yn gysylltiedig ag addysg fy mhientyn - rydym yn hapus yn YMB) ac roedd y darpariaethau yno wedi creu argraff fawr arnaf, gan gynnwys yr ystafelloedd dosbarth newydd a gweithgareddau awyr agored sylweddol (caeau, meysydd chwarae, cyfleusterau chwaraeon ac ati). Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd yn enghraifft wych o sut olwg fyddai ar

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

	<p>ysgol newydd a byddai ysgol debyg o fudd mawr i ddisgyblion sy'n dod i mewn a disgyblion presennol yn YMB. Gallai'r cyfleusterau ychwanegol hefyd gael eu benthyg gan ysgolion cynradd eraill cyfagos ar gyfer achlysuron penodol (diwrnodau chwaraeon, gwersi Addysg Gorfforol, clybiau ar ôl ysgol) gan wella cyfleoedd addysgol i holl ddisgyblion cynradd yr ardal. Mae safle Cathays/Tŷ'r Cwmniau hefyd yn parhau i fod yn agos iawn o ran lleoliad i YMB ac yn cynnal ei chysylltiadau lleol â Heol yr Eglwys Newydd. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn osgoi unrhyw ddrwgdeimlad posibl rhwng y gwahanol ysgolion a'r rhieni, yr athrawon, y disgyblion sy'n rhan o'r cynigion presennol (Gladstone, Santes Monica, Allensbank, YMB) gan na fyddai angen i unrhyw ysgolion israddio neu adleoli.</p>
<p>Os oes RHAID i Allensbank a Gladstone uno, mae safle Allensbank yn well.</p>	<p>Mae llai o darfu ar ddisgyblion a staff Ysgol Gynradd Allensbank: • Llai o lygredd traffig i ddisgyblion gan nad yw Stryd Llanisien yn heol fawr; • Mae Ysgol Gynradd Allensbank yn adeilad ysgol mwy gyda chegin sydd newydd ei hadnewyddu, to newydd a ffenestri newydd; • Mae parcio oddi ar y ffordd ar gael; • Llai o darfu ar amseroedd gollwng a chasglu ar gyfer defnyddwyr cyffredinol y ffordd; • Ni fydd y niferoedd cynyddol o ddisgyblion "sy'n agored i niwed" yn Ysgol Gynradd Allensbank yn cael eu heffeithio gan newidiadau mewn trefn arferol</p>
<p>1. Ysgol Myndd bychan yn cyfnewid gyda Gladstone yna dim ond dwy ysgol sy'n gorfod symud ac nid dim ond un. 2. Dod â'r ysgol Gymraeg ar y safle gydag Allensbank a chreu ysgol ddwyieithog, wedi'i hintegreiddio'n llawn. Byddai hyn yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru neu'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ethnigrwydd lleiafrifol yng Nghymru. 3. Safle cyfrwng Cymraeg newydd wedi'i adeiladu ar safle presennol Cathays, sy'n cael safle newydd. 4. Gladstone yn symud i safle Allensbank a'r ysgol Gymraeg yn symud i safle Gladstone</p>	<p>1. Llai o darfu i'r holl ddisgyblion dan sylw, dim ond dwy ysgol yn symud ac nid 4! 2. Cyfoethogi'r disgyblion cyfrwng Saesneg gyda'r Gymraeg a phontio'r bwlch a'r rhaniad rhwng siaradwyr Cymraeg a Saesneg, gan ddatblygu integreiddio'r iaith yn fwy i bob cymuned. 3. Dim tarfu i 3 ysgol a'r ysgol Gymraeg yn cael cyfleusterau newydd. 4. Yr un rhesymau pam y byddech yn symud Allensbank i Gladstone. Mae Allensbank hefyd yn fwy felly bydd yn cefnogi ysgol 2 ddosbarth mynediad yn well a byddai'r holl waith adeiladu yn gyflawn hefyd. Os yw Allensbank yn mynd i Gladstone, yna bydd gan yr ysgol Gymraeg nifer enfawr o leoedd gwag am flynyddoedd lawer, ond eto mae'r ddwy ysgol Saesneg, aml-ethnig wedi cael eu gwthio i ofod bach gyda gwaith adeiladu a gwaith angen ei wneud oherwydd hyn.</p>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

<p>Mae'n ymddangos bod cywirdeb gwleidyddol wedi mynd dros ben llestri. Cadwch ef fel y mae a gweithiwch i greu system deg ar gyfer yr HOLL ysgolion yr effeithir arnynt. Mae angen gofal a chymorth ariannol priodol arnynt, bydd yn tarfu ar staff a disgyblion ym mhobman.</p>	<p>Gweler uchod -</p>
<p>Mae angen rhoi rhywfaint o ystyriaeth i - uno Gladstone ac Allensbank ar safle ysgol Allensbank. Byddai angen y weledigaeth uno o hyd ond ni allaf ddeall pam nad yw yn y cymysgedd o opsiynau</p>	<p>Byddai'n gweld YMB yn symud i ochr wahanol i'w dalgylch, gan arwain at y potensial ar gyfer disgyblion newydd yn mynychu'r ysgol estynedig hon.</p>
<p>Byddai'r posibilrwydd o gyfnewid adeiladau Mynydd Bychan ac Allensbank yn datrys problem y gofod ond fel y nodwyd, rwy'n credu bod y niferoedd arfaethedig yn rhy uchel i Mynach Bychan ac felly, o safbwynt ariannol, byddai adeilad drud i'w gynnal o hyd yn cael ei ddefnyddio gan nifer llai. Efallai nad ardal sydd â nifer uchel o leiafrifoedd ethnig yw'r lle iawn ar gyfer ysgol Gymraeg ac mae angen edrych ar y lleoliad eto. Efallai y gallai ysgol ddwyieithog ar safle Allensbank fod yn opsiwn gwell. Pe bai Allensbank yn symud i safle Mynydd Bychan a Mynydd Bychan i Allensbank, efallai fod ffordd o ddarparu ar gyfer 2 ysgol ar safle presennol Allensbank (fel y cynigir ar gyfer Gladstone / Allensbank er nad wyf yn deall sut mae'n gweithio) ond efallai y gallai Mynydd Bychan redeg ochr yn ochr ag ysgol ddwyieithog. Nid wyf yn credu bod gennym ysgol ddwyieithog yn unrhyw le gerllaw.</p>	<p>Rwy'n credu y byddai ysgol ddwyieithog ochr yn ochr â Mynydd Bychan yn gyfaddawd. Os yw Mynydd Bychan yn fwy na dyblu mae'n lleihau'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Efallai y byddai ychwanegu ysgol ddwyieithog i'r ardal yn rhoi opsiwn ychwanegol i deuluoedd, i'r rhai sydd eisiau ysgol Gymraeg, byddai eu plentyn yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a gellid adeiladu ar hynny y tu allan i'r ysgol gan fod angen gwneud y Gymraeg yn iaith ddewisol. I'r rhai sydd eisiau addysg cyfrwng Saesneg, byddai hynny mewn ysgol ddwyieithog a chan fod symud mor uchel yn Gladstone ac Allensbank mwy na thebyg, gallai trosglwyddo fod yn bosibl pe byddai dwyieithrwydd yn rhy heriol.</p>
<p>Ystyriwch gynyddu capasiti Ysgol Glan Ceubal. Mae'r dalgylch yn fach iawn ar hyn o bryd o'i gymharu ag ysgolion eraill a gellid ystyried hyn ar gyfer ehangu, o leiaf i gynnwys Ystum Taf i gyd. Mae'r ysgol yn parhau i fod dan anfantais ariannol oherwydd niferoedd isel y disgyblion mewn rhai dosbarthiadau. Mae'r ysgolion a</p>	<p>Byddai'r plant yn elwa ar adeilad ysgol mwy modern gydag ardal chwarae awyr agored fwy na'r arfer, man gwyrdd ac ysgol goedwig. Mynediad i natur o fewn pellter cerdded i'r ysgol, sydd yn agos at Daith Taf. Mae'r ysgol yn ffynnu ac yn mynd o nerth i nerth, gyda chysylltiadau cryf â'r gymuned leol.</p>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

<p>ystyriwyd yn y cynnig hwn mewn adeiladau sy'n hen iawn, tra bod Glan Ceubal yn adeilad newydd, mwy modern, felly byddwn i'n amcangyfrif y byddai'n llai costus o ran gorbenion nag adeiladau ysgol llawer hŷn. Pe bai'r dalgylch yn cael ei ehangu, byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion o fewn pellter cerdded/beicio er mwyn hyrwyddo teithio llesol.</p>	
<p>Dylai Opsiwn 4 fod wedi bod yn yr ymgynghoriad. Yn debyg i opsiwn 1 ond Gladstone yn symud i safle Allensbank i ffurfio ysgol newydd. Mae digon o le - dim gwaith adeiladu pellach i uno dwy ysgol yn un. Does gan YMB ddim y rhifau i lenwi safle Allensbank eto ond bydd gan Gladstone ac Allensbank. Mae'n gwneud synnwyr symud YMB i safle Gladstone lle byddant yn gallu ei llenwi ac os a phryd y daw'r niferoedd, gallent ehangu i safle Santes Monica. Mae'n dal i fod yn y dalgylch, mewn gwirionedd yng nghanol dalgylch YMB.</p>	<p>Llawer llai o darfu ar ddisgyblion sydd yn amlwg wedi cael gymaint o hynny dros y blynyddoedd diwethaf. Y plant sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned yw'r rhai sy'n cael eu tarfu a'u symud. Mwy o gyfle i YMB ffynnu - siawns os na fyddan nhw'n llenwi safle Allensbank yn syth, bydd yn effeithio ar eu cyllideb nhw hefyd??</p>
<p>Nid yw'r broses ymgynghori hon yn gynrychiolaeth wir a theg o'r opsiynau sydd ar gael. Mae'r holl opsiynau a gyflwynir yn cynnwys Mynydd Bychan ac Allensbank yn gadael eu safleoedd presennol a symud i safle arall sydd eisoes yn bodoli, ac nid dyma'r dewis a ffefrir gan rieni na llywodraethwyr yn y naill ysgol na'r llall. Dylid ailagor yr ymgynghoriad i ystyried opsiynau pellach gan gynnwys:- Uno Gladstone gydag Allensbank ar safle presennol Allensbank, symud Mynydd Bychan i safle Gladstone a symud Santes Monica i safle presennol Mynydd Bychan. Byddai hyn yn rhoi lleoliad llawer mwy canolog i Ysgol Mynydd Bychan yn eu dalgylch ac yn caniatáu iddynt apelio mwy at gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn o Cathays ac ymhellach i'r de. Byddai hyn hefyd o fudd i ddisgyblion o'r dalgylch o ran annog</p>	<p>Yn yr opsiynau amgen hyn, byddai disgyblion Saesneg eu hiaith yn aros yn eu sefyllfaoedd presennol gan ddarparu sefydlogrwydd hanfodol mewn cyfnod o newid mawr (yn dilyn y pandemig). Ar y cyfan, byddai disgyblion Cymraeg eu hiaith yn agosach at eu hysgol, gan ganiatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol (cerdded a beicio). Ar hyn o bryd mae disgwyliad afrealistig ar ddisgyblion Cymraeg eu hiaith o dde'r dalgylch i gerdded i Ysgol Mynydd Bychan.</p>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

<p>teithio llesol (cerdded a beicio i'r ysgol). - Chwilio am leoliad ar gyfer adeilad newydd ar gyfer Mynydd Bychan, neu ehangu ar dir Tŷ'r Cwmnïau (ymddengys nad oes angen y maes parcio gwastad yng nghefn Tŷ'r Cwmnïau, yn enwedig os gellid annog teithio llesol). - Chwilio am leoliad yn Cathays neu'n nes at ganol y ddinas, ar safle ysgol wahanol ar gyfer lleoedd Cymraeg ychwanegol. Mae 7 ysgol cyfrwng Saesneg gwahanol yn ardaloedd y Rhath/Adamsdown/Canol y Ddinas a dim ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd hyn (neu Cathays heblaw Gladstone/Santes Monica) felly gellid ystyried un o'r 7 hyn. Gellid cadw Mynydd Bychan i wasanaethu rhan ogleddol y dalgylch presennol a'r rhan ddeheuol a wasanaethir gan yr ysgol Gymraeg newydd arall. - Gellid ystyried dewisiadau amgen pellach lle cynigir addysg Gymraeg a Saesneg ar yr un safle. Byddai hyn yn rhoi profiad amlddiwylliannol gwell i ddisgyblion a rhieni Cymraeg eu hiaith, a phrofiad o wir amrywiaeth ein dinas tra'n cadw a gwarchod treftadaeth werthfawr yr iaith Gymraeg mewn ffordd well am y byddai'r rhai a fyddai fel arall wedi profi dim ond Saesneg yn ei chlywed wedyn ar goridorau'r ysgol ac ar y maes chwarae a byddent yn cael mwy o gyfleoedd i wneud ffrindiau Cymraeg eu hiaith.</p>	
<p>Awgrymaf fod popeth yn aros fel y mae ar hyn o bryd.</p>	<p>Nid wyf yn gweld yr angen am newid, bydd cadw popeth yr un fath yn sicrhau bod yr Ysgolion a'r Athrawon yn parhau i ddarparu'r addysg ragorol fel y maent wedi gwneud ers blynnyddoedd lawer. Rwy'n teimlo y bydd newid yn tarfu ar bopeth ac yn cael effaith negyddol ar blant yn enwedig am y byddant yn cael eu symud yno o'r ysgol bresennol.</p>
<p>Ni ddylid lleihau capasiti Allensbank oherwydd gallai hyn effeithio ar ein plant yn cael eu derbyn. Diolch yn fawr. plant</p>	<p>Nid wyf yn hoffi unrhyw un o'r opsiynau, gadewch i'r holl ysgolion aros yn eu safleoedd a'u lleoliadau presennol. Diolch</p>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

<p>Gadewch yr ysgolion fel ag y maen nhw gan nad yw mwyafrif teuluoedd yr ardal o gefndir Prydeinig. Dyw teuluoedd ddim yn siarad Saesneg hyd yn oed, nid yw gorfodi'r Gymraeg arnyn nhw yn briodol</p>	<p>Mae plant yn cael gofal ac arweinyddiaeth dda yn yr ysgol, maent yn cael digon o sylw rhag ofn iddynt gael trafferthion. Ni fyddant yn elwa os yw hyn yn cael ei ddarparu yn Gymraeg, nid y Gymraeg yw iaith y gymuned.</p>
<p>le - Pedwerydd opsiwn. Gladstone yn rhannu safle Allensbank gan adael Gladstone yn rhydd.</p>	<p>Llawer o fuddion. I grynhoi; gallwn elwa ar yr amodau gwaith anodd, ansefydlog ac aflonyddgar yr ydym wedi'u dioddef a mwynhau adeilad o'r diwedd sy'n addas at y diben. Gall ein disgyblion aros lle maen nhw a pheidio â wynebu mwy o aflonyddwch ac anghyfleustra. Ni fydd yn rhaid i'n disgyblion mwyaf agored i niwed fynd trwy addasiad mor ddwys. Gallai Allensbank o bosib aros o ran ei henw; ei hanes a'i hetifeddiaeth. Rydym yn ysgol hirsefydlog yn y gymuned sydd ag enw rhagorol. Rydym yn gofalu ac wedi meithrin perthynas eithriadol â theuluoedd sydd wedi dod o bob cwr o'r byd. Nid ydym eisiau gorfod ailadeiladu a dechrau eto. Mae'r cyfan yn peri pryder a straen anhygoel gyda'r hyn sydd o'n blaenau (nid yn unig i'r staff, ond i'r disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol.) Mae gwybod bod yn rhaid i ni ailymgeisio hefyd yn greulon ac yn achosi straen. Rydym yn athrawon ardderchog, profiadol. Mae'r hyn y gallwn ymdopi ac ymdrin ag ef o ddydd i ddydd yn eithriadol ac rydym yn colli ein swyddi i wneud lle i ysgol na fydd yn llawn ac rwy'n gwybod yn sicr na fydd yn cynnwys yr un cymysgedd o athrawon medrus, profiadol a gwych. Rydym yn wynebu gwahaniaethu. Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru athro cyffredin sy'n siarad Cymraeg yn rhugl na rhywun sy'n gallu addysgu dros ddeg ar hugain o blant mewn dosbarth yn hyderus, rhai ohonynt ag anghenion cymhleth, llawer yn siarad Saesneg fel iaith Ychwanegol a newydd gyrraedd, yn ogystal ag ADY a phlant ag anghenion emosiynol. Mae gan ein staff addysgu brofiad a sgiliau nad ydych yn dod ar eu traws yn hawdd a bydd o leiaf un ohonom yn colli ein swydd ac mae hynny'n drueni mawr i gynifer o blant. (Mae angen i'r Saesneg a gadael yr ysgol yn gwbl llythrennog yn Saesneg fod yn flaenoriaeth a gall ein staff wneud hynny. Os byddwch yn colli staff rhagorol yna mae safonau addysgu yn gostwng, a hyd yn oed os yw hynny'n digwydd mewn un ysgol, bydd ôl-ffeithiau. Os na all disgyblion ddarllen ac ysgrifennu'n fedrus yn Saesneg, bydd ymddygiad,</p>



Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

	<p>Iles a photensial academaidd yn dioddef. Rydym eisoes yn wynebu diffyg iaith yng Nghymru, sy'n achos embaras. A ydym hefyd am gael ein hadnabod fel gwlad lle mae safonau llythrennedd yn methu, wrth i'r agenda Gymraeg gael ei gwthio ymlaen ar draul athrawon eithriadol yn colli eu swyddi a phlant ddim yn gadael yr ysgol yn gwbl llythrennog?</p>
<p>Uno Gladstone ac Allensbank ar safle Allensbank</p>	<p>Natur y gymuned a wasanaethir. Disgyblion sy'n agored i niwed o ran ffoaduriaid a disgyblion ag anghenion dysgu sylweddol.</p>
<p>Byddai'n ddelfrydol pe na bai unrhyw beth yn newid. Rwy'n deall bod angen mwy o leoedd cynradd Cymraeg. Rwy'n siŵr bod llawer o'r garfan bresennol yn teithio i mewn nid yn unig o ardal Cathays. Cafodd ei godi mewn cyfarfod nad oes opsiwn i godi adeilad newydd ar gyfer yr ysgol Gymraeg gan ei bod yn gwasanaethu'r ardal hon. Dwi'n meddwl os yw rhiant eisiau i'w plentyn gael ei addysg yn Gymraeg y bydden nhw'n fodlon teithio, fel y byddwn i fel rhiant.</p>	<p>Rwy'n credu po leiaf o blant sy'n cael eu heffeithio, y gorau. Maent wedi dioddef digon o darfu dros y blynyddoedd diwethaf gyda Covid. Ar nodyn personol gyda phlentyn sydd wedi dioddef gyda'i iechyd meddwl ers covid, nid yw newid yn helpu os yw'n gyfforddus yn ei ysgol bresennol. Byddai'r plant sy'n cael eu haddysgu yn Gymraeg yn elwa ar adeilad ac amgylchedd gwell i ffynnu a chael eu haddysgu ynddo.</p>
<p>Adeiladu ysgol o faint priodol ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan. Os oes y fath alw am addysg Gymraeg mewn gwirionedd, yna dylai adnoddau gael eu dyrannu ar gyfer hynny. Fel arall, gallai rhieni yr ardal anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill sydd â lle.</p>	<p>Byddai Mynydd Bychan yn cynyddu capasiti yn ôl yr angen ac ni fyddai disgyblion yn yr ysgolion eraill dan anfantais.</p>
<p>Rhaid ceisio ateb mwy cyfannol i atal niwed i addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn gyffredinol a'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig i'n dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n fwy agored i niwed neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Awgrymaf y dylai cynyddu dalgylch Ysgol Glan Ceubal i gynnwys Ystum Taf gyfan fod yn rhan o gynnig mwy cyfan gwbl ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Byddai adolygiad cyfannol a chyfres o gynigion yn llawer mwy cynaliadwy ar draws Caerdydd gyfan, a byddai'n osgoi niwed hirdymor i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gyfan y byddai cynnydd sydyn ac enfawr i'r niferoedd sy'n cael eu derbyn i Mynydd Bychan yn ei greu, ar gyfer Mynydd Bychan ac ysgolion cyfagos fel Glan Ceubal. Byddai'n osgoi'r ansefydlogrwydd a ddaw yn sgil diffygion cyllidebol, ynghyd â'r gostyngiad yn ansawdd y ddarpariaeth i'n dysgwyr, effaith ar les staff, ac yn enwedig yr effaith debygol ar ein dysgwyr mwyaf agored i niwed a difreintiedig, neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.</p>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

<p>Gwneud yn siŵr bod Ystum Taf, Gabalfa a Mynachdy yn dal yn y dalgylch ar gyfer Glan Ceubal</p>	<p>Bydd Glan Ceubal ddim yn colli plant</p>
<p>Cyn y gellir dadlau a derbyn unrhyw gynnig, mae angen asesu'r effaith lawn ar yr ysgolion cyfagos a'r addysg a'r cyllid ar gyfer cannoedd o blant yn iawn. Nid oes yr un dyn yn ynys ac mae hyn yn wir am ysgolion hefyd - ni ddylid gwneud y penderfyniadau hyn heb edrych ar y darlun cyflawn!</p>	<p>Gweler uchod.</p>
<p>Cynyddu dalgylch Ysgol Glan Ceubal!</p>	<p>Dim un ohonynt. Dydy'r hyn yr ydych yn cynnig ddim yn cefnogi addysg Gymraeg yn ninas Caerdydd. Rydych chi ond yn ystyried yr ysgolion Saesneg.</p>
<p>Gweler uchod. Beth am ehangu dalgylch Glan Ceubal i gynnwys Ystum Taf i gyd?</p>	<p>Gweler uchod. Dylech anelu i sicrhau bod pob ysgol â dalgylch sy'n sicrhau yr un nifer o ddisgyblion ym mhob ysgol, er mwyn i bob ysgol gael yr un cyllid i ddarparu'r un safon o addysg i bob disgybl yn y ddinas.</p>
<p>Mae yna ormod o leoedd yn barod mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'r gwarged hwn yn golygu bod nifer o flynyddoedd mewn ysgolion lleol â lleoedd gwag. Mae hyn yn achosi problemau ariannu enfawr. Byddai ychwanegu'r hyn sy'n cyfateb i werth ysgol ychwanegol o leoedd yn rhoi ysgolion cyfrwng Cymraeg dan anfantais ac yn achosi mwy i gael cyllidebau diffygiol. Nid yw'r cynigion yn ystyried Ysgol Glan Ceubal sydd eisoes â chwpl o ddosbarthiadau â lleoedd gwag sy'n creu diffyg cyllidebol am flynyddoedd lawer i ddod. Nid yw'r effeithiau hyn byth dros dro, mae grŵp blwyddyn â lleoedd gwag yn cario problem ariannol am 7 mlynedd. Ni fydd yr ALL yn caniatáu i YGC liniaru hyn trwy gael grwpiau blwyddyn cymysg. Mae'r ALL yn methu edrych yn gyfannol ar addysg Gymraeg. Trwy leihau argaeledd Saesneg a cheisio gorfodi disgyblion i addysg cyfrwng Cymraeg, byddant yn gwneud mwy o niwed. Mae</p>	<p>Mae yna ormod o leoedd yn barod mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'r gwarged hwn yn golygu bod nifer o flynyddoedd mewn ysgolion lleol â lleoedd gwag. Mae hyn yn achosi problemau ariannu enfawr. Byddai ychwanegu'r hyn sy'n cyfateb i werth ysgol ychwanegol o leoedd yn rhoi ysgolion cyfrwng Cymraeg dan anfantais ac yn achosi mwy i gael cyllidebau diffygiol. Nid yw'r cynigion yn ystyried Ysgol Glan Ceubal sydd eisoes â chwpl o ddosbarthiadau â lleoedd gwag sy'n creu diffyg cyllidebol am flynyddoedd lawer i ddod. Nid yw'r effeithiau hyn byth dros dro, mae grŵp blwyddyn â lleoedd gwag yn cario problem ariannol am 7 mlynedd. Ni fydd yr ALL yn caniatáu i YGC liniaru hyn trwy gael grwpiau blwyddyn cymysg. Mae'r ALL yn methu edrych yn gyfannol ar addysg Gymraeg. Trwy leihau argaeledd Saesneg a cheisio gorfodi disgyblion i addysg cyfrwng Cymraeg, byddant yn gwneud mwy o niwed. Mae angen i dwf cyfrwng Cymraeg fod trwy ddewis. Ni fydd chwaith yn helpu addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yng Nghaerdydd i gael ysgolion Cymraeg yn methu oherwydd problemau cyllido. Mae creu cystadleuaeth ymhlith ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion, er mwyn bod yn hyfyw, yn mynd i</p>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

<p>angen i dwf cyfrwng Cymraeg fod trwy ddewis. Ni fydd chwaith yn helpu addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yng Nghaerdydd i gael ysgolion Cymraeg yn methu oherwydd problemau cyllido. Mae creu cystadleuaeth ymhlith ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion, er mwyn bod yn hyfyw, yn mynd i niweidio addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig pan mae'n rhoi ysgolion o fewn clystyrau yn erbyn ei gilydd. Mae gan yr ALI argyfwng ariannu yn barod ar gyfer ysgolion Caerdydd ar gyfer eleni a'r 2 nesaf. Dylai fod yn canolbwyntio ar gydgrynhoi disgyblion i ysgolion presennol er mwyn cynyddu arbedion effeithlonrwydd a lleihau cyllidebau diffygiol. Ble byddai'r ALI yn dod o hyd i gyllid i liniaru'r diffygion? Roedd hyd yn oed Neil Hardee yn cydnabod i ni y diffygion gyda'r cynllun hwn a'r niwed posibl naill ai i YGC, MG neu MB. Pam mae dalgylch YGC wedi cael ei ystyried? Mae'n cynnwys Parc Bute i gyd sydd heb gartrefi na disgyblion. Mae hefyd yn rhannu cymuned trwy gynnwys hanner Ystum Taf yn unig. Byddai ehangu dalgylch YGC hyd at bont Gorsaf Llandaf yn sicrhau bod gan YGC ddosbarthiadau llawn bob amser a byddai'n rhyddhau lle yn MG, gan ddileu'r angen am fwy o leoedd yn MB.</p>	<p>niweidio addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig pan mae'n rhoi ysgolion o fewn clystyrau yn erbyn ei gilydd. Mae gan yr ALI argyfwng ariannu yn barod ar gyfer ysgolion Caerdydd ar gyfer eleni a'r 2 nesaf. Dylai fod yn canolbwyntio ar gydgrynhoi disgyblion i ysgolion presennol er mwyn cynyddu arbedion effeithlonrwydd a lleihau cyllidebau diffygiol. Ble byddai'r ALI yn dod o hyd i gyllid i liniaru'r diffygion? Roedd hyd yn oed Neil Hardee yn cydnabod i ni y diffygion gyda'r cynllun hwn a'r niwed posibl naill ai i YGC, MG neu MB. Pam mae dalgylch YGC wedi cael ei ystyried? Mae'n cynnwys Parc Bute i gyd sydd heb gartrefi na disgyblion. Mae hefyd yn rhannu cymuned trwy gynnwys hanner Ystum Taf yn unig. Byddai ehangu dalgylch YGC hyd at bont Gorsaf Llandaf yn sicrhau bod gan YGC ddosbarthiadau llawn bob amser a byddai'n rhyddhau lle yn MG, gan ddileu'r angen am fwy o leoedd yn MB.</p>
<p>Cynyddu'r dalgylchoedd presennol ar gyfer ysgolion Cymraeg eraill yn yr ardal gyfagos</p>	<p>Byddai'n arwain at gyfleoedd ariannu teg mewn ysgolion lleol eraill, gan weld pob plentyn yn elwa ar ysgol a ariennir yn llawn, yn hytrach na dosbarth heb ei ariannu'n ddigonol yn effeithio arnynt am y cyfnod y maent yn mynychu'r ysgol honno.</p>
<p>Llai o lefydd a chynyddu dalgylch Ysgol Glan Ceubal</p>	<p>Bydd ganddynt fwy o gyllid</p>
<p>Ail-wneud yr ymgynghoriad gan ystyried Ysgol Glan Ceubal</p>	<p>Ni fydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ymladd dros ei gilydd am ddisgyblion cyfyngedig</p>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

<p>Lleihau dalgylch Mynydd Bychan a throsglwyddo'r ardal honno i dalgylch Ysgol Glan Ceubal, h.y. ardal Heol y Mynachdy</p>	<p>Bydd dalgylch tecach ar gyfer Ysgol Glan Ceubal yn lleihau lleoedd gwag yn yr ysgol ac yn gwella ariannu ac ansawdd a chyfleoedd dysgu. Byddai Mynydd Bychan yn gallu aros yn ei lleoliad presennol a chynnal y lleoedd sydd ar gael.</p>
<p>Meddylwch am Ysgol Glan Ceubal</p>	<p>Mae disgyblion Ysgol Glan Ceubal yn bwysig</p>
<p>Ar hyn o bryd mae fy mhlant yn mynychu Ysgol Glan Ceubal, sydd ar hyn o bryd â lleoedd gwag mewn dosbarthiadau, sy'n effeithio ar gyllideb yr ysgol. Bydd agor ysgol Gymraeg fwy o faint yn agos iawn yn gwneud i niferoedd yn Ysgol Glan Ceubal leihau, gan effeithio ar y gyllideb a chael effaith ar yr ysgol, y disgyblion, yr athrawon a'r gymuned. Ar hyn o bryd mae Glan Ceubal yn torri ei thalgylch i ffwrdd hanner ffordd trwy Ystum Taf. Trwy ehangu'r dalgylch gallech gynyddu niferoedd Glan Ceubal a lleihau'r angen i Mynydd Bychan fod yn safle mor fawr. Trwy gau dwy ysgol Saesneg rydych yn gorfodi llaw pobl gyda'r iaith Gymraeg yn hytrach na'i bod yn ddewis, yn cael ei mwynhau.</p>	<p>Ar hyn o bryd mae fy mhlant yn mynychu Ysgol Glan Ceubal, sydd ar hyn o bryd â lleoedd gwag mewn dosbarthiadau, sy'n effeithio ar gyllideb yr ysgol. Bydd agor ysgol Gymraeg fwy o faint yn agos iawn yn gwneud i niferoedd yn Ysgol Glan Ceubal leihau, gan effeithio ar y gyllideb a chael effaith ar yr ysgol, y disgyblion, yr athrawon a'r gymuned. Ar hyn o bryd mae Glan Ceubal yn torri ei thalgylch i ffwrdd hanner ffordd trwy Ystum Taf. Trwy ehangu'r dalgylch gallech gynyddu niferoedd Ceubal Glan a lleihau'r angen i Mynydd Bychan fod yn safle mor fawr. Trwy gau dwy ysgol Saesneg rydych yn gorfodi llaw pobl gyda'r iaith Gymraeg yn hytrach na'i bod yn ddewis, yn cael ei mwynhau.</p>
<p>Adeilad cwbl newydd ar gyfer ehangu Ysgol Mynydd Bychan. Nid wyf yn gweld pam fod yn rhaid i'r ysgol fynd am yr ail opsiwn gorau, sef adnewyddu adeiladau 100 mlwydd oed sydd ar safleoedd cyfyng wedi'u hamgylchynu gan ychydig iawn o fannau gwyrdd. Mae ehangu ysgolion eraill ac ati yng Nghaerdydd wedi bod ar ffurf adeiladau ysgol newydd sbon. Gellid gwerthu adeilad presennol yr ysgol i'w ailddatblygu yn dai gan ei fod o fewn ardal breswyl yn bennaf. Yna gellid defnyddio'r arian hwn fel cyllid ychwanegol i'r adeilad newydd. Hefyd, pam na chysylltwyd â Thŷ'r Cwmnïau gan fod rhannau mawr o'r safle hwn ddim yn cael eu defnyddio h.y. y maes parcio aml-lawr. Mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn gallu prynu safleoedd gan y llywodraeth, sef yr hen swyddfeydd treth yn Llanisien.</p>	<p>Adeilad cwbl newydd ar gyfer ehangu Ysgol Mynydd Bychan. Nid wyf yn gweld pam fod yn rhaid i'r ysgol fynd am yr ail opsiwn gorau, sef adnewyddu adeiladau 100 mlwydd oed sydd ar safleoedd cyfyng wedi'u hamgylchynu gan ychydig iawn o fannau gwyrdd. Mae ehangu ysgolion eraill ac ati yng Nghaerdydd wedi bod ar ffurf adeiladau ysgol newydd sbon. Gellid gwerthu adeilad presennol yr ysgol i'w ailddatblygu yn dai gan ei fod o fewn ardal breswyl yn bennaf. Yna gellid defnyddio'r arian hwn fel cyllid ychwanegol i'r adeilad newydd. Hefyd, pam na chysylltwyd â Thŷ'r Cwmnïau gan fod rhannau mawr o'r safle hwn ddim yn cael eu defnyddio h.y. y maes parcio aml-lawr. Mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn gallu prynu safleoedd gan y llywodraeth, sef yr hen swyddfeydd treth yn Llanisien.</p>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

ddim yn cael eu defnyddio h.y. y maes parcio aml-lawr. Mae'r Cyngor wedi dangos ei fod yn gallu prynu safleoedd gan y llywodraeth, sef yr hen swyddfeydd treth yn Llanisien.

### A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill?

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi unrhyw sylwadau pellach a oedd ganddynt mewn perthynas â'r ymgynghoriad.

Yna cafodd y sylwadau hyn eu grwpio'n themâu; gellir gweld y themâu hyn ynghyd a sylwadau enghreifftiol isod / drosodd:

Thema	Nifer	%	Sylwadau Enghreifftiol
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg	21	40.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rwy'n cytuno'n llwyr ag ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae galw mawr amdano'n lleol hefyd. Mae symud Ysgol Mynydd Bychan i safle Allensbank yn gwneud llawer o synnwyr er mwyn cyflawni hyn, yn enwedig gan fod y nifer ar y cofrestrau wedi gostwng. Mae'n drist i Allensbank ac rwy'n cydymdeimlo â theimladau plant, rhieni, staff ond dylid ei drin fel cam cadarnhaol, blaengar, gan edrych i'r dyfodol.</li> <li>Credaf fod y "cynllun" hwn i gau Ysgol Gynradd Allensbank wedi bod yn mynd rhagddo ers blynyddoedd lawer. Nid wyf yn credu bod galw mor fawr am leoedd mewn Ysgol Cyfrwng Cymraeg fel bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn gorfod dioddef.</li> <li>Does dim digon o ysgolion uwchradd Cymraeg na hyd yn oed digon o athrawon Cymraeg eu hiaith. Hyrwyddwch y Gymraeg drwy wersi ond cadwch yr ysgolion fel y maent.</li> <li>Hoffwn wybod sut yr ydych yn ystyried newidiadau enfawr megis dyblu'r capasiti mewn ysgol Gymraeg heb ystyried y goblygiadau i'r ysgol Gymraeg wrth ei hymyl? Mae gan y sir ddyletswydd i gefnogi eu hysgolion Cymraeg, nid yw hyn yn cefnogi nac hyd yn oed yn ystyried yr effaith ar Glan Ceubal.</li> </ul>
Effaith negyddol ar staff yr ysgol / disgyblion / teuluoedd	14	26.9	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n gas gen i weld fy mab yn bryderus a ddim yn gwybod beth i'w ddweud wrtho.</li> <li>Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn deg i'r plant yn Allensbank, bydd yn tarfu'n sylweddol, maen nhw wedi bod trwy lawer gyda'r pandemig, y sgaffaldau rydyn ni wedi'u cael ers blynyddoedd, rydyn ni bron â chael ein sortio gyda'r ysgol bron â gorffen gyda'r sgaffaldau ac rydyn ni'n mynd i</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			<p>drosglwyddo'r ysgol draw i ysgol arall, ddim yn deg o gwbl.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rwy'n bryderus iawn bod y cynigion hyn yn effeithio'n andwyol ar ddisgyblion a staff Allensbank yn anad dim arall. Mae Allensbank yn ysgol lwyddiannus ac amrywiol sy'n wirioneddol adlewyrchu'r gymuned leol, ac a gydnabuwyd gan Estyn ei bod yn dda ym mhob maes yn eu hadroddiad diweddaraf. Mae'r ysgol hefyd wedi gorfod dioddef nid yn unig heriau Covid, ond hefyd y cynnwrf o flynyddoedd lawer o waith adeiladu sy'n dal i fynd rhagddo. Mae darganfod nawr y bydd y gwaith adeiladu o fudd i ysgol arall yn hytrach na'r disgyblion a'r staff sydd wedi gorfod byw trwy'r tarfu sylweddol y mae'r gwaith hwn wedi'i achosi yn teimlo fel pe bai'r Awdurdod Lleol yn diystyru lles disgyblion ac aelodau staff Allensbank yn llwyr, y mae'r mwyafrif helaeth ohonynt wedi gweithio yn ysgol Allensbank am o leiaf 12 mlynedd ac mewn llawer o achosion yn llawer hirach. Rwy'n deall bod agenda wleidyddol i gynyddu addysg Gymraeg, fodd bynnag, rwy'n teimlo yn yr achos hwn, bod y cynigion wedi'u llunio heb unrhyw ystyriaeth wirioneddol i'r gymuned amrywiol y mae Allensbank yn ei gwasanaethu. Nid yw rhieni sy'n dewis Allensbank yn mynd i ddewis Addysg Gymraeg yn sydyn yn lle hynny, ac yn fy marn i, nid oes galw am gynnydd mor sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg y mae'r cynigion yn caniatáu ar ei gyfer. Mae gen i bryderon hefyd am y parcio yn yr ardal os bydd Mynydd Bychan yn symud i safle Allensbank. Mae'r lleoedd parcio i breswylwyr yn unig ac yn hyn o beth mae tagfeydd yn barod ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Os bydd yn dod yn ysgol Gymraeg, bydd disgyblion yn dod o dalgylch llawer ehangach ac felly'n fwy tebygol o gael eu gyrru i'r ysgol gan achosi hyd yn oed mwy o dagfeydd. A oes unrhyw astudiaeth wedi'i chynnal i'r effaith y bydd y traffig cynyddol hwn yn ei chael ar y preswylwyr lleol?</li> </ul>
Materion tanysgrifio i ysgolion	11	21.2	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen mwy o le ar blant Santes Monica - pe bai gan opsiwn 1 neu 2 y ddarpariaeth Saesneg y</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			<p>safle hwnnw, y peth gorau fyddai agor y maes chwarae i fyny am nad yw'n dda ar hyn o bryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r problemau gydag ysgolion sydd â lleoedd gwag yn yr ardal yn rhai hirsefydlog. Yn 2004, symudodd Santes Monica i'r safle presennol gan fod gan Gladstone leoedd gwag ac roedd angen adeilad newydd arnom. Trafodwyd y mater ychydig flynyddoedd yn ôl ond ni amlygodd y broses ymgynghori unrhyw newidiadau. Mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r mater o ysgolion bach sy'n cael trafferth cydbwysu eu cyllidebau ac mae opsiynau 1 a 2 yn sicrhau yr eir i'r afael â'r mater pwysig hwn yn llwyddiannus.</li> </ul>
Cydraddoldeb i bob iaith a diwylliant	10	19.2	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae hwn yn syniad gwirion ac mae ond o fudd i siaradwyr Cymraeg sy'n tueddu i fod ar gyflogau uwch ac yn gwthio pobl leol allan o'r ardal.</li> <li>Gorfodi'r Gymraeg ymysg pobl pan nad oes unrhyw ddymuniad neu mae'n ymddangos digon o athrawon hyd yn oed, nid yw'n gwneud unrhyw beth i wella Cymru na gwella dyfodol plant Cymru. Cefnogwch addysg well i bawb. Mae pob plentyn yn haeddu'r un cyfle, rhwch y gorau os gwelwch yn dda i roi cyllid ychwanegol i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig.</li> </ul>
Materion cyllideb ysgolion / ariannu	8	15.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen i'r cyngor gynyddu'r cyllid heb amharu ar ysgolion.</li> <li>Ariannwch ysgolion yn iawn!! Rhwch y gorau i orweithio eich athrawon.</li> </ul>
Ni ddylai Allensbank adleoli	8	15.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes angen symud na lleihau Ysgol Allensbank.</li> <li>Gadewch Allensbank fel y mae.</li> </ul>
Effaith ar Ysgol Glan Ceubal	6	11.5	<ul style="list-style-type: none"> <li>Hoffwn i effaith negyddol debygol y cynigion hyn ar Ysgol Glan Ceubal gael ei hasesu'n briodol cyn cytuno ar unrhyw gynnig.</li> </ul>
Effaith ar Ysgolion	6	11.5	<ul style="list-style-type: none"> <li>Oherwydd ym mhob un o'r opsiynau hyn, yr un yw'r canlyniad i Ysgol Mynydd Bychan, sef symud i safle Ysgol Allensbank. Nid wyf yn teimlo y gallaf</li> </ul>



Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

			<p>gefnogi unrhyw opsiwn sy'n cau neu'n symud ysgol pan nad wyf yn rhan uniongyrchol ohoni. Rwy'n cefnogi ehangu addysg cyfrwng Cymraeg fel Ysgol Mynydd Bychan, lle mae gormod o alw am leoedd wedi bod yno ers nifer o flynyddoedd. Mae rhieni sy'n byw mwy na milltir o'r ysgol yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac yn cymryd na fyddant yn mynd i mewn i'r ysgol yn seiliedig ar brofiadau'r blynyddoedd blaenorol na ddylai ddigwydd. Credaf yn gryf fod yr ysgol yn haeddu adeilad newydd sbon sy'n addas ar gyfer y cwricwlwm newydd ac addysgu'r 21ain Ganrif. Mae safle Allensbank yn adeilad rhestredig ac ymddengys nad oes unrhyw un wedi ymchwilio i weld a oes unrhyw addasiadau i wneuthuriad presennol yr adeilad yn bosibl er mwyn darparu'r un amgylchedd addysgu, os nad un gwell nag y mae Ysgol Mynydd Bychan yn ei fwynhau ar hyn o bryd. Mae yna elfen sylweddol o risg i'r cynigion.</p>
Dalgylchoedd	5	9.6	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gellid ehangu dalgylch Glan Ceubal i gynnwys Ystum Taf i gyd er mwyn sicrhau bod darpariaeth leol o safon yn cael ei chynnal, yn hytrach na chynyddu niferoedd sy'n teithio i ysgolion y tu allan i'r ardal leol.</li> </ul>
Sylwadau'r Ymgynghoriad / Cynnig	5	9.6	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnwch drwy arolwg ar bapur i gartrefi, nid trwy gymryd yn ganiataol bod pawb yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hon yn fethodoleg ddiffygiol.</li> </ul>
Rhaid gwella cyfleoedd addysg	3	5.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>A yw'r cyngor wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i'r risg bod y cynnydd mewn lleoedd disgyblion yn YMB naill ai a) yn gwanhau ansawdd yr addysg yn yr ysgol honno (sut bydd yr ysgol yn addasu i fynd o fod yn ysgol fach sy'n perfformio'n dda i fod angen bod yn ysgol fawr sy'n perfformio'n dda; b) a ystyriwyd sut y gallai YMB ehangu nid yn unig drwy ddisgyblion ychwanegol o fewn ei charfan ddemograffig bresennol ond ehangu i greu</li> </ul>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd


			amrywiaeth economaidd-gymdeithasol / ieithyddol-ethnig?
Byddai Santes Monica yn elwa ar symud i safle Mynydd Bychan	3	5.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai symud Santes Monica i safle Mynydd Bychan yn rhagorol i'r gymuned ysgol honno, yn enwedig ychwanegu dosbarth meithrin.</li> </ul>
Ystyried opsiynau eraill	2	3.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fel y dywedais o'r blaen, rwy'n credu o waelod calon (ac nid wyf ar fy mhen fy hun) y dylid cael cyllid cyfartal ar gyfer ysgolion Saesneg a Chymraeg ac na ddylai fod unrhyw ragfarn o blaid ysgolion Cymraeg eu hiaith. Hefyd, nid wyf yn gweld pam y dylai 2 neu 3 ysgol ddioddef tarfu er mwyn darparu ar gyfer y cam hwn pan y gallent symud i'r ysgol yn Gabalfa yn hawdd. Ar ben hynny, pam fod cyfnewid uniongyrchol rhwng Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei roi fel opsiwn? Credaf yn nogfen y cyngor a gyhoeddwyd ei bod yn sôn ei bod hi'n rhy bell i Ysgol Mynydd Bychan deithio, ac eto mae'r un pellter (neu'n debyg) ag Allensbank, felly does dim sail y gallaf weld i hynny fod yn rheswm.</li> </ul>
Arall	8	15.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ie, ewch ymlaen ag adeiladu adeilad newydd i YSGOL UWCHRADD CATHAYS, mae'r plant yno yn haeddu llawer gwell na phlesio grŵp o 60 o feicwyr, y rhan fwyaf ohonynt byth mewn gwirionedd yn troi i fyny i ddefnyddio'r felodrom sy'n beryglus tu hwnt fel y mae .....nid yw 2025 yn bell i ffwrdd i'r adeilad newydd gael ei orffen.</li> <li>Caniatewch i'r holl ysgolion aros yn eu safleoedd presennol a phriodol.</li> </ul>
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>52</b>	<b>-</b>	

*D.S: Mae'r canrannau'n creu cyfanswm o fwy na 100% am y gallai sylwadau'r ymatebwyr fod yn berthnasol i fwy nag un thema.*

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Amdanoch Chi

Rhowch eich cod post llawn isod (e.e. CF10 4UW) fel y gallwn fod yn sicr ein bod yn clywed barn preswylwyr lleol:



Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

	Nifer	%
Dan 16	6	3.4
16-24	2	1.1
25-34	28	15.8
35-44	83	46.9
45-54	39	22
55-64	5	2.8
65-74	8	4.5
75+	3	1.7
Mae'n well gennyf beidio â dweud	3	1.7
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>177</b>	<b>100.0</b>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

A ydych chi'n...

	Nifer	%
Benywaidd	138	78.0
Gwryw	32	18.1
Anneuaid	0	0.0
Mae'n well gennyf beidio â dweud	7	4.0
Arall	0	0.0
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>177</b>	<b>100.0</b>

Ydych chi'n ystyried eich hun yn Drawsryweddol?

	Nifer	%
Ydw	0	0.0
Nac ydw	161	94.1
Mae'n well gen i hunan-ddisgrifio	0	0.0
Mae'n well gennyf beidio â dweud	10	5.9
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>170</b>	<b>100.0</b>

A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

	Nifer	%
Ydw	10	5.8
Nac ydw	154	89.0
Mae'n well gennyf beidio â dweud	9	5.2
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>174</b>	<b>100.0</b>

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

	Nifer	%
Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. cancer, diabetes neu asthma)	8	21.6
Anawsterau iechyd meddwl	3	8.1
Nam symudedd	3	8.1
Byddar / Wedi Colli Clyw / Trwm Eich Clyw	2	5.4
Nam / anawsterau dysgu	0	0.0
Nam ar y golwg	0	0.0
Defnyddiwr cadair olwyn	0	0.0
Arall	10	27.0
Mae'n well gennyf beidio â dweud	15	40.5
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>37</b>	<b>-</b>

*D.S: Mae'r canrannau yn rhoi cyfanswm o fwy na 100% am y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.*

Beth yw eich grŵp ethnig?

*Pan ddefnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un o'r pedair o wledydd Prydain, sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu gyfuniad o'r rhain.*

	Nifer	%
Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig	97	56.1
Gwyn -Gwyddelig	0	0.0
Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0	0.0
Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall	11	6.4
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn ac Asiaidd	0	0.0
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Caribiaidd	2	1.2
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - Gwyn a Du Affricanaidd	0	0.0
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig – Unrhyw un arall	0	0.0
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Tsieineaidd	3	1.7
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Bangladeshaidd	6	3.5
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Pacistanaidd	8	4.6
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd	3	1.7
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Unrhyw un arall	1	0.6
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd	10	5.8
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Caribiaidd	0	0.0

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig – Unrhyw un arall	0	0.0
Arabaid	4	2.3
Unrhyw grwp ethnig arall	12	6.9
Mae'n well gennyf beidio â dweud	16	9.2
<b>Cyfanswm yr Ymatebwyr</b>	<b>173</b>	<b>100.0</b>

## ATODIAD A - Ymatebion Ffurfiol

Ymateb ar y cyd gan Gyngorwyr Sir Ward Gabalfa, y Cyngorwyr Rhys Taylor ac Ashley Wood

- gwneud newidiadau i'r modd y mae ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn cael eu trefnu, gan gadw nifer cyfatebol o leoedd neu gael gostyngiad bach mewn lleoedd o gymharu â'r trefniadau presennol, ac
- ehangu'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Mynydd Bychan

Rydym yn ymateb yn rhinwedd ein swydd fel aelodau lleol ar gyfer ward Gabalfa.

### **Sylwadau Cyffredinol**

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned i ateb y galw heb ei ddiwallu a sicrhau bod pob teulu a phlentyn yn gallu cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg pe baent yn dewis. Yn ogystal â'r galw heb ei ddiwallu hysbys, gwyddom hefyd fod teuluoedd o fewn y dalgylch yn chwilio am leoedd mewn ysgolion eraill, oherwydd y problemau capasiti hysbys ym Mynydd Bychan, fel y dangosir yn Nhabl 10 yn yr adroddiad.

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen brys i fynd i'r afael â nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar gyllidebau ysgolion, a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi addysgu a dysgu. Rydym yn cydnabod bod y pwysau ariannu hyn oherwydd y fformiwla ariannu ysgolion, a phwysau parhaus ar gyllid y sector cyhoeddus. Credwn yn gryf fod yn rhaid gwneud y broses hon o ail-gydbwysu lleoedd mewn ffordd gynaliadwy sy'n diogelu lleoedd ysgolion at y dyfodol, ac yn gwella'r ddarpariaeth y mae ysgolion yn ei darparu i'w disgyblion.

Hoffem hefyd adleisio'r sylwadau a wnaethom yn ein hymateb i'r ymgynghoriad yn 2019 ynghylch y broses y mae'r cyngor wedi'i dewis. Er ein bod yn cydnabod canlyniad ymgynghoriad 2019 a'r adborth a'r atebion a gyflwynwyd gan y gymuned, rydym yn dal yn siomedig bod y cyngor wedi dewis defnyddio proses ymgynghori statudol yn unig, yn hytrach nag ymgysylltu'n anffurfiol ag ysgolion a'u cymunedau yn gynharach i nodi atebion. Mae hyn wedi achosi pryderon sylweddol ymhlith rhieni mewn ysgolion lleol ac unwaith eto mae wedi gadael llawer, yn enwedig o fewn cymuned Allensbank, yn teimlo nad yw eu hysgol yn cael ei gwerthfawrogi.

### **Sylwadau ar yr Opsiynau**

Nid ydym yn cefnogi cau unrhyw ysgol yn ffurfiol. Mae'r ysgolion a gynigiwyd i gael eu cau yn ysgolion sefydledig ac uchel eu parch sy'n darparu addysg neilltuol i'w disgyblion, yn enwedig o'n gwybodaeth, yn achos Ysgol Gynradd Allensbank.

Ein dewis fyddai archwilio ffederasiwn ysgolion, gan ganiatáu i ethos a dulliau unigol o addysgu a dysgu gael eu cadw a'u rhannu, tra'n parhau i ail-ddyrannu ac ail-gydbwysu lleoedd ysgol yn y sector cyfrwng Saesneg. Rydym yn cydnabod bod hyn yn dal i beri pryder i gymunedau'r ysgolion hynny o ran staffio a llywodraethu, ond



rydym yn teimlo bod diogelu hunaniaeth a darpariaeth addysgol yr ysgolion hynny yn bwysig.

O ran Ysgol Mynydd Bychan, rydym yn rhannu pryderon am effaith gyllidebol trosglwyddo i adeilad llawer mwy. Er ein bod yn cydnabod data mewn perthynas â gormod o alw am lleuedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bod data mewn perthynas â chofrestru disgyblion o'i gymharu â'u dalgylch (Tabl 10) yn awgrymu cynnydd uniongyrchol yn nifer y disgyblion ar y gofrestr, bydd cyfnod o dwf i'r ysgol wrth gyrraedd 2DM. Bydd gan hyn oblygiadau staffio ac felly goblygiadau adnoddau mewn amgylchedd ariannol heriol i ysgolion yn barod. Mae'n hanfodol bod y cyngor yn cefnogi Ysgol Mynydd Bychan i gynyddu'r niferoedd sydd ar y gofrestr i leihau, i'r graddau y bo modd, oblygiadau o ran adnoddau adleoli'r ysgol, fel rhan o'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu unrhyw fuddsoddiad cyfalaf y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud i wneuthuriad yr adeiladau ysgol yr effeithir arnynt. Mae hyn yn cyflwyno cwestiynau yn enwedig mewn perthynas ag adeilad presennol Ysgol Gynradd Allensbank a chyfyngiadau'r adeilad fel adeilad rhestredig Gradd 2. Mae angen mwy o sicrwydd ynghylch yr addasiadau fyddai'n bosibl, ond hefyd sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i bob ased fel nad oes unrhyw ysgol yn etifeddu eiddo fydd yn arwain at gostau cynnal a chadw sylweddol parhaus. Mae hefyd yn hanfodol bod gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar bob disgybl, ond yn enwedig y rhai yn Allensbank a Gladstone sydd wedi wynebu gwaith cynnal a chadw hir dros y blynyddoedd diwethaf.

Rydym yn cefnogi'r bwriad o gynyddu lleuedd meithrin a darparu dilyniant i ddisgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel rhan o ail-gydbwysu lleuedd ysgol yn yr ardal.

### **Opsiynau eraill a gyflwynir i ni gan y gymuned**

Unwaith eto, rydym yn rhannu'r rhwystredigaeth a deimlir yn y gymuned bod y cyngor wedi diystyru, neu wedi methu ag archwilio'n llawn, yr opsiwn o adeilad newydd wrth greu ateb cynaliadwy a hyblyg ar gyfer twf yn y dyfodol. Rydym hefyd yn siomedig nad oes unrhyw fuddsoddiad cyfalaf wedi'i nodi fel rhan o'r rhaglen ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif i ddarparu rhagoriaeth yn adeiladau ein hysgolion.

Mae rhai preswylwyr wedi eiriol dros ail-leoli Mynydd Bychan ar safle Gladstone ac ail-leoli Ysgol Gynradd Gladstone ar safle Allensbank. Maen nhw'n teimlo y byddai hyn yn caniatáu twf sylweddol i Fynydd Bychan heb yr un goblygiadau o ran adnoddau â throsglwyddo i safle Allensbank. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai hyn yn cyfyngu ar dwf addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, pe bai cyfluniad presennol adeilad presennol Gladstone yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, mae'n rhwystredig nad yw'r rhesymau dros ddiystyru'r opsiwn hwn yn cael eu hamlinellu yn y ddogfen ymgynghori.

## **Sylwadau pellach**

Yn ehangach, mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar asedau adeiledig, ond nid yw'n ymddangos ei fod yn ymgysylltu ag unrhyw frys â'r cwestiwn ehangach a rôl dalgylchoedd ysgolion wrth ail-gydbwysu lleoedd cyn ail-ddyrannu lleoedd.

Mae tudalen 80 o'r ddogfen ymgynghori yn awgrymu ehangu'n raddol, a byddem yn croesawu eglurder sy'n golygu ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn raddol fel unig ddefnyddiwr safle presennol Ysgol Allensbank, ac nid y bydd ysgolion yn cael eu rhannu ar draws safleoedd fel y'i cyflwynwyd yn ymgynghoriad 2021. Fel yn achos ymgynghoriad 2019, nid ydym yn teimlo bod gweithredu ysgolion ar draws sawl safle yn fuddiol i unrhyw ysgol.

## **Nodiadau**

*Mae'r Cyngorydd Taylor wedi bod yn llywodraethwr a benodwyd gan yr awdurdod lleol yn Ysgol Mynydd Bychan ers 2016 a chafodd ei ailbenodi yn 2021.*

## Y Cyngorydd Sir dros Cathays, y Cyngorydd Chris Weaver

- Nid wyf wedi dewis opsiwn penodol fel y'i cefnogir neu nas cefnogir, mae gan bob un fanteision a chyfleoedd yn ogystal â risgiau. Mae yna ychydig o bwyntiau yr hoffwn iddynt gael eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, yn seiliedig ar y trafodaethau a gawsom gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r CLI yn gwybod bod llawer o rieni wir yn gwerthfawrogi diwylliant ac ethos yr ysgol a gwaith caled a rhagoriaeth y staff, ac yn ddealladwy mae'r cynigion hyn wedi creu rhywfaint o bryder y gellid tarfu ar hyn.
- Rydym yn deall yr angen i drefniadaeth ysgolion ddarparu niferoedd priodol o leoedd cyfrwng Cymraeg a Saesneg i deuluoedd lleol, ond mae hwn yn amlwg yn gyfnod sensitif a heriol i staff, rhieni a chymuned gyfan yr ysgol.
- Hoffwn bwysleisio, wrth ystyried yr opsiwn gorau, y dylai'r Cyngor gyfeirio at nodau 'Caerdydd 2030', yn enwedig wrth gau'r bwlch cyrhaeddiad.
- Mae ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal hon yn rhannu nodweddion demograffig tebyg, gyda lefelau uchel o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gyda Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae nifer o wahanol ieithoedd cyntaf yn cael eu siarad gan deuluoedd yr ysgolion, ac mae gan bob garfan o ddisgyblion symudol a thros dro.
- Rwy'n credu y dylid ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar yr opsiwn gorau, a dylai canlyniad clir y broses hon fod i wella hyd yn oed ymhellach y cynnig addysg i'r disgyblion hynny. Dyma'r garfan union o ddisgyblion y mae angen i ni fod yn buddsoddi ynddynt i gau'r bwlch cyrhaeddiad hwnnw, a dylai hyn fod yn ffactor hanfodol wrth benderfynu pa opsiwn sydd orau - a dylid sicrhau bod adnoddau angenrheidiol ar gael i sicrhau gwelliant i'r disgyblion hyn.
- Gallaf weld y gallai lleoli naill ai un ysgol AALI neu ddwy ysgol AALI ffederal ar safle Gladstone ddod â rhai cyfleoedd arbedion maint ac effeithlonrwydd wrth ddyrannu adnoddau a allai gefnogi rhywfaint o'r gwelliant hwn.
- Hoffwn bwysleisio hefyd bod y broses hon yn peri gofid a phryder i staff mewn ysgolion a allai fod yn ffederaleiddio neu'n cyfuno, a rhaid gwneud popeth posibl i gefnogi lles staff yn ystod y broses hon. Hoffwn weld y broses fwyaf syml a chlir bosibl pe bai ysgolion yn ffederaleiddio neu'n cyfuno, er mwyn rhoi'r sicrwydd mwyaf a chyflymaf posibl i staff am eu sefyllfa.
- Mae Gladstone yn ysgol ardderchog, fel y gwelir yn yr ymweliad diweddaraf gan Estyn, gyda diwylliant cynhwysol a chroesawgar. Mae rhieni plant yr ysgol wedi mynegi eu cefnogaeth gref i ddiwylliant ac ethos yr ysgol. Os dewisir ffederasiwn neu uno fel yr opsiwn a ffeirir, rwy'n gobeithio y gellir adlewyrchu hanes ac ethos Gladstone ac Allensbank yn yr ysgol/ysgolion yn y dyfodol, a'u cydnabod mewn rhyw ffordd, i adlewyrchu eu presenoldeb hirsefydlog a phwysig ym mywydau cymaint o deuluoedd yn yr ardal hon, ac i dawelu meddyliau rhieni disgyblion sydd yn yr ysgolion ar hyn o bryd y bydd diwylliannau ac arferion cadarnhaol, croesawgar, llwyddiannus iawn yr ysgolion yn parhau.

Estyn - Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## **Ymateb Estyn i'r newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth yr ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd**

### **Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw ofynion statudol ar Estyn yn ymwneud â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn cynnig eu barn dim ond ar rinweddau cyffredinol yr opsiynau trefniadaeth ysgolion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a roddwyd gan y cynigiwr.

### **Crynodeb/Casgliad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Caerdydd

Mae'n ymgynghori ar dri opsiwn i ad-drefnu ysgolion yn yr ardal

### **Opsiwn 1**

- Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone:
  - Cau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol
  - Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol
  - Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol
- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96

### **Opsiwn 2**

- Cydleoli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir: Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i'r safle presennol a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
  - Lleihau capasiti Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd (1.5DM) i 210 o leoedd (1DM)
  - Lleihau ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol
  - Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol
- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96

### **Opsiwn 3**

- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan
- Lleihau capasiti Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd (1.5DM) i 192 o leoedd (0.9DM)
- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM)

Barn Estyn yw bod bob un o'r tri chynnig yn debygol o leiaf o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

### **Disgrifiad a buddion**

Mae'r cyngor wedi rhoi rhesymeg resymol dros awgrymu'r newidiadau a nodir yn y tri opsiwn. Mae hyn yn bennaf er mwyn darparu cydbwysedd priodol o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Dangosodd ymgynghoriad blaenorol bod yna gefnogaeth ar y cyfan i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, er bod materion eraill wedi cael eu codi. Mae'r opsiynau presennol yn mynd i'r afael â'r materion a lywiodd yr ymgynghoriad cynharach.

Mae'r cyngor wedi rhoi disgrifiadau manwl addas o'r opsiynau, gan dynnu sylw at y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng pob un. Mae hefyd wedi darparu dyddiadau allweddol yn briodol ar gyfer y gweithdrefnau statudol sy'n ymwneud â'r cynnig ac wedi nodi y byddai'r newidiadau arfaethedig yn dod i rym o fis Medi 2025. Mae'r cyngor yn cyfeirio'n gywir at y ffaith y byddai'r opsiwn i gau dwy ysgol, a sefydlu ysgol newydd, yn golygu bod angen sefydlu corff llywodraethu dros dro cyn agor yr ysgol newydd fwy o faint.

Mae'r cyngor wedi nodi'n glir y buddion i rannau gwahanol o bob opsiwn. Mae hefyd wedi darparu'r anfanteision cyffredin sy'n gysylltiedig â phob agwedd ar opsiwn un

ac opsiwn dau ac ar wahân wedi darparu anfanteision posibl opsiwn tri. Yn gyffredinol, mae'r cyngor o'r farn y byddai'r opsiynau'n cynnwys manteision cael gwell cydbwysedd rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael a nifer y plant sydd eisiau lleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg, cefnogi ysgolion i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol gan wneud defnydd gwell o'u hadnoddau a chaniatáu i bob un o'r safleoedd ysgol aros fel safleoedd ysgol fel bod digon o le ar gyfer newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol. Mae'r anfanteision yn cynnwys cynnydd posibl mewn tagfeydd traffig, cau ysgolion sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned leol a byddai opsiwn 3 yn arwain at ostyngiad bach yn nifer y lleoedd ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg.

Mae'r cyngor wedi nodi'n briodol y prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau. Mae'r rhain yn cynnwys na fydd gan y cyngor ddigon o leoedd os bydd cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Saesneg, dim digon o alw am addysg cyfrwng Cymraeg gan arwain at ormod o leoedd gwag a tharfu posibl yn ystod y cyfnod pontio. Mae'n ymddangos bod gan y cyngor brosesau lliniaru addas ar waith i reoli'r risgiau hyn.

Mae'r cyngor wedi ystyried rhai opsiynau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried opsiynau safle amgen o fewn dalgyloch Ysgol Mynydd Bychan, lleoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safle a rennir Gladstone a Santes Monica yr Eglwys yng Nghymru gyda darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Allensbank, ehangu safle presennol Ysgol Mynydd Bychan ac ad-drefnu'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Gynradd Albany. Mae wedi darparu esboniadau rhesymol pam na chafodd yr opsiynau hyn eu hystyried.

Mae'r cyngor wedi cyflwyno gwybodaeth addas am effaith yr opsiynau ar drefniadau teithio i ddysgwyr. Mae'n nodi ei fod wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd 'gynllun teithio llesol' sy'n nodi camau gweithredu gan yr ysgol i gefnogi ac i annog teithio llesol lle bo hynny'n briodol ac i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen ar y safle ac oddi ar y safle i hwyluso teithiau llesol. Mae gan bob un o'r pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiynau gynlluniau teithio llesol ar waith ar gyfer eu safleoedd presennol. Mae'r cyngor yn haeru y bydd swyddogion yn gweithio gyda'r ysgolion hyn i ddatblygu eu cynlluniau i gyd-fynd ag unrhyw newid mewn amgylchiadau. Mae'r cyngor yn sôn ymhellach nad oes unrhyw gynlluniau i newid ei bolisi ar gludo plant i'r ysgol ac oddi yno. Lle mae'n rhaid i ddisgyblion fynd i'r ysgol mewn lleoliad newydd, byddai eu hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ailasesu o'r lleoliad newydd.

Mae'r cyngor wedi darparu tabl defnyddiol sy'n dangos y pellteroedd rhwng yr holl ysgolion a ystyriwyd yn yr opsiynau. Mae'n cadarnhau datganiad y cyngor mai'r pellter mwyaf rhwng safleoedd ysgol yw tua 0.5 milltir ac os bydd unrhyw un o'r ysgolion yn cael eu hadleoli i safle arall, y cynnydd mwyaf mewn pellter teithio o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion presennol felly yw 0.5 milltir.

Mae'r cyngor wedi rhoi dadansoddiad manwl o ddata sy'n cynnwys nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ym mhob un o'r ysgolion yr effeithir arnynt a hefyd niferoedd a

rhagolygon hanesyddol ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae'r data hwn yn dangos bod nifer sylweddol o leoedd gwag yn gyffredinol yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg y rhagwelir y byddant yn parhau dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r cyngor yn datgan y byddai digon o leoedd o hyd i wasanaethu'r ardal i blant sydd ar hyn o bryd yn mynychu neu am fynychu'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'r cyngor yn datgan ei fod hefyd eisiau cynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal drwy ehangu Ysgol Mynydd Bychan. Mae'r ysgol yn llawn ar hyn o bryd.

Mae'r cyngor yn datgan yn gywir y byddai'r opsiynau'n cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ar gyfer yr oedran cynradd. Mae'n tynnu sylw at Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y cyngor ac yn nodi'r ffaith fod canlyniad 1 a chanlyniad 2 yn cyfeirio at fwy o blant meithrin a mwy o blant dosbarth derbyn yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cyngor wedi ystyried costau ariannol pob opsiwn ac unrhyw arbedion posibl. Mae'n datgan y byddai cyllid i gefnogi'r gwaith o ad-drefnu darpariaeth cyfrwng Saesneg ar gael o adnoddau'r Cyngor. Byddai cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn caniatáu buddsoddi mewn adeiladau ysgolion i gefnogi derbyn mwy o ddisgyblion. Ni fyddai unrhyw arbedion i'r cyngor o ganlyniad i unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig. Byddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn caniatáu dyrannu cyllid yn fwy effeithiol yng nghyllideb pob ysgol.

### **Agweddau addysgol y cynnig**

Mae'r cyngor wedi rhoi barn y consortiwm am ansawdd a safonau ym mhob ysgol yn ogystal â chanlyniadau arolygiadau diweddaraf Estyn ac mae'n datgan bod safonau yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda. Mae'n cadarnhau ei fod yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu yn gryf. Daw'r cyngor i'r casgliad nad yw'n disgwyl i'r opsiynau gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen nac unrhyw gyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'n dweud y byddai'n gweithio gydag arweinyddiaeth pob un o'r ysgolion i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel, gofal, cefnogaeth ac arweiniad a chynllunio newidiadau yn ofalus fel nad oes tarfu ar arweinyddiaeth a llywodraethu. Mae hyn yn ymddangos yn deg ac yn rhesymol, ond ni ddarperir rhagor o fanylion i gefnogi sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni

Mae'r cyngor wedi ystyried effaith yr opsiynau ar ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol, disgyblion lleiafrifoedd ethnig a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae wedi cyflwyno data sy'n dangos niferoedd y disgyblion hyn ym mhob un o'r ysgolion. Ar gyfer pob un o'r

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

grwpiau hyn o ddisgyblion, mae'n dod i'r casgliad yn rhesymol nad oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r opsiynau yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth. Mae hefyd wedi darparu un asesiad effaith, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar y gymuned sydd i gyd yn ymddangos yn berthnasol ac yn ddilys

Mae'r cyngor wedi ystyried y tarfu posibl ar ddisgyblion wrth weithredu'r newidiadau arfaethedig. Byddai swyddog arweiniol y prosiect yn gweithio gyda chyrrff llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu rhaglen fuddsoddi fyddai'n cynnwys trefniadau pontio a chefnogi lles disgyblion a staff. Byddai mwy o waith sy'n tarfu'n cael ei wneud yn ystod gwyliau'r ysgol lle bynnag y bo modd. Byddai ehangu arfaethedig Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei gyflwyno'n raddol a gallai rhannau o'r ddau adeilad fod ar gau i'r staff wrth i'r gwaith gael ei wneud



Julie Morgan, Aelod o'r Senedd ar gyfer Gogledd Caerdydd

Ysgrifennaf mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynlluniau i ad-drefnu darpariaeth ysgol gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd Mae'n amlwg bod cynnydd wedi bod yn y galw am addysg Gymraeg a pholisi Llywodraeth Cymru yw ceisio ateb y galw hwnnw a cheisio cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n ddealladwy felly bod cynlluniau'n cael eu hystyried i ganiatáu cynnydd yn nifer y plant sy'n gallu mynychu Ysgol Mynydd Bychan. Mae'n anffodus iawn nad oes modd ehangu'r ysgol ar y safle presennol ond mae'n ymddangos yn glir nad oes digon o le i ddarparu ar gyfer dosbarthiadau ychwanegol yno.

Rwyf wedi ystyried y 3 opsiwn ac mae rhai pryderon am bob un ohonynt. Mae pob un ohonynt yn cynnwys Ysgol Mynydd Bychan yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank ac yn cynyddu o 192 i 420 o leoedd. Mae i'w groesawu y gallai Ysgol Mynydd Bychan ehangu i'r maint hwnnw ond mae pryder y byddent yn symud i adeilad hŷn sydd wedi'i restru ac felly mae'n bosibl y byddant yn cael eu hatal rhag cyflawni'r gwelliannau y byddent yn dymuno eu gweld. Rwy'n ymwybodol na roddwyd caniatâd yn y gorffennol ar gyfer drysau sy'n agor i'r ardal allanol ac rwy'n deall na fydd CADW nawr yn ystyried cynlluniau penodol tan ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Mae pryder hefyd na fydd y gofod awyr agored yn ddigonol ar gyfer maint cynyddol Ysgol Mynydd Bychan.

Mae'r holl opsiynau hefyd yn cynnwys symud ysgol Allensbank o'i safle presennol. Mae Opsiwn 1 yn cynnwys uno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone i sefydlu Ysgol Gynradd Saesneg newydd â 420 o leoedd gyda darpariaeth feithrin ar y safle presennol a rennir gan Ysgol gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd Santes Monica Mae'n ymddangos mai dyma'r opsiwn a ffeirir gan Ysgol Allensbank, os oes rhaid iddynt symud. Mae adeilad Allensbank wedi cael ei orchuddio â sgaffaldau ac mae cryn dipyn o waith atgyweirio wedi bod yn digwydd dros y pedair blynedd diwethaf. Yn aml, bu'n rhaid symud plant i safle gwahanol o fewn yr adeilad wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Yn naturiol mae hyn wedi bod yn anodd i'r staff a'r plant ond roedden nhw wedi gobeithio, wrth iddo ddod i ben, y bydden nhw wedi elwa o'r gwelliannau o leiaf. Byddan nhw bellach yn colli'r budd hwnnw, pan fyddan nhw'n symud allan.

Byddai Opsiwn 2 yn golygu bod plant Allensbank yn symud i'r safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Santes Monica, ond mae pryderon na fyddai'r gofod yn ddigon mawr i holl blant Allensbank felly efallai y bydd yn rhaid i rai fynd i ysgol Gladstone ac nid yw hyn yn ymddangos yn ddymunol.

Rwy'n ymwybodol bod rhai rhieni yn teimlo, trwy gynnig y tri opsiwn, bod yr iaith Gymraeg yn cael ei ffafrio dros y Saesneg. Rwy'n cefnogi hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n amlwg bod galw mawr amdani. Fodd bynnag, yn ysgol Allensbank, maent wedi llwyddo i wella eu sgôr dros y blynyddoedd ac wedi gweithio'n dda iawn gyda nifer fawr o blant o wahanol gymunedau ethnig a rhyngddynt, mae'r plant yn siarad

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

dros 30 o ieithoedd gwahanol. Mae'n bwysig nad yw llwyddiant yr ysgol yn cael ei  
wanhau gan y symudiadau arfaethedig hyn.

Ymateb NEU i'r ymgynghoriad ar ddarparu lleoedd ysgol gynradd i wasanaethu  
Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd

## **Ynglŷn â'r Undeb Addysg Cenedlaethol**

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol yw'r undeb addysg mwyaf yn Ewrop, ac mae'n cynrychioli athrawon, darlithwyr, arweinwyr a staff cymorth ar draws y sectorau ysgolion ac AB yng Nghymru. Mae'r NEU yn credu bod yn rhaid i ni werthfawrogi addysg drwy werthfawrogi addysgwyr.

## **Ein hymateb**

Mae NEU Ardal Caerdydd yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ad-drefnu ysgolion pwysig hwn. Gan fod gennym aelodau ym mhob un o'r ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, nid ydym yn credu ei bod yn briodol i ni eirioli unrhyw opsiwn penodol. Rydym o'r farn bod yr ysgolion eu hunain a'u Cyrff Llywodraethu mewn sefyllfa dda i gyfleu eu hymatebion i bob opsiwn.

Fodd bynnag, mae sawl pwynt y byddem yn dymuno eu gwneud fel ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad cyfan i chi eu hystyried, yn enwedig o ran yr effaith ar staff a pharhad cyflogaeth.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r achos dros newid yn seiliedig ar sail addysgol ac ariannol. Rydym yn falch o weld bod y safon dda o addysg ym mhob ysgol dan ystyriaeth wedi cael ei chydnabod. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod llawer o'r cynigion yn cynnig cyfleoedd gwell ar gyfer cydweithredu a datblygiad proffesiynol i staff ac o bosibl ehangu cyfleoedd dysgu i blant, nodwyd gan ein haelodau bod y cynigion hyn ar gyfer newid yn dod ar adeg pan mae'r holl ysgolion newydd ddod allan o bandemig COVID, a'i oblygiadau ar gyfer lleihau gwytnwch staff a'r cynnydd yn anghenion disgyblion a theuluoedd yn parhau. Dywedwyd hefyd bod staff mewn rhai lleoliadau wedi bod ar daith uwch a chyflym i wella ysgolion trwy gydol y cyfnod, gan arwain at adroddiadau cadarnhaol iawn gan ESTYN, yn y gobaith y byddai hyn yn arwain at ddyfodol diogel a sefydlog i bawb. Erbyn hyn mae'r staff hyn yn dweud eu bod yn teimlo'n agored iawn i niwed a bod y gwaith y maen nhw'n ei wneud yn cael ei danbriso. Byddem yn disgwyl i'r rhai sy'n cynnig newid fod yn ystyriol o'r cyddestun y mae'r newid yn cael ei awgrymu ynddo, ac i sicrhau bod cymorth priodol i staff yn cael ei roi ar waith yn ystod bob cam, pe bai cynlluniau'n cael eu datblygu.

Rydym yn falch fod gan ALI Caerdydd ymrwymiad sydd yn cael cyhoeddusrwydd da i ddweud na i ddiswyddo gorfodol lle bynnag y bo modd, ond nodwn hefyd nad oes posibilrwydd sydd wedi ei ddatgan o drosglwyddo staff yn uniongyrchol pe bai unrhyw un o'r ysgolion yn cau, gan adael cyflogaeth barhaus staff mewn perygl. Byddwn yn rhoi ymateb manylach i'r mater hwn unwaith bydd y canlyniad i'r cam ymgynghori presennol hwn yn hysbys, ond ar hyn o bryd, byddem yn disgwyl i'r cyflogwr/wyr sicrhau bod swyddi a bywoliaeth staff presennol sy'n dymuno cael eu cyflogi mewn unrhyw batrwm newydd o ddarpariaeth yn cael eu diogelu a bod staff

yn cael eu diogelu cyn belled ag y bo modd rhag niwed yn ystod unrhyw broses ailstrwythuro. Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'r ALI/Esgobaeth/Cyrff Llywodraethu i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae hefyd yn ffaith fod y safleoedd ysgol hyn wedi bod yn destun gwaith atgyweirio sylweddol a pharhaus dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae staff wedi mynegi siom na fyddant efallai'n cael mwynhau'r adeiladau gwell yn dilyn y blynyddoedd yn gweithio o dan amodau swnllyd ac o darfu. Mae pryder hefyd, pe bai cynlluniau'n cael eu datblygu, y byddai hyn yn golygu cyfnodau pellach o amharu estynedig tra bod adeiladau'r ysgolion yn cael eu haddasu ymhellach i gyd-fynd ag anghenion unrhyw un o'r patrymau arfaethedig. Mae potensial hefyd i waith o'r fath rwystro datblygiad addysgol pellach yr ysgolion yn y tymor byr.

Yn wir, dangoswyd yn y gorffennol bod effaith dechrau ymgynghoriad ar ddiwygio darpariaeth addysgol yn y gorffennol yn meddu ar y potensial i darfu ar daith wella'r ysgolion dan sylw, oherwydd creu ansicrwydd. Gall ansicrwydd o'r fath achosi i rieni ddewis anfon eu plant i ysgolion eraill lle mae'r dyfodol yn hysbys ac na fydd yn destun yr un ansicrwydd/tarfu. Gallai hyn effeithio ar y niferoedd sy'n dechrau yn y dosbarth derbyn, ond hefyd ar ddisgyblion sy'n mynychu ar hyn o bryd, yn enwedig ysgolion Allensbank a Gladstone, lle mae'r cynigion yn cynnwys symud safle a newidiadau i strwythurau staffio ac arweinyddiaeth yr ysgolion.

Mae yna ofnau y byddai hyn yn sbarduno ymateb negyddol i'r gadwyn o ostyngiad yn nifer y disgyblion gan arwain at waethygu'r heriau ariannol yn y tymor byr, gan arwain at ddyfodol llai cynaliadwy ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg yn gyffredinol. Os yw teuluoedd yn gadael y dalgyllch, byddai hyn yn arwain at gyfnod o ansefydlogrwydd ariannol p'un a oes unrhyw newid neu ffederasiwn neu uno. Pa amddiffyniadau allai'r ALI eu rhoi ar waith yn ystod unrhyw gyfnod pontio i wrthsefyll effaith anawsterau posibl o'r fath?

Mae'n rhaid cynllunio trefniadau ar gyfer unrhyw gyfnod o newid/pontio yn dda a'u cefnogi'n briodol i sicrhau na chollir y gwelliannau addysgol presennol, neu fod rhagolygon yr holl ysgolion yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn llai cadarnhaol yng ngolwg rhanddeiliaid allanol fel Consortiwm Canolbarth y De neu Estyn. Byddai hyn yn anodd i'r holl staff sydd wedi gwneud cymaint o ymdrech i gyflawni eu sgorau da presennol.

Rydym yn falch bod y cynigion yn cadw'r holl adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ac y bydd eu defnydd yn y dyfodol fel ysgolion cynradd. Mae'r adeiladau hyn yn allweddol nid yn unig i addysg y plant y maent yn eu gwasanaethu, ond hefyd i'w teuluoedd a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Mewn ardaloedd lle mae llawer iawn o amrywiaeth ieithyddol ac ethnig fel hyn, ni ddylid amcangyfrif yn rhy isel pwysigrwydd croesawu yn y gymuned i ysgolion wrth ddathlu amrywiaeth a datblygu ymdeimlad o gydlyniant cymunedol. Mae gan ysgolion fel Santes Monica, Allensbank a Gladstone genedlaethau o brofiad o wneud hyn, a rhaid i unrhyw

gynnig am newid ystyried sut y gellir effeithio ar hyn naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol.

Mae'r NEU yn cydnabod statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd swyddogol Cymru. O ran y cynigion ar gyfer ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, mae gennym yr arsylwadau canlynol.

Rydym yn gwerthfawrogi na fydd modd hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach yn yr ardal hon nes y bydd safle addas yn cael ei nodi, ac rydym yn gwerthfawrogi mai dim ond o ganlyniad i bolisi Cenedlaethol y mae ALI Caerdydd wedi ymrwymo iddo y bydd cyllid ychwanegol ar gael ac yn cael ei wario ar ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ddau faes y bydd angen eu hystyried ymhellach yn ymwneud â'r gostyngiad presennol yng nghyfraddau genedigaethau a nodwyd sy'n effeithio ar niferoedd mynediad i'r dosbarth derbyn, gan gynnwys y rhai yn Ysgol Mynydd Bychan y mae gan eu dosbarth derbyn leoedd gwag ar hyn o bryd, a'r ymgyrch tuag at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae NEU Cymru yn credu y gellir ond cwrdd â'r cynlluniau i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 os ydym yn cefnogi dysgu'r Gymraeg i bawb yn y gweithlu addysg. Byddem yn annog y cynigion i gynnwys ystyried datblygu unrhyw gyfleoedd ar gyfer sgiliau Cymraeg y rhai y tu hwnt i leoliad cyfrwng Cymraeg ym maes defnyddio'r Gymraeg mewn addysg, gan ein bod yn gweld y cyfleoedd ar gyfer hyfforddi'r gweithlu yn hanfodol i ysgolion Caerdydd chwarae eu rhan wrth helpu'r ALI i gyflawni eu targedau yn y maes hwn.

Rydym hefyd yn credu mai ystyried yn ofalus ai ysgol cyfrwng Cymraeg dwy ffrwd yn hytrach nag 1.5 yw'r gorau yn y tymor canolig i sicrhau nad oes gormod o leoedd gwag yn cael eu creu, gan arwain at brofi pwysau ariannol, yn enwedig yng ngoleuni tueddiadau genedigaethau. Yn wir, gall fod yn bosibl ym mlynnyddoedd cynnar unrhyw ehangu, lle nad yw'r niferoedd ar gyflenwad llawn, i ddefnyddio unrhyw leoedd gwag ar gyfer datblygu sgiliau'r Gymraeg ar gyfer y gweithlu addysg ehangach yng Nghymru, a'r gymuned leol.

Rydym yn croesawu'r potensial i wella proffil amrywiaeth ethnig Ysgol Mynydd Bychan, ond oherwydd tebygrwydd cyfeiriadau'r rhai sy'n mynychu'r ysgol honno a'r rhai sy'n mynychu Allensbank a nodwyd yn yr ymgyngoriad, rydym yn disgwyl na fydd hyn yn cael ei newid trwy adleoli'r ysgolion yn unig. Bydd gwaith pellach, fel yr hyn sy'n cael ei wneud gyda grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig fel yr amlinellir yn y CSCA yn allweddol i unrhyw welliannau.

Roeddem yn falch bod lefelau symudedd disgyblion wedi'u cynnwys yng nghefnidir y cynigion. Byddem yn disgwyl y bydd digon o leoedd i ddisgyblion yn cael eu darparu, yn enwedig yn achos Santes Monica, i ddarparu'r hyblygrwydd angenrheidiol sydd ei angen.

Er bod arbedion posibl wedi'u nodi yn yr opsiwn ffederasiwn/cydweithio agosach rhwng Gladstone ac Allensbank, byddai angen rhoi sicrwydd pellach na fydd y

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

cynnig hwn yn golygu 'man canol' ar hyd y llwybr tuag at y posibilrwydd o gau un neu'r ddwy ysgol sy'n rhan o gynrig yn y dyfodol. Os rhoddir y sicrwydd hwn, gall wneud yr opsiwn hwn yn fwy deniadol i ymgylgoreion gan ei fod yn cadw dwy ysgol adnabyddus yng Nghaerdydd, wedi'u trwytho yn hanes a datblygiad cymuned Cathays, ac yn caniatáu i'r ddwy hunaniaeth unigryw barhau.

Angela Jardine  
Ysgrifennydd y Gangen a'r Ardal  
NEU Caerdydd  
Mehafin 2023

## Esgobaeth Llandaf

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Ydw***

Mae ethos ffydd Gristnogol yr ysgol yn profi'n ddeniadol iawn i Gristnogion a rhai o grefyddau eraill. Mae gormod o alw am leoedd yn llawer o'r grwpiau blwyddyn presennol yn Santes Monica.

Dylid trin dewis rhieni yn deg ac felly mae cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgol ffydd yn gam cadarnhaol i fynd i'r afael â galw am leoedd sydd yn amlwg yn uchel.

Byddai darpariaeth y blynyddoedd cynnar wedi ei adnewyddu yn Santes Monica yn cael ei defnyddio'n dda gan ysgol a dosbarth meithrin newydd.

Mae ardaloedd awyr agored presennol yn gwbl annigonol ar gyfer maint yr ysgol bresennol.

Ni fyddai'r adeiladau presennol yn gallu darparu ar gyfer symud i brydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd gan fod cyfleusterau'r gegin bresennol yn gwbl annigonol.

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydw***

Mae'r safle presennol yn cyflwyno gormod o gyfyngiadau fel safle a rennir. Mae maint anghymesur presennol yr ardal awyr agored yn cyfyngu'r ddarpariaeth sydd ar gael i blant ar gyfer chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn Santes Monica, sydd ddim yn deg i blant.

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Nac ydw***

Mae safle presennol Santes Monica wedi'i gyfyngu gan argaeledd gofod awyr agored a chyfleusterau annigonol ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd.

Mae galw uchel amlwg am leoedd yn arwydd o'r angen i ehangu darpariaeth lleoedd i rieni sy'n dymuno dewis opsiwn ffydd ar gyfer addysg eu plentyn. Dylid trin hyn mewn ffordd deg a chyfartal ac ehangu'r ddarpariaeth ffydd fel cynnig i rieni.

### ***A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill?***

Dylid ond symud Santes Monica ar yr amod bod yr adeilad newydd yn cael ei adolygu o ran ei gyflwr addurnol, y dodrefn a'r cyfleusterau heb unrhyw gost i'r ysgol. Byddai hyn yn cynnwys sefydlu man addoli addas yn yr ysgol ac adleoli Santes Monica (statud) o'r lleoliad presennol i'r safle newydd.

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

*Paul Booth, Cyfarwyddwr Cenhadaeth Esgobaeth Llandaf*



## Ysgol Gynradd Allensbank - Corff Llywodraethu

Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni nodi'r pryder y mae'r cynigion hyn wedi'i achosi ac yn dal i'w achosi i aelodau staff Allensbank sydd wedi gweithio'n ddiflino ers blynnyddoedd lawer i wella profiad disgyblion yn yr ysgol, gan barhau i weithio gyda'u hymroddiad arferol drwy'r straen diweddar o Covid a gwaith adeiladu helaeth.

Ar ôl dioddef anghyfleustra enfawr y newidiadau a'r gwaith adeiladu parhaus, mae cael gwybod nawr mai pobl eraill fydd ar eu hennill yn teimlo fel brad llwyr.

Nid yw hon yn ysgol sy'n methu fel y gwelir yn adroddiad diweddaraf Estyn:

'Mae holl staff Ysgol Gynradd Allensbank yn gweithio'n ddiwyd i greu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol. Mae'r berthynas gadarnhaol a chefnogol rhwng disgyblion a phob oedolyn yn gryfder i'r ysgol. Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n fedrus i greu darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar gyflawniad disgyblion a'u hymdeimlad o les. Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir ochr yn ochr â thîm ymroddedig o staff sy'n dangos ymrwymiad cryf tuag at gefnogi eu holl ddisgyblion i gyflawni a ffynnu.'

Er mwyn parhau gyda gwrthwynebiadau llai pleidiol, ein barn ni yw bod yr ymarfer ymgynghori cyfan yn ddiffygiol am y rhesymau canlynol:

- Ni chafwyd unrhyw drafodaeth o gwbl gyda'r partion dan sylw. h.y. Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd Santes Monica i archwilio opsiynau cyn cyhoeddi'r ddogfen. Byddai hon wedi bod yn broses ragarweiniol synhwyrol i drafod safbwyntiau a barn.
- Nid yw'r opsiynau a awgrymir yn cynnwys yr holl opsiynau posibl, dim ond y rhai sy'n arwain at adleoli Ysgol Mynydd Bychan i safle Allensbank gyda'r holl waith adnewyddu wedi'i gwblhau.

Yr opsiwn mwyaf amlwg ac nid anhebyg sydd wedi cael ei adael allan yw symud ysgol Gynradd Gladstone i safle Allensbank sydd newydd gael ei adnewyddu. Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr yn Gladstone yn llai na'r nifer sydd ar y gofrestr yn Allensbank, felly byddai hyn yn amharu ar lai o ddisgyblion. Yna byddai'r adeilad yn agos at ei gapasiti, (ond pe bai Ysgol Mynydd Bychan yn symud i safle Allensbank byddent i ddechrau, ac am y dyfodol rhagweladwy, yn gorfod delio â phroblemau adeilad sy'n rhy fawr).

Byddai hyn wedyn yn caniatáu i Ysgol Mynydd Bychan symud i safle Gladstone sydd mewn gwirionedd yn fwy canolog o fewn ei dalgyloch

Ar hyn o bryd mae 203 o ddisgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Mynydd Bychan gyda 181 o'r rhain o fewn y dalgyloch. Mae gan Gladstone 210 o leoedd ond digon o le ar

gyfer hyd at 270 o leoedd, pe byddai ystafelloedd adnoddau yn cael eu neilltuo fel ystafelloedd dosbarth. Byddai hyn felly yn caniatáu ehangu Ysgol Mynydd Bychan gan hyd at 90 o ddisgyblion o'r dalgylch heb unrhyw broblemau o ran adeilad sy'n rhy fawr.

Os, ac o ystyried y dirywiad mewn siaradwyr Cymraeg dros y 10 mlynedd diwethaf mae hyn yn parhau i fod yn ansicrwydd mawr, byddai angen ehangu pellach, byddai posibilrwydd o ehangu i safle Santes Monica ac i Santes Monica gael ei hadleoli rhywle arall. Byddai gan yr opsiwn hwn hefyd y fantais o ryddhau safle presennol Ysgol Mynydd Bychan i'w ddatblygu, o bosibl fel ysgol Gymraeg bwrpasol neu o bosibl i leddfu'r prinder llety presennol yng Nghaerdydd.

Fel arall, gallai Santes Monica, fel y cynigir, gael ei symud i safle Ysgol Mynydd Bychan gan adael safle presennol Santes Monica'n wag ar gyfer ehangu posibl Ysgol Mynydd Bychan yn y dyfodol. Unwaith eto byddai hyn yn osgoi'r anhawster i Ysgol Mynydd Bychan o adeilad sydd yn rhy fawr yn y dyfodol uniongyrchol.

O ran yr opsiynau fel y nodir yn y cynigion hyn, (nid oes croeso i unrhyw un ohonynt):

Rydym o'r farn bod dewisiadau 2 a 3 yn gwbl annerbyniol tra bod opsiwn 1 yn annymunol ac wedi ei greu'n wael.

Yn olaf, er ein bod yn gwerthfawrogi nodau strategaeth Gymraeg y llywodraeth ac yn ymwybodol o'r angen am gapasiti ychwanegol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd, rydym yn bryderus ac yn siomedig y byddai'r cynigion hyn pe baent yn cael eu gweithredu yn niweidiol i rai o'r plant tlotach, mwy agored i niwed a mwy difreintiedig yn ein cymuned.

*Kevin Jacobs,*  
*(Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Allensbank)*  
ar ran y Corff Llywodraethu

## Ysgol Gynradd Allensbank - Pennaeth

### ***Ydych chi'n Cefnogi Opsiwn 1? Nac ydw***

Nid oes unrhyw un o'r cynigion yn ddymunol ar gyfer Allensbank. Opsiwn un, fodd bynnag, yw'r unig gynnig a gyflwynwyd sy'n darparu lefel o ddiogelwch i'r mwyafrif o staff Allensbank.

Mae Opsiwn Un wedi achosi llawer o ofid i staff ymroddedig a llwyddiannus iawn sydd wedi gweithio'n ddiflino i wella'r ysgol. Gyda chau Allensbank a Gladstone a sefydlu ysgol newydd daw'r potensial am golli swyddi ac felly ni ddylid amcangyfrif yn rhy isel yr effaith ar les staff pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei ddwyn ymlaen.

Y prif wrthwynebiad i'r cynnig hwn yw na fu unrhyw fath o drafodaeth gydag ysgolion ar unrhyw adeg ynghylch ble byddai'n well lleoli'r ysgol fwy hon.

Mae'r pellter rhwng safleoedd presennol Gladstone ac Allensbank yn fach iawn. Yn sicr wedyn, dylid bod wedi ystyried pa safle fyddai fwyaf addas at y diben hwn. (Cyfeiriaf at hyn ymhellach yn fy awgrymiadau ar gyfer cynigion amgen).

### ***Ydych chi'n Cefnogi Opsiwn 2? Nac ydw***

Rwy'n credu bod Opsiwn 2 yn annerbyniol.

Gyda Allensbank o bosibl yn cael ei lleihau i gapasiti o 210 o ddisgyblion, mae'n amlwg y byddai angen i'r ysgol rannu adeiladau/gofod awyr agored gydag Ysgol Gynradd Gladstone. Er bod Allensbank bob amser wedi cael perthynas gadarnhaol iawn gydag Ysgol Gynradd Gladstone ac y byddai'n amlwg yn ceisio cynnal hyn, byddai pryderon ynghylch cydleoli. Byddai'r baich o rannu cyfleusterau ar safle sydd eisoes â nifer cyfyngedig o fannau dysgu awyr agored yn arwain at anodd rheoli iechyd a diogelwch a threfniadau diogelu disgyblion.

Byddai'r gostyngiad yn nifer y disgyblion a chael gwared ar ddarpariaeth Feithrin hefyd yn cael effaith drychinebus ar Ysgol Gynradd Allensbank o ran cyllid a'r gallu i ddenu derbyniadau newydd o fewn dosbarthiadau Derbyn bob blwyddyn.

### ***Ydych Chi'n Cefnogi Opsiwn 3? Nac ydw***

Rwy'n ystyried bod Opsiwn 3 yn annerbyniol.

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ostyngiad mawr yn nifer y disgyblion ac felly'n lleihau'n sylweddol yr arian a dderbynnir gan Ysgol Gynradd Allensbank.

Ar hyn o bryd nid yw'r cyllid ar gyfer ysgol un dosbarth mynediad yn ddigonol i wneud ysgolion bach yn hyfyw yn ariannol. Canlyniad y cynnig hwn fyddai y byddai

Allensbank yn cynnal colled ariannol enfawr o ran incwm. Byddai hyn felly yn y pen draw yn golygu diffyg sicrwydd swyddi i holl staff presennol Allensbank.

***A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r opsiynau a gynigir?***

Nid oes unrhyw un o'r 3 chynnig yn ddymunol mewn unrhyw ffordd ar gyfer Allensbank.

Mae'r tri chynnig yn seiliedig ar y dybiaeth y dylai Ysgol Gynradd Allensbank symud o'i hadeilad presennol.

Dewis amgen clir i'r cynnig hwn fyddai cau Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd Allensbank tra'n lletya ysgol cyfrwng Saesneg newydd ar safle Allensbank.

Mae adeilad Allensbank yn gallu darparu ar gyfer Ysgol Gynradd 2DM yn gyfforddus tra hefyd yn caniatáu darpariaeth ar gyfer parcio staff.

Mae llai o ddisgyblion ar y gofrestr yn Gladstone ac felly byddai'n tarfu ar nifer lai o ddisgyblion o ran eu hadleoli.

Byddai adeilad Gladstone yn gartref cyfforddus i Ysgol Mynydd Bychan gyda'r opsiwn i ehangu ymhellach i safle Santes Monica pe bai angen. Byddai hefyd yn gosod Ysgol Mynydd Bychan yn fwy canolog o fewn ei thalgylch.

***Os felly, sut byddai'r newidiadau hyn yn fwy o fudd i blant a phobl ifanc yn y cymunedau hyn, nag Opsiynau 1, 2 neu 3?***

Byddai lleoli Ysgolion Cynradd Gladstone ac Allensbank ar safle presennol Allensbank yn golygu tarfu ar addysg llai o ddisgyblion.

Byddai lleoli Ysgol Mynydd Bychan ar safle Gladstone yn caniatáu mynediad haws i rieni, yn enwedig o ran fwy ddeheuol y dalgylch.

Mae'r opsiwn hwn hefyd yn rhoi'r gallu i Ysgol Mynydd Bychan dyfu dros amser. Mae'n lleihau maint y gofod nad yw'n cael ei ddefnyddio yn yr ardal nes bod ei angen, am y gallai adeilad Santes Monica sydd ar wahân gael ei ddefnyddio gan y gymuned ehangach. Rhai enghreifftiau o ddefnydd dros dro posibl fyddai ar gyfer dosbarthiadau Saesneg fel Iaith Ychwanegol i rieni yn y gymuned amrywiol hon, Hyb cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd angen cymorth neu le i grwpiau cymunedol gwrdd a thrwy hynny darparu incwm i'r Awdurdod Lleol.

### ***A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill?***

Fel pennaeth Ysgol Gynradd Allensbank ers 2013, rwy'n falch o fod wedi arwain tîm ymroddedig o staff i sicrhau bod yr ysgol yn diwallu anghenion disgyblion o'r gymuned hynod amrywiol hon.

Mae'r cynigion yn cael eu gorfodi arnom fel ysgol a chymuned nad yw eisiau newid. Yn hytrach, byddai'n well gennym gael ein hariannu a chael adnoddau priodol er mwyn parhau i ddiwallu anghenion ein dysgwyr.

Mae'r ysgol wedi wynebu heriau enfawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd effaith Covid-19 ond hefyd y gwaith adeiladu sylweddol sydd wedi effeithio ar fywyd bob dydd ein hysgol dros y 4 blynedd diwethaf. Mae'r staff wedi dioddef yr holl bwysau hyn tra'n parhau i ganolbwyntio'n gadarn ar ddisgyblion ac ethos unigryw yr ysgol. Maen nhw nawr yn wynebu blynyddoedd pellach o darfu yn yr adeilad gan wybod na fyddan nhw o bosibl yn elwa mewn unrhyw ffordd ar y gwelliannau i'r adeilad. Mae'r gwariant o amgylch y gwaith adeiladu yma wedi bod yn arbennig o anodd ei dderbyn o ystyried y ffaith fod Allensbank wedi bod yn gweithio o dan gyfyngiadau ariannol difrifol yn ystod y cyfnod hwn. Mae costau sgaffaldau ar gyfer yr adeilad (o gofio bod sgaffaldau wedi bod yno am flynyddoedd cyn i'r gwaith ddechrau) ymhell dros £300,000. Gall Allensbank ond dychmygu beth ellid bod wedi'i gyflawni fel ysgol pe bai'r arian ychwanegol hwn gan y Cyngor wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â thanariannu ar gyfer yr ysgol.

Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng ar draws y ddinas ac felly mae ysgolion yn cael eu gadael yn brwydro i ddenu disgyblion. Mae gwneud Allensbank yn ddeniadol ac yn apelgar i rieni yn heriol iawn o ystyried bod sgaffaldau wedi bod ar yr adeiladau allanol a bod y gofod awyr agored yn gyfyngedig iawn.

Er bod nifer y disgyblion wedi gostwng yn unol â llawer ar draws y Ddinas, nid yw niferoedd ein disgyblion ar unrhyw adeg yn adlewyrchu'r lefelau symudedd uchel a niferoedd y disgyblion o bob cwr o'r byd sy'n cael eu derbyn i Allensbank, eu profiad cyntaf o system Addysg Prydain yn aml iawn. Cawsom ein cydnabod gan Estyn yn 2020 fel ysgol sy'n "dathlu amrywiaeth diwylliant ac iaith disgyblion a'u teuluoedd ar bob cyfle ac yn defnyddio strategaethau hynod effeithiol i gefnogi disgyblion sydd angen datblygu eu sgiliau Saesneg." Teimlwn yn gryf y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn dathlu'r llwyddiannau hyn yn yr ysgol yn hytrach na'n gwneud yn destun newid gorfodol.

*Jenny Drogan, Pennaeth Ysgol Gynradd Allensbank*

## Staff Allensbank – Aelodau Undeb NEU

Dyma ein hymateb ysgrifenedig gan aelodau Undeb NEU yn Ysgol Gynradd Allensbank o ran darparu lleoedd Ysgol Gynradd i wasanaethu Cathays, Gabalfa, Ystum Taf a Phlasnewydd.

### **Opsiwn 1**

Rydym yn cydnabod manteision uno ysgolion Allensbank a Gladstone a dod yn 2DM. Fodd bynnag, hoffem godi'r sylwadau canlynol:

- Ni fydd Gladstone a Santes Monica yn addas at y diben fel ysgol 2DM erbyn mis Medi 2025 os bydd yr opsiwn hwn yn mynd yn ei flaen. Teimlwn y bydd ein hysgol yn barod ar gyfer bod yn ysgol 2DM er mwyn pontio llyfnach i uno ac yn cael llai o effaith ar les disgyblion a staff.
- Ni fydd gan Ysgol Mynydd Bychan, er ei bod yn llawn ar hyn o bryd, 2DM ym mis Medi 2025 os ystyrir y ffigurau gordanysgrifio presennol a'r gostyngiad o 20% yn y gyfradd genedigaethau. Felly, teimlwn y byddai Ysgol Mynydd Bychan yn fwy addas ar safle Gladstone gan roi digon o le iddynt ac ystafell bosibl i dyfu.
- Rydym yn teimlo y byddai'r opsiwn hwn yn achosi tagfeydd mewn ardal sydd eisoes yn brysur gyda nifer sylweddol o staff, disgyblion a rhieni angen gallu parcio. Sut byddai'r cyngor yn goresgyn y mater hwn mewn ardal sydd eisoes yn wael o ran argaeledd parcio?
- Gyda'r argyfwng costau byw presennol, rydym yn pryderu y byddai uno ysgolion yn golygu cost sylweddol i deuluoedd sy'n ailddefnyddio gwisgoedd ysgol yn flynyddol ac yn trosglwyddo o un plentyn i'r llall. Sut byddai'r cyngor yn goresgyn ac yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer ein teuluoedd?
- Cafwyd effaith enfawr ar les, iechyd meddwl a chorfforol yr holl staff o ran y posibilrwydd o'r opsiwn hwn gan fod ansicrwydd enfawr o ran ein dyfodol a'n sicrwydd ariannol, oherwydd er y byddai nifer y staff sydd eu hangen yr un fath a bod dwy ysgol yn cael eu gwthio gyda'i gilydd, nid ydym yn sicr o'n rôl er bod y rolau yno yn yr ysgol newydd. Hoffem hefyd godi'r pryder bod disgyblion wedi cael gwybod drwy'r cyngor bod 'disgwyl i bob un neu mwyafrif yr athrawon yn yr ysgol newydd fod o Allensbank a Gladstone.' Hoffem gael eglurder ar yr anghysondeb rhwng y ddau safbwynt gwahanol iawn hyn sydd wedi cael eu rhoi gan y cyngor.
- Mae gennym rai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed yn yr AALI, sy'n dibynnu ar fod yn gyfarwydd â staff a'u hamgylchedd i ymdopi ac i allu eu rheoleiddio o ddydd i ddydd a bydd newid lleoliad yn effeithio ar y disgyblion hyn yn y pen draw.

### **Opsiwn 2**

Rydym yn teimlo'n gryf nad yw Allensbank sy'n cael ei rhoi ar safle presennol Santes Monica wrth ymyl ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg Gladstone a gynhelir gan yr AALI, yn gwneud unrhyw synnwyr ac ni fydd o fudd i gymuned Allensbank yn gyffredinol. Bydd y gostyngiad mewn niferoedd wrth gau ein meithrinfa bresennol yn cael effaith

niweidiol ar niferoedd y disgyblion yn y dyfodol. Sut gall Allensbank lai gystadlu â Gladstone sy'n darparu ar gyfer plant 3-11 oed ac sydd â digonedd o le i wneud hyn a theimlwn y bydd hyn yn y pen draw yn arwain at gau Allensbanks yn llawn.

Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn golygu ansicrwydd i'r holl staff a'u rolau oherwydd cau'r feithrinfa, gan gael effaith niweidiol ar les staff a disgyblion.

Mae gennym rai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed yn yr AALI, sy'n dibynnu ar fod yn gyfarwydd â staff a'u hamgylchedd i ymdopi ac i allu eu rheoleiddio o ddydd i ddydd a bydd newid lleoliad yn effeithio ar y disgyblion hyn yn y pen draw.

### **Opsiwn 3**

Tra ar bapur, mae'r opsiwn hwn yn ymddangos fel yr opsiwn mwyaf syml i bob parti dan sylw, teimlwn fod hwn yn opsiwn arall i sefydlu Allensbank i fethu ac yn y pen draw cau neu uno â Gladstone. Unwaith eto, byddai'r gostyngiad yn y niferoedd i 0.9DM yn effeithio ar y disgyblion presennol sydd ar y gofrestr yn ein hysgol yn ogystal â'n gallu i ddenu disgyblion posibl. Bydd hyn wedyn yn arwain at ganlyniadau ariannol i'n hysgol a fyddai'n drychinebus gan ystyried ein sefyllfa ariannol bresennol fel ysgol ac na fyddai'n gynaliadwy yn y tymor hwy.

Mae gennym rai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed yn yr AALI, sy'n dibynnu ar fod yn gyfarwydd â staff a'u hamgylchedd i ymdopi ac i allu eu rheoleiddio o ddydd i ddydd a bydd newid lleoliad yn effeithio ar y disgyblion hyn yn y pen draw.

Hoffem gynnig pedwerydd opsiwn i chi, lle mae Allensbank yn aros ar safle'r ysgol ac yn uno â Gladstone i ffurfio ysgol newydd, gan ein bod yn gweld manteision uno'r ddwy ysgol a byddai'n cyfyngu ar rai o'n pryderon a restrir uchod, ynghyd â lleddfu rhai pryderon i'n disgyblion mwyaf agored i niwed.

I gloi, nid ydym yn deall pam nad yw disgyblion, staff a lles ein cymuned wedi dylanwadu ar opsiwn i Allensbank aros ar eu safle presennol. Mae'r holl opsiynau o blaid yr ysgolion eraill yn y cynnig ac rydym yn teimlo bod ein hawliau i gynnig teg wedi cael eu colli, yn enwedig gan fod gennym rai o'r disgyblion mwyaf agored i niwed yn yr AALI, sy'n dibynnu ar fod yn gyfarwydd â'r staff a'u hamgylchedd i ymdopi ac i allu eu rheoleiddio o ddydd i ddydd.

## Ysgol Gynradd Gladstone - Corff Llywodraethu

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Nac ydw**

Gallaf weld y pethau cadarnhaol i ddatrys cyllideb ddiffygiol Gladstone trwy gyfuno adnoddau gydag ysgol arall. Gall grŵp ehangach o staff hefyd gynnig cyfleoedd ehangach i staff a mwy o glybiau ar ôl ysgol. Efallai y byddwn hefyd yn gallu cynnal uned iaith a lleferydd. Fodd bynnag, mae sawl mater fyddai'n bygwth gallu'r ysgol i gynnig yr addysg a'r cymorth y mae'n ei gynnig ar hyn o bryd.

1. Effaith ar staff a dysgwyr. Mae llawer o staff eisoes yn poeni am golli eu swyddi. Gyda'r ansicrwydd hwn yn para tan fis Medi 2025, gallai hyn effeithio ar y profiad addysgu a dysgu i blant. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn peryglu rôl y pennaeth gan y byddai'n rhaid iddi hithau hefyd wneud cais. Mae'r pennaeth wedi bod yn arweinydd rhagorol, mae niferoedd y disgyblion wedi tyfu bob blwyddyn ers iddi gyrraedd ac roedd ein harolygiad ESTYN yn llwyddiant. Mae'r opsiwn hwn yn peryglu colli'r adnoddau mwyaf hanfodol sy'n gwneud Gladstone yn gymaint o lwyddiant.
2. Colli hunaniaeth. Mae gan Gladstone le arbennig yn y gymuned ac mae'n hanfodol yn cefnogi llawer o deuluoedd bregus. Mae 36% o'n plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim gan eu bod yn byw mewn tlodi cymharol. Mae 65% o'n disgyblion dros 5 oed yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, 48% ohonynt islaw cymwys yn y Saesneg (A-C). Roedd ein harolygiad ESTYN yn cydnabod ein gallu i helpu llawer o deuluoedd agored i niwed i fyw bywydau hapus a diogel. Mae'r ysgol yn eu cefnogi'n anffurfiol trwy gyfieithu a dehongli ac oherwydd bod yr ysgol yn fach, gall staff feithrin perthynas ac ymddiriedaeth gyda theuluoedd. Mae hyn yn bwysig i rieni nad ydynt wedi cael yr hyder ieithyddol na chymdeithasol i ymgysylltu fel arall, ac mae'n arbennig o wir ar gyfer y rhai y mae gan eu plant anghenion dysgu ychwanegol. Mae gennym sawl cenhedlaeth o deuluoedd sy'n anfon eu plant i Gladstone oherwydd eu bod yn ymddiried y bydd eu plant yn cael addysg gadarnhaol a chynhwysol. Byddai colli Gladstone fel endid yn dileu'r rôl honno o ymddiriedaeth sydd gan yr ysgol yn lleol.
3. Pryder am ddiffyg lle i ddarparu prydau ysgol am ddim ar gyfer ysgol dau ddosbarth mynediad. Rydym yn cael ein cyfyngu gan faint y neuadd a chapasiti'r gegin; byddai angen buddsoddiad sylweddol i'w gwneud yn hyfyw, yn ogystal â mwy o oruchwylwyr canol dydd i sicrhau bod y system yn gweithredu. Rwyf hefyd yn poeni y byddai hyn yn cymryd amser hir i'w reoli bob dydd ac y gallai beryglu amser addysgu a dysgu yn y pen draw.
4. Pryder am ddiffyg lle yn yr awyr agored i nifer fwy o ddysgwyr. Mae gan lawer o'n plant fynediad cyfyngedig i fannau awyr agored diogel yn y gymuned. Byddai dyblu nifer y plant yn rhoi pwysau ar y gofod sydd ar gael ac yn cyfyngu ar y gallu i gynnig mwy o glybiau gweithgareddau awyr agored ar ôl ysgol. Cafodd y maes chwarae ei ddisgrifio fel un "digonol" ar gyfer ysgol fwy gan staff yr awdurdod lleol, ond rwy'n teimlo'n gryf y dylai anghenion plant sydd eisoes dan anfantais fod yn flaenoriaeth,



gan gael mynediad at le awyr agored gwell na "digonol" i gyfoethogi eu profiad dysgu a helpu i ailgydbwysu eu cyfleoedd mewn bywyd.

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydw***

Gallai cydleoli'r ddwy ysgol ar un safle ddod â chymhlethdod i weithrediadau ymarferol. Pe bai'r ysgolion yn ffederaleiddio, nid yw'n glir beth fyddai goblygiadau'r gyllideb i'r ysgolion ac yn y pen draw fe allai arwain at uno oherwydd pwysau ariannol, a fyddai i bob pwrpas yn opsiwn un.

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Ydw***

Efallai mai'r trydydd opsiwn yw'r mwyaf ymarferol o safbwynt Gladstone mewn sawl ffordd. Hwn fyddai'r opsiwn fyddai'n tarfu lleiaf ar y staff a'r plant ac felly'n cyfyngu ar effaith cyfnod ansicr o newid neu ad-drefnu ar addysgu a dysgu a lleihau'r risg o golli staff profiadol, gwybodus.

Fodd bynnag, o safbwynt cyllidebol, rwy'n cydnabod efallai na fydd yr opsiwn hwn o fudd i Gladstone ac efallai na fydd yn cynnig ffordd uniongyrchol i ni o bennu cyllideb gynaliadwy yn y tymor byr. Fodd bynnag, rwy'n credu y gallai'r opsiwn hwn alluogi ailddyrrannu disgyblion o Allensbank i Gladstone, a allai ein galluogi i gynyddu nifer ein disgyblion i ddod â niferoedd Gladstone i fyny i gapasiti. Gallai hyn ein galluogi i gael cyllideb gynaliadwy yn yr hirdymor gyda charfan lawn ym mhob dosbarth (mae gennym gapasiti ar gyfer ryw 30 yn fwy o ddisgyblion ar hyn o bryd).

Fel corff llywodraethu, rydym yn dymuno i'r gwaith da y mae ysgol gynradd Gladstone yn ei wneud yn y gymuned ac i'w dysgwyr barhau, ac efallai y bydd yr opsiwn hwn yn caniatáu i ni gadw ethos ac ysbryd yr ysgol heb gyfaddawdu oherwydd pwysau cyllidebol. Yn naturiol, mae'r opsiwn hwn hefyd yn sicrhau bod Ysgol Mynydd Bychan yn gallu gweithredu yn y gofod sydd ei angen arni ac mae'r gymuned yn cadw ei hysgolion ac yn amharu cyn lleied â phosibl ar bawb.

## Ysgol Gynradd Gladstone - Pennaeth

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1?***Nid yw'r farn yn cael ei nodi*

Byddai hwn yn gyfle cyffrous i ddwy ysgol gymunedol uno a ffurfio un Ysgol Gynradd fwy yn ardal Cathays. Byddai cael un Ysgol Gynradd fwy yn yr ardal yn sicrhau pontio esmwyth i ddisgyblion o 3 oed hyd at 16 oed yn yr Ysgol Uwchradd. Byddai ysgol fwy yn caniatáu i staff rannu arbenigedd a chreu mwy o gyfleoedd cydweithio/DPP. Gallai staff ychwanegol hefyd ddarparu ystod o arbenigedd a phrofiadau addysgol i ddisgyblion yn yr ysgol. Byddai ysgol wedi'i huno yn gwrthbwysu unrhyw gyllidebau diffygiol sydd gan ysgolion ar hyn o bryd ac yn darparu dyfodol mwy cynaliadwy i'r teuluoedd a'r staff. Byddai cynnydd yn nifer y disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar gyllideb yr ysgol ac yn darparu adnoddau a chyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion. Byddai cymuned yr ysgol gyfan yn cael cyfle i gyfrannu eu syniadau a'u meddyliau i helpu i lunio ysgol eu plentyn ar gyfer y dyfodol e.e. penderfynu ar enw'r ysgol, gwisg ysgol, brandio gan roi perchnogaeth iddynt o'u hysgol yn eu cymuned eu hunain.

Bydd y gwaith adeiladu ysgolion yn cael ei gwblhau a gobeithio y bydd yn rhoi adeilad strwythurol gadarn i ddisgyblion fod yn falch ohono. Cyn hynny roedd un ysgol ar y safle cyfan gyda'r adeilad babanod wedi'i leoli yn Santes Monica a'r ysgol lau yn Gladstone. Gallai hyn fod yn bosibilrwydd ar gyfer ysgol wedi'i huno newydd gyda lle hefyd ar gyfer Clwb ar ôl Ysgol a/neu Uned Lleferydd ac Iaith, Canolfan Adnoddau Arbennig neu gyfleuster Meithrin. Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd Gladstone gysiau dysgu fel teulu ar gyfer rhieni/gofalwyr a allai barhau.

Bydd cael un Ysgol Gynradd hefyd yn creu mwy o gyfleoedd i deuluoedd rwydweithio a chefnogi ei gilydd yn y gymuned. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r gymuned gydweithio i helpu i godi arian i'r ysgol a chefnogi unrhyw ddirwyddiadau/busnesau lleol. Gallai ysgol fwy o faint alluogi'r ysgol i estyn allan at fwy o bobl yn y gymuned a chodi ymwybyddiaeth o adeilad y Boathouse fel man posibl y gallai teuluoedd/busnesau ei ddefnyddio.

Rwy'n gwerthfawrogi y byddai'r opsiwn hwn yn peri pryder i'r holl staff, gan gynnwys fy hun, am y byddai'n rhaid i bob un ohonom ailymgeisio am ein swyddi gyda swyddi'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth yn mynd yn genedlaethol a allai olygu dileu swyddi posibl.

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2?***Nid yw'r farn yn cael ei nodi*

Byddai cydleoli Ysgol Gynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir yn caniatáu i ddwy ysgol gymunedol ddod at ei gilydd a darparu mwy o gyfleoedd cydweithio i staff, disgyblion, teuluoedd a llywodraethwyr. Byddai cael y ddwy ysgol ar un safle yn caniatáu i staff rannu arbenigedd a chreu mwy o gyfleoedd cydweithio/DPP. Gallai staff hefyd ddarparu amrywiaeth o arbenigedd a phrofiadau addysgol i ddisgyblion yn yr ysgol. Byddai cyfle i gyfuno adnoddau y gallai'r ddwy ysgol elwa

ohonynt. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod Gladstone ac Allensbank yn cadw eu hunaniaeth a'u hethos. Pe bai ysgolion yn ffederaleiddio byddai hwn yn gyfle cyffrous i weithio'n agos gyda holl randdeiliaid y ddwy ysgol a'u huno o dan un ymbarél.

Byddai hyn yn rhoi amser i deuluoedd addasu i'r ysgolion yn gweithio ar un safle a byddai'r pontio yn llyfnach pe bai'r ysgolion yn ffedereiddio yn y dyfodol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael fawr o effaith ar staffio gyda bron pob aelod o staff yn gorfod ailymgeisio am eu swyddi gan gynnig mwy o sicrwydd swydd.

Byddai angen ystyried sut byddai Allensbank a Gladstone yn rhannu'r safle am y byddai angen rheoli hyn yn briodol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn glir ar strwythurau'r ysgol ac ati

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Ydw***

Byddai'r opsiwn hwn yn ein galluogi i gadw ein hunaniaeth, ein hanes a'n hethos, sydd yn bwysig i gymuned ein hysgol. Byddai'r opsiwn hwn yn tarfu ac yn cael yr effaith leiaf ar ein hysgol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar ddisgyblion Gladstone, fyddai'n rhoi parhad a sefydlogrwydd ar gyfer eu dyfodol. Rydym yn falch o adroddiad Arolwg diweddar Estyn a hoffem adeiladu ar yr arfer sydd eisoes yn dda a gydnabyddir gan arolygwyr. Mae teuluoedd wedi mynegi pa mor groesawgar a meithringar yw'r ysgol a'u bod yn hoffi'r ffaith ein bod ni'n ysgol gymunedol fach gan ei bod yn caniatáu i ni gefnogi pawb, gan gynnwys ein teuluoedd sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Rydym yn ysgol aml-genhedlaeth a byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i deuluoedd barhau i ddychwelyd i Ysgol Gladstone.

Mae nifer y disgyblion wedi bod ar gynnydd ers 2018 ac yn parhau i gynyddu, fydd, gobeithio, yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyllideb a dyfodol Ysgol Gladstone. Byddai Opsiwn 3 yn ein galluogi i gynnal a thyfu niferoedd presennol ein dosbarth meithrin.

Pe bai ysgolion yn ffederaleiddio byddai hwn yn gyfle cyffrous i weithio'n agos gyda holl randdeiliaid y ddwy ysgol a'u huno o dan un ymbarél. Gyda ffederasiwn gallai fod ailstrwythuro staff a allai greu arbedion yn yr hirdymor i'r gyllideb. Byddai cyfle i Allensbank a Gladstone gydweithio a rhannu arbenigedd a gwybodaeth. Byddai hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr am y gellid gwella eu profiadau addysgol. Byddai cyfle i gyfuno adnoddau y gallai'r ddwy ysgol elwa ohonynt. Bydd cael un Ysgol wedi'i Ffedereiddio yn creu mwy o gyfleoedd i deuluoedd rwydweithio a chefnogi ei gilydd yn y gymuned. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r gymuned gydweithio i helpu i godi arian i'r ysgol a chefnogi unrhyw ddirwyddiadau/busnesau lleol. Gallai ysgol wedi'i ffedereiddio alluogi'r ysgol i estyn allan at fwy o bobl yn y gymuned a chodi ymwybyddiaeth o adeilad y Boathouse fel man posibl y gallai teuluoedd/busnesau ei ddefnyddio.

Mae lle yn Ysgol Gladstone i fod yn gartref i Uned Lleferydd ac Iaith.

Byddai hwn yn opsiwn cyflymach a haws i'w reoli gan effeithio yn ffisegol ar 2 ysgol yn unig. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn golygu na fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r staff ailymgeisio am eu swyddi, fydd yn sicrhau bod lles staff yn cael ei gynnal.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi buddsoddi'n helaeth yn y gwaith o adfer Ysgol Gladstone gyda gwaith adeiladu helaeth yn cael ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf - byddai opsiwn 3 yn caniatáu i'r staff a'r disgyblion/teuluoedd fwynhau a gwerthfawrogi eu hadeilad newydd wedi'i adnewyddu.

***A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r opsiynau a gynigir?***

Byddai cyllid ychwanegol i gefnogi ffactor enfawr symudedd disgyblion yn cefnogi ysgolion yn yr ardal hon ac yn gwneud cynllunio cyllideb ar gyfer y dyfodol yn llai heriol.

***A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill?***

Rydym wedi wynebu nifer o heriau dros y blynyddoedd diwethaf (ynghyd ag ysgolion eraill) sydd wedi cynnwys Covid, Gwaith Adeiladu, Cyllidebau, Estyn a nawr yr Ymgynghoriad ysgolion yn yr ardal. Rwy'n gwerthfawrogi bod manteision ac anfanteision i bob ysgol sydd yn gysylltiedig yn ymwneud â phob opsiwn ond hyderaf y bydd y Cyngor yn gwneud y penderfyniad cywir ar gyfer dyfodol dysgwyr a theuluoedd yn ardal Cathays. Er mai Opsiwn 3 yw'r opsiwn yr wyf i'n ei ffafrio, rwyf wedi cynnig fy marn ar Opsiwn 1 a 2 gan fy mod yn teimlo bod hyn yn bwysig. Byddwn yn cefnogi beth bynnag fydd y canlyniad ac yn helpu i reoli'r newid yn effeithiol i'r holl bartïon dan sylw.

*Paula Shipton-Jones, Pennaeth Ysgol Gynradd Gladstone*

## Ysgol Gynradd Gladstone - Staff

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Nac ydw***

- Bydd y ddwy ysgol gynradd hynaf yn ardal Cathays yn colli eu hunaniaeth a'u hanes.
- Byddai ethos ysgol agos dwy ysgol gynradd lai yn cael ei golli. Gyda'r teuluoedd newydd, y teuluoedd sydd angen y gefnogaeth honno, a'r teuluoedd heb fawr ddim Saesneg, mae cael y gefnogaeth o fewn lleoliad llai wedi bod yn hanfodol bob amser i gynnal perthynas gadarnhaol, a helpu'r rhai mewn angen.
- Mae'n rhaid i staff ailymgeisio am eu swyddi.
- Bydd yn rhaid i uwch staff, h.y. Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid, ailymgeisio am eu swyddi; byddai hyn yn cael ei hysbysebu'n genedlaethol, nid rhwng yr ysgolion yn unig.
- Dileu swyddi.
- Gallai dosbarth meithrin newydd leihau niferoedd yn Gladstone.

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydw***

- Gallai fod yn ddryslyd i rieni/teuluoedd os yw'r ysgolion yn gorfod rhannu'r ddau adeilad?
- Gallai fod yn heriol o ran logisteg i ysgolion.
- Gallai ffederasiwn olygu bod Uwch Arweinwyr mewn perygl o golli eu swyddi o'r ddwy ysgol
- Dileu swyddi posibl

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Ydw***

Byddai'r opsiwn hwn yn ein galluogi i gadw ein hunaniaeth, ein hanes a'n hethos, sydd yn bwysig i gymuned ein hysgol. Byddai'r opsiwn hwn yn tarfu ac yn cael yr effaith leiaf ar ein hysgol.

Mae rhieni/gofalwyr wedi mynegi faint maen nhw'n gwerthfawrogi'r staff yn yr ysgol ac maen nhw'n poeni am effaith y broses ymgynghori ar les staff. Maen nhw hefyd yn poeni y gallai hyn effeithio ar safonau oherwydd yr ansicrwydd sydd i ddod i staff a disgyblion. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael fawr o effaith ar staffio gyda bron pob aelod o staff yn gorfod ailymgeisio am eu swyddi gan gynnig mwy o sicrwydd swydd.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar ddisgyblion Gladstone, fyddai'n rhoi parhad a sefydlogrwydd ar gyfer eu dyfodol. Rydym yn falch o adroddiad Arolwg diweddar Estyn a hoffem adeiladu ar yr arfer sydd eisoes yn dda a gydnabyddir gan arolygwyr. Mae teuluoedd wedi mynegi pa mor groesawgar a meithringar yw'r ysgol a'u bod yn hoffi'r ffaith ein bod ni'n ysgol gymunedol fach gan ei bod yn caniatáu i ni gefnogi pawb, gan gynnwys ein teuluoedd sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Rydym yn ysgol aml-genhedlaeth a byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i deuluoedd barhau i ddychwelyd i Ysgol Gladstone.

Mae nifer y disgyblion wedi bod ar gynydd ers 2018 ac yn parhau i gynyddu, fydd, gobeithio, yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyllideb a dyfodol Ysgol Gladstone. Byddai Opsiwn 3 yn ein galluogi i gynnal a thyfu niferoedd presennol ein dosbarth meithrin.

Pe bai ysgolion yn ffederaleiddio byddai hwn yn gyfle cyffrous i weithio'n agos gyda holl randdeiliaid y ddwy ysgol a'u huno o dan un ymbarél. Gyda ffederasiwn gallai fod ailstrwythuro staff a allai greu arbedion yn yr hirdymor i'r gyllideb. Byddai cyfle i Allensbank a Gladstone gydweithio a rhannu arbenigedd a gwybodaeth. Byddai hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr am y gellid gwella eu profiadau addysgol. Byddai cyfle i gyfuno adnoddau y gallai'r ddwy ysgol elwa ohonynt. Bydd cael un Ysgol wedi'i Ffedereiddio yn creu mwy o gyfleoedd i deuluoedd rwydweithio a chefnogi ei gilydd yn y gymuned. Byddai hyn hefyd yn caniatáu i'r gymuned gydweithio i helpu i godi arian i'r ysgol a chefnogi unrhyw ddigwyddiadau/busnesau lleol. Gallai ysgol wedi'i ffedereiddio alluogi'r ysgol i estyn allan at fwy o bobl yn y gymuned a chodi ymwybyddiaeth o adeilad y Boathouse fel man posibl y gallai teuluoedd/busnesau ei ddefnyddio.

Mae lle yn Ysgol Gladstone i fod yn gartref i Uned Lleferydd ac Iaith.

Byddai hwn yn opsiwn cyflymach a haws i'w reoli gan effeithio yn ffisegol ar 2 ysgol yn unig. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn golygu na fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r staff ailymgeisio am eu swyddi, fydd yn sicrhau bod lles staff yn cael ei gynnal.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi buddsoddi'n helaeth yn y gwaith o adfer Ysgol Gladstone gyda gwaith adeiladu helaeth yn cael ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf - byddai opsiwn 3 yn caniatáu i'r staff a'r disgyblion/teuluoedd fwynhau a gwerthfawrogi eu hadeilad newydd wedi'i adnewyddu.

### ***A hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r opsiynau a gynigir?***

Byddai cyllid ychwanegol i gefnogi ffactor enfawr symudedd disgyblion yn cefnogi ysgolion yn yr ardal hon ac yn gwneud cynllunio cyllideb ar gyfer y dyfodol yn llai heriol.

### ***A hoffech chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill?***

3 yw'r opsiwn a ffefrir gennym ond byddwn yn cefnogi beth bynnag fydd y canlyniad ac yn helpu i reoli'r newid yn effeithiol ar gyfer yr holl bartïon dan sylw.

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica – Pwyllgor Cyllid, Safle ac Iechyd  
a Diogelwch y Corff Llywodraethu

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Ydw***

Rwy'n ysgrifennu fel cadeirydd Pwyllgor Cyllid, Safle ac Iechyd a Diogelwch Corff  
Llywodraethu Ysgol Santes Monica.

Fel pwyllgor, rydym yn credu bod opsiwn 1 er budd gorau ein hysgol a'r ysgolion  
eraill dan sylw. Credwn y byddai adleoli Santes Monica i safle presennol Ysgol  
Mynydd Bychan o fudd i ni am sawl rheswm:

- Mae gormod o alw am leoedd yn ein hysgol ni ar hyn o bryd, mae gennym  
restrau aros ar gyfer pob grŵp blwyddyn (ac eithrio'r dosbarth derbyn). Nid yw  
ein safle presennol yn addas at y diben ar gyfer cynyddu'r galw am leoedd  
mewn ysgol eglwysig. Byddai symud safle yn ein galluogi i ymgorffori  
dosbarth meithrin. Gobeithiwn y bydd lle i ni gynyddu i ysgol mynediad 0.9  
dosbarth mynediad. Byddai hyn yn gwneud ein hysgol yn fwy hyfyw yn  
ariannol.
- Byddai symud safle yn gosod Santes Monica yn ardal Gweinidogaeth Plwyf  
newydd. Caniatáu plant yn nalgylch yr ardal honno am y tro cyntaf - ehangu'r  
dewis ar gyfer ysgolion eglwysig.
- Mae ein hadeilad presennol wedi'i restru ac mae wedi cael gwaith atgyweirio  
sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Her ariannol oherwydd ein bod  
yn ysgol eglwysig ac yn dibynnu ar gyllid CRAMP (Rhaglen Cyfalaf Cynnal a  
Chadw ac Atgyweirio).
- Er mwyn cael adeilad mwy modern ac economaidd, gallem ddefnyddio cyllid  
CRAMP yn well er mwyn gwella'r ysgol. Lleddfu pwysau ariannol.
- Ar gyfer pob ysgol dan sylw, teimlwn mai hwn fyddai'r defnydd gorau o arian  
trethdalwyr a'r dosbarthiad cyllid mwyaf effeithlon i reoli ysgolion.

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica – Pwyllgor Safonau y Corff Llywodraethu

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Ydw***

Ymateb ar ran Corff Llywodraethu Santes Monica: Pwyllgor Safonau: Mae'r pwyllgor yn credu y byddai darpariaeth feithrin Santes Monica yn cefnogi'r pontio o'r dosbarth meithrin i'r dosbarth derbyn (er y byddai'n rhaid i rieni wneud cais am leoedd yn y dosbarth Derbyn) gan fod y cyfnod pontio yn gallu bod yn anodd yn enwedig os oes Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'u nodi ar gyfer plant unigol. Felly, pe bai gennym ein dosbarth meithrin ein hunain, byddem eisoes yn adnabod y plant yn dda a byddai pontio'n haws.

Y manteision i safonau yw bod gan holl ystafelloedd dosbarth y cyfnod sylfaen fynediad uniongyrchol i ardaloedd awyr agored a fyddai'n gwella'r cwricwlwm yr oeddem yn gallu ei ddarparu. Mae'r adeilad hefyd mewn cyflwr gwell, felly byddai mwy o arian ar gael ar gyfer adnoddau. Hefyd, byddai cael mwy o staff yn caniatáu rhannu cyfrifoldebau, a thrwy hynny yn lleihau'r llwyth gwaith ar gyfer yr UDA a'r Pennaeth a'u galluogi i ganolbwyntio ar wella addysgu ar draws yr ysgol.

Os penderfynir ar opsiwn 3, bydd 3 ysgol fach iawn o hyd a llai o arian yn y system i gefnogi dysgu ac addysgu. Ar hyn o bryd mae 4 ysgol fach. Mae Opsiwn 1 yn golygu mai dim ond un ysgol fach fydd yna - Santes Monica. Byddai'r model ariannu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer lleoedd Meithrin yn golygu y byddai Santes Monica yn fwy sefydlog yn ariannol, gan ganiatáu i ganran uwch o'r gyllideb gael ei gwario ar ddysgu ac addysgu - gan godi safonau ymhellach.

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydw***

Mae'r opsiwn hwn i bob pwrpas yr un fath ag Opsiwn 1 ar gyfer Santes Monica, fodd bynnag, byddai llai o arian yn y system pe bai 3 ysgol fach yn ardal Cathays/Y Mynydd Bychan o hyd.

### ***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Nac ydw***

Mae Ysgol Gynradd Santes Monica yn ysgol gynradd gyda gormod o alw am leoedd, sydd yn anhyfyw yn ariannol. Yr unig opsiwn ar gyfer cynaliadwyedd yw caniatáu i'r ysgol dyfu - ac mae ganddi'r gallu i wneud hyn gan fod rhestrau aros ym mhob grŵp blwyddyn bron.



## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica – Pwyllgor Gweledigaeth a Gwerthoedd y Corff Llywodraethu

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Ydw**

Mae ein hymateb yn seiliedig ar ein barn fel Is-bwyllgor Corff Llywodraethu llawn Santes Monica - Gweledigaeth a Gwerthoedd - sy'n gofalu am weledigaeth a gwerthoedd yr ysgol, er mwyn sicrhau ei bod yn cynnal ei hunaniaeth Gristnogol ac yn cydymffurfio â'r Weithred Ymddiriedolaeth a ddefnyddiwyd i ffurfio'r ysgol gyntaf.

Byddem yn argymhell Opsiwn 1. O ystyried yr effaith y byddai Opsiwn 2 yn ei chael ar gymunedau'r ysgolion dan sylw, o'n profiad ni, rydym yn gwybod bod rhannu safle yn cyflwyno llawer o heriau.

Ar ben hynny, byddai Opsiwn 1 yn galluogi unrhyw blant yn y dyfodol sy'n mynychu Santes Monica i fwynhau cyfleuster dosbarth meithrin sydd ynghlwm wrth yr ysgol ar safle Mynydd Bychan, fel eu bod yn gallu bod gydag unrhyw frodyr a chwiorydd hŷn ac elwa ar brofiad meithrin ffydd (Anglicanaidd) nad yw ar gael ar hyn o bryd yn yr ardal hon.

Byddai'r gallu i symud safle hefyd yn cynyddu'r dalgylch i'r ysgol gynnwys Plwyf Sant Marc yn Gabalfa. Nid oes gan Sant Marc ysgol gynradd eglwysig ynghlwm wrthi, a byddai'r newid hwn yn cynyddu mynediad rhieni i addysg seiliedig ar ffydd ymhellach - sef eu hawl nhw. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â gweledigaeth yr Esgobaeth i 'dyfu Teyrnas Dduw'.

Byddai'r cyfle i gael adeilad mwy yn ein galluogi i ddatblygu arlwy ein cwricwlwm ymhellach, gan gynnwys mannau tawelach ar gyfer gweddïo a myfyrio. Byddai angen ystyried sut y gallai Santes Monica sicrhau bod yr amgylchedd dysgu cyfan yn addas ar gyfer addysg ffydd - mae hyn yn cynnwys meysydd ar gyfer gweddi/addoli a myfyrio y tu mewn a'r tu allan i safle Mynydd Bychan.

Rydym yn gymuned ysgol ffyniannus, gyda gormod o alw am leoedd, ac yn gorfod troi llawer o blant i ffwrdd ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu nad yw llawer o deuluoedd yn gallu arfer eu hawl i ddewis addysg sy'n seiliedig ar ffydd ac mae llawer yn dod i'n hysgol sydd eisoes wedi wynebu trawsnewid, newidiadau a heriau sylweddol mewn bywyd cyn iddynt gyrraedd Caerdydd. Mae troi teuluoedd i ffwrdd o'n cymuned yn anghyfforddus iawn i ni fel Corff Llywodraethu.

Mae agosrwydd y safle newydd arfaethedig yn golygu y gall ein cysylltiadau presennol ag Eglwys Sant Mihangel a The Table barhau. Dim ond ychydig bach y byddai hyn yn effeithio ar amser teithio i deuluoedd. Byddai rheoli traffig ar safle Mynydd Bychan yn haws gan mai dim ond cymuned un ysgol fydd yn cyrraedd ac yn gadael ar unrhyw un adeg.

Am yr holl resymau a amlinellir uchod, teimlwn y byddai'r symud posibl yn cyd-fynd â'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ethos Cristnogol yr ydym wedi gweithio mor galed i'w datblygu a'u cynnal yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydw***

Gweler sylwadau ar gyfer Opsiwn 1.

***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Nac ydw***

Gweler sylwadau ar gyfer Opsiwn 1.

Y Parchedig Caroline Downs

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica - Pennaeth

### **Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 1? Ydw**

Rwy'n ymateb fel Pennaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica. Rwy'n cefnogi Opsiwn 1 gan fy mod yn ymwybodol o'r anawsterau enfawr sydd gan bob ysgol yng Nghaerdydd ar hyn o bryd wrth geisio mantoli cyllidebau. Rwy'n eistedd ar y Fforwm Cyllideb Ysgolion ac yn cynrychioli ysgolion bach ac ysgolion ffydd. Mae fformiwla y gyllideb yn cael effaith negyddol anghymesur ar ysgolion bach gan eu bod yn llai economaidd i'w rhedeg. Dim ond Opsiwn 1 sy'n lleihau nifer yr ysgolion bach yn sylweddol. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod mwy o arian ar gael yn y system ar gyfer addysg pob plentyn yn y ddinas. Yna mae'r arian hwn ar gael i'w wario ar ddysgu ac addysgu, yn hytrach na chynnal a chadw nifer o adeiladau gan ysgolion bach unigol, defnyddir gofod/lleoedd ysgol yn fwy effeithlon hefyd fel bod gwresogi ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n well.

Mae tri adeilad ysgol wedi'u rhestru, o dan Opsiwn 1 byddai Santes Monica yn symud i adeilad heb ei restru, gan alluogi defnydd gwell o gronfa CRAMP (cronfa Rhaglen Cyfalaf Atgyweirio a Chynnal a Chadw gan Lywodraeth Cymru i gynnal a chadw ysgolion ffydd) felly dylai'r ysgol allu atgyweirio a chynnal a chadw'r adeilad yn well. Mae dyluniad adeilad Mynydd Bychan hefyd yn cyfateb yn well i ddiwallu anghenion disgyblion o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Mae gan bob ystafell ddosbarth i lawr y grisiau fynediad uniongyrchol i'r awyr agored, fyddai'n hwyluso dysgu yn yr awyr agored, goruchwyllo ac arddulliau dysgu amgen - gan ddiwallu anghenion dysgwyr Santes Monica yn well.

Byddai symud safle ysgol hefyd yn golygu na fyddai angen i ni rannu safle gydag ysgol arall. Ni fyddai'r sŵn (sy'n ddealladwy) o ysgol arall yn tarfu ar yr amser a dreuliwn yn gwneud gweithgareddau addoli, byddai gofod chwarae yn llawer gwell na'r ardal yr ydym yn gallu ei defnyddio ar hyn o bryd a byddai rheoli traffig yn haws gan na fyddai angen i ni amrywio amseroedd dechrau a gorffen i gyd-fynd ag ysgol arall.

Byddai'n haws pontio o'r Meithrin i'r Derbyn gan y byddai plant (unwaith y byddant wedi gwneud cais am le yn y dosbarth Derbyn) yn hysbys i ni, byddai unrhyw brosesau ADY eisoes wedi'u dechrau ac yna'n parhau yn yr un lleoliad ac ni fyddai angen ystyried unrhyw gyfnodau setlo i mewn cyn i ni ofyn am gymorth ychwanegol gan y byddai hynny eisoes wedi digwydd yn y dosbarth Meithrin.

Byddai angen cyflogi athro ychwanegol a fyddai'n lleihau'r baich ar bob athro yn yr ysgol ymhellach gan fod nifer o rolau gan athrawon sydd yn cael eu rhannu ymhlith llawer mewn ysgolion mwy.

Byddai'r newid yn yr Ardal Weinidogaeth yn golygu bod y Corff Llywodraethu yn debygol o ymgynghori i ehangu'r dalgyloch a nodir ar hyn o bryd yn ein polisi derbyn i gynnwys Plwyf Sant Marc, Gabalfa. Nid oes unrhyw ysgol gynradd yr Eglwys yng

Nghymru ar gyfer yr Ardal Weinidogaeth honno ar hyn o bryd, felly byddai hyn hefyd yn cefnogi cenhadaeth yr Esgobaeth i 'Dyfu Teyrnas Dduw'.

***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 2? Nac ydw***

Mae llai o fudd ariannol neu addysgol i adleoli 3 ysgol yn yr opsiwn hwn.

***Ydych chi'n cefnogi Opsiwn 3? Nac ydw***

Mae Santes Monica yn ysgol gynradd ffyniannus gyda gormod o alw am leoedd. Nid yw Opsiwn 3 yn rhoi lle i dyfu ac nid yw'n galluogi'r ysgol i fod yn hyfyw yn ariannol. Fel ysgolion llai, mae Gladstone ac Allensbank hefyd yn llawer llai tebygol o fod yn hyfyw yn ariannol o dan y model hwn.

## Ysgol Mynydd Bychan – Corff Llywodraethu ac Aelodau Staff

### Yr ymgynghoriad

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi barn ar y cyd Corff Llywodraethu Ysgol Mynydd Bychan ("YMB") ynghylch ymgynghoriad y Cyngor ar ei gynigion i:
  - wneud newidiadau i'r ffordd mae ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn cael eu trefnu,
  - cadw nifer gyfatebol o leoedd neu ostyngiad ymylol mewn lleoedd
  - o'i gymharu â'r trefniadau presennol; ac
  - ehangu darpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Mynydd Bychan
2. Mae'r Cyngor yn cynnig cyflawni'r newidiadau hyn mewn niferoedd drwy nodi tri opsiwn posibl gyda'r nod cyffredinol o:
  - gynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr
  - sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y gymuned leol
  - cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog
  - cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny, cadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr
  - atgyfnerthu lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o leoedd gwag.
  - cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg o un dosbarth mynediad (210 o ddisgyblion oed cynradd)

### Cefndir

3. Mae Cymraeg 2050 yn gosod y cyd-destun cenedlaethol strategol ar gyfer y cynigion hyn. Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o bob oed yn sylweddol, gyda tharged penodol o 40% o'r holl blant sy'n derbyn addysg Gymraeg erbyn 2050.
4. Yn lleol, targed deng mlynedd Caerdydd, fel y nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2030, yw cynyddu canran plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd 9%. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal ei ymrwymadau i gadw capasiti ledled y ddinas yn y sector cyfrwng Cymraeg ar 10% dros y nifer a ragamcener.
5. Rydym yn gwbl gefnogol o'r nodau cenedlaethol a lleol hyn ac yn barod i chwarae ein rhan, ochr yn ochr â'r Cyngor a Llywodraeth Cymru.
6. O ystyried y gordanysgrifio cyson o ran lleoedd yn YMB dros sawl blwyddyn, a'r realiti bod ein dalgylch yn un o sawl ardal yn ninas Caerdydd lle mae lle i gynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rydym yn falch bod y

Cyngor wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio, a llwyddo i gael cyllid grant i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn YMB.

7. Er ein bod yn cydnabod y rhagwelir y bydd y nifer sy'n manteisio ar y lleoedd yn sefydlogi dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, oherwydd gostyngiad yng nghyfraddau genedigaethau, rydym yn ymwybodol bod cynnydd yn cael ei ragweld tua diwedd y degawd hwn a dechrau'r nesaf, sy'n gofyn i ni feddwl yn greadigol nawr i sicrhau datrysiad cynaliadwy ac i fodloni'r galw a ddisgwyllir gennym yn y blynyddoedd i ddod.

### **Ein barn ni: adeilad a safle ysgol newydd**

8. Rydym yn dal o'r farn mai'r ffordd orau o ehangu YMB yw cael adeilad ysgol newydd a safle sy'n darparu'r adnoddau, y seilwaith a'r amgylchedd sydd eu hangen arnom i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel sydd yn cyfoethogi ein disgyblion, gan ystyried y Cwricwlwm i Gymru a Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif.
9. Er ein bod yn cydnabod ein bod mewn ardal drefol ddwys, rydym yn parhau i gredu y byddai archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio safle presennol Ysgol Uwchradd Cathays, pe bai adleoli Ysgol Uwchradd Cathays yn mynd yn ei flaen, neu'r gwagle ar safle Tŷ'r Cwmnïau ymhellach, yn werth chweil.
10. Rydym yn annog y Cyngor i wneud ymdrechion pellach i archwilio'r posibilrwydd o ddarparu safle ysgol newydd yn y naill neu'r llall o'r lleoliadau hyn, neu eraill yn yr ardal, gan gynnwys gwneud ymholiadau gyda Llywodraeth EM mewn perthynas â safle Tŷ'r Cwmnïau.
11. Er ein bod yn gwerthfawrogi goblygiadau ariannol adeilad a safle newydd ar gyfer YMB, a'r angen i ddefnyddio asedau presennol y Cyngor lle bo hynny'n bosibl, rydym yn tybio y byddai'n bosibl cael gwared ar safle ysgol presennol i'w ailddatblygu pe bai'n mynd yn segur.

### **Ein barn ni: defnydd o'r asedau presennol**

12. Rydym o'r farn bod angen ateb parhaol addas er mwyn darparu ar gyfer y galw sydd wedi bodoli ers sawl blwyddyn ac i gyflawni'r nod o ehangu addysg Gymraeg yn yr ardal drwy ddsbarth mynediad ychwanegol. Gallai'r tri opsiwn sy'n destun ymgynghoriad gynnig ateb o'r fath mewn perthynas ag YMB.
13. Rydym hefyd yn parhau i fod o'r farn bod yn rhaid i unrhyw ehangu o ran YMB gael ei ddarparu ar sail ysgol gyfan, yn hytrach nag o un flwyddyn i'r llall neu ar sail cynnydd cam wrth gam. Rydym yn ddiolchgar i'r Cyngor am wrando ar y pryderon a fynegwyd gennym yn yr ymgynghoriad blaenorol yn 2021.

14. Os mai'r ateb a ffefrir gan y Cyngor yw defnyddio ei stoc adeiladau addysgol presennol ar ffurf cyfnewid safle rhwng YMB a safle ysgol arall yn yr ardal leol, yna ein blaenoriaeth fydd bod y buddsoddiad angenrheidiol yn cael ei wneud i gyflawni cynllun gwella sy'n sicrhau bod safle newydd YMB yn cynnig yr un lefel o gyfleusterau â'i safle presennol, os nad gwell.
15. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi YMB i barhau i allu cynnig y lefel bresennol o addysg a chyfleoedd i'w disgyblion, yn ogystal ag ennyn 'ymrwymiad' gan rieni YMB a'r gymuned ehangach, fydd yn ffactor pwysig o ran sicrhau bod ymdeimlad YMB o gymuned yn parhau i ffynnu.
16. Mewn unrhyw achos, bydd YMB yn parhau i geisio a meithrin perthynas gadarnhaol ac ymdeimlad o gymuned gyda'r ysgolion eraill yn ein hardal, gan gynnwys rhyngweithio rheolaidd rhwng disgyblion i nodi, er enghraifft, Diwrnod Ewyllys Da yr Urdd a'r Eisteddfod.
17. Rydym hefyd yn ymwybodol o'n lle yn y gymuned ehangach a byddwn, beth bynnag fo canlyniad yr ymgynghoriad hwn, yn parhau i ymgysylltu â busnesau a grwpiau lleol, gan gynnwys gwneud ein safle yn hygyrch i'r gymuned, yn unol â'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
18. Rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau demograffig sylweddol rhwng YMB a'r ysgolion eraill sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn. Er bod hyn yn adlewyrchu tuedd gyffredinol ar draws Cymru, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Cyngor, Llywodraeth Cymru, ac unrhyw gyrff priodol eraill i gynyddu amrywiaeth ein poblogaeth ysgol. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb ein hunain ac, yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, rydym yn credu'n gryf bod yn rhaid i hyn fod yn ymdrech a rennir.

### **Cwestiynau a phryderon**

19. Rydym yn ymwybodol bod yr holl safleoedd ysgol eraill sydd eisoes yn yr ardal yn Adeiladau Rhestredig ac, o'r herwydd, gallent fod yn anodd eu newid a'u haddasu i fodloni ein gofynion yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif.
20. Mae swyddogion wedi cynghori'r Corff Llywodraethu nad ydynt wedi gallu cyflwyno achos cadarn i CADW mewn perthynas ag unrhyw welliannau arfaethedig i wneuthuriad adeiladau yn unrhyw un o'r safleoedd yn yr ymgynghoriad hwn.
21. Rydym hefyd yn poeni am ofynion cynnal a chadw parhaus safleoedd presennol eraill yr ysgolion yn yr ardal o gofio bod bob un o'r tair ysgol wedi cael eu gorchuddio mewn sgaffaldau am y tair blynedd diwethaf o leiaf, heb lawer o gynnydd yn cael ei wneud ar unrhyw waith adfer. Ni fyddem am weld yr ysgol yn derbyn baich y gwaith cynnal a chadw hirdymor sy'n weddill.

22. Rydym yn hynod bryderus, heb ymchwiliad a gwarant pellach, y gellir adleoli YMB i safle lle gallai fod yn anodd neu'n amhosibl cyflawni cynllun o waith gwella sy'n sicrhau ein bod yn gallu cynnig yr un lefel o gyfleusterau â'n safle presennol, os nad gwell.
23. Yn hyn o beth, gofynnwn i'r Cyngor wneud ymholiadau pellach priodol ynghylch y materion a godwyd uchod, a sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael.
24. Rydym yn poeni am effeithlonrwydd ynni yr adeiladau ysgol sy'n cael eu hystyried. Rydym wedi gofyn am wybodaeth gan y Cyngor ar y mater hwn ond yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd. Dywedwyd wrthym bod y wybodaeth hon ar gael i Swyddogion y Cyngor ond nid ydym wedi derbyn unrhyw beth hyd yma.
26. Rydym hefyd yn bryderus y gallai symud i adeilad ysgol mwy achosi heriau ariannol mawr i'r ysgol os na fydd y Cyngor yn mynd i'r afael â nhw'n briodol. Yn y dyfodol, bydd yr ysgol yn gweithredu mewn adeilad mwy gyda dim ond cynnydd ymylol yn nifer y disgyblion am ychydig flynyddoedd. Mae cyllidebau ysgolion yn mynd yn fwyfwy heriol a bydd pwysau sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Byddem eisiau i'r Cyngor weithio gyda'r Corff Llywodraethu i liniaru goblygiadau cyllidebol ehangu cyflym.

### **Casgliad**

27. O ystyried y byddai'r tri opsiwn yn sicrhau'r un canlyniad i YMB, ac o ystyried y cwestiynau a'r pryderon yr ydym wedi'u hamlinellu uchod, nid ydym yn bwriadu nodi dewis a ffefrir rhwng y tri opsiwn.
28. Fodd bynnag, credwn fod sicrhau ehangu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd Caerdydd, fel yn y ddinas yn fwy cyffredinol, yr ydym yn ei gefnogi'n gryf, yn gofyn am ateb parhaol sy'n galluogi YMB i barhau i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog i'n disgyblion. Gallai bob un o'r tri opsiwn yn yr ymgynghoriad gynnig ateb o'r fath.
29. Rydym yn ddiolchgar i'r Cyngor am wrando ar y pryderon a fynegwyd gennym yn yr ymgynghoriad blaenorol yn 2021.



RhAG – (Rhieni dros Addysg Gymraeg)

1. Dymuna RhAG ddiolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Caerdydd ar y **Cynnig ar gyfer Lleoedd Ysgolion Cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.**

Rhaid i'r system gynllunio addysg Gymraeg drwy Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fod yn rhan greiddiol o gynllunio darpariaeth addysg pob Awdurdod Lleol. Ers mis Medi 2022, mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn gweithredu cynllun newydd y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr allu caffael y Gymraeg er mwyn iddynt allu ei defnyddio'n hawdd yw sail uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr a nodiadau dogfen cynllunio addysg Gymraeg y Llywodraeth ei hun


*"Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd."*

Tudalen3:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>

2. Rydym yn sylweddoli faint o waith sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion yn yr 21ain Ganrif. Mae RhAG wedi cydweithio'n gadarnhaol ers nifer o flynyddoedd gyda swyddogion y sir ac wedi bod yn cyfrannu syniadau a strategaethau i sicrhau tegwch ar gyfer darpariaeth Addysg Gymraeg ac i'r teuluoedd ar draws y sir sy'n parhau i fethu â sylweddoli bod y cynnig ar gael iddyn nhw hefyd. Gyda gweithredu'r cynlluniau 10 mlynedd mae cyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth i hygyrchedd addysg Gymraeg yn Sir Caerdydd.
3. Dim ond edrych ar y ffigur isod sydd angen i ni weld cyn lleied o gyfleoedd sy'n bodoli o hyd yn y sir i ddisgyblion allu dewis addysg Gymraeg yn hawdd ac yn gyfleus gyda dim ond 20 o ysgolion cyfrwng Cymraeg tra bod 96 o ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Chart 1: Number of maintained schools by local authority and medium, 2022 (a)**



Source: Schools Census  
(a) Primary, middle and secondary schools (excluding nursery and special schools)

### Cyfrifiad Ysgolion 2022

- Gwnaed addewid a derbyniwyd arian gan Lywodraeth Cymru i gynyddu capasiti addysg Gymraeg yr ardal hon o'r ddinas ers 2018 gyda phwysau'n cael eu teimlo yn yr ardal hon ers ymhell cyn hynny. Mae RhAG wedi cyfathrebu â'r sir yn gyson ers hynny gan nodi'r heriau sydd wedi codi i rieni o ganlyniad i fethiant i gynyddu'r ddarpariaeth yn yr ardal hon.
- Mae'r diffyg cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg yn yr ardal hon o'r ddinas yn parhau i achosi heriau a sgil-effeithiau negyddol eraill ledled y sir hyd nes y ceir datrysiad. Mae teuluoedd yn yr ardal hon o'r ddinas sydd wedi gorfod derbyn lleoedd mewn ysgolion nad ydynt o fewn eu dalgylch, ac wrth i frodyr a chwiorydd iau wneud cais am leoedd mewn ysgolion lleol, wedi cael eu gorfodi i wneud cais i ysgol nad yw o fewn y dalgylch ac felly wedi gorfod teithio ymhellach na'r arfer, gan newid taith a wnaed ar droed i daith mewn car a chynyddu'r achosion cynyddol o blant o'r un teulu sy'n gorfod mynd i ysgolion gwahanol.
- Rydym yn cytuno wrth gwrs gyda'r egwyddor o gynyddu darpariaeth addysg Gymraeg sy'n rhan allweddol o'r ymgynghoriad hwn, ond mae'n rhaid i'r ddarpariaeth newydd fod yn addas ar gyfer addysg yn yr 21ain Ganrif ac nid

ydym yn gwbl argyhoeddedig y bydd yr adeilad hwn yn diwallu'r angen hwn o'r wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r ymgynghoriad yn nodi fel a ganlyn:

"Mae'r ysgol mewn dau adeilad rhestredig Gradd 2 a gafodd eu hasesu fel Cyflwr categori C+ (Gwael gyda namau mawr) ac Addasrwydd categori B (Boddhaol). Mae adeiladau'r ysgol mewn cyflwr cyffredinol foddhaol ond mae gwaith ar waliau allanol, ffenestri a'r to yn mynd rhagddo drwy raglen Asedau Cyfalaf y Cyngor. Mae rhai ardaloedd mewnol yn dioddef o bydredd sych, a bydd triniaeth yn parhau nes i'r pydredd sych gael ei waredu. Mae angen rhywfaint o adnewyddu ar y ddarpariaeth lanweithiol, ac mae gan y safle rai problemau draenio i'w datrys. Disgwylir i'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn yr ysgol gael ei gwblhau yn nhymor yr Hydref 2023."

Nid yw'n glir o'r ymgynghoriad fanylion ac effaith y gwaith glanweithiol a draenio na phwy fydd yn gyfrifol am ariannu'r agweddau hyn pan fydd yr ad-drefnu yn digwydd ac felly beth fydd cyfrifoldeb cyllidebol Ysgol Mynydd Bychan yn y sefyllfa hon.

7. Bydd cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan i 420 yn golygu newid sylweddol yn yr ardal o ran y cynnig o addysg Gymraeg. Ni welwn unrhyw sôn am y camau hyrwyddo a chyfathrebu cyhoeddus y bydd eu hangen ar gyfer y newid hwn. Wrth gwrs, byddai RhAG yn gallu cynorthwyo gyda'r agwedd hon.
8. Gobeithiwn yn fawr y bydd cyfathrebu pellach a pharhaus yn digwydd gydag Ysgol Mynydd Bychan i ddatblygu'r cynigion hyn ymhellach, er budd cymuned yr ysgol. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddarparu addysg Gymraeg sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif ac sydd o'r diwedd yn cynyddu'r cyfleoedd i deuluoedd yr ardal hon o Gaerdydd gael cyfle go iawn i'w plant gaffael y Gymraeg o oedran cynnar iawn. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda chi i wireddu'r cynlluniau cyffrous hyn.

Yn gywir,

**Elin Maher**  
**Cyfarwyddwr Cenedlaethol**  
**Rhieni Dros Addysg Gymraeg**  
**07970 304219**  
**elin@rhag.cymru**

## Ysgol Gynradd Allensbank – Cyngor Ysgol

Annwyl Cyngor Caerdydd,

Rydym yn ysgrifennu atoch mewn ymateb i'r cyfarfod blaenorol lle'r oeddem wedi trafod y tri opsiwn. Mae'r llythyr hwn yn mynd i gynnwys ein barn ni ar y tri opsiwn a oedd ar gael.

Opsiwn 1:

Mae cwpl ohonom yn hoffi'r opsiwn ac yn credu ei fod yn dda ar gyfer cwrdd â ffrindiau ac athrawon newydd. Ar y llaw arall, nid oedd y rhan fwyaf ohonom yn cytuno mai dyma'r opsiwn gorau a'u tystiolaeth yn ei erbyn yw na fyddai rhai o'r atgofion a wnaed yn yr ysgol hon yn bresennol yn yr adeilad newydd, gan ddileu'r ymdeimlad o hiraeth.

Opsiwn 2:

Mae rhai ohonom yn rhanedig, yn hoffi'r syniad ond ddim yn hoffi'r diffyg lle a cholli'r dosbarth meithrin. Ychydig mwy o dystiolaeth yn erbyn y syniad hwn yw y byddai angen newid mawr i'r llwybr ar gyfer disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ac yn ôl. Yn ogystal â hynny, credwn y byddai colli athrawon meithrin yn cael effaith fawr ar eu bywydau oherwydd mae'r sgiliau y maent wedi eu caffael yn ei wneud yn ofynnol iddynt fod yn athrawon ond os nad yw'r ysgolion yn eu derbyn, byddai eu bywydau'n newid yn sylweddol.

Opsiwn 3:

Mae un ohonom o blaid y syniad hwn oherwydd ni fyddai'r llwybr y byddent yn ei gymryd i'r ysgol yn newid llawer ond nid ydynt chwaith o blaid colli gofod. Fodd bynnag, nid oedd eraill yn hoffi'r syniad hwn oherwydd bydd rhai plant yn colli eu lle oherwydd y 0.9 dosbarth mynediad. Hefyd, nid yw rhai ohonom o blaid y maes chwarae llai. Ar y cyfan, dyma'r opsiwn gwaethaf.

I gloi, mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl ei bod hi'n well os yw Allensbank yn aros yn ei lle ac nid ydym yn deall pam na allwn aros lle'r ydym ond mae gan bob ysgol arall opsiwn lle gallant aros. Nid yw'n teimlo bod gan bob un ohonom gyfle teg ond mae gennym opsiwn arall. Beth am gael Gladstone i ymuno â ni gan fod digon o le ar gyfer ysgol 2 ddosbarth mynediad.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn ystyried ein barn.

Yn gywir,  
Cyngor Ysgol Ysgol Gynradd Allensbank

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica - Cyngor Ysgol

Annwyl Syr neu Fadam,

Ni yw Cyngor Ysgol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac roeddem am anfon e-bost atoch yn rhoi ein hymateb ffurfiol i chi i'r ymgynghoriad.

Ar ôl trafodaeth fel cyngor, credwn mai opsiwn 1 yw'r opsiwn gorau i ni. Y rheswm cyntaf yw y byddwn yn cael dosbarth meithrin yn ein hysgol. Credwn fod hyn yn syniad da oherwydd bydd yn achosi llai o ofid a braw i blant fynd i'r dosbarth derbyn wedyn. Hefyd, mae'n dda i'r plant fod yn yr ysgol o oed ifanc.

Yn ail, mae opsiwn 1 yn rhoi cyfle i ni dyfu fel ysgol. Mae hyn yn wych i ni oherwydd gallwn wneud mwy o ffrindiau! Mae ein rhestr aros yn yr ysgol yn llawn a byddem wrth ein bodd pe bai mwy o bobl yn ymuno.

Yn olaf, mae ein maes chwarae yn Santes Monica yn fach iawn ac mae yna lawer o sgaffaldau i fyny. Mae safle Mynydd Bychan yn llawer mwy, sy'n golygu bod gennym fwy o le i gael mynediad i'n hawl i chwarae. Bydd mwy o gyfleoedd i wneud chwaraeon hwyliog yn ystod amser egwyl, fel pêl-droed a phêl-fasged.

Diolch yn fawr.  
Cyngor Ysgol

## ATODIAD B - Negeseuon E-bost a Dderbyniwyd

## Ebost 1

### Ad-drefnu Ysgolion Caerdydd:

#### Yr anghyfiawnder tawel sy'n digwydd ar garreg ein drws a galwad i ailystyried yr opsiynau ar gyfer dyfodol tecach.

Mae fy mhlant wedi cael y fraint o fynd i ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wych, gynnes, amrywiol, sy'n maethu yn fy nghymuned leol yng Nghaerdydd. Dwi'n dweud Cyfrwng Saesneg, ac mae hyn yn wir, ond yn ystod eu haddysg maen nhw hefyd wedi dod ar draws myrdd o ieithoedd - Cymraeg, Arabeg, Farsi, Sbaeneg, Wcreineg, Wrddw, Twrceg, Hindi, Portiwgaleg... a mwy! Mae hon yn ysgol sy'n adlewyrchu'n wirioneddol ac yn gadarn y gymuned amrywiol y mae wedi ei lleoli ynddi. Mae hon yn ysgol sy'n croesawu pawb, ac yn eu croesawu mewn ffyrdd anghyffredin. Mae hon yn ysgol y mae ei chyfraniad i gymdeithas wedi cael ei gydnabod gyda gwobr ysgol noddfa "am ei harfer da wrth feithrin diwylliant o groeso a chynhwysiant."

(<https://schools.cityofsanctuary.org/become-a-school-of-sanctuary>) Mae hon yn ysgol sydd wir yn gwybod ei stwff ym maes creu cymuned amrywiol a chroesawgar, mewn theori ac ar lawr gwlad, sydd wedi'r cyfan (rwyf wir yn gobeithio) yn nod a rennir gan bawb sy'n ymwneud ag addysg ledled Cymru. Am yr holl resymau hyn a mwy, mae hon yn ysgol y dylai ei harbenigedd gael ei barchu a'i glywed gan y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau am ddyfodol yr ysgolion yn ein hardal. Ac eto, yn anffodus, mae hon yn ysgol sydd, yn ôl pob tebyg, heb lais yn y sgwrs a osodwyd gan Gyngor Caerdydd ynglŷn â beth yw'r ffordd orau ymlaen ar gyfer darpariaeth ysgolion yn ein cymuned; cymuned y mae'r ysgol hon, Ysgol Gynradd Allensbank, wedi cael ei hymgorffori ynddi ers 1905.

Mae'r angen i ehangu'r ysgol gynradd Gymraeg leol (Ysgol Mynydd Bychan), sydd wedi bod â gormod o alw am leoedd ers blynyddoedd lawer, wedi bod yn broblem barhaus y mae Cyngor Caerdydd wedi bod yn ceisio ei datrys. Mae hyn wedi arwain at y sefyllfa yr ydym yn ei chael ein hunain ynddi heddiw. Ar 23 Mawrth 2023, cyhoeddodd yr Awdurdod Lleol eu cynlluniau i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd ar gyfer ein hardal. Gallwch ddarllen am y tri opsiwn gwahanol sy'n cael eu cynnig yma: [Cynigion ysgolion cynradd mewn rhannau o ganol a gogledd Caerdydd \(cardiffnewsroom.co.uk\)](#) ac mae'r dogfennau ymgynghori ffurfiol ar gael i'w darllen yma: [Ysgolion cynradd Cathays a Gabalfa \(caerdydd.gov.uk\)](#)

#### Cydraddoldeb neu Ffafiaeth?

Nod y cyngor yw sicrhau mwy o gydbwysedd rhwng lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn y gymuned, ac yn briodol felly. Rwy'n gwerthfawrogi eu dymuniad i roi cyfle i unrhyw un sydd am gael addysg yn Gymraeg. Ond mae'n anodd credu bod pob ochr yn cael ystyriaeth gyfartal wrth edrych ar y cynigion. Nid oes rhaid i chi ddarllen y cynigion yn ofalus iawn o gwbl i sylwi bod *bob un o'r tri* opsiwn (sy'n addo lefelau amrywiol o darfu ar gyfer pedair ysgol gynradd wahanol yn yr ardal) yn cynnwys Ysgol Allensbank yn symud allan o'u hadeilad, ac Ysgol Mynydd Bychan (YMB) yn symud i mewn iddo.

O'r eiliad y clywais i'r newyddion yma, dwi wedi teimlo bod rhywbeth ddim yn iawn. Mae wedi cymryd peth amser i weithio allan yn union pam, ond nawr fy mod wedi treulio peth

amser yn myfyrio ar y cyfan, dyma fy ymgais orau i grynhoi pam mae'r cynigion hyn nid yn unig yn peri gofid, ond yn hynod annheg:

### **1. Hynt a Helynt y Sgaffaldau!**

Mae adeilad Ysgol Allensbank wedi cael ei garcharu y tu ôl i sgaffaldau ers 2019 ac o'r diwedd roeddem yn gweld golau ar ddiwedd y twnnel gyda rhywfaint o'r sgaffaldau yn dod i lawr...dim ond i gael gwybod bod yr holl darfu hwn y mae disgyblion a staff wedi byw drwyddo ac wedi ei ddioddef er budd ysgol arall mewn gwirionedd. A yw'n gyd-ddigwyddiad bod y tri opsiwn yn arwain at YMB yn symud i mewn i'r adeilad penodol *hwn*, gyda'i waith adnewyddu wedi'i gwblhau erbyn y dyddiad sydd yn cael ei gynnig ar gyfer y symud?

### **2. Y Pedwerydd Opsiwn na Sonnir Amdano**

Rhywbeth sy'n dod yn gwbl amlwg yn ei absenoldeb wrth ddarllen cynigion y cyngor sawl gwaith, yw'r ffaith fod yna safle ysgol arall a fyddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr rhesymegol i'r ysgol Gymraeg symud iddo, ond eto nid yw hyn yn cael ei awgrymu ar gyfer YMB. Yn opsiynau 1 a 2 o gynigion y cyngor, awgrymir bod Ysgol Gladstone yn uno gydag Allensbank i greu ysgol newydd dau ddsbarth mynediad (2DM), ac y byddai'r ysgol hon yn bodoli ar y safle lle mae Gladstone a Santes Monica (dwy ysgol wahanol) yn bodoli ar hyn o bryd.

Wrth gwrs, byddai'n well gen i bethau aros yr un peth am byth, ond rydw i hyd yn oed yn sylweddoli efallai nad dyma'r opsiwn mwyaf cynaliadwy. Mae cydbwysio niferoedd lleoedd Cymraeg a Saesneg drwy ychwanegu dosbarth mynediad ychwanegol yn nod clodwiw, ac mae gallu gwneud hynny gan ddefnyddio adeiladau sydd eisoes yn bodoli yn ddyfeisgar ac yn glyfar. Ond nod y cynigion yw cynyddu nifer y lleoedd yn YMB o 192 i 420. Yn amlwg nid yw cynnydd ar y raddfa hon yn mynd i ddigwydd dros nos! Bydd hyn yn cymryd amser, blynyddoedd yn ôl pob tebyg ac yn y cyfamser mae'r cyngor am eu symud i'r adeilad ysgol mwyaf sy'n cael ei ystyried. Gwrandewch yn ofalus ar hyn - mae'r unig adeilad ysgol sydd eisoes yn ddigon mawr i gynnal ysgol 2DM yn syth (Allensbank) yn cael ei roi i'r ysgol gyda'r ansicrwydd mwyaf ynghylch niferoedd a'r siawns lleiaf o fod yn ysgol 2DM lawn yn syth (YMB)... ym *mhob un o'r tri* opsiwn. Mewn geiriau eraill, nod pennaf yr ad-drefnu ysgolion yw cael y canlyniad gorau i'r ysgol Gymraeg.

### **3. Mwy o Sgaffaldau Eto...**

Felly mae opsiynau 1, 2, a 3 YMB yn cynnwys symud i adeilad ysgol 2DM parod, heb sgaffaldau, er gwaethaf y ffaith ei fod yn eithaf tebygol y bydd ymhell o fod yn ysgol 1.5DM hyd yn oed am sawl blwyddyn. Yn y cyfamser, os bydd Allensbank a Gladstone yn uno, byddant yn ysgol 2DM ar unwaith, ac eto mae'r adeilad ysgol y mae'r cyngor yn awgrymu eu bod yn ei feddiannu yn safle cyfunol y ddwy ysgol ar wahân (Gladstone a Santes Monica). Bydd angen gwaith adeiladu eithaf sylweddol ar ran arall o'r safle hwn i'w wneud yn barod i gartrefu ysgol gyda'r niferoedd yr ydym yn sôn amdanynt yma. Mwy o waith adeiladu, mwy o sgaffaldau ... ar gyfer yr ysgolion sydd eisoes wedi dioddef *blynyddoedd* o waith cynnal a chadw a tharf. Mae'n drasiedi ac yn anghyfiawnder go iawn bod y cyngor yn ystyried rhoi addysg Gymraeg yn gyntaf, pan rydym yn gwybod (ac yn gallu gweld yn glir o'r data yn y



ddogfen ymgynghori) bod rhai o blant mwyaf bregus ein cymuned yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn yr ardal. Mae'r ddogfen ymgynghori yn dweud ar dud.12: "Mae'r Cyngor yn credu mai addysg dda yw'r llwybr mwyaf sicr allan o dlodi". Wel os mai dyma maen nhw'n ei gredu mewn gwirionedd, yna pam rhoi'r holl adnoddau gorau i'r un ysgol yn ein hardal lle mae tlodi yn absennol i raddau helaeth? Beth am roi popeth i mewn i helpu ysgolion fel Allensbank a Gladstone i allu gwneud mwy o'r hyn maen nhw eisoes yn ei wneud mor dda ymhlith y tlawd, yr agored i niwed a'r difreintiedig yn lle hynny? Pam gwobrwyo eu harbenigedd a'u gwaith caled gyda mwy o darfu ac anghyfleustra?

Rwyf wedi cael y ffraind a'r llawenydd o weld Ysgol Allensbank yn agos a thu ôl i'r llenni, fel rhiant-lywodraethwr, ac fel gwirfoddolwr wythnosol yn un o'r dosbarthiadau. Mae'r hyn yr wyf wedi ei weld y tu ôl i'r llenni, a dweud y gwir, yn rhyfeddol. Rwyf wedi gweld athrawon sydd wir yn poeni am y plant yn eu dosbarth ac a fyddai'n gwneud unrhyw beth drostynt, rwyf wedi gweld cynorthwyrwyr addysgu sydd wrth eu bodd yn gweithio ochr yn ochr â'r athrawon hyn ac yn ei gyfrif yn anrhydedd cael bod yn rhan o fywydau'r plant gwerthfawr yn eu gofal. Ac rwyf wedi gweld uwch dîm arwain yn creu'r diwylliant sy'n gwneud hyn i gyd yn bosibl; yn bresennol, yn dosturiol, yn ostyngedig, yn hwyl, yn llawn uniondeb ac yn modelu arweinyddiaeth sy'n gryf ac yn garedig. Mae hyn i gyd yn gwneud Ysgol Allensbank yn fan lle mae staff a disgyblion eisiau dod bob dydd!

Mae Ysgol Allensbank yn berl ddisglair yn y gymuned hon. Ac eto yn lle dathlu hynny, mae'r cyngor eisiau gwobrwyo'r ysgol wych hon gyda mwy o darfu, mwy o ansicrwydd... a, mentraf ei ddweud, mwy o sgaffaldau!

### **Y Cwestiwn Mawr...**

Mae'n debyg mai'r prif gwestiwn sy'n dod i'r meddwl, wrth ystyried holl bosibiliadau safleoedd ar gyfer yr ysgolion sydd wedi'u had-drefnu, yn seiliedig ar faint yr ysgolion yn unig, yw *pam* oedd yr opsiwn o roi'r Ysgol Gymraeg 2DM (tebycach i 1.5DM?) newydd ei ehangu ar safle Gladstone/Santes Monica heb ei gynnwys yng nghynlluniau'r cyngor? Wel, byddwch yn barod am fwy o annhegwch, oherwydd rheswm y cyngor dros ddiystyru'r pedwerydd opsiwn hwn, a ddyfynnir o dudalen 76 o'r ddogfen ymgynghori, yw bod "y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar ran ogleddol ei thalgylch, yn agos at safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a safle Allensbank." - Hynny yw, mae Allensbank yn lleoliad gwell oherwydd ei fod yn agosach at ble mae'r teuluoedd presennol sy'n mynychu YMB yn byw.

Allan o ddiddordeb, fe wnes i gerdded rhwng y tair ysgol dan sylw fy hun yr wythnos hon a'u hamseru. Roedd YMB i Gladstone yn 6 min 32 eiliad, roedd Gladstone i Allensbank yn 7 min 39 eiliad ac roedd Allensbank i YMB yn 3 munud. Rhaid cyfaddef fy mod i'n cerdded yn gyflymach na phlentyn 4 oed, ac mae'n amlwg bod YMB i Gladstone yn daith ychydig yn hwy nag YMB i Allensbank. Ond rydyn ni'n sôn am *funudau* yma; pellterau byr iawn sydd yn y fantol.

Ac i fod wedi diystyru'r pedwerydd opsiwn hwn o Allensbank fel safle'r ysgol Saesneg newydd ar y sail bod Gladstone yn rhy bell i deuluoedd YMB gerdded (dim ond y rhai yn rhan *Ogleddol* y dalgylch cofiwch) yn gwbl hurt!!

Ond er mor hurt yw hyn, hyd yn oed pe byddai'n wir ei fod yn rhy bell i ffwrdd i'r teuluoedd presennol, doeddwn i ddim yn meddwl bod hyn yn ymwneud â'r rhai sydd wedi cofrestru yn YMB *ar hyn o bryd* beth bynnag? Ro'n i'n meddwl mai'r holl syniad oedd cynyddu'r niferoedd oedd yn cael eu derbyn i'r ysgol Gymraeg? Felly beth am ddechrau drwy ei gwneud hi'n haws i ddarparu ddisgyblion sy'n byw yn rhan *Ddeheuol* y dalgylch i gyrraedd yno? Os edrychwch chi ar fap o'r dalgylch ar dudalen 16 y ddogfen ymgynghori, mae hefyd yn amlwg bod safle Gladstone mewn gwirionedd yn fwy canolog o fewn dalgylch YMB. Felly nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i'r opsiwn hwn fod wedi cael ei ddiystyru cyn iddo hyd yn oed gyrraedd cam yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae diystyru'r opsiwn hwn ar sail daearyddiaeth yn amlwg yn wirion, ond dyma'r unig reswm a roddir yn y ddogfen ymgynghori. A dyma sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn i'r rhai sydd â rhan yn ysgolion Lloegr gredu nad oes ffafriaeth i addysg Gymraeg yn digwydd yma. Mae cael *bob un* o'r tri opsiwn yn gorffen yr un ffordd i'r ysgol Gymraeg wedi cyfleu rhagfarn y cyngor yn glir. Mae'r sinig ynof yn dweud, os yw hyn yn ymwneud ag ideoleg mwy ar lefel Llywodraeth Cymru, yna nid oes unrhyw bwynt ei ymladd, ni fydd unrhyw beth a wnawn yn gwneud gwahaniaeth. Ond dydw i ddim eisiau credu hynny. Mae amser o hyd i godi llais a dal i obeithio y bydd ysgolion fel Allensbank, sy'n ymddangos fel petai heb unrhyw lais, yn cael gwrandawriad.

Roedd methu â chynnwys yr opsiwn o symud YMB i Gladstone yn gamgymeriad ar ran y cyngor ac mae wedi cyfleu anghydraddoldeb a rhagfarn. Ond y drasiedi fwyaf yw bod ysgolion fel Allensbank wedi cael eu rhoi yn y sefyllfa hon gan flynyddoedd o danariannu cronig a diffyg cefnogaeth; rhywbeth sydd wedi arwain at yr angen i uno ag ysgol arall yn y lle cyntaf. Er hynny, gan wasgu llais bach yn sinig mewnol ynof, fy ngobaith yw bod yr holl beth yn amryfusedd gwirioneddol ar ran Cyngor Caerdydd a'u bod yn wir yn poeni am yr holl ysgolion, fel Allensbank, sydd wedi bod yn fannau diogel, croesawgar i'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymuned. Ysgolion sydd wedi llwyddo i wneud hyn er bod popeth yn eu herbyn.

Mae Cyngor Caerdydd yn dweud bod ein barn yn bwysig iddyn nhw. Peidiwch ag anghofio dweud eich dweud cyn 30 Mehefin 2023  
<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswyllydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Y-newyddion-diweddaraf-a-sut-i-gysylltu-a-ni/Cyhoeddiadau/ysgolion-gynradd-cathays-gabalfa/Pages/default.aspx> A phwy a wŷr, efallai y byddan nhw'n mynd yn ôl ac ailystyried yr opsiynau? Er lles amrywiaeth, cydraddoldeb, a'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, rwy'n gobeithio'n fawr y byddant yn gwneud hynny.

## Ebost 2

### **Dolen i Erthygl Wales Online** Parents vow to fight plans which would see Cardiff school shut - Wales Online

Rhieni yn addo ymladd cynlluniau fyddai'n arwain at gau ysgol yng Nghaerdydd

Maen nhw'n honni bod yr ysgol Saesneg yn cael ei haberthu o blaid ysgol Gymraeg i lawr y ffordd

Mae rhieni wedi addo ymladd cynlluniau fyddai'n arwain at gau **ysgol** Saesneg eu plant a symud yr ysgol Gymraeg leol i mewn. Byddai ad-drefnu arfaethedig sy'n effeithio ar bedair ysgol yn golygu y byddai disgyblion Ysgol Gynradd Allensbank yn symud allan o'u hadeilad ac Ysgol Mynydd Bychan yn symud i mewn.

Mae **Cyngor Caerdydd** yn **edrych ar dri opsiwn** y mae'n dweud sydd â'r nod o gael cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg i allu ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol yn Cathays, yn ogystal â rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd. Ond mae rhieni blin Allensbank yn honni bod y cynigion yn rhagfarnllyd o blaid addysg cyfrwng Cymraeg ac yn nodi'r holl ffyrdd y mae Allensbank yn gwasanaethu ei chymuned.

Mae un rhiant wedi postio blog ac wedi annog pobl i ymateb i ymgynghoriad **Cyngor Caerdydd** ar y cynigion drwy eu gwrthwynebu. Y pedair ysgol fyddai'n cael eu heffeitho gan y newidiadau posibl yw Ysgol Gynradd Allensbank yn Y Mynydd Bychan, Ysgol Mynydd Bychan yn Gabalfa ac Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn Cathays

### **Darllen mwy: Dim digon o athrawon Cymraeg eu hiaith, rhybudd gan Aelodau'r Senedd**

O dan y cynigion gallai rhai ysgolion weld lleoedd yn cael eu torri tra bod eraill yn fwy na dyblu o ran maint. Os cânt eu cytuno, bydd y newidiadau arfaethedig ar gyfer bob un o'r tri opsiwn yn dod i rym o fis Medi 2025.

Dywed rhieni blin bod yr holl opsiynau'n cynnwys cau Allensbank, felly mae'n edrych fel bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud. Ysgrifennodd un: "Mae'n anodd credu bod pob ochr yn cael ystyriaeth gyfartal wrth edrych ar y cynigion. Nid oes rhaid i chi ddarllen y cynigion yn ofalus iawn o gwbl i sylwi bod bob un o'r tri opsiwn (sy'n addo lefelau amrywiol o darfu ar gyfer pedair ysgol gynradd wahanol yn yr ardal) yn cynnwys Ysgol Allensbank yn symud allan o'u hadeilad, ac Ysgol Mynydd Bychan yn symud i mewn iddo."

Nid oedd y rhieni sy'n ymladd y cynlluniau am gael eu henwi, rhag ofn dial, ond dywedasant mewn datganiad ar y cyd: "Mae Allensbank yn ysgol aml-ddiwylliannol wych sy'n cynnig cymaint i blant yr ardal. Mae'r pennaeth a'r staff wedi gweithio'n eithriadol o galed i wneud yr ysgol hon yr hyn ydyw heddiw. Mae posibilrwydd y bydd hyn yn tarfu ar flynyddoedd

cynradd gorau ein plant a'r cyfan am nad oedd lle i ddau ddisgybl yn unig yn Ysgol Mynydd Bychan eleni. Mae'n anghyfiawn.

"Rydym eisiau diogelu a brwydro dros ein hysgol. Rydym eisiau cadw ein hysgol ar gyfer plant y dyfodol. Dylid dosbarthu'r cyllid ar gyfer pob plentyn yn deg doed a ddelo. Mae hyn i gyd yn ymwneud â chael llwyfan addysg gyfartal i'n holl blant. Helpwch ni i achub Ysgol Gynradd Allensbank."

Amlinellodd blog anhysbys gan riant, o'r enw Save Allensbank, resymau dros wrthwynebu'r cynlluniau ar gyfer Allensbank. Dywedodd yr awdur eu bod yn credu bod Allensbank a'i disgyblion a'i staff yn cael eu haberthu o blaid ysgol Gymraeg Mynydd Bychan gan ychwanegu ei bod hi'n "anodd iawn i'r rhai sydd â rhan yn ysgolion Lloegr gredu nad oes ffafriaeth dros addysg Gymraeg ar waith yma"...

"...Mae cael bob un o'r tri opsiwn yn gorffen yr un ffordd i'r ysgol Gymraeg wedi cyfleu rhagfarn y cyngor yn glir. Mae'r sinig ynof yn dweud, os yw hyn yn ymwneud ag ideoleg ar lefel **Llywodraeth Cymru**, yna nid oes unrhyw bwynt ei ymladd, ni fydd unrhyw beth a wnawn yn gwneud gwahaniaeth. Ond dydw i ddim eisiau credu hynny. Mae amser o hyd i godi llais a dal i obeithio y bydd ysgolion fel Allensbank, sy'n ymddangos fel petai heb unrhyw lais, yn cael gwrandawriad."

Mae'r blog yn parhau: "Mae fy mhiant wedi cael y fraint o fynd i ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wych, gynnes, amrywiol, sy'n maethu yn fy nghymuned leol yng Nghaerdydd. Dwi'n dweud Cyfrwng Saesneg, ac mae hyn yn wir, ond yn ystod eu haddysg maen nhw hefyd wedi dod ar draws myrdd o ieithoedd - Cymraeg, Arabeg, Farsi, Sbaeneg, Wcreineg, Wrddw, Twrceg, Hindi, Portiwgaleg... a mwy.

"Mae hon yn ysgol sy'n adlewyrchu'n wirioneddol ac yn gadarn y gymuned amrywiol y mae wedi ei lleoli ynddi. Mae hon yn ysgol sy'n croesawu pawb, ac yn eu croesawu mewn ffyrdd anghyffredin. Mae hon yn ysgol y mae ei chyfraniad i gymdeithas wedi cael ei gydnabod gyda gwobr ysgol noddfa "am ei harfer da wrth feithrin diwylliant o groeso a chynhwysiant."

Mae'r rhieni hefyd yn flin bod Allensbank wedi cael ei gorchuddio â sgaffaldau am gyfnodau hir tra bod gwelliannau'n cael eu gwneud, ond os bydd y newidiadau'n mynd yn eu blaenau ni fyddai unrhyw un yn yr ysgol yn elwa o'r anghyfleustra.

### **Dyma'r tri opsiwn sy'n cael eu hystyried:**

#### **Opsiwn Un**

- Uno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (dau ddsbarth mynediad) gyda dosbarth meithrin ar y safle a rennir presennol yn Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
- Byddai Santes Monica yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan ac yn sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.
- Byddai Ysgol Mynydd Bychan yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank ac yn cynyddu o 192 o leoedd i 420 o leoedd, gyda nifer y lleoedd meithrin yn cynyddu o 64 i 96.

### **Opsiwn Dau**

- Byddai Ysgol Gynradd Allensbank yn trosglwyddo i safle a rennir presennol Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd Santes Monica, a byddai'r ysgol yn lleihau ei chapasiti o 315 o leoedd i 210 o leoedd, gyda'r ystod oedran yn lleihau o 3-11 i 4-11 trwy derfynu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.
- Byddai nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone yn cynyddu o 64 i 96.
- Byddai Ysgol Gynradd Santes Monica yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan ac yn sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol.
- Byddai Ysgol Mynydd Bychan yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank ac yn cynyddu o 192 o leoedd i 420 o leoedd, gyda nifer y lleoedd meithrin yn cynyddu o 64 i 96.

### **Opsiwn Tri**

- Byddai Ysgol Gynradd Allensbank yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan ac yn lleihau ei chapasiti o 315 i 192 o leoedd.
- Byddai Ysgol Mynydd Bychan yn trosglwyddo i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank ac yn cynyddu o 192 o leoedd i 420 o leoedd, gyda nifer y lleoedd meithrin yn cynyddu o 64 i 96.

### **Cyngor Caerdydd yn esbonio ei gynigion**

Wrth gyhoeddi'r cynigion yn gynharach y mis hwn dywedodd Cyngor Caerdydd y byddan nhw'n destun ymgynghoriad gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a phlant. Dywedodd y cyngor fod y cynigion yn cefnogi ei ymrwymiad i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dwedodd y Cynghorydd Huw Thomas: "Ar ddechrau 2021, ymgynghorwyd ar gynnig dros dro ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank ac ar ôl gwrandao ar yr adborth, cytunwyd bod angen cynllun hirdymor i fynd i'r afael â lleoedd ysgol yn yr ardal. Gall aelodau'r cyhoedd bellach roi eu barn ar y set newydd o opsiynau, y mae pob un wedi'i ddyfeisio'n ofalus i sicrhau bod y nifer iawn o leoedd cyfrwng Saesneg yn parhau i gael eu cynnig mewn cyfleusterau gwell yn wardiau Cathays a Gabalfa, a bod y rhain yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n cefnogi'r ysgolion i ddod yn fwy cynaliadwy wrth roi sylw i'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg.

"Pe bai'r cynigion yn symud ymlaen, byddai'r cynigion yn helpu i ail-gydbwyso nifer y lleoedd mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg sy'n golygu y bydd nifer fwy o blant yn cael mynediad i'w hysgol leol. Yn ogystal, drwy aildefnyddio asedau presennol yn fwy effeithlon a thrwy weithio ar y cyd, byddai'r ysgolion dan sylw yn mwynhau nifer o fanteision gan gynnwys adnoddau a chyfleoedd dysgu gwell ar gyfer disgyblion a staff.

"Mae'r cynigion yn cadw'r holl adeiladau presennol fel y gall cymuned yr ysgol fod â sicrwydd y bydd digon o lefydd i ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol."

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 30 Mehefin 2023. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus wyneb yn wyneb ac ar-lein a sesiynau galw heibio trwy gydol y cyfnod ymgynghori, meddai'r cyngor.

### Ebost 3

Rwy'n ysgrifennu fel rhiant yn Ysgol Allensbank ac yn breswlydd sydd wedi cyrraedd Caerdydd yn ddiweddar. Rwyf wedi darllen y ddogfen gynnig ac yn deall yr angen i ad-drefnu adnoddau a chyfluoedd presennol er mwyn cefnogi pob plentyn yng Nghaerdydd ac hefyd ystyried anghenion y ddinas yn y dyfodol.

Roeddwn am dynnu eich sylw at y ffaith fod pob un o'r tri opsiwn yn cynnwys plant Ysgol Allensbank yn colli safle eu hysgol, a bod dau o'r opsiynau arfaethedig yn cynnwys yr un plant yn colli eu cymuned ysgol fel y mae ar hyn o bryd, felly mae pryder ymhlith y gymuned a'r corff o rieni bod plant Ysgol Mynydd Bychan yn cael blaenoriaeth drostynt. Mae'r ffaith fod plant Ysgol Mynydd Bychan wedi cofrestru mewn addysg cyfrwng Cymraeg a bod llawer llai o amrywiaeth nag yn Allensbank wedi gadael teimlad bod y plant o gefndiroedd lleiafrifol hiliol i raddau helaeth yn dioddef gwahaniaethu.

Fel rhiant i blentyn gwyn yn Allensbank, rwyf wedi bod wrth fy modd gyda chyflwyniad aml-ddiwylliannol yr ysgol, mewn gwirionedd roedd yr awydd i sicrhau bod fy mhlant yn cael eu magu mewn cymuned amrywiol a goddefgar yn un o'r prif resymau y gwnaethom symud i Gaerdydd o Wiltshire. Fel preswylwyr newydd yng Nghymru, rydym wedi bod yn dysgu Cymraeg fel teulu, gan barchu treftadaeth a diwylliant ieithyddol ein cartref newydd, ond rwyf wedi sylwi ers cyhoeddi'r cynnig hwn fod rhaniad wedi dechrau datblygu o fewn y gymuned o ran darpariaeth addysgol Gymraeg a Saesneg.

Rwy'n ymwybodol bod gan Lywodraeth Cymru darged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050, 2017) ac rwy'n cydnabod bod hyn wedi effeithio ar y newidiadau addysgol arfaethedig o ran cynyddu darpariaeth addysgol Gymraeg ond fel newydd-ddyfodiad a dysgwr Cymraeg, mae'n teimlo bod gwahaniaethu yn erbyn rhai o blant y ddinas, yn yr achos hwn, plant sy'n aelodau o'r Mwyafrif Byd-eang yn bennaf, y mae llawer ohonynt yn siarad Saesneg fel ail iaith yn barod.

Roeddwn eisiau ysgrifennu atoch, er mwyn amddiffyn y staff addysgu anhygoel a'r ddarpariaeth yn Allensbank, ond hefyd i ofyn a ydych wedi ystyried dull mwy cydweithredol o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn hytrach na'r un gynhennus hon? Y teimlad llethol ymysg corff rhieni Allensbank yw bod anghenion y plant sydd wedi cofrestru mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn mynd i gael eu blaenoriaethu dros ein plant ni a bydd y teimlad hwn o raniadau a drwgdeimlad yn arwain at lai o ddi-ddordeb gan rieni mewn dysgu Cymraeg eu hunain neu ei hyrwyddo o fewn eu teuluoedd a'u plant.

Onid oes ffordd i bob plentyn gael yr un cyfleoedd, ac yn hytrach na bod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu blaenoriaethu a'u cadw ar wahân o fewn y gymuned, bod ysgolion yn cael eu partneru gyda'i gilydd, efallai i fwynhau digwyddiadau gyda'i gilydd yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei rhannu a'i dysgu gan y gymuned gyfan a bod y plant mewn ysgolion Gwyn Cymraeg yn bennaf yn elwa ar yr amrywiaeth y mae ysgolion fel Allensbank yn ei fwynhau.

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

Mae Caerdydd yn ddinas amrywiol ac aml-ddiwylliannol ac yn sicr bydd mwy o integreiddio pob diwylliant, gan gynnwys y Gymraeg, os byddwn yn gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth yn hytrach na darparu addysg mewn seilos a pharhau rhaniadau rhwng addysg Gymraeg a Saesneg a'r cymunedau lle'r ydym yn byw.

Derbyniwch yr e-bost hwn yn yr ysbryd y'i bwriedir, rydym wedi caru ein blwyddyn gyntaf yng Nghaerdydd ac yn teimlo mai symud oedd y penderfyniad perffaith i'n teulu, roeddwn i eisiau i chi fod yn ymwybodol bod y cynnig hwn yn achosi rhaniad yn hytrach nag undod, sydd, yn yr amser byr rydw i wedi byw yma, yn ymddangos fel y gwrthwyneb i ddiwylliant cyffredinol ein dinas.



## Ebost 4

Hoffwn roi fy adborth ar yr ymgynghoriad sy'n effeithio ar yr ysgolion cynradd yn ardal Cathays/Y Mynydd Bychan/Gabalfa.

I roi rhywfaint o gyd-destun, fel teulu gwyddom yn rhy dda rhwystredigaeth dalgylch mawr Ysgol Mynydd Bychan. Nid oedd ein plentyn hynaf yn gallu cael lle yma, sef Ysgol Gymraeg ein dalgylch ym mis Medi 2020, oherwydd y nifer uchel o geisiadau y flwyddyn honno. Cynigiwyd lle iddi felly ym Melin Gruffydd. Yn anffodus, eleni ni lwyddom i sicrhau lle i'n hail blentyn ym Melin Gruffydd oherwydd y nifer uchel o ymgeiswyr yno (Medi 2022) ac er bod gennym frawd neu chwaer yn yr ysgol, am ein bod allan o'r dalgylch, ni chynigiwyd lle i ni. Yn anffodus roedd ein hapêl yn aflwyddiannus ac felly mae gennym yr anhawster a'r rhwystredigaeth ddyddiol o jyglo dwy ysgol wahanol. Rwy'n siŵr y gallwch werthfawrogi pa mor heriol yw hyn a pha effaith mae'n ei chael ar y plant a ninnau fel teulu bob dydd.

Er y byddai'r cynnig hwn i gynyddu maint Mynydd Bychan o bosibl yn lleihau'r risg y byddai teuluoedd eraill yn cael eu rhoi yn y sefyllfa ofnadwy hon, nid wyf yn argyhoeddedig mai dyma'r penderfyniad cywir ac rwy'n teimlo bod angen i'r cyngor edrych ar dalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol. Gyda'r niferoedd eleni yn is i Fynydd Bychan (dwi'n deall ei fod yn 26) ac am y 2 flynedd diwethaf mae llawer gormod o alw am leoedd wedi bod ym Melin Gruffydd. Mae'r niferoedd ar gyfer Glan Cabul wedi bod yn gyson isel tan eleni. Hoffwn wybod a yw'r Cyngor wedi edrych ar y dalgylchoedd yn fanylach ac a fyddai aiddosbarthu'r dalgylchoedd hyn yn caniatáu proses ymgeisio fwy effeithlon a theg neu a ddylid mewn gwirionedd ystyried ysgol Gymraeg ychwanegol er mwyn lleihau'r dalgylchoedd mawr ar gyfer Addysg Gymraeg.

Rwy'n ofni hefyd y byddai'r cynnydd ym Mynydd Bychan yn arwain at newid dalgylch ysgol uwchradd Glantaf er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y disgyblion. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar lawer o deuluoedd.

Mae fy merch sydd yn y Dosbarth Derbyn ym Mynydd Bychan ar hyn o bryd yn caru'r ysgol yn fawr iawn. Mae hi'n hyderus iawn ac wrth ei bodd yn adnabod a chwarae gyda phlant o bob grŵp blwyddyn. Mae hyn ond yn bosibl oherwydd ei bod yn ysgol fach. Rwy'n amau y byddai'r gymuned ysgol glos hon yn debygol o gael ei cholli pe bai'r ysgol yn cynyddu i 2 ddsbarth mynediad, fyddai'n drueni mawr. I blant iau, mae chwarae gyda phlant hŷn a gweld yr hyn y maent yn ei wneud yn eu hysbrydoli. I'r plant hŷn, maent yn edrych allan am y plant iau ac mae hyn yn eu cynorthwyo i ddysgu sgiliau gofalu ac empathi hanfodol. Pan ofynnais i fy merch am symud safle a'r ysgol yn mynd yn fwy, dywedodd yn glir iawn nad oedd hi'n credu bod hyn yn syniad da a'i bod yn hoffi ei hysgol fel yr oedd.

Os tybir mai'r cynnydd ym maint Mynydd Bychan yw'r opsiwn gorau, yna mae gen i bryderon am ei symud i safle Allensbank. Rwy'n deall bod y safle yn adeilad rhestredig ac

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

felly mae'n debygol y byddai Mynydd Bychan yn colli ei gallu presennol i gael ardaloedd chwarae tu allan yn syth o'r dosbarth am y byddai strwythur yr adeilad yn debygol o beidio gallu cael ei newid oherwydd ei statws rhestredig. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar agwedd allweddol addysg y cyfnod sylfaen ac mae'r ysgol a'r disgyblion yn colli rhywbeth sy'n hynod bwysig i addysg plant iau.

Pryder arall wrth symud i Allensbank yw'r lleoliad a chynnydd mewn traffig / anhawster parcio yn ystod gollwng a chasglu o'r ysgol. Mae cyfran fawr o'r plant sy'n mynd i Allensbank yn debygol o gerdded i'r ysgol gan eu bod yn byw o fewn pellter cerdded. Fodd bynnag, mae dalgylch Mynydd Bychan yn llawer mwy, fyddai'n arwain at fwy o rieni yn gyrru eu plant i'r ysgol a gyda lleoliad Allensbank o fewn ardal breswyl fwy cul o lawer, mae'n debygol o gynyddu traffig a pharcio anniogel, fyddai'n beryglus i'r plant sy'n mynychu'r ysgol ac yn rhwystredig i'r preswylwyr sy'n byw gerllaw'r ysgol.

Felly, os mai ehangu Mynydd Bychan yw'r unig opsiwn wrth symud ymlaen, yna rwy'n teimlo'n gryf bod adeilad newydd ar safle mwy hygrych yn well o bell ffordd i addysg y plant a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Diolch yn fawr.

## Ebost 5

I'r sawl y mae'n berthnasol iddynt,

Fel rhiant i blentyn sy'n mynychu Ysgol Gynradd Allensbank, rwy'n eich annog i ailystyried yr opsiynau a gyflwynir ac ystyried cadw Allensbank a rhannu'r safle gyda Gladstone.

Mae fy mab yn bryderus ac yn ddryslyd wrth glywed y gallai ei ysgol gau ac rwy'n drist braidd ac wedi fy synnu hefyd.

Mae gen i dri o blant, ac mae un ohonynt eisoes wedi cwblhau ei addysg yno ac mae'n ysgol wirioneddol eithriadol. Mae gan yr hynaf ADY a gwnaeth y staff profiadol, medrus a gofalgar yn siŵr ei fod yn gadael ym mlwyddyn chwech wedi cael addysg gynradd hapus, wedi rhagori ar y cynnydd disgwylidig a hefyd, sydd ddim yn llai pwysig, gyda chred wirioneddol ynddo'i hun ei fod yn deilwng ac y gallai lwyddo yn yr un modd ag unrhyw un arall.

Roedd ei ffrindiau'n blant oedd yn dod o wahanol rannau o'r wlad a'r byd a byddwn yn aml yn rhyfeddu at y ffordd y gallai'r ysgol nid yn unig ddarparu ar gyfer disgyblion ADY ond hefyd ceiswyr lloches a phlant heb ddim neu ychydig iawn o Saesneg. Mae'r athrawon yn cymryd y cyfan fel mae'n dod. Ni allaf amgyffred bod athrawon mor brofiadol, ymroddedig a gwybodus yn wynebu colli eu swyddi. Mae'n drychinebus. Mae'r ffordd y maen nhw'n cynnal eu proffesiynoldeb a'u positifrwydd yng nghanol cymaint o ansicrwydd a straen yn dyst iddyn nhw fel pobl.

Rwyf hefyd wedi bod yn rhyfeddu at y ffordd y maen nhw wedi ymdopi o dan amgylchiadau addysgu mor anodd. Ffoniais yr ysgol yr wythnos diwethaf i adrodd am absenoldeb fy mab a gallech glywed y drilio dros y ffôn. Roedd yn ddi-baid. Roedd ganddynt yr hynaf ag ADY ac anawsterau rheoliadol ac yn gorfod delio â'r sŵn a'r tarfu a'r newidiadau i ystafelloedd dosbarth, mae'n anodd dychmygu. Rwy'n ddiolchgar nad oedd yn digwydd pan oedd ef yno. Nid yw fy mab sydd yno bellach wedi ei hoffi ond mae wedi ymdopi (diolch i raddau helaeth i'w athro gwych sydd wedi bod yn ddigyffro ac yn llawn positifrwydd... pan maen nhw mwy na thebyg wedi bod eisiau sgrechian ar y gweithwyr i fod yn dawel!!)

Pam na all fy mab a'i gyfoedion fwynhau a gwneud defnydd o'r adeilad? Mae'n fy niflasu bod hyn i gyd er budd ysgol arall.

Sut gyflwr fydd ar yr adeilad y bydd yn symud iddo? Rwy'n gwybod fy mod i ac eraill yn poeni na fydd yr adeilad yn addas at y diben ac efallai y bydd yn rhaid iddynt ddiodeff mwy o waith adeiladu. Maent nid yn unig wedi gorfod diodeff safle adeiladu ac yna newid ysgol ond o bosibl wedyn mwy o waith adeiladu??

Pe bai fy mab yn symud i ysgol newydd o'r radd flaenaf yna efallai y byddai modd ymdopi - ond yn anffodus ni roddir arian nac ystyriaeth o'r fath i hynny ac i ni bobl Saesneg ein hiaith. Rhifau ydym ni. Byddwn yn dod i ben. Byddwn yn dod o hyd i ffordd i addasu ac ymdopi a dod i ben. Mae'n rhaid bod hyn yn anfoesol? Pam mae fy mab yn diodeff ac yn mynd trwy

Darparu Lleoedd Ysgol Gynradd i Wasanaethu  
Cathays A Rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf A Phlasnewydd

hyn i gyd yn yr ysgol gynradd? Sut mae hyn yn iawn neu'n deg? Dychmygwch mai hwn oedd eich plentyn chi.

Ystyriwch hyn o safbwynt ac ongl wahanol. Rhowch agenda a bil y Gymraeg i un ochr a chofiwch am y plant, yr oedolion, y gymuned ysgol ehangach. Lles cymaint o bobl, y posibilrwydd o golli swyddi athrawon rhagorol (mae'n rhaid mai gwahaniaethu yw hyn? Dydyn nhw ddim yn gallu siarad Cymraeg felly dydyn nhw ddim yn cael eu ffafrio. Maen nhw o dan anfantais sy'n hynod annheg ac yn anfoesol. Siawns y gellid mynd â hyn i'r Uchel Lys?) Cofiwch y plant a'r teuluoedd sy'n agored i niwed. Meddyliwch am blant fel fy mab hynaf. Mae pobl go iawn yn rhan o hyn i gyd. Mae gen i fab pryderus a dryslyd. Meddyliwch am hynny am eiliad. Dychmygwch mai hwn oedd eich plentyn chi.

# Asesiad Effaith Sengl

Cyngor Caerdydd



## 1. Manylion y Cynnig

Beth yw'r cynnig?

Teitl: **CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: LLEOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD I WASANAETHU CATHAYS A RHANNAU O GABALFA, Y MYNYDD BYCHAN, YSTUM TAF A PHLASNEWYDD**

Ai cynnig newydd yw hwn neu a ydych chi'n diwygio polisi, strategaeth, prosiect, gweithdrefn neu wasanaeth sy'n bod eisoes?

Newydd

Cyfredol

Cyfarwyddiaeth / Gwasanaeth:

Addysg

Pwy sy'n datblygu'r cynnig?

Enw: Richard Portas

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr y Rhaglen - CTY

Swyddog Arweiniol Cyfrifol (Cyfarwyddwr neu Gyfarwyddwr Cynorthwyol):

Melanie Godfrey  
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

Portffolio'r Cabinet:

Addysg (Y Cynghorydd Sarah Merry)

Gellir cryfhau'r Asesiad Effaith Sengl (AES) wrth i amser fynd yn ei flaen, gan helpu i lunio'r cynnig. Bydd rheoli fersiwn yn cynnig llwybr archwilio defnyddiol o sut mae'r AES wedi datblygu. Dylid cadw fersiynau drafft o'r asesiad ar gyfer cyflawnrwydd, ond dim ond y fersiwn derfynol fydd ar gael i'r cyhoedd. Gellir darparu fersiynau drafft i reoleiddwyr os yw'n briodol.

Fersiwn	Awdur	Teitl y Swydd	Dyddiad
1	Rosalie Phillips	Uwch Swyddog Prosiect - Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion	14/09/2023

## 2. Trosolwg o'r Cynnig

### Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu hystyried a pham?

*Rhowch amlinelliad o'r cynnig.*

Mae'r adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad ar gynigion ynghylch darpariaeth lleoedd ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2023, cytunodd Cabinet y Cyngor ar argymhelliad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau i ehangu darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfuno darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fel a ganlyn:

#### Opsiwn 1

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96
- Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone:
  - Cau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol
  - Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol
  - Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
- Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol

#### Opsiwn 2

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96
- Cydleoli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir:
  - Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
  - Lleihau capasiti Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd (1.5DM) i 210 o leoedd (1DM)
  - Lleihau ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol
  - Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol

### Opsiwn 3

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM)
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan
- Lleihau capasiti Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd (1.5DM) i 192 o leoedd (0.9DM)

### **Byddai'r cynnig yn cael ei weithredu'n llawn o fis Medi 2025.**

Dan opsiwn 1 ac opsiwn 2, ystyrid sefydlu'r dosbarth Lleferydd ac Iaith ar draws y ddinas o fewn yr ysgol newydd neu ei gadw yn lleoliad newydd Ysgol Gynradd Allensbank.

Ystyrid adleoli'r dosbarth Lleferydd ac Iaith ledled y ddinas a gynhelir gan Ysgol Gynradd Allensbank pe bai Opsiwn 3 yn cael ei ddatblygu.

Byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i hyn mewn ymgynghoriad â chorff llywodraethu'r ysgol berthnasol/ cyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol, gan ystyried dyheadau pob ysgol.

Byddai Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 yn gyfle i Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl yn yr ysgolion naill ai drwy gydweithredu neu ffederasiwn.

Pe bai'r ysgolion yn ystyried cyflwyno cydweithrediad neu ffederasiwn ffurfiol, byddai hyn yn cael ei arwain gan y Cyrff Llywodraethu ac yn cael ei gefnogi gan y Cyngor. Byddai unrhyw gynnig i ffederaleiddio yn destun ymgynghoriad ar wahân.

Cafodd y newidiadau hyn eu cynnig i:

- gynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr
- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y gymuned leol
- cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog
- cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr
- cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gan un Dosbarth Mynediad (210 disgybl oedran cynradd)
- cadarnhau lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o leoedd gwag.

Yr opsiwn a argymhellir ar ôl ystyried yr holl safbwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yw Opsiwn 1.

#### **Beth yw'r costau a/neu arbedion?**

*Beth fydd cost y cynnig a sut fydd yn cael ei ariannu?*

*Sut gellid lleihau costau drwy gyfranogi a chydweithio, ar draws Cyngor Caerdydd a/neu gyda rhanddeiliaid allanol?*

*Oes arbedion a sut bydd y rhain yn cael eu gwireddu?*

Mae manylion y goblygiadau ariannol sy'n berthnasol i'r newidiadau arfaethedig fel y nodir yn yr adroddiad

### **3. Asesiadau o Effaith**

**Pa asesiadau o effaith y mae angen i chi eu cwblhau i gefnogi eich cynnig?**

Mae'r [Offeryn Sgrinio Asesu Effaith](#) yn rhoi cyngor sydd wedi'i deilwra i'ch polisi, strategaeth neu brosiect arfaethedig ynghylch pa asesiadau effaith y gallai fod eu hangen a phwy i gysylltu â nhw i ddysgu mwy.

Mae'r offeryn sgrinio yn ffurflen ar-lein gyda chwestiynau amlddewis yn bennaf a dylai gymryd llai na 10 munud i'w gwblhau.

Ar ôl cyflwyno'r atebion, bydd e-bost awtomataidd yn cael ei anfon atoch gyda'r camau nesaf a argymhellir a manylion ynghylch â phwy i gysylltu am gyngor arbenigol.

**Rhowch Oes neu Nac oes** wrth ymyl pob un o'r asesiadau o effaith a restrir isod i ddangos pa rai sy'n cael eu cyflawni.

<b>Asesiad o Effaith</b>	<b>Tudalen</b>	<b>I'w gwblhau: v / X</b>
A. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	6	v



B. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant	26	√
C. Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg	32	√
D. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	36	X
E. Asesiad Amgylcheddol Strategol	37	X
F. Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data	38	X
G. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	39	X

Am ragor o wybodaeth am yr holl asesiadau effaith uchod gan gynnwys â phwy i gysylltu am gyngor, ewch i'r [Porth Polisi](#).

## A: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gellir cael canllawiau ar gwblhau'r asesiad hwn [yma](#). Cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb am unrhyw gymorth pellach o ran cwblhau'r asesiad hwn - [TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk](mailto:TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk)

### Effaith ar y Nodweddion Gwarchoddedig

#### Oedran

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol]** ar bobl ifanc/pobl hŷn?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Hyd at 18 oed	x		
18 - 65 oed	x		
Dros 65 oed	x		

#### Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Mae darpariaeth lleoedd ysgol yn cael ei phennu yn ôl ystod oedran. O ganlyniad, bydd unrhyw gynnig trefniadaeth ysgolion yn cael effaith wahaniaethol ar ddysgwyr yn yr ysgolion sy'n ddarostyngedig i'r cynigion a'r gymuned ehangach.

Nod y cynigion yw gwella'r gyfatebiaeth rhwng y cyflenwad lleoedd – a'r galw amdanynt – mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Mae digon o gapasiti yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Byddai ad-drefnu darpariaeth yn ffordd briodol o gydbwysu'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal, a byddai'n ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau. Byddai hyn hefyd yn cadw hyblygrwydd yn yr ystâd ysgolion er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol sy'n effeithio ar yr ardal.

Byddai sefydlu ysgol gynradd Saesneg â dau ddsbarth mynediad, ac ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddsbarth mynediad, yn ategu dysgu ac addysgu drwy alluogi:

- i'r ardal gynnwys mwy o ysgolion dau ddsbarth mynediad. O'i chymharu ag ysgolion llai, mae maint ysgol gynradd â dau ddsbarth mynediad yn cynnig mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion oherwydd canolfan adnoddau wedi'i hehangu a gwell â mwy o sicrwydd ariannol

- gall ysgol â dau ddsbarth mynediad roi mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth, gan gynnwys cynnal nifer llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol.
- byddai'r gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a chymorth yn galluogi'r ysgolion â dau ddsbarth mynediad i gynnig ystod ehangach o arbenigedd cwricwlaidd
- mwy o athrawon i rannu llwyth gwaith ac arbenigedd.
- mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. athrawon newydd gymhwyso all arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog
- cyfleoedd i staff addysgu i'w cryfderau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiad addysg gorau posib
- mwy o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a Chymhwysedd Digidol
- creu mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol
- mwy o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig

Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica yn:

- sicrhau parhad darpariaeth sy'n adlewyrchu ethos a diwylliant yr ysgol
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol rhieni â'r ysgol o'r cyfle cyntaf posibl
- hwyluso'r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (lle mae'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus)
- galluogi adnabod grwpiau sy'n agored i niwed yn gynnar. Byddai hyn yn golygu y gellir nodi anghenion plant mor gynnar â phosibl
- rhoi cyfle i blant fynd i'r ysgol feithrin ar yr un safle â'u brodyr a'u chwiorydd hŷn. Dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau ymarferol posibl wrth chwilio am ddarpariaeth gofal plant arall
- sicrhau parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol.

Ar hyn o bryd mae lefel uchel o symudedd ymhlith y disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal gyda throsiant bach iawn o ddisgyblion yn Ysgol Mynydd Bychan:

Ysgol	% disgyblion ddim yn symud i'r grŵp blwyddyn nesaf yn yr ysgol (cyfartaledd, tair blynedd diwethaf)
Ysgol Gynradd Albany	14.5%
Ysgol Gynradd Allensbank	15.2%
Ysgol Gynradd Gladstone	21.9%
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	21.1%
Ysgol Mynydd Bychan	1.3%

Byddai cynnydd yn nifer y lleoedd cynradd sydd ar gael i wasanaethu'r ardal yn gyffredinol. Ni fyddai gostyngiad yn nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg dan Opsiwn 1.

Yn gyffredinol, byddai lle i ddarparu mwy o leoedd meithrin cyfrwng Saesneg a Chymraeg yn cael ei gadw, a byddai nifer y lleoedd sy'n cael eu hariannu yn adlewyrchu'r galw am leoedd yn yr ardal leol.

Byddai mân newid ym mhatrwm dosbarthu lleoedd, fodd bynnag o ystyried agosrwydd safleoedd yr ysgol ni fyddai hyn yn cael fawr o effaith neu ddim effaith.

Y pellter mwyaf rhwng y safleoedd ysgol uchod yw tua 0.5 milltir. Felly, pe bai unrhyw un o'r ysgolion yn cael eu hadleoli ar safle arall, y cynnydd mwyaf yn y pellter teithio rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion presennol fyddai 0.5 milltir.

Byddai sefydlu ysgol gynradd Saesneg â dau ddsbarth mynediad newydd yn Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica yn arwain at gynyddu'r pellter teithio i'r disgyblion presennol. Yr effaith ar y disgyblion hyn fyddai cynnydd o 0.08 milltir yn y pellter teithio cyfartalog.

Byddai trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle Ysgol Mynydd Bychan yn arwain at gynyddu'r pellter teithio cyfartalog gan 0.2 filltir.

Byddai trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle Ysgol Gynradd Allensbank yn arwain at gynydd o 0.04 milltir yn y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion presennol Ysgol Mynydd Bychan.

Mae'r ddarpariaeth hon yn ddibynnol ar oedran ac felly nid yw ar gael i ddisgyblion y tu allan i'r ystod oedran hon, nac i oedolion, naill ai'n lleol neu yn y gymuned ehangach.

Ystyriwyd darpariaeth ar gyfer grwpiau oedran nad ydynt yn rhan o'r cynnig hwn y tu allan i'r cynnig hwn.

Byddai'r cynigion yn gofyn am newidiadau yn strwythurau staffio'r ysgolion yn amodol ar y newidiadau arfaethedig.

Mae'r bwriad i gyfuno Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone a sefydlu ysgol gynradd 2DM newydd (Opsiw 1) yn gosod staff mewn perygl posibl o ddiswyddo.

Byddai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer ehangu.

Byddai unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud o ran staffio yn fater i'r Corff Llywodraethu perthnasol.

Byddai'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion sy'n deillio o gyflwyno darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd St Monica (Opsiw 1) yn gofyn am staff ychwanegol.

Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu'r dosbarth Lleferydd ac laith dinas gyfan yn yr ysgol newydd (Opsiw 1).

Gall Opsiw 1 gael mwy o effaith wahaniaethol ar blant 3-11 oed na'r trefniadau presennol.

Gall Opsiw 1 gael mwy o effaith wahaniaethol ar staff ysgol 18 oed a hŷn na'r trefniadau presennol.

#### **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu lleoedd disgyblion i fodloni anghenion pob disgybl yng Nghaerdydd. Fel rhan o'r dull strategol hwn, rhagwelir y galw ar sail:

- Lefel y boblogaeth y gwyddys sy'n byw ym mhob ardal yn ddiweddar ac yn hanesyddol, gan ddefnyddio data'r GIG;
- Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ysgolion Caerdydd yn ddiweddar ac yn hanesyddol ar sail data a wiriwyd o CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion).
- Canrannau diweddar a hanesyddol y plant sy'n mynychu lleoedd ysgol mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion ffydd Cymraeg a Saesneg.

Mae'r galw am leoedd yn cael ei adolygu'n barhaus a chyflwynir newidiadau arfaethedig yn ôl yr angen.

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Mae'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol a sefydlu ysgol dau ddosbarth mynediad newydd yn rhoi staff mewn perygl o ddiswyddiadau a byddai angen rheoli hyn yn unol â'r Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion.

Byddai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai'r Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer unrhyw staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Un o ddyheadau allweddol y Cyngor yw lleihau nifer y staff drwy adleoli cynifer ag y bo modd yn hytrach nag ymddiswyddo gwirfoddol neu orfodol. Felly, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosib i staff ysgolion i sicrhau cyflogaeth mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd trwy adleoli i swyddi gwag mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.

Byddai'r trefniadau adleoli hefyd yn cael eu hystyried pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i adleoli'r dosbarth Lleferydd ac Iaith o Ysgol Gynradd Allensbank i gylch gwaith Corff Llywodraethu ysgol arall.

#### Anabledd

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol/]** ar bobl anabl?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Nam ar y Clyw		X	
Nam Corfforol		X	
Nam ar y Golwg		X	
Anabledd Dysgu		X	
Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor		X	
Iechyd Meddwl		X	
Camddefnyddio Sylweddau		X	
Arall		X	

#### Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai mân newid ym mhatrwm dosbarthu lleoedd, fodd bynnag o ystyried agosrwydd safleoedd yr ysgol ni fyddai hyn yn cael fawr o effaith neu ddim effaith.

Byddai angen i unrhyw newidiadau i lety ystyried ystod fanwl o wybodaeth e.e., dyluniad/hygyrchedd unrhyw adeiladau/llety ysgol a chamau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau gwahaniaethol.

Mae yna ddsbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac iaith sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r Cyngor yn derbyn hyd at 8 plentyn Cyfnod Sylfaen i'r ddarpariaeth dinas gyfan hon nad oeddent yn gwneud cynnydd digonol, ond sydd â digon o botensial i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd leol.

Mae'r lleoliadau yn para rhwng 1-3 blynedd, gan ddibynnu ar eu cynnydd. Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn cael cefnogaeth i ddychwelyd ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf un diwrnod yr wythnos, er mwyn cadw cyswllt â ffrindiau lleol a pharatoi at ddychwelyd yno'n llawn amser.

Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu'r dosbarth lleferydd ac iaith dinas gyfan yn yr ysgol gynradd dau ddsbarth mynediad cyfrwng Saesneg newydd arfaethedig mewn ymgynghoriad â'r corff llywodraethu perthnasol.

Er y byddai Opsiwn 1 yn effeithio ar blant a fyddai'n elwa o'r dosbarth iaith a lleferydd o 2025/2026, nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu y byddai effaith wahaniaethol ar y plant hyn o gymharu â'r trefniadau presennol.

Byddai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddsbarth mynediad, a throsglwyddo i safle Ysgol Gynradd Allensbank yn cadw digon o hyblygrwydd yn yr adeiladau er mwyn caniatáu sefydlu canolfan adnoddau arbenigol. Byddai cynigion ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer y ddarpariaeth hon.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Mae'n ofynnol bod gan ysgolion Gynllun Cydraddoldeb Strategol a byddent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon.

Byddai effaith bosibl unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth Lleferydd ac iaith bresennol ar ddysgwyr y dyfodol yn parhau i gael ei hasesu a bydd camau yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau gwahaniaethol y gellir eu nodi yn ddiweddarach.

**Ailbennu Rhywedd**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol/]** ar bobl trawsryweddol?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Pobl Drawswyeddol (Mae pobl drawswyeddol yn bobl y mae ei hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw adeg eu geni. )		x	

**Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol/]** ar briodas a phartneriaeth sifil?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Priodas		x	
Partneriaeth Sifil		x	

**Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**



### Beichiogrwydd a Mamolaeth

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol/]** ar feichiogrwydd a mamolaeth?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Beichiogrwydd		x	
Mamolaeth		x	

#### Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

#### Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

--

### Hil

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol/]** ar y grwpiau canlynol?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Gwyn		x	
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig	x		
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	x		
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	x		
Grwpiau Ethnig Eraill	x		

#### Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Mae cyfansoddiad ethnig poblogaeth yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion yn amrywio.

Mae data ethnigrwydd Ysgolion Caerdydd o 2022 yn dangos y dadansoddiad canlynol o ganrannau o ddisgyblion Gwyn Prydeinig a Phrydeinig nad ydynt yn Wyn yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal:

<b>Tabl 2: Data demograffig - Ethnigrwydd disgyblion ysgol Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6</b>				
Ffynhonnell: CYBLD 2022				
Ysgol	Nifer y disgyblion ar y gofrestr	Gwyn Prydeinig	Nid Gwyn Prydeinig	Nifer y cefndiroedd ethnig
Ysgol Gynradd Albany	378	17.2%	82.8%	53
Ysgol Gynradd Allensbank	193	21.2%	78.8%	45
Ysgol Gynradd Gladstone	173	20.8%	79.2%	37
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica	138	18.8%	81.2%	28
Ysgol Mynydd Bychan	203	91.1%	8.9%	11

Byddai'r cynigion yn cael mwy o effaith ar y boblogaeth sy'n agosach at yr ysgol nag ar y ddinas yn ei chyfanrwydd.

Os yw'r boblogaeth leol hon yn amrywiol o ran ethnigrwydd, sy'n anghymesur â'r hyn a welir fel arfer ar draws y ddinas, yna gallai'r cynnig gael effaith wahaniaethol.

Mae cyfeiriadau cartref disgyblion sydd wedi cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan wedi'u clystyru o amgylch safleoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank. Mae 11% o ddisgyblion Ysgol Mynydd Bychan o gefndir nad yw'n Wyn-Prydeinig.

Er bod mwyafrif disgyblion Ysgol Gynradd Allensbank yn byw yn yr un ardal, gyda chyfeiriadau cartref hefyd wedi'u clystyru o amgylch safleoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank, mae data demograffeg y disgyblion hynny ac ar gyfer yr ysgol yn gyffredinol yn wahanol iawn i demograffeg Ysgol Mynydd Bychan. O'r disgyblion hynny sy'n byw o fewn dalgylch Allensbank ac sydd wedi cofrestru yn yr ysgol, mae 78% o gefndir nad yw'n Wyn-Prydeinig.

Mae data symudedd disgyblion Ysgol Mynydd Bychan yn isel iawn (1.3% y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y tair blynedd diwethaf), sydd yn rhannol yn adlewyrchu gordanysgrifiad yr ysgol o ran mynediad i'r dosbarth Derbyn. Mae pob un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn gweld symudedd disgyblion o 10% neu fwy bob blwyddyn ac adroddodd Ysgol Gynradd Allensbank "Lefelau symudedd disgyblion o hyd at 40% ar draws un flwyddyn academaidd" yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol ar y cynigion.

Ar hyn o bryd, nid yw teuluoedd sy'n symud i'r ardal wedi'r dyddiad cau ar gyfer mynediad i'r dosbarth Derbyn fel arfer yn gallu cael mynediad i Ysgol Mynydd Bychan a gallai ysgol cyfrwng Cymraeg amgen fod cryn bellter o gyfeiriad cartref y teuluoedd hynny. Rhaid i gynigion ystyried gwahaniaeth mewn data demograffig ond rhaid iddynt hefyd ystyried gallu'r ymgeiswyr hynny sy'n symud i'r ardal i allu cyrchu lleoedd ysgol yn gydradd yn y naill gyfrwng iaith.

Mynegwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad y gallai'r newidiadau arfaethedig gael effaith ar deuluoedd sy'n agored i niwed a theuluoedd sy'n siarad Saesneg fel ail iaith.

Ni ddisgwylir y byddai unrhyw effaith negyddol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.

Cyflwynwyd y cynigion er mwyn darparu cydbwysedd mwy priodol o leoedd ac i sicrhau bod modd buddsoddi lefel uwch o gyllid mewn addysgu a dysgu. Mae safon yr addysg ym mhob ysgol sy'n destun y newidiadau arfaethedig yn dda. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, disgyblion sy'n derbyn cymorth oherwydd bod ganddynt Saesneg fel iaith ychwanegol, disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol na disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae manteision clir yn gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig a fyddai'n gwella cyfleoedd dysgu i bob dysgwr.

Byddai cynnydd yn nifer y lleoedd cynradd sydd ar gael yn gyffredinol i wasanaethu'r ardal. Ni fyddai gostyngiad yn nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg dan Opsiwn 1. Byddai cynnydd mewn lleoedd cyfrwng Cymraeg.

Nid yw amrywiaeth ethnig Ysgol Mynydd Bychan yn adlewyrchu ei chymuned leol ac nid yw'r ysgol i raddau helaeth yn gallu darparu ar gyfer plant sy'n symud i'r ardal ar ôl y dyddiad cau ar gyfer mynediad i'r dosbarth Derbyn.

Mae data CYBLD yn dangos bod cyfran uwch o blant sy'n trosglwyddo o fewn y cyfnod oedran addysg gynradd yn yr ardal yn dod o ethnigrwydd nad yw'n Wyn-Prydeinig.

Ar hyn o bryd mae'r plant hyn yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg lleol ond yn llai abl i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Disgwylir i'r newidiadau arfaethedig gael effaith wahaniaethol gadarnhaol ar bob ethnigrwydd, o gymharu â'r trefniadau presennol.

Byddai mân newid ym mhatrwm dosbarthu lleoedd, fodd bynnag o ystyried agosrwydd safleoedd yr ysgol ni fyddai hyn yn cael fawr o effaith neu ddim effaith.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Mae ysgolion yn gwasanaethu ystod amrywiol o gymunedau ac yn adlewyrchu eu poblogaeth leol i raddau helaeth; fodd bynnag, cydnabyddir bod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn llai amrywiol nag ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu. Rhaid i'r Cyngor felly sicrhau, wrth gyflwyno cynigion ac ar ôl gweithredu cynigion, bod pob un o'r ysgolion yn cael cefnogaeth i ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt a bod pob un yn gallu datblygu cyfle cyfartal i holl deuluoedd yr ardal.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd, a fabwysiadwyd ym mis Medi 2022, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd y gellir ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant o bob cefndir sy'n mynychu.

Mae'r cynllun yn gosod targedau penodol ac yn nodi lloedd gwaith blaenoriaethol i'r Cyngor a phartneriaid fel ysgolion, gan gynnwys menter beilot ymchwil gyda Caerdydd Ddwylieithog, arolygon rhieni a grwpiau ffocws, er mwyn deall yn well y rhesymau dros ymgymeriad isel lleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn grwpiau a chymunedau penodol a dangynrychiolir (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ochr yn ochr â hyrwyddiadau pwrpasol. Mae'r gwaith yma ar y gweill.

Dylai unrhyw newidiadau arfaethedig geisio darparu cydbwysedd priodol lle mae pob math ysgol ar gael i bob grŵp a chefnogir pob ysgol i fod yn hygyrch, ac i gael eu gweld yn hygyrch, i bob grŵp. Bydd y gwaith sydd ar y gweill i ddeall dewisiadau rhieni a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd ym mhob cymuned yn well, ochr yn ochr â gwella gwelededd cyfrwng iaith a chyfleoedd trochi sydd ar gael, yn targedu'n uniongyrchol yr ymgais i leihau'r anghyfartaledd rhwng data demograffig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. Byddai'r ddarpariaeth a gynigir yn hygyrch i bob grŵp ethnig a byddai angen sicrhau cydymffurfiaeth â pholisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

### **Crefydd, Credoau, neu Ddiffyg Cred**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol/]** ar bobl sydd â chrefyddau, credoau a diffyg cred wahanol?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Bwdhydd		x	
Cristion	x		
Hindŵ		x	
Dyneiddiwr		x	
Iddewig		x	
Mwslim		x	
Sïc		x	
Arall		x	

**Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Pe bai'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei ddwyn ymlaen, fel yr amlinellir yn Opsiwn 1, cynigir bod 32 o leoedd meithrin rhan amser yn cael eu darparu i ddatblygu parhad a dilyniant yn nysg plant o dair oed ymlaen.

Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn cynnig dull cyson o addysgu a chynllunio er mwyn datblygu parhad a chynnydd yn nysg plant o dair oed ymlaen, a chyfrannu at godi safonau trwy'r ysgol.

Byddai derbyniadau i'r ddarpariaeth feithrin arfaethedig yn cael eu gweinyddu gan Gorff Llywodraethu'r ysgol yn unol â Pholisi Derbyn cyhoeddedig yr ysgol.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor / Cyrff Llywodraethu ar gyfle cyfartal.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

**Rhyw**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol/]** ar ddynion a/neu fenywod?

	Bydd	Na fydd	Dd/B

Dynion		x	
Menywod		x	

**Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol/]** ar y grwpiau canlynol?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Deurywiol		x	
Dynion Hoyw		x	
Menywod Hoyw/Lesbiaid		x	
Heterorywiol/Syth		x	

**Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

--

### Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

A ragwelir y bydd y newid yn lleihau neu'n cyfrannu at anghydraddoldeb canlyniad, o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? (e.e. a fydd y newid yn cael effaith negyddol ar y rheini sydd ar incwm isel, neu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig)

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Effaith economaidd-gymdeithasol		x	

### Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Mae polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Cyngor nodi'r themâu a'r ymrwymadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf gan ganolbwyntio'n gryf ar roi plant a phobl ifanc yn flaenllaw yn eu huchelgeisiau ar gyfer y ddinas. Yn ganolog i hyn yw'n cred cryf mai addysg dda yw'r llwybr mwyaf sicr allan o tlodi ac, yn ei dro, fod ffyniant hirdymor y ddinas yn dibynnu ar gefnogaeth gadarn i'n plant a'n pobl ifanc wireddu eu potensial.

Mae addysg yn cael ei nodi'n gyson fel y brif flaenoriaeth i blant a phobl ifanc Caerdydd. Mae'n hawl gymdeithasol a diwylliannol allweddol sy'n chwarae rôl hanfodol mewn trechu tlodi ac anfantais.

Mae dadansoddiad o ddata'r cyfrifiad ysgol (CYBLD) yn cadarnhau, ar hyn o bryd, fod gwahaniaethau sylweddol yn y data demograffig rhwng rhai o ysgolion yr ardal.

Mae data demograffig, gan gynnwys cymhwysedd disgyblion ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim, Ethnigrwydd, iaith gartref, lefel cymhwysedd caffaeledig yn Gymraeg neu Saesneg, a symudedd disgyblion (faint o blant sy'n trosglwyddo i mewn ac allan o ysgol) yn wahanol iawn rhwng Ysgol Mynydd Bychan a phob un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ceisio darparu cydbwysedd priodol o leoedd lle mae pob math ysgol ar gael i bob grŵp a chefnogir pob ysgol i fod yn hygyrch, ac i gael eu gweld yn hygyrch, i bob grŵp.

Opsiwn 1 fyddai'n cael yr effaith wahaniaethol gadarnhaol fwyaf ar blant gan y byddai'r opsiwn hwn yn darparu patrymau mwy cynaliadwy yn economaidd o ddarpariaeth ysgolion dros y tymor hir ac yn cefnogi ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol mewn patrwm gwell o ddarpariaeth drwy uno. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i ysgolion ddyrannu cyfran uwch o'r gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr, darparu gwell cydbwysedd rhwng y lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a Chymraeg sydd ar gael a chynnal y nifer presennol o leoedd ysgol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mabwysiedig y Cyngor 2022-2032 yn gosod targedau penodol ac yn nodi llifoedd gwaith blaenoriaethol i'r Cyngor a phartneriaid fel ysgolion, gan gynnwys menter beilot ymchwil gyda Caerdydd Ddwyeithog, arolygon rhieni a grwpiau ffocws, er mwyn deall yn well y rhesymau dros ymgymriad isel lleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn grwpiau a chymunedau penodol a dangynrychiolir (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ochr yn ochr â hyrwyddiadau pwrpasol.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.

Byddai angen i unrhyw gynigion sy'n cael eu symud ymlaen ystyried yn llawn yr ymrwymadau a nodir yn 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' a sut y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r rhain.

**Y Gymraeg**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol/]** ar yr iaith Gymraeg?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Y Gymraeg	x		

**Rhowch fanylion / canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Byddai effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ar gyfer yr oedran cynradd.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor yn nodi cyfres o ymrwymadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Mae'r CSCA yn ymrwmo'r Cyngor i sicrhau capasiti ledled y ddinas yn y sector cyfrwng Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir ar oedran Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio. Mae hyn yn cynnwys darparu capasiti cyfrwng Cymraeg newydd ar lefel gynradd erbyn 2025 - 2026. Rhagwelir y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Mae'r cynigion yn ceisio bod yn gyson â Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog ac yn cefnogi'n gryf strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy gyfrannu at gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050.



Mae'r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i'r Deilliannau CSCA canlynol:

- Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ysgolion yn gwasanaethu ystod amrywiol o gymunedau ac yn adlewyrchu eu poblogaeth leol i raddau helaeth, fodd bynnag, cydnabyddir bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd ar hyn o bryd yn llai amrywiol nag ysgolion cyfrwng Saesneg ac nad ydynt yn adlewyrchu eu cymuned disgyblion leol wrth ystyried data fel ethnigrwydd, iaith y cartref a data economaidd-gymdeithasol. Mae targedau a ffrydiau gwaith o fewn CSCA mabwysiedig Caerdydd yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Byddai'r cynigion yn cael mwy o effaith ar y boblogaeth sy'n agosach at yr ysgol nag ar y ddinas yn ei chyfanrwydd.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid yn y Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae'r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwmo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni'r targedau yn CSCA Caerdydd, ac i gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau genedigaethau, y boblogaeth sy'n debygol o ddeillio o dai newydd a'r patrymau o ran nifer y plant sy'n mynd i ba ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.

Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor ehangu'r ddarpariaeth ysgolion mewn modd strategol ac amserol nad yw'n amharu ar y ddarpariaeth bresennol. Mae'n anochel y byddai darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n ehangu'n sylweddol neu'n gyflym yn cael effaith ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion eraill ac, yn ei thro, ar allu ysgolion i gydbwysu cyllidebau ac i ddenu neu gadw staff.

Mae dyheadau'r Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn cynnig newid sylweddol. Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau cenedlaethol i addysgu 40% o ddysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, a 30% arall o ddysgwyr mewn ysgolion Saesneg lle deuent yn rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tua 17% o blant Caerdydd sy'n dechrau addysg gynradd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion neu ddisbarthiadau Cymraeg.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal, ac yn ceisio gweithredu'r newid yn y fath fodd fel y cyfyngir ar y potensial i gael effaith negyddol ar ysgolion sy'n bodoli eisoes.

Mae perygl y gall darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg atal y twf mewn ysgolion lleol eraill; fodd bynnag, mae CSCA Caerdydd yn nodi ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu gwaith hyrwyddo wedi'i dargedu ar y cyd â Chaerdydd Ddwieithog i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle mae galw isel.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Gweler uchod.

### **Ymgynghori ac Ymgysylltu**

Pa drefniadau a wnaed i ymgynghori/ymgysylltu â'r gwahanol grwpiau cydraddoldeb?

Byddai Swyddog Hygyrchedd y Cyngor yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynllun ar y newidiadau arfaethedig.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chynhwysol wedi'i gynnal ac ystyriwyd y safbwyntiau a fynegwyd yn briodol fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

## Crynodeb o Gamau Gweithredu (a restrir yn yr Adrannau uchod)

	<b>Camau Gweithredu</b>
Oedran	<p>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu lleoedd disgyblion i fodloni anghenion pob disgybl yng Nghaerdydd. Fel rhan o'r dull strategol hwn, rhagwelir y galw ar sail:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>- Lefel y boblogaeth y gwyddys sy'n byw ym mhob ardal yn ddiweddar ac yn hanesyddol, gan ddefnyddio data'r GIG;</li><li>- Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ysgolion Caerdydd yn ddiweddar ac yn hanesyddol ar sail data a wiriwyd o CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion).</li><li>- Canrannau diweddar a hanesyddol y plant sy'n mynychu lleoedd ysgol mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion ffydd Cymraeg a Saesneg.</li></ul> <p>Mae'r galw am leoedd yn cael ei adolygu'n barhaus a chyflwynir newidiadau arfaethedig yn ôl yr angen.</p> <p>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.</p> <p>Mae'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol a sefydlu ysgol dau ddsbarth mynediad newydd yn rhoi staff mewn perygl o ddiswyddiadau a byddai angen rheoli hyn yn unol â'r Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion.</p> <p>Byddai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai'r Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.</p> <p>Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i</p>

	<p>gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer unrhyw staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.</p> <p>Un o ddyheadau allweddol y Cyngor yw lleihau nifer y staff drwy adleoli cynifer ag y bo modd yn hytrach nag ymddiswyddo gwirfoddol neu orfodol. Felly, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosib i staff ysgolion i sicrhau cyflogaeth mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd trwy adleoli i swyddi gwag mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.</p> <p>Byddai'r trefniadau adleoli hefyd yn cael eu hystyried pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i adleoli'r dosbarth Lleferydd ac Iaith o Ysgol Gynradd Allensbank i gylch gwaith Corff Llywodraethu ysgol arall.</p>
Anabledd	<p>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.</p> <p>Mae'n ofynnol bod gan ysgolion Gynllun Cydraddoldeb Strategol a byddent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon.</p> <p>Byddai effaith bosibl unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth Lleferydd ac Iaith bresennol ar ddysgwyr y dyfodol yn parhau i gael ei hasesu a bydd camau yn cael eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau gwahaniaethol y gellir eu nodi yn ddiweddarach.</p>
Ailbennu Rhywedd	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Hil	<p>Mae ysgolion yn gwasanaethu ystod amrywiol o gymunedau ac yn adlewyrchu eu poblogaeth leol i raddau helaeth; fodd bynnag, cydnabyddir bod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn llai amrywiol nag ysgolion cyfrwng Saesneg.</p> <p>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu. Rhaid i'r Cyngor felly sicrhau, wrth gyflwyno cynigion ac ar ôl gweithredu cynigion, bod pob un o'r ysgolion yn cael cefnogaeth i ddiwallu anghenion</p>

amrywiol y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt a bod pob un yn gallu datblygu cyfle cyfartal i holl deuluoedd yr ardal.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd, a fabwysiadwyd ym mis Medi 2022, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd y gellir ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant o bob cefndir sy'n mynychu.

Mae'r cynllun yn gosod targedau penodol ac yn nodi lliffoedd gwaith blaenoriaethol i'r Cyngor a phartneriaid fel ysgolion, gan gynnwys menter beilot ymchwil gyda Caerdydd Ddwylieithog, arolygon rhieni a grwpiau ffocws, er mwyn deall yn well y rhesymau dros ymgymriad isel lleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn grwpiau a chymunedau penodol a dangynrychiolir (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ochr yn ochr â hyrwyddiadau pwrpasol. Mae'r gwaith yma ar y gweill.

Dylai unrhyw newidiadau arfaethedig geisio darparu cydbwysedd priodol lle mae pob math ysgol ar gael i bob grŵp a chefnogir pob ysgol i fod yn hygyrch, ac i gael eu gweld yn hygyrch, i bob grŵp. Bydd y gwaith sydd ar y gweill i ddeall dewisiadau rhieni a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd ym mhob cymuned yn well, ochr yn ochr â gwella gwelededd cyfrwng iaith a chyfleoedd trochi sydd ar gael, yn targedu'n uniongyrchol yr ymgais i leihau'r anghyfartaledd rhwng data demograffig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. Byddai'r ddarpariaeth a gynigir yn hygyrch i

	bob grŵp ethnig a byddai angen sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.
Crefydd/Cred	
Rhyw	
Cyfeiriadedd Rhywiol	
Effaith economaidd-gymdeithasol	<p>Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mabwysiedig y Cyngor 2022-2032 yn gosod targedau penodol ac yn nodi llifoedd gwaith blaenoriaethol i'r Cyngor a phartneriaid fel ysgolion, gan gynnwys menter beilot ymchwil gyda Caerdydd Ddwieithog, arolygon rhieni a grwpiau ffocws, er mwyn deall yn well y rhesymau dros ymgymieriad isel lleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn grwpiau a chymunedau penodol a dangynrychiolir (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ochr yn ochr â hyrwyddiadau pwrpasol.</p> <p>Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.</p> <p>Byddai angen i unrhyw gynigion sy'n cael eu symud ymlaen ystyried yn llawn yr ymrwymadau a nodir yn 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' a sut y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r rhain.</p>
Y Gymraeg	
Cyffredinol / Trosfwaol (yn berthnasol i'r holl grwpiau uchod)	

## Y Camau Nesaf

Dylid cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn (a restrir yn y Crynodeb o Gamau Gweithredu) fel rhan o Gynllun Busnes eich Gwasanaeth i'w monitro'n rheolaidd.

Ar ôl cwblhau'r Aseiad hwn, sicrhewch fod y ffurflen yn cael ei chyflwyno i flwch post y Tîm Cydraddoldeb fel bod cofnod o'r holl aseidiadau a gynhelir yn y Cyngor-

[TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk](mailto:TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk)

## B: Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae'r canllawiau ar gyfer Llywodraeth Leol a baratowyd gan Unicef ar gael yma: [Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant - Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant \(unicef.org.uk\)](#)

Am ragor o wybodaeth neu gymorth i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, cysylltwch â Thîm Caerdydd sy'n Dda i Blant [CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk](mailto:CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk)

### CAM 1: DIBEN/CWMPAS

#### **Beth yw'r polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth?**

#### **Crynowch/disgrifiwch ei nodau cyffredinol ac unrhyw nodau sy'n benodol i blant.**

Mae'r adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad ar gynigion ynghylch darpariaeth lleoedd ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2023, cytunodd Cabinet y Cyngor ar argymhelliad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau i ehangu darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfuno darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fel a ganlyn:

#### Opsiwn 1

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96
- Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone:
  - Cau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol
  - Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol
  - Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
- Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol

#### Opsiwn 2

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank

- Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96
- Cydleoli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir:
  - Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
  - Lleihau capasiti Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd (1.5DM) i 210 o leoedd (1DM)
  - Lleihau ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol
  - Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol

### Opsiwn 3

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM)
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan
- Lleihau capasiti Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd (1.5DM) i 192 o leoedd (0.9DM)

### **Byddai'r cynnig yn cael ei weithredu'n llawn o fis Medi 2025.**

Dan opsiwn 1 ac opsiwn 2, ystyrid sefydlu'r dosbarth Lleferydd ac laith ar draws y ddinas o fewn yr ysgol newydd neu ei gadw yn lleoliad newydd Ysgol Gynradd Allensbank.

Ystyrid adleoli'r dosbarth Lleferydd ac laith ledled y ddinas a gynhelir gan Ysgol Gynradd Allensbank pe bai Opsiwn 3 yn cael ei ddatblygu.

Byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i hyn mewn ymgynghoriad â chorff llywodraethu'r ysgol berthnasol/ cyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol, gan ystyried dyheadau pob ysgol.

Byddai Opsiwn 2 ac Opsiwn 3 yn gyfle i Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl yn yr ysgolion naill ai drwy gydweithredu neu ffederasiwn.

Pe bai'r ysgolion yn ystyried cyflwyno cydweithrediad neu ffederasiwn ffurfiol, byddai hyn yn cael ei arwain gan y Cyrff Llywodraethu ac yn cael ei gefnogi gan y Cyngor. Byddai unrhyw gynnig i ffederaleiddio yn destun ymgynghoriad ar wahân.

Cynigiwyd y bydd y newidiadau yn:



- cynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr
- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y gymuned leol
- cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog
- cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr
- cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gan un Dosbarth Mynediad (210 disgybl oedran cynradd)
- cadarnhau lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o leoedd gwag.

Yr opsiwn a argymhellir gan ystyried yr holl safbwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yw Opsiwn 1.

**A fydd y polisi/ strategaeth/ prosiect/ gweithdrefn / gwasanaeth yn effeithio ar blant a phobl ifanc? Meddyliwch am ba grwpiau o blant a phobl ifanc y bydd yn effeithio arnyh nhw.**

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â'r cyfnod cynradd ac felly nid ydynt yn berthnasol i ddisgyblion y tu allan i'r ystod oedran hwn.

Ystyriwyd darpariaeth ar gyfer grwpiau oedran nad ydynt yn rhan o'r cynnig hwn y tu allan i'r cynnig hwn.

## CAM 2: ADEILADU AC ASESU

**Pa erthyglau CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) sy'n berthnasol i'r polisi/strategaeth/ prosiect / gweithdrefn / gwasanaeth? Darllenwch yr erthyglau [yma](#) ac ychwanegu unrhyw rai perthnasol at y tabl isod.**

*Mae'r erthyglau sy'n ffurfio pedair Egwyddor Gyffredinol CCUHP wedi'u rhagosod yn y tabl.*

*I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth ar Erthyglau CCUHP, e-bostiwch Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant [CaerdyddSynDdalBlant@caerdydd.gov.uk](mailto:CaerdyddSynDdalBlant@caerdydd.gov.uk)*

**Erthygl 2 (peidio â gwahaniaethu):** Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, gallu neu unrhyw statws arall, beth bynnag maen nhw'n ei feddwl neu'n ei ddweud, beth bynnag yw cefndir ei deulu.

**Erthygl 3 (buddiannau gorau'r plentyn):** Rhaid i fuddiannau pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant.

**Erthygl 6 (bywyd, goroesiad a datblygiad):** Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial.

**Erthygl 12 (parchu barn y plentyn):** Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i dymuniadau ynghylch bob mater sy'n effeithio arno, ac i'r farn honno gael ei hystyried a'i chymryd o ddifri.

**Erthygl 23 (plant ag anabledd):** Mae gan blentyn sydd ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas a, cyn belled ag y bo modd, annibyniaeth ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned.

**Erthygl 28 (hawl i addysg):** Mae gan bob plentyn hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod yn rhad ac am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plant a'u hawliau.

**Erthygl 29 - (nodau addysg):** Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddi annog parch y plant tuag at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at eu rhieni, eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd

**Beth yw effaith debygol/gwirioneddol y cynnig ar hawliau plant? A yw'n gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral?**

*(Os asesir effaith negyddol ar gyfer unrhyw faes hawliau neu unrhyw grŵp o blant a phobl ifanc, rhaid i chi restru ac argymhell opsiynau i addasu'r cynnig neu liniaru'r effaith.)*

Disgwylir i'r effaith ar hawliau plant fod yn gadarnhaol pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddwyn ymlaen.

Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisiau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.

Byddai sefydlu ysgol gynradd Saesneg â dau ddosbarth mynediad, ac ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddosbarth mynediad, yn ategu dysgu ac addysgu drwy alluogi:

- i'r ardal gynnwys mwy o ysgolion dau ddosbarth mynediad. O'i chymharu ag ysgolion llai, mae maint ysgol gynradd â dau ddosbarth mynediad yn cynnig mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion oherwydd canolfan adnoddau wedi'i hehangu a gwell â mwy o sicrwydd ariannol
- gall ysgol â dau ddosbarth mynediad roi mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth, gan gynnwys cynnal nifer llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol.
- byddai'r gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a chymorth yn galluogi'r ysgolion â dau ddosbarth mynediad i gynnig ystod ehangach o arbenigedd cwricwlaidd
- mwy o athrawon i rannu llwyth gwaith ac arbenigedd.
- mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. athrawon newydd gymhwyso all arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog
- cyfleoedd i staff addysgu i'w cryfderau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiad addysg gorau posib
- mwy o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a Chymhwysedd Digidol

- creu mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol
- mwy o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig

Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica yn:

- sicrhau parhad darpariaeth sy'n adlewyrchu ethos a diwylliant yr ysgol
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol rhieni â'r ysgol o'r cyfle cyntaf posibl
- hwyluso'r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (lle mae'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus)
- galluogi adnabod grwpiau sy'n agored i niwed yn gynnar. Byddai hyn yn golygu y gellir nodi anghenion plant mor gynnar â phosibl
- rhoi cyfle i blant fynd i'r ysgol feithrin ar yr un safle â'u brodyr a'u chwiorydd hŷn. Dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau ymarferol posibl wrth chwilio am ddarpariaeth gofal plant arall
- sicrhau parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol.

Byddai mân newid ym mhatrwm dosbarthu lleoedd, fodd bynnag o ystyried agosrwydd safleoedd yr ysgol ni fyddai hyn yn cael fawr o effaith neu ddim effaith ar bellteroedd teithio.

Os bydd Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, gofynnir am farn y plant yr effeithir arnynt yn uniongyrchol (Erthygl 12) fel rhan o'r broses weithredu.

### CAM 3: LLAIS A THYSTIOLAETH

**Ydych chi wedi chwilio am farn a phrofiadau plant a phobl ifanc, ac wedi eu cynnwys? Beth ydych chi'n ei wybod am farn a phrofiadau plant a phobl ifanc sy'n berthnasol i'r cynnig?**

Gofynnwyd am farn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig drwy gyfrwng gweithgareddau ymgynghori/ymgysylltu oedd yn briodol i'w hoedran. Gellir gweld manylion yr ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc a'r safbwyntiau a fynegwyd yn Atodiad 4 ac Atodiad 5.

**Sut ydych chi'n bwriadu adolygu'r polisi/ strategaeth/ prosiect/ gweithdrefn/ gwasanaeth i sicrhau ei b/fod yn parchu, diogelu a chyflawni hawliau plant?**

*Rhowch amlinelliad o'r broses fonitro ac adolygu ar gyfer gweithredu a/neu gyflwyno'r cynnig a sut y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses hon.*

Ceisir barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig drwy gyfrwng gweithgareddau ymgynghori/ymgysylltu sy'n briodol i'w hoedran a rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r safbwyntiau a fynegwyd fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Os bydd Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, gofynnir am farn y plant y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt yn uniongyrchol fel rhan o'r broses weithredu.

#### **CAM 4: CYLLIDEB**

**Beth yw'r gyllideb ar gyfer y cynnig hwn? Oes unrhyw rannau ohoni wedi'u neilltuo'n benodol i blant a phobl ifanc?**

Mae'r goblygiadau ariannol sy'n berthnasol i'r newidiadau arfaethedig wedi'u nodi yn yr adroddiad.

#### **CAM 5: CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI**

**Pa gamau sydd wedi eu nodi neu ba newidiadau a wnaed i'r cynnig o ganlyniad i'r asesiad hwn?**

Ceisir barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig drwy gyfrwng gweithgareddau ymgynghori/ymgysylltu sy'n briodol i'w hoedran a rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r safbwyntiau a fynegwyd fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Os bydd Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, gofynnir am farn y plant yr effeithir arnynt yn uniongyrchol fel rhan o'r broses weithredu.

#### **Y Camau Nesaf**

Pan ystyrir bod angen Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, rhaid i chi atodi'r ffurflen wedi'i chwblhau i'r Cabinet neu Adroddiad Penderfyniad y Swyddog. Rhaid hefyd anfon copi drwy e-bost at Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant [CaerdyddSynDdalBlant@caerdydd.gov.uk](mailto:CaerdyddSynDdalBlant@caerdydd.gov.uk)

## C: Aseiad o'r effaith ar y Gymraeg

Ymgynghorwch â Caerdydd Ddwyieithog am unrhyw gymorth wrth gwblhau'r aseiad hwn  
[CaerdyddDdwyieithog@caerdydd.gov.uk](mailto:CaerdyddDdwyieithog@caerdydd.gov.uk)

### Safonau'r Gymraeg 88-97

#### Safon 88

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [cadarnhaol/negyddol]** ar yr Iaith Gymraeg?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	x		
